Bangor University

# DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

## Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai), 1827-1895.

Roberts, Huw Tegid

*Award date:*
2006

*Awarding institution:*
University of Wales, Bangor

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 03. Apr. 2025

# Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai), 1827 - 1895

*Traethawd PhD*


## Huw Tegid Roberts

Prifysgol Cymru Bangor, 2006

*Tiwtor : yr Athro D. Densil Morgan*

Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol


P.C.B LLYFRGELL
U.W.B LIBRARY

## Crynodeb

## Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai) 1827 – 1895


Yr oedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn llawn o ddynion a merched a roddodd yn hael o'u hegni i gefnogi diwylliant Cymru. Mae'r ffaith fod gan gynifer ohonynt enwau barddol yn tystio i'r ymwneud mawr â llenydda ac eisteddfota. Dyma hefyd ganrif fawr enwadaeth yng Nghymru, gyda phenderfyniad y Methodistiaid i ffurfio cyfundeb ar wahân i'r eglwys sefydledig yn 1811 yn nodi dechrau cyfnod cyffrous o ddadlau ar egwyddorion y ffydd rhwng Eglwyswyr ac Ymneilltuwyr, yn enwedig yn y llu o gyfnodolion a gyhoeddwyd ar hyd y ganrif.

Tra canolbwyntiodd rhai o ffigyrau amlwg y cyfnod ar un maes, gan ddod yn enwog am gampau a llwyddiannau yn y maes hwnnw, roedd eraill yn ceisio eu gorau i wneud yr hyn a allent mewn sawl maes. Un felly oedd Ellis Roberts, 'Elis Wyn o Wyrfai' i roi ei enw barddol. Fe'i ganed yn 1827 a bu farw ar ôl bywyd llawn gweithgarwch yn 68mlwydd oed yn 1895. Bu'n felinydd, yn chwarelwr, yn athro ac yna'n offeiriad, gan dderbyn canoniaeth fygedol gan yr esgob Llanelwy ar ddiwedd ei yrfa. Ond nid yr esgyniad arbennig hwnnw o ddechreuadau digon di-nod oedd nodwedd fwyaf arwyddocaol ei fywyd. Fy mwriad wrth ddechrau ar yr astudiaeth hon oedd adrodd am yr argraff a wnaeth fel emynydd, golygydd, llenor, bardd, beirniad eisteddfodol, ac fel offeiriad Cymraeg mewn cyfnod pan wawdiwyd yr eglwys sefydledig am ei diffyg Cymreictod. Rwy'n gobeithio y bydd yr hyn a ganlyn yn goffa teilwng i ŵr bychan o ran corffolaeth a wnaeth gymaint dros ei genedl, ei gyd-ddyn a thros Grist.



*Huw Tegid Roberts*


*10 Awst 2006*

Cyflwynedig i

Dad, Mam,
Ynyr, Eurig ac Eirian

gyda diolch i eraill a fu o gymorth hefyd ar hyd y ffordd

gyda diolch

Yr oedd yn gymeriad llawn iawn fel offeiriad, llenor a chenedlgarwr. Anfynych iawn y cyfarfyddir â chymeriad mor amlochrog ymhlith ein cydgenedl.

*Dyfrig, Ficer Pwllheli,* Yr Haul *Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.184.*

Bu'n llanw llawer cylch o ddefnyddioldeb mawr: ac mae'n haeddu cael ei gofio, nid yn unig fel bardd swynol a llenor coeth, ond hefyd fel esiampl o gymeriad i blant Cymru, ac enghraifft o'r bri a'r mawredd y gall aelod o'r werin ei gyrraedd trwy ymdrechion dyfal a diwyd a hunan-ddiwylliant.

*Gwynedd, (Thomas Edwards, Ficer Llanllyfni),* Y Geninen *13 (1895), t.195.*

Bu farw'r hen Berson yn 1872, a daeth "Elis Wyn o Wyrfai" yn ei le [i Langwm]; gwr llawer callach, er ei fod yn eglwyswr selog...

*Hugh Evans, Cwm Eithin (Lerpwl 1931), t.221*

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| Pennod 1 | |
| i - Y cefndir hanesyddol, crefyddol a diwylliannol | 1 |
| ii - Y llinach deuluol | 18 |
| Pennod 2 | |
| i - Bore oes Ellis Roberts (1827 - c.1849) | 29 |
| ii - Dechrau barddoni a gyrfa ym myd addysg | 37 |
| Pennod 3 | |
| Gadael glannau Gwyrfai, a throi am y Blaenau | 61 |
| Pennod 4 | |
| i - Curad Rhosymedre | 87 |
| ii - Ficer Llanfihangel Glyn Myfyr | 97 |
| Pennod 5 | |
| i - Ficer Llangwm | 118 |
| ii - Y beirniad eisteddfodol | 127 |
| iii - Golygydd cyfnodolion yr Eglwys | 154 |
| iv - Ei waith fel emynydd | 179 |
| v - Llanaber, Llan Cwm Awen ac esboniadau ar yr Efengylau | 222 |
| Pennod 6 | |
| Rhyfel y Degwm | 265 |
| Pennod 7 | |
| i - Diwedd ei oes | 288 |
| ii - Ôl-ysgrif - y llinach deuluol (II) | 304 |
| Pennod 8 | |
| Crynodeb | 308 |
| Atodiadau | |
| 1 - Cyfrolau a thaflenni o'i waith a gyhoeddwyd | |
| 2 - Emynau Elis Wyn o Wyrfai | |
| 3 - Patrwm atgynhyrchiad ei emynau mewn gwahanol gyfrolau safonol | |
| 4 - Bas data cymharol rhwng tri o lyfrau emynau cyffredinol yr Eglwys yn y 19 ganrif | |
| 5 - Ei farddoniaeth eisteddfodol | |
| 6 - Marwnadau a cherddi teyrnged a moliant | |
| 7 - Lluniau | |
| Llyfryddiaeth | |

# Pennod 1

## i - Y cefndir hanesyddol, crefyddol a diwylliannol

> The years between about 1820 and 1895 were the most momentous in the history of modern Wales. It was during that short period – the lifespan of an oldish person as the expectation of life was then measured – that the social consequences of the first stage of industrialization of Wales became apparent, and it was in that period that those consequences would be fully worked out in the transformation of Welsh society.[1]

Roedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn llawer modd yn gyfnod o drawsnewidiad mawr yn hanes Cymru. Yn un peth, anodd – os nad annoeth – fyddai ceisio dirnad cyflwr Cristnogaeth yng Nghymru heddiw heb ddeall arwyddocâd rhai o brif gerrig milltir y cyfnod hwnnw. Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd Eglwys Loegr yn dal gafael ar ei statws fel eglwys swyddogol y wladwriaeth, er gwaethaf twf aruthrol ymysg carfanau'r Ymneilltuwyr yn ystod y ganrif flaenorol. Ond ymhen hanner can mlynedd, roedd y byrddau wedi eu troi o ddifri, gyda'r eglwys sefydledig yn eglwys leiafrifol, a'r clytwaith eang o enwadau Ymneilltuol yn hawlio teyrngarwch mwyafrif Cristnogion Cymru.

Roedd y newid mawr hwn eisoes ar droed cyn 1800, diolch i'r diwygiad Methodistaidd. Dros amser, daeth arferion pregethwrol Howel Harris, Daniel Rowland a'u hefelychwyr yn fwy poblogaidd na dull syber a threfn blwyfol yr eglwys wladol. Erbyn 1811, daeth y tensiynau cynhenid rhwng y mudiad Methodistaidd unigolyddol, profiad ganolog ond a oedd yn perthyn i Eglwys Loegr mewn enw, a hen gyfundrefn awdurdodol hierarchaidd (yn nhyb ei beirniaid) yr eglwys wladol i uchafbwynt, a chrewyd cyfundrefn newydd. Yn anfoddog, ac yntau'n offeiriad yn Eglwys Loegr ei hun, ond yn anorfod, ordeiniodd Thomas Charles 'bregethwyr' Methodistaidd, a chreu cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd. Ymhen deugain mlynedd wedi hynny, y corff Methodistaidd hwn oedd yr enwad anghydffurfiol mwyaf yng Nghymru. O roi nifer y Methodistiaid ochr yn ochr â'r

1 Ieuan Gwynedd Jones, 'People and Protest : Wales 1815 – 1880', yn Trevor Herbert a Gareth Elwyn Jones (Goln.), People and Protest (Cardiff, 1988), t.1

Bedyddwyr a'r Annibynwyr, (a oedd wedi ymwahanu o'r eglwys ers yr ail ganrif ar bymtheg) a'r Wesleaid (a ymneilltuodd yng Nghymru ar ôl 1800 hefyd), ni allai'r eglwys sefydledig bellach deilyngu ei statws fel eglwys swyddogol y wladwriaeth yng Nghymru ar sail ei phoblogrwydd. Tanlinellodd Cyfrifiad 1851 hynny, trwy brofi bod nifer aelodau'r enwadau a ymneilltuodd oddi wrth yr eglwys wladol dair gwaith yn fwy na'r nifer oedd yn mynychu gwasanaethau eglwysi'r plwyf. Rhwng hynny a diwedd y ganrif, daeth galw cyson am ddatgysylltu Eglwys Loegr yng Nghymru, a'i hamddifadu o'i pherthynas freiniol â'r wladwriaeth.

Bu Ellis Roberts yn dyst i'r bwrlwm hwn - fe'i ganed yn 1827, daeth i amlygrwydd gyntaf yng nghanol y ganrif, a bu farw yn 1895. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n felinydd, yn athro, yn offeiriad, yn fardd a enillodd gadeiriau a choronau, yn feirniad eisteddfodol, yn emynydd, a hefyd yn olygydd newyddiadur a chylchgrawn yr eglwys sefydledig yng Nghymru. Bu mewn sefyllfa ddelfrydol i sylwebu ar gynnwrf y ganrif, ac o safbwynt yr eglwys sefydledig yr edrychai ar y ddrama fawr hon. Roedd yn Gymro diwylliedig a chwaraeodd ran amlwg ym mywyd cyhoeddus ei wlad - gan gynnwys holl rwysg yr eisteddfod genedlaethol - ond, yn groes i fwyafrif ei gyd-lenorion, nid oedd yn Rhyddfrydwr nac yn Ymneilltuwr ychwaith. Roedd yn cynrychioli'r garfan o Gymry da, diwylliedig a fu'n byw ac yn gweithio'n ddiwyd o fewn yr eglwys a bardduwyd cymaint am fod yn 'Eingl' ac 'estron'. Gan mai lleiafrif oeddynt, tueddodd hanes i anghofio amdanynt, ond roeddynt yn brawf byw nad pethau cwbl ddigyswllt oedd yr eglwys sefydledig a bywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru'r cyfnod.

Nid oes modd gwadu na fu ymneilltuaeth y Methodistiaid Calfinaidd yn 1811 yn ergyd drom i Gymreictod yr eglwys sefydledig. Rhwygodd ohoni garfan fawr o werin Cymru. Ond nid oedd y rhwyg yn destun syndod, gan fod i'r eglwys sefydledig ei gwendidau – digon ohonynt, a'r rheiny wedi cyrraedd eu heithaf cyn y rhwyg. Roedd offeiriadaeth cryn nifer o'r clerigwyr yn druenus o anghydnaws â phoblogaeth Cymru, a strwythurau'r eglwys yn anaddas i ymdopi â'r byd newydd oedd ohoni yn sgil chwyldro diwydiannol a chynyrfiadau eraill y ddeunawfed ganrif a dechrau'r ganrif ganlynol.

*Cymru'r ddeunawfed ganrif ymlaen, a diffygion yr eglwys sefydledig*

Tra'r oedd yr hadau Methodistaidd yn egino yn y ddeunawfed ganrif, cefn gwlad oedd y rhan fwyaf o Gymru. Mae'n debyg mai Caerfyrddin oedd tref fwyaf Cymru hyd at hynny, yn dref farchnad i ddalgylch a ddibynnai'n gyfan gwbl ar anifeiliaid a chynnyrch llysieuol y tir. Erbyn degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid gormod fyddai dweud bod Cymru gwbl wahanol wedi datblygu. Yn 1801, rhyw gan mil oedd yn byw tu mewn i ffiniau esgobaeth Llandâf (ardal a gynhwysai Sir Fynwy bryd hynny) - ond treblodd y nifer hwnnw erbyn canol y ganrif, ac nid oedd pall ar y cynnydd wedi hynny chwaith[2] - erbyn 1881 dyma'n fras lle'r oedd hanner poblogaeth Cymru'n byw.[3] Llifai pobl o gefn gwlad Cymru a thu hwnt i gymoedd y de, lle cynigiai'r gweithfeydd metel a'r pyllau glo waith amgenach nag amaethu.

Wrth i boblogaeth Cymru gynyddu a chymunedau newydd gael eu ffurfio, ni wnaeth yr eglwys hanner digon i ymateb i'r newid hwnnw, ac arhosodd dulliau'r eglwys o drefnu ffiniau plwyfi a bywioliaethau eglwysig bron yn eu hunfan. Yr unig fodd i wneud unrhyw newidiadau oedd trwy broses seneddol hirhoedlog. Dyna pam mai dim ond lle i 600 oedd yn yr eglwysi a wasanaethai hanner can mil acer plwyfi Aberdâr, Llanwynno ac Ystradyfodwg. Wrth gwrs, roedd yr eglwysi hynny'n ddigonol ar gyfer poblogaeth yr ardal yn y ddeunawfed ganrif, ond roedd y cynnydd mewn poblogaeth mewn rhai plwyfi tebyg i'r rhain, diolch i dwf y diwydiant glo, yn aruthrol. Ym mhlwyf Merthyr, er enghraifft, cynyddodd y boblogaeth o 7,705 yn 1801 i 46,378 hanner canrif yn ddiweddarach. Roedd hynny'n gynnydd o 500%, ac yn Aberdâr, roedd y cynnydd o 900% yn ystod yr un cyfnod yn fwy syfrdanol byth.[4]

---

2 Owain W. Jones, 'The Church in Wales in the nineteenth Century', yn David Walker (Gol.), A History of The Church in Wales (Penarth, 1976), t.155

3 Jones, 'People and Protest', t.2

4 D. Gareth Evans, A History of Wales : 1815 – 1906 (Cardiff, 1989) t.76

De-ddwyrain Cymru a brofodd fwyafrif y newidiadau mawr hyn, ond dwy esgobaeth ogleddol Cymru - Bangor a Llanelwy - oedd cynefin Elis Wyn o Wyrfai gydol ei oes, a phrin y crwydrodd y tu hwnt i'w ffiniau. Nid oedd yr eglwys mewn gwell cyflwr yno chwaith, a hynny oherwydd un arall o brif faglau'r eglwys, sef gwerth isel bywioliaethau. Hynny yn anad dim a olygai fod y rheithor yn aml yn ffigwr dieithr mewn sawl plwyf. Wrth geisio cynnal urddas eu swyddi, fe'u temtiwyd i gasglu nifer o fywioliaethau ynghyd er mwyn cael ffynhonnell incwm ddigonol. Ar y gorau, byddent wedyn yn bustachu'n ddigon aflwyddiannus i gyflawni gofynion y cyfrifoldebau eu hunain, neu'n amlach na pheidio yn apwyntio curadiaid i weinyddu yn y plwyfi ar eu rhan. Canran fechan o gyflog yr offeiriad fyddai'r curadiaid hyn yn ei gael, a byddent hwythau yn eu tro yn gorlwytho eu cyfrifoldebau, gan orfod brysio o wasanaeth i wasanaeth - ar gefn merlyn os oeddent yn ffodus, neu ar droed fel arall. Gan hynny, ychydig iawn fyddai'n cael gwasanaeth cyflawn a chyson gan offeiriad cwbl ymroddedig.

Er gwaethaf y cyni ariannol, nid oedd esgus o gwbl i offeiriaid ddefnyddio gwaddol bywioliaethau yng Nghymru i gynyddu incwm bywioliaethau yn Lloegr, dyweder – ond felly y bu yn aml. Ar un cyfnod, roedd chwech o offeiriaid a oedd mewn enw o leiaf yn dal swyddi yn esgobaeth Llanelwy yn mwynhau incwm cyfun o £13,839 – a mwyafrif y cyfanswm hwnnw'n deillio o fywioliaethau brasaf yr esgobaeth.[5] Go brin, serch hynny, iddynt dreulio fawr o amser yn gofalu am y plwyfi hynny i gyfiawnhau'r cyflog. Byddai'r curadiaid a apwyntient yn ffodus pe derbynient ffracsiwn o'r cyflog a dderbyniai'r ficeriaid am eu llafur. Pe gweithiai'r offeiriaid ariangar ar gyfradd gwaith a fyddai'n teilyngu eu cyflogau chwyddedig, efallai na fyddai cymaint o sôn am eglwys wladol ar drai yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Un arbennig o farus, er enghraifft, oedd George Henry Somerset, mab Dug Beaufort, a dderbyniai gyflog o £1,123 fel ficer Llangadog, Llanelli a Llangenni ym Mrycheiniog, ac a roddai £128 y flwyddyn yr un i ddau gurad am wneud ei waith drosto.[6] Yn gryno felly, nid oedd gwaddoliadau bychain yr eglwys yn cael eu

5 E. T. Davies, Religion and Society in the Nineteenth Century (Llandybïe, 1981), t.54

6 A. Tudno Williams, Mudiad Rhydychen a Chymru (Dinbych, 1983) t.15

defnyddio yn y modd gorau posib, a chyda ffiniau plwyfi yn aros fel ag y buasent ers canrifoedd, roedd yr eglwys mewn sawl man yn gyfan gwbl aneffeithiol ac amherthnasol.

Roedd gan gadeirlannau'r eglwys wrth gwrs eu cabidylau, a fu unwaith yn fodd i wobrwyo offeiriaid dawnus am eu gwasanaeth. Ond camddefnyddiwyd y breiniau hynny hefyd i chwyddo cyflogau bras ffefrynnau'r esgobion, neu rai a oedd yn rhan o deuluoedd tirfeddianwyr cefnog a dylanwadol a oedd yn troi yn yr un cylchoedd â'r esgobion. Nid oedd modd felly i wobrwyo unrhyw offeiriad a ddangosai fymryn o addewid wrth gyflawni ei alwedigaeth.

Deilliai rhan yr ysweiniaid a'r tirfeddianwyr yn sefyllfa druenus yr eglwys yng Nghymru o benderfyniadau gwleidyddol oes Harri VIII, pan fu'r brenin yn gwerthu hawliau gwaddoliadau ei eglwys newydd. Cawsai arian ar fyrder, wrth werthu'r hawliau hyn i dirfeddianwyr i amddiffyn ei hun rhag ymosodiad ar ei deyrnas gan wledydd Pabyddol. Gan hynny, y tirfeddianwyr hyn a'u disgynyddion yn hytrach na'r eglwys fyddai'n mwynhau gwaddoliadau llawer o eglwysi, a hefyd yn aml yn meddu'r hawl i apwyntio offeiriad eu plwyfi lleol. Dywed E. T. Davies:

> In 1831 the total rent-charges accruing to the church in Wales came to £304,563 15s.0d; it would have changed the situation considerably if this income, intended for the parochial clergy, had in fact come to them. ...£67,457 2s.8d. went to lay impropriators, for which it is difficult to find any justification. [7]

Dywedir mai dim ond yr hawl i apwyntio offeiriad ar gyfer un plwyf yn ei diriogaeth oedd gan esgob Llandâf erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sefyllfa a olygai waeth beth fyddai'r anghenion cymdeithasol, diwinyddol a bugeiliol, mai un wrth fodd y sgweier lleol a gâi'r bywioliaethau yn amlach na pheidio. Ychwanega E. T. Davies:

> It was usually these people, and not the bishops, who appointed monoglot Englishmen to Welsh livings, with the result that the incumbent was frequently non-

---

7 Davies, Religion and Society in the Nineteenth Century, t.53

> resident and left the parish (together oftentimes with a number of adjoining parishes) in the charge of a curate who served for a pittance.[8]

Roedd y bonedd, wrth gwrs, wedi hen Seisnigeiddio erbyn y cyfnod hwnnw, ac roedd ystyriaethau ieithyddol, heb sôn am rai bugeiliol, yn bell o feddwl llawer o wŷr y plastai. Nid oedd pobman cynddrwg ag esgobaeth Llandâf yn ôl pob tebyg, ond roedd honno'n enghraifft o gyrhaeddiad eithaf diymadferthedd yr eglwys yn y cyfnod dan sylw. Y tristwch oedd mai yn esgobaeth Llandâf yr oedd yr anghenion bugeiliol mwyaf pan drowyd demograffeg yr ardal wyneb i waered gan y deffroad diwydiannol.

Yn naturiol, gyda chyfoeth yr eglwys ym meddiant y detholedig rai, roedd y dasg o gynnal a chadw'r addoldai gymaint anos - yn enwedig o gofio bod llawer o'r eglwysi wedi eu codi sawl canrif ynghynt. Rhoddai hynny gychwyn ar broses nad oedd modd ei hatal yn hawdd iawn. Gan nad oedd trwch poblogaeth y plwyf yn addoli yn yr eglwys ar y Sul, nid oedd llawer o arian i gynnal yr adeiladau. Roedd hynny o arian a ddeilliai o'r plwyf yn amlach na pheidio yn cyrraedd y cyfoethogion yn hytrach na'r anghenus, ac o ganlyniad roedd adeiladwaith sawl eglwys mewn cyflwr truenus. Roedd y traddodiad Anghydffurfiol mewn cymhariaeth yn llewyrchu, wrth i griwiau adeiladu eu haddoldai ar ôl sicrhau digon o gefnogaeth. Y drefn honno a ffynnai mor eithriadol yng Nghymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel bod capel ymneilltuol wedi ei godi bob wyth niwrnod ar gyfartaledd rhwng 1800 ac 1850. Codwyd capeli lle'r oedd y bobl yn byw, a lle gwelent yr angen am noddfa. Roedd eglwys y plwyf yn aml yn anghydnaws â newidiadau demograffig ardal, ac yn ymddangos yn ddaearyddol (ac yn ddiwinyddol hefyd, efallai), fel rhywbeth ar y cyrion. Yn gwbl groes i hynny, datblygodd y capeli'n ganolfannau bwrlwm diwylliannol a chymdeithasol, gyda'r adeiladau yn aml yng nghanol y rhesi o dai newydd a godwyd i gartrefu gweithwyr y diwydiannau trymion. Roedd y capel yn ganolog i fywydau cynifer, wrth i'r festrïoedd a oedd o fewn tafliad carreg i'w cartrefi gynnig adloniant yn ystod yr wythnos, a'r capeli eu hunain fan cyfarfod modern a phoblogaidd i addoli ar y Sul.

---

8 *ibid,* t.53

Yn wir, tenau iawn oedd y ffin rhwng cymuned a chapel mewn rhai mannau lle roedd Anghydffurfiaeth wedi gafael o ddifrif, fel y dywed Ieuan Gwynedd Jones:

> Because religion was organically a part of society and not something defined by others from above and imposed from without by force of law, it became the means of preserving old traditions and of creating new ones and thus of binding the present to a vivid and meaningful past.[9]

Canlyniad y cyfan felly, fel y dangosodd cyfrifiad crefydd 1851, oedd cwymp ym mhoblogrwydd yr eglwys, a bu apêl gynyddol ymneilltuaeth yn fodd o gyflymu'r cwymp a pheri i'r canlyniadau ymddangos yn hynod anffafriol i ffyddloniaid yr 'hen fam'.

*Eglwys yn atgyfnerthu*

Er iddi ddirywio yn ei phoblogrwydd, camgymeriad fyddai meddwl mai corff cwbl farw oedd yr eglwys sefydledig yng Nghymru yn 1851. Fel y diwygiad Methodistaidd ganrif ynghynt, gwelwyd sawl datblygiad cadarnhaol o'i mewn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hefyd.

Un o ddulliau swyddogol yr eglwys o gydnabod nad oedd popeth fel y dylai fod o'i mewn oedd sefydlu Comisiwn Brenhinol yn 1836 i adolygu ei dulliau o weithredu. Disgrifiodd David Walker y comisiwn fel 'the long overdue reform of the Church's administration'.[10] Yn sicr, roedd angen gwneud mwy na dim ond mân bethau yma ac acw. Awgrymodd y comisiwn y dylid cyfyngu ar hawl offeiriaid ac esgobion i ddal nifer o fywioliaethau ar yr un pryd. At hynny hefyd, trefnwyd fod y cadeirlannau'n cael eu diwygio fel nad oedd cyflogau'r cabidwl yn cael eu camddefnyddio. Aethpwyd ati yn ogystal i adnewyddu ac ailadeiladu eglwysi, ac adeiladu rhai newydd yn ôl y galw. Yn wir, arolygodd yr esgob Ollivant y gwaith o adeiladu, adnewyddu neu ailadeiladu 170 o eglwysi yn esgobaeth Llandâf rhwng 1849 ac 1882.[11]

---

9 Ieuan Gwynedd Jones, Explorations and Explanations (Llandysul, 1981), t.80

10 David Walker, A History of the Church in Wales (Penarth, 1976), t.147

11 *ibid*, t.155

Efallai mai'r newid mwyaf nodedig a ddaeth yn sgil y comisiwn oedd dechrau apwyntio rhagor o offeiriaid ym mhedair esgobaeth Cymru. Rhyw 700 oedd yn gyflogedig yng Nghymru yn 1851, ond erbyn diwedd y ganrif roedd cymaint â 1,543 yn gofalu am fil a mwy o blwyfi a'u hisadrannau.[12] Gwnaed ymdrech yn ogystal i gydraddoli cyflogau offeiriaid, a chadarnhawyd dyletswydd yr eglwys i gynnal gwasanaethau Cymraeg.[13] Ar ben hynny, wrth i ddemograffeg Cymru newid, aeth y comisiwn ati o'r diwedd i ddechrau newid ffiniau plwyfi fel eu bod yn cyfateb i symudoledd y bobl. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gallai'r werin Gymreig ddisgwyl gwell ansawdd o ofal bugeiliol gan yr eglwys wladol nag a gafodd cenhedlaeth eu teidiau.

*Esgobion cydwybodol*

Gweinyddwyd y newidiadau hyn gan do newydd o esgobion a ddisodlodd yr esgobion absennol a fu'n nodwedd amlwg o fywyd yr eglwys yn y ganrif flaenorol. Roedd y to newydd yn cynnwys Thomas Burgess (Tyddewi 1803 – 1825), Edward Copleston (Llandâf 1827 – 1849), Connop Thirlwall (Tyddewi 1840 – 1874), Vowler Short (Llanelwy 1846 – 1870), Alfred Ollivant (Llandâf 1849 – 1882), a James Campbell (Bangor 1859 – 1890). Dyma'r enghreifftiau cyntaf o fath newydd o esgobion Cymreig. Fel y gwelir, buont yn gofalu am eu hesgobaethau Cymreig am gyfnodau cymharol hir – hyd angau yn achos y rhan fwyaf ohonynt. Yn groes i lawer o'u rhagflaenwyr, nid cam at swydd frasach oedd y cyfrifoldebau Cymreig i'r gwŷr hyn. Er i Thomas Burgess adael Cymru am esgobaeth arall yn Lloegr yn 1825, am y ddwy flynedd ar hugain cyn hynny bu'n weithgar tu hwnt yn gofalu am esgobaeth fwyaf Cymru. Barn Rowland Williams, y diwinydd o Lanbedr Pont Steffan, oedd mai ef oedd 'the best English Prelate the Principality ever saw'.[14]

---

12 Davies, Religion and Society in the Nineteenth Century, tt.79 a 82

13 John Davies, Hanes Cymru (Llundain, 1990), t.358

14 Dyfynnwyd yn D. T. W. Price, A History of Saint David's University College Lampeter (Cardiff, 1977), t.1

Nodwedd o'i weithgarwch oedd ei sêl dros adeiladu coleg hyfforddi yn Llanbedr Pont Steffan. Croesawodd Coleg Dewi Sant ei fyfyrwyr cyntaf yn 1827, a thros y blynyddoedd wedi hynny aeth degau o ddarpar offeiriaid Cymru trwy ei ddrysau. Ar ben hynny, Burgess oedd y cyntaf ers dros ganrif i ymdrechu o ddifrif i gael gafael effeithiol ar y Gymraeg, a deall anghenion ieithyddol ei esgobaeth. Fel y dywedodd John Davies:

> Ac yntau'n gredwr selog yng ngwreiddiau anrhydeddus a Phrotestannaidd Eglwys y Cymry, roedd Thomas Burgess yn frwd o blaid offeiriaid a fedrai bregethu yn y Gymraeg, yn arbennig er mwyn gwrthweithio tuedd y Cymry uniaith, yn eu hawydd am wasanaethau yn eu mamiaith, i dyrru i'r capeli.[15]

Yn wir, aeth ymhellach na hynny, gan ddangos diddordeb mawr yn y diwylliant a ffynnai trwy gyfrwng yr iaith frodorol hon a oedd mor estron ac aflafar yn nhyb llawer o'i ragflaenwyr. Yn hynny o beth, bu criw o offeiriaid llengar a oedd yn cydoesi ag ef yn ffodus o ddiddordeb eu hesgob mewn llenyddiaeth Gymraeg a'i awydd i noddi beirdd a llenorion. Nid gormod efallai honni na fyddai sefydliad mor enwog â'r Eisteddfod Genedlaethol wedi datblygu i'r hyn a fyddai rai degawdau'n ddiweddarach heb ddiddordeb esgob Burgess a gweithgarwch 'Personiaid Llengar' y cyfnod.[16]

*'Yr Hen Bersoniaid Llengar', ac offeiriaid isel-eglwysig*

Dechreuodd Gwallter Mechain a W. J. Rees deithio'n rheolaidd o'u plwyfi ym Maldwyn a Maesyfed tua ficerdy John Jenkins ym mhentref Ceri yn 1810 er mwyn trafod llenyddiaeth, casglu llawysgrifau a barddoni. Rhoddwyd y llysenw 'Ifor Hael o Geri' i'r gwestywr yn adlais o lys Ifor Hael, un o noddwyr beirdd enwocaf Cymru'r canol oesoedd. Deuai rhai eraill o'r un anian â Gwallter Mechain a W.J. Rees i Geri hefyd, fel Tom Richards, ficer Aberriw, a'i frawd David (Dewi Silin) ficer Lansilin - cymaint fel i'r criw gael eu cofio'n annwyl wrth yr enw 'yr hen bersoniaid llengar' yn ddiweddarach. Erbyn 1819, roedd y criw yng nghanol bwrlwm trefnu eisteddfod o bwys yng Nghaerfyrddin, a buont hwy ac eglwyswyr lleyg ac ordeiniedig eraill fel Ab Ithel, Carnhuanawc, Ieuan Glan Geirionnydd

15 John Davies, Hanes Cymru, t.349

16 Bedwyr Lewis Jones, Yr Hen Bersoniaid Llengar (Penarth, 1963), t.50

ac Alun yn rhan annatod o drefniant dyrnaid o eisteddfodau tebyg a gynhaliwyd rhwng hynny ac eisteddfod fawr Llangollen yn 1858. Buont hefyd yn cynnal y cylchgrawn cyfoethog *Y Gwyliedydd* tra parodd hwnnw mewn bod rhwng 1822 a 1837. Mewn llawer modd felly, roeddent yn hybu'r diwylliant cynhenid Cymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ceisio Cymreigio bywyd yr eglwys sefydledig rhag iddi golli mwy o'r Cymry i'r seiadau Methodistaidd.

Yn ôl Bedwyr Lewis Jones, nid oedd dim eglwysig fel y cyfryw yn niddordeb yr offeiriaid llengar hyn mewn llawysgrifau a mathau eraill o gelfyddyd. Eto i gyd, roedd eglwyswyr nodedig fel William Morgan, Richard Davies, John Davies o Fallwyd a lleygwyr fel William Salesbury, trwy eu gweithiau hwy, yn brawf o gyfraniad yr eglwys at lenyddiaeth a hyrwyddiad y Gymraeg a'i llenyddiaeth. Mewn cymdeithas nad oedd eto'n gwbl lythrennog, yr offeiriaid hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd rhai o brif gynhalwyr llenyddiaeth eu broydd:

> Ganddynt hwy oedd yr amser, ganddynt hwy yr oedd y dysg, a chanddynt hwy yr oedd y cysylltiadau i fynd ar ôl llawysgrifau a hen bethau – gan rai ohonynt beth bynnag.[17]

Hanner y gwir oedd hynny, fel yr awgryma'r tro yng nghynffon y frawddeg uchod. Eithriadau disglair oedd yr offeiriaid hyn o ran lefel eu dysgeidiaeth ac o ran ei brwdfrydedd dros ddiwylliant Cymraeg. Er bod llawer o'u cyd-offeiriaid yn gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn ddidrafferth, a rhai ohonynt wedi bod mewn prifysgol, ni welai'r mwyafrif ddiben mewn darllen fawr mwy na'r Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Beibl. Ond er hynny, roedd synnwyr cynhenid llawer ohonynt o anghenion eu praidd yn ddi-fai. Roedd symlrwydd eu gweinidogaeth yn debyg iawn i arddull y Methodistiaid, sef eu hoffter o bregethu, y pwyslais ar ddarllen y Beibl, cynnal seiadau, a lle blaenllaw i addysg Feiblaidd yn eu gwaith. Roedd y garfan 'Efengylaidd' hon yn gyffredin iawn yn yr eglwys.

Fel y dywed Roger L. Brown:

---

17 *ibid*, t.6

> An evangelical is one who believes in the supremacy of the Holy Spirit; within Scripture, in conversion, in the life of the church and in the work of its ministry. Holiness of life, prayer, mission and evangelism, are integral to his personal life. And in the life of the Church he desires Biblically based worship, sound and lively preaching, and a corporate identity.[18]

Mae'n werth cyfeirio at dri offeiriad efengylaidd nodedig a ddaliodd swyddi amlwg yn yr eglwys yn ystod y cyfnod. Bu'r Archddiacon John Griffiths (1820-1897) yn flaengar dros syniadau'r efengylwyr, yn enwedig eu sêl dros hybu addysg yng Nghymru. Gwelwyd ffrwyth gorau ei waith tra bu'n gwasanaethu plwyfi Aberdâr a Chastell-nedd, a bu'n galw'n gyson am sefydlu colegau addysg uwch yng Nghymru. Yn ychwanegol at hynny, bu ganddo hefyd ran amlwg yn natblygiad yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod chwedegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac fe'i parchwyd am allu gweld rhinweddau'r enwadau Anghydffurfiol a chanolbwyntio ar y nodweddion cyffredin rhwng Cristnogion Cymru.[19]

Efengylwr arall a apwyntiwyd i rai o brif swyddi yr eglwys wladol yng Nghymru oedd David Howell (1831-1903), a adwaenid orau fel Llawdden yn sgil ei waith barddol. Roedd yn un o ffefrynnau Arglwyddes Llanofer, y fonesig hynod o Fynwy a noddai eisteddfodau a gweithgarwch llenyddol ym Mynwy a thu hwnt. Bu'n gurad i'r Archddiacon Griffiths yng Nghastell-nedd, a threuliodd gyfnod ym mhob un o esgobaethau Cymru, wrth ddod yn archddiacon Wrecsam ac yna'n ddeon Tyddewi ar ddiwedd ei yrfa. Crisialwyd athroniaeth Llawdden yn rhai o'i eiriau olaf, a roddwyd ar gofeb iddo yng nghadeirlan Tyddewi, sy'n datgan ei gred mai 'prif angen Cymru fy ngwlad a'm cenedl anwyl ar hyn o bryd yw adfywiad ysbrydol trwy dywalltiad neillduol o'r Ysbryd Glân.'[20] Bu farw flwyddyn cyn i

---

18 Roger Lee Brown, The Welsh Evangelicals (Tongwynlais, 1986), t.2

19 *ibid.* t.119

20 *Y Cyfaill Eglwysig* (1903), t.4

dân diwygiad crefyddol diweddaraf Cymru afael yn y genedl a gwireddu ei ddyhead, ond fe'i hystyrir fel eglwyswr efengylaidd amlycaf ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[21]

Fodd bynnag, Joshua Hughes (1807-1889) yw'r eglwyswr efengylaidd ei fryd a gododd i'r safle uchaf yn Eglwys Loegr yng Nghymru. Yn 1870, pan benodwyd ef yn esgob Llanelwy, ef oedd y Cymro cyntaf i'w godi'n esgob er dechrau'r ddeunawfed ganrif. Bu'n defnyddio'i ddylanwad yn rhinwedd ei swydd i ddod ag offeiriaid Cymraeg i blwyfi lle'r oedd angen mawr amdanynt, a manteisiai ei hunan ar bob cyfle i bregethu yn Gymraeg.[22]

*Mudiad Rhydychen*

Roedd un ffactor arall yn rhan o adfywiad yr eglwys yn ystod deuparth olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef y mudiad uchel-eglwysig a darddodd, yn bennaf, yn ninas a phrifysgol Rhydychen. Dywedir bod Mudiad Rhydychen wedi deillio o bregeth a draddododd John Keble ym Mhrifysgol Rhydychen yn 1833. Roedd y bregeth fel petai wedi crisialu llawer o syniadau ynghylch diymadferthedd yr eglwys a oedd wedi bod yn ymdroi ym meddyliau sawl un erbyn hynny. Rhan o athroniaeth Keble oedd bod yr eglwys wladol yn etifedd yr eglwys lân gatholig hynafol a sefydlwyd ym Mhrydain yn ystod y bumed ganrif. Gan hynny, roedd gofyn adfer y traddodiad cyfoethog hwnnw o weinidogaeth esgob, offeiriad a diacon yn yr olyniaeth apostolaidd, ac adfywio rhwysg a seremoni ogoneddus yr eglwys. Yn ôl y dyb hon, yr eglwys oedd offeryn dewisedig Duw er iachawdwriaeth. Yn raddol, pregethwyd mwy a mwy o bregethau yn yr un cywair, a rhoddwyd cychwyn i adfywiad a ddaeth â lliw yn ôl i'r eglwys lwydaidd. Byddai'r rhai a ddaeth dan swyn yr adfywiad yn cael eu galw'n 'Dractariaid', ar sail y cyfresi o bamffledi neu 'dractiau' a gyhoeddwyd i hybu'r athroniaeth hon.

---

21 gw. Roger Lee Brown, David Howell : a pool of spirituality : a life of David Howell (Llawdden) (Denbigh, 1998)

22 Roger Lee Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate (Cardiff, 2005), tt. 116-155

Roedd y rhai a ddaeth dan ddylanwad Mudiad Rhydychen ar y cychwyn yn gwrthwynebu Piwritaniaeth ar y naill law a Phabyddiaeth ar y llall, ond tybiodd llawer mai Pabyddion cudd oeddent, a oedd yn ceisio symud yr eglwys wladol yn nes at Eglwys Rufain. Gan hynny, yn araf iawn yr ymledodd syniadau Keble a'i ddilynwyr i'r Gymru wledig, a oedd yn dal i fedi adfywiad efengylaidd y Methodistiaid. Yn wir, cred llawer fod safbwyntiau'r Tractariaid wedi cyfrannu'n fawr at wthio'r Methodistiaid tuag at safbwyntiau'r enwadau ymneilltuol eraill. Serch hynny, rhaid nodi fod un o ffigyrau amlycaf Mudiad Rhydychen, Isaac Williams, yn Gymro. Roedd yn gymrawd yng Ngholeg y Drindod ac yn gurad i J.H. Newman yn Eglwys Fair, Rhydychen. Yn ogystal, roedd y mudiad wedi dylanwadu'n fawr ar un o lenorion amlycaf yr eglwys yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, Morris Williams (Nicander).[23] Ef a gyfansoddodd un o weithiau llenyddol Cymraeg enwocaf y Tractariaid, sef Y Flwyddyn Eglwysig - casgliad o emynau priodol ar gyfer pob Sul a phrif Ŵyl yn y flwyddyn eglwysig. At hynny, dengys astudiaethau rhai fel yr Archddiacon John Pryce ar eglwys hynafol y Cymry[24] fod rhai o urddasolion amlycaf yr eglwys yng Nghymru hefyd wedi closio at syniadaeth gwŷr Rhydychen, gan gynnwys Henry Cotton o Fangor, Deon Bangor rhwng 1838 ac 1862.

Erbyn i Elis Wyn o Wyrfai dyfu'n laslanc, roedd nifer yn edmygu'r gwaith da a ddatblygodd mewn nifer o eglwysi plwyfi yng Nghymru yn sgil y mudiad, a barnai ef ei hunan fod gwaith Nicander ym mhlwyf Llanllechid wedi rhoi cryn lewyrch ar eglwys y plwyf hwnnw.[25] Yn wir, dywedir mai esgobaeth Bangor yn ystod llencyndod Elis a welodd y gorau o waith y Tractariaid yng Nghymru. Roedd 74 o offeiriaid yr esgobaeth yn 1866 wedi derbyn peth o'u haddysg yn Rhydychen, a diau i lawer ddod dan ddylanwad syniadau Keble a'i ddilynwyr yno. Roedd yn arwyddocaol yn ogystal mai esgob Bethell ym Mangor oedd yr unig un o blith yr esgobion a oedd yn cydoesi ag ef a glosiodd at syniadaeth uchel-

---

23 Williams, Mudiad Rhydychen a Chymru, t.55-6

24 John Pryce, A History of the Early Church : a Manual (London, 1869); *idem*, The Church in Wales : a Letter (Bangor, 1872) *idem*, The Ancient British Church : a Historical Essay (London, 1878); *idem*, Yr Eglwys Foreuol (Bangor, 1893).

25 Williams, Mudiad Rhydychen a Chymru, t.55

eglwysig yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg – bu'n esgob yno rhwng 1830 ac 1859, sef tua'r un cyfnod â'r Deon Cotton.[26]

*Perthynas crefydd â'r wasg Gymraeg*

Yn gefndir i'r holl fwrlwm hwn yn hanes yr eglwys, roedd gwasg gyfnodol Gymraeg yn ffynnu, a'r berthynas rhyngddi â Christnogaeth yn hynod o glòs. Yng ngeiriau R. Tudur Jones, roedd yr asiad 'rhwng Cristionogaeth a'r diwylliant Cymraeg mor glos fel na allai dewin ddweud i sicrwydd lle gorweddai'r ffin rhyngddynt.'[27] Os oedd yn gyfnod cyffrous yn hanes crefydd yng Nghymru, dyma hefyd ganrif fawr ei llenyddiaeth gyfnodol. Dechreuwyd cyhoeddi'r *Eurgrawn* - yr *Eurgrawn Wesleyaidd* yn ddiweddarach - yn fisol o 1809, ac yn 1814 dechreuodd gweinidog y Bedyddwyr, Joseph Harris o Abertawe, gyhoeddi'r wythnosolyn Cymraeg cyntaf erioed, *Seren Gomer*. Yn fuan daeth yr enwadau eraill i fynnu eu rhan ym mwrlwm y wasg gyfnodol Gymraeg, ac er iddi ymddangos ychydig yn hwyrach na'r lleill, roedd yr eglwys wladol hithau yn cyfrannu at y bwrlwm ac yn cyfranogi ohono. Lansiwyd *Y Dysgedydd*, er enghraifft, yn enw'r Annibynwyr yn 1821 yn Nolgellau, a dechreuodd yr Undodiaid gyhoeddi *Yr Ymofynydd* yn 1847. Daeth papurau cysylltiedig â Methodistiaeth Galfinaidd i'r amlwg yn ddiweddarach, ond yn 1835 dechreuwyd cyhoeddi dau gylchgrawn a gyffrôdd fyd y cyfnodolion Cymraeg enwadol o ddifrif. Dechreuodd David Owen, 'Brutus' fel y galwai ei hun, olygu misolyn *Yr Haul*. Cynrychiolai'r cyhoeddiad safbwyntiau'r eglwys sefydledig, ac yr oedd yn Geidwadol ei wleidyddiaeth. Yn yr un flwyddyn cyhoeddodd Annibynwyr de Cymru rifyn misol cyntaf *Y Diwygiwr*, a David Rees, gweinidog nodedig yn Llanelli, yn olygydd arno. Go brin y caed erioed ddau gylchgrawn Cymraeg cyfoes (na dau olygydd chwaith) a oedd mor wahanol eu safbwyntiau, ac yng ngeiriau R. T. Jenkins, darllen ymrysonau Brutus a David Rees am yn ail yn *Yr Haul* a'r *Diwygiwr* oedd 'prif gyfrwng addysg wleidyddol y Cymro uniaith o 1835 hyd 1865.'[28]

---

26 *ibid*, t.54

27 R. Tudur Jones, Ffydd ac Argyfwng Cenedl I (Abertawe, 1981), t.17

28 R. T. Jenkins, Hanes Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg : y gyfrol gyntaf (Caerdydd, 1933), t.99

*Yr Haul* oedd prif gylchgrawn Cymraeg eglwys sefydledig y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a phrif gyfrwng llenyddol Brutus, er na dderbyniai nawdd yr eglwys na sylw'n aml iawn gan ei hurddasolion. Serch hynny, rhoddodd Brutus ei holl egni i ladd ar y 'Jacs' (fel y galwai bregethwyr Ymneilltuol nad oedd wrth ei fodd) ac i amddiffyn yr eglwys sefydledig mewn modd digon ysgubol:

> Dychan penrhydd, 'publish-and-be-damned' sydd gan Brutus. Un weledigaeth ganolog, gyfrannol, sydd ganddo sef twyll a 'lwcraeth' y Jacs ; gweld fod teithiau pregethu a phregethu ei hunan wedi mynd yn rhemp ac yn fath o adloniant.[29]

Roedd yn newyddiadurwr tan gamp, ac roedd cynnwrf a sylwadau dadleugar yn denu sylw'r cyhoedd - a chyda'r darllenwyr yn ysu am ddarllen sut y byddai'r naill ochr yn ymateb i haeriadau'r llall y mis canlynol, roedd modd i gyfnodolion fel *Yr Haul* ac *Y Diwygiwr* oroesi. Tra dilornai Brutus wendidau Anghydffurfiaeth, aeth David Rees ati i amddiffyn ei hegwyddorion gorau a tharo ergydion lu yn ôl ar yr eglwys. Drwy'r *Diwygiwr* creodd farn gyhoeddus newydd ar Ymneilltuaeth radicalaidd. Roedd gyda'r cyntaf i ddatblygu perthynas rhwng Anghydffurfiaeth a syniadau gwleidyddol radicalaidd mewn cyfnodolyn Cymraeg.[30] Roedd y ddwy elfen yn asio'n daclus, yn enwedig wrth ystyried y gwrthwynebiad cyffredinol i'r 'sefydliad'. Yn *Y Diwygiwr,* Rhagfyr 1845, dywed David Rees:

> Yn nerth Duw, ni [a] ddaliwn yn mlaen ... masnach rydd, a chrefydd rydd ydyw ein harwyddeiriau ... Am hyn yr ysgrifennwn, y gweddïwn, ac yr ymroddwn, tra fyddo ynom anadl.[31]

O safbwynt wythnosolion hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y seren ddisgleiriaf oedd *Yr Amserau*, wythnosolyn a gyhoeddwyd yn Lerpwl wedi 1843 dan ofal y

---

29 D. Tecwyn Lloyd, 'Newyddiaduraeth', yn Geraint Bowen (Gol.), Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif (Llandysul, 1976), t.97

30 gw. Iorwerth Jones, David Rees : Y Cynhyrfwr (Abertawe, 1971) am gofiant rhagorol iddo.

31 Jones, David Rees : Y Cynhyrfwr, t.74

gweinidog Annibynnol William Rees, neu Gwilym Hiraethog. Roedd nifer o wythnosolion wedi methu dal eu tir cyn dyddiau *Yr Amserau,* o bosib am nad oedd eu cenhadaeth neu eu bwriad yn ddigon penodol, ond roedd gan Hiraethog yr hyn a gredai fyddai'n sicrhau cylchrediad eang i'w wythnosolyn. Yn ei eiriau ei hun:

> ...ymddangosodd llythyrau ' 'Rhen Ffarmwr ' ynddo, yn cynnwys sylwadau ar arferion a defodau y wlad, a helyntion y dydd, y Senedd, &c., wedi eu hysgrifennu yn iaith lafar y werin yn ucheldiroedd Gogledd Cymru.[32]

Anerchai Hiraethog ddarllenwyr *Yr Amserau* trwy gyfrwng *personae* amaethwr dychmygol a fyddai'n ffigwr cyfarwydd yng nghymunedau gwledig y darllenwyr. Rhoddai ei farn ei hun yng ngenau'r 'Hen Ffarmwr', un nad oedd yn malio am ramadeg cywir na pharchusrwydd.

> Mi ddaru i mi feddwl ganweth am syfenu rhwbeth i'w roid ynddo fo ['Rhen Ffarmwr yn sôn am *Yr Amserau*] ; ond yr oedd arna'i ofn na 'naech chi moi roi o i fewn, am nad ydw i yn ddigon o slaig i syfenu yn ramadegol, fel y byddwch chi, y sleigion mawr yma, yn gneud ; ond yr ydw i yn meddwl fod llawer hen wladwr plaen fel fi a fy ffasiwn yn meddu llawn cystal sens a chithe a'ch ffasiwn ...[33]

Dwysaodd Hiraethog ymwybyddiaeth wleidyddol ei ddarllenwyr trwy geisio ennyn empathi â'r Hen Ffarmwr dychmygol o odre Mynydd Hiraethog, Sir Ddinbych. Cynhwysai erthyglau blaen *Yr Amserau* hwythau negeseuon cadarn ar wleidyddiaeth Cymru – Hiraethog ei hun y tro yma'n lleisio barn heb fwgwd. Roedd *Yr Haul, Y Diwygiwr* a'r *Amserau* yn deffro ymwybyddiaeth wleidyddol y Cymry o faterion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac wrth i'r ganrif fynd yn ei blaen roedd gan y gwahanol bleidiau gwleidyddol, a'r gwahanol enwadau wrth gwrs, eu cyfryngau hwylus i gadw'r cwerylon ynghynn.

Byddai Elis Wyn o Wyrfai yn rhan o benllanw'r hanes cynhyrfus hwn, ac yn dyst ac yn sylwebydd ar rai o brif ddigwyddiadau hanner olaf y ganrif. Darganfod mwy am hynny

---

32 T. M. Jones (Gwenallt), Llenyddiaeth fy Ngwlad (Treffynnon, 1893), t.16

33 'Llythurau 'Rhen Ffarmwr', yn William Rees, Helyntion Bywyd Hen Deiliwr (Liverpool, 1878), t.5

yw'r nod wrth ystyried 'Pwy oedd Elis Wyn o Wyrfai?' 'Beth oedd ei gefndir - yn ddaearyddol, heb sôn am ei safbwyntiau gwleidyddol a'i ddaliadau Cristnogol?' 'Pwy fu'n dylanwadu arno yn ystod ei fywyd?' 'Pa anawsterau a wynebodd ar y ffordd?' Ac yn bennaf oll, wrth gwrs, ceisio dehongli sut yr ymatebodd i ddigwyddiadau mawr ei gyfnod, a pha ran a chwaraeodd yn y cwbl.

## ii - Y llinach deuluol

*Robyn Morris - Robin Ddu o Eifionydd*

Gellir olrhain traddodiad barddol teulu Ellis yn ôl at ei daid. Roedd Robert Morris (neu Robyn Morys ar lafar gwlad) yn fab i Morris Roberts ac Elin Williams, Pen Carth, Llanystumdwy. Cafodd ei eni yn 1767, a'i fedyddio yn eglwys Llanystumdwy ar 16 Ebrill 1769.[1] Gellir tybio ei fod yn dywyll ei bryd, gan iddo gael yr enw Robin Ddu Eifionydd yn ddiweddarach mewn cylchoedd barddol. Ni wyddys pryd yn union y dechreuodd farddoni, ond priodola Spinther James y cerddi canlynol i'w enw, sy'n awgrymu iddo ddechrau dysgu'r grefft yn ystod ei arddegau:

> "Yr Hen ŵr o'r Coed"; "Y Tenant a'r Cardotyn"; "Carol Plygain"; "Cerdd er difyrrwch y Tywysog William" – 1788; "Y Cardotyn a'r Cerlyn" – 1788; "Marwnad Robert Roberts" [Clynnog] – 1802; "Cerdd i Mr. Madog a'r Dref" [Tremadog], ac "Ymddiddan rhwng y Fam a'r Ferch" – 1811; "Heddwch" – 1814; "Marwnad Mari Salmon, yr hon oedd aelod seml yn eglwys y Bedyddwyr yn Llanllyfni; hunodd Mawrth 30, 1814, yn 25 oed."[2]

Er na oroesodd y cerddi hyn, mae eu teitlau'n dangos rhai o themâu cyffredin beirdd y cyfnod – o'r arfer i ganu carolau Plygain (a oedd yn gymharol gryf yn Arfon hyd at ganol yr ugeinfed ganrif)[3] i ganu clodydd y teulu brenhinol – arfer a oedd yn arwydd o'r modd yr oedd diwedd yr hen drefn o ganu i fonheddwr lleol am nawdd wedi gyrru'r beirdd i chwilio am wrthrychau eraill y tu hwnt i Glawdd Offa.

Mae'n hysbys hefyd iddo lunio awdl dan y teitl 'Llesoldeb' yn 1799,[4] a chystadlodd yn eisteddfodau Llanddeiniolen yn 1802 a 1803. Gwobr am awdl ar 'Ddedwyddwch' oedd i'w chael yn eisteddfod 1802, ac y mae copi o awdl ar y testun hwnnw yn ei lawysgrifen yn archifdy'r Brifysgol ym Mangor.[5] Testun awdl eisteddfod nesaf Llanddeiniolen oedd 'Rhagluniaeth', a thrachefn, goroesodd copi o awdl ar y testun hwn yn ei

---

1 J. Spinther James, Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru (Caerfyrddin, 1896), t.342

2 *ibid,* t.342

3 Dewi Jones, Cynghanedd, Cerdd a Thelyn yn Arfon (Llanrwst, 1998), t.88

4 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 5018 – 8, 'Llesoldeb gwybodaeth'

5 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 5018 – 5

lawysgrifen ei hunan,[6] ynghyd â pharagraff mewn llawysgrif wahanol sy'n amlinellu ychydig o gefndir yr eisteddfodau hyn:

> Yn niwedd ei annerch 'Agoriad Eisteddfod Llanddeiniolen', dywed Dafydd Ddu Eryri :- "Eisteddfod Llanddeiniolen a gynhaliwyd y 12fed o Dachwedd, 1802. Gytun Peris, Gwilym Peris, Robert Ddu o Eifionydd, a Gwilym Ddu o Fôn, a ganasant Awdlau, ar y pedwar mesur ar hugain, ar y testun Dedwyddwch. Y testun nesaf yw Rhagluniaeth. Yr Eisteddfod a gynhalir dydd Llun y Sulgwyn, 1803, yn Llanddeiniolen."[7]

Eisteddfodau wedi eu trefnu gan Dafydd Ddu Eryri oedd y rhain, ac fe'i cyfrifir ef fel un o ffigyrau amlwg llenyddiaeth Cymru ar ddiwedd y ddeunawfed a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn sicr, ef a osododd ei stamp ar farddoni yn Arfon ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Sefydlodd gymdeithasau llenyddol ar draws y cantref, gan fagu cenhedlaeth o feirdd a adwaenid fel 'cywion Dafydd Ddu'. Yng ngeiriau Thomas Parry, ei gamp fwyaf oedd:

> ...dysgu i ddynion grefft barddoniaeth Gymraeg. Nid cystadlu yn unig oedd eisteddfodau Dafydd Ddu, ond nithio beiau a thrafod y cynhyrchion. ... Safonau beirniadol y ddeunawfed ganrif oedd eiddo Dafydd Ddu, pwyslais trwm ar gywirdeb ffurf o ran iaith a chynghanedd, a chanu eglur a synhwyrol.[8]

Cymraeg y Beibl oedd prif safon Dafydd Ddu, a dilyn yn ôl traed rhai fel Goronwy Owen a Morysiaid Môn a wnâi trwy bwysleisio'r gofyn i feirdd gadw at gywirdeb mesurau a chynghanedd. Yn ei dro, medi o'r athroniaeth honno a wnaeth Robyn, wrth wneud yn fawr o'r cyfle i gael beirniadaeth ar ei waith gan Dafydd Ddu a'i gywion.

Ymysg y llawysgrifau a briodolir iddo, ceir rhai cywyddau ac englynion sy'n cadarnhau ystod ei allu cynganeddol. Nid oes sôn fod y rhain wedi eu cyflwyno ar gyfer cystadlaethau mewn eisteddfodau, ond maent yn brawf ei fod yn fardd o'r iawn ryw. Un enghraifft o'i grefft yw ei gywydd gorchest deg llinell ar hugain ar yr un odl, gyda phob llinell yn dechrau â'r llythyren 'M':

---

6 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 5018 – 7

7 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 5018 – 8

8 Thomas Parry, Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900 (Caerdydd, 1944), t.242-3

Mor ynfyd, am yr unferch
Mor felys wyf, mawr fy serch
Mor ynfyd yw Mireinferch
Mor donnog yw'r fywiog ferch
Morwynig am wir annerch
Mwys dy sail, moes dy serch
Moes i'm gael gafael guferch
Moes heno im seinio serch
Moes lunio maes lannerch
Moes ddau o gusanau serch
Mawr yw trwsiad, Môr traserch
Moes beidio, a suro serch
Moes gennad, yn mysg annerch
Moes i'm wreiddiol siriol serch
Mewn rywfodd mun oreuferch
Moes fwyngu gysylltu serch
Mwyn y lluniwn mewn llannerch
Mwyaf gwobr yn sobr ein serch
Medrusaidd mwy o draserch
Mae i'm calon swynion serch
Mainfin yw gwefus mwynferch
Mêl pêr, ydyw mwynder merch
Mewn irddail, y myn ordderch
Mwyn gennad i siarad serch
Minnau feinwr, myn fi annerch
Mewn cân, od oes, anian serch
Mae gwynfyd, imi Gwenferch
Molais waith, ei melys serch
Mynnaf orsedd mewn eurserch
Myn C. D. T. sobri fy serch.[9]

Ymhellach, dyna'r englyn teimladwy ganddo er cof am Miriam Williams, Cefn Mawr, yn 1831:

Yn blentyn bach gwyn ei gwedd, - o fron mam
        Aeth Miriam i orwedd
    A'r enaid aeth i'r annedd
    Iach, hoew bur uwchlaw bedd.[10]

Ynghyd â'i farddoniaeth gaeth, gallai gyfansoddi'n fedrus yn y mesurau rhydd hefyd, fel y dengys ei 'Emyn ar Ddydd Ympryd', a geir yn y flodeugerdd a olygodd Dafydd

9 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 5018 – 6

10 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 5018 – 8

Ddu Eryri, Corph y Gaingc, ac a gyhoeddwyd yn 1810.[11] Rhestrir ef hefyd fel un o 780 o danysgrifwyr y gyfrol honno.[12] Gwelir tystiolaeth bellach o'i ddiddordeb ym marddoniaeth ei gyfnod mewn llyfryn yn dwyn y teitl Cell Callestr, sef 'awdlau, cywyddau, englynion, carolau a cherddi ar amrywiol destunau' a gasglwyd ynghyd gan William Edwards, Ysgeifiog. Cynhwysa'r gyfrol 'Gywydd ar y gair gwir' gan Robert Iorwerth, Trawsfynydd, oedd wedi ei godi o gronfa Robert Morus, y Melinydd, sef Robert Ddu Eifionydd.[13]

Mewn ôl nodyn i'r 'Emyn ar ddydd ympryd' yn Corph y Gainc, gresynodd Dafydd Ddu nad oedd ganddo awdl o eiddo Robyn wrth law pan aeth ati i lunio'r gyfrol, gan y byddai'n sicr o fod wedi ei chynnwys.[14] Efallai'n wir iddo fwriadu cynnwys detholiad sylweddol o'i waith, gan fod hanesyn ar lafar gwlad, ac a adroddir yn un o rifynnau cyntaf cylchgrawn *Y Geninen,* yn tystio bod Dafydd Ddu wedi casglu cynnyrch llenyddol Robyn ynghyd wrth lunio'i gyfrol, ond iddo eu colli wrth groesi afon Llyfni.[15] Pwy a ŵyr felly faint o gerddi eraill o eiddo Robyn a aeth gyda lli'r afon i fae Caernarfon, na pha werth llenyddol a oedd i'r darnau hynny? Er hynny, mae'n amlwg fod un mor flaenllaw â Dafydd Ddu Eryri yn gweld gwerth yn ei waith.

Gwaith fel llinwr a melinydd oedd priod swyddi Robyn, a chan na chynigiai'r naill na'r llall fawr o gyflog, bu'n anodd gydol ei fywyd i gael dau ben llinyn ynghyd. Bu'n melina yn Edern yn Llŷn, ym Melin Morgan ger Y Groeslon, ym Mryn y Gro yn Llanllyfni, a sawl man arall yn ystod ei fywyd, a chafodd lond côl o blant yn sgil dwy briodas. Pan fu farw, fe'i claddwyd ym mynwent y Bedyddwyr yng Ngarndolbenmaen. Daw hyn ag agwedd arall ar ei fywyd i'r golwg, sef ei fod yn Fedyddiwr o argyhoeddiad. Cymaint oedd ei sêl dros egwyddorion y Bedyddwyr fel iddo lunio

---

11 Dafydd Thomas (Dafydd Ddu Eryri), Corph y Gaingc (Dolgellau, 1810), t.287

12 *ibid*, t. xviii

13 William Edwards (Gol.), Cell Callestr (Trefriw, 1815), t.42 – 44

14 Dafydd Thomas (Dafydd Ddu Eryri), Corph y Gaingc (Dolgellau, 1810), t.288

15 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 13 (1895), t.195

llyfryn yn 1816 dan y teitl Ffurf yr Athrawiaeth Iachus, neu'r Drych Apostolaidd.[16] Eglura'r is-bennawd mai amcan y llyfryn oedd 'profi trwy yr ysgrythurau, [hanesion oedd] yn cadarnhau bedydd mewn oedran' fel egwyddor sylfaenol i'r ffydd Gristnogol. Ar ffurf deialog rhwng cymeriadau o'r enw Thora a Hetel caed ymddiddanion ynghylch:

> Bedydd, Diarddeliad, Aelodaeth Eglwysig Babanod ar derfyn yr hen Oruchwyliaeth a dyfod i fewn yr Efengyl : y gwahaniaeth rhwng y ddau gyfamod – cyfamod Eden a chyfamod Gras : Beth yw Cyfamod Gras : Cyfamod Gweithredoedd, neu Gyfamod Duw ag Adda. A therfyna'r llyfr gydag Emyn ar Fedydd credadun.[17]

Ymysg plant ail briodas Robyn Morris, roedd mab o'r un enw a'i dad, y dywedir iddo fod yn rhannol gyfrifol am ddechrau achos y Bedyddwyr Cymraeg yn Birmingham.[18]

Gwelir felly pa mor bwysig a chreiddiol oedd barddoniaeth ar y naill law, a chrefydd ar y llaw arall, i gymeriad patriarch y llinach o felinwyr barddol hyn, ac nid syndod bod Morris Roberts, mab hynaf Robyn, a'i ŵyr Ellis Roberts i raddau helaethach, wedi etifeddu'r nodweddion hynny yn eu cymeriadau hwythau.

*Eos Llyfnwy – Morris Roberts, a rhai o'i gyfoedion*

Ychydig o hanes Morris Roberts sy'n hysbys erbyn heddiw. Fe'i ganwyd oddeutu 1798, a bu'n barddoni dan yr enw barddol Eos Llyfnwy. Ychydig iawn o'i waith a gyhoeddwyd, ond ceir rhai o'i gyfansoddiadau yn ei lawysgrif ei hunan yn archifdy'r Brifysgol ym Mangor. Ymhlith archifau Broom Hall ceir y cerddi 'Gofal gwr ifaingc am ei gariad ar drom galon' a 'hanes geneth wen a Satan'.[19]

---

16 [Morris Roberts] Ffurf yr athrawiaeth iachus neu'r drych apostolaidd : sef ymddiddan rhwng Thora a Hetel wedi ei brofi trwy yr ysgrythyrau, yn cadarnhau Bedydd mewn oedran; a amcanwyd yn attebiad i lyfr o waith T. Powel, gweinidog yr Efengyl yn Aberhonddu / gan un o aelodau y Bedyddwyr (Caernarfon, 1822)

17 Myrddin Fardd, 'Robyn Ddu Eifionydd', *Y Geninen* 1 (1883), t.238

18 James, Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru, tt.343 a 397

19 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor Broom Hall 57 (ii)

Ceir pedwar llyfryn bychan o'i waith ymhlith llawysgrifau cyffredinol y Brifysgol ym Mangor hefyd. Cyfrol o ddrafftiau ei gerdd 'Breuddwyd y Cristion' yw cynnwys un gyfrol,[20] a'r gerdd honno yn ei ffurf derfynol, 712 o linellau hirion ar fesur rhydd ag odl ar yn ail, yw cynnwys y nesaf.[21] Byrdwn y llith honno yw 'Breuddwyd y Cristion wedi sylwi ar ddull y genedl yn y flwyddyn 1868', a cheir rhestr gynhwysiad ar ei dechrau er mwyn cyfarwyddo'r darllenydd.

Mae'n debyg i'r gerdd hon ynghylch cyflwr y wladwriaeth yn 1868 ddeillio o'i anhapusrwydd gyda chanlyniadau etholiadau'r flwyddyn honno, a buddugoliaethau ysgubol y Rhyddfrydwyr yn 'Lecsiwn Fawr '68. Ceidwadwr rhonc oedd Morris mae'n amlwg, a gwelir eithafoedd hynny mewn dyfyniad o bapur newydd a geir gyda drafftiau 'Breuddwyd y Cristion'. Dywedir yn y tamaid hwnnw o'r *English Churchman* ar gyfer 21 Ionawr 1869:

> Revd J H Gregg M.A. Curate of Cradley nr Birmingham has discovered that the new Prime Minister is the veritable beast of the apocalypse. He writes:
> In the Greek language as some of my reader are well aware each letter represents a certain number, for example in that verse (Rev. XIII. 18) where we find : let him that hath understanding count the number of the beast for it is the number of a man, and his number is six hundred threescore an' six. There in the original the number 666 – is expressed by letters, those letters representing this particular number. The same number, however, can be represented by different combinations of letters which we shall find that the following of Greek letters (which I write in English that all may understand) represent the numbers which when added together make exactly 666 the number of the beast, for it is the number of a man and his number is six hundred three score an' six

| | | |
|---|---|---|
| G(ama) | 3 | |
| L(ambada) | 30 | |
| A(lpha) | 1 | |
| D(elta) | 4 | |
| S(igma) | 200 | |
| T(au) | 300 | |
| O(mieron) | 70 | |
| N(u) | 50 | |
| E(tu) | 8 | |
| | 666 | Gladstone[22] |

20 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4188

21 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4189

22 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4190

Efallai y byddai 'hunllef' yn hytrach na 'breuddwyd' yn air mwy addas i gyfleu'r weledigaeth a oedd ganddo yn y gerdd hon am ddyfodol y wlad dan lywodraeth Ryddfrydol wedi 1868.

Mae cyfrol olaf y gyfres o bedair yn ei lawysgrif ym Mangor yn cynnwys cerddi mewn mesurau rhydd i'r 'Llong Hindoo ar ei chychwyniad i'r Amerig Mis Mai 1842', 'Penill gwrthatebol i'r 'Teetotal'', a'r gerdd 'Eos i Manceinion dros Robert Morys Brawd yn gydnabyth i George Roberts am roddi gwaith iddo'.[23] Yn rhinwedd ei waith fel melinydd y diolchai i George Roberts am ei gwsmeriaeth. Lluniodd gerdd arall yn gysylltiedig â'i waith mewn ymateb i englyn gan Eben Fardd, a oedd yn holi rhywdro am hanes ŷd a yrrodd ato i'w falu. Dywedodd Eben:

> Morys yn ddilys ddylai – wneuthur blawd;
> A thro blin nas gwnelai :
> Anfelus yw na falai ;
> Plwm ar ei ben! P'le mae'r bai?

ac ymateb Morris Roberts oedd y cywydd chwe llinell canlynol:

> Eisin i Ebenezer
> Yn nghyd a blawd parawd per:
> Caf glod bod mewn bai; -
> Dyna ddyfod yn ddifai;
> Cewch chwithau faeth, doreth da
> O buryd, defnydd bara.[24]

Roedd yr awen ar waith felly wrth i beirianwaith y felin falu'r ŷd ym melinau Morris Roberts, ac efallai'n wir mai wrth ei waith yn unig y câi gyfle i farddoni. Ac os oedd yr awen yn ei ysbrydoli i farddoni wrth ei waith, roedd gofyn i'r awen honno fod ar grwydr yn aml, wrth iddo orfod symud o felin i felin i geisio ennill ei damaid.

Gwyddys mai yn Nhyddyn Madyn, 'ar dir y Tryfan Mawr, ym mhlwyf Llandwrog', y ganed Elis Wyn o Wyrfai, felly yno roedd cartref y teulu mae'n debyg ar ddechrau

---

23 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4190

24 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.195

1827.[25] Melin Cae'n y Morfa, Clynnog, oedd eu cartref pan fu Morris yn ymryson ag Eben Fardd, a dywedir mai ym Melin Wyrdaf, gerllaw Dinas, Caernarfon y gweithiai ym Mai 1842. Gwyddys nad mewn melinau yn unig y ceisiodd ennill bywoliaeth. Dywedir iddo dreulio cyfnod fel saer yn chwarel y Cilgwyn, a rhoddodd gynnig ar fod yn llongwr hefyd. Ceir cofnod ar glawr un o'i lawysgrifau barddol iddo fod ar fwrdd y Fenai, sef 'Brig belong to Carnarvon, Griffith Edwards Master' yn 1828. Ymhellach, dywedir mai ar fwrdd y 'Druid Sloop, belong to Carnarvon, Edward Jones Master' ydoedd yn 1831, ac yn 1834 roedd yn berchen ar gwch ei hunan, ac yn teithio rhwng bae Caernarfon a Lerpwl, 'with licence as market boat an tralboat.'[26]

Dywed Gwynedd mewn cofiant i Elis Wyn o Wyrfai mai 'Dyn o ysbryd anturiaethus oedd ei dad; a hynod aflwyddiannus fyddai, fel rheol.'[27] Ni allodd ddal ei afael mewn sawl melin nag ychwaith mewn swyddi ar y môr, ond efallai mai arwydd o galedi dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd hynny'n fwy na dim. Y syndod efallai oedd iddo lwyddo cystal i fagu teulu ymysg yr holl symud, heb sôn am roi awr neu ddwy o'i hamdden at farddoni.

*Cerdd a chân ym mywyd Morris Roberts*

Yn y gyfrol gyntaf o'i farddoniaeth ymysg llawysgrifau'r Brifysgol ym Mangor, ceir llith o gywydd i goffáu Robert ap Gwilym Ddu. Bu'r cywydd yn aflwyddiannus yn Eisteddfod Porthmadog, 1851, ac Ioan Madog aeth â'r wobr gyntaf. Serch hynny, derbyniodd ei gywydd ganmoliaeth gan y beirniad, Eben Fardd, a hoffai'n arbennig y cwpled:

> Su yr afon sy' ryfedd
> Yn wylo wrth basio'r bedd.[28]

---

25 *ibid*, t.195

26 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4190

27 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.195

28 *ibid*, t.196

Dywedir ei fod hefyd wedi cyfansoddi awdl farwnad i'r Parchedig Edward Jones, Curad Parhaol Llandegái,[29] ac mae dyrnaid o'i englynion ar gof a chadw o hyd.

Os oedd bai ar ei farddoniaeth yn gyffredinol, yna hyd ei gyfansoddiadau oedd hynny. A bod yn garedig, gellid dweud na wyddai ble i stopio - o fod yn feirniadol, gellid dweud bod nifer o'r darnau meithion hynny'n gwbl ddiawen. Ychydig iawn o linellau a gyrhaeddodd safon y cwpled y tynnodd Eben Fardd sylw ato yn awdl farwnad Robert ap Gwilym Ddu.

Roedd y gân er hynny'n rhan bwysig o'i fywyd, gan y dywed Gwynedd amdano, 'Yr oedd efe yn gerddor gwych hefyd : ac ar un adeg yr oedd ganddo seindorf bres bur lewyrchus o dan ei addysgiant a'i ofal yn Sarn Meillteyrn.'[30] Pan ddeuai Ellis Roberts i gyfansoddi emynau maes o law, diau y gellid priodoli ei ymwybyddiaeth gerddorol i'r hyn a etifeddodd gan ei dad.

Dywed Y Bywgraffiadur Cymreig i Morris farw ar Orffennaf 25, 1876, ac iddo gael ei gladdu gyda'i wraig Margaret ym mynwent Sarn Mellteyrn.[31] Gerllaw'r fan hon, mae'n debyg, y bu'r ddau yn cadw eu melin olaf. Erys meini coffa'r ddau ym mynwent y plwyf o hyd, er bod yr eglwys wedi ei dymchwel bellach.

*Margaret Jones a'i theulu, Rhostryfan*

Os oedd ochr ei dad yn gyfrifol am ochr farddol cymeriad Ellis, ar lin ei fam y dysgodd ddarllen a gwerthfawrogi llenyddiaeth, ac iddi hi y mae'r diolch am ei ddiddordeb byw mewn darllen. Merch i John Ellis a Mary Thomas oedd Margaret Jones. Dywedir fod rhieni Margaret a'i brawd Ellis Jones yn rhoi:

> ...gwerth mawr mewn rhoddi addysg i'w plant, yr hyn beth ydoedd yn lled anghyffredin ymhlith y dosbarth gweithiol bedwar ugain a chan mlynedd yn ôl.[32]

---

29 J. E. Lloyd ac R. T. Jenkins (Goln), Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, (London, 1953), t.810

30 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.196

31 Lloyd a Jenkins (Goln), Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, t.810

32 John Williams, 'Hen Flaenor', yn O.M. Edwards, *Cymru* 25 (1904), t. 115

Ategir hyn yn yr un erthygl yn *Cymru,* gyda'r gosodiad fod 'talent ac athrylith yn rhedeg fel gwythïen euraidd yng nghymeriad y teulu'. Yn amlwg roedd gan awdur y geiriau hynny, John Williams, feddwl mawr o Ellis Jones a'i deulu, gan fod y geiriau hyn yn rhan o gofiant byr i'r 'Hen Flaenor' hwnnw a fu'n weithgar yng nghyffiniau Rhostryfan ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adroddir yn y llith honno mai chwarelwr yn y Cilgwyn oedd Ellis Jones, lle bu farw yn 57 mlwydd oed. Byddai ei gydweithwyr yn '[t]roi ato ef ... i benderfynu pob dadl a gyfodai ar wahanol faterion.' Ymhellach, bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Caredigion Rhostryfan, Cymdeithas Gynorthwyol Rhostryfan, heb sôn am roi cychwyn ar gyfarfod llenyddol yn y pentref. Cofir amdano yn y cofiant fel blaenor yn bennaf, wrth i hanesion am ei waith yn yr Ysgol Sul a'r gymdeithas ddirwestol, a'i etholiad yn flaenor yn 1847, gael eu dadlennu.

Roedd gan Ellis feddwl mawr o'r ewythr a rannai'r un enw ag ef, a luniodd yr englyn canlynol er cof amdano, sydd wedi'i ysgythru ar garreg ei fedd yn Rhostryfan.

> Lle Ellis ŵr dewisol – mae'n wagle
> Mewn eglwys ac ysgol;
> Llariaidd iawn a llwyr ddenol,
> Dewr yn ei waith, di wyro'n ôl.[33]

Disgrifir Ellis Jones fel un a ddarllenai lawer o lenyddiaeth grefyddol, athronyddol a hanesyddol, ac o ddarllen rhwng y llinellau gwelir bod ei chwaer Margaret yr un mor ddiwylliedig. Er hynny, ychydig o glod oedd i wraig tŷ ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a dyna pam na cheir cymaint o sôn amdani mewn cymhariaeth â'i gŵr Morris, a'i brawd Ellis, mae'n debyg. Gan hynny, mae'r ychydig gyfeiriadau sydd ati – y cyfan yn canmol ei natur ddysgedig – gymaint mwy gwerthfawr, gan eu bod yn dyst fod y wraig hon wedi haeddu mwy o sylw nag a roddai'r oes i wragedd yn gyffredinol. Edrydd Gwynedd yn *Y Geninen* iddi ddysgu ei phlant i ddarllen Cymraeg, gan ddyfalbarhau 'wrth y gwaith canmoladwy hwn gydol tymor y gaeaf'. Â yn ei flaen:

> ...yma mae gennym esiampl ddisglair i famau Cymru. Yr oedd gan fam Elis Wyn ei dyletswyddau teuluaidd : yr oedd yn gofalu am y tŷ a phethau'r byd : ond nid ymfodlonai ar hynny : mynnai ofal pellach am ei phlant : cymerai boen a

---

33 *ibid*, t. 116

> thrafferth i'w dysgu ac i'w hegwyddori, er mwyn eu dwyn i fynnu yn ofn ac athrawiaeth yr Arglwydd.[34]

Mae'n anodd gwybod lle y gellid dechrau olrhain y fath sêl dros addysg yng nghymeriad teulu Margaret Jones. A oeddent yn enghraifft o'r rhai a fanteisiodd yn llawn ar addysg yr Ysgolion Sabothol cynnar, efallai? Yr hyn sy'n ddiymwad serch hynny yw na allai Elis Wyn o Wyrfai fod wedi dymuno cael aelwyd fwy diwylliedig, Cymreig a Christnogol, hyd yn oed os oedd ei dad wedi gorfod codi pac yn gyson. Afraid dweud fod gan y mab feddwl y byd o'i fam, fel y gwelwn yn y penillion a gyfansoddodd iddi, ac a gyhoeddwyd yn *Cymru* O. M. Edwards. Dyfynnir dau ohonynt yma.

Fy ngharu yr oeddit yn faban
  Dihaeddiant yn glaf ac yn iach,
Fy ngharu 'nol tyfu i oedran
  Er nad oedd fy niolch ond bach.

Fe'm cerit ar ôl fy mhriodi
  A rhoddi i arall fy serch,
Dilynai dy gariad a'th weddi
  Ein camrau yn fab ac yn ferch.[35]

Hyd yn oed yn y cyfeiriadau bras hyn at y cefndir teuluol, gwelir tarddiad rhai o'r dylanwadau cynnar ar y bardd, yr offeiriad a'r Cymro diwylliedig, a fu'n drysor yng Nghymreictod yr eglwys sefydledig yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Os bu rhai agweddau o'i fywyd cynnar yn ansefydlog, roedd sylfeini cadarn ei gymeriad eisoes wedi eu gosod yn eu lle yn ystod y cyfnod hwn.

---

34 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.195

35 Elis Wyn o Wyrfai, 'Fy Mam' yn O.M. Edwards, *Cymru* 4 (1893), t.74

# Pennod 2

## i - Bore oes Ellis Roberts (1827 - 1849)

*Ei blentyndod*

13 Chwefror 1827 yw dyddiad geni cydnabyddedig Ellis Roberts, a'r fan lle'i ganwyd oedd 'lle o'r enw Tyddyn Madyn, ar dir y Tryfan Mawr, ym mhlwyf Llandwrog, Sir Gaernarfon'.[1] Camgymrodd rhai trwy dybio mai Tyddyn Madryn oedd enw'r tŷ, ond Madyn heb yr 'r' yn sicr oedd enw'r bwthyn hwnnw, ac felly y nodir ef yng nghyfrifiadau swyddogol y wladwriaeth. Roedd Tyddyn Madyn yn rhan o'r clwstwr o dai a elwir yn Rhos Isaf erbyn heddiw, ychydig tua'r dwyrain oddi ar ffordd yr A487 rhwng Bontnewydd a Dinas, Llanwnda.

Ellis oedd trydydd plentyn Morris a Margaret Roberts. Yr hynaf ohonynt oedd John, a dywedir iddo gael ei eni yn y Gilwern Isaf, sef cartref rhieni ei fam, a'i fedyddio yn eglwys Llandwrog ar 18 Mai 1823. Ganwyd Robert, yr ail fab, ymhen blwyddyn, yn ôl pob tebyg yn Llwyn-y-Gwalch ym mhlwyf Llandwrog. Fe'i bedyddiwyd yntau fel ei frawd yn eglwys y plwyf, a hynny ar 26 Medi 1824 gan y curad, D. Williams. Ganwyd merch yn 1829 o'r enw Mary, a'r tebygrwydd yw iddi gael ei geni tra oedd y teulu'n cadw un o felinau Clynnog, gan iddi gael ei bedyddio yn eglwys Beuno ar 24 Mai. Yng nghyfrifiad 1841 nodir enwau'r canlynol yn ogystal â rhai Ellis, Mary ei chwaer, a'u rhieni. Yn gyntaf, John, a oedd dair blynedd yn iau nag Ellis; yna Ellin [sic], eto dair blynedd yn iau (hynny yw, ganed y ddau ohonynt c.1830, ac mae'n bosib mai gefeilliaid oeddynt); Richard, saith mlynedd yn iau (ganed c.1834); Jane, naw mlynedd yn iau (ganed c.1836); a James, a oedd ddeuddeng mlynedd yn iau nag Ellis (ganed c.1839). Cadarnheir ffeithiau'r enedigaeth olaf yn llyfr cofnodi bedyddiadau Llandwrog, sy'n nodi bedydd bachgen o'r enw James, mab i Morris a Margaret Roberts, a gadwai felin y 'Store House', ar 22 Medi 1839.

Wrth i Morris ddal ati i geisio cynnal ei deulu, parhaodd y teulu i symud yn fynych. Nodwyd eisoes ei fod wedi treulio cyfnodau fel llongwr yn ystod 1828, 1831 a 1834. Gwyddys hefyd ei fod wedi cadw nifer fawr o felinau pan nad oedd ar y môr, a gweithio

1 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 13 (1895), t.195

yn un o chwareli Dyffryn Nantlle. Ceir peth cymorth i wybod ble roeddent yn byw yn y cyfrifiadau a wnaed bob degawd wedi 1841, er mai cofnodi lleoliad ar un diwrnod yn unig a wnâi'r cyfrifiad wrth reswm. Yn fyr felly, ni fu gan Ellis un man penodol y gallai ei alw'n 'gartref' yn ystod ei fabandod cynnar.

Er gwaetha'r ansefydlogrwydd, yr hyn sy'n ddiymwad yw bod y fam wedi ceisio ei gorau i roi sylfaen gadarn o ddiwylliant ac addysg i'w phlant. Wrth i dywydd y gaeaf eu rhwystro rhag crwydro i chwarae, treuliwyd y nosweithiau ar yr aelwyd yn dysgu darllen Cymraeg, gydag Ellis yn ysu am gael yr un cyfle â'i frodyr hynaf. Nododd O. M. Edwards i Ellis ddechrau darllen yr ysgrythurau pan oedd yn bedair oed,[2] ac wedi iddo ddechrau arni nad oedd pall ar ei awch am ddarllen, nac ar y cwestiynau ynghylch y Beibl y ceisiodd gan ei rieni eu hateb. Dywed Gwynedd:

> Byddai ganddo eisiau gwybod beth fyddent yn ei wneyd; ac yr oedd ganddo glust hefyd i'r hyn fyddent yn ei ddweyd. Mynych iawn y byddai yn eu cwestiynu o berthynas i'r llythrennau a'r geiriau. Ac erbyn dechreu haf, er syndod i'w rieni, yr oedd Ellis yn medru darllen llawn cystal a'r un o'i frodyr.[3]

Gan iddo lwyddo cystal, rhoddodd ei fam gopi o'r Testament Newydd iddo fel gwobr. Ymhen ychydig amser, gwobrwyodd ei dad ef ymhellach â chopi bychan o'r Beibl, gan iddo ragori ar ei frodyr mewn cystadleuaeth ddarllen deuluol a gynhaliwyd ar yr aelwyd.

Ychydig sy'n hysbys am ei frodyr a'i chwiorydd, ac eithrio un enghraifft nodedig o ddiddordeb barddol y tad a'r taid yn dwyn ffrwyth yn un arall o'r meibion. Dylanwadodd Richard, y brawd ieuengaf ond un, yn fawr iawn ar un o feirdd mwyaf poblogaidd dechrau'r ugeinfed ganrif, J. Glyn Davies. Yn wir, iddo ef y priodolir y clod am ddysgu Glyn Davies sut i fynd ati i farddoni, a hynny tra bu'n aros gyda Richard a'i briod, Ann, yn eu melin yn Edern yn ystod ei wyliau haf o 1887 ymlaen. Yn ôl ei gofiannydd:

---

2 O.M. Edwards, 'Golygyddion Cymru : II Golygydd 'Yr Haul', *Cymru* 3 (1892), t.20

3 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.196

> John Glyn Davies fuasai'r cyntaf i gydnabod ei ddyled enfawr i'r melinydd ... [ef,] yn anad neb, a fu'n gyfrifol am ennyn ei ddiddordeb mewn barddoniaeth gaeth a rhydd, a sut i werthfawrogi natur yr amgylchedd. Fel y dywedodd, ni wrandawodd disgybl erioed mor astud ar ei athro.[4]

Oni bai am ddylanwad brawd Ellis felly, mae'n debyg na fyddai cenedlaethau o blant wedi clywed sôn am 'Fflat Huw Puw' na cherddi Porthdinllaen.

Ac eithrio'r cerddi enwog a nodir uchod, cyfansoddodd hefyd ddwy gerdd am Felin Edern, gan dalu teyrnged gynnes iawn i'w athro barddol. Mewn cerdd arall dan y teitl Rhosys Mynhadlog, mae'n canu:

> Richard y Felin, gŵr anghyffredin,
> crefftwr yn frenin ar erfyn a choed;
> crefftwr genweiriau, prydydd ar brydiau,
> cyfaill i'r llanciau'n orau erioed.[5]

Dilyn crefft ei dad a wnaeth Richard ar hyd ei oes, fel rhai eraill o'r brodyr mae'n debyg. Ar garreg ei fedd ym mynwent eglwys Edern, rhoddwyd pennill o eiddo'i frawd mawr Ellis:

> O'u golwg dihangodd yr anwyl beth byw
>     Ysgogodd y meddwl a'r teimlad,
> A ceidw mewn effro weithrediad y clyw
>     Y llafar, y llais a'r edrychiad.[6]

*Dechrau llafurio*

Mae'n amlwg fod ei dad yn gweld Ellis yn aeddfedu'n gynnar, gan iddo fynd ag ef i rwbela tra bu yntau'n saer yn chwarel y Cilgwyn. Yn wir, wedi iddo gyrraedd ei arddegau, teimlodd ei fod yn ddigon hen iddo allu cynorthwyo â gwaith y felin hefyd. Fel ei frodyr, bu'n cydweithio â'i dad ym melin Morgan, Llandwrog ac ym melin Pengwern ym mhlwyf Llanwnda. Gwnaeth ei waith yn ddi-lol ac i safon uchel, a chymaint oedd ffydd ei dad ynddo fel iddo ei adael i ofalu am felin Pengwern ar ei ben

---

4 Cledwyn Jones, Mi Wisga'i Gap Pig Gloyw (Caernarfon, 2003), t.48

5 J. Glyn Davies, Cerddi Edern a Cherddi Eraill (Lerpwl, 1955), t.29

6 Jones, Mi Wisga'i Gap Pig Gloyw, t.58

ei hunan wrth i'r teulu symud eto fyth - y tro hwn i felin arall yn y Bontnewydd, melin Wyrdaf - ychydig fisoedd wedyn. Daethpwyd i ddealltwriaeth y byddai'r tad yn cadw golwg ar y melinydd ifanc drwy alw yno'n gyson. Ac yntau oddeutu pymtheg oed, rhoed ef yn gyfrifol am ei felin ei hunan am y tro cyntaf.

Ym Melin Pengwern yr oedd pan gafodd ddamwain a gipiodd fys oddi ar ei law chwith. Mae'n debyg iddo geisio unioni meini malu grawn y felin ac i ddŵr lenwi'r olwyn yn annisgwyl a pheri i'r peirianwaith droi, gan ddal ei fysedd yn yr olwynion cocos. Dywedir ei fod yn ffodus na chollodd ei law yn ei chrynswth, ond roedd y ddamwain yn sicr yn ddigon cas iddo orfod ymatal rhag gweithio am gyfnod sylweddol. Gyda melin Pengwern felly yn faich ychwanegol ar ei ysgwyddau, penderfynodd Morris roi'r gorau i geisio cadw dwy felin, a symudodd ei deulu i Lanllyfni. Yno y byddai eu cartref am rai blynyddoedd o 1843 ymlaen, ac yno, yn y gymdogaeth gerllaw eglwys Sant Rhedyw, y dylanwadodd nifer o bobl ar ddyfodol Ellis.

*Y clochydd cymdogol*

Bu'r teulu'n ffodus o gael cymdogion llengar a chymwynasgar yn Llanllyfni, ac un o'r rhain oedd Robert Ellis, clochydd y plwyf. Nid oedd hwnnw wedi cael unrhyw addysg ffurfiol, a phriodolai hynny o ddiwylliant a oedd ganddo i 'hunan-ddisgyblaeth a llafur dygn gyda'r nos.'[7] Llwyddodd serch hynny, fel Morris, i lunio rhai cerddi, a chyhoeddwyd dwy gyfrol ohonynt, Lloffion Awen Llyfnwy yn 1852, ac yna Carolau Awen Llyfnwy yn 1883 wedi iddo farw. Yn y gyntaf ceir englynion yn croesawu'r llyfr gan Elis Wyn o Wyrfai ei hunan, ac roedd ei dad ac yntau ymysg y tanysgrifwyr haelaf.

> Awen Llyfnwy, yn llifnodd – o fêl byw,
> O'i nwyfawl ben deilliodd,
> Yn ffrwd eglur, ffraw dreiglodd,
> A'r iaith yn bur – wrth ein bodd.
>
> Mysg dail a mwsog Dulyn, - anadlwyd
> Mwyn odlau y Lloffyn;
> Gwyr Nant, gwiriwn hyn,
> A reibiant Awen Robyn.[8]

7 Robert Ellis, Llofion Awen Llyfnwy (Caernarfon, 1882), t.3

8 *ibid*, t.iv

Mae'r Lloffion hynny hefyd yn cynnwys gosodiad o'r 'Te Deum' ar ffurf emyn. Yn ôl Gwynfryn Richards:

> Y mae ei gynnig at arall-eirio'r *Te Deum* yn ddiddorol. Y mae'n amlwg mai ar y cyfieithiad Saesneg y seiliodd ei ymdrech, ac ni fentrodd gyfaddasu mwy nag hanner y gân. Arwyddir hanner gyntaf y gân gan R. E. – Robert Ellis; arwyddwyd yr ail ran gan M. R. – Morris Roberts, melinydd Llanllyfni, yn ddi-os, a thad Elis Wyn o Wyrfai. Canasai Robert Ellis 'Ar Gyfodiad Melin Llanllyfni' pan ail-godwyd y felin gan Morris Roberts ar ôl llosgiad yr un flaenorol...[9]

Cafodd teulu'r felin brofedigaeth fawr ychydig flynyddoedd wedi iddynt gyrraedd Llanllyfni, pan losgodd eu melin i'r llawr. Ar 20 Chwefror 1844 y digwyddodd hynny yn ôl y sôn, a diau fod yr anffawd wedi rhoi ergyd i obeithion y teulu am fymryn o sefydlogrwydd, a hwythau ddim ond newydd ymgartrefu yno wedi crwydro mwy na'u siâr cyn hynny. Adroddir i'r felin gynnau tra roedd ei storfa yn llawn o ŷd. Nid anafwyd yr un o'r teulu, ond roedd y golled ariannol yn sylweddol. Yn wyneb y fath drychineb, roedd caredigrwydd cymdogaeth eglwys Sant Rhedyw yn Llanllyfni yn nodedig, ac roedd y cymorth a gafodd teulu'r felin yn dynodi tro pendant ar eu bywyd nomadig.

Mae dogfen bwysig sy'n adrodd peth o hanes y llosgi, a'r ymdrech i ailgodi'r felin, i'w chael ar hap y tu mewn i glawr y gyfrol gyntaf o farddoniaeth Morris Roberts yn llawysgrifau Bangor. Mae peth o'r llawysgrifen yn anghyflawn ar ymyl dde ac ar waelod y clawr lledr, gan ei fod yn wreiddiol fymryn yn fwy na'r tudalennau o'i fewn, ond gellir gweld mai deiseb ar ran Morris yw byrdwn yr ysgrif. Dyma'r hyn sy'n ddarllenadwy heddiw :

> The humble petition of Morris Roberts ...
>
> Humbly taketh this your petitioner ventured to...
> and fellow seeking with him in his present distressed state; he having ha...
> ..., hereby, been deprived of his all.
> Your petitioner is the unhappy tenant and occupier of the Co...
> On the night of the 20th of February last, by some means utterly unknown to...

9 Gwynfryn Richards, 'Robert Ellis (Clochydd Llanllyfni, 1829-1872)', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon* 22 (1960), t.72

> were the flames that, in a few hours, the whole building and machinery were...
> .... of the property was beyond the poa... of man. The whole amount of proper...
> of which your petitioner, unhappily, leaves the most considerable shame. Your..
> ..Children, several of whom are very young, ventures in the humblest manner to petition...
> cave into their consideration, and deign to help him with their charity to provide...
> Divine Providence to point out to him some means of future support.
> And, your Petitioner, as is duty bound will ...of
> ........................ 1843[10]

Mae'n debyg fod y cais uchod am gymorth i deulu'r felin wedi ei gylchu o amgylch y fro. Mae ei arddull ffurfiol yn awgrymu y gallai fod wedi cyrraedd rhai mor uchel ag Arglwydd Newborough ym mhlasty Glynllifon. O ran y gymdogaeth leol, byddai'n rhyfedd i'r clochydd ganu ar achlysur atgyweirio'r felin pe na bai ganddo ef ryw gyfraniad ymarferol i'r ymgyrch godi arian, ac mae'n debyg iawn fod yr offeiriad hefyd wedi gwneud yr hyn a allai i gynorthwyo ei gymdogion.

*Dylanwad y person plwy' ar y teulu*

John Jones oedd rheithor y plwyf yn ystod y cyfnod hwn. Talodd Gwynedd deyrnged iddo fel un oedd yn 'hynafiaethydd rhagorol, yn Gymro dysgedig, ac yn ŵr gwir genedlgarol.'[11] Dywedir iddo roi benthyg yn helaeth o'i lyfrgell pan oedd Ellis yn awchu am ragor o lyfrau i'w darllen. Pan symudodd y teulu i Lanllyfni yn 1843, nid oedd y dreth ar bapur wedi ei dileu, ac roedd prynu llyfrau yn rhywbeth cymharol ddrud i'r werin ei wneud yn rheolaidd. Nid oedd y fath beth â llyfrgelloedd cyhoeddus yn bodoli, ac felly byddai rhai aelodau dysgedig yn y gymdogaeth yn rhannu eu llyfrau â'u cymdogion. Gan gofio bod y felin dafliad carreg o eglwys y plwyf, roedd y rheithor mewn lle delfrydol i sylwi ar awydd Ellis i ddarllen yn eang. Ymhlith y cyfrolau a roes fenthyg iddo roedd Prydnawngwaith y Cymry, Y Ffydd Ddiffuant, Taith y Pererin, Gweledigaethau y Bardd Cwsg, a nifer o glasuron eraill y Gymraeg:

> Creodd y llyfrau ... awydd mawr [yn Ellis] i geisio cyfansoddi barddoniaeth; a chynhyrchodd yr oll o honynt yn ei fynwes yspryd cenedlgarol cryf, yr hwn a barhaodd i enill nerth hyd derfyn ei oes.[12]

10 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4187

11 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.197

12 *ibid*, t.197

Ymhellach, dywedir iddo ddatgan mewn sgwrs ag un o offeiriaid diweddarach y plwyf fod 'un o'ch rhagflaenoriaid [wedi bod] yn garedig iawn wrthyf'.[13] Adleisir yr un math o ddiolchgarwch gan Robert Jones, Ochr-y-foel, a ddaeth yn weinidog enwog yn Nyffryn Nantlle wedi hynny. Dywedodd hwnnw i'r rheithor fod 'yn nodedig o garedig' wrtho pan roddodd fenthyg llyfrau iddo eu hastudio yn ystod ei blentyndod, a pharhau'n 'gyfaill diffuant' iddo ar hyd ei oes, er gwaethaf eu gwahaniaethau diwinyddol.[14]

Mae caredigrwydd y rheithor a'r clochydd yn cynnig eglurhad posibl i'r newid a ddigwyddodd rywdro yn ystod bywyd Morris, sef newid o fod yn deulu o Fedyddwyr i fod yn eglwyswyr selog. Cofier mai Bedyddiwr oedd tad Morris Roberts, ond ai caredigrwydd y person plwy' a'r clochydd, yn enwedig gan gofio lleoliad melin Llanllyfni, a drodd ei fab at yr eglwys sefydledig, ac a olygai maes o law y byddai Ellis yn gwneud ei farc fel offeiriad yn hytrach na gweinidog gyda'r Bedyddwyr?

*Arddegau hwyr Ellis*

Wedi iddo wella, mae'n debyg iawn iddo ailafael yng ngwaith y felin (gyda'i dad yn Llanllyfni, fe dybir), a phan oedd pethau'n dawel yno, âi i chwarel Cloddfa Lon i gyflawni mân dasgau am gildwrn. Roedd rhesymau addysgol yn ogystal â rheidrwydd i gyfrannu at incwm y teulu y tu ôl i'r ymdrechion hyn, gan eu bod yn cynnig ffyrdd iddo gynilo digon o arian i sicrhau addysg ffurfiol iddo'i hunan maes o law.

Cymraeg, wrth reswm, oedd iaith aelwyd y teulu, a llenyddiaeth yr iaith honno a ddarllenai fynychaf, ond erbyn cyrraedd ei ugeiniau roedd ganddo ychydig o afael ar Saesneg. Dywedir iddo ddechrau ei dysgu mewn ysgolion nos tua chanol ei arddegau, a meistrolodd sgiliau ymarferol eraill, megis cyfrifeg, yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd. Bu hefyd yn dysgu elfennau gramadeg Lladin yng nghwmni meibion rheithordy Llanllyfni, a bu llanc arall o'r enw Owen Roberts yn ddylanwad mawr arno yn y cyfnod hwn, o'r hyn a ddywedir. Ymddengys fod hwnnw'n gynorthwyydd yn un o siopau

13 *ibid*, t.197

14 Owen Davies, Cofiant a Llythyrau y Parch. Robert Jones, Llanllyfni (Llangollen, 1903), t.27. Dyfynnwyd yn Gwynfryn Richards, A Fynn Esgyn, Mynn Ysgol – Datblygiad Addysg yn Nyffryn Nantlle (Y Bala, 1980), t.7

Llanllyfni, ac fe hanai'n wreiddiol o Langybi.[15] Roedd gafael hwnnw ar y Saesneg yn bur dda gan iddo dderbyn addysg ffurfiol yn gynnar yn ei fywyd, ac mae'n debyg y byddai edmygedd o'r llanc hwn (a oedd fymryn yn hŷn nag ef) wedi rhoi sbardun pellach i awydd Ellis am ychydig o addysg ffurfiol. Er nad oes tystiolaeth i gadarnhau hynny, mae'n bosib iawn y gallai John Jones yr offeiriad fod wedi cyflogi Owen Roberts i ddysgu ei feibion i ysgrifennu a darllen Saesneg, a bod Ellis wedi cael ymuno yn y gwersi preifat hynny. Roedd hyn yn arfer cyffredin bryd hynny, wrth i rai â digon o fodd ganddynt gyflogi dynion ifanc dysgedig i ddysgu eu plant, ac estyn gwahoddiad i blant cymdogion llai ffodus ymuno yn y gwersi hynny, yn enwedig os oeddent wedi cael ar ddeall fod y plant hynny'n dangos awydd am ddysg. Dyna, er enghraifft, y bu Meudwy Môn (Owen Jones, 1806-89) yn ei wneud yn Llaniestyn a Biwmares tua'r un cyfnod.[16]

Yn fyr, felly, wrth gyrraedd ei ugeiniau parhaodd Ellis i astudio'r llyfrau Lladin a gafodd trwy law John Jones Llanllyfni, a cheisiodd efelychu ei gyfaill (a'i diwtor, efallai), Owen Roberts, trwy ymgyfarwyddo fwyfwy â'r Saesneg. Nid oes dim llawer yn rhagor sy'n hysbys am Owen Roberts, nac am ei ran ym mywyd Ellis pan symudodd yntau o Lanllyfni. Gan fod ei enw'n un mor gyffredin, ni wyddys a barhaodd i weithio yn un o siopau'r pentref, nac ychwaith a fwriodd ymlaen â'i addysg ei hunan. Er hynny, mae'n ymddangos iddo ef, ac yn enwedig clochydd cerddorol y plwyf a theulu'r rheithordy, chwarae rhannau arwyddocaol yng nglaslencyndod Ellis.

Wedi iddo gyrraedd ei ugeiniau, mae'n amlwg ei fod wedi adennill digon o hyder i ofalu am felin ar ei ben ei hunan eto, a symudodd i felin Cae'n y Morfa yng Nghlynnog am gyfnod o chwe mis er mwyn ennill rhagor o arian iddo'i hunan. Dychwelodd i Lanllyfni i gynorthwyo'i dad wedi hynny, ond bu yng Nghlynnog yn ddigon hir i ddal sylw rheithor y plwyf hwnnw, Robert Williams. Tybir iddo yntau, fel offeiriad Llanllyfni, annog Ellis i barhau â'i addysg. Ni fu'n hir cyn gallu dilyn cyngor y clerigwyr, a dychwelyd i blwyf Clynnog er mwyn dechrau ar ei addysg ffurfiol.

15 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.197

16 J. E. Lloyd ac R. T. Jenkins (Goln), Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940 (London, 1953), t.470: "... [bu'n] athro teuluol mewn gwahanol gartrefi, ac yn cadw ysgol yn Llanddona, Llangoed, a Phenygarnedd."

## ii - Dechrau barddoni ac addysg gynnar

Roedd yr arian yr oedd Ellis wedi llwyddo i'w gynilo ar ôl ei gyfnod ym melin Cae'n y Morfa yn ddigon i'w gynnal am ddwy flynedd o addysg ffurfiol. Ac yntau'n 23 oed, rhoddodd y gorau i felina ac ymorol am addysg amser llawn dan adain Ebenezer Thomas, 'Eben Fardd'. Tua'r cyfnod hwn, oddeutu 1849, yr eginodd y bardd ynddo hefyd, ac y dechreuodd dylanwad y llyfrau a gawsai i'w darllen o lyfrgell John Jones Llanllyfni ddod i'r amlwg. Byddai egin fardd, a oedd hefyd yn ddisgybl awchus am addysg, yn sicr wrth fodd Eben Fardd, ac yng nghwmni ei gilydd y bu'r ddau dros aeaf 1849-50, gan ddechrau ar gyfeillgarwch hir ac agos.

*Ysgol Eben Fardd*

Symudodd Eben Fardd o fro ei febyd yn Llangybi, Eifionydd, i gadw ysgol yng Nghlynnog yn 1827. Yno y bu'n byw ac yn addysgu hyd ei farwolaeth yn 1863. Nid oedd Eben yn eithriad yn ei ymdrech i geisio cynnal ysgol ar ei fenter ei hunan yn ystod y cyfnod hwn – fel y nodir isod, aeth Glasynys i ysgol debyg ym Mron y Foel, ac roedd Dafydd Ddu Eryri wedi treulio cyfnodau'n cadw ysgolion yn Llanddeiniolen, Betws Garmon, Waunfawr, Llanrug, Llanberis a Llandwrog.[1] Yn debyg i ysgolfeistri eraill y cyfnod,[2] mae'n debyg y byddai'n cael cyflog o ddeutu £26 y flwyddyn trwy gyfrwng taliadau disgyblion ei ysgol, a byddai'n ceisio cynnig arweiniad ar amrywiaeth o bynciau am y cyflog hwn. Er hynny, ei ddiddordeb mewn llenyddiaeth, ac yn enwedig barddoniaeth, oedd nodwedd amlycaf ei wersi.[3] Byddai hynny'n sicr at ddant Ellis o ystyried traddodiad barddol y teulu, ac roedd y cyfeillgarwch rhwng Eben a Morris, tad Ellis, yn siŵr o fod wedi cyfrannu at ei benderfyniad i fynd i Glynnog am ei addysg elfennol ffurfiol.

Byddai nifer wedi cyrraedd eu harddegau cyn dechrau mynychu ysgolion tebyg i rai Eben, a rhai, fel Ellis, wedi cyrraedd eu hugeiniau hyd yn oed. Yn ôl tystiolaeth prifathro Llandwrog, roedd rhieni'r cyfnod yn awyddus i'w plant gael addysg, ond

---

1 J. E. Lloyd ac R. T. Jenkins (Goln), Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940 (London, 1953), t.883

2 Emyr Hywel Owen ac Elfed Thomas (Goln) Atlas Sir Gaernarfon (Caernarfon, 1954), t.12

3 H.P. Roberts, 'Yr Academïau Anghydffurfiol yng Nghymru (1662-1862) rhan III', *Y Llenor* 16 (1937), t.244

roedd cyfyngiadau ariannol yn aml yn eu rhwystro rhag gwireddu'r dyhead hwnnw, neu ar y gorau yn eu gorfodi i yrru eu plant i weithio am hanner y flwyddyn mewn chwareli ochr yn ochr â hanner blwyddyn o ysgol, a hynny'n aml cyn bod y plant yn ddeng mlwydd oed.[4] Fel cam nesaf i'r rhai prin hynny a allai fforddio bwrw ymlaen â'u haddysg, roedd ysgol ramadeg ym Mangor (ysgol Friars), ond roedd gan ysgolion tebyg i honno gysylltiad â'r eglwys wladol, ac felly, ychydig iawn o'r werin anghydffurfiol oedd yn eu mynychu. At hynny, disgwylid i'r disgyblion wybod ychydig o Ladin cyn mynd i ysgol ramadeg, ac roedd hynny'n rhwystr pellach i lawer.

Ni fyddai prifysgolion yn cael eu sefydlu yng Nghymru am genhedlaeth neu ddwy eto, a heb gyfrif Coleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, pethau digon prin oedd sefydliadau addysgol yng Nghymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Byddai bonheddwyr yn aml naill ai'n gyrru eu plant i ysgolion preswyl dros y ffin, neu'n cyflogi tiwtoriaid i gynnig addysg breifat i'w plant. Yma ac acw, fe geid sefydliadau tebyg i un Eben Fardd, yn cynnig gwersi darllen ac ysgrifennu, ynghyd ag ychydig o fathemateg i gynorthwyo darpar fasnachwyr a morwyr hefyd, a oedd yn dibynnu ar allu mathemategol i osod cwrs. Gwnaed ymdrech benodol i ddysgu Saesneg i'r disgyblion hefyd, a daeth hynny'n fater o bwys pan gyhoeddwyd adroddiadau Comisiwn Brenhinol ar gyflwr addysg yng Nghymru yn 1847, adroddiadau a briodolai gynifer o ffaeleddau'r Cymry i'w hanallu i ddarllen ac ysgrifennu yn Saesneg.

Pan ymwelodd yr Arolygwyr â Sir Gaernarfon, nodwyd bod 47 o ysgolion y Gymdeithas Genedlaethol ag 21 o ysgolion eraill (fel un Eben) rhwng Ynys Enlli a Phen y Gogarth.[5] At hynny, erbyn 1850 roedd y Gymdeithas Genedlaethol wedi sefydlu ysgol ym mhob plwyf yn y sir.[6] Serch hynny, cyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg prin iawn oedd y cyfle i lanciau Dyffryn Nantlle gael addysg. Yng ngeiriau Richard Lloyd, a aned yn Llanllyfni yn 1814, 'Ni chefais ddim ysgol ddyddiol ym moreu fy oes, am nad oedd yr un i'w chael yn nes na Chaernarfon, pellter o tua wyth

4 Owen a Thomas (Goln) Atlas Sir Gaernarfon, t.12

5 Reports of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales, appointed by the Committee of council on education cyfrol 3, (London, 1847), t.3

6 *ibid*, t.4

milltir.'[7] Ymhellach, mewn atgof am daith trwy Benygroes i blwyf Penmorfa yn 1856, cadarnhaodd David Griffith na welodd yntau yr un ysgol ddyddiol ar ei ffordd, ac yn ei farn ef, '...y mae'r rhai bychain i'w gweled yn meirw yma o eisiau dysg.'[8] Hyd yn oed petai ei rieni wedi dymuno i Ellis dderbyn addysg elfennol yn ystod ei arddegau, nid oedd ysgol o fewn cyrraedd iddo tra oeddent yn byw yn Llanllyfni, a bu'n rhaid iddo gynilo i dalu am addysg oedolyn i wneud yn iawn am y diffyg hwnnw.

Nid oes modd bod yn berffaith sicr am ba hyd y bu Ellis yn yr ysgol yng Nghlynnog. Cytunir mai yn 1850 y symudodd yno, ac awgryma O. M. Edwards mai tua diwedd y flwyddyn honno y dechreuodd ar ei astudiaethau yno.[9] Yn ôl tystiolaeth dyddiaduron Eben Fardd, aeth Ellis ac yntau i'r Wyddgrug ar 10 Ionawr 1851 i ddychwelyd cyfansoddiadau y bu Eben yn eu beirniadu, gan ddangos o leiaf fod y ddau mewn cysylltiad agos â'i gilydd bryd hynny.[10] Tybir i Ellis dreulio chwe mis yno,[11] a'r ffaith ddiymwad yw mai dan arolygiaeth Eben Fardd y troediodd gyntaf ar lwybr addysg ffurfiol, er wrth gwrs na ddylid tanbrisio cyfraniad ei fam a'i gymdogion llengar ym more ei oes at yr hyn a wyddai cyn cyrraedd Clynnog.

Roedd yn 23 oed pan ymunodd â'r ysgol yn 1850, a rhaid bod Eben wedi edrych ymlaen at gael ei gwmni yno, gan fod Gwynfryn Richards yn dwyn i gof yr hanesyn canlynol:

> The story is told of Eben Fardd going out to meet him and espying him ultimately coming past Lleufer Fach Farmhouse – a well-built young man, with a satchel of food (loaf, butter, cheese, sugar and tea) slung over his shoulder.[12]

---

7 Asiedydd, 'Richard Lloyd, Douglas Hill, Bethesda', *Cymru* 10 (1896), t.180

8 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor MSS 1636

9 O.M. Edwards, 'Golygyddion Cymru: II. Golygydd "Yr Haul"', *Cymru* 3 (1892), t.209

10 'Dyddlyfrau Eben Fardd', *Y Traethodydd* 43 (1888), t.49

11 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 13 (1895), t.197

12 Gwynfryn Richards, 'The early story of the Schools of Dyffryn Nantlle', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon* 24 (1963), t.254

Roedd Ellis yn lletya gydag Owen Wynne Jones, 'Glasynys', yng Nghlynnog. Cadw ysgol yno oedd ei waith yntau, ond un o ysgolion y Gymdeithas Genedlaethol oedd yr un lle gweithiai Glasynys. Bu wedi hynny'n offeiriad mewn plwyfi ym Môn, Gwent a Gwynedd, a daeth yn enwog yn ei ddydd am gasglu straeon a barddoni ychydig ei hunan. Mae'r tebygrwydd rhwng hanes magwraeth y ddau yn drawiadol. Mae rhai o'r pethau cyffredin hynny'n llai o syndod nag eraill, fel y ffaith mai cwta flwyddyn oedd rhyngddynt, bod y ddau wedi eu geni ar lethrau'r Tryfan Mawr, a bod y ddau wedi gorfod dechrau gweithio ar ddechrau eu harddegau. Er hynny, y mae o werth cyfeirio at dair nodwedd gyffredin arall. Yn un peth, priodolir llawer o'r diolch am eu haddysg gynnar i'w mamau. Canmolir Ann gan Owen Wynne Jones gyda'r un math o eiriau a ddefnyddiodd Gwynedd i bwysleisio dylanwad mam Ellis ar ei mab.

> Yr oedd hi'n gallu darllen Cymraeg yn rhwydd a deallai reolau barddoniaeth i ryw raddau, oblegid cawn Glasynys yn addef mai wrth draed ei fam y dysgodd ei wersi cyntaf mewn barddoniaeth.[13]

Y tebygrwydd mwyaf trawiadol serch hynny yw'r ffordd yr anafwyd y ddau yn ystod eu hieuenctid, a'r modd y bu i hynny roi cyfle i'r ddau ddarllen yn helaeth o gyfrolau fel Drych y Prif Oesoedd.[14] Hynny, maes o law, a arweiniodd at y trydydd tebygrwydd, sef eu haddysg ffurfiol gynnar. Treuliodd Glasynys dri mis mewn ysgol debyg i un Eben Fardd ym Mron y Foel, Dyffryn Nantlle, cyn mynd ymlaen i astudio ymhellach yng Nghaernarfon.

Roedd Glasynys yn ymffrostio bod Ellis Wynne o'r Lasynys, awdur Gweledigaethau'r Bardd Cwsg, yn rhan o'i linach ar ochr ei fam o'i deulu. Dadleuodd John Morris-Jones, serch hynny, nad oedd gwir yn honiadau Glasynys.[15] Ymhellach, edrydd un o gofiannau Ellis bod cysylltiad teuluol rhwng y ddau 'Elis Wyn' hefyd.

> Clywais rywle fod tylwyth Morysiaid Eifion yn gysylltiol ryw ffordd â theulu Wyniaid Sir Feirionydd, a thrwy hynny gallai fod cysylltiad pell rhwng Elis

---

13 Dyfynnir yn Saunders Lewis, Straeon Glasynys (Dinbych, 1943), t.viii

14 *ibid* t.ix

15 *ibid* t.viii

Wyn o Wyrfai a'r bardd anfarwol, o'i gyfenw, Elis Wyn o Lasynys, ond nis gallaf sicrhau y traddodiad.[16]

Beth bynnag oedd y gwir, roedd y ddau ŵr ifanc yn falch o rannu eu diddordeb cyffredin yn llenyddiaeth Cymru tra oeddent yn cydletya yng Nghlynnog. Ceir un hanesyn yn llaw Ellis ei hunan, er enghraifft, sy'n sôn am Glasynys ac yntau'n mynd i weld y bardd gwlad nodedig, Gutyn Padarn, yn chwarel Llanberis yn 1851.[17]

Mae un o lythyrau Glasynys yn awgrymu hefyd fod ei gyfaill wedi ymserchu yn Elin, merch Eben Fardd. Casglodd Mari Ellis fod hynny wedi peri iddo alw'n gyson i drafod ei farddoniaeth yn nhŷ Eben Fardd, fel y gallai fod yng nghwmni Elin yn amlach. A dybiodd Glasynys felly fod yr 'awen', yng ngolwg Ellis, wedi ei hymgorffori ym merch ei athro barddol tra oedd yn byw yng Nghlynnog? Sut bynnag y bu, ni ellir gwadu fod cyfeillgarwch glòs wedi ffynnu rhwng Eben a'i fyfyriwr, fel y tystia Myrddin Fardd wrth gyfeirio atynt yn Enwogion Sir Gaernarfon.[18]

Yr awdurdod pennaf ar Eben Fardd yw E.G. Millward, ond ychydig o gyfeiriadau sydd yn ei waith ar y bachgen disglair o felin Llanllyfni. Er hynny, mae'n debyg bod y berthynas rhwng yr athro a'i ddisgybl yn un hwyliog iawn. Ar un achlysur, clôdd Ellis a chyd-ddisgybl direidus ddrws y dosbarth wrth glywed Eben Fardd yn dychwelyd o'i ginio. Wrth geisio agor y drws, lleisiodd Eben y cwpled byrfyfyr canlynol:

Agor Elis heb gweryla
Mae agor y ddôr yn dda.

Mentrwyd ateb coeg o'r ochr arall ar amrantiad:

Agoryd i rai gwirion,
Mi glywais i mae gwael yw sôn.[19]

---

16 W.M. Roberts, 'Golygwyr "Yr Haul": Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* Cyfres Llanbedr Pont Steffan 17 (1915), t.195

17 Elis Wyn o Wyrfai, 'Gutyn Padarn', *Y Geninen* Gŵyl Ddewi 11 (1893), t.68

18 John Jones (Myrddin Fardd), Enwogion Sir Gaernarfon (Caernarfon, 1922), t.311

19 Emlyn Richards, Hen Ysgol Eben Fardd - Ysgol yr Ail Gynnig (Caernarfon, 2004), t.6

Ymhellach, yn ystod neu yn union ar ôl ei gyfnod yn yr ysgol, lluniodd Ellis yr englyn digrif canlynol:

Eben ben asyn – a elo
I waelod rhyw lynclyn;
Lluniwyd ef yn llai na dyn
O wêr mul a chwyr melyn.[20]

Serch hynny, dengys llythyr a ysgrifennwyd ar 21 Hydref, 1850 barch mawr y 'gostyngedig ddisgybl' (fel y cyflwynodd ei hun) at Eben Fardd. Ar odre'r llythyr, lluniodd Ellis yr hir a thoddaid canlynol i'w diwtor:

I'm hathraw Eben am waith arabawl
Yn rhoi esgyniad fy rhwysg awenawl,
Ar goedd i'w daenu drwy gywydd doniawl
A'm brudio i fedi mwy bri dyfodawl
Rhoddaf fi a rhwyddaf hawl – yn anrheg
Bysgodyn gwiwdeg (bwysigoed yn gedawl)[21]

*Y bardd yn egino yn Ellis*

Dywedir mewn rhagair i gyfrol am Eben Fardd yng nghyfres Ab Owen, 'fel athraw ac fel beirniad, credai ei ddisgyblion nad oedd yn bosibl iddo fod yn well.'[22] Dywed Emlyn Richards nad oedd yn or-hoff o blant mân, a'i fod ar ei orau ymysg disgyblion aeddfed a oedd yn barod i ddysgu.[23] Gan hynny, hawdd gweld fod diffuantrwydd llwyr a diolchgar yn y llythyr a anfonodd Ellis at ei athro. Roedd y cyfnod dan ofal bardd a beirniaid o faintioli Eben wedi rhoi cyfle iddo finiogi ei ddoniau barddol, ac wedi rhoi hyder iddo anfon cerdd neu ddwy (gan gynnwys rhai awdlau) i wahanol eisteddfodau. Ni wyddom ym mha eisteddfod y cystadlodd am y tro cyntaf, ond mae'r ffaith iddo anfon cerddi i eisteddfod enwog Aberffraw yn 1849 yn awgrymu iddo gystadlu mewn o leiaf ddyrnaid o eisteddfodau llai cyn hynny. Amcangyfrifa Mari Ellis mai oddeutu 1847 y dechreuodd Ellis gystadlu mewn eisteddfodau lleol, er nad oes tystiolaeth

20 E.D. Rowlands, 'Eben Fardd fel Ysgolfeistr', *Y Geninen* 44 (1926), t.26

21 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor MSS 5018 – 4

22 O.M. Edwards, Eben Fardd, Cyfres Ab Owen, (Llanuwchllyn, 1900) t.4

23 Richards, Hen Ysgol Eben Fardd, t.10

gadarnach na synnwyr cyffredin i eilio hynny.[24] Ffaith ddiymwad er hynny yw iddo gystadlu'n gyson mewn cyfarfodydd cystadleuol cenedlaethol wedi 1849.

Cyn bod y fath beth ag eisteddfod genedlaethol swyddogol, roedd ambell eisteddfod yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cael ei chyfrif yn bwysicach nag eraill, ac i'r categori hwnnw y perthynai'r eisteddfod a gynhaliwyd rhwng 14 - 16 Awst 1849 yn Aberffraw. Roedd nifer fawr o feirdd amlwg y cyfnod naill ai'n beirniadu neu'n cystadlu yn yr eisteddfod hon, ac un o ddigwyddiadau enwocaf yr eisteddfod oedd cadeirio Nicander am ei awdl fuddugol ar 'Y Greadigaeth'. Hwn oedd y tro cyntaf i'r bardd enwog arddel ei enw barddol (fel ffugenw yn y gystadleuaeth), ac fe'i cadeiriwyd ar ôl cryn anghytuno ymysg y beirniaid, sef Eben Fardd, J. Richards (Iocyn Ddu) a Joseph Jones (Chwaneg Môn). Ffafriai Eben waith cystadleuydd arall, sef Emrys, a mynnai'r ddau feirniad arall mai awdl Nicander oedd yr orau. Yr eironi yw nad oedd y ddau feirniad arall yn yr un cae ag Eben Fardd yng ngolwg Nicander, gan iddo ysgrifennu at Eben yn ystod y gwanwyn cyn yr eisteddfod a dweud:

> Ffawd oreu ac anrhydedd pennaf yr Eisteddfod hon yw mai chwi yw'r prif-feirniad – y Beirniad: nid yw'r lleill ond cwlion.[25]

Cwlion ai peidio, gan fod *ettiquete* yr eisteddfod yn mynnu mai barn y mwyafrif oedd yn cyfrif, Nicander a wobrwywyd. Serch hynny, dadleuai cyfeillion Emrys yn groch yn y wasg Gymraeg am fisoedd wedi hynny.[26] Roedd y ffaith bod Iocyn Ddu, Chwaneg Môn a Nicander yn eglwyswyr, ac Eben Fardd ac Emrys yn anghydffurfwyr, yn rhoi mwy o danwydd i'r cweryla.[27]

Roedd Gwalchmai, Talhaiarn a Gwallter Mechain ymysg y beirdd amlwg eraill na chyrhaeddodd y brig yn y gystadleuaeth am y gadair, ac Ellis ymysg y rhai eraill llai

---

24 Mary Ellis, '*Llan Cwm Awen*, nofel-gyfres gan Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai) a ymddangosodd yn *Yr Haul,* Ionawr 1891-Rhagfyr 1892', *Llên Cymru* 16 (1991), t.293

25 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrifau Cwrtmawr 490 C

26 Crynhoir hanes y dadlau yn Meirion Llewelyn Williams, Hanes yr Eisteddfod ym Môn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o 1800 hyd 1850 (Ynys Môn, 2006), tt.301-28

27 Dilwyn Miles, The Royal National Eisteddfod of Wales (Swansea, 1977), t.58

enwog a gystadlodd hefyd. Mae'n drueni serch hynny na wyddom pa ffugenw a ddefnyddiodd, gan i gyfrol o feirniadaethau'r eisteddfod oroesi.

Er hynny, ceir hanesyn ynghylch ei daith i Aberffraw gan Ioan Madog, un arall o feirdd amlwg y cyfnod, ac un a drechodd dad Ellis ddwy flynedd yn ddiweddarach wrth gipio'r gadair am awdl i Robert ap Gwilym Ddu yn eisteddfod Porthmadog 1851. Dyma hefyd gipolwg ar gymeriad y bardd ifanc ar sail y sgwrs fu rhyngddynt wrth groesi'r Fenai:

> Daeth hogyn llegach a gwannaidd yr olwg, ac eisteddodd wrth fy ochr. Ymddengys ei fod wedi fy adnabod rywfodd oblegid cyfarchodd fi wrth fy enw, a dywedodd ei fod yn mynd i'r Eisteddfod. Yr oeddwn yn ei weld yn bur ddiolwg, ond yr oedd mor addfwyn a dirodres fel y cymerais ato, ac y gofynnais iddo ar y ffordd a oedd yn boddro ei ben a phrydyddu. Dywedodd ei fod yn hoff iawn o farddoniaeth Gymraeg.[28]

Daw edmygedd y bachgennyn o'i gydymaith yn amlwg yn yr englyn a luniodd i 'Awen Ioan Madog' rywdro ar ôl eu taith dros gulfor Menai:

> Mae hon fel ffrwd y mynydd – dry ei phen
> Draw o ffynnon lonydd:
> Neidia, rhed, â dwnad rhydd,
> I dawelwch y dolydd.[29]

Nid yn y brif gystadleuaeth yn unig y mentrodd Ellis gystadlu yn eisteddfod Aberffraw, gan iddo gyfansoddi cywydd ar 'Diffyniad Gibraltar gan General Eliott' dan y ffugenw 'Arfon Ieuangc'. Dywedir mai dim ond ei gydymaith, Ioan Madog, a safai rhyngddo â'r wobr gyntaf, ac er na fu Ellis yn fuddugol y tro hwn, roedd y feirniadaeth, o eiddo Eben Fardd, yn gysur iddo ar ei ffordd adref i Sir Gaernarfon.

> A very good Cywydd, 376 lines, being evidently, as the feigned name implies, the work of a young person, but one of a very promising Genius, and though his AWEN may be as yet too raw, as it were, to bear the brunt of a contest like the present, let him not be discouraged, his day to bear Laurels is not far hence.[30]

---

28 Bleddyn, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 14 (1896), t.152

29 John Thomas (Eifionydd), Pigion englynion fy ngwlad (Liverpool, 1882), t.15

30 Transactions of the Aberffraw Royal Eisteddfod, 1849 (London, 1849), t.xxv

Mae'n amlwg iddo gael ei galonogi gan y fath anogaeth, gan iddo ymgeisio – a phrofi llwyddiant – mewn eisteddfod a gynhaliwyd ym Meddgelert yn ystod y flwyddyn ganlynol. Ceir ychydig o sôn am yr eisteddfod hon mewn ysgrif goffa i Glasynys yn *Cymru* O.M. Edwards.[31] Cyfeiria'r awdur at eisteddfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 1850, gan nodi i Ellis a Glasynys ddod yn gydradd fuddugol mewn cystadleuaeth a ofynnai am gerdd i 'Lyn y Morwynion' – y llyn enwog hwnnw sydd i gyfeiriad y Migneint o Ffestiniog ac sydd â chysylltiadau â chwedlau'r Mabinogi. Prin odiaeth er hynny yw unrhyw wybodaeth bellach ynghylch yr eisteddfod hon. Cyfeiria ei fab at y gerdd hon flynyddoedd wedi iddo farw fel 'dernyn rhamantus',[32] a chyhoeddwyd y gerdd yn *Y Brython* yn 1860.[33]

Eisteddfod fawr 1850 oedd yr un a gynhaliwyd yng Nghastell Rhuddlan. Testun y brif gystadleuaeth oedd 'Yr Adgyfodiad', a phryddest Ieuan Glan Geirionnydd a ddyfarnwyd yn fuddugol. Am y tro cyntaf yn hanes yr eisteddfod fodern, derbyniwyd awdlau a phryddestau, a pharodd y penderfyniad i roi'r wobr gyntaf am bryddest ddadlau yr un mor danbaid ag a fu wedi eisteddfod fawr Aberffraw y flwyddyn flaenorol. Wedi eu cynddeiriogi gan y penderfyniad i gydnabod pryddest uwchlaw awdlau, cyhoeddodd Caledfryn a Gwalchmai eu hawdlau aflwyddiannus mewn pamffledi, er mwyn i eraill allu barnu a oeddent wedi cael cam.[34]

Nid yw'n hysbys a gystadlodd Ellis am y brif wobr, ond fe ddigwyddodd dau beth o bwys mewn perthynas â'i yrfa yn yr eisteddfod honno. Yn un peth, fe'i derbyniwyd i Orsedd y Beirdd gan Talhaiarn, a hynny wrth yr enw yr adweinid ef wrtho amlaf wedi hynny, sef Elis Wyn o Wyrfai. Ymhellach, cynigiwyd gwobr o £5 a thlws arian mewn cystadleuaeth am awdl ar 'Boadicea yn arwain ei byddinoedd yn erbyn y Rhufeiniaid', ac ef a'u henillodd. Dyma ei lwyddiant eisteddfodol cyntaf, ac ni ellir gorbwysleisio gwerth gwobr mor hael i'r bardd ifanc, yn enwedig o gofio iddo adael ysgol Eben Fardd

31 Glaslyn, 'Adgofion am Glasynys' *Cymru* 6 (1894), t.45

32 W.M. Roberts, 'Golygwyr "Yr Haul"-Elis Wyn o Wyrfai', t.197

33 Elis Wyn o Wyrfai, 'Cân Benrhydd - Chwedl "Llyn y Morynion", *Y Brython* Mai 1860, t.185

34 gw. W. Williams (Caledfryn), Awdl ar yr Adgyfodiad : testun yn Eisteddfod Rhuddlan, 1850 (Llanrwst, 1851) a Richard Parry (Gwalchmai), Awdl ar yr Adgyfodiad (Dolgellau, 1851)

tua'r cyfnod hwn. Mae'n debyg y byddai'r ychydig arian yr oedd wedi ei gadw ers ei waith yn y felin wedi prinhau'n arw erbyn hynny, a byddai'r wobr ariannol yn gymorth iddo, heb sôn bod y clod yn anogaeth ddi-ail iddo ddal ati i farddoni.

Cyn iddo adael yr ysgol yng Nghlynnog, canodd Eben 'Cywydd Brud i Ellis Roberts, bardd ieuanc' – efallai yn sgil ei lwyddiant yn Rhuddlan. Dengys y cywydd fod ganddo dipyn o feddwl o'i ddisgybl. Dyma ben a chynffon y cywydd 36 llinell:

Ellis o ris i ris yr â
Uwch lleng o wyr dreng dringa
I deml awen; - pa nen uwch?
Ni wn gof o nen gyfuwch...

...Gwr uwch, hyd nef (gwarchod ni!)
Uwch na hwn ni chawn henwi;
Ellis addfwyn, lwyseiddfardd,
Tybia'n fwyn at Eben Fardd.[35]

*Cyfeillion eraill yng Nghlynnog*

Yn ogystal ag Eben Fardd, mae'n debyg bod nifer o drigolion eraill Clynnog wedi ymddiddori yn ei ddatblygiad fel bardd ifanc hefyd. Adroddir bod nifer wedi dod ynghyd yn gyson i gyfarfod llenyddol yng Nghlynnog oddeutu'r amser y bu Ellis yno. Roedd y 'dynion galluog' lleol hyn yn ymgynnull yn y Druid, cartref Evan Griffith, i 'dreulio yr hwyr i ddadleu, diwinyddiaeth, llenyddiaeth, a gwleidyddiaeth...'[36] Erbyn hyn, efallai mai dim ond yn lleol iawn y cofir am gymeriadau fel 'yr hen Ddoctor Pugh Goch y Big a'r meibion, ... Hu Gadarn ... Robert Griffith Brynaera, Robert Jones unfraich, a llawer eraill...', ond buont yn fodd i hogi awydd Ellis i barhau â'i ddiddordeb mewn llenyddiaeth Gymraeg.[37]

Cyn gorffen sôn am y plwyf, rhaid hefyd gyfeirio at ficer eglwys Beuno Sant, gan iddo yntau hwyluso datblygiad addysgol Ellis. Robert Williams oedd offeiriad Clynnog

---

35 *ibid*, t.197

36 W. Roberts, 'Dechreu Cyfarfodydd Llenyddol Cymru', *Cymru* 14 (1899), t.9

37 Ceir dau englyn coffa i Hu Gadarn yn Barddoniaeth fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1877 (Caernarfon, 1878), t.135

Fawr yn Arfon bryd hynny, un a oedd yn ŵyr i William Williams Llandygái.[38] Daeth i Glynnog yn 1849 ar ôl treulio naw mlynedd fel curad yng Nghaernarfon, a dywedir iddo drefnu atgyweiriad eglwys Beuno ar gost o £4000. Mae'n ddigon tebyg mai ef a fu'n gyfrifol am dystlythyr ffafriol a sicrhaodd fod Ellis yn cael lle yn y coleg hyfforddi a oedd newydd gael ei sefydlu yng Nghaernarfon. Mae'r ffaith fod Ellis yn arfer dychwelyd i Glynnog i weld yr un a'i noddai yn tanlinellu'r dybiaeth honno.[39] Yn 1860, canodd yn hiraethus am Glynnog mewn cadwyn o benillion a gyhoeddwyd yn *Y Brython*. Gwnaeth hynny'n fuan wedi marwolaeth gwraig Eben Fardd, ac yr oedd meibion y ficer hwythau wedi marw ers iddo adael Clynnog hefyd.

O Glynnog unig, lonydd – lle gwenai
Holl geinion llawenydd,
Galar o ben bwygilydd,
A braw sobr trwy'th lwybrau sydd!

Awen isel Ebenezer – ar fin
Y du-oer fedd mewn pryder,
A chwerw boen; chwareua ber
Aur dannau i'w Fair dyner.

Yno aethai ei Enethod – Arab
I orwedd yn barod;
A bu yrŵan i'w briod – llawn serch
Uno ei dwyferch yn y mân dyfod.

Ow fi, acw plant y Ficar – heirdd wyneb
Mor ddenol a hawddgar;
A dowyd â llwch daear,
Mud ynt yn y trymllyd âr.

Yma yng nghôl eu mam angelaidd – mewn hedd
Mwynhânt eu hun beraidd :
Ië, Robert Arabaidd – Charles a John
Gyda'r meirwon yn welwon wylaidd.

O fy holl hen gyfeillion – ni welir,
Ond salw weddillion,
Yn wylo eu hanwylion,
Dan gystudd yn brudd eu bron.

Ond daw anwyl aduniad – i'r rhai hyn
Ar ôl adgyfodiad,
Na all ym mysg y llu mad
Ddod eto ymddatodiad.

Wedi gauaf dig waeau – dyoddef
Cystuddiol ofidiau;
Y mae'n hoff y ceir mwynhau
Haf fwyniant y nef wenau![40]

Roedd wedi dychwelyd i Glynnog dan amgylchiadau hapusach yn 1853, pan gafodd ei gonffyrmio yn eglwys Beuno, gan gadarnhau'r cysylltiad agos rhwng Ellis a'r ficer bryd hynny hefyd.[41] O gofio bod Robert Williams wedi bod yn gwasanaethu yng Nghaernarfon cyn dod i Glynnog, mae'n hawdd meddwl hefyd fod ganddo'r gallu a'r dylanwad i agor y ffordd i Ellis fynd i'r coleg yno.

---

38 gw. Dafydd Glyn Jones, Un o Wŷr y Medra : Bywyd a Gwaith William Williams, Llandygái, 1738-1817 (Dinbych, 1999)

39 J.H. Davies (Gol), The life and opinions of Robert Roberts, a wandering scholar, as told by himself (Cardiff, 1923), t.262

40 Elis Wyn o Wyrfai, 'Adfyfyrion ar Glynnog Fawr yn 1860', *Y Brython* Mai 1860, t.199

41 Davies (Gol), The life and opinions of Robert Roberts, t.262

*Tua thref Caernarfon*

Cymerwyd y camau cyntaf i sefydlu'r coleg hyfforddi oddeutu 1845. Cydlynodd prifathro Ysgol Genedlaethol Caernarfon, James Foster, ei waith dyddiol â gwaith hyfforddi darpar athrawon mewn adeilad ar Lôn Parc y dref.[42] Gwyddys i brifathro llawn-amser cyntaf y coleg gael ei apwyntio yn 1849, sef y Parchedig Benjamin James Binns,[43] a dyma pryd yr enillodd y coleg Siarter Esgobaethol.[44] Bu Binns yn gurad yng Nghaernarfon cyn hynny, ac nid ef oedd yr unig offeiriad yn y dref â chysylltiad â'r coleg. Bu gan y ficer ifanc brwdfrydig a ddaeth i'r dref yn 1835 yntau ei law yn ffurfio'r coleg hyfforddi – yn un peth fel cadeirydd i'r pwyllgorau cynnar a fu'n trafod sefydlu'r coleg. Thomas Thomas, gŵr yn wreiddiol o Lanfihangel y Creuddyn yng Ngheredigion, oedd hwn.

*Thomas Thomas, Caernarfon*

Derbyniodd Thomas ei addysg yn Ystradmeurig ac yn Rhydychen. Roedd iddo enw yng Nghaernarfon eisoes fel un a ymddiddorai'n fawr yn addysg ei blwyfolion. Sefydlodd ysgol i fabanod yn y plwyf yn 1838, ysgol i fechgyn a merched yn 1844, ac yna ar ôl i ddrysau'r coleg hyfforddi agor, sefydlodd ysgol gelf, ysgol rad, a 'llu o sefydliadau buddiol eraill' yno.[45] Yn ôl cofiant ei wyres:

> His services to education were so extraordinary, he was in this respect at least so much in advance of his age. ... He [had] found in Carnarvon one schoolmaster, a choleric one-legged sailor, who considered the discipline of the rod to be the end as well as the beginning of education. While he was still there Carnarvon became the chief centre of primary, indeed of all, education in North Wales.[46]

---

42 John Fairchild, History of the Church Training College at Caernarvon & Bangor (Bangor, 1938), t.5

43 R. Meredith, 'Early History of the North Wales Training College', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon* 7 (1946), t.71

44 Fairchild, History of the Church Training College at Caernarvon & Bangor, t.5

45 T. R. Roberts (Asaph), Eminent Welshmen : a short biographical dictionary of Welshmen who have attained distinction from the earliest times to the present (Cardiff & Merthyr Tydfil, 1908), t.526

46 Harriet Thomas (Gol.), Father and Son : memoirs of Thomas Thomas, canon of Bangor, vicar of Carnarvon (Carnarvon, 1898), t.16

Ymhen blynyddoedd, daeth ei fab, Llywelyn, yn ddirprwy brifathro a chaplan Coleg Iesu, Rhydychen. Ef hefyd oedd golygydd y cyfieithiad llawn cyntaf o'r Hen Destament i iaith Gwlad y Basg.

Er bod Thomas Thomas wedi graddio yn 1833, blwyddyn cyhoeddi The Christian Year a thraddodi pregeth Keble ar apostasi cenedlaethol, nid yw'n ymddangos iddo ddod dan ddylanwad Mudiad Rhydychen. Gŵr a gofir yn well am natur 'isel-eglwysig' ac efengylaidd ei offeiriadaeth ydoedd, ond un a berchid yng ngogledd Cymru a thu hwnt gan rai o bob safbwynt eglwysig. Dywed Roger L. Brown iddo lwyddo cystal â'i waith yng Nghaernarfon fel ei fod yn cael ei alw gan lawer yn 'apostol y gogledd'.[47] Ymhellach, fel y dywedir yn ei gofiant:

> Thomas was without question the clergyman most distinguished for services, character, and ability in North Wales: his friends and even his detractors foresaw in him a Welsh Bishop[48]

Cadarnha Roger Brown hefyd mai amgylchiadau allanol a olygodd na ddaeth yn esgob.[49] Er na chafodd y fraint honno, gallai gyfrif rhai o gefndiroedd cymdeithasol uchaf y wlad ymysg ei gydnabod, gan gynnwys Archesgob Caergaint. Ond yn anad dim, bugail ei bobl ydoedd, bugail Cymraeg ei iaith:

> ...he was no Anglicized Welshman; he was an ardent patriot, proud of his country, and in intimate touch with its virtues, aspirations, and failings. ... He was ever a friend and patron of native genius, which crops up in Wales under the most irregular forms and in the most surprising places. The once well-known Dick of Aberdaron, a self-taught Linguist ... often in the course of his wanderings found board and clothing at Carnarvon Vicarage...[50]

Mae'n debyg i Ellis, fel Dic Aberdaron, fod yn ffodus o'i gymorth a'i ddiddordeb, ac yn wir, y cysylltiad cyntaf o lawer rhyngddynt oedd cyfnod y ddau gyda'i gilydd yng

---

47 Roger L. Brown, The Welsh Evangelicals (Tongwynlais, 1986), t.137.

48 Thomas (Gol.), Father and Son : memoirs of Thomas Thomas, t.22

49 Roger L. Brown, "The 1870 Appointment to the Diocese of St. Asaph – a note', *The Journal of Welsh Religious History* 5 (2005), t.98.

50 Thomas (Gol.), Father and Son : memoirs of Thomas Thomas, t.20

Nghaernarfon. Fel y gwelir maes o law, bu Thomas Thomas o gymorth iddo droeon yn ystod y pymtheng mlynedd a mwy nesaf.

*Mynediad Ellis i'r coleg*

Cadarnha R. Meredith fod mynediad i'r coleg hyfforddi yng Nghaernarfon yn ddibynnol ar gais wedi'i gefnogi gan lythyr o ganmoliaeth gan offeiriad, a hwnnw'n offeiriad â phrofiad ganddo o addysg Ysgol Genedlaethol gan amlaf.[51] Mae'n debyg mai trwy law Robert Williams, Clynnog, y daeth llythyr i gymeradwyo Ellis, yn enwedig o gofio iddo fod yn gurad yng Nghaernarfon pan oedd bwrlwm sefydlu'r coleg a'r Ysgol Genedlaethol yno ar ei anterth. Os nad Robert Williams a ysgrifennodd y llythyr, mae'n debygol iddo o leiaf roi gwybod i'w gyfaill Thomas Thomas o fwriad y melinwr ifanc i ddod i Gaernarfon, ac mai trwy ei law ef felly y daeth y tystlythyr i law ymddiriedolwyr y coleg. Mae'n bosibl hefyd, wrth gwrs, fod gan John Jones, ficer Llanllyfni, law yn y trefniadau hyn, gan ei fod yn siŵr o gyfarfod yn rheolaidd â'r ddau offeiriad yma oedd yn gwasanaethu yn yr un ddeoniaeth.

Dywedir fod oddeutu ugain o fyfyrwyr yn astudio yn y coleg ym mhumdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Deuai'r rhain o gefndiroedd digon amrywiol, ond digon cyffredin bron yn ddieithriad. Ynghyd â mab melinwr Llanllyfni, astudiai meibion cryddion a chyn-chwarelwyr yno'n ogystal. Cydoeswr enwocaf Ellis yno serch hynny oedd Robert Roberts – 'Y Sgolor Mawr'. Bachgen hynod o ddisglair o blwyf Llangernyw oedd hwn, ac yn ei hunangofiant The Life and Opinions of Robert Roberts, a Wandering Scholar, ceir darlun da o weithgarwch dyddiau cynnar y coleg, a chip neu ddau ar ei gydoeswr. Roedd Ellis, fel y noda'r Sgolor Mawr, yn hŷn na rhan fwyaf y myfyrwyr, ac yntau erbyn hynny'n ddwy ar hugain oed.

Wedi adrodd ei hanes cythryblus ei hunan yn cyrraedd Caernarfon, edrydd Robert iddo geisio'r llety a argymhellwyd gan y prifathro. Talai ddeunaw ceiniog yr wythnos am gyfran o'r tŷ gyda thri myfyriwr arall. Roedd dau ohonynt yn fyfyrwyr yn y coleg eisoes, ond am y llall, dywedodd:

---

51 Meredith, 'Early History of the North Wales Training College', t.73. Byddai mynediad yn seiliedig ar dystlythyr.

> The third was a candidate for admission, like myself. He was a miller by trade, and had received but little education; but he was rather a distinguished character in Caernarvon, for he was a Bard, and had won some prizes at Eisteddfodau, and had been within two of the Chair itself. He was a very merry fellow, never without a ready joke, and not a bad *improvisatore*.[52]

Yn fuan wedi i ddarpar fyfyrwyr ganfod llety, fe'u cyfwelid gan bwyllgor a brofai eu gwybodaeth o'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Roedd gofyn iddynt hefyd ysgrifennu a darllen Saesneg yn gymwys, dangos gwybodaeth rifyddol dda ac ymwybyddiaeth drylwyr o'r Catecism, a gallu cyflwyno eu gwaith mewn llawysgrif ddestlus.[53] Mae hanes difyr yn yr hunangofiant am y ddau ohonynt yn astudio'n galed ar gyfer y cyfweliad. Dyma eiriau Robert:

> "So here's another victim!" said he to me. "Are not you trembling? Is not your heart melting within you? Mine has long ago melted in the midst of my belly. ...do you know your Catechism?"
> "Not very well."
> "Neither do I; but we must try to know something about it, or we shall be on the broad of out backs to-morrow."
> "Well, we must learn it, that's all. I'll sit up to-night till I know it down to the 'Finis', and if you are game to keep me company, they won't send us back for that."
> "Agreed: we'll have supper first and then – lay on, Macduff. But why did not my 'Godfathers and Godmothers in my baptism' teach me a little of my duty towards God and my neighbour, and save me this trouble, now I am twenty-two 'bearded like the pard?' They have much to answer for, as Morris Williams says in his *Christian Year*."[54]

Llwyddodd Robert Roberts yn rhagorol, ac enillodd ysgoloriaeth atodol o bedwar swllt yr wythnos at yr hanner coron a gawsai'r myfyrwyr at eu cadw. Ychwanegodd am Ellis:

> Ellis's English was pronounced defective, but owing to his excellent character, and the signs he showed of a capacity for improvement, he was admitted also, and was allowed half-a-crown.[55]

52 Davies (Gol), The Life and Opinions of Robert Roberts, t.250

53 R. Meredith, 'Early History of the North Wales Training College', t.73

54 Davies (Gol), The life and opinions of Robert Roberts, tt.250-1

55 *ibid*, t.254

Dywed Robert Roberts na lwyddodd yr un ymgeisydd arall ar wahân i Ellis i ennill lle yn y coleg y tro hwnnw, a hynny oherwydd anallu'r myfyrwyr i fynegi eu hunain drwy'r Saesneg. Y maen tramgwydd ieithyddol hwnnw a faglai nifer yn ystod dyddiau cynnar y coleg, a dywedir mewn man arall fod rhai pethau wedi cael eu gwneud i gywiro hynny yn y coleg. Noda Meredith ddau ohonynt – sef y byddai'r prifathro yn crynhoi rhai o brif bwyntiau ei ddarlithoedd gyda sylw neu ddau yn y Gymraeg, ac ar ben hynny, y byddai disgwyl i'r myfyrwyr fynychu eglwys Santes Fair, eglwys Saesneg y dref, i ystwytho rhyw gymaint ar eu Saesneg.[56]

Oherwydd eu hamgylchiadau, roedd yn rhaid i'r ddau ohonynt fyw yn gynnil. Byddent yn gwario eu lwfans o bedwar swllt yr wythnos ar dorth swllt, a hanner pwys o fenyn a chig moch. Byddai hynny, ynghyd â'r swllt a chwech am lety, yn gadael dim ond rhyw geiniog neu ddwy yn weddill i brynu ŵy neu ddau o bryd i'w gilydd, neu ambell stamp:

> Luxuries were out of the question. Beer was never tasted; books and clothes were equally out of the question. The books I borrowed out of the College Library, and wore what clothes I had, which, towards the close of the six months, showed woeful signs of wear and tear. Ellis..., seeing me live on my four shillings, determined to do likewise. ... It was hard at first, but we got used to it, and thought little of it.[57]

Rhannai'r ddau'r un gwely yn y llety, yn unol ag arfer y dydd. Lletyai un o'u cyd-fyfyrwyr, Robert Owen, yng nghroglofft becws swnllyd yn y dref.

Er gwaetha'r anawsterau, bwrw ymlaen wnaeth yr ugain neu fwy o fyfyrwyr - a'r ddau lasfyfyriwr gyda hwy - ar ddechrau'r tymor newydd, ac mae'n debyg i Ellis a Robert Roberts fynychu darlithoedd y coleg yn union wedi iddynt basio eu harholiad llafar.

*Nodweddion y coleg*

Y Prifathro Binns ei hunan a ddysgai'r myfyrwyr fel rheol, er y dywed Robert Roberts fod prifathro'r Ysgol Genedlaethol, Mr Foster, yn cynnig gwersi gyda'r nos. Edrydd hefyd ei fod yn cofio treulio wythnos o bob chwech yn ymarfer yr hyn a ddysgid yn y

56 R. Meredith, 'Early History of the North Wales Training College', t.73

57 Davies (Gol), The life and opinions of Robert Roberts, t.255

coleg yn Ysgol Genedlaethol y dref. Gan fod y plant mor anystywallt, nid oedd hynny'n orchwyl a oedd wrth fodd y myfyrwyr. Pe ceisid eu cosbi, targedid y myfyrwyr gan y plant ar eu ffordd o'r ysgol, ac os nad oedd taflu cerrig gan y plant yn ddigon drwg, yn aml ymunai eu rhieni yn y gwawdio. Dim ond defnydd llym o'r gansen, yn ôl tystiolaeth Robert Roberts, a lwyddodd i ddofi pobl y dre, a diau i Robert, Ellis a'u cyd-fyfyrwyr edrych ymlaen at ddychwelyd i astudio yn y coleg wedi'r fath driniaeth arw gan y plant.

Amlinella R. Meredith brif nodweddion diwrnod yn y coleg hyfforddi fel a ganlyn.

> The day's programme was a full one, beginning at 8 o'clock with prayers and scripture. Twelve till one was given, according to the time-table, to leisure, but as the students had to provide their own meals, there was probably little time for anything else. ...afternoon lectures began at one o'clock with writing or singing, followed by the principal for two hours. ...from six to eight for four nights a week, Foster dealt with method and lessons, while on Wednesday the students attended Evening prayer. Saturday afternoon was a half holiday.[58]

Teg, felly, yw ei hymresymiad nad oedd fawr o amser i wneud dim arall, dim ond dysgu a myfyrio, yn enwedig o gofio fod angen i'r myfyrwyr baratoi gwersi ar gyfer eu cyfnodau yn yr Ysgol Genedlaethol. Roedd galw arnynt hefyd i gynorthwyo mewn ysgolion Sul, heb sôn wrth gwrs am neilltuo amser i addoli yn y gwasanaethau Saesneg ar y Sul.

Un awgrym o hamdden brin ym mywydau Ellis a'i gyd-fyfyrwyr yw'r cyfeiriad yn hunangofiant Robert Roberts at y ddau ohonynt yn ymweld â Robert Williams, ficer Clynnog, rhyw dro tua diwedd 1851 neu ddechrau 1852. Dywed fod ei gyd-fyfyriwr yn ymweld ag offeiriad Clynnog o dro i dro pan ddeuai cyfle i wneud hynny. Arwyddocâd yr ymweliad penodol hwn oedd bod seremoni bedydd esgob ar ddigwydd yn y plwyf, a chanlyniad hynny oedd conffyrmio Robert ac Ellis ymysg nifer o rai eraill y diwrnod hwnnw gan yr esgob Bethell o Fangor. Ychwanega Robert i'r gwasanaeth urddasol hwn greu argraff ddofn arno, a'i fod wedi nodi dechrau pennod newydd yn ei fywyd. Efallai bod Ellis wedi teimlo rhywbeth yn debyg bryd hynny hefyd, ond y cyfle i ofalu

---

58 R. Meredith, 'Early History of the North Wales Training College', t.74

am un o ysgolion y Gymdeithas Genedlaethol am y tro cyntaf oedd y newid mwyaf amlwg a ddigwyddodd yn ei fywyd y flwyddyn honno.

*I ysgol Waunfawr*

Ar ddechrau blwyddyn ysgol 1852/3, aeth i ofalu am ysgol yn y Waunfawr, ar gyrion plwyf Llanbeblig. Sylwer fod y cam cyntaf hwn ar yrfa addysgol broffesiynol wedi digwydd cyn bod sôn amdano'n derbyn tystysgrif dysgu gyflawn, ac ymddengys iddo gydbwyso'r gwaith newydd gydag astudiaethau terfynol yn y coleg, ac iddo ddychwelyd i Gaernarfon rywdro cyn haf 1853 i sefyll yr arholiadau perthnasol.

Agorwyd yr Ysgol Genedlaethol yn Waunfawr yn 1838 gan Thomas Thomas, ficer Caernarfon. Defnyddiwyd adeilad yr ysgol yn ogystal fel eglwys i'r pentref, a oedd wedi tyfu ar waelod plwyf Betws Garmon yn sgil diwydiant y chwareli cyfagos. Derbyniodd yr Ysgol Genedlaethol nawdd o 1849 ymlaen gan Arglwydd Newborough, Glynllifon, wedi i'r Parchedig R. Williams anfon gair ato yn gofyn am gymorth.[59] Darparai'r ysgol addysg ar gyfer tlodion Waunfawr, chwedl y llythyr hwnnw, ac i rai o blwyfi Betws Garmon a Llanwnda hefyd, gan nad oedd ysgol genedlaethol arall o fewn eu cyrraedd. Cyfrannwyd £10 gan blasty Glynllifon yn sgil yr apêl am gymorth, er mwyn i'r prifathro dderbyn cyflog teilwng.

Yn 1847, gwnaed arolwg digon anffafriol ar yr ysgol gan Gomisiynwyr Brenhinol a oedd wedi eu gwysio i roi barn ar safon addysg yng Nghymru. Beirniadai'r adroddiadau hyn anallu'r disgyblion i siarad, ysgrifennu a darllen Saesneg,[60] a barnwyd fod y Gymraeg, a bywyd gwledig nodweddiadol Cymru, i gyfrif am y gwendid hwnnw. Yn naturiol, ardal drwyadl Gymraeg oedd Waunfawr, ardal a gynhwysai 'chiefly quarrymen and some few small farmers' fel y dywedodd R. Williams yn ei lythyr at Arglwydd Newborough. Gan hynny, hawdd y gellid meddwl na fyddai gallu'r plant yn Gymraeg cyn saled â hynny, ond fod gorfod ymrafael ag iaith a oedd yn ddieithr i'w

---

59 Archifdy Caernarfon, Gwynedd : Dogfen xd2/22887

60 Reports of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales, appointed by the Committee of council on education cyfrol 3, (London, 1847), t.35; am y cefndir gw. Prys Morgan (gol), Brad y Llyfrau Gleision : Ysgrifau ar Hanes Cymru (Llandysul, 1991)

clustiau yn naturiol yn peri iddynt dangyflawni. Mae Ellis ei hunan yn awgrymu fod hynny'n wir, a bod pobl Waunfawr yn ddiwylliedig iawn pan gaent y cyfle i fynegi eu hunain yn eu mamiaith. Anfonodd lythyr at yr offeiriad, 'Berw', (Robert Arthur Williams) pan sefydlwyd ef yn ficer Waunfawr yn 1891, ac wrth ddymuno'n dda iddo canmolai ddiddordeb trigolion Waunfawr mewn addysg. Er hynny, barnai Comisiynwyr 1847 yn gwbl groes i hynny, a'u hadroddiad hwy sy'n graith las o hyd ar hanes Cymru wledig y cyfnod hwnnw.

Digon prin yw'r manylion am gyfnod Ellis yn Waunfawr, ac mae'n ffodus fod y Parch. D. N. Nicholson wedi cofnodi manylion anerchiad Thomas Thomas i'w blwyfolion am ysgolion y plwyf yn Ionawr 1853, gan fod nifer o bytiau'n cyfeirio at sefyllfa'r ysgol tra bu Ellis yno.[61] Dywedir fod cyfartaledd o 77 disgybl yn mynychu ysgol ddyddiol Waunfawr, gyda 70 ar y llyfrau'n swyddogol. Nodir fod yr ysgol yn cael ei chynnal yn rhannol gan daliadau wythnosol y plant, ac mai eu hysgolfeistr oedd Mr Ellis Roberts. Dengys mantolen seml mai ei gyflog am y flwyddyn oedd £27.18.6. Talwyd £3.17.0 yn atodol i gyflogi athrawon cynorthwyol iddo, a rhoddwyd £1.10.0 am lo i wresogi'r ysgol. Cyfrannai'r disgyblion gyfanswm o £7.8.4 at eu haddysg, ac roedd elw o £4.3.11 o gyngerdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cyfrannu at gydbwyso'r cyfrifon, ynghyd â £29.11.0 o gyfraniadau eraill, fel rhai'r Arglwydd Newborough a'r Gymdeithas Genedlaethol.

Rhydd bras nodiadau'r Parchedig Nicholson syniad hefyd o weithgarwch Ellis yn y pentref y tu allan i oriau'r ysgol ddyddiol. Cymerir yn ganiataol iddo breswylio yn Waunfawr am y tri chwarter blwyddyn y bu'n cadw'r ysgol yno, a bwrir hefyd y byddai'n siŵr o fod wedi awchu am yr un bwrlwm diwylliannol ag a brofodd ei hunan fel glaslanc yn Llanllyfni a Chlynnog. Dywed y nodiadau fod ysgol Sul Gymraeg lewyrchus yn cael ei chynnal yn yr Ysgol Genedlaethol bob bore Sul, gyda deg athro wrthi'n dysgu. Mae'n bosibl ei fod ymhlith y deg hynny, yn enwedig o gofio bod telerau eu harhosiad yn y coleg yn mynnu eu bod hwy'n cynorthwyo â gwaith yr ysgolion Sul. Yn ychwanegol, byddai darlith Gymraeg yn cael ei thraddodi yn yr ysgol bob mis - darlithoedd y byddai Ellis yn siŵr o ddymuno gwrando arnynt. Am ddau o'r

61 Archifdy Caernarfon, Gwynedd : Dogfen xpe/25/299

gloch y prynhawn y cynhelid gwasanaethau Cymraeg y Sul yn eglwys 'rhan uchaf y plwyf' (cyfeiriad at bentref Waunfawr yw hwnnw mae'n debyg), ac oni bai bod gofyn i Ellis barhau i fynychu gwasanaethau Saesneg eglwys Santes Fair, Caernarfon, dichon y byddai yn y gynulleidfa ar gyfer y gwasanaeth hwnnw yn Waunfawr.

Er mai damcaniaethu'n unig y gellir ei wneud ynghylch y rhan fwyaf o gyfnod Ellis yn Waunfawr, mae'n hysbys iddo fod yno am dri chwarter blwyddyn (sef blwyddyn academaidd arferol), gan ddychwelyd i Gaernarfon ar gyfer gweddill y flwyddyn. Enillodd gyflog o £27 am ei waith yno, ac ymddiriedwyd dros 70 o blant i'w ofal ar ôl dim ond blwyddyn dda o hyfforddiant coleg. Dywed Robert Roberts yn ei hunangofiant iddo weld ei hen ffrind mewn cyfarfod i ysgolfeistri yng Nghaernarfon, a hynny yn ystod y cyfnod pan fyddai Ellis yn Waunfawr. Dywed fod ei gyfaill yn gweithio'n ddyfal mewn ysgol fechan ar gyrion Caernarfon, ac er nad oedd y tâl yn enfawr roedd yn hapus yno, wrth iddo dreulio ei hamdden yn paratoi ar gyfer sefyll yr arholiadau terfynol am dystysgrif athro, a pharhâi i farddoni hefyd.[62]

Wedi dychwelyd i Gaernarfon o Waunfawr, llwyddodd i ennill cymhwyster ail ddosbarth iddo'i hunan. Gyda hynny hefyd, symudodd i ofalu am ysgol genedlaethol arall yn y cylch.

*Ymlaen i ysgol Bontnewydd*

Yn yr un modd ag ysgol Waunfawr, derbyniai ysgol y Bontnewydd nawdd gan y tirfeddiannwr lleol, yr Arglwydd Newborough. Cyfrannai bunt y flwyddyn at dreuliau'r Ysgol Genedlaethol yno yn ôl tystiolaeth llythyrau diolch a anfonwyd ato yn ystod yr 1850au.[63] Sefydlwyd yr ysgol yn 1844, a phan alwodd arolygwyr ei Mawrhydi yno yn 1847 nodwyd fod 95 disgybl ar gyfartaledd yn derbyn addysg ynddi. Mae'n amlwg, at hynny, fod niferoedd ysgol Bontnewydd ar gynnydd, oherwydd yn Chwefror 1850 ysgrifennodd B.J. Binns, curad Caernarfon a Phrifathro'r Coleg Hyfforddi, lythyr yn gofyn am gymorth Arglwydd Newborough i'r ymgyrch i ychwanegu at adeilad yr ysgol, a chodi tŷ pwrpasol gerllaw ar gyfer yr ysgolfeistr. Amcangyfrifwyd y byddai'r gost yn

62 Davies (Gol), The life and opinions of Robert Roberts, t.282-3

63 Archifdy Caernarfon, Gwynedd : Dogfen xd2/23520

cyrraedd £180, a noda'r llythyr fod y Cyfrin Gyngor a'r Gymdeithas Genedlaethol wedi neilltuo £117 at y gwaith, cyn belled â bod gweddill y swm yn cael ei gasglu'n lleol. Cofnodwyd fod Arglwydd Newborough wedi anfon £5 yn ddiymdroi at yr achos.

Yn wahanol i'w cymdogion yn Waunfawr, ni dderbyniodd trigolion pentref Bontnewydd sylwadau canmoladwy iawn yn yr Adroddiad Brenhinol i Gyflwr Addysg yn 1847. 'The class of small farmers in this district are represented as very ignorant and uncivilized' yw'r union eiriau a gofnodwyd. Serch hynny, mae'r cyfeiriadau penodol at yr ysgol fymryn yn well. Gallai nifer dda o'r disgyblion ysgrifennu'n daclus, a gallai deg o'r pedwar ugain disgybl ddarllen pennod o'r Beibl Saesneg.[64] Ymhellach, canmolir yr athro, a dreuliodd gyfnod yn hyfforddi yng Nghaernarfon, am ddysgu'r plant i ysgrifennu yn Saesneg trwy roi'r testun iddynt yn Gymraeg. Rhoddai hefyd waith cartref iddynt bob nos ar destun o'r Beibl.

Diau y byddai Ellis wedi ceisio cyrraedd yr un nod ag a osodwyd gan ei ragflaenwyr, ond nid oedd ei waith yn y Bontnewydd na'r Waunfawr heb ei anawsterau. Cafodd ymdrechion cynnar y Gymdeithas Genedlaethol i sefydlu ysgolion mewn pentrefi gwledig Cymraeg groeso oeraidd yn aml gan Fethodistiaid, fel y cofiodd Ellis wrth ysgrifennu yn *Yr Haul* yn 1893.

> Cofus gennym pan yn cadw ysgol yn 1852, i bregethwr poblogaidd a thalentog ... ddyfod i'r ardal a thraddodi pregeth bwrpasol yn erbyn anfon plant i'r ysgol ddyddiol oedd newydd ei chychwyn o dan ysgolfeistr trwyddedig yn y lle. A dywedai blaenor yr un lle, fod y rhieni a anfonent eu plant i'r ysgol Eglwysig yn "peryglu eneidiau eu plant". Yr hyn a allodd rhagfarn fe'i gwnaed yn erbyn symudiad addysg elfennol y werin Gymreig gan awdurdodau blaenllaw y Methodistiaid Calfinaidd mewn ardaloedd hysbys i ni, oherwydd gwyddom yn brofiadol am y fflangell a theimlasom dani.[65]

Roedd ceisio perswadio tyddynwyr i ryddhau eu plant o waith ymarferol yn dasg ddigon anodd ynddi'i hunan, ond yn amlwg roedd rhai yn mynd ati'n benodol i geisio amharu ar waith ysgolion y Gymdeithas Genedlaethol. Doedd fawr mwy y gallai'r athrawon ei

---

64 Reports of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales cyfrol 3, t.35

65 Elis Wyn o Wyrfai, 'Newyddion', *Yr Haul,* Ail Gyfres Caerfyrddin 9 (1893), t.351

wneud ond ceisio dygymod â'u hamgylchiadau, a cheisio cynnig hynny a allent o addysg i'r rhai a ddeuai atynt.

*Llyfryn cyntaf o'r wasg*

Yn hunangofiant Robert Roberts ceir un cyfeiriad penodol arall at Ellis cyn i'w llwybrau wahanu. Erbyn 1853 roedd Robert yn dysgu yn Llanllechid, wedi blwyddyn yng Nghastell Caereinion ar ôl iddo adael Caernarfon. Edrydd iddo sôn wrth Ellis fod eisteddfod (na nodir ei lleoliad gwaetha'r modd) yn cael ei chynnal yn ystod y flwyddyn honno, lle cynigiwyd gwobr o £20 am werslyfr ar hanes Cymru. Ychwanega fod Ellis wedi ei annog i fynd ati i ymgeisio am y wobr,[66] gan gyfeirio ar yr un gwynt at ei gampau eisteddfodol ei hunan. Er casglu deunydd ynghyd, ni chwblhaodd Robert y dasg erbyn y dyddiad penodedig, ond ymddengys fod y sgwrs honno wedi ysgogi Ellis o leiaf i gystadlu. Cyn pen y flwyddyn roedd Ellis wedi cyhoeddi pamffled 'wedi ei gasglu o weithoedd yr Awduron enwocaf yn Gymraeg a Saesneg' ar Hanes y Cymry.[67] A gipiodd ef y wobr gyntaf yn yr eisteddfod dan sylw, neu ai anogaeth eraill yn sgil y gystadleuaeth honno a barodd iddo gyhoeddi'r gwaith? Ni ellir bod yn sicr am y naill bosibilrwydd na'r llall, ond yr hyn sy'n ddiymwad yw mai dyma'r gyfrol gyntaf o'i eiddo i'w chyhoeddi.

Argraffiad eithaf cyfyngedig a dosbarthiad lleol fu i Hanes y Cymry mae'n debyg. Gwasg H. Humphreys ar y Maes yng Nghaernarfon a argraffodd y pamffledyn penodol hwn, ac mae'r gyntaf o'r 48 tudalen maint A6 yn addo 'adroddiad crynhoawl o'r prif ddigwyddiadau a gymerasant le ... o ddarostyngiad cyntaf y Brython gan y Rhufeiniaid, ...hyd gydymgorphoriad Cymru a Lloegr gan Iorwerth y Cyntaf.'[68]

Mae'n mynnu na ellir bod yn sicr am fanylion hanes Prydain cyn 55 cyn Crist, ac mai dyna pam y dewisodd y dyddiad hwnnw fel man cychwyn yr hanes. Adleisia'r gred mai llwyth o Geltiaid o barthau gorllewinol Ewrop oedd y brodorion bryd hynny, ond

---

66 Davies (Gol.), The life and opinions of Robert Roberts, t.304-5

67 Elis Wyn o Wyrfai, Hanes y Cymry, ... wedi ei gasglu ... gan Elis Wyn o Wyrfai (Caernarfon, 1853), t.3

68 *ibid*, t.3

nad oedd sicrwydd pryd y daethant i ynysoedd Prydain. Neilltuir cyfran sylweddol o'r pamffled i olrhain llinach brenhinoedd a thywysogion Gwynedd, Powys a'r Deheubarth yn eu tro.

Hanes dyfodiad y Rhufeiniaid sy'n hawlio'r sylw wrth iddo ddechrau adrodd hanes y Cymry, a dywed mai derwyddon oedd arweinwyr y gymdeithas frodorol, gyda'r werin yn dilyn bywydau syml a chyntefig. Wrth gyfeirio at y Rhufeiniaid yn trechu derwyddon Môn ger Llanidan, barna i'r concwerwyr wareiddio'r Cymry, ac nad hynny oedd unig fendith y cyfnod hwnnw. Roedd fel petai 'cleddyf ddinistriol Rhufain baganaidd yn offeryn i agor y ffordd i gerbyd gogoneddus yr Efengyl ddwyn balm iachawdwriaeth i drigolion anadnabyddus y greadigaeth.'[69] Cymharol brin yw'r cyfeiriadau at hynt y seintiau cynnar yng Nghymru, ac yn sicr nid cronicl o hanes Cristnogaeth yng Nghymru yw'r pamffled. Serch hynny, cred Ellis i rai Brythoniaid brofi bendith Cristnogaeth mor gynnar â'r cyfnod Apostolaidd, a mynna fod Aristobulus, a enwir yn yr Epistol at y Rhufeiniaid 16:10, yn frodor o Brydain, fel yr oedd Claudia, y cyfeirir ati yn yr Epistol at Timotheus 4:12. Mae'n barod iawn hefyd i fynegi bod Cristnogaeth wedi hen wreiddio yma pan ddechreuodd Awstin o Rufain ar ei genhadaeth, gan ddangos arwydd cynnar o'i gred yn 'hen eglwys y Cymry'.

Ymysg hanesion byr sy'n britho'r prif adroddiad, ceir cyfeiriad at lwyth o Frytaniaid dan arweiniad Cynan Meiriadawg yn trechu byddin Rufeinig yng ngogledd y Ffrainc fodern, a phenderfynu ymgartrefu yn y wlad a ddeuai gyda hynny yn Llydaw. Nodir hefyd mai'r pennaeth Brythonaidd, Gwrtheyrn Gwrthenau, oedd yn gyfrifol am adael i'r Saeson ddechrau ymgartrefu ym Mhrydain, ac olrheinir hanes eu hymlediad o Gaint a'u llwyddiannau hwy a'r Pictiaid a'r Scotiaid yn erbyn y Brython yn y gyfrol hefyd. Un mater sy'n codi'n gyson ganddo yw bod y Cymry byth a hefyd yn cweryla ymysg ei gilydd, a bod hynny wedi bod o gymorth i'r lluoedd hyn ac i estroniaid fel y Daniaid wasgu arnynt o hyd. Yn wir, ac eithrio Cadwaladr, Hywel Dda ac un neu ddau arall, ychydig o blith y penaethiaid brodorol sy'n derbyn gwir ganmoliaeth ganddo am gadw trefn ar y Cymry cecrus, ac amddiffyn ffiniau eu tiriogaethau'n effeithiol.

---

69 *ibid*, t.11

Daw cyfrif Ellis o'r hanes i ddiwedd sydyn yn 1282, gyda hanes trechu Llywelyn ap Gruffudd gan Edward, a chyhoeddi mab hwnnw, Edward II, yn Dywysog newydd ar Gymru yn nodi uniad â Lloegr. Er collfarnu ymgyrchoedd y Saeson ar hyd y canrifoedd blaenorol, wrth gyrraedd 1282 mae fel petai'n dilyn arfer llu o haneswyr sy'n ystyried bod hanes y Cymry a'r Saeson bron yn ddiwahân wedi 1282. Un dudalen yn unig sy'n weddill wedi iddo orffen ymdrin â buddugoliaeth Edward, a honno wedi ei neilltuo i bwyso a mesur sefyllfa'r Cymry erbyn ei gyfnod ei hun. Er bod y Cymry wedi eu trechu, nid testun gwae oedd hynny'n llwyr:

> Ond fel iawn am golled ein hynafiaid, cafodd eu hiliogaeth lawer mwy o les. Ar ôl yr uniad yma o Gymry a Lloegr ... parhaodd ein cenedl yn ddeiliaid ffyddlon i goron Lloegr ... a phan esgynnodd Henry y Seithfed orsedd Lloegr, yn 1485, daeth hen etifeddion cyfiawn y Brython yn ôl i reoli gwlad eu cyndadau, ac o'r pryd hynny hyd yn awr y mae gennym ni ein rhan yn yr orsedd cystal a'r Saeson.[70]

Os cynnyrch buddugol rhyw eisteddfod leol ai peidio oedd Hanes y Cymry, honno oedd ei gyfrol gyntaf, ac roedd ei enw barddol, Elis Wyn o Wyrfai, yn enw yr ymfalchïai ddigon ynddo i'w roi ar wynebddalen y cyhoeddiad hwnnw. Roedd wedi gosod allan nifer o'i syniadau cynnar ynghylch y frenhiniaeth, yr eglwys gynnar yng Nghymru, a phriod le'r genedl yn yr Ymerodraeth Brydeinig, yn y gwerslyfr hwn. Ond er mai rhyddiaith oedd cyfrwng y gyfrol, prydyddu oedd ei brif ddiddordeb, a blwyddyn yn ddiweddarach enillodd y brif wobr i feirdd mewn eisteddfod yn Ffestiniog – digwyddiad a nododd garreg filltir arall ar ei yrfa.

70 *ibid*, t.47

# Pennod 3

## Gadael glannau Gwyrfai, a throi am y Blaenau

Rhywdro tua dechrau 1854, pan oedd ar ganol ei gyfnod ym Montnewydd, y cyfansoddodd Ellis yr awdl a gipiodd brif wobr eisteddfod Ffestiniog yn haf 1854.[1] Mae hanner cyntaf y flwyddyn honno hefyd yn nodi dechrau pennod newydd yn ei hanes, wrth iddo symud o lannau'r Wyrfai ac ymgartrefu ym Mlaenau Ffestiniog, gan gymryd gofal o ysgol y Gymdeithas Genedlaethol yno am gyfnod o wyth mlynedd.

Cyhoeddwyd casgliad o gyfansoddiadau eisteddfod Ffestiniog 1854 dan y teitl Blaenffrwyth Ardudwy, a nodwyd y manylion canlynol am yr ŵyl ar ddechrau'r gyfrol honno.

> Cynhaliwyd yr Eisteddfod hon ddydd Sadwrn, Awst 26, 1854, mewn maes-babell a adeiladwyd i'r perwyl, 27 llath wrth 12, gerllaw y Gwesty, yn y pentref, lle yr oedd o bymtheg cant i ddwy fil o bobl wedi ymgynnull... Beirniaid y Traethodau a'r Farddoniaeth [oedd] Mr Ebenezer Thomas (Eben Fardd), Parch W. Ambrose (Emrys) a Mr John Williams, (Ioan Dwyfawr).[2]

Dywedir yn yr un rhagymadrodd fod 'Ellis Roberts' wedi ei wobrwyo â thlws a £5 yng nghyfarfod y prynhawn am awdl ar 'Y Caethwas', a chyhoeddwyd sylwadau'r beirniaid yn rhifyn Hydref 1854, *Y Dysgedydd*. Yn eu geiriau hwy, roedd 'bardd gwych iawn'[3] wedi cyrraedd y brig, ac fe ddisgrifiwyd yr awdl fel un 'yn llawn o dân awenyddol.'[4]

Ni ellir ond damcanu sut yr ymgyfarwyddodd Ellis â phwnc ei awdl, ond barn y beirniaid oedd iddo ddisgrifio'r 'gwahanol driniaethau yr â y caethwas drwyddynt yn fywiog a chyffrous, wedi eu lliwio yn farddonol, gyda chwaeth a medr da'.[5] Yr hyn sy'n syndod yw bod awdl ar ddechrau ei yrfa farddol wedi teilyngu lle yn rhifyn

1 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 13 (1895), t.197

2 Blaenffrwyth Ardudwy : y cyfansoddiadau buddugol yn Eisteddfod Ffestiniog, 1854 (Bethesda, 1855), t.2

3 Ebenezer Thomas a William Ambrose, 'Eisteddfod Ffestiniog : Y Feirniadaeth', *Y Dysgedydd* 33 (1854), t.384

4 *ibid*, t.385

5 *ibid*, t.385

eisteddfodol y *Geninen* yn 1899, bron hanner canrif ar ôl iddi gael ei gwobrwyo fel 'Awdl ariandlysog Ffestiniog, 1854', a phedair blynedd wedi marwolaeth y bardd.

O blith cannoedd o linellau'r awdl, mae sawl enghraifft yn dangos ei allu i lunio englynion a hir a thoddeidiau effeithiol iawn. Ystyrier yr englynion:

Yn ei feddwl canfyddai – y dynged
    A'i hingol arhosai,
  O fewn yn wir ofni wnâi,
  Wrth ddeall pa warth ddeuai. ...

a

Pwy all ddirnad teimladau – y duon
    Adawant ei glannau,
  Heb hanes dod o'u poenau,
  Yn ôl byth i'w hannwyl bau.[6]

Defnyddiodd rym a thrawiad union y gynghanedd groes yn effeithiol dros ben wrth ddisgrifio cymeriad y sawl a oedd wedi cipio'r caethwas, 'Y gelyn brwnt galon bres'[7], gyda'r cytseiniaid yn tanlinellu ei deimladau tuag ato.

Mae'n dechrau'r awdl trwy olrhain hanes dibryder y caethwas ym mro ei febyd, ac yn bwrw ymlaen i ddangos sut y rhwygodd y dynion gwyn trachwantus y dedwyddwch hwnnw. Mae'r ddau gwpled canlynol yn cyfleu hunllef ei daith dros y môr i ddinas Orleans Newydd:

Su'r don ddigysur dano
Yna a'i thrwst yn ei thro,
I ddilyn, yrrai ddolef
Ei hystŵr i'w glustiau ef.[8]

Ar ganol yr awdl, mae'n torri ar lif y naratif ac yn datgan ei farn ar gaethwasiaeth, a'r modd yr oedd yn mynd yn groes i'r synnwyr o ryddid yr oedd taleithiau'r Amerig yn honni eu bod hwy'n ei gynrychioli.

---

6 Elis Wyn o Wyrfai, 'Awdl y Caethwas', *Y Geninen Eisteddfodol* (1889), t.12

7 *ibid*, t.13

8 *ibid*, t.14

Heddiw frodyr Rhyddfrydig – hyf ddynion
Prif ddinas Amerig;
Datodwch, darniwch mewn dig
Holl didau'r trallodedig.

Diraddio daear rhyddid – y mae'r caeth,
Mawr cwyn o'i blegid
Aeth braw dros ddynoliaeth brid
Wrth afar y swrth ofid.[9]

Â yn ei flaen i feirniadu'r modd yr oedd pobl yn diffinio hanes Ham, mab Noa, fel cyfiawnhad dros erlid pobl dduon, a daw ei lid yn eu herbyn yn amlwg yn yr ansoddeiriau 'annynol, Anystyriol, rymusol ormesiad'[10] sy'n cloi un o'i hir a thoddeidiau.

Mae gweddill yr awdl yn disgrifio'r hyn a welodd ac a brofodd y caethwas yn yr Amerig, gyda rhai disgrifiadau yn ingol a chywilyddus o wir:

Lliaws truenus yn llaw estroniaid
O'i hen hiliogaeth o flaen ei lygaid,
Yno a welodd, mal anifeiliaid,
O dan rymusol gyndyn ormesiaid ...

Hwy yrrid yr holl oriau – i'w llafur,
Mewn llefain a dagrau
A'u niweidiol gernodiau
Lluosog oedd i'w llesgau. ...

Tynnu y gwan blentyn gwyl
O fynwes mwyaf annwyl
Ei fam, a'i werthu ar fyr
I ddwylaw y dyn ddeilwyr.[11]

Daw â hanes y caethwas i ben yn ddramatig, wrth iddo adrodd ei fod wedi marw pan drawodd ei berchennog ef yn ei wylltineb wrth weld gweddill y caethweision yn ceisio

9 *ibid*, t.14

10 *ibid*, t.16

11 *ibid*, t.19

gwrthryfela. Serch hynny, ni theimlodd y perchennog edifeirwch – 'mawr alar am yr elw' yw'r ergyd gynnil yn ei erbyn gan Ellis.

Yna, yn dro annisgwyl i'r gynffon, mae'r awdl yn gorffen â disgrifiad o ddynes yn cerdded at y bedd, ac yn marw o dorcalon. Daw i'r amlwg fod gwraig y caethwas wedi ei chaethgludo dros gefnfor yr Iwerydd hefyd, ac fe'u hunir yn yr angau yn yr englyn clo:

Y rhai hynny hir wahanwyd – yn awr
    Yn ôl a gydunwyd
Ac o'u mawr wae cymerwyd
Y ddau yn awr i'r llawr llwyd.[12]

Efallai bod y tro ar ei diwedd braidd yn annisgwyl, ac o ystyried mai cwta ugain llinell a roddir i'r rhan honno, gellid dadlau bod manylion yr hanesyn hwnnw braidd yn gyfleus, o gofio'r cyfyngiadau ar ryddid caethweision. Er hynny, mae'n awdl dda, a ddenodd sylw'r beirniaid ac a haeddai'r wobr.

*Ffynhonnell Awen?*

Mae sôn ei fod wedi cerdded pob cam o'r Bontnewydd i Flaenau Ffestiniog er mwyn cyrraedd yr eisteddfod - taith hwy nag ugain milltir fel hed y frân. 'Cafodd wlaw trwm, diarbed drwy gydol y daith, nes yr oedd yn wlyb fel pysgodyn'[13] yn ôl yr hyn a ddywed Gwynedd, ond roedd atyniad arall ar wahân i'r eisteddfod a wnâi'r siwrnai yn un werth ei chwblhau. Roedd merch o'r enw Esther Mary yn cynorthwyo yn ysgol y babanod yno, ac roeddent wedi dechrau ymserchu yn ei gilydd.

Un ddamcaniaeth ynghylch sut y dechreuodd y garwriaeth oedd eu bod hwy wedi cyfarfod yng Nghaernarfon, efallai yn y gwasanaethau Saesneg yn eglwys Santes Fair y dref. Roedd Ellis yn gorfod mynychu'r gwasanaethau yno tra oedd yn astudio yn y coleg. Yng Nghaernarfon hefyd roedd cartref William Griffith Roberts, tad Esther Mary. Symudodd y teulu yno o Dale yn Swydd Caint, wedi i Esther orffen ei hyfforddiant fel athrawes yng Ngholeg Borough Road, Llundain.

12 *ibid*, t.22

13 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.198

Yn Lloegr y magwyd Esther, ac o ganlyniad, Saesneg oedd ei hiaith gyntaf. Yn naturiol, fe ystwythodd Saesneg Ellis yn fawr yn sgil y gyfeillach. Dyma un gwendid wrth gwrs a oedd wedi peri rhyw gymaint o drafferth iddo ar ddechrau ei yrfa addysgol. Yn oes Victoria, a'r Ymerodraeth Brydeinig ar ei hanterth, doedd dim dwywaith mai Saesneg oedd iaith cynnydd, a byddai i Gymro briodi Saesnes yn gam i'r cyfeiriad cywir i un a ddeisyfai 'fynd yn ei flaen' yn y byd.

*Priodi Esther Mary*

Ar Ŵyl San Steffan, 1854, priododd y ddau yn eglwys Llanbeblig, a phriodol iawn ydoedd mai cyfaill Ellis, Thomas Thomas, a weinyddodd yn y gwasanaeth. Er bod rhai adroddiadau, gan gynnwys atgofion dibynadwy Gwynedd, yn awgrymu mai yn Rhagfyr 1853 y priodwyd hwy,[14] ar 26 Rhagfyr 1854 y digwyddodd hynny yn ôl tystiolaeth William Llewelyn Davies yn y Y Bywgraffiadur Cymreig.[15] Dyna'r dyddiad a rydd eu mab mewn erthygl gofiannol yn *Yr Haul* hefyd.[16] Ni oroesodd cofrestr priodasau plwyf Llanbeblig rhwng 1850 a 1857 fel na ellir profi hynny'n bendant, ond saif i reswm fod y dyddiad diweddarach yn gywir, o ystyried mai yn 1854 y symudodd i Ffestiniog, lle roedd Esther eisoes wedi dechrau gweithio fel athrawes.

*Gofalu am ysgol Llwynygell*

Wrth iddo ddod i ofalu am ysgol Llwynygell ar ddiwedd haf 1854, roedd yn lleoliad gwaith delfrydol o gofio am y briodas arfaethedig. Oddeutu 1840 y codwyd adeilad yr ysgol gan y Gymdeithas Genedlaethol yn ardal Rhiwbryfdir, diolch yn bennaf i nawdd Mrs Oakley, boneddiges Plasty Tan y Bwlch ym Maentwrog.[17] Dywed G. J. Williams yn Hanes Plwyf Ffestiniog y byddai hi'n cyfrannu'n ariannol at les disgyblion yr ysgol trwy gyfrwng clwb plant, 'yn yr hwn y rhoddai'r plant geiniog yn yr wythnos, a rhoddai

14 *ibid*, t.198

15 J. E. Lloyd ac R.T. Jenkins (Gol.), Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940 (Llundain, 1953), t.810

16 W.M. Roberts, 'Golygwyr "Yr Haul": Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* Cyfres Llanbedr Pont Steffan 17 (1915), t.197

17 K.W. Jones-Roberts, 'Education in the Parish of Ffestiniog, 1650-1956,' *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Sir Feirionnydd* 2 (1956), t.262

hithau geiniog arall ati. Ar ddiwedd y flwyddyn byddai pob un o'r plant yn cael defnydd pâr o ddillad...'[18] Roedd un amod yn gysylltiedig â mynediad i'r ysgol hon, sef na chawsai'r un plentyn fynychu heb fynd i'r eglwys o leiaf unwaith ar y Sul hefyd.[19]

Noda arolwg y Llyfrau Gleision yn 1847 nad oedd y Saesneg yn gyffredin o gwbl ymhlith y chwarelwyr a yrrai eu plant i'r ysgol hon. Rhyw naw deg o blant a fyddai yn yr ysgol ar ddiwrnod arferol yn 1847, yn dysgu darllen, ysgrifennu, rhifyddeg, daearyddiaeth, cerddoriaeth, y catecism a threfn gwasanaeth yr eglwys. Canmolwyd y disgyblion yn rhyfeddol o frwd am eu gwybodaeth ysgrythurol, ond nid oedd eu gafael ar ysgrifennu a mathemateg lawn cystal ym marn yr arolygwyr. Buasai'r ysgolfeistr cyntaf, a oedd yn dal yno yn 1847, gynt yn grydd, a'i unig hyfforddiant yn ôl pob golwg oedd yr hyn a ddysgodd mewn pythefnos ar gwrs ym Mangor saith mlynedd ar hugain ynghynt.[20] Jones oedd ei gyfenw, ond adwaenid ef orau fel 'Yr hen Grydd Mawr'. Fe'i dilynwyd gan Mr Jones arall, James Jones, a fyddai maes o law yn ficer Dyserth, ac Ellis oedd y nesaf yn yr olyniaeth.[21]

Dylanwad Thomas Thomas Caernarfon a ddaeth ag ef i ofalu am ysgol Llwynygell yn ôl Charles Ashton, ond nid yw'r ysgrif a ysgrifennodd ef ar gyfer *Yr Haul* yn gwbl ddiogel. Dywed i Ellis:

> ...[g]adw ysgol yn y Waunfawr, ac wedi hynny yn Llwyn y Gell, Ffestiniog. Cafodd y lle olaf trwy ddylanwad Canon Thomas, Caernarfon, yr hwn a brofodd yn noddwr caredig iddo.[22]

Efallai iddo gyfeirio at ysgol Waunfawr, am ei fod yn sicr mai Thomas Thomas a hyrwyddwyr caredig eraill yn y coleg hyfforddi oedd y tu cefn i'r penodiad hwnnw. Wedi dweud hynny, roedd cyswllt cryf rhwng Thomas Thomas ac Ellis ac Esther

18 G. J. Williams, Hanes plwyf Ffestiniog o'r cyfnod boreuaf (Wrexham, 1882), t.143

19 Leslie Wynne-Evans, 'Schools Established by Industrial Undertakings in Caernarfonshire and Merionethshire during the nineteenth century' *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon* 15 (1954), t.69

20 Reports of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales, appointed by the Committee of Council on Education cyfrol 3 (London, 1847), t.120

21 G. J. Williams, Hanes plwyf Ffestiniog o'r cyfnod boreuaf, t.143

22 Charles Ashton, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* (1895), t.162

ymhell ar ôl iddo weinyddu yn eu priodas, ac o gofio ei fod yn un o offeiriaid mwyaf dylanwadol esgobaeth Bangor yn y cyfnod hwnnw, hawdd y gellir meddwl fod ganddo gysylltiad rhywfodd â Ffestiniog hefyd. Un awgrym o hynny yw'r cofnod yn ei gofiant am ei gyfeillgarwch ag un oedd â chysylltiad agos â Ffestiniog.

> Lord Palmerston owned slate quarries at Festiniog, and in the course of his travels in Carnarvonshire had heard much of the sayings and doings of Thomas. ... The result of further inquiries about this universal vicar, the oracle of the whole countryside, was to determine Lord Palmerston to recommend Thomas for the next bishopric.[23]

Er na dderbyniwyd argymhelliad Arglwydd Palmerston, mae'n ddigon posibl iddo gadw mewn cysylltiad â ficer Caernarfon. Efallai bod Thomas a theuluoedd Oakley a Palmerston wedi gweld y byddai Ellis yn ysgolfeistr cymeradwy ar gyfer ysgol Llwynygell, yn enwedig gan fod gwaith ei ddarpar wraig yn golygu y byddai'n gyfleus iawn petai'n dewis ymgartrefu yno.

Yn sicr, wedi iddo gyrraedd Ffestiniog, enillodd enw da iddo'i hun am ei waith yn Ysgol Sul eglwys Dewi Sant, gan fod coffa am y cyfnod a dreuliodd yno wedi ei gofnodi ar dudalennau *Y Llan* yn 1924, bron ddeng mlynedd a thrigain wedi iddo gyrraedd yno. Wrth ysgrifennu nodiadau am y plwyf, adroddodd y gohebydd:

> Pery enw Ellis Wyn o Wyrfai yn hir mewn cysylltiad ag Ysgol Sul S. Dewi. Yr oedd cael gwasanaeth ysgolfeistr ym mhlith y dynion ieuanc i'w dysgu yn yr Ysgrythur yn gaffaeliad mawr y dyddiau hynny. Mae ôl llenyddol yr Eglwys i'w canfod yma ac acw heddiw.[24]

*Doniau'r bardd yn blodeuo*

Os oedd ei waith yn ysgol Llwynygell ac Ysgol Sul Dewi Sant yn mynd â llawer o'i amser, parhaodd i roi'n gyson o'i amser hamdden i gystadlu mewn eisteddfodau. Roedd yn amlwg yn ystyried cystadlaethau eisteddfodol yn her i weld a allai droi ei awen at bynciau mor amrywiol â 'Morglawdd modern Madog', 'Y Sabath' a 'Cymodi

---

23 Harriet Thomas (Gol.), Father and son : memoirs of Thomas Thomas, canon of Bangor, vicar of Carnarvon (Carnarvon, 1898), t.22

24 *Y Llan*, 6 Mehefin 1924, t.7

Beli a Bran'. Cipiodd rai gwobrwyon yn dâl am ei ymdrechion, fel yn eisteddfod Porthmadog ar ddydd Llun y Pasg 1856, pan luniodd yr englyn buddugol i'r morglawdd enwog yn Eifionydd:

> Hir glawdd trwy oer goluddion – y Traeth Mawr,
> Trothwy mwy i'r eigion;
> A werchyd wyllt gyrch ei don,
> A dorau, o'n bro dirion.[25]

Ym Mehefin yr un flwyddyn ysgrifennodd englyn i eglwys Tremadog, sydd ddwy filltir o gob Maddocks:

> Enwoglawn yw'r wen Eglwys, - ar y Graig
> Fawr ei grym y gorffwys,
> Gorwych y deil, er ymgyrch dwys,
> Holl Uffern a llu affwys.[26]

Yn amlwg, roedd yn gyfarwydd â theithio'n ôl a blaen o Ffestiniog i gwmwd Gwyrfai trwy Borthmadog. Ond os oedd tref a phorthladd Maddocks yn gyfarwydd iddo, nid felly lle a oedd mor bellennig â Llanelli cyn 1856. Rhywsut, serch hynny, cafodd afael ar restr testunau eisteddfod a fyddai'n cael ei chynnal yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin (nid yn y Llanelly llai enwog gerllaw Y Fenni ym Mynwy, er bod y fan honno'n adnabyddus am ei heisteddfodau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg). Cystadlodd am y gadair trwy lunio awdl ar 'Y Sabath', a barn y beirniaid oedd ei bod yn rhagori ar ymgais yr unig ymgeisydd arall. Am y tro cyntaf, roedd ei lwyddiant eisteddfodol wedi mynd ag ef ymhellach na'i gynefin yng ngogledd Cymru.

Yn ôl y feirniadaeth, roedd y bardd buddugol wedi cymryd 'golwg ymarferol ar y Sabbath yn ei gysylltiad â dyn ar y ddaear'.[27] Aeth y beirniaid yn eu blaen i'w ganmol ymhellach:

> Mae bore'r Sabath yn y bwthyn, y gwasanaeth yn yr Eglwys, yr addoliad yn y Capel, yr Ysgol Sabothol, gwerth y Sabath i'r gweithiwr daear, &c., yn cael eu

---

25 <u>Caniadau buddugol Eisteddfod Porth Madog, Dydd Llun y Pasg 1856</u> (Porth Madog, 1857), t.44

26 Elis Wyn o Wyrfai, 'Eglwys Tremadog', *Baner y Groes* Mehefin 1856, t.95

27 <u>Detholiad o'r cyfansoddiadau buddugol yn Eisteddfod Llanelli, Gorph. 29, 1856</u> (Llanelli, 1856), t.172

> darlunio gyda grym a thynerwch effeithiol dros ben ; nis gwyddom am un Awdl yn yr iaith yn rhagori mewn ystwythdra a phrydferthwch. Mae'r fydryddiaeth yn ddifai gydag ychydig bach o eithriadau dibwys, a'r cwbl mor naturiol a swyngar, fel na chawsom ond mwyniant digymysg wrth ei darllen. Tuedda yn fawr i ddangos gwerth a gogoniant y Sabath, fel dydd santaidd i'r Arglwydd, i bwy bynnag a'i darlleno. Yr ydym yn ddibetrusder yn dyfarnu Iolo Morganwg yn haeddiannol o'r Wobr a'r Tlws.[28]

Canodd yn hir ar ei destun, ac y mae hi'n llawer llai cynnil na'r awdl a ganodd i'r caethwas ddwy flynedd ynghynt. Efallai bod peth gormodiaeth felly ym marn y beirniaid pan ddywedasant nad oedd awdl ystwythach na phrydferthach na hon, ond y mae iddi rai rhagoriaethau, a sawl englyn a chwpled da iawn. Yn bwysicaf oll, mae'n cynnig cip ar safbwyntiau Ellis ynghylch pwysigrwydd cadw'r Sabath yn briodol.

Mae'n dechrau ei awdl â'r englyn canlynol:

> Y Sabath - dedwydd seibiant - i'r enaid
> Ro'i unol addoliant ;
> A'i fawl o blith nefol blant
> I'w Dduw gwyn, dda ogoniant.[29]

 yn ei flaen i ramantu am y Sabath delfrydol, lle mae hyd yn oed byd natur fel petai'n cadw'r Sul hefyd.

> A dir bod yr adar bach
> Bore heddiw'n bereiddiach
> eu mwyn gerdd, a'u hemyn gu,
> Heb dwrf yn eu gwib darfu.[30]

Disgrifir y Sul o safbwynt morwyn, gwas, gŵr dall, amaethwr, morwr, glöwr a sawl un arall, ac yn ei ddisgrifiad o wraig weddw mae adlais o un o gwpledi ei dad yn ei farwnad i Robert ap Gwilym Ddu, 'Su yr afon sy ryfedd / yn wylo wrth basio'r bedd' yn y llinellau hyn:

> Yna y weddw anniddan,

---

28 *ibid*, t.173

29 *ibid*, t.174

30 *ibid*, t.174

Ar y llwybr yn "nghladdfa'r Llan,"
Sy'n wylo wrth basio bedd
Main ei gwr, man y gorwedd.[31]

Ar ôl darlunio'r lleygwyr, mae'n troi ei sylw at yr offeiriaid a'r gweinidogion, ac yn cyferbynnu eu harferion ar y Sabath fel a ganlyn – arferion yr eglwys:

Yn ei wisg gàn esgynna – duwiol ŵr
Hyd y lân ddarllenfa;
A llafar doeth y "Llyfr Da,"
O'r lle hwn a ddarllenna. ...

Dyfyn o Gerddi Dafydd – a eilir
Mewn alaw ysblennydd;
Y waith hon genau a thant
Yno luniant lawenydd.[32]

ac yna'r capel:

Cawn nodi'r cu weinidog – yn addas
Gyhoeddi i'r euog,
Werth a grym aberth y *Grog*,
Trwy y gwir Dduw trugarog. ...

O'r DWYFOL Air y dyfyn – un frawddeg
Fer iddo yn destun;
Yna hoff esbonia hyn,
I'w braidd oll, yn ber, ddillyn.[33]

Nid yw'n dangos ffafriaeth at y naill ffordd na'r llall o gadw'r Sul, gan ddewis yn hytrach dynnu sylw at rinweddau'r gwahanol ffurfiau o foli Duw.

Â yn ei flaen i sôn am rai eraill o nodweddion y Sul traddodiadol, fel y cinio teuluol ('Gwelwch bawb o gylch y bwrdd, / Dedwydd ydynt a didwrdd'[34]), a'r Ysgol Sul

31 *ibid.* t.179

32 *ibid.* t.181

33 *ibid.* t.183/4

34 *ibid.* t.185

('Rhoi addysg i'r rhai eiddil'),[35] a chyfeiria at y Sabath mewn gwahanol fannau dros y byd. Wedi gwneud hynny, mae'n troi'n ôl at arferion y werin ar y Sul, gan neilltuo rhagor o linellau i gyfeirio at yr amaethwr, y masnachwr, y crefftwr, a'r celfyddwr. Wedi canu'n hir am bron bob agwedd ar y Sul, daw â'r awdl faith i ben trwy geisio crynhoi beth yw'r Sabath, mewn darn a fyddai wedi ffurfio fframwaith i awdl ddigon teilwng ynddi ei hun, heb angen yr holl ragymadroddi. Byrdwn ei draethu yw cofio mai'r peth pwysicaf yw 'Nid ysig orwedd, nid segura – ddylem, / Pan ddelo'r dydd yma', ond yn hytrach:

> Rhannu addysg rinweddol - i weiniaid,
> O enau'r Gair Dwyfol;
> Gweddïo, annog, eiddunol
> Ddal yr hyf i ddilyn ei ôl.[36]

Gwelai'r Sul fel cyfle i addysgu pobl am bwysigrwydd y diwrnod arbennig hwnnw, a'i gysylltiadau â'r ffydd Gristnogol. Dyna, yn y bôn, (sawl can llinell wedi iddo ddechrau canu), yw'r man roedd am ei gyrraedd. Cristion o addysgwr a ganai, ac wedi mynd o amgylch y byd (yn llythrennol), mae'r englyn uchod yn crynhoi ei safbwynt am hanfodion y diwrnod arbennig hwn.

Efallai mai ceisio cuddio eu siom mai dim ond dau a gystadlodd yn y brif gystadleuaeth a wnâi'r beirniaid pan ddywedasant nad oeddent yn gwybod am awdl arall fwy ystwyth na phrydferth na'r un fuddugol. Y mae sawl awdl well na hon gan Ellis ei hunan, ond yr hyn sy'n amlwg o'i darllen yw ei fod yn ystyried y Sabath fel rhywbeth pwysig dros ben, a chanodd awdl ramantus am ei hoff ddiwrnod.

Roedd cyfansoddi awdlau yn amlwg yn ail natur iddo erbyn y 1850au. Mewn eisteddfod fawreddog a gynhaliwyd yn 1858 daeth yn ail agos i'w hen athro, Eben Fardd, ac yn wir ym marn un beirniad, roedd ei awdl yn 'rhagori yn fawr' ar yr un fuddugol.

35 *ibid*, t.189

36 *ibid*, t.192

Cydnabyddir Eisteddfod Fawr Llangollen 1858 fel dechrau ar bennod arbennig a arweiniodd at sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol fel y gwyddys amdani heddiw. Hon oedd y gyntaf mewn cyfres o eisteddfodau a osododd y patrwm ar gyfer gŵyl genedlaethol flynyddol i'w chynnal ar yn ail rhwng de a gogledd Cymru, gan ddenu llawer mwy na dim ond y beirdd a'r cantorion eu hunain. Dyma'r gyntaf o'r rhai a ddisgrifiodd Hywel Teifi Edwards fel 'Gwyliau Gwalia',[37] ac yng ngeiriau Iorwerth Roberts, dyma pryd y 'symudwyd yr Eisteddfod o'r dafarn. Daeth yn fudiad y lluoedd, ac nid i gwmni o feirdd, clerigwyr ac ysweiniaid.'[38] Barn Richard Griffith, 'Gohebydd' enwog *Baner ac Amserau Cymru*, oedd bod yr eisteddfod yn rhy eglwysig,[39] ond boed hynny'n wir ai peidio, ni ellir gwadu mai o ganlyniad i eisteddfod Llangollen y datblygodd y syniad o eisteddfod fel gŵyl neu fudiad gwir genedlaethol, a ddenai rai o bob enwad, cefnogwyr pob plaid wleidyddol, a hyd yn oed sylw gohebyddion gweisg Lloegr – yng ngeiriau Rhuddenfab:

> Gyda gwawd a dirmyg yr edrychai y wasg Seisnig ar yr Eisteddfod yn flaenorol i hynny; ond rhoddodd yr ŵyl genedlaethol yn 1858 argraff fwy ffafriol ar y Saeson.[40]

Un o ffigyrau amlycaf y mudiad newydd hwn oedd Ab Ithel, sef y Parchedig John Williams i roi iddo ei enw llawn. Roedd ef yn un o'r Hen Bersoniaid Llengar enwog a fu'n amlwg ym myd llenyddiaeth Cymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yng ngeiriau G. J. Williams, trefnu eisteddfod Llangollen 1858 oedd:

> ...y gorchwyl pwysicaf a gyflawnodd ab Ithel. ... yr oedd yr amser yn aeddfed i grynhoi'r brwdfrydedd llenyddol a cherddorol a geid ym mhob rhan o Gymru yn y cyfnod hwnnw ac i ffurfio sefydliad cenedlaethol.[41]

---

37 Hywel Teifi Edwards, Gŵyl Gwalia : yr Eisteddfod Genedlaethol yn oes aur Victoria 1858-1868 (Llandysul, 1980)

38 Iorwerth Roberts, 'Eisteddfod Fawr Llangollen, 1858', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych* 8 (1959), t.34

39 Richard Griffith, Y Gohebydd : cofiant a dyfyniadau o'i lythyrau fel gohebydd Llundain "Baner ac Amserau Cymru" (Dinbych, 1905), t.140

40 Rhuddenfab, 'Adgofion am Eisteddfod fawr Llangollen', *Y Geninen* 25 (1907), t.205

41 G. J. Williams, 'Ab Ithel', *Y Llenor* 13 (1934), t.99

O'i fesur yn erbyn y gosodiad hwnnw, cymeriad nodweddiadol o'i oes felly oedd Ellis, ac un o do o feirdd a aned yn ystod hanner cyntaf y ganrif ac a elwodd ar ymdrechion Ab Ithel a rhai eraill o'r Hen Bersoniaid Llengar i sefydlu Gŵyl genedlaethol o fri.

Prif wobr yr eisteddfod oedd y gadair a gynigiwyd am awdl ar 'Brwydr Maes Bosworth', a barnai dau o'r beirniaid, sef Nicander a Hiraethog, mai Eben Fardd a gyfansoddodd yr awdl orau. Barn Caledfryn, y beirniad arall, oedd mai ymgais Ellis oedd yr orau, ond bu'n rhaid iddo ildio yn y pen draw, a derbyn barn y ddau arall. Serch hynny, mae'n werth tynnu sylw at y geiriau mwyaf cadarnhaol yn ei feirniadaeth:

> Efe yn ddiau yw y goreu, canys y mae yn gyflawnach fel hanesydd; y mae ganddo fwy o grebwyll nag sydd yn un o'r lleill, a mwy o deithi cyffredinol yr awen ... Y mae ei linellau o gyfansoddiad naturiol - ...y mae iaith, a chynghanedd, a mesur fel yn talu teyrnged iddo... y mae ei gynllun a'i ddefnyddiau yn helaethach, ac y mae yntau yn fwy medrus yng ngosodiad allan ei feddylddrychau.[42]

Yn sgil y fath ganmoliaeth, penderfynodd Ellis gyhoeddi ei awdl, gan ddyfynnu'r geiriau uchod yn y rhagair i annog eraill, ar sail geiriau Caledfryn, i ddarllen yr awdl. Serch hynny, bu'n ddigon onest hefyd i gynnwys rhai o sylwadau llai cadarnhaol y feirniadaeth, gan ddangos ei natur wylaidd, a'i chwithdod efallai o gyhoeddi awdl a oedd wedi dod mor agos at drechu ei athro ei hunan. Noder mai'r frawddeg gyntaf a ddyfynnir o'r feirniadaeth yw 'Nid ydyw awdur yr oreu o'r awdlau, sef Ieuan Brydydd Hir, yn ddifai.' Ni hepgorodd y sylwadau am 'fynd dros yr un peth fwy nag unwaith', nac am 'ymdroi cryn lawer ar hyd y ffordd' chwaith. Digon gwylaidd oedd ymateb Ellis mewn mannau eraill yn wyneb y ganmoliaeth a dderbyniodd, ac mewn erthygl goffa i Nicander, dywedodd:

> ...fe allai mai nid gormod dweud i Eisteddfod Llangollen gynhyrchu tri chyfansoddiad, o leiaf, a ddaliasant eu tir hyd eto fel goreuon yr iaith, sef Awdl Eben Fardd ar "Faes Bosworth", Pryddest Nicander ar "Brennus" a Rhiangerdd Ceiriog Hughes ar "Fyfanwy Fychan o Gastell Dinas Brân".[43]

---

42 Elis Wyn o Wyrfai, Awdl Brwydr Maes Bosworth (Tremadog, 1859), rhagair
43 Elis Wyn o Wyrfai, 'Nicander', *Y Geninen* 2 (1884), t.252

Serch hynny, y mae'n werth craffu ar yr awdl er mwyn gweld pam y rhoddodd Caledfryn ganmoliaeth mor uchel iddi, a'i dilyn â sylwadau digon beirniadol. Ym mhedwar 'llyfr' (neu rhan) yr awdl, y mae'n mynd ati i adrodd yn drwyadl am y camau a arweiniodd at y frwydr, ac yna'n disgrifio holl hanes y brwydro hyd at gyhoeddi mai Harri oedd brenin newydd Prydain. Yr oedd wedi gosod ei nod yn is-deitl yr awdl a ddywedai y byddai'n adrodd sut y bu Brwydr Maes Bosworth yn fodd i Gymry adennill 'unbennaeth Ynys Prydain', ac fe'i tanlinellodd yn rhai o linellau agoriadol yr awdl, a ddisgrifiai:

Cymeriad dewr Cymry dig,
A'u hymroddiad mawreddig
'N ennill Unbennaeth Ynys
Prydain Fawr, ei llawr, a'i llys,
I'w llin eu hun â'u llaw'n ôl...[44]

Arwydd o'r hyn sydd i ddod yw'r modd y mae'n cyfeirio at y Cymry 'yn cwynaw dan ormes', ac yn olrhain hanes Glyndŵr yn ceisio dod â diwedd i'r gormes hwnnw. Mae ei ddisgrifiad ohono a'i 'ymgais glodus' fel 'lava' yn gorlifo o'r 'volcano'[45] yn drawiadol, ond yn dangos ar yr un pryd pam y dywedodd Caledfryn ei fod yn 'ymdroi cryn lawer ar hyd y ffordd' wrth adrodd yr hanes.

Wedi cyfeirio at Glyndŵr, try ei sylw at hanes Harri'n teithio 'at dawel Ben Sant Dewi'[46] gyda'r Llydäwyr, a'r croeso cynnes a gafodd y newydd am laniad yr 'hynaws Harri'[47] drwy Gymru. Unwaith eto, y mae tueddiad iddo fanylu'n ormodol ar y manion lleiaf – er y gellid dadlau fod y llinellau canlynol yn rhoi darlun da o wledd a fwynhaodd Harri ar ei daith i Bosworth, y mae eto daith bell o'i flaen cyn y cyrhaeddai faes y gad, ac eisoes canasai Ellis dros ddau gant a hanner o linellau cyn y rhain:

Lluaws yn dwyn caws ac ŷd,
A rhif ddyg fara hefyd;
Y lleill, eu costrelau llawn,

44 Elis Wyn o Wyrfai, Awdl Brwydr Maes Bosworth (Tremadog, 1859), t.5

45 *ibid.*, t.6

46 *ibid.*, t.8

47 *ibid.*, t.9

O noddyd fêdd pereiddlawn.
Hardd hulient fyrddau helaeth
A'r rhai hyn ar fin y traeth...[48]

Mae'n cyfeirio at wledd arall ychydig yn nes ymlaen, wedi i luoedd Rhys ap Thomas ymuno â'r criw yr oedd eisoes wedi eu casglu. Gellid dadlau fod adlais o'r Gododdin yn y modd y cynhwysid cymaint o gyfeiriadau at wledda cyn y frwydr – wedi'r cwbl, hyn oedd tâl traddodiadol y milwyr am eu gwrhydri, a modd penigamp yr un ffordd o godi ysbryd y llu, a'u huno cyn y frwydr. Tamaid cydnaws â'r brolio hwnnw yw'r darn llawn angerdd hwnnw a roddir yng ngenau Rhys ap Thomas, sy'n cymharu Harri ag Arthur a thywysogion Brythonig a Chymreig amlwg eraill:

Ein dewr hygar, Bendragon – o deilwng
Waedoliaeth y Brython
Y dorf frwd a dirfawr hon – yn llawn serch
A'th dirion annerch eu doeth Deyrn union:
Dygynull De a Gwynedd
Yn dwyn eirf i gyd un wedd.

Ynot dodwyd hawl Owain Tudur, - hawl
Llywelyn ac Arthur;
Daliwn hwn er pob dolur
Yn hyf o dan arfau dur.[49]

Neilltuir trydydd llyfr yr awdl i gyfeirio at luoedd Esyllwg, Morgannwg, Raglan, Herbert, Fychan a Gwynedd[50] yn teithio tua'r Amwythig, a'r modd yr agorwyd pyrth Stafford, Caerlwytgoed a Tamworth iddynt. Yn y llyfryn 80 tudalen, ar dudalen 50 y gwelir lluoedd Richard am y tro cyntaf, ac oddi yno ymlaen, mae ei adroddiad yn driw i hanes y ddau lu'n nesu at ei gilydd, ac yn dod wyneb yn wyneb ar faes Bosworth. Dywedir mai pum mil o ddynion oedd gan Harri a bod gan Richard yn nes at wyth mil, a chyflëir mwyafrif Richard yn effeithion yn y llinellau hyn:

Eu rhif oedd yn rhyfeddol – yn llenwi
'R holl wyneb cylchynol;
A heigiau ychwanegol
Y rhawg yn tyrru o'u hol,

---

48 *ibid.*, t.14

49 *ibid.*, t.29

50 *ibid.*, t.44

Ac estyn fel locustiaid
Oedd i bell yn dorf ddi-baid.[51]

Wrth symud i lyfr olaf yr awdl, darlunnir maes y gad yn gignoeth – dwy enghraifft yn unig o hynny yw'r llinellau isod:

Croch ydoedd ysgrechiadau – niferi
O dan farwol glwyfau ...

Fel addig haid o fleiddiau, - yn difa
Defaid y corlannau
Heb rwystr, gan waedlyd barhau
Eu rhaib barus trwy'r borau.[52]

Ar ôl ymlwybro mor hamddenol cyn cyrraedd Bosworth, mae'r awdl fel petai'n carlamu o un olygfa i'r llall wedi ergyd gyntaf y frwydr. Neidir o fan lle gwelir 'wyneb yn wyneb anwar, a gorwyllt, / Gurent eu heirf llachar' i fan arall, lle brwydrai 'meirch agwrdd a'u marchogion', ac yna yn ôl i lefel y troedfilwyr, sef 'y byw weddill yn fwy beiddiol – daenent / y dinystr cynyddol'.[53] Ceir sawl darlun cignoeth tebyg yn ystod y tri chant a hanner llinell nesaf, gyda disgrifiadau o lwyddiant graddol lluoedd Harri i amgylchynu Richard, a'r frwydr olaf yn erbyn y milwyr dewr a'i gwarchodai. Fel hyn y croniclir hanes Rhys ap Thomas yn lladd Richard:

Yn eu lle gwelwai, lleihâi y galon,
Amheuai Rhisiart, ofnai'r ymryson.
Ond ar hyn neidiai Rhys, a dyrnodion
A hylaw gurai, nes treiglo'i goron,
Ar ei frig – a thrwy ei fron – ei gwanodd,
Yno ymwyrodd i blith y meirwon.[54]

Yn gyferbyniad rhyfedd i ragarweiniad hirwyntog hanes y frwydr, cwta ddwsin o linellau sy'n dilyn yr uchod, gan nodi coroni Harri 'yn y lle ar faes y llid'. Daw'r awdl i ben trwy ddangos fod yr un a heriodd hawl Richard i'r goron wrth fodd pawb.

---

51 *ibid.*, t.50

52 *ibid.*, t.63

53 *ibid.*, t.64

54 *ibid.*, t.80

Yna'r ddolef fawr, ddilys – a'i gweddus
Gyhoeddi yn hysbys,
Yn iesin Frenin ar frys,
LLYW ENWOG YR HOLL YNYS;
Y llu eirian yn lle y llawrwydd
Etto lawen ddygent olewydd
Yn awgrym o ddiddigrwydd – er boddiol
Gofnodi hudol gyfnod dedwydd.[55]

Mewn gair, llith o awdl a adroddai'r hanes gam wrth gam yw'r awdl hon, ar fath o destun a roddai gyfle i feirdd ddangos eu hymwybyddiaeth o hanes eu gwlad lawn gymaint â'u gallu barddol. O edrych ar deitlau rhai o brif gystadlaethau eisteddfodau canol y ganrif, hawdd gweld bod testunau o'r fath yn boblogaidd. Dyna 'Drylliad y Rothsay Castle' yn eisteddfod Beaumaris 1832, a 'Caradog yn Rhufain' yn eisteddfod yr Wyddgrug 1873, a 'Helen Luyddawg' mor ddiweddar ag eisteddfod Wrecsam yn 1876. Wrth i'r ganrif dynnu tua'i therfyn, daeth testunau Beiblaidd fel 'Golygfa Moses o ben Pisgah', 'Dydd y Pentecost', 'Ioan yn Ynys Patmos' ac 'Y Dilyw' yn boblogaidd, a bron na sefydlwyd patrwm o gynnig naill ai destun Beiblaidd neu bwnc haniaethol fel 'Prydferthwch', 'Y Meddwl', 'Athrylith' ac ati yn yr eisteddfodau a gynhaliwyd o'r 1860au ymlaen.[56]

Dangosodd Ellis ei hoffter o gyfansoddi cerddi hanesyddol yn ei gywydd i 'Diffyniad Gibraltar gan General Eliott' yn eisteddfod Aberffraw yn 1849, ac mewn eisteddfod yn Rhuthun ar Ŵyl Dewi 1859, ymatebodd i'r her o gyfansoddi awdl arall ar hanes a chwedloniaeth ynysoedd Prydain. Y teitl a roddwyd oedd 'Cymodi Beli a Brân, trwy offerynoliaeth eu mam, Corwena'. Camodd Ellis i'r llwyfan i hawlio'r brif wobr am awdl gryno a thrawiadol a gadwodd at y chwedl a groniclwyd gan Sieffre o Fynwy yn Hanes Brenhinoedd Prydain.[57] Tua'r dechrau, mae'n gosod y sylfaen gyda'r englyn hwn:

Yn oesau pell hanesiaeth ein Hynys
Sonnir am ymgecraeth

55 *ibid.*, t.80

56 gw. Beirddgarwr, 'Eisteddfodau Canrif' yn *Cymru* 22 (1902), t.46-50

57 gw. John S. P. Tatlock, The legendary history of Britain: Geoffrey of Monmouth's Historia Regum Britanniae and its early vernacular versions (Berkeley, 1950)

> Dau frawd yn dwyn difrodaeth
> I'w gwlad hoff, a chaled âeth.[58]

Mae'n olrhain asgwrn y gynnen rhwng Beli a Brân i'r modd y rhannodd eu tad, Dyfnwal, ei deyrnas:

> I law deg Beli y daeth
> Areiliad Lloegr ehelaeth;
> ac i Brân yr Alban roes
> O dano hyd ei einioes.
> Chwanegai hyn chwannog wangc
> O newydd ym Mrân ieuangc.[59]

Yna, â yn ei flaen i sôn am Beli'n goresgyn teyrnas Brân tra oedd ei frawd wedi hwylio dros Fôr y Gogledd i briodi merch Brenin Norwy. Mae'r modd y mae'n gwneud hynny, a'r cyfeiriad at 'law deg Beli' uchod, yn dangos pa un o'r ddau a ffafriai:

> I roi golwg ddirgelaidd – i gyrraedd
> Y Goron Brydeinaidd;
> A'i fryd ar droi yn fradwraidd
> I'w frawd ei hun, yn ei frwd aidd.[60]

Yna, mae'n adrodd sut y collodd Brân ei wraig a'i lynges wrth iddo geisio dod yn ôl o Lychlyn i ailfeddiannu ei deyrnas, ac am ei hanes yn ymgartrefu yng Ngâl, lle priododd ferch Leigwria, brenin Bwrgwyn. Oddi yno, trefnodd Brân gyrch arall ar Brydain, a chroesi Môr Udd i drechu ei frawd – yng ngeiriau Ellis:

> Rhwyfai y morwyr hyfion – i gyrraedd
> Yr agored feisdon;
> A dirus neidiai'r dewrion
> Yno i dir ym min y don.
>
> Lliaws o'r llongau lleiaf – a hyfion
> Nofient tua'r orsaf;
> Ymdyrrent am y dewraf
> Yn ewybr hin boreu haf.[61]

---

58 Elis Wyn o Wyrfai, 'Adgymmodiad Beli a Bran, trwy offerynoliaeth eu mam, Corwena', *Y Geninen Eisteddfodol* (1897), t.40

59 *ibid.*, t.40

60 *ibid.*, t.40

O'r diwedd, dynesodd lluoedd y ddau frawd at ei gilydd:

Nesai Brân a'i weis breiniol – o'u hamgaer
I'r ymgyrch dinystriol;
Gerdi hyn y gad o'i ôl
Hyf rodiai yn unfrydol.

Beli i'w hwyneb eilydd – a ddygai
Ei ddu-gad ysblennydd;
Gwelai y ddau ei gilydd
Yn dod i ymgyrch y dydd.[62]

Neilltuwyd dros dri chwarter yr awdl i gyrraedd yr uchafbwynt hwn, ac mae'r cyffro'n cael ei gynnal yn arbennig wrth iddo ddwyn Corwena'r fam i'r stori, a'i hymdrech ar y funud olaf i gael y ddau i gymodi. Yn ddramatig, mae'r fam yn llwyddo i dawelu maes y gad, ac wedi'r geiriau isod, mae'r ddau frawd yn cymodi a chofleidio.

Y *mae* adeg adgymmodi – yn awr, -
Tyr'd yn nes at Beli;
Llefara *hedd* – ennill fri,
Drwy YNYS dy RIENI.[63]

Hon, a'i awdl i'r caethwas, oedd awdlau gorau'r cyfnod cynnar hwn o farddoni. Mae'r ddiweddaraf o'r ddwy yn fyrrach na'r lleill a gyfansoddodd, ac yn ailadrodd y chwedl yn gryno a heb orfod dibynnu ar lawer o eiriau llanw i gynnal y mesur. Canodd yn gynnil, a llwyddodd i osgoi'r duedd ynddo i ogor droi wrth adrodd yr hanes, nodwedd a oedd wedi dod i'r amlwg yn Awdl y Sabath ac Awdl Brwydr Maes Bosworth.

Mae'n amlwg bod ei lwyddiannau wedi ei ysgogi i ddal ati i gyfansoddi awdlau, gan iddo gystadlu yn Eisteddfodau Cenedlaethol Aberdâr 1861[64] a Chaernarfon 1862.[65] 'Cenedl y Cymry' ac 'Y Flwyddyn' oedd testunau awdlau'r eisteddfodau hynny, ac er

61 *ibid.*, t.41

62 *ibid.*, t.43

63 *ibid.*, t.44

64 gw. *Y Brython* 1863, t.414

65 *ibid*, t.161

na ddaeth i'r brig y troeon hyn, roedd yn amlwg yn parhau i fwynhau'r her o gystadlu, ac yn mwynhau cyfansoddi yn y mesurau caeth.

*Gweithgareddau diwylliannol eraill*

Wrth ystyried amrediad testunau awdlau a phryddestau Ellis, hawdd y gellid credu fod ganddo ddigon o allu i fod wedi astudio am radd yn un o brifysgolion Lloegr. Awgryma Gwynedd mai dyna oedd ei nod tra oedd yn parhau i astudio Lladin a Groeg yn Ffestiniog.[66] Mae'n syndod ar un wedd, felly, na chyfeiriodd rhywun ef at yrfa mewn coleg y pryd hwn, o gofio am garedigrwydd rhai fel John Jones Llanllyfni, Thomas Thomas, a Robert Williams Clynnog. Gallai fod wedi ennill gwell cyflog fel offeiriad, a statws uwch mewn cymdeithas i ganlyn hynny, pe bai wedi mynd i goleg hyfforddi offeiriaid St. Bees neu i Goleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan. Cymharer, er enghraifft, gyfeillion dylanwadol Gweirydd ap Rhys yn ceisio ei berswadio i fynd i goleg St. Bees rhyw ddegawd ynghynt.[67] Serch hynny, ni lwyddodd yr un o'i gyfeillion dylanwadol i'w gymell i fynd i goleg, a phlant ardal Rhiwbryfdir yn Ffestiniog oedd ar eu hennill o ganlyniad.

Mae'n debyg fod y ffaith fod ganddo deulu bychan erbyn hynny wedi bod yn un ffactor yn erbyn treulio cyfnod mewn coleg, ond o leiaf gallai hawlio iddo gyfrannu at gychwyn gyrfa o leiaf un doethur, sef y Parchedig Ddr. Robert Llugwy Owen. Roedd cefndir Llugwy yn ddigon tebyg i un Ellis, a difyr meddwl beth fyddai hynt y ddau pe bai'r naill wedi dilyn trywydd y llall. Fel gwerinwr nodweddiadol, gorfu i Llugwy weithio yn ystod ei ieuenctid cynnar a dibynnu ar addysg amser hamdden i ddiwyllio'i hunan. Gadawai ei gartref ym Metws y Coed ar ddechrau pob wythnos i weithio yn chwareli Ffestiniog, ac ar ôl diwrnod caled o waith yno byddai'n mynychu ysgol nos a gynhelid gan Ellis yn Llwynygell. Ychydig a wyddom am gynnwys gwersi'r dosbarthiadau hynny, ac eithrio bod 'amryw fechgyn eraill awyddus am addysg'[68] wedi derbyn yr un arweiniad gyda'r nos yno. Mae'n rhyfedd nodi hefyd mai'r cam addysgol nesaf a gymerodd Llugwy oedd cyfnod gydag Eben Fardd yng Nghlynnog – dichon fod

66 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.198

67 gw. Enid P. Roberts, Detholion o hunangofiant Gweirydd ap Rhys (Llandysul, 1947) . t.141

68 Elfyn, 'Y Parch. Llugwy Owen, M.A., Ph.D.', *Cymru* 39 (1911), t.77

cyswllt clos rhwng Ellis a'i hen athro, a bod y ddau'n aml yn gohebu â'i gilydd, neu'n cyfarfod mewn eisteddfodau. Wedi hynny, bu Llugwy yn weinidog gyda'r Methodistiaid yn Acrefair, yn Rhiwabon ac yna yng Nghonwy, a derbyniodd raddau MA a PhD o Brifysgol Tübingen yn yr Almaen.[69]

Roedd Ellis yn weithgar mewn ffyrdd eraill hefyd yng nghymuned chwarelyddol Ffestiniog, yn un peth fel trysorydd cymdeithas adeiladu. Mae un hanesyn ar gael yn Archifdy Meirionnydd gan un a gasglodd atgofion am y 1860au yn Ffestiniog. Dywed hwnnw fod Ellis wedi cyfieithu areithiau R. E. Williams, y Rhyl a James Taylor, Birmingham ar ran Cymdeithas Adeiladu'r Frenhines mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Llwynygell yn 1862. Ar ôl clywed areithiau'r gwŷr bonheddig, 'cafodd pawb ei lwyr foddhau yn null di-gêl Mr Taylor yn dadlennu egwyddorion y gymdeithas ardderchog hon a phenderfynwyd sefydlu yn Ffestiniog, ag i Mr Ellis Roberts, Ellis Wyn o Wyrfai fod yn oruchwyliwr arni...'[70]

Dywed yr adroddwr fod pedair cymdeithas gyffelyb eisoes wedi eu sefydlu yn Ffestiniog, a'r rheiny'n fodd i helpu'r trigolion lleol adeiladu eu tai eu hunain wrth i chwareli'r fro ffynnu.[71] Mae'r ffaith iddynt ymddiried y cyfrifoldeb o arolygu cangen Cymdeithas Adeiladu'r Frenhines yn Ffestiniog i Ellis yn awgrymu ei fod yn cael ei ystyried yn aelod dibynadwy o'r gymuned gan lawer, a bod ei alluoedd dwyieithog o gymorth iddo allu pontio'r bwlch rhwng siaradwyr uniaith Ffestiniog ac estroniaid o du hwnt i Glawdd Offa.

Rhoddwyd ei ddoniau ieithyddol ar waith ym myd cerddoriaeth Cymru'r cyfnod hefyd. Ar ddau achlysur o leiaf, bu'n cyfieithu geiriau i gerddoriaeth y Pencerdd Owain Alaw.

---

69 Ymysg y llyfrau a gyhoeddodd R. Llugwy Owen mae
Catecism ar Swper yr Arglwydd : I Ymgeiswyr Ieuaingc (Dinbych, 1871);
Cyfieithiad Cyfochrog o'r Rhufeiniaid : yn cynnwys 1. Un Dr. Morgan, y Fl. 1588; 2. Un Cymdeithas y Beiblau; 3. Un newydd gan Dr. Llugwy Owen (Conwy, 1903);
Y Drych a'r Ffynon : sef nifer o bregethau (Conwy, 1901); *(parhad drosodd)*
Hanes Athroniaeth y Groegiaid (Conwy, 1899) ac
Odlau'r Pumafon : namyn tri triugain o emynau newyddion (Colwyn Bay, 1905)

70 Archifdy Meirionnydd, Dolgellau, Z/M/2532/1

71 *ibid*, Z/M/2532/1

Un enghraifft yw ei gyfieithiad o'r gân orymdeithiol 'Dowch mewn trefn - Keep in Step.' Cyfieithodd o'r Saesneg yn bur llwyddiannus, gan gadw mydr y tri phennill, y rhag-gytgan a'r gytgan. Gwelodd R. Hughes a'i fab, Wrecsam yn dda i argraffu ei gyfieithiad ochr yn ochr â'r geiriau Saesneg yn rhifyn 35 o 'Miwsig y Miloedd'.[72] Yn yr un pamffled, cyhoeddwyd cyfieithiad y bardd Talhaiarn o 'Rule Britannia', a chân enwog John Hughes (Ceiriog), 'Siaradwch y ddwy'. Yn y gân hon y digwydd y geiriau enwog hynod nodweddiadol hynny o feddylfryd ieithyddol y cyfnod, sef y dylai'r Cymro ddysgu'r Saesneg yn ogystal â'i famiaith:

Llewelyn bach, tyrd yma,
  Ac ar fy neulin dysga
Iaith dy fam yn gyntaf un,
  Ac wedyn iaith Victoria.

Ac os bydd neb yn gofyn
  P'run well gen' ti, fy mhlentyn,
Pa un ai'r Saesneg ai'r Gymraeg?
  D'wed dithau'r ddwy, Llewelyn.

Achlysur arall pryd y galwyd am ei ddoniau cyfieithu oedd pan drosodd eiriau Cymraeg Ceiriog i'r Saesneg ar gyfer cantata yr oedd Owain Alaw wedi ei chyfansoddi 'er anrhydedd am ddyfodiad Tywysog Cymru i oed.' Ymysg caneuon y gantata hon ceir 'Myfi sy'n magu'r baban, myfi sy'n siglo'r cryd' a droswyd ganddo i ' 'Tis I that nurses baby, I tend him day and night'. Cyhoeddwyd y gantata hon hefyd gan gwmni Hughes, Wrecsam, yn sgil perfformiad ohoni yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1862.[73] Rhaid fod pwyllgor yr eisteddfod honno wedi credu mai da o beth fyddai cael cyfieithiad Saesneg o'r gantata, er mwyn i noddwyr di-Gymraeg (a'r Tywysog ei hunan, efallai) allu deall yr hyn oedd yn cael ei ddweud.

Ceir cip ar sut y cytunwyd ar y telerau am y gwaith cyfieithu mewn dau lythyr o'i eiddo at Ceiriog sydd wedi'u cadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn ei lythyr cyntaf, mae

72 Owain Alaw, Pencerdd; (geiriau Cymraeg gan Ellis Wynne), Dowch mewn trefn = keep in step; rhan-gan, pedwar llais Miwsig y Miloedd 35, (Wrexham, 1865)

73 John Owen (Owain Alaw, Pencerdd); Welsh words by J. Ceiriog Hughes ; translation by E. Roberts, Festiniog The Prince of Wales Cantata (Wrexham, 1862)

Ellis yn holi braidd yn frysiog tybed pa bryd y byddai'n derbyn tâl gan yr eisteddfod am ei gyfieithiad:

> I should be most happy to get a few shillings from them. 40/, when I do get it, being a very inadequate remuneration, as you are aware, for 6 weeks work in translating it.[74]

Rhyw bythefnos wedi'r llythyr hwnnw, roedd ganddo ragor o hamdden i ateb Ceiriog yn fwy cwrtais. Mae'n amlwg fod Ceiriog wedi nodi yn y cyfamser ei fod yn fodlon iawn â'r gwaith, ac y byddai'n dymuno parhau â'r trefniant cyfieithu:

> In reply to your kind note just received, I beg to say that if you can wait for the translations till after Christmas next, I shall feel much pleasure in converting your *Melodies* into English...[75]

Roedd ganddo reswm da yn ôl pob golwg dros ofyn am beth amser i gyfieithu, gan iddo fynd yn ei flaen i ddweud:

> I am very busy preparing for an examination at Xmas which may ultimately do me much good, so that I cannot undertake to write anything till that is past.[76]

Byddai derbyn cydnabyddiaeth o ddeugain swllt yn eithaf buan am gyfieithu'r gantata wedi bod o gymorth mawr iddo brynu llyfrau at yr arholiad hwnnw a fyddai'n gwella rhyw gymaint ar ei fyd.

*Urddau eglwysig gam yn nes*

Mae'n debyg bod yr 'arholiad' hwnnw y cyfeiriodd Ellis ato wedi dod yn sgil gweithgarwch hamdden yr oedd yn ei fwynhau yn Ffestiniog. Treuliodd gyfnod yn astudio ar y cyd â'r Parchedig John Sturkey, un a oedd yn ymweld â Ffestiniog yn ysbeidiol, yn ôl pob tebyg. Yn 1860 roedd Sturkey wedi cael ei urddo'n ficer corawl gan esgob Llanelwy, a thua'r un cyfnod anogwyd ef i ddysgu'r Gymraeg. Aeth at Ellis felly am wersi, ac yn gyfnewid am y rheiny cynorthwyodd ef ei diwtor i gryfhau ei afael

---

74 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Llawysgrif 10187E (59)

75 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Llawysgrif 10187E (60)

76 *ibid*, t.2

yntau ar yr iaith Roeg. Darllenai'r ddau lenyddiaeth Ladin gyda'i gilydd hefyd, ac yn ystod seibiau rhwng yr astudio trodd eu sgyrsiau at urddau eglwysig. Cyrhaeddodd y sgyrsiau hyn eu penllanw yn ôl Gwynedd oddeutu Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1862, wedi i Ellis alw yn nhŷ Sturkey yn Llanelwy yn ystod yr haf hwnnw a chael ei annog yn daer gan ei gyfaill i ystyried cael ei ordeinio.[77]

Â Gwynedd mor bell â datgan mai Sturkey 'droes ei feddwl gyntaf ... i'r cwestiwn o geisio urddau.'[78] Er y gallai hynny fod yn wir, mae'n bur debyg mai pen draw symudiad graddol tuag at yr offeiriadaeth oedd yr anogaeth allweddol a ddaeth yn sgil y gyfeillach â Sturkey. Rhaid cofio fod y rhan fwyaf o'r rhai a hwylusodd addysg Ellis o gefndir eglwysig, a bod y teulu i gyd wedi closio at yr Eglwys yn ystod eu cyfnod yn gofalu am felin Llanllyfni. Cofier am garedigrwydd clochydd a pherson Llanllyfni, am Robert Williams yng Nghlynnog, am Thomas Thomas yng Nghaernarfon, am eraill a oedd yn gysylltiedig â'r coleg hyfforddi, a chyfeillion yn Ffestiniog hefud yn sgil ei waith yn yr Ysgol Genedlaethol a'r Ysgol Sul. Roeddynt wedi gweld, yng ngeiriau Gwynedd, 'y gallai ddarparu uwch lluniaeth i'w gydgenedl'.[79] Mewn oes cyn bod sôn am brifysgol yng Nghymru, mynd yn offeiriad neu'n weinidog oedd y cam amlwg ymlaen i werinwr a ddangosai awydd a gallu neilltuol am addysg.

Yn ystod y chwe mis wedi Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1862, byddai bywyd Ellis a'i deulu bach yn troi'n llawn tua'r Eglwys, a golygai hynny gefnu ar gymdogaeth Ffestiniog a fu'n gartref digon hapus iddynt am wyth mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd y pedwar cyntaf o'u chwe phlentyn wedi eu geni, a phriodol yma yw cyfeirio'n fyr at flynyddoedd cynnar y rheiny.

William Morris, sef enw cyntaf y ddau daid, oedd enw bedydd y mab cyntaf. Fe'i ganed tua diwedd 1855 mae'n amlwg, gan iddo gael ei fedyddio ar Ŵyl Nadolig y flwyddyn honno. Ymhen dwy flynedd wedi hynny roedd Esther yn feichiog eto, ond bu

---

77 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.198

78 *ibid*, t.198

79 *ibid*, t.198

farw'r ail fab ar ei enedigaeth. Yn ei alar, cyfansoddodd Ellis y penillion canlynol ar 24 Awst 1858, gydag 'ar farwolaeth fy ail fab' yn bennawd iddynt:

> One struggle on the brink of life
> Was all frail nature gave;
> Brief was the pang and short the strife
> That bowed thee to the grave.
>
> But thou Fair boy, a cherub bright
> Among the saints above,
> Now shinest in the realms of light
> Safe in the Saviour's love.[80]

Sylwer mai yn Saesneg y cyfansoddodd y farwnad hon. Mae hynny'n cadarnhau ei fod erbyn hynny'n gwbl rugl yn y Saesneg, ac yn teimlo y gallai fynegi ei hun fel bardd hyd yn oed yn yr iaith fain. Mae awgrym yma hefyd mai'r Saesneg, mamiaith Esther, oedd yn cael ei defnyddio fynychaf ar yr aelwyd. Efallai'n ogystal iddo ysgrifennu yn Saesneg er mwyn i'w deulu yng nghyfraith allu darllen y penillion.

Ganed un mab arall ac un ferch cyn iddynt symud o Ffestiniog. Ellis Gregory – eto'n cyfuno dau enw teuluol (y tro hwn ar ochr y neiniau) – a roddwyd ar y bachgen a aned tua diwedd 1859, a dwy flynedd yn ddiweddarach ganed Esther Margaret, neu 'Essie' fel yr ymddengys iddi gael ei galw trwy gydol ei bywyd. Bedyddiwyd Ellis Gregory ar 20 Chwefror 1860, a bu ond y dim i'r ffaith honno gael ei hepgor o lyfr cofrestru bedyddiadau Eglwys Dewi Sant, Ffestiniog. Fe roddir y wybodaeth ynghylch ei fedydd fel atodiad ar waelod y dudalen, gyda nodyn gan yr offeiriad yn cydnabod ei amryfusedd. Mae cofnod bedydd Esther Margaret sut bynnag yn ei le priodol, sef 4 Awst 1861.

Bedyddiwyd y tri phlentyn a gafodd fyw yn Eglwys Dewi Sant, Ffestiniog, gan Robert Killin, a oedd yn gurad parhaol yn Ffestiniog yn ystod y cyfnod y bu Ellis a'i deulu'n byw yno. Hanai'n wreiddiol o Geredigion, a daeth i Ffestiniog yn gyntaf oll yn 1851. Wedi pedair blynedd yn ficer Clynnog rhwng 1865 a 1869, dychwelodd i Ffestiniog yn

80 Dyfynnwyd gan R. Glyndwr Williams, 'Elis Wyn o Wyrfai' : Traethawd heb ei gyhoeddi. gw. www.zoominfo.com/directory/Roberts_Ellis_22392353.htm

rhinwedd ei swydd fel rheithor Maentwrog, a threuliodd flwyddyn cyn ei farwolaeth yn 1891 yn rheithor Llaniestyn a Llandegwning yn Llŷn.[81]

Ni wyddys a ddylanwadodd Killin yn neilltuol ar Ellis, ond barnai mab hynaf Ellis, sef William Morris Roberts, i fro'r Moelwyn gael dylanwad mawr ar ei dad. Disgrifiodd y fro fel:

> Ardal dawel, ramantus, creigiau aruthrol, afonydd geirwon, yn rhuthro trwy nentydd hyfryd, llynnau ariannaidd yn gwenu mewn corsydd a ffriddoedd eang. Gwlad i feithrin myfyrdod â'r awen, ac y mae yn ddiamau yr oedd yr elfen bysgodol (ei unig seibiant) yn ei arwain yn aml i fangre dychymyg a phrydferthwch awen mewn glennydd a gelltydd aneirif Meirion ac Arfon gerllaw. ...yr oedd ym Mlaenau Ffestiniog ddefnyddiau i hogi erfyn mwy sylweddol na'r awen, i wynebu brwydr galed y bywyd dynol. Dysgodd ymdrin â'i gyd-ddynion gyda doethineb ac amynedd a barodd hyd yn nod i'w elynion politicaidd ac enwadol ei hoffi fel *dyn*.[82]

Yn 1862 felly, penderfynodd gefnu ar fywyd fel addysgwr er mwyn dilyn galwedigaeth offeiriad. Byddai'n sicr yn tynnu'n helaeth ar yr addfwynder a'r natur bwyllog a fagodd yn sgil ei gyfnod hapus yn Ffestiniog wrth iddo wasanaethu tan ddiwedd ei oes mewn tri phlwyf yn esgobaeth Llanelwy. Dyma ddechrau'r bennod fwyaf yn ei hanes – yr offeiriad plwyf gweithgar, a fyddai'n anorfod yn gorfod rhoi'n hael o'i amser i amddiffyn y sefydliad a wasanaethai.

81 Richard Rhys Hughes, Biographical epitomes of the bishops and clergy of the diocese of Bangor from the reformation to the reconstitution (Bangor, 1932)

82 W.M. Roberts, 'Golygwyr "Yr Haul": Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* Cyfres Llanbedr Pont Steffan 17 (1915), t.196

# Pennod 4

## i - Curad Rhosymedre

Roedd Ellis wedi awgrymu mewn llythyr at Ceiriog yn Hydref 1862 fod newid ar ei fyd ar droed, a'r newid hwnnw oedd y byddai'n cael ei urddo'n offeiriad yn ystod Nadolig y flwyddyn honno. Cadarnheir hynny yn rhifyn cyntaf y St Asaph Clerical Directory. Yn adran y 'List of the clergy in the diocese of St Asaph according to their years of orders', fe'i rhestrir fel un oedd newydd gael ei benodi'n gurad Rhosymedre yn 1862. Rhoddir enwau J. B. M. Williams, curad Aberriw, ac Edward Richards, curad Betws-yn-Rhos, gydag ef fel rhai a ordeiniwyd yn ddiaconiaid ar ŵyl y Nadolig, 1862. Nodir bod y ddau arall yn meddu ar raddau B.A. ond amdano ef, dywedir yn syml, 'Ellis Roberts, Literate, licensed to Rhos-y-medre'.[1]

*Y broses o ymgeisio am urddau*

Roedd hi'n arferol, os nad yn ddisgwyliedig, i offeiriaid feddu ar radd prifysgol, ac os nad oedd ganddynt radd, yna mae'n amlwg bod gofyn iddynt brofi eu gallu mewn arholiad. Byddai esgob Llanelwy yn cynnal gwasanaeth ordeinio ar hyd at bedwar o Suliau mewn blwyddyn, sef rhywdro yn ystod y Garawys, ar Sul y Drindod, yn ystod mis Medi, ac yn ystod tymor y Nadolig. Byddai gofyn i'r rhai a ymgeisiai am urddau diacon gyflwyno cais ysgrifenedig iddo rhyw dri mis cyn yr ordeiniad, gan nodi enw o leiaf dri offeiriad a oedd yn barod i gyflwyno tystlythyrau i gefnogi eu cais. Mae'n debyg bod Thomas Thomas a John Sturkey wedi hwyluso cyfarfod cychwynnol rhwng Ellis a'r esgob, ond offeiriaid Ffestiniog, sef Richard Killin a David Edwards, a Robert Williams, Clynnog, a arwyddodd y dogfennau angenrheidiol ar 17 Tachwedd 1862.[2]

Yn ôl y drefn, byddai'r esgob wedi gwahodd yr ymgeisydd i'w weld ar ôl cael ei fodloni gan gynnwys y tystlythyrau, ac yna byddai'n eu harholi ar eu gwybodaeth o'r Testament Newydd mewn Groeg a hanes yr ysgrythur. Diau y byddai Ellis wedi tynnu ar yr hyn a ddysgodd ar ei liwt ei hunan ac yn y coleg yng Nghaernarfon mewn prawf o'r fath, ac fe fyddai'r gwersi Groeg a gafodd yn gyfnewid am wersi Cymraeg gan John

---

1 The St. Asaph Clerical Directory and Church Calendar, for the year of our Lord 1863 (St. Asaph, 1863), t.118

2 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Llawysgrif Esgobaeth Llanelwy, SA/O/332.

Sturkey yn hynod ddefnyddiol hefyd. Byddai'r esgob hefyd wedi dewis pwnc arbennig arall ymlaen llaw ar gyfer yr ymgeisydd, ac fe fyddai'n disgwyl iddo allu siarad ar y pwnc hwnnw yn ystod yr ymweliad â thŷ'r esgob.

Yn atodol at eirda'r tri offeiriad, byddai disgwyl i'r ymgeisydd gyflwyno ei dystysgrif bedydd a'r 'si quis', sef llythyr o gymeradwyaeth gan ei offeiriad plwyf a wardeiniaid ei eglwys. Yn naturiol, disgwylid i'r ymgeiswyr fod yn hyddysg yn eu Beiblau ac yng nghynnwys y Llyfr Gweddi, a byddai disgwyl iddynt hefyd wybod am hanes yr Hen Destament a'r Newydd, athrawiaethau Eglwys Loegr, hanes yr eglwys esgobol, a hanes Cristnogaeth yn gyffredinol. Fel y dywed blwyddiadur Llanelwy:

> The object of the Examination is to discover whether the Candidate possess that knowledge which will render him fit to do the work to which he is called. Ignorance with regard to the Bible generally ... will expose a Clergyman to the tacit contempt of those who discover his deficiencies.[3]

Dyna'r her a osodwyd i Ellis felly, a chan iddo gael ei ordeinio ar Ŵyl Nadolig 1862, mae'n amlwg ei fod wedi bodloni ei esgob.

*Cymydog a chyfaill enwog*

Cafodd un arall o bwys ei ordeinio yn Rhagfyr 1862 – sef Henry Thomas Edwards, a aeth maes o law yn gurad at ei dad yn Llangollen. Ymhen amser, deuai H. T. Edwards yn Ddeon Bangor ac yn un o Gymry enwocaf yr eglwys sefydledig, gan chwarae rhan amlwg yn y brwydrau mawr o blaid ei sefydliad ac mewn amddiffyniad o'i hawl i alw ei hun yn Eglwys y Cymry.[4]

Roedd H. T. Edwards wedi gorfod cefnu ar yrfa addysgol yng ngholeg Llanymddyfri pan ddaeth i gynorthwyo ei dad yn ei henaint yn Llangollen. Ef oedd y trydydd o bedwar mab y teulu enwog hwn a urddwyd yn offeiriaid – y cyfan ohonynt wedi graddio yng ngholegau gorau Lloegr. Yr ieuengaf o'r brodyr oedd A. G. Edwards, a ddeuai'n esgob Llanelwy tra oedd yn gymharol ifanc, ac a ddaeth yn archesgob cyntaf

---

3 The St. Asaph Clerical Directory and Church Calendar, for the year of our Lord 1863, t.132

4 gw. Robert Owen Roberts, The life and work of Dean Henry Thomas Edwards (1837-1884) Traethawd M.A. Prifysgol Cymru Bangor 1977, a David Jones (Gol.), Wales and the Welsh Church; papers by Henry T. Edwards (London, 1889)

yr Eglwys ddatgysylltiedig yng Nghymru wedi hynny. Byddai'r teulu hwn yn gwneud cyfraniad mawr at weithgareddau'r eglwys yng Nghymru yn ystod y trigain mlynedd wedi 1862.

Blaenoriaeth Henry yn 1863 er hynny oedd gofalu am bum mil o eneidiau plwyfolion Llangollen, yn enwedig gan nad oedd ei dad yn ŵr iach. Mae'n debyg felly ei fod yn falch o gyfle am sgwrs gydag offeiriaid eraill y cylch pan gâi ychydig o hamdden. Gan fod Rhosymedre yn neoniaeth Llangollen, roedd pob cyfle felly i ddau offeiriad newydd gyfarfod, ac mae sôn bod Henry ac Ellis wedi dod yn gyfeillion da. Yng ngeiriau Ellis ei hunan, '...[c]efais yr hyfrydwch o fod yn gymydog iddo, yn gurad Rhosymedre, y plwyf nesaf ato, am bedair blynedd.'[5]

Pan fu farw Henry Edwards yn 1884, dewiswyd Ellis i lunio cofiant iddo yn *Y Geninen*. Roedd ganddo ddigon i'w ddweud am rinweddau a nodweddion H. T. Edwards fel Eglwyswr a Chymro, ac esboniodd fel yr oedd y ddau ohonynt wedi dod dan swyn pregethau F. W. Robertson, Brighton, tra oeddent yn gymdogion. Credai'r diwinydd rhyddfrydol hwnnw mai un o'r pethau pwysicaf i Gristnogion ei gofio oedd yr egwyddorion a oedd yn eu huno â'u cyd-Gristnogion o ba draddodiad bynnag, yn hytrach na'r nodweddion a oedd yn eu diffinio'n enwadau neilltuol.

Daeth cyfle i'r ddau drafod syniadau diwinyddol modern a dulliau o weithredu yn y plwyf mewn cyfarfodydd clerigol yn neoniaethau Llangollen a Wrecsam, lle astudiai offeiriaid y deoniaethau hynny'r Beibl gyda'i gilydd bob yn ail fis. Yn y cyfryw gyfarfodydd, 'byddai y Deon bob amser yn bresennol'[6] meddai, ac mae'n rhaid ei fod yntau'n aelod selog i allu datgan hynny. Mae'r St Asaph Clerical Directory ar gyfer 1863 yn disgrifio sefydlu cymdeithas nid annhebyg i'r un a oedd yn neoniaeth Llangollen. Mae cyfansoddiad y gymdeithas honno'n datgan bod clerigwyr y ddeoniaeth yn cyfarfod bob yn ail fis i drafod un testun o'r Beibl ac un testun yn ychwanegol yn ymwneud â'r litwrgi neu faterion eglwysig ymarferol. Cyfarfod yn nhai

5 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y Tra Pharchedig Thomas Henry [sic] Edwards, Diweddar Ddeon Bangor', *Y Geninen* 2 (1884), t.161

6 *ibid*, t.162

ei gilydd wnâi aelodau cymdeithas glerigol deoniaeth Llanelwy, ac mae'n debyg mai dyna'r arfer hefyd yn Llangollen. Yr hyn sy'n sicr yw bod Ellis wedi ystyried y cyfarfodydd hyn fel rhan allweddol o'i hyfforddiant:

> Y mae yn annichonadwy gor-werthfawrogi y cyfarfodydd hynny. Yr oeddynt yn goleuo, coethi, ysprydoli, a boneddigeiddio y rhai a gymmerent ran ynddynt."[7]

Yn y cofiant, dywed mai Archddiacon Wickham fyddai'n arwain y cyfarfodydd, ac roedd Canon W. Walsham How, a ddaethai wedyn yn esgob Bedford, a Canon Maude ymysg y rhai eraill a fyddai'n dod i'r cyfarfodydd hynny'n rheolaidd. Ceir cyfle i sôn eto am yr esgob How, ond difyr yw nodi bod newyddiadur Eglwys Loegr, *The Record*, yn nodi bod Canon Maude wedi dylanwadu ar Ellis tra bu yn Rhosymedre.[8] Yn anffodus, dim ond y ffaith foel honno a nodir, ac eithrio ei fod yn ficer Y Waun yn y cyfnod dan sylw. Serch hynny, gwyddys ei fod yn gaplan arholi i'r esgob Short, ac fe fyddai'n siŵr o fod wedi cadw cysylltiad agos ag offeiriaid newydd eu hordeinio, yn enwedig o fewn ei ddeoniaeth ei hunan. At hynny, pan ordeiniwyd Ellis yn offeiriad yn ystod Nadolig 1863, yr oedd Joseph Maude ymysg y rhai a arwyddodd ei dystlythyrau.

Un arall a gyflwynodd dystlythyr bryd hynny oedd ei hen gyfaill Thomas Thomas. Yn 1859 roedd wedi symud o Gaernarfon i reithoriaeth Rhiwabon, ac yn ystod 1862 symudodd i Llanrhaeadr yng Nghinmeirch, gan aros yno hyd 1871.[9] Gyda phlwyfi Rhiwabon a Rhosymedre yn ffinio, bu mewn sefyllfa ddelfrydol eto i gynorthwyo ei gyfaill ifanc, a defnyddio ei gysylltiadau cyn iddo adael Rhiwabon i awgrymu y byddai Ellis yn ateb y gofyn yn berffaith wrth i'r angen am gurad godi yn Rhosymedre.

*Plwyf Rhosymedre*

Fel y soniwyd yn y bennod gyntaf, roedd ardaloedd yn nwyrain Cymru - yn y gogledd a'r de - wedi eu gweddnewid yn ystod chwyldro diwydiannol y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Crëwyd plwyf Rhosymedre fel canlyniad uniongyrchol i'r newid hwnnw. Gan fod y diwydiannau brics, dur a glo wedi datblygu ar y fath

---

7 *ibid*, t.162

8 'In Memoriam: Canon Ellis Roberts', *The Record* 3 May 1895, t.8

9 D. R. Thomas, <u>A History of the Diocese of St. Asaph</u> (Oswestry, 1906), Cyfrol II, t.287

raddfa o amgylch Wrecsam, cynyddodd y boblogaeth yn fawr, ac ni allai eglwys hen blwyf Rhiwabon felly gynnig yn agos at ddigon o le i'w phlwyfolion. Roedd angen ysgafnhau'r baich bugeiliol oedd ar reithor y plwyf yn ogystal, ac felly aed ati i sefydlu Rhosymedre yn fywoliaeth annibynnol.

Ym Mai 1844 y cadarnhawyd hynny, gan osod ffiniau ychydig dros filltir sgwâr o ran maint, a hynny trwy uno trefgorddau Coed Cristionydd a Christionydd Cynrig gyda phentref Rhosymedre. Roedd gan y plwyf ei heglwys ei hunan yn barod, gan fod un wedi ei chodi i wasanaethu trigolion y rhan honno o hen blwyf Rhiwabon yn 1836. Cafwyd nawdd gan Syr Watkin Williams Wynn a chymhorthdal o £600 gan y Gymdeithas Adeiladu Eglwysig Cyf., bryd hynny i adeiladu eglwys wedi ei chysegru i Ioan yr Efengylwr. Saif yr eglwys yn gymharol ddigyfnewid hyd heddiw, er bod rhai nodweddion mewnol wedi eu hatgyweirio yn 1889. Fe'i hadeiladwyd o dywodfaen lleol ardal Cefn, ac mae'n nodweddiadol o arddull gothig pensaernïaeth y cyfnod, yn enwedig y math o eglwysi a godwyd ar awgrym y Comisiwn Seneddol.[10]

*Ficer cerddgar y plwyf*

Ficer cyntaf y plwyf newydd oedd John David Edwards. Fe'i hapwyntiwyd yn 1843 i barhau â'r gwaith y bu James Price yn ei wneud fel curad yn Eglwys Sant Ioan rhwng agor drysau'r eglwys i'r cyhoedd yn 1837 a sefydlu'r plwyf yn annibynnol ar Riwabon. Hanai J. D. Edwards o Gwnnws, Ceredigion, a graddiodd o Goleg Iesu, Rhydychen. Roedd ganddo lais bas rhagorol a chyfeiriwyd ato'n aml fel y 'Singing Vicar', hyd yn oed cyn cyrraedd Rhosymedre. Tra bu'n gurad yn Aberdyfi, cyhoeddodd Original Sacred Music,[11] sef un o'r llyfrau emynau cyntaf â nodiant cerddorol ynddo ar gyfer yr eglwys sefydledig yng Nghymru.

Gwaith enwocaf J. D. Edwards yn ddiamau yw'r emyn dôn 'Rhosymedre', tôn yn dilyn mesur 66.66.88 a gyplysir yn aml â geiriau Morgan Rhys, 'Dewch, hen wrthgilwyr trist,

10 gw. www.wrexham.gov.uk/welsh/planning_portal_w/publications/churches_exhib/churches_stjohnrhym.htm am y manylion hyn

11 John David Edwards, Original sacred music (Carnarvon, 1836)

at Iesu Grist yn ôl', neu emyn Thomas Jones, Dinbych ar gyfer yr Ystwyll - 'Daeth llywydd nef a llawr i wisgo dynol gnawd'. Daeth y dôn yn fyd-enwog pan osododd Ralph Vaughan Williams hi mewn trefniant o breliwd ar gyfer organ. Cyfeirir at y dôn yn sgil hynny wrth yr enw 'Lovely' hefyd. Nid Vaughan Williams oedd yr unig gyfansoddwr enwog a gysylltir ag enw J. D. Edwards chwaith. Dywedir fod Mendelssohn wedi mwynhau noson yn ficerdy Rhosymedre yng nghwmni'r 'Ficer da' hwn tra oedd ar ei daith o amgylch gogledd Cymru.[12]

Roedd gan blwyfolion Rhosymedre feddwl mawr o'u hoffeiriad, a dywedir fod tysteb wedi ei chyflwyno iddo yn 1865. Yn wreiddiol, £70 y flwyddyn oedd gwerth y fywoliaeth, ond codwyd hynny i £122 yn sgil haelioni'r plwyfolion. Mae sôn ei fod wedi cael cynnig plwyf lle byddai wedi ennill £260 y flwyddyn, a'i fod hefyd wedi cael ei annog i fod yn actor neu ddilyn gyrfa fel canwr llawn amser. Doedd dim dwywaith serch hynny mai yn Rhosymedre yr oedd ei galon, a phan ofynnodd rhywun iddo pam nad oedd wedi ceisio bywoliaeth frasach, neu hyd yn oed ddilyn gyrfa ym myd y theatr, curodd ei fron a datgan, 'Conscience, my dear felloe, conscience.'[13] Bu'n ficer cydwybodol y plwyf am ddeugain o flynyddoedd, tan ei farwolaeth yn Nhachwedd 1885.

*Plwyf prysur*

Nid oes dim i awgrymu fod Ellis yn cyfansoddi cerddoriaeth nac yn chwarae offeryn cerddorol, ond yn sicr roedd y gân yn ei enaid, a rhythm yn amlwg yn nodwedd amlwg o arfogaeth bardd y mesurau caeth. Byddai wedi bod yn ddigon bodlon ar ei fyd yng nghwmni J. D. Edwards yn siŵr, a'r farn gyffredinol yw bod y ficer yntau'n fodlon iawn â gwaith ei gurad. Geiriau J. D. Edwards ei hunan wrth Gwynedd oedd na fu ganddo 'yr un curad erioed ag y gallasai ymddiried popeth iddo fel ag i Elis Wyn.'[14]

12 The Parish of Rhosymedre, taflen a gynhyrchwyd gan y plwyfolion tua 1988, t.8

13 gw. www.btinternet.com/~billevans/wilm/ "There was a Mr. Edwards, Vicar of Rhosymedre for many years, and in 1865; a subscription was got up for him; living used to be £70 per annum but was then £122. He had had one offered to him of the value £260 but refused it as he would not leave his people at Rhosymedre. He had a very big voice, and boasted that he had been asked to become an actor when young. Whyever didn't you said my father once "Conscience, my dear felloe conscience, he said, slapping his chest."

14 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.199

Cymaint oedd ei ymddiriedaeth fel y bu ei gurad yn gwasanaethu mewn cant ac un o fedyddiadau a chant ac un ar hugain o angladdau yn y plwyf rhwng dechrau Ionawr 1863 a diwedd Medi 1866.

Daeth y cyntaf o'r goflaid o angladdau ar 8 Ionawr 1863. Bu'r chwe angladd cyntaf yn rhai digon anodd iddo, yn enwedig o gofio ei brofedigaeth ei hunan yn Ffestiniog ychydig flynyddoedd ynghynt pan gollodd ei ail fab. Merch fach 13 mis oed, Mary Alice Evans o Gefn Mawr, oedd y gyntaf iddo'i chladdu. Ymhen pum niwrnod roedd yn claddu bachgen chwe wythnos oed, ac wythnos yn ddiweddarach fachgen wyth oed. Ar 28 Ionawr claddodd ferch bedair oed; ymhen chwe diwrnod wedyn roedd yn claddu merch wyth mis, ac ar 25 Chwefror daeth angladd merch pum wythnos oed. Nid oedd y dechrau hwn yn ddim ond rhagflas trist o batrwm ei waith dros y tair blynedd a hanner nesaf - ar gyfartaledd, wynebai chwe angladd y mis. Roedd nifer sylweddol o blant yn eu mysg, a nifer o gladdedigaethau 'by coroner's order' hefyd, sy'n awgrymu marwolaethau yn sgil damweiniau diwydiannol, neu o leiaf sgil effeithiau'r gwaith.

Roedd ei deulu ifanc ac yntau wedi ymgartrefu yn ardal Cefn Mawr, lle preswyliai nifer o'r rhai a enillai eu bara menyn yn y diwydiannau trwm cyfagos. Roedd Cefn Mawr ac ardaloedd tebyg o amgylch Wrecsam yn llefydd myglyd, lle llenwai aroglau cemegol ffroenau'r trigolion:

> The belching smoke and smell of the chemical works is still 'fondly' remembered. Talk to many of the older folk in Cefn Mawr and they will remember with equal gusto the wonderful community sprit that existed in those days, the trip to the local shops to spend what little they had, the wonderful nights out in local pubs, the local cinemas and the fiercely religious people attending church or the Salvation Army.[15]

Mae'n wybyddus na chafodd Ellis iechyd rhy dda erioed, ac mae'n debyg mai dyna pam y bedyddiwyd ef yn ei gartref yn hytrach nag yn eglwys y plwyf. Er cystal ei enw da am ei waith yn Rhosymedre, roedd mwg a llwch y fro ddiwydiannol honno'n amharu ar ei iechyd bregus. Datblygodd gaethdra'r ysgyfaint yn ystod y cyfnod hwn, a dywedir na fu iddo wella'n gyfan gwbl o'r cyflwr wedi hynny. Nid ymddengys fod yr awen yn

---

15 gw. www.ruabon.com/cefnmawr.html am y dyfyniad hwn.

disgyn arno yn ystod y cyfnod yn Rhosymedre chwaith, gan nad oes tystiolaeth iddo gipio na chadair na choron, na chyfansoddi fawr ddim barddoniaeth o gwbl rhwng 1863 a 1866. Wrth i'w iechyd cyffredinol ddirywio, a'i hwyliau i ganlyn hynny'n reit siŵr, dywedir iddo geisio curadiaeth mewn ardal wledig. Cyngor sawl meddyg y dyddiau hynny oedd y byddai llond ysgyfaint o awyr iach yn siŵr o wneud y byd o les i bawb, ac felly gwyddai Ellis y byddai'n rhaid iddo adael Rhosymedre yn fuan os oedd am fwynhau gwell iechyd yn ystod gweddill ei fywyd.

Tua chanol 1866, cynigiodd Thomas Thomas guradiaeth Llanrhaeadr yng Nghinmeirch iddo, gan roi'r cyfle i'r ddau ddod at ei gilydd unwaith eto. Wrth wneud hynny, cyfaddefai na allai gynnig gwell cyflog iddo na'r £90 a dderbyniai'n flynyddol yn Rhosymedre, ond fe fyddai'r newid o leiaf yn golygu symud o'r mwg diwydiannol i awyr iach ardal wledig yn Nyffryn Clwyd. Fel yr awgryma Gwynedd, roedd y curad ifanc mewn cyfyng gyngor gan y gwyddai nad oedd awyrgylch ardal ei guradiaeth yn llesol i'w iechyd, tra ar y llaw arall gwyddai fod y newid a gynigid iddo ymhell o fod yn gam ymlaen yn ei yrfa.[16] Diau hefyd fod ganddo feddwl mawr o'i blwyfolion yn Rhosymedre, ac na fyddai'r teulu ifanc ar eu hennill yn faterol pe byddai'n symud i Lanrhaeadr.

Daeth tro sydyn yn ei hanes fodd bynnag, wrth i fywoliaeth plwyf gwledig yn yr esgobaeth ddod yn rhydd. Ni chafodd gyfle i weithio dan adain ei hen gyfaill Thomas Thomas felly, ond o leiaf roedd y newydd yn cynnig llawer gwell dyfodol iddo ar sawl gwedd. Ni fyddai'n rhaid iddo dderbyn gostyngiad yn ei gyflog, a byddai'n cael hynny a fynnai o awyr iach Edeirnion yn ogystal. Ar ben popeth, roedd yna gyfle hefyd i ymgymryd â gwaith plwyf ar ei ben ei hunan am y tro cyntaf.

*Gadael y plwyf*

Mae'n amlwg fod yn chwith gan blwyfolion a ficer Rhosymedre weld eu curad yn eu gadael, a gwnaethant yn siŵr y byddai'n cofio am ei arhosiad yno trwy gyflwyno cloc arbennig iddo ar ei ymadawiad ddiwedd mis Medi 1866. Mae'r cloc hwnnw bellach ym meddiant ei or-ŵyr Richard Roberts, a'r dyddiad arno, sef 29 Medi 1866, yn tystio pryd

16 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.199

yn union y daeth ei gyfnod yno i ben.[17] Yn ystod ei wythnosau olaf yn y plwyf, gwasanaethodd mewn bedydd ar 15 Medi, a phriodas ar 18 Medi. Roedd gweinyddu sacrament glân briodas yn brofiad dieithr iddo, gan mai dim ond mewn pedair priodas y gweinyddodd rhwng Mehefin 1863 a honno y bu'n gyfrifol amdani bythefnos cyn gadael Rhosymedre. Ac felly, ysywaeth, lluosogrwydd yr angladdau oedd un o nodweddion amlycaf cyfnod Ellis yn y plwyf. Ar 19 Medi ei weithred swyddogol olaf yn y plwyf oedd gweinyddu yn angladdau Sarah Jones ac Edward Edwards - y ddau ohonynt yn 27 oed.

Ar ddiwedd tair blynedd a hanner ei unig guradiaeth, roedd ganddo lu o emosiynau cymysg yn ei galon wrth droi tua Glyn Myfyr. Diau y byddai dros gant ac ugain o angladdau wedi rhoi cryn straen ar ei allu i ddygymod â phwysau gwaith offeiriad, a chyfeiriwyd eisoes at effeithiau parhaol yr awyrgylch fyglyd ar ei iechyd. Wedi dweud hynny, mae'n debyg y byddai ymhen amser yn cofio'n ddiolchgar am nifer o brofiadau bendithiol a ddeilliodd o'r cyfnod. Dyna'r dechrau ar ei gyfeillgarwch â H. T. Edwards ac aelodau eraill y frawdoliaeth yn neoniaeth Llangollen, fel Walsham How a'r Canon Maude. Enillodd ymddiriedaeth y ficer cerddgar, J. D. Edwards, a gallodd ddangos i'w hen gyfaill Thomas Thomas, fod yr holl gymorth a gafodd ganddo yng Nghaernarfon wedi arwain at yrfa yn offeiriad gweithgar. Yn Rhosymedre hefyd y ganed ac y bedyddiwyd Mary Ellen a John Richard, dau blentyn ieuengaf Ellis ac Esther. Daeth tristwch gyda marwolaeth Mary Ellen yn fuan wedi ei bedydd ar 21 Awst, 1863, ac yn debyg i'r tro pan fu farw'r plentyn cyntaf, cyfansoddodd benillion yn ei alar am y ferch fach.

> That face of sorrow never wore
> A joyful smile on earth before,
> For she had been a child of woe
> And wailing, all her days below.
>
> Faith, wing thy way, pursue her flight
> High to the Glorious court of light;
> Mark, she unites the happy throng
> And joins in their triumphal song
>
> Thee Lord we praise for evermore

---

17 gw. Atodiad 7

We for this precious hope adore;
Hope beaming through the darkest gloom,
And glory springing from the tomb. January 8th 1864.[18]

Wrth adael Rhosymedre, roedd y teulu o dri mab, un ferch a'r ddau riant ifanc ar ddechrau cyfnod o well iechyd yn Edeirnion, gyda phrofiadau chwerw-felys y cyfnod yng Nghefn Mawr, Rhosymedre, yn sylfaen gref ar gyfer adeiladu bywyd dedwydd gyda'i gilydd.

18 Dyfynnwyd gan R. Glyndwr Williams, 'Elis Wyn o Wyrfai' : Traethawd heb ei gyhoeddi. gw. www.zoominfo.com/directory/Roberts_Ellis_22392353.htm

## ii - Ficer Llanfihangel Glyn Myfyr

Gadawodd Ellis Rosymedre ym Medi 1866, gan gefnu ar awyrgylch fyglyd y gymuned ddiwydiannol honno i ofalu am blwyf ar ei ben ei hun am y tro cyntaf. Ni ellir meddwl am le yng Nghymru sy'n cyferbynnu mor drawiadol â Rhosymedre a Llanfihangel Glyn Myfyr – hyd yn oed wrth deithio drwy'r ddau le heddiw, bron ganrif a hanner yn ddiweddarach, mae'r gwahaniaeth rhwng y diwydiannol a'r gwledig yn amlwg. Dyma lecyn a oedd lawer yn fwy cydnaws â thirwedd bro magwraeth Ellis, ac fe ddeffrowyd yr awen farddol o'r newydd ynddo tra bu yma. Cyn symud i blwyf arall ymhen chwe blynedd, byddai wedi cipio gwobr arall yn un o brif eisteddfodau Cymru, byddai ar ddechrau ennill enw iddo'i hun fel beirniad eisteddfodol, a byddai hefyd wedi rhoi cychwyn ar draddodiad eisteddfodol anrhydeddus yn y pentref. Yn ychwanegol at y cyflawniadau barddol hynny, gwnaeth gyfraniadau nodedig eraill i fywyd a diwylliant y fro.

*Llanfihangel*

Er mwyn cyrraedd Glyn Myfyr, rhaid teithio rhyw dair milltir o Gerrigydrudion ar hyd y ffordd sy'n arwain i Ruthun. Ac eithrio tafarn y Goron gerllaw'r bont dros afon Alwen, ychydig o adeiladau secwlar cyhoeddus sydd yn y pentref. Mae sôn bod ffatri wlân fechan wedi gweithredu ar lan yr afon rywdro yn y gorffennol, ond nid yw yno bellach. O ran adeiladau crefyddol, codwyd capel Maes yr Odyn yn 1816 fel man cyfarfod i Fethodistiaid Calfinaidd y fro. Saif eglwys y plwyf yn ôl i gyfeiriad Cerrigydrudion o'r bont, ac fe'i cysegrwyd i Mihangel Sant, fel yr awgryma enw'r pentref, o leiaf saith gant a hanner o flynyddoedd yn ôl. Mae un o'r cyfeiriadau cynharaf at eglwys ger lleoliad yr adeilad presennol yn nogfen Trethiant Norwich, sy'n dyddio'n ôl i 1254 ac sy'n cyfeirio at eglwys 'Lanwihagel'.

Ceir y disgrifiad gorau o'r eglwys fel yr oedd hi yn nyddiau Ellis yng nghyfrol S. R. Glynne, The Older Welsh Churches. Yn dilyn ei ymweliad yn Ebrill 1868, meddai:

> The church ... has no distinct chancel, save that the latter has a coved roof of modern plastering. The nave roof is original; has the timbers arranged in a manner not uncommon in Wales. The seats are all open, and the wood looks old and dark.[1]

Roedd yr adeilad wedi ei atgyweirio yn 1853, ac fe'i hatgyweiriwyd ymhellach yn 1901. Cyn i Ellis gyrraedd yno, rheithor y plwyf am dros ugain mlynedd oedd William Lewis, gŵr â chanddo radd MA o Goleg Sant Ioan, Caergrawnt. Bu ef farw yn Awst 1866.

*Bwrw ati – yn yr eglwys ac yn yr ysgol*

Ychydig dros wythnos wedi ffarwelio â phlwyfolion Rhosymedre, gorfu i Ellis fwrw ati'n syth â'r gwaith yn ei blwyf newydd. Fel ar ddechrau ei wasanaeth yn Rhosymedre, tasg ddigalon oedd y gyntaf i'w wynebu wrth iddo weinyddu yn angladd merch fach wyth mis oed ar 8 Hydref 1866. Hon oedd y gyntaf o ugain angladd y bu'n gyfrifol amdanynt yn eglwys Mihangel Sant, ond yn groes i'w brofiad fel curad roedd nifer y bedyddiadau yn fwy na chyfanswm y claddedigaethau. Daeth achlysur ei fedydd cyntaf yno ar 28 Hydref 1866, a rhwng hynny a diwedd Medi 1872 gweinyddodd mewn un ar ddeg ar hugain o rai eraill. Dychwelodd hefyd i'r plwyf i fedyddio tri arall cyn i reithor newydd ddod yno, gan ddangos y cwlwm tynn a ddatblygodd rhyngddo a'r plwyfolion tra bu yno. Fel yn ystod ei gyfnod yn Rhosymedre, pethau digon anaml oedd priodasau yn yr eglwys, a dim ond saith pâr a briododd dan ei ofal rhwng 2 Mai 1868 a 11 Chwefror 1872.

Tua 350 oedd yn byw ym mhlwyf Llanfihangel ar ddiwedd y 1860au, gyda'r mwyafrif mae'n debyg yn amaethwyr a fyddai'n cyfrif eu hunain yn Anghydffurfwyr. Ni fynnai Ellis gyfyngu ei ddiddordeb i'r ychydig a oedd yn addoli yn yr eglwys, ac o'r dechrau cyntaf, aeth ati i anadlu ychydig o fywyd i gymuned dawel Glyn Myfyr. Yng ngwanwyn 1867, ailgychwynnodd yr ymgyrch godi arian i adeiladu Ysgol Genedlaethol ar gyfer plant y pentref. Roedd y syniad o adeiladu Ysgol Genedlaethol yn Llanfihangel wedi ei wyntyllu cyn iddo gyrraedd, gan fod William Lewis, y rheithor blaenorol, wedi casglu wyth swllt at y costau. Ond roedd angen tipyn mwy na hynny i gyrraedd y nod, ac mae cyfanswm y gost derfynol, sef dros £242, yn dangos cymaint o waith a wnaeth Ellis i gael y maen i'r wal.

---

1 S.R. Glynne, The Older Welsh Churches (London, 1903), t. 54

Mae llyfr cofnodion yr ymgyrch yn tystio mai Ellis oedd trysorydd y gronfa, ac iddynt gasglu £242 – 9 – 5 erbyn 11 Tachwedd 1869, swm a olygai y gallent dalu holl gostau codi'r ysgol a'i dodrefnu. Rhoddodd £2 – 2 – 0 o'i arian ei hunan yn ddiymdroi at y gwaith, a chafwyd y tir lle byddai'r ysgol yn cael ei chodi o'r clastir a oedd yn ei ofal, ac roedd hwnnw'n werth £20.

Gohebodd â phobl leol a chyrff cenedlaethol, gan anelu at ag esgob Llanelwy yn gyntaf. Ysgrifennodd lythyr at yr esgob Short ym mis Tachwedd 1867, gan nodi ei fwriad i godi ysgol yn y plwyf a gofyn ar yr un gwynt a fyddai'r esgob mor garedig â chyfrannu at y coffrau. Yn y llythyr hwnnw, meddai:

> Until very recently, the Calvinistic Methodists supported a small school in the hamlet near the church, but their funds failing, it is now closed, and the neighbourhood is left without any means of elementary instruction.
> Under the circumstances I thought it my duty to endeavour to erect a school as my predecessor once contemplated, and would be glad to have your Lordship's opinion as to what kind of school would best suit a mountain parish like this, where the population are so scattered that we could not expect more than about 30 children in average attendance, and those very young and mostly of Dissenting parents.
> May I also ask your Lordship if there is any Diocesan funds, such as Bishop Carey's, available for School-building.[2]

Ar sail y llythyr hwnnw anfonwyd £30 at yr achos o Lanelwy, a daeth cyfraniad arall o gronfa'r esgob Carey maes o law. Cafwyd grant o £15 tuag at y costau adeiladu (ynghyd â £4 ymhellach at lyfrau) gan y Gymdeithas Genedlaethol, ac mae'n amlwg fod Ellis wedi anfon llythyrau tebyg i'r un uchod at yr SPCK hefyd, gan eu bod hwythau wedi cyfrannu £2, ac fe ddaeth £10 arall i'r gronfa o Goleg Iesu, Rhydychen. Ac eithrio cyfraniad yr esgob ei hunan a'r £36 o gronfa esgob Carey, daeth gweddill y cyfraniadau, cryn £125, trwy garedigrwydd trigolion lleol. Bonheddwyr oedd nifer o'r tanysgrifwyr wrth reswm, ond fe chwaraeodd y werin hithau ei rhan. Er enghraifft, nodir fod £2 o elw wedi ei gasglu mewn te parti a gynhaliwyd pan agorodd yr ysgol ei drysau am y tro cyntaf.

---

2 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Esgobaeth Llanelwy, SA/Let 301

Er bod ei ddyletswyddau fel trysorydd ymgyrch codi arian at yr ysgol newydd wedi eu cyflawni erbyn 1869, nid dyna ddiwedd cyfraniad Ellis a'i deulu at addysg y pentref. Roedd sicrhau digon o arian i godi'r ysgol yn her aruthrol yn siŵr, ond roedd yn rhaid sicrhau hefyd fod addysgu'n digwydd y tu mewn i'w muriau ar ôl y fath ymdrech. Pan agorwyd y drysau ar 1 Chwefror 1869, nid oedd yn rhaid i ficer y plwyf edrych ymhellach na'i gartref ei hunan am athrawes gymwys, a'i wraig oedd athrawes gyntaf yr ysgol. Nodir enw 'Mrs Roberts' fel yr ysgolfeistres yn y cofnodion ariannol ar gyfer dwy flynedd a hanner gyntaf yr ysgol. Yn ystod ei blwyddyn gyntaf yno, daeth cynifer â 66 o ddisgyblion ati, gyda chyfartaledd o 35 yno gyda'i gilydd ar unrhyw adeg.

Mae cofiannau a ysgrifennwyd i Ellis yn cyfeirio ato'n galw'n aml yn ysgolion ei blwyfi i weld sut y byddai'r plant yn datblygu. Roedd ganddo ddiddordeb brwd yn addysg rhieni a brodyr a chwiorydd hŷn y plant hefyd. Chwaraeodd ran amlwg mewn o leiaf ddau weithgarwch addysgol arall yn yr ysgol newydd. Tystia'r llyfr cofnodion fod ysgol nos wedi ei chynnal yno am 21 o nosweithiau rhwng Hydref 1869 a Mawrth 1870, a daw hyn â hanes am ddosbarth nos cyffelyb dan ei arweiniad ym Mlaenau Ffestiniog i'r cof. Yn ystod y flwyddyn gyntaf hefyd, ceir cofnod fod cyfartaledd o 27 yn mynychu Ysgol Sul yn yr un adeilad, gyda 15 ohonynt yn rhai nad oeddent yn mynychu'r ysgol ddyddiol. Amcan Ellis yn amlwg oedd cymell ei blwyfolion i fanteisio ar gyfleoedd addysgol yn yr un modd ag yr oedd ef wedi ei wneud yn ystod ei fywyd cyn cyrraedd Llanfihangel.

*Diwylliant y fro*

Roedd yr ysgol ddyddiol, yr ysgol Sul a'r dosbarthiadau nos yn danwydd i ddiwylliant bro a oedd eisoes yn enwog am gyfraniad nodedig i lenyddiaeth Gymraeg. Ymysg y genhedlaeth gyntaf a fanteisiodd ar ganolfan addysg newydd y pentref roedd beirdd gwlad fel R. H. Jones, Myfyr Alwen, Glyn Myfyr, Huw Myfyr ac E. T. Roberts a ddaeth yn enwog yn Uwchaled a thu hwnt yn eu dydd. Ond roedd llwyddiant pob un ohonynt yn brin o gyraeddiadau mab enwocaf y pentref a'u rhagflaenodd hwy o ganrif a mwy, sef Owen Jones, a adwaenid fel Owain Myfyr (1741-1814). Barn yr Athro Griffith John Williams

amdano oedd ei fod 'ymhlith prif gymwynaswyr dysg Gymraeg'.[3] Fe'i magwyd yn Nhyddyn Tudur yn y pentref, cyn symud i Lundain a bwrw prentisiaeth fel crwynwr. Roedd yn un o'r rhai a sefydlodd Gymdeithas y Gwyneddigion, y Gymdeithas a gychwynnodd y broses o ddatblygu'r eisteddfod fodern. Gallai restru Morrisiaid Môn a Goronwy Owen ymysg ei gyfeillion, ac fe fu hefyd yn un o ysgrifenyddion cyntaf Cymdeithas y Cymmrodorion.[4]

Yn 1789, cynorthwyodd â'r gwaith o olygu cyfrol o farddoniaeth Dafydd ap Gwilym, ond ei gyfraniad mwyaf clodwiw i ymwybyddiaeth Cymru o'i thraddodiad barddol oedd noddi'r dair cyfrol a gyhoeddwyd rhwng 1801 a 1807 dan y teitl *Myvyrian Archaiology*. Dywedir iddo wario miloedd o bunnoedd o'r elw a wnaeth fel crwynwr i dalu am gasglu cynifer o farddoniaeth y llawysgrifau Cymraeg ag oedd yn bosibl ynghyd yn y cyfrolau hyn. Roedd ei nai, Hugh Maurice, a anwyd i'w chwaer Jane yn Llanfihangel, yn un a fu'n helpu i gopïo'r cerddi o lawysgrifau, ac fe ddaeth yntau'n un o gasglwyr llawysgrifau enwocaf ei genhedlaeth ei hunan wedi hynny hefyd.

Byddai gwŷr llên y fro a fagodd Owen Myfyr a'i deulu diwylliedig yn falch o glywed fod bardd a gipiodd wobrau eisteddfodol ar ei ffordd i ficerdy Glyn Myfyr, hyd yn oed os na fyddai llawer yn dod i wrando arno ar y Sul. Roedd trefnwyr eisteddfod Cerrigydrudion 1867 ymysg y cyntaf i alw am ei wasanaeth, wrth iddo gael ei wahodd i feirniadu eu cystadlaethau llenyddol. Mewn cofiant yn *Y Geninen* i'r bardd Taliesin Hiraethog, dywed Ellis mai yno y cyfarfu â gwrthrych ei ysgrif am y tro cyntaf, ac iddo ddyfarnu'r wobr gyntaf iddo yno am ffug chwedl. Hon oedd y gyntaf o nifer o eisteddfodau pentref y bu'n beirniadu ynddynt yn Uwchaled, a pharhau a wnaeth ei gyfeillgarwch â Thaliesin Hiraethog ac eraill o wŷr llên y fro yn sgil hynny. Fel y dywed ei hunan:

---

3 J.E. Lloyd ac R.T. Jenkins (Gol.) Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940 (Llundain, 1953), t.470

4 Meic Stephens (Gol.) Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru (Caerdydd, 1997), t.406

> ...cefais lawer o bleser yn crwydro ôl a blaen i olwg llynau Alwen, Llymbran, ac Elwy, gan wneuthur Creigiau y Bleiddiau, cartref y bardd Taliesin Hiraethog, yn orphwysfa...[5]

Er mai Cerrigydrudion oedd y ganolfan fasnachol a chymdeithasol agosaf at drigolion Llanfihangel, roedd Ellis yn gweld bod digon o ddiddordeb yn y 'pethe' ymysg ei blwyfolion iddynt allu cynnal eisteddfod ar wahân i un Cerrigydrudion. Yn ôl Emrys Jones, y sôn cyntaf am eisteddfod yn Llanfihangel oedd ym 1872, 'pryd yr oedd Elis Wyn o Wyrfai yn Ficer y Plwy, ac ef yn ôl pob hanes a'i cychwynnodd.'[6] Â yn ei flaen i ddweud, 'nid oes dim mwy i gofnodi am yr eisteddfod hon, dim ond iddi gael ei chynnal mewn pabell.' Er gwaethaf prinder manylion, o safbwynt olrhain cyfraniad y ficer i fywyd diwylliannol y plwyf, mae'r ffaith foel hon yn arwyddocaol, ac at hynny, mae'r ffaith fod eisteddfod wedi ei chynnal yn Llanfihangel bron bob Calan o 1888 hyd 1979 yn dangos bod gan y pentrefwyr le i ddiolch i'r gŵr a roddodd gychwyn i'w heisteddfod. Mewn ffordd, yr oedd yn cyflawni un o gymwynasau mwyaf nodedig Owain Myfyr trwy wobrwyo beirdd a llenorion ym mhentref genedigol y cyfrannwr mawr hwnnw i fywyd llenyddol Cymru.

O safbwynt ei lenyddiaeth ef ei hun, rhoddodd y cyfnod yn Llanfihangel gyfle iddo ailafael mewn barddoni. Mae'n werth sylwi nad oes sôn amdano'n eisteddfota tra bu yn Rhosymedre, ond erbyn 1870 roedd wedi dychwelyd i'r llwyfan ac wedi cipio cadair am ei awdl ar 'Gwareiddiad'. Rhwng 1858 ac 1868 yr oedd cadwyn o Eisteddfodau Cenedlaethol wedi cael eu cynnal yn flynyddol ar yn ail rhwng y gogledd a'r de,[7] ond wedi cwymp y drefn a fu'n gyfrifol am yr eisteddfodau hynny, parhawyd i geisio cynnal o leiaf un eisteddfod fawr bob blwyddyn. Yn 1870, cynhaliwyd eisteddfod gadeiriol Eryri yng Nghaernarfon, ac oherwydd ei bod wedi disgyn yn y cyfnod rhwng 1868 ac aileni'r

---

5 Elis Wyn o Wyrfai, 'Bywyd ac Athrylith Taliesin Hiraethog' *Y Geninen* 12 (1894), t.248

6 Emrys Jones, 'Traddodiad Eisteddfodol Uwchaled', yn Llên y Llannau – Eisteddfodau 1982 (Y Bala, 1983), t.100

7 gw. Hywel Teifi Edwards, Gŵyl Gwalia : yr Eisteddfod Genedlaethol yn oes aur Victoria 1858-1868 (Llandysul, 1980)

Eisteddfod Genedlaethol yn 1881, efallai nad yw'n syndod nad yw'r awdl hon wedi goroesi. Serch hynny, roedd y fuddugoliaeth yn brawf fod awen Elis Wyn o Wyrfai ar waith unwaith eto.

*O gystadlu eisteddfodol i gangell yr eglwys*

Rhywdro yn ystod ei gyfnod yn Llanfihangel dechreuodd gyfansoddi emynau. Mae'n bosib ei fod wedi dechrau gwneud hynny ychydig cyn hynny, yn sgil dylanwad J. D. Edwards, Rhosymedre, ond tua 1870 y ceir y cofnod pendant cynaf amdano'n llunio emyn a welodd yn dda i'w gyhoeddi maes o law. John Richard, ei fab ieuengaf, sy'n cadarnhau hynny yn rhifyn Chwefror 1937 o gylchgrawn *Y Cerddor*, a'r garol dan sylw yw un o'r enwocaf o'i eiddo, sef 'Yn Nhawel Wlad Judea Dlos'. Mewn erthygl sy'n ymateb i drefniant newydd ohoni, mae'r mab yn datgelu nifer o ffeithiau ynghylch ei dechreuadau:

> Ym mhlwy anghysbell Llanfihangel Glyn Myfyr yr oedd Elis Wyn yn ficer, y pryd hwnnw, sef tua'r flwyddyn 1870, pryd y gofynnodd mam iddo i gyfaddasu geiriau Cymraeg i dôn yr oedd hi wedi ei ffansio mewn misolyn Saesneg, ar y geiriau adnabyddus "I love to hear the story"...[8]

Er efallai mai dyna'r emyn a ysbrydolodd gyfansoddi'r garol, nid cyfieithiad llythrennol o'r emyn Saesneg yw 'Yn Nhawel Wlad Judea Dlos'. Cymharer y Saesneg gwreiddiol â geiriau carol Ellis, a gwelir eu bod yn gyfansoddiadau tra gwahanol i'w gilydd:

| | |
|---|---|
| I love to hear the story<br>which angel voices tell,<br>how once the King of glory<br>came down on earth to dwell.<br>I am both weak and sinful;<br>but this I surely know,<br>the Lord came down to save me,<br>because he loved me so. | Yn nhawel wlad Jwdea dlos<br>yr oedd bugeiliaid glân<br>yn aros yn y maes liw nos<br>i wylio'u defaid mân:<br>proffwydol gerddi Seion gu<br>gydganent ar y llawr<br>i ysgafnhau y gyfnos ddu,<br>gan ddisgwyl toriad gwawr. |
| *I love to hear the story*<br>*which angel voices tell,*<br>*how once the King of glory* | Ar amnaid o'r uchelder fry<br>dynesai angel gwyn,<br>a safai 'nghanol golau gylch |

8 J.R. Roberts, 'Y Garol "Yn Nhawel Wlad Judea Dlos"', *Y Cerddor* 7 (1937), t.41

*came down on earth to dwell.*

I'm glad my blessèd Saviour
was once a child like me,
to show how pure and holy
his little ones might be;
and, if I try to follow
his footsteps here below,
he never will forget me,
because he loves me so.

*I love to hear the story...*

To sing his love and mercy
my sweetest songs I'll raise;
and, though I cannot see him,
I know he hears my praise;
for he has kindly promised
that even I may go
to sing among his angels,
because he loves me so.

*I love to hear the story...*

o flaen eu llygaid syn:
dywedai, "Dwyn newyddion da
yr wyf, i ddynol-ryw;
fe anwyd i chwi Geidwad rhad,
sef Crist yr Arglwydd Dduw."

Ac ebrwydd unai nefol lu
mewn hyfryd gytgan bêr
nes seiniai moliant ar bob tu
o'r ddaear hyd y sêr:
"Gogoniant yn y nefoedd fry
i Dduw'r goruchaf Un,
tangnefedd ar y ddaear ddu,
ewyllys da i ddyn."

Rhoed newydd dant yn nhelyn nef
pan anwyd Iesu Grist,
a thelyn aur o lawen dôn
yn llaw pechadur trist:
telynau'r nef sy'n canu nawr,
"Ewyllys da i ddyn,"
a chaned holl delynau'r llawr
ogoniant Duw'n gytûn.

Yr hyn sy'n fwyaf tebygol yw bod Ellis wedi cyfieithu'r geiriau hyn tua 1870, ond ei fod wedi mynd ati tua'r un pryd i gyfansoddi emyn gwreiddiol ar batrwm tebyg i'r un yr oedd ei wraig wedi ei hoffi.

Dywed John Richard Roberts fod ei frodyr, William ac Ellis Gregory, yn bymtheg a deuddeg oed, wedi rhoi'r 'datganiad cyntaf o'r garol yn y Blygain Nadolig', a hynny am mai 'ychydig o gantorion oedd i'w cael yn yr eglwys fach ar lan yr Alwen'. Erbyn heddiw, wrth gwrs, y mae'n garol tra phoblogaidd, a'i geiriau agoriadol, 'Yn nhawel wlad Judea dlos', neu 'Yng nghanol gwlad Judea dlos' yn ôl addasiad rhai llyfrau emynau diweddarach, yr un mor gyfarwydd. Ffafriai J. R. Roberts y fersiwn gwreiddiol, sef 'Yn

nhawel wlad Judea dlos', i gyfeiliant yr hen alaw Nöel, er bod nifer hefyd yn canu'r garol ar alaw a gyfansoddwyd yn benodol i gyd-fynd â'r geiriau gan Eos Bradwen.[9]

Daw cyfle eto i edrych yn fanylach ar emynau Ellis, ond y mae'n werth sylwi fod y cyfeiriad cynharaf hwn at ei emynyddiaeth i'w gael yn yr un flwyddyn â'r olaf ond dau o'i lwyddiannau eisteddfodol mawr. Yn 1870 y cafwyd yr arwydd cyntaf o gyfeiriad newydd yn ei farddoniaeth, a chyfansoddi er cyfoethogi canu mawl ei blwyfolion yn hytrach na difyrru ei hunan y byddai'n ei wneud yn gynyddol wedi hynny. Mae'n debyg hefyd fod ei deulu, yn enwedig John Richard yn nes ymlaen, wedi cynorthwyo'u tad i gyplysu'r emynau â thonau priodol, a bod rhyw gymaint o emynau a charolau eraill wedi cael eu cyfansoddi ym mhersondy Llanfihangel a'u canu am y tro cyntaf yn yr eglwys.

*Manion eraill ynghylch ei gyfnod yn y plwyf*

Mae tri chofnod arall o bwys am gyfnod Ellis yn Llanfihangel cyn iddo symud oddi yno yn 1872. Wrth reswm, yn ficerdy'r plwyf y preswyliai Ellis a'i deulu pan oeddent yn y plwyf, a chawsai trigolion y tŷ hwnnw freintiau arbennig mae'n amlwg. Mewn cyfnod pan nad oedd llawer o ffyrdd da wedi eu datblygu, y man lle pasiai ffordd Thomas Telford o Lundain i Gaergybi trwy Gerrigydrudion oedd y man agosaf y deuai cerbyd y post at Lanfihangel. Oddi yno, dim ond 'llwybrau anodd ei dilyn, drwy ffosydd a phyllau mawnogydd' a arweiniai i Lyn Myfyr.[10] Mewn llyfr o atgofion y bardd gwlad lleol, R. H. Jones, adroddir hanes un o gymeriadau hynaws y fro, sef Elliw Williams, yn teithio o Gerrigydrudion i ddosbarthu'r llythyrau.

> Cychwynnai Elliw'n fore - ymhell cyn dydd yn y gaeaf - i Gerrig y Drudion i gyfarfod y "Mêl bach," a dychwelai tua deg ar yr amser, ar ôl cerdded rhyw bum milltir... Gadawai Elliw'r llythyrau yn y Siop oddieithr llythyrau'r Person. Gorfodid hi i drampio milltir arall ar bob tywydd i dŷ'r gŵr hwnnw i drosglwyddo'i lythyrau ef heb iddo orfod croesi'r rhiniog.[11]

---

9 Eos Bradwen (y gerddoriaeth); Elis Wyn o Wyrfai (y geiriau), Yn nghanol gwlad Judea dlos : carol Nadolig (Caernarfon, 1872)

10 R.H. Jones, Drysau Eraill (Lerpwl, 1923), t.63

11 *ibid*, t.63

Mae'n debyg bod nifer o feirniadaethau eisteddfodol wedi mynd yn ôl a blaen o dŷ'r Person, heb sôn am nifer o lythyrau eraill gan gyfeillion, a bod statws y Person plwy' yn ei gymdeithas yn golygu ei fod yn eithriad i'r arfer o ddosbarthu'r post yng Nglyn Myfyr. Er bod R. H. Jones yn dwyn i gof ateb Elliw dan ei gwynt wedi rhoi llythyrau i forwyn y ficerdy ar un bore neilltuol o lawog, y mae'n werth adrodd yr hyn sydd ganddo i'w ddweud er mwyn dangos nad oedd trigolion y pentref yn dirmygu'r person ar sail y ffafriaeth a gâi gan gludwyr y post:

> Nid grwgnach yr wyf yn erbyn y trefniant i'r gwr parchedig gael ei lythyrau wrth ei ddrws, oblegid roedd Elis Wyn o Wyrfai'n un o'r dynion hyfwynaf, heblaw bod yn un o feirdd gloywaf ei gyfnod. A byth er rhyw fore yn Awst 1868 pan ysgydwodd ef law i groesawu rhyw grwtyn bach i ysgol ddyddiol Llanfihangel Glyn Myfyr am y waith gyntaf y mae fy mharch iddo, ac i'w goffadwriaeth, wedi bod yn fawr.[12]

Serch hynny, cawsai'r Person freintiau unigryw fel y rhain mewn cymdeithas wledig yn enwedig, a hawdd gweld sut y byddai rhai'n gweld anghyfiawnder yn y fath ffafriaeth pan oedd y wasg wrth-eglwysig yn taranu yn erbyn annhegwch perthynas yr eglwys a'r wladwriaeth.

*Llif mawr 1871*

Cyn creu argae ar lyn Alwen, llifai'r afon yn uchel at gyrion yr eglwys ac arweiniodd cawodydd trymion yn 1871 at lif cryfach na'r arfer. Canlyniad hynny oedd i'r llif godi dros y lan a llenwi'r eglwys. Ar wal yr eglwys hyd heddiw, erys coffa o'r trychineb naturiol hwnnw, gan fod rhicyn wedi ei osod deirllath o'r llawr i nodi uchafbwynt y llifogydd ar yr achlysur y torrodd glannau'r Alwen. Yn hytrach na mwynhau ychydig o hamdden wrth bysgota ar ei glan, mae'n debyg mai glanhau baw llif anarferol o gryf afon Alwen o'r eglwys oedd y flaenoriaeth yn ystod y misoedd olaf hynny cyn iddo symud oddi yno.

*Cadw gwylnos*

---

12 *ibid*, t.64

Ychydig cyn diwedd ei gyfnod yn Llanfihangel hefyd, cymerodd ran mewn defod a oedd yn cael ei harfer yn aml yn y Gymru a fu, sef yr wylnos. Hugh Evans, yn ei gyfrol Cwm Eithin, sy'n cyfeirio at hyn wrth iddo ddisgrifio rhai o arferion bro ei febyd yn yr ardal eithinog honno rhwng Cerrigydrudion a Chorwen.[13] Roedd gwylnos yn digwydd wrth i bobl ddod ynghyd yng nghartref un oedd newydd farw, gyda'r cyfarfod (fel yr awgryma'r gair) yn para drwy'r nos, a'r noson honno fel arfer yr un cyn angladd yr ymadawedig. Roedd storïau'n cael eu hadrodd a cherddi'n cael eu datgan ar lafar neu ar gân yn ystod y nos, a chyfraniad y ficer i'r cyfarfod oedd cynnig gweddi dros enaid yr ymadawedig. Dywed Hugh Evans fod yr arferiad wedi marw o'r tir yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond roedd cyfraniad Ellis i un o'r gwylnosau olaf iddo eu mynychu yn amlwg wedi serio'r digwyddiad ar ei gof. Cadarnha hyn mewn cyfeiriad arall ato yn *Cwm Eithin*:

> Yr oeddwn wedi ei glywed ef yn pregethu o'r blaen mewn gwylnos pan oedd yn Berson Llanllonydd, ac wedi ei hoffi.[14]

Llanllonydd oedd Llanfihangel Glyn Myfyr yn yr hanes a adroddid yn Cwm Eithin, gan fod yr awdur wedi newid enwau lleoedd ac enwau rhai cymeriadau wrth gyfansoddi'r gwaith.

Roedd yr wylnos hon gyda'r olaf i'w chynnal yn y dalgylch, ac roedd hefyd yn un o'r pethau olaf a wnaeth Ellis cyn symud i Langwm. Gyda'r pentref hwnnw y byddai'n cael ei gysylltu o hyn ymlaen, ac nid gormod dweud bod y tair blynedd ar hugain a dreuliodd yno ymysg rhai o flynyddoedd mwyaf nodedig y dalgylch. Rhwng 1872 a 1895 byddai'n cyfrannu'n helaeth at fywyd y plwyf mewn termau crefyddol a secwlar. Roedd rhagluniaeth hefyd ar fin ei osod yng nghanol un o gyfnodau mwyaf byrlymus hanes Edeirnion. Byddai'n gorfod tynnu'n gryf ar ei anian Gristnogol a'i brofiadau amrywiol wrth orfod amddiffyn sefydliad yr Eglwys yn wyneb gwrthwynebiad cryf i'w statws freintiedig ar lawr gwlad.

---

13 Hugh Evans, Cwm Eithin (Lerpwl, 1931), t.161

14 *ibid*, t.190.

*Ôl-ysgrif – newid esgobion*

Tra oedd Ellis yn Llanfihangel, ymddeolodd esgob Llanelwy, Vowler Short. Roedd yr achlysur hwnnw yn 1870 yn un arwyddocaol yn hanes Llanelwy a thair esgobaeth arall Cymru, gan mai dyma pryd yr apwyntiwyd y Cymro Cymraeg cyntaf yn esgob ers dechrau'r ddeunawfed ganrif. Joshua Hughes, brodor o Sir Benfro a ficer Llanymddyfri, a benodwyd yn esgob yn lle Short, ac er y gellir dychmygu y byddai Ellis wedi llawenhau bod Cymro Cymraeg o'r diwedd yn eistedd yn un o gadeiriau esgobol Cymru, diau y byddai'n cofio'n annwyl am gymorth a chefnogaeth yr esgob a'i hordeiniodd. Mae'n wir mai gŵr di-Gymraeg oedd Short, ac yn ôl tystiolaeth Roger Brown, nid oedd yn hoff o gwbl o'r iaith frodorol,[15] ond nid ystyriai Ellis hynny'n rheswm digonol i'w bardduo. Fel y dywedodd yn *Y Geninen*:

> Y mae yn ddigon gwir y bu i ddynion isel eu cymeriad ... gymeryd mantais o'r teimlad gwrth-Seisnigaidd yn y wlad, i daflu dirmyg personol ar y Dr. Short, yr hwn a wariodd ei holl gyflog esgobaethol mewn rhoddion at adeiladu eglwysydd ac at addysg, ac mewn elusengarwch personol, gan fyw ar ei eiddo treftadol ei hun. Yr oedd yr Esgob Short yn Gristion gloyw ei gymeriad a glân ei galon.[16]

Yn ei gyfrol Adgofion, mae'r Hybarch David Evans ('Henafgwr') yn llunio portread o'r esgob, ac yn dweud fel a ganlyn:

> Pan ddaeth yr Esgob Short i'r orsedd, ... yr oedd am wasgu ar feddyliau yr offeiriaid ieuainc nad oedd pregethu ond yn un rhan o'u gwaith a'i bod yn ddyletswydd arnynt i gymeryd rhan arbennig yn yr Ysgolion Dyddiol a Sabothol, ac ymweled â'u plwyfolion, y claf a'r iach.[17]

Yn ogystal â gweithgareddau diwylliannol, bwrlwm yr ysgol newydd, a gwasanaethau ar y Suliau a'r dyddiau gŵyl yn eglwys Mihangel Sant, roedd ymweld â'i blwyfolion yn un o nodweddion amlycaf offeiriadaeth Ellis yn Llanfihangel. Fel y dywed Gwynedd:

15 Roger Lee Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate (Cardiff, 2005), tt.61 – 80, ac yn benodol t.78

16 Elis Wyn o Wyrfai, 'Bywyd ac Athrylith y Parch. John Williams M.A. (Ab Ithel), *Y Geninen* 1 (1883), t.184

17 David Evans, Adgofion yr Hybarch David Evans, Archddiacon Llanelwy (Lampeter, 1904), t.145

> Pan yr aeth Elis Wyn i ofalu am blwyf ei hunan, er fod y plwyf hwnnw yn wyth milltir o hyd wrth bump o led, nid esgeulusai na phell nac agos. Cymerai ryw ran o bob dydd i ymweled â'r amaethdai ac â'r bythynnod. Cerddai i'r lleoedd agosaf; eithr marchogai i'r mannau mwyaf pellennig.[18]

Mae dwy ffaith arall a nodir yn Adgofion David Evans yn dangos y byddai Ellis yn ficer wrth fodd Vowler Short. Dywed fod yr esgob wedi pwyso ar ddeoniaid gwlad i 'sefydlu cyfarfodydd clerigol mewn gwahanol blwyfydd i ddarllen y Testament Newydd' - rhywbeth y gwelodd Ellis fudd mawr ynddo tra bu yn Rhosymedre, wrth gwrs. At hynny, dywedir fod Short wastad yn barod ei gymwynas - a'i gyfraniad ariannol – i bwy bynnag a fentrai godi neu atgyweirio ysgolion ac eglwysi yn eu plwyfi. Ar sail hynny, byddai'n fodlon iawn â gwaith ei was yn Llanfihangel, ac mae ei gyfraniad i gronfa codi'r ysgol yn 1868 yn brawf pellach iddo roddi sêl ei fendith ar waith un o'i ficeriaid mwyaf diwyd.

Ar yr olwg gyntaf, gellid tybio mai eithriadau oedd Ellis a David Evans yn y modd yr oeddent yn gweld ymhellach na diffygion ieithyddol Short. Ar sail yr iaith yn bennaf, 'muted opposition', yng ngeiriau Roger Brown, a fu i'r newydd am ei benodiad yn 1846.[19] Beirniadwyd ei ddiffyg Cymraeg yn y *Carnarvon and Denbigh Herald* gan un a alwai ei hunan yn 'Snowdonensis', a dybiai mai sarhad o'r mwyaf oedd anwybyddu holl glerigwyr Cymru trwy benodi Sais i'r gadair esgobol.[20] Ymhellach, mewn llyfryn a gyhoeddwyd gan John Williams, Archddiacon Ceredigion, yn 1858, gwelai hwnnw fai ar Short am dderbyn esgobaeth nad oedd ganddo obaith o allu cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol ynddi oherwydd ei ystyfnigrwydd parthed y Gymraeg. Digon, efallai, yw ailadrodd teitl y llyfryn hwnnw: On the Inexpediency, Folly and Sin of a 'Barbarian Episcopate' in a Christian Principality.[21]

---

18 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.98

19 Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate, t.71

20 *ibid.* t.77

21 John Williams, On the Inexpediency, Folly and Sin of a 'Barbarian Episcopate' in a Christian Principality (London, 1858)

Nid oedd gan o leiaf ddau offeiriad a'i gwasanaethodd lawer o bethau cadarnhaol i'w dweud am y modd yr ymdriniai â'i offeiriaid – ac roedd un o'r rheiny'n gyfaill pennaf Ellis yng Ngholeg Hyfforddi Caernarfon. Ar gyhuddiad a gyrhaeddodd glustiau'r esgob bod Robert Roberts wedi cael ei weld yn feddw, gorfodwyd y 'Sgolor Mawr' i gyfaddef ei fai a rhoi'r gorau i'w guradiaeth yn wyneb yr 'hard, callous, treatment' a ddioddefodd o flaen yr esgob.[22] Beiodd yr esgob am iddo golli ei hunanhyder fel na allai ddilyn gyrfa fel ficer yn yr esgobaeth,[23] ac fel offeiriad ni allai ychwaith ddychwelyd i weithio fel athro yn yr ysgolion cenedlaethol.[24] Pen draw hynny oedd gorfod mudo i Awstralia, lle ysgrifennodd ei hunangofiant enwog.

Un arall a ddaeth dan lach Short oedd Richard Williams Morgan, a farnai fod gan yr esgob ormod o rym, a'i fod yn ei gamddefnyddio yn yr esgobaeth. Ym mhenodiad brawd yng nghyfraith Short, Robert Wickham, yn archddiacon, gwelai Morgan brawf sicr o'i farn, ac aeth ati i gyhoeddi ei deimladau mewn llyfryn dan y teitl Scheme for the Reconstruction of the Church Episcopate and its Patronage in Wales.[25]

Fel un a oedd yn or hoff o ganmoliaeth ar y gorau yn ôl tystiolaeth Robert Roberts,[26] nid oedd Short yn barod i dderbyn y fath sen cyhoeddus, a digwyddodd iddo glywed si am blentyn siawns yr oedd Morgan wedi ceisio gwadu ei fodolaeth. Heb roi cyfle iddo hyd yn oed amddiffyn ei hun (a heb unrhyw dystiolaeth gadarn yn ôl pob golwg), cyhuddodd Richard Morgan o ddwyn gwarth ar ei swydd, a gwnaeth fywyd mor anodd iddo fel na allai yntau, fwy na'r 'Sgolor Mawr', ddilyn gyrfa fel ficer yn ystod cyfnod Short yn Llanelwy.[27]

---

22 J. H. Davies (Gol)., The Life and Opinions of Robert Roberts, a Wandering Scholar (Cardiff, 1923), t.450

23 *ibid.*, t.452

24 *ibid.*, t.453

25 R. W. Morgan, Scheme for the Reconstruction of the Church Episcopate and its Patronage in Wales (London, n.d.)

26 Davies (Gol)., The Life and Opinions of Robert Roberts, a Wandering Scholar, t.378

27 Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate, t.74-5

O'i blaid, gellid dadlau bod y modd y gwthiwyd Richard Morgan a'r 'Sgolor Mawr' o'r neilltu yn brawf o allu rhagorol Short i gadw trefn yn ei esgobaeth. Nid oedd y ddau offeiriad hyn heb eu beiau, a gallai Short ddadlau bod angen cael gwared ar unrhyw offeiriad a oedd yn gwneud drwg i enw da ac unoliaeth yr eglwys, a hithau'n ceisio adfer ei phoblogrwydd. Er i rai geisio cyflwyno deiseb i'r Frenhines yn 1857 yn galw am ddiorseddu Short, y mae'n arwyddocaol bod yn agos at 200 o offeiriaid eraill wedi gwrthwynebu'r ddeiseb honno, gan ei ganmol fel y gwnaethai Ellis. Canmolai'r ddeiseb arall honno ef am ymweld â phob plwyf yn ystod ei dair blynedd gyntaf yn Llanelwy, ac am ei gyfraniadau hael at gronfeydd codi ysgolion a chodi ac atgyweirio eglwysi – gydag un prawf o'r haelioni hwnnw i'w weld yn y £30 a roddodd tuag at godi'r ysgol yn Llanfihangel. Fel y nododd Roger Brown, atgyweiriwyd neu ailgodwyd bum eglwys y flwyddyn ar gyfartaledd yn yr esgobaeth tra bu Short yn gofalu amdani. Nid oes amheuaeth iddo adael yr esgobaeth mewn cyflwr rhagorol i'w olynydd yn 1870, a bod barn Ellis ar ei gyfnod wrth y llyw yn fesur teg o'i gyflawniadau. Serch hynny, y brycheuyn a amharai ar y llwyddiant oedd ei agwedd at y Gymraeg, ac fel y casglodd Brown, 'clearly he would have done far better in an English see.'[28]

Roedd penodi ei olynydd, Joshua Hughes, yn 1870 yn arwydd o'r newid meddwl a fu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg tuag at y Gymraeg fel cymhwyster hanfodol i esgobion Cymru. Roedd yr eglwys wedi cario enw drwg am fod yn gorff Seisnig a fuasai'n anghydnaws â thrwch poblogaeth Cymru am dros ganrif a hanner, ond gyda'r penodiad hwn trefnodd y Prif Weinidog, William Gladstone, fod Cymro i fod yn un o uchel swyddogion yr eglwys yng Nghymru unwaith eto. Yn ngeiriau Matthew Cragoe:

> [Gladstone] recognized that to maintain the outward unity of the establishment, the Church of England was obliged, in effect, to adopt a distinct set of values for its

---

28 *ibid*, t.79

> Welsh branch, and forgo the traditional standards of education and social position expected of an Anglican bishop in favour of 'racial' qualities.[29]

Croniclodd Roger Brown yr hanes y tu ôl i'r penodiad yn ei gyfrol In Pursuit of a Welsh Episcopate, a'r modd y bu cryn bwysau ar y Prif Weinidog i ddewis Cymro pan ymddeolodd Short. Wrth chwilio am offeiriad addas ar gyfer y swydd (un a allai'r Gymraeg), crybwyllwyd sawl enw, ond roedd rhyw anhawster neu'i gilydd yn amharu ar gyfle llawer o'r ceffylau blaen. Roedd H. T. Edwards braidd yn rhy ddibrofiad, a John Griffiths Castell-nedd yn rhy benchwiban (ym marn Arglwyddes Llanofer); nid oedd gafael yr archddiacon Basil Jones ar y Gymraeg yn ddigon cryf, ac nid oedd gan David Howell, Llawdden, radd o un o brifysgolion Lloegr.[30] Yn y pen draw, penodwyd Joshua Hughes er mai gradd BD o Lanbedr Pont Steffan oedd ganddo, yn hytrach na'r BD o Gaergrawnt a nodid yng nghyfeiriadur yr offeiriaid, Crockfords.[31] Bid a fo am ei radd, gwelid ef fel pregethwr grymus, a Chymro a lwyddai i gadw llawer o rinweddau poblogaidd pregethwyr y Methodistaidd o fewn ei offeiriadaeth. Credai rhai fod Gladstone, a oedd yn eglwyswr ac yn Rhyddfrydwr, yn gobeithio y byddai'r penodiad yn cau'r bwlch rhwng yr eglwys a'i gwrthwynebwyr Ymneilltuol a radicalaidd. Fel y nododd Roger Brown, roedd y dyhead hwnnw'n llawer rhy obeithiol,[32] ond er hynny roedd cael Cymro yn esgob yn sicr yn gam i'r cyfeiriad cywir. Y deyrnged orau y gallai rhywun ei disgwyl mewn cyhoeddiad gwrth-eglwysig fel *Baner ac Amserau Cymru* oedd eu bod nid yn unig wedi cyhoeddi pwt digon parchus er cof am Joshua Hughes pan fu farw, ond eu bod yn ogystal wedi dyheu am weld Cymro arall yn cael ei benodi yn ei le.[33]

---

29 Matthew Cragoe, 'A Question of Culture: The Welsh Church and the Bishopric of St Aspah, 1870', *Cylchgrawn Hanes Cymru* 18 (1996), t. 251

30 Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate, t.131

31 *ibid*, t.148

32 *ibid*, t.155

33 'Esgob Llanelwy', *Baner ac Amserau Cymru*, 30 Ionawr 1889, t.8

Fel gwladgarwr, mae'n debyg y byddai Ellis ar y cyfan yn falch o'r penodiad newydd, ac yn cytuno â barn golygydd y *Carmarthen Journal* a ymfalchïai yn apwyntiad un a allai apelio at y bobl gyffredin yn y frwydr yn erbyn datgysylltiad.[34] Pan fu farw Joshua Hughes yn 1889, lluniodd Ellis erthygl gofiant gynnes iddo ar sail ei waith yn Llanelwy, er na fu'n brin o feirniadu nodweddion llai ffafriol ei gyfnod wrth y llyw. Roedd wedi closio ato ar ddechrau ei gyfnod fel esgob, a disgrifiodd y tro cyntaf iddo ei weld:

> Yr oedd yn ŵr prydweddol, gwyneb agored, cadarn ei ymddangosiad, llawn natur dda, agos atom, ond penderfynol. Yr oedd yn bregethwr grymus, ymarferol, o'r dull poblogaidd oedd mewn arferiad hanner can mlynedd yn ôl ym mysg goreuon yr oes – pregethau ag y sonnir am danynt yn cael eu traddodi gan "feistriaid" y gynulleidfa.[35]

At ei enw da fel pregethwr, canmolid ef hefyd am ddewis offeiriaid cymwys ar gyfer plwyfi lle roedd cyfran dda o'r plwyfolion yn siaradwyr Cymraeg.[36] Cofier mai cwta flwyddyn y bu yn y swydd cyn gweld y byddai Ellis yn ficer delfrydol ar gyfer llenwi'r bwlch a adawsid yn Llangwm.

Yr oedd sawl peth arall yn nodedig am y modd y trefnodd ei esgobaeth – yn gyntaf, daeth â nifer o offeiriaid o'r un anian ag ef o esgobaeth Tyddewi i Lanelwy, gan gynnwys David Howell, a benodwyd ganddo'n rheithor Wrecsam.[37] Roedd nifer ohonynt yn raddedigion Coleg Dewi Sant, a nodwedd arall o'i waith fel esgob oedd na dderbyniai ymgeiswyr am urddau sanctaidd heb fod ganddynt o leiaf radd o'r coleg hwnnw neu B.A. o un o brifysgolion Lloegr. Fel y nododd Ellis:

> Parodd hyn gryn lawer o siarad a dadleu ar y pryd, a dywedid fod yr esgob yn anghyson ag ef ei hun, o herwydd tra y gwrthodai dderbyn gwŷr ieuainc o'r colegau

34 *Carmarthen Journal*, 18 Mawrth 1870, t.5. Dyfynnir yn Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate, t.130

35 Elis Wyn o Wyrfai, 'Adgof Uwch Anghof', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 5 (1889), t.67

36 Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate, t.153

37 *ibid*, t.153

> diwinyddol i urddau sanctaidd, derbyniai y cyfryw bersonau gwedi eu hurddo mewn esgobaethau ereill i'w esgobaeth ei hun, a thrwyddedai a dyrchafai hwy.[38]

Amddiffynnodd Ellis y penderfyniad hwnnw trwy ddweud mai 'dyrchafu dysg y weinidogaeth' oedd amcan y fath bolisi, ond tybed pa deimladau oedd yn corddi yn Ellis pan ystyriai na fyddai ef ei hun wedi cael ei ordeinio dan bolisi o'r fath? Efallai bod safiad yr esgob yn ymateb i si a oedd ar led pan apwyntiwyd ef y byddai'r ffaith nad oedd ganddo radd o un o brifysgolion Lloegr yn ei gwneud yn anodd iddo ennyn parch ficeriaid mwy dysgedig nag ef – megis Walsham How, rheithor Whittington ar gyrion dwyreiniol ei esgobaeth fel un enghraifft nodedig.[39] Serch hynny, rheswm mwy tebygol dros y penderfyniad yw ei fod wedi dymuno cael nifer dda o offeiriaid o'r un anian ag ef ei hun o Goleg Dewi Sant yn ei esgobaeth, a'r rheiny wrth reswm bron yn ddieithriad yn siaradwyr Cymraeg.

Er canmol y bwriad i godi safon y clerigwyr, nid oedd Ellis yn berffaith fodlon ar y mewnlifiad o offeiriaid i Lanelwy. Teimlai fod y penderfyniad i ddod â chynifer o offeiriaid o'r tu allan i mewn wedi creu drwgdeimlad yn yr esgobaeth, yn enwedig ymysg y rhai a oedd wedi gweld ambell offeiriad yn dringo'n gyflym iawn ar ysgol cynnydd yr esgobaeth:

> Gwaith anhawdd yw iawn gyfrannu nawddogaeth, a'r unig reol euraidd yn ei chylch yw, "Na rodder nawddogaeth yn ebrwydd i neb." Mwy diogel yw gweithredu oddi ar brofiad gwasanaeth nag addewidion talent, ac ... ofnwn nad oedd yr esgob Hughes yn feddiannol ar lygad craff i weld ym mhell, a gwres gwefreiddiol a gynnyrchai aiddgarwch corfforiaethol ac ysbryd cydweithrediad brawdol, parod, ym mysg y clerigwyr, yn creu cydymgais ac "eiddigedd" yn y naill y llall, pwy a flaenorai mewn daioni.[40]

Gellid barnu bod siomedigaeth bersonol yn lliwio'r sylwadau hynny – wedi'r cwbl, roedd Ellis wedi bod yn gweinidogaethu yn yr esgobaeth am dros ddeunaw mlynedd tra oedd

---

38 Elis Wyn o Wyrfai, 'Adgof Uwch Anghof', t.67

39 Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate, t.151

40 Elis Wyn o Wyrfai, 'Adgof Uwch Anghof', t.68

Joshua Hughes yn esgob, a'i unig ddyrchafiad yn fu ei benodi'n ficer Llangwm yn fuan wedi i Hughes ddod yno. Byddai ysgrifennu yn y fath ysbryd yn groes i natur ddiymhongar Ellis, a haws barnu mai sylw cyffredinol oedd hwn gan un a oedd yn adnabod ei gyd-offeiriaid yn dda, ac a wnâi ei waith fel golygydd cylchgrawn gwrthrychol ar faterion yr eglwys yn gydwybodol.

Serch hynny, rhoes brawf pellach o'i anfodlonrwydd yn ei eiriau beirniadol ar benderfyniad Hughes i beidio â chaniatáu i'w offeiriaid frwydro yn erbyn ymosodiadau Cymdeithas Rhyddhad Crefydd ar statws yr eglwys:

> Ymddangosai yn analluog i amgyffred fod yn ddichonadwy neu angenrheidiol i'r glew fod "ag un llaw yn gweithio yn y gwaith ac â'r llaw arall yn dal arf." Gwelodd ei arglwyddiaeth ei gamsyniad, ond nid cyn i'r gelyn anrheithio llawer o fewn ei esgobaeth. Archoll ddofn i'w galon gariadus ef oedd cael ym Mhuritaniaeth Cymru elyn mor anghymmodlawn i'r Eglwys ag oedd wedi ei gynnyrchu, magu, a meithrin. Nis gwyddai mai gwisg oedd Puritaniaeth yr oes hon am ysbryd y byd, a Siartiaeth yr oes secularaidd hon.[41]

Dyfynnu geiriau'r esgob ei hun a wnâi Ellis,[42] ac er cydnabod bod Joshua Hughes wedi dechrau gwneud yn iawn am fethu â gweld bygythiad y Gymdeithas Rhyddhad Crefydd yn y lle cyntaf, geiriau un a siomwyd yw'r rhain yn sicr, a hynny am na chafod weithredu fel y dymunai lawer ynghynt, er ei fod yn gweld difrod mawr yn cael ei wneud i'r eglwys o'r cyfeiriad hwn.

Yr oedd beirniadaeth yn gymysg ag edmygedd a thosturi yn y modd y cyfeiriodd Ellis at un o nodweddion amlycaf cyfnod Joshua Hughes wrth y llyw, sef ei ymdrech i 'ddangos pob parch, ac ymddwyn yn gariadus tuag at Ymneillduwyr o bob math'. Fel offeiriad efengylaidd, nid oedd hynny'n syndod iddo, na chwaith y pwysau a roddai Hughes ar ei offeiriaid i ymddwyn yr un mor gariadus at Ymneilltuwyr. Arwydd o'r ewyllys da hwn oedd cefnogaeth yr esgob i'r Mesur Claddu a roddai ragor o degwch i Ymneilltuwyr wrth

---

41 *ibid*, t.67

42 Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate, t.151

gladdu eu meirw. Cyn pasio'r mesur, byddai'n rhaid wrth wasanaeth yn yr eglwys cyn claddu'r corff ym mynwent y plwyf. Teimlai Ellis na weithiodd hynny gystal ag y gobeithiai'r esgob, er mor ddiffuant oedd y bwriad.

> Prophwydai na wnelai y ddeddf un niwed i'r Eglwys. Yn hyn yr oedd yn gywir. Dysgwyliai y boddlonai Ymneillduaeth, ac yr enillai ewyllys da. Yn hyn camgymerodd.[43]

At hynny hefyd, barnai ei fod ychydig yn naïf ynghylch y rhwyg rhwng yr Eglwys a'r Ymneilltuwyr.

> Yn nechrau ei weinidogaeth esgobaethol yn ein plith ymddangosai yn llwyr anymwybodol o ddyfnder y rhwyg wleidyddol rhwng Ymneillduaeth a'r Eglwys. Tybiai mai o du y clerigwyr yr oedd y bai mwyaf na buasai mwy o ysbryd cariad yn teyrnasu rhwng Ymneilltuaeth a hwy ; a diau y mawr glwyfwyd ef pan welodd ei hun yn wrthddrych un o'r ymosodiadau bryntaf a wnaeth y wasg Ymneillduol ar esgobion Cymru ar y pwnc a elwid ar y pryd Rhyfel y Degwm. Talwyd iddo ddrwg am dda a chas am gariad.[44]

Cydymdeimlad, yn fwy na beirniadaeth hunanfodlon, sydd yn y geiriau hyn a ysgrifennwyd brin ddwy flynedd wedi helyntion y degwm yn Llangwm y cyfeirir atynt ymhellach ym mhennod 6. Y mae paragraff clo ei erthygl yn cadarnhau hynny:

> Nid oes yn esgobaeth Llanelwy neb ag sydd yn parchu yr Esgob Hughes yn fwy na nyni, a gwaith poenus i ni yw coffau gwendidau *rhinweddol* y gwr da a duwiol hwn,
> "Whose failings leaned to virue's side."
> Ond rhaid i'r dyn cyhoeddus fyw
> "Dan belydr tanbaid haul cyhoeddus byd;"
> rhaid iddo farw
> "Yng nghlorian fawr beirniadaeth lem ei oes."[45]

Yn ddiamau, parchai Hughes ac roedd ganddo gydymdeimlad mawr ag ef o ran y modd y siomid ef gan ymateb yr Ymneilltuwyr mwyaf radical iddo. Fel bugail dros offeiriaid ei esgobaeth, cyfeiriodd yn gynnes at ei natur 'agos atom fel y dywedir yn ei holl gyfeillach

43 Elis Wyn o Wyrfai, 'Adgof Uwch Anghof', t.67

44 *ibid*, t.67

45 *ibid*, t.69

bersonol', a dim ond edmygedd sydd yn ei ddatganiad am y modd y cadwodd rai o rinweddau gorau'r Diwygiad Efengylaidd yn ei gymeriad:

> Yn ei holl ymwneud cyfrinachol a chymdeithasol â'i glerigwyr, deuai y Cristion calon agored ac eang ei gariad i'r golwg yn barhaus... Cristion oedd yn llenwi i'r llythyren bob syniad o dduwinyddiaeth cyfnod Rowlands Llangeitho a Williams Pantycelyn. Yr oedd holl nawseiddiad ei feddwl wedi ei drwytho â defosiwn dwfn a gwresog y Deffroad Efengylaidd.[46]

Serch hynny, o gloriannu ei gryfderau a'i wendidau, rhaid dod i'r casgliad bod ganddo fwy o feddwl o'r gweinyddwr effeithiol a'r noddwr hael i addysg eglwysig a'i hordeiniodd, sef y Sais, Vowler Short, na'r esgob Cymraeg a'i goruchwyliodd am dros ddeunaw mlynedd o 1870 ymlaen. Ond fel y ceir gweld, roedd sawl peth a gododd yn ystod ei gyfnod yn Llangwm wedi llywio'r farn honno, ac y mae gofyn troi at y rheiny i ddeall yn llawn pam na chuddiodd y tu ôl i weniaith yn ei erthygl gofiant i Joshua Hughes.

---

46 *ibid*, t.67

# Pennod 5

## i - Ficer Llangwm

Pan gyrhaeddodd Ellis Langwm, wynebai her a oedd yn ddigon tebyg i'r un yn Llanfihangel pan gyrhaeddodd yno chwe blynedd ynghynt. Roedd yn etifeddu eglwys wledig a oedd yn prysur mynd â'i phen iddi yn haniaethol ac yn ddiriaethol. Gadawodd ei ragflaenydd, yn ei henaint, i'r cyswllt â'r gymuned a wasanaethai ddirywio, ac nid oedd wedi ymdrechu rhyw lawer i ofalu am gyflwr adeilad yr eglwys chwaith. Cyn ei farwolaeth yn 1872, nid oedd John Jones wedi cynnal nac angladd na phriodas na bedydd am flwyddyn gron, ac offeiriaid y plwyfi cyfagos oedd wedi ceisio cyflawni'r tasgau sylfaenol ar ei ran. Gan hynny, wrth gyrraedd Llangwm yn ŵr deugain a phum mlwydd oed, roedd gofyn i Ellis ddechrau o'r dechrau â'r weinidogaeth a ddeilliai o eglwys Sant Ierôm.

*Nodweddion plwyf Llangwm*

Ceir disgrifiad o dirwedd a phoblogaeth y plwyf fel ag yr oedd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn A Topographical Dictionary of Wales:

> This parish, which is of great extent, is situated in a dreary moorland district, near the extremity of the county [of Denbighshire], bordering on Merionethshire. ..... The female inhabitants are principally employed in the spinning of woollen yarn; the males are occupied in attendance upon their herds and flocks, great numbers of which are purchased by the English drovers, and fattened for the London market.[1]

Lleolir Llangwm chwe milltir i'r gorllewin o dref Corwen, ac ychydig oddi ar y lôn bost o Lundain i Gaergybi, ger Cerrigydrudion. Amaethyddiaeth yn ddiamau gynhaliai'r fro - neu o'i roi mewn ffordd arall, llafur y tyddynwyr a gynhaliai'r tirfeddianwyr. Roedd bywyd amaethwyr Uwchaled yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn galed iawn, ond yr hyn a gysurai gymunedau fel Llangwm oedd bwrlwm diwylliannol a chymdeithasol eu bro, a ddeilliai gan amlaf o'r capeli. Pentref anghydffurfiol at ei gilydd oedd Llangwm, heb fawr o serch mewn gwirionedd at 'ei hen fam', yr eglwys, a welid fel corff i wasanaethu'r tirfeddianwyr a'u cynffonwyr yn bennaf. Ond yn wyneb

---

1 Samuel Lewis, A Topographical Dictionary of Wales 2, 'Llangwm' (London, 1833)

y fath dalcen caled, ni chawsai esgob Llanelwy well dyn i geisio gweithredu ar ei ran yn y plwyf. Roedd y bardd-offeiriad a fagwyd yn sŵn maen y felin yn agos iawn at gymeriad y gymuned amaethyddol, wledig hon, ac roedd y chwe blynedd yn Llanfihangel gyfagos yn rhagbaratoad perffaith ar gyfer tair blynedd ar hugain mwyaf nodedig ei offeiriadaeth.

*Her o'r funud gyntaf*

Fe'i sefydlwyd yn ficer Llangwm ar 15 Hydref 1872, a nodwyd dechrau swyddogol ei waith pan wasanaethodd mewn angladd ar ddydd Calan 1873. Roedd blwyddyn gyfan o absenoldeb yr offeiriad blaenorol, o'i gyplysu â diffyg sylw priodol am rai blynyddoedd cyn hynny hefyd, yn golygu bod eglwys Sant Ierôm mewn cyflwr truenus iawn y gaeaf hwnnw. Yn wir, digalonnodd Ellis i'r fath raddau wrth weld yr addoldy nes iddo lunio dau englyn i gyfleu ei deimladau:

Dyma'r Llan anghyfannedd, - y waglom
    Eglwys Ddiymgeledd :
  Yn bwdr i gyd, budur ei gwedd,
  Try i adfail bob troedfedd.

Onid hyll y llawr tyllog? - a gresyn
    Gweld y grisiau drylliog:
  Wfft! 'e gryn yr hen lofft grog
  Yn rhwyd-dyllau rhidillog.[2]

Ni fu'n segur yn hir cyn rhoi cynllun ar waith i drawsnewid yr hyn a welodd. Ar 16 Ionawr 1873, dywedir fod cyfarfod o drethdalwyr y plwyf wedi rhoi caniatâd iddo dynnu'r galeri oedd wedi pydru, gosod pulpud a desg ddarllen yn y gangell, ailddodrefnu'r eisteddleoedd yng nghorff yr eglwys, a chynnal yr atgyweiriadau eraill a ddeuai yn sgil y newidiadau hynny. Yr unig amod oedd na fyddai'r gwaith yn aflonyddu ar blaciau ar y muriau na'r cerrig beddi yn y llawr. Wedi iddo atgyweirio'r adeilad, gallai ddechrau meddwl o ddifrif am ei genhadaeth.

Ar ôl amlinellu'r dasg, aethpwyd ati i gasglu arian a dechrau ar y gwaith. Trwy hap, mae'r darlun gorau o sut yr ariannwyd y cynllun wedi ei gadw y tu mewn i gofrestr

2 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 13 (1895), t.199

bedydd y plwyf. Ynddi ceir dalen ac arni'r teitl 'Balance sheet of receipts and expenditure in restoring the Llangwm Parish Church, 1874'. Mae dynodi'r flwyddyn honno'n awgrymu bod digon o arian wedi cael ei gasglu mewn cwta flwyddyn i dalu'r rhan fwyaf o'r costau. Dywed y gyfriflen fod Townshend Mainwaring Esq., Galltfaenan, wedi rhoi £100 at yr achos, a bod nifer fawr o drigolion y pentref - rhestr faith ohonynt - hefyd wedi cyfrannu yn ôl eu gallu. Mae un cyfraniad arall nodedig iawn ar y rhestr hefyd, a hwnnw'n £50 o boced y ficer newydd.

Mae'n debyg bod y fath haelioni ariannol yn nodweddiadol o griw dethol o ficeriaid y cyfnod hwn yn hanes yr eglwys. Roedd y deffroad a ddaeth yn sgil Mudiad Rhydychen wedi perswadio nifer ohonynt fod adeiladau eglwysig gweddus yn arwain at addoliadau mwy ystyrlon, ac yn sgil hynny at gymunedau mwy defosiynol. Yr hyn sy'n syfrdan heddiw yw bod £50 oddeutu chwarter cyflog blynyddol ficer Llangwm. Mae'n werth pwysleisio nad dyn a daflai arian er mwyn creu argraff ydoedd chwaith - roedd yn barod i gyplysu ei haelioni ag ymdrechion ymarferol i atgyweirio'r eglwys. Fel y dywed Gwynedd, 'Hwyrach nad anniddorol crybwyll iddo osod ar y llawr y peithynau llosgliw (the encaustic tiles) â'i ddwylaw ei hunan, am nad oedd dynion celfydd yn y gwaith yna i'w cael yn y gymdogaeth.'[3] Erbyn diwedd 1874 felly, roedd yr eglwys bellach ar ei newydd wedd. At hynny, yn ystod y pymtheng mlynedd canlynol trefnodd gasgliad i brynu harmoniwm newydd (gan gyfrannu gini o'i boced ei hunan), a phrynwyd stôf yn 1889 i gynhesu'r adeilad. Fel y nododd Charles Ashton, 'bu hefyd yn foddion i gael tŷ i'r elor-gerbyd yn Llangwm'.[4]

*Rhan weithredol yn y gymuned*

Wedi sicrhau bod y ganolfan mewn trefn, bu wrthi'n ddyfal yn ffurfio cysylltiadau â'r gymuned a wasanaethai. Roedd nifer trigolion Llangwm yn prysur leihau, wrth i galedi bywyd gwledig orfodi y rhai na allent weithio ar y tir i chwilio am waith mewn ardal arall. Fel y nododd ef ei hunan mewn amlinelliad o hanes y plwyf yn 1887, yr oedd poblogaeth y plwyf yn 1831 yn 1017, yn 1871 yn 981, ac yn 1881 yn 935.

---

3 *ibid*, t.199

4 Charles Ashton, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* (1895), t.162

> Gwelir fel hyn mai plwyf yn anfon cynnydd ei boblogaeth i ffwrdd ydyw, gan nad oes waith ond amaethu a bugeilio o'i fewn. Claddwyd y gwëydd diweddaf o'i fewn ddeng mlynedd yn ôl; mae olwyn y ffactri olaf yn pydru yn y pwll; aeth y crydd olaf dros y mynydd i'r Bala dair blynedd yn ôl, cyn llwgu, a'r teiliwr olaf drosodd i ymdrochfa ffasiynol Colwyn flwyddyn yn ôl, rhag newynu. Lle tlawd sydd yma, felly, i grefftwyr o bob math.[5]

Os oedd y boblogaeth yn lleihau a'r hufen yn gadael, gwelai fod ganddo gyfrifoldeb dros y rhai a oedd yn weddill, ac ystyriai Ellis yr ysgol yn rhan bwysig o'r plwyf. Fel yr un yn Llanfihangel, derbyniai'r ysgol nawdd gan y Gymdeithas Genedlaethol, a bu Ellis yn drysorydd yr ysgol o'r amser y cyrhaeddodd y plwyf, gan gyfrannu £2 at y coffrau bob blwyddyn. Nid yw'n ymddangos i'w wraig fod yn athrawes gyflogedig yn yr ysgol, ond byddai dau oedd â diddordeb mor fyw mewn addysg wedi galw yn yr ysgol yn gyson. Yn ôl Gwynedd, byddai Ellis yn treulio ei foreau naill ai'n darllen ac ysgrifennu neu'n ymweld â'r ysgol ddyddiol. Â yn ei flaen i ddwyn i gof fel yr

> ...ystyriai bod porthi'r ŵyn yn rhan arbennig o'i waith fel offeiriad: ac er mwyn cael cyfleustra i gyfrannu addysg grefyddol bendant i blant yr Eglwys, cynhaliai, hyd ddiwedd ei oes, gyfarfod plant bob wythnos yn ystod misoedd y gaeaf...[6]

Yn fuan wedi iddo gyrraedd Llangwm, bu'n rhaid iddo ddelio ag anghydfod addysgol a oedd eisoes yn mudferwi yn y plwyf. Sefydlwyd ysgol gan yr Ymneilltuwyr ddwy flynedd cyn codi'r ysgol eglwys yn 1869, ond methodd ddygymod â chystadleuaeth yr ysgol newydd, a oedd yn derbyn nawdd mor sylweddol gan y Gymdeithas Genedlaethol. Wrth sylweddoli nad oedd modd cynnal dwy ysgol yn y pentref, digiwyd sefydlwyr yr 'Ysgol Gerrig' Anghydffurfiol, a gwelwyd bai ar y ficer am godi ysgol yn y pentref pan oedd un arall newydd ddechrau yno. Mae gogwydd gwrth-eglwysig amlwg yn yr hyn a groniclodd Hugh Evans ynghylch y mater, ond y mae o leiaf yn dangos natur gymodlon Ellis, a chymaint gwell derbyniad a gafodd ef na'i ragflaenydd gan arweinwyr y gymdeithas yno:

> Yn 1867 yr adeiladodd yr Ymneilltuwyr yr Ysgol Gerrig. Ac yn 1869 y cododd y Person yr Ysgol Frics i geisio lladd y llall... Bu farw'r hen Berson yn 1872, a

---

5 Elis Wyn o Wyrfai, 'Amlinelliad o Hanes Plwyf Llangwm Dinmael', *Yr Haul* (1887), t.195

6 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.98

> daeth "Elis Wyn o Wyrfai" yn ei le; gŵr llawer callach, er ei fod yn eglwyswr selog, a chan [na] cheid grant gan y Llywodraeth at ysgol yr Ymneilltuwyr, cytunwyd i gau'r Ysgol Gerrig ar y dealltwriaeth fod yr holl blant i gael yr un chwarae teg.[7]

Yn sgil ei ddiddordeb mewn addysg, galwyd am ei gymorth gan Gymdeithas y Cymrodorion, pan gomisiynwyd arolwg o sut y defnyddid y Gymraeg mewn ysgolion elfennol yn y rhannau o Gymru lle siaredid y Gymraeg gan fwyafrif y trigolion.[8] Tra bod eraill wedi cymeradwyo defnyddio mwy ar y Gymraeg, nododd Ellis nad oedd yn credu bod angen gwneud hynny gan fod digon o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg y tu allan i'r ysgol. Nid aeth mor bell ag un arall o'r panel ymgynghorol, E. Rhys James, ficer Llangollen, a wrthwynebai'r syniad o roi ychwaneg o le i'r Gymraeg ym myd addysg, ond yn amlwg ni welai Ellis ddim o'i le mewn addysgu trwy'r Saesneg. Mae'n bosib mai profiadau bore ei oes a'i hanogodd i feddwl felly, yn enwedig o gofio mai ar lin ei fam y dysgodd y Gymraeg ac mai dim ond ar ôl ei gyfnod yng Ngholeg Hyfforddi Caernarfon y cafodd afael o ddifri ar y Saesneg. Barn Rhys James oedd y byddai dysgu Saesneg yn galluogi'r plant i fynd yn eu blaen yn y byd, ac er y byddai Ellis yn eilio hynny, hyderai y byddai'r plant yn cael dysgu'r Gymraeg gartref, yn yr ysgol Sul ac wrth gyd-chwarae. Serch hynny, byddai dechrau dysgu Saesneg yn gynt nag a wnaeth ef yn fanteisiol iddynt yn y pen draw. Difyr, serch hynny, fyddai gwybod pa iaith a siaradai â'r disgyblion yn Llangwm. Hwyrach y gellir tybio y byddai wedi ceisio siarad Saesneg â hwy, ond y tu allan i'r ysgol diau y byddai'n fwy tebygol o'u cyfarch yn y Gymraeg.

Yn ogystal â'i ymweliadau cyson â'r ysgol, roedd iddo enw da am ymweld â phlwyfolion, yn enwedig y cleifion. Dywedir fod plwyfolion Llangwm ymhen dim wedi manteisio hefyd ar ei wahoddiad iddynt ymweld â'r ficerdy pe byddent eisiau unrhyw fath o gymorth. Yn wir, efallai i'r gwahoddiad gael ei gymryd yn rhy lythrennol gan rai, gan fod un wraig wedi mynd â'i pheiriant gwnïo ato i weld a allai ei drwsio! Fel gŵr parod ei gymwynas, ac un a oedd wedi arfer â gwaith llaw ers ei fagwraeth yn y felin, afraid dweud iddo gyflawni'r dasg yn llawen. Mewn gwirionedd:

---

7 Hugh Evans, Cwm Eithin (Lerpwl, 1931), t.221

8 W. R. Jones, Bilingualism in Welsh Education (Cardiff, 1966), t.56

> Ymgynghorid ag ef ar faterion cymdeithasol, materion teuluaidd, pynciau cyfreithiol o berthynas i eiddo, yn gystal ag ar faterion plwyfol: ac yr oedd ei gyfeillgarwch bob amser yn bur ac anhunanol.[9]

Hyd yn oed mewn ardal lle roedd mwyafrif helaeth y plwyfolion yn Anghydffurfwyr, credid bod gan bawb - o bob enwad - hawl ar y ficer. Deilliai hynny, mewn ffordd chwithig, o berthynas yr eglwys â'r wladwriaeth, er gwaethaf gwrthwynebiad y mwyafrif i'r cysylltiad hwnnw. Wedi dweud hynny, camp fawr oedd ennill y fath ymddiriedaeth, yn enwedig o gofio mai ychydig a fynychai'r eglwys. Perchid ef gan y llafurwr cyffredin gan ei fod yn gallu uniaethu â'i sefyllfa; byddai'r mwyaf diwylliedig yn y plwyf yn hen gyfarwydd ag ef fel bardd cadeiriol a choronog, ac yn ychwanegol at hynny i gyd, roedd ei natur hoffus yn ei gwneud hi'n anodd i unrhyw un beidio â chymryd ato. Roedd y 'galar diffuant' a welwyd ar ddiwrnod ei angladd yn brawf o'r argraff a wnaeth ar bobl Llangwm.[10]

Nid oes amheuaeth fod y plwyfolion, o bob enwad, wedi bod yn ffodus iawn ohono ef a'i wraig pan drawyd nifer ohonynt â'r gwddglwyf. Gwynedd eto, yn ei nodiadau cofiannol, sy'n dwyn i gof hanesyn a glywodd gan drigolion Llangwm pan fu yn angladd Ellis:

> Efe oedd y cyntaf i ddarganfod fod y *diptheria* wedi torri allan yno, ac i anfon am gynhorthwy meddygol. O fewn tridiau i'r darganfyddiad yr oedd saith o wyth o blant un teulu wedi eu taro i lawr dan y clefyd. Bu'n angheuol i bump ohonynt ... Taenodd yr anhwyldeb i dri theulu arall; a chynhyrchodd fraw cyffredinol yn yr ardal. Ac, o dan yr amgylchiadau sobr, Elis Wyn, a'i wraig, a *nurse* gyflogedig, oeddynt yr unig bersonau, heblaw y meddygon, a fentrent estyn cymorth a gweinyddu cysur i'r dioddefwyr.[11]

---

9 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.95

10 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 13 (1895), t.201 ; gweler hefyd H. Cernyw Williams, 'Atgof am Enwogion – Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 35 (1917), t.224 am gadarnhad o barch 'pob gradd a dosbarth' tuag ato.

11 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.99

Mewn ardal wledig heb feddyg parhaol ynddi, bu ei ymateb diymdroi yn allweddol i les y rhai a ymgryfhaodd, a'i ofal dros y dioddefwyr yn brawf pellach o'i barodrwydd i wneud llawer mwy na'r hyn oedd yn ddisgwyliedig.

*Adeiladu eglwys Santes Catherine yn Ninmael*

Y mae i blwyf Llangwm gryn 1,500 acer o dir, yn ymestyn gan fwyaf tua'r dwyrain o eglwys Sant Ierôm a'r clwstwr o dai sydd o'i hamgylch. Teimlai felly fod trigolion pen arall y plwyf yn cael eu hamddifadu o ddarpariaeth eglwysig deilwng, ac aeth ati i adeiladu eglwys newydd yn yr ardal y cyfeirir ati fel Maerdy Dinmael. Dechreuwyd casglu arian i gyrraedd y nod yn Ionawr 1877. Nodir yn llyfr cofnodion yr ymgyrch godi arian sut y rhoddodd deon Llanelwy a'r archddiacon Wickham sêl eu bendith ar y gwaith, ac amlinellwyd y bwriadau ganddynt mewn datganiad a adroddai fel a ganlyn:

> ...the vestry [will] be placed on the north side of the chancel, the font between the two blocks of seats at the west en of the nave, the single lancet window near the pulpit, and the double window substituted for it, the pulpit to be moved into the corner.[12]

Byddai'r eglwys newydd yn cael ei chodi ar lecyn prydferth ar lan yr afon Ceirw, ac yn cael ei chysegru ar enw'r Santes Catherine.

Yn ddiamau, codi'r eglwys hon oedd un o lwyddiannau mawr ei yrfa offeiriadol. Byddai'r cynllun anturus hwn yn costio £1,400 i'w gyflawni, ond erbyn agor y drysau am y tro cyntaf yn 1878, roedd y ddyled wedi ei chlirio. Ar Ŵyl Diolchgarwch 1877 rhoddodd £4 – 2 – 2 ½ ei hunan at y gwaith, ond mae lle i gredu mai i Esther ei wraig y mae llawer o'r diolch am sicrhau cyfraniadau llawer mwy sylweddol a arweiniodd at dalu holl gostau codi'r eglwys. Dywedir mewn cofiant iddi yn *Yr Haul*, fod yr adeilad newydd yn 'eglwys ag y bu ganddi law ewyllysgar yn ei hadeiladu.'[13] Y tebygrwydd yw iddi hi ddefnyddio ei chysylltiadau teuluol breintiedig i gynorthwyo ei gŵr i godi'r

12 Archifdy Sir Ddinbych, Rhuthun - Dogfen PD/65/1/20

13 Robert Williams (awdur tebygol), 'Adgof uwch Anghof', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 8 (1892), t.348

eglwys newydd. Noder, er enghraifft, enw ei brawd, William Roberts o Lerpwl, ochr yn ochr â chyfraniadau stadau Maesmawr a Garthmeilio yn y llyfr derbyniadau.[14]

Mae rhai o nodweddion mewnol yr eglwys yn awgrymu fod boneddigion lleol hefyd wedi cyfrannu'n hael at gronfa adeiladu eglwys y Santes Catherine. Rhoddwyd y ffenestr fawr gan Mrs Lynes, ac mae dyddiad 1877 arni i ganlyn y geiriau 'A Mother's Thanksgiving'. Mae'r pulpud o farmor gwyn yn cyfateb i'r fedyddfaen, a roddwyd er cof am Howard Manners, ail fab William Kerr o blasty Maesmawr, a fu farw ar 29 Rhagfyr 1858 yn faban chwe mis oed.[15] Fel y nodwyd uchod, roedd stadau Maesmawr a Garthmeilio ymysg prif noddwyr y fenter, ond un arall a gyfrannodd yn hael oedd esgob Llanelwy.[16]

Wedi agoriad swyddogol yr eglwys, byddai o leiaf un gwasanaeth yn cael ei gynnal yno ar y Sul, gyda'r curad yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r rheiny. Er hynny, Ellis a gafodd weinyddu'r briodas gyntaf yno ar 24 Tachwedd 1879, pan briodwyd William Williams o Maerdy Farm a Jane Davies o Tynybryn, Llanfihangel Glyn Myfyr. Yr ail briodas yno oedd un dan ofal David Davies, y curad, ar 28 Hydref 1880, a dim ond mewn un briodas arall, yn 1894, y torrodd Ellis ar y patrwm o ymddiried y gwasanaethau hynny i'r curad. Dechreuwyd bedyddio yno hefyd o 1880 ymlaen, gyda phwysau'r gwaith yn gymharol gydradd rhwng y ficer a'r curadiaid eraill a ddaeth i'w helpu wedi i David Davies adael y plwyf - Lauren E. Davies rhwng 1881 a 1883, a Thomas Harries rhwng 1884 a 1888.

*Eisteddfodau a diwylliant lleol*

Yn ychwanegol at ei weithgarwch eglwysig a'i gyfraniadau at fywyd y pentref, chwaraeodd ei ran yng nghylch ehangach Edeirnion hefyd. Yn un peth, roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn gweld cofeb i Owain Glyndŵr yn cael ei chodi yng Nghorwen.[17] At hynny, sonnir i Gwaenfab, bardd gwlad a oedd yn adnabyddus yn

14 Archifdy Sir Ddinbych, Rhuthun - PD/65/1/21

15 D. R. Thomas, The History of the Diocese of St. Asaph, General, Cathedral and Parochial 2 (Oswestry, 1913), t.165

16 Archifdy Sir Ddinbych, Rhuthun - PD/65/1/21

17 O. M. Edwards, 'At Ohebwyr', *Cymru* 7 (1894), t.287

Edeirnion, fynd ato i ddysgu'r cynganeddion.[18] Mae'n bosibl bod llawer o feirdd eraill wedi cael croeso ar ei aelwyd, naill ai fel disgyblion neu fel beirdd profiadol a alwai yno am sgwrs. Roedd nifer o eisteddfodau lleol yn cael eu sefydlu a'u cynnal tua'r cyfnod hwn, ac fe gynorthwyodd i drefnu un a gynhaliwyd yng Nghorwen yn 1874.[19] Dywed y Bedyddiwr Cernyw Williams iddo yntau a'r trefnwyr gael 'bob cynhorthwy'[20] ganddo bryd hynny, a gallai trefnwyr sawl eisteddfod fynegi'r un math o werthfawrogiad am gymorth i drefnu ymlaen llaw, neu (yn amlach na pheidio) am feirniadu. Yn yr un flwyddyn â'r cyfarfod hwnnw yng Nghorwen, dechreuodd Ellis hefyd ar dymor hir o lafur dros yr Eisteddfod Genedlaethol, wrth iddo ddod yn un o feirniaid prysuraf chwarter olaf y ganrif.

---

18 Robin Gwyndaf, Teulu, bro a thelyn : portread o ganwr gwerin a chynheilydd traddodiad: Emrys Jones, Llangwm (Aberystwyth, 1997), t.123

19 gw. cyfeiriad at adroddiad *Baner ac Amserau Cymru* Awst 2, 1874 yn Carneddog, 'Briwsion Ap Vychan', *Cymru* 22 (1902), t.287

20 H. Cernyw Williams, 'Atgof am Enwogion – Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 35 (1917), t.224.

## ii - Y beirniad eisteddfodol

Yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd enw Elis Wyn o Wyrfai ymysg y mwyaf blaenllaw o feirniaid prif eisteddfodau Cymru. Yn wir, wedi i'r cyfarfodydd blynyddol hynny ddatblygu'n Eisteddfodau Cenedlaethol swyddogol o 1881 ymlaen, eithriad oedd peidio gweld ei enw ar restr beirniaid y prif gystadlaethau. Nid pawb, serch hynny, a'i hystyriai yn deilwng o'r fath fraint. Yn ôl un a alwai ei hun yn 'Astrea':

> Dyn bychan o gorffolaeth, cyffelyb i Zacheus, yw Elis, ac offeiriad rhagorol; ond pwy ddywedodd wrtho ei fod yn feirniad? Y mae ei feirniadaethau yn ynfydrwydd ac yn gabledd ar lenyddiaeth gwlad wareiddiedig.[1]

Er hynny, dim ond canmoliaeth a gafodd gan lenorion eraill am fod yn feirniad teg.[2] Mae'n debyg mai eithriad oedd sylw dirmygus Astrea, a sylw Gwynedd sy'n cynrychioli'r farn gyffredinol:

> Nid wyf yn gwybod i mi erioed glywed neb yn amau ei degwch; serch y clywais ambell i ysgogyn hunan-ddoeth, ymchwyddol, a dibrofiad, yn siomedig ond odid, yn honni nad ystyriai efe yn gymwys i feirniadu am nad oedd erioed wedi ennill y Gadair Genedlaethol! Ond gwyr pob dyn ystyriol fod gallu cyfansoddi a gallu beirniadu yn ddau allu gwahanol ... Yr oedd Elis Wyn yn feddiannol ar gymwysterau'r gwir feirniad.[3]

Â Gwynedd yn ei flaen i ddisgrifio ei afael dynn ar reolau barddoniaeth Gymraeg, ei hoffter o farddoniaeth gain, a'i ymwybyddiaeth o'r awen (a diffyg awen yn aml) yn y darnau a feirniadai. Pwy all ddweud felly a oedd Astrea yn teimlo iddo gael cam mewn eisteddfod pan oedd ficer Llangwm yn beirniadu ei waith?

---

1 Hywel Teifi Edwards, 'Ar Drywydd y 'Magnitudes Barddol',' yn Gwyn Thomas (Gol.), Ysgrifau Beirniadol 26 (Dinbych, 2002), t.71

2 Gweler Transactions of the Royal National Eisteddfod of Wales : held at Cardiff, August 6th, 7th, 8th, and 9th, 1883 (Cardiff, 1884), t.144 am safbwynt Ceiriog, er enghraifft, a
Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4870 (nodiadau'r catalog) am safbwynt Peris Williams

3 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.168

Cyn iddo fentro beirniadu mewn eisteddfodau, roedd Ellis wrth reswm yn hen gyfarwydd â darllen beirniadaethau ar awdlau, pryddestau a cherddi llai yr oedd ef ei hun wedi eu cyfansoddi. Yn wir, o'i arddegau hwyr ymlaen, gallai frolio bod nifer dda o wŷr llên amlycaf y ganrif wedi trafod ei waith, a chadwai'r sylwadau hynny mewn cof wrth ddal ati'n gyson i eisteddfota. Pan ddaeth cyfle iddo roi cynnig ar feirniadu, ceisiodd efelychu arddulliau mwyaf effeithiol y rhai a fu'n beirniadu ei waith ei hunan. Mae'r ffaith iddo feirniadu mewn cynifer o Eisteddfodau Cenedlaethol yn ystod ugain mlynedd olaf ei fywyd, heb sôn am lu o eisteddfodau llai yn ystod yr un cyfnod,[4] hefyd yn awgrymu nad rhyw un neu ddau o'i gyfeillion ai'i ffafriai, ond ei fod yn gymeradwy yng ngolwg pwyllgorau eisteddfodol ar hyd y wlad.

Mae'n debyg iddo ddechrau beirniadu tra oedd yn gurad yn Rhosymedre, neu tra oedd yn athro yn Ffestiniog hyd yn oed – gwyddys iddo feirniadu yn Eisteddfod Chwarel y Llechwedd o leiaf unwaith, er enghraifft.[5] Beirniadodd mewn eisteddfod yng Ngherrigydrudion yn fuan wedi iddo symud i Lanfihangel Glyn Myfyr, a'r sôn yw ei fod wedi parhau i gynorthwyo cyfarfodydd llenyddol bychan yr ardal am flynyddoedd wedi hynny, yn enwedig tra bu'n byw yn Llangwm.[6] Roedd pentrefi cyfagos iddo yn siroedd Meirionnydd a Dinbych yn prysur ddod yn enwog am eu heisteddfodau pentref yn y cyfnod hwn, ac roedd arnynt angen beirniaid amlwg i roi hygrededd i'w cyfarfodydd. Cynigiai Ellis hynny i drefnwyr cyfarfodydd cystadleuol Edeirnion, Penllyn a thu hwnt. Yn wir, fe'i disgrifiwyd fel un o feirniaid mwyaf prysur ei gyfnod gan ei gofiannydd Gwynedd, un a fu'n cyd-feirniadu gydag ef yn aml yn ystod chwarter olaf y ganrif.[7]

---

4 Gweler, er enghraifft, gyfeiriad at ei enw fel un o feirniaid Eisteddfod Gadeiriol Nefyn, Llungwyn 1885, yn Maeldaf Wyn, 'Awdl: Cartref' yn *Y Geninen* 4 (1886), t.193

5 www.llechicymru.info/ComCultEisteddfod.cymraeg.htm - "Cynhelid eisteddfodau achlysurol yn Ffestiniog a'r Blaenau hyd at 1869. Dechreuwyd ar gyfres o eisteddfodau blynyddol llewyrchus yn chwarel y Llechwedd ym 1868, ac a fyddai yn cael ei chynnal yn y Neuadd Farchnad dros ddwy noson erbyn 1881. ... Cynigid Cadair Llechwedd am awdl-bryddest gyda beirdd fel Iolo Carnarvon ac Ellis Wyn o Wyrfai yn feirniaid."

6 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.169

7 *ibid.*, t.168

*Eisteddfodau Bangor 1874, Caernarfon 1877, Penbedw 1878 a Chonwy 1879*

Ddwy flynedd wedi iddo gyrraedd Llangwm, derbyniodd wahoddiad i feirniadu yn eisteddfod fwyaf y flwyddyn honno. Cynigiwyd gwobrau ariannol mwy sylweddol na'r arfer yn y prif eisteddfodau hyn, ac roedd nifer o feirdd mân a mawr gan hynny'n ysgrifennu cannoedd o linellau ar y tro er mwyn ceisio cipio'r gadair, y goron neu un o'r mân wobrau. Roedd gofyn cael beirniaid effro a chraff i ddygymod â'r fath faich, ac mae'n amlwg bod Ellis wedi dangos digon o allu mewn eisteddfodau llai i haeddu cyfle yn y prif eisteddfodau.

Fel yn Eisteddfod Rhuddlan yn 1850, gofynnwyd am awdl neu bryddest yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod 1874, a gosodwyd 'Y Beibl' yn destun y tro hwn. Cyd-feirniaid Ellis oedd Hiraethog a Dewi Wyn o Essyllt. Gwelir arwyddion cynnar o'i ddulliau beirniadu yn yr hyn yr oedd ganddo i'w ddweud am y cerddi gwannaf yn y gystadleuaeth – dechreuai trwy ganmol y pethau da a ganfu ynddynt, gan symud ymlaen i amlinellu'r diffygion mewn modd na fyddai'n digalonni'r cystadleuwyr hynny, ond a fyddai'n rhoi gwybod iddynt paham na chyraeddasant y brig.[8] Wrth drafod yr awdl a gipiodd y gadair, meddai:

> Er fod yr awdl odidog hon yn cynnwys mil a hanner o linellau, y mae mor llawn o amrywiaeth difyrrus, meddylddrychau tlysion, barddoniaeth oruchel, a choethder ymadrodd boddhaol, fel nad yw ein diddordeb yn pallu o'i dechrau i'w diwedd.[9]

Nododd nad oedd yr awdl heb ei beiau, ond roedd iddi lawer mwy o ragoriaethau na gwendidau, ac felly enillodd 'Pascal', sef Gurnos Jones, gadair eisteddfod 'Gwynedd, Môn a Manaw'. Yn ystod y seremoni, cyfarchodd Ellis y bardd buddugol:

Yn awr i gain Gadair Gwynedd – esgyn
'Pascal' mewn anrhydedd:
Diarswyd wna dy orsedd,
Dan nawdd gwlad, a'i newydd gledd.

---

8 E. Gurnos Jones, Awdl y Beibl, Buddugol yn Eisteddfod Freiniol Bangor, 1874 (Caernarfon, 1875), t.10

9 *ibid.*, t.12

Deufwy îr â dy fawredd – hir dyfi
O'r Dwyfol wirionedd;
Uwch ben pob ach a bonedd
Dal dy Feibl hyd ael dy fedd.[10]

Mae'n rhaid bod Ellis wedi barnu'n deg yn 1874, oherwydd wedi seibiant byr, pryd y ceisiodd ennill y gadair ei hunan o leiaf ddwywaith,[11] fe'i gwahoddwyd gan bwyllgor Eisteddfod Caernarfon 1877 i feirniadu un o'r cystadlaethau llai a ofynnai am awdl ar 'Y Gadair Ddu'. Dim ond y ffaith foel honno a nodir yng nghyfansoddiadau'r eisteddfod honno, ac mai Tudno Jones oedd yn fuddugol. Gwyddys serch hynny mai Cadair Ddu Eisteddfod Genedlaethol 1876 roddodd fod i'r testun – bu farw Taliesin o Eifion cyn ei gadeirio.[12]

Y flwyddyn ganlynol, gwahoddodd pwyllgor Eisteddfod Penbedw 1878 ef i feirniadu cystadleuaeth y gadair. Yng nghyfrol y cyfansoddiadau, dywedir iddo draddodi beirniadaeth 'hirfaith a manwl' ar yr awdlau a ddaeth i law ar y testun 'Rhagluniaeth', ac roedd yntau, fel Hiraethog ac Islwyn, yn gweld bod tri yn codi i'r brig. Barnai Hiraethog mai ymgais 'Diwyd', sef Hwfa Môn, oedd yn teilyngu'r wobr, ac wedi pendroni'n hir gwyrodd Islwyn i'r un cyfeiriad, er iddo ddweud mai ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y tair awdl orau. Crynhodd Ellis ei farn fel hyn:

> Ym mherffeithrwydd ei chyfansoddiad, ac eneiniad awen, y mae Idwal (2il) yn diamheuol ragori; ac iddo ef y tueddid fi ar y cyntaf i roddi y flaenoriaeth, er nad yw ei awdl odid un ran o dair o hyd cyfansoddiad Diwyd. ...Y mae Diwyd yn gryf, yn llawn, yn faith, ac yn aml yn aruchel; ond disgynna yn fynych hefyd i gyffredinedd is na'i ddau gydymgeisydd awengar. Os yw cyfansoddiad i'w bwyso yn ôl ei faint,

10 *ibid.*, t.16

11 Elis Wyn o Wyrfai, 'Awdl i Ieuenctid', *Y Geninen* 1 (1883), t.7. Ar ei godre, ceir yr ôl-nodyn 'Bu yr awdl hon yn nghystadleuaeth Caernarfon yn 1877. Rhestrwyd hi yn ail. Ar ôl hynny cymerwyd mantais o nodiadau y beirniad i ymdrechu gwellhau peth arni.'
Gweler hefyd Beirddgarwr, 'Eisteddfodau Canrif' yn *Cymru* 21 (1901) t.48, sy'n cadarnhau'r ffaith iddo geisio ennill y gadair yn Eisteddfod 1877 ac yn eisteddfod y flwyddyn flaenorol, a gynhaliwyd yn Wrecsam. 'Helen Luyddawg' oedd testun prif gystadleuaeth Eisteddfod Wrecsam.

12 gw. www.cymmrodorion1751.org.uk/pages/publications/beirdd.html

> swm y farddoniaeth a geir ynddo, gan ddethol yr holl geinion a rhagorion, a'u gosod yn y glorian, heb adael i gyffredinedd isel mewn rhannau eraill o'r gwaith leihau y gwerth, hawlia Diwyd y flaenoriaeth.[13]

Unwaith eto, gwelir y cymell a'r cerydd mewn mesurau cytbwys yn ei eiriau. Tudno Jones oedd 'Idwal yr Ail', a gellid dadlau ar yr olwg gyntaf mai meithder awdl Hwfa Môn oedd y gwahaniaeth allweddol rhyngddynt, hyd yn oed os oedd y meithder yn dallu rhywun rhag gweld mannau gwan iawn yn yr awdl faith honno. Y gwir, serch hynny, oedd fod Ellis wedi derbyn y farn fwyafrifol yn y pen draw, a mynd yn groes i'w 'chwaeth', a dueddai at ddewis 'awdl fer, feistrolgar, gywrain ond beiddgar Idwal (2il)'.[14]

Mae'n werth ceisio dod o hyd i'r nodweddion a barai i Ellis ddadlau mor gryf o blaid awdl Tudno Jones, ac yn erbyn awdl Hwfa Môn. Efallai bod y 'cyffredinedd' y cyfeiriodd Ellis ato yn awdl Hwfa Môn yn cynnwys darnau anodd eu deall am nad oeddent ar y testun, darnau fel:

> Ag oen bach gwenu y bydd,
> Yn delaid yn y dolydd;
> A'i siriol wynfys eirian,
> Drwy wlith mordwya ei wlân.[15]

neu eiriau blodeuog, diangen fel

> Mor lawen am eu harlwyaeth, - ydyw
> Eu twidiawg sibrydiaeth.[16]

Ar y llaw arall, mae englyn agoriadol Tudno Jones yn taro tant yn syth.

> Rhagluniaeth, rho'r goleuni – nefolaf

---

13 Y ceinion buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol 1878, a gynhaliwyd yn Birkenhead (Liverpool, 1879), tt.171-2

14 *ibid.*, t.172

15 *ibid.*, t.9

16 *ibid.*, t.10

I weled dy deithi:
Rhaid dy fod – yr ydwyf fi
Yn byw arnat heb wyrni.[17]

Gan fod Ellis yn credu bod awdl gryno Tudno Jones (Idwal) yn rhagori ar awdl Hwfa Môn fel cyfanwaith, awgrymodd y dylid cyhoeddi'r tair awdl orau mewn un gyfrol. Mae'n drawiadol nad oedd yn fodlon ildio ei farn ar chwarae bach, hyd yn oed pan oedd dau o gewri llên Cymru'n mynnu gwobrwyo awdl arall. Yn wir, cymaint y bri a roddwyd ar ei farn fel yr ailadroddwyd brawddeg o'i feirniadaeth, 'Ym mherffeithrwydd ei chyfansoddiad, ac eneiniad awen, y mae Idwal (2il) yn diamheuol ragori', ar daflenni a argraffwyd i hysbysebu cyhoeddi awdl Tudno Jones ar ffurf pamffled.[18]

Daeth enghraifft gadarnach o'i gyndynrwydd i ildio ei farn yn Eisteddfod Conwy, 1879, pan gafodd ei wahodd i feirniadu cystadleuaeth y gadair. Anaml iawn y caiff unrhyw gerdd fuddugol y fath gerydd ag a gafodd gwaith W. B. Joseph ganddo bryd hynny. Wrth weld bai ar y bardd am fynnu cynnwys pob un o'r pedwar mesur ar hugain yn ei awdl ar 'Y Meddwl', mae'n dweud iddo roi ei hunan 'dan anfantais ddirfawr mewn ymdrechfa lle na ofynnid am y fath gaethiwed.' Â yn ei flaen i gondemnio llinellau fel y rhai canlynol am y Cadben Cook sy'n 'gywreinwaith di-fudd a diaddurn':

"Yn swyn y sêr
Gwyneb Gwener,
Daeth o'r fawrdaith arfordir
New Zealand, y dyddan dir,

---

17 Thomas Tudno Jones, Awdl ar ragluniaeth (Bangor, 1878), t.5

18 gweler copi Prifysgol Cymru Bangor o Thomas Tudno Jones, Awdl ar Ragluniaeth (Bangor, 1878) – ynddo ceir taflen felen o fewn y pamffled yn y llyfrgell sy'n dweud:

CADAIR BIRKENHEAD.
Yn barod, pris chwecheiniog,
AWDL AR "RAGLUNIAETH,"
gan T. Tudno Jones (Idwal yr Ail),
Sef, yr un a ystyrid oreu gan ELIS WYN O WYRFAI.
"Ym mherffeithrwydd ei chyfansoddiad, ac eneiniad awen, y mae Idwal (2) yn *diamheuol ragori.*" – *O'R FEIRNIADAETH*

Tra'n yr oror, canfu yno
'R culfor celfydd,
Ac wrth hwnnw gwelir enw
'R gwiw olrheinydd,
Dyma rod a môr adwy
Rhwng Ulster a Munster mwy"[19]

Fel awdl 'addysgiadol', 'draethodol' y disgrifiodd hi, ac ni theimlodd ei bod yn rhagori ar waith arall, mwy swynol, na chafodd ei wobrwyo. Er hynny, fel ym Mhenbedw, roedd y ddau feirniad arall, sef Gwalchmai a Gwilym Cowlyd y tro hwn, wedi dewis awdl arall fel yr orau yn y gystadleuaeth, a gorfu i Ellis ildio i drefn yr eisteddfod unwaith eto.

Pan fyddai'n anghydweld â'i gyd-feirniaid, yr hyn a wnâi oedd ceisio ei orau glas i ddadlau o blaid ei farn ei hun, a gweld a oedd gan y lleill ddadleuon cryfach. Os oedd eu dadleuon hwy'n gadarnach na'i rai ef derbyniai'r farn fwyafrifol, ond nid ildiai nes y byddai wedi cael rhoi ei farn ei hun ar y gystadleuaeth. Goroesodd nifer o lythyrau sy'n dangos rhai o'r dulliau ymgynghori hyn, ac mae dyrnaid o'r rhai a anfonwyd at Gwalchmai, un arall o feirniaid Eisteddfod Conwy, yn dangos ei anfodlonrwydd ynghylch teilyngdod W. B. Joseph. Mewn llythyr a anfonodd ar 16 Gorffennaf, mae'n cynnig amlinelliad o'r safonau y mynnai lynu wrthynt:

> Credaf fy mod wrth feirniadu wedi dilyn *precedents* beirniadaethau Beaumaris 1832, Llynlleifiad 1840 a Phwllheli 1875 yn newisiad y cyfansoddiad mwyaf awengar, aruchel ei phwys, mewn meddwl ac arddull. ...[yr] hyn a gymerwyd yn safon yno oedd barddoniaeth amrywiaethol, uchelryw, a thlos, a chynghanedd gywir, gywrain a pherseiniol, mewn gwrthgyferbyniad i hanesiaeth wasaidd, neu athroniaeth oerllyd.[20]

Roedd yn amlwg yn dal yr egwyddorion hynny'n dynn at ei fron wrth wrthwynebu cadeirio bardd a bentyrrai ffeithiau hanesyddol yn hytrach nag un a ganai â mwy o awen. 'Nis gallaf newid fy meddwl amdani. Nis gall, yn ôl fy marn i, fod yn flaenaf'[21] oedd ei

19 W. B. Joseph, Awdl y Meddwl ; yn cynnwys y pedair mesur a'r hugain cerdd dafod (Conwy, 1880), t.7

20 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4870:5

21 *ibid.*, Llawysgrif Bangor 4870:5

sylwadau yn yr olaf mewn cadwyn o lythyrau at Gwalchmai. Ysywaeth, gan fod y ddau feirniad arall yn unfryd o'i phlaid, roedd yn rhaid iddo ildio yn y pen draw. Mae'n cloi ei feirniadaeth swyddogol trwy ddangos y parch a oedd ganddo at arfer yr eisteddfod, waeth beth am ei deimladau ei hunan:

> Credaf mai rheol arferedig gorsedd yw, pan geir dau feirniad yn unfrydol, fod eu dyfarniad mor ddi-alw yn ôl a phe llwyr gytunasai y tri, a da fyddai i'r holl ymgeiswyr gydnabod hyn.[22]

Er nad oedd yn berffaith fodlon, nid oedd yn ystyfnig yn ei bendantrwydd, ac fel y dywedodd mewn ôl-ysgrif i'r llythyr at Gwalchmai ar 16 Gorffennaf 1879:

> We are now like medical men in consultation, the talking before agreement is strictly confidential, and should never be adverted to afterwards.[23]

Efallai mai'r pendantrwydd hwn, ond y gallu yr un pryd i dderbyn barn eraill pan welai fod gwell dadleuon ganddynt, a ysgogodd Peris Williams i nodi fod sylwadau Ellis 'yn dangos y gŵr hwnnw yn feirniad gwir onest a chydwybodol.'[24] Efallai'n wir hefyd na fynnai weld beirdd yn dweud iddynt gael cam ar ôl yr eisteddfod, fel y digwyddodd yn eisteddfodau Aberffraw 1849 a Rhuthun 1850.

Y mae un ddadl arall sy'n werth ei hystyried o gofio am yr anghytuno a fu rhwng y beirniaid yn eisteddfodau 1878 a 1879. Rhaid gofyn a wyddai'r beirniaid pwy a gystadlai, ac a oedd rhai ohonynt yn ceisio gwobrwyo eu cyfeillion? Yn naturiol, ni allai'r un bardd guddio y tu ôl i brint unffurf teipiadur neu'r wasg bryd hynny, gan mai yn eu llawysgrifen eu hunain yr ysgrifennwyd yr awdlau a anfonwyd at y beirniaid. At hynny, byddai beirniaid profiadol yn debyg o gofio am gwpled neu linell drawiadol o gerddi llai y byddai rhai beirdd yn eu hailddefnyddio mewn awdlau eisteddfodol. Roedd sawl ffordd gynnil i

---

22 Joseph, Awdl y meddwl, t.7

23 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4870:5

24 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4870 : nodiadau yn y catalog.

fardd nodi pwy ydoedd, a phan godai dadleuon tanbaid fel y rhai a welwyd yn eisteddfodau 1849 ac 1850 (ac i raddau llawer llai, yn 1878 a 1879), rhaid gofyn a oedd mwy na dim ond safon y cerddi yn llywio barn y beirniaid? Cyd-ddigwyddiad, efallai, oedd i Ellis wobrwyo Tudno Jones yn 1874 a dadlau mor groch o blaid awdl o'i eiddo yn 1878. Nid oedd rheswm i offeiriad o Langwm ffafrio newyddiadurwr a gweinidog dros weinidog arall ar yr olwg gyntaf, ond gan gymryd y byddai'n gwybod am Tudno Jones a Hwfa Môn erbyn diwedd y 1870au, a hynodion eu llawysgrifen yn ogystal o bosib, erys y cwestiwn pa mor 'anhysbys' oedd y cystadleuwyr y tu ôl i'w ffugenwau heb ei ateb. Rhaid bodloni ar farn rhai fel Gwynedd a Peris Williams bod Ellis yn feirniad teg a chydwybodol.

*Eisteddfodau Cenedlaethol swyddogol yr 1880au*

Erbyn Eisteddfod Genedlaethol Merthyr 1881, roedd mudiad wedi ei sefydlu i drefnu un Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn ar yn ail rhwng y gogledd a'r de. Caerdydd oedd ei chartref yn 1883, a chynigiwyd coron am bryddest Gymraeg neu Saesneg ar 'Llandâf'. Glanmor oedd ei gyd-feirniad y tro hwn, ac mae lle i gredu nad oedd y safon yn gyfan gwbl wrth eu bodd. Fel y dywed Ellis wrth agor ei feirniadaeth:

> Prize poems are written to order; we, therefore, can hardly expect the highest order of poetry among them. A First-class poet is not expected to enter into competition, and write a thousand lines for twenty guineas.[25]

Barnodd serch hynny mai ymgais 'Cyfeiliawg', Mrs. Anna Walter Thomas, o ficerdy St. Ann, ger Bangor, oedd yr orau o'r rhai a dderbyniwyd.[26] Mae ei ymateb i'r gerdd yn dangos ei fod yn gyfarwydd â barddoniaeth o du hwnt i Glawdd Offa, a'i fod yn defnyddio'r diddordeb hwnnw i gynnal ei ddadleuon:

---

25 Transactions of the Royal National Eisteddfod of Wales : held at Cardiff, August 6th, 7th, 8th, and 9th, 1883 (Cardiff, 1884), t.65

26 Roedd Anna Walter Thomas, neu Morfudd Eryri fel yr adwaenid hi, yn gymeriad hynod. Ganed hi yn Suffolk, a derbyniodd addysg dda yn Llundain a Cheltenham, gan ddysgu pedair iaith ar ddeg. Priododd ficer Bethesda, David Walter Thomas, yn 1871, gan feistroli'r Gymraeg yn sgil hynny, ond ni dderbyniodd gynnig i'w hurddo'n fardd gan yr Orsedd gan nad oedd wedi meistroli'r Pedwar Mesur ar Hugain. Cyhoeddwyd cofiant iddi gan W. Glynn Williams, Memoir of Mrs Anna Walter Thomas (Holywell, 1922). Gweler hefyd Meic Stephens (Gol.), Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru (Caerdydd, 1997), t.702

> His versification is natural, and the rhythm musical. He introduces a good many trochees into his verses, thus following the practice of the more modern among English poets. ... As a literary effort, Cyfeiliawg's poem is of a far higher order than any of the rest.[27]

Gan nad oedd Glanmor mor sicr o deilyngdod y gerdd, credai fod ynddi ormod o ladd ar ddifaterwch Eglwys Loegr tuag at y Gymraeg, galwodd y pwyllgor am farn trydydd beirniad, sef Glanffrwd. Barnodd yntau fod 'Cyfeiliawg' yn deilwng o'r wobr, ac ychwanegodd fod y bryddest yn waith bardd 'who has more finesse and grace than either of the competitors.'[28] Mae'n beth syndod mai gwraig i berson oedd yr un a fu mor feirniadol o'r eglwys sefydledig, ond mae'n ddigon posib bod gan Ellis gydymdeimlad llawn â'r bardd. Boed hynny'n wir ai peidio, dewisodd ganolbwyntio ar y farddoniaeth, a barnodd mai cerdd 'Cyfeiliawg' oedd yr ymgais orau yn y gystadleuaeth er ei bod yn beirniadu'r sefydliad a'i cyflogai. Gwrthrychedd o'r fath, wrth reswm, yw un o hanfodion beirniad da, a theimlodd Glanffrwd, y canolwr, fod Ellis yn llygad ei le wrth ei gosod yn gyntaf.

Erbyn Eisteddfod Genedlaethol 1883 hefyd, roedd gofyn i Ellis feirniadu rhai o'r mân gystadlaethau ochr yn ochr â'r gystadleuaeth am y goron, a thraethodd ei farn ar y bugeilgerddi ar y cyd â Cheiriog. Dyfynnwyd y cyfan o feirniadaeth Ceiriog yng nghyfrol y cyfansoddiadau - cryn ddeunaw tudalen o brint cymharol fân - gan ei fod ef, yng ngolwg y golygydd, yn feistr ar y ffurf lenyddol hon, a bod angen dangos beth a ddisgwylid gan feirdd a fyddai'n cystadlu yn y dyfodol. Cyfyngwyd sylwadau Ellis i baragraffau byr am bob un o'r pedwar ymgeisydd ar ddeg, ond mae'n amlwg fod gan Ceiriog feddwl mawr o farn ei gyd-feirniad. Clôdd ei feirniadaeth â'r geiriau:

> Y mae amryw o lythyrau a pharseli wedi teithio rhwng Llangwm a Chaersws, ac ... wedi rhoi a chymeryd, a chymeryd a rhoi i'n gilydd, y mae y bonheddwr parchedig, a'r beirniad craff, gonest – nid yn amgen na'r Elis Wyn o Wyrfai, yn cydolygu gyda minnau.[29]

27 Transactions of the Royal National Eisteddfod of Wales : held at Cardiff, August 6th, 7th, 8th, and 9th, 1883 (Cardiff, 1884), t.66

28 *ibid.*, t.70
29 *ibid.*, t.144

Ymysg y cystadlaethau eraill a feirniadodd yn 1883, cytunodd Ceiriog ac yntau hefyd y dylid rhannu'r wobr yng nghystadleuaeth y gân, a chytunodd Clwydfardd ac yntau nad oedd neb wedi cyfansoddi dychangerdd a oedd yn deilwng o'r wobr. Bu'n cyd-feirniadu'r cywyddau gyda Tafolog, a bu ef a Gwalchmai'n beirniadu'r storïau cyfres hefyd. Roedd y ddau'n unfryd ynghylch teilyngdod yr wyth stori a dderbyniwyd, gan gydweithio'n ddibetrus mae'n amlwg a rhoi'r anghydweld a fu rhyngddynt ar gystadleuaeth yr awdl bedair blynedd ynghynt y tu cefn iddynt.

Yn yr eisteddfod hon roedd wedi dangos ei allu fel beirniad amryddawn, ac wedi gallu dygymod â phwysau chwe chystadleuaeth boblogaidd. At hynny, gallai ymhyfrydu fod ei farn yn cael ei chyfrif yn un graff a gonest yng ngolwg un mor amlwg â Ceiriog. Ac eithrio prifwyliau Aberhonddu yn 1889 a Phontypridd yn 1893, bu'n beirniadu ym mhob Eisteddfod Genedlaethol rhwng 1885 a 1894. Yn wir, yng Nghaernarfon yn 1894 rhoddodd gynnig ar feirniadu cystadleuaeth y ddrama hyd yn oed, yr un pryd â beirniadu *genre* mwy cyfarwydd yr arwrgerdd. Ar brydiau, dim ond y pryddestau neu'r awdlau yr oedd gofyn iddo eu beirniadu, ond dro arall roedd y baich yr un mor drwm ac amrywiol â'r goflaid a gafodd yn 1883.

*Safbwynt ei feirniadaethau*

I Eben Fardd y gellir priodoli'r dylanwad mwyaf ar ei waith fel beirniad eisteddfodol. Roedd Eben yn ei anterth fel beirniad pan oedd Ellis yn ddisgybl iddo yng Nghlynnog, a chofier iddo nodi yn ei ddyddiadur i Ellis fynd gydag ef i gasglu gwaith eisteddfodol i'w feirniadu yn Ionawr 1851. Ymhellach, galwai Ellis yng Nghlynnog yn aml wedi iddo adael ysgol Eben Fardd, fel y tystia ei gonffyrmasiwn yn 1853 a'r englynion a gyfansoddodd yn 1860, a byddai'n siŵr o fod wedi galw i weld ei hen athro yn ystod ymweliadau tebyg i'r rhain.

Yn ôl Huw Llewelyn Williams, credai Eben Fardd mewn taro ar gydbwysedd rhwng beirniadu a hyfforddi yn ei feirniadaethau.[30] Gellid bod yn llym wrth adolygu cyfrolau newydd awduron profiadol, ond yng ngeiriau Eben:

> ...mae y Feirniadaeth neillduol mewn cysylltiad a'r cyfarfodydd Llenyddol i fod fel rhyw Fammaeth dyner i hyfforddi a cheryddu gydag addfwynder, ac i arfer pob hir-ymaros, er mwyn tynnu allan ymadferthion athrylith o dipyn i beth yn ôl graddau grym a chyflymder dadblygol y cynneddfau amrywiol a fyddont yn eu meddu.[31]

Ei resymau dros feddwl felly oedd fod beirdd Cymru'n 'prydyddu o dan gryn anfanteision, megis prinder hamdden, gormod gwaith, a diffyg dysg'.[32] Gan hynny, yr oedd gofyn cadw'r amgylchiadau hynny mewn cof wrth feirniadu, a chynnig abwyd iddynt yn hytrach na'u collfarnu'n ddidrugaredd. Lle gwelai gyfle i ganmol, gwnâi Ellis hynny'n ddibetrus hefyd. Yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr yn 1885, beirniadodd Clwydfardd, yr hanesydd enwog J.E. Lloyd ac yntau lawlyfrau ar farddoniaeth Gymraeg hyd 1800. Daeth chwe llawlyfr i law, ac roedd ganddo air o anogaeth i bawb. Ar gyfer yr olaf yn y ras, dywedodd 'Dyma, feallai, yr awdur isaf ei deilyngdod... ac eto gwnaeth waith mawr'; yna'r nesaf, 'ni ellir peidio edmygu ei lafur'.[33] Mae'n cydbwyso hynny trwy ddangos nad yw'r buddugol, er ei ragoriaethau, yn gwbl ddifai. 'Credwn mai yn ei orlawnder y mae "Meigant" yn colli. Buasai hanner y detholiadau o waith beirdd y pedair canrif olaf, y mae yn debyg, yn cyfarfod amcan y Pwyllgor, ac yn gosod y Llawlyfr o fewn cyrraedd pryniad mwy o ddarllenwyr.'[34] Er canmol y gwannaf, roedd yn ddigon hirben i ddangos nad oedd y goreuon yn ddifrycheulyd, ac wrth gynnig rhai sylwadau adeiladol i 'Meigant' a llenorion arobryn eisteddfodau eraill, ceisiai eu darbwyllo i fynd o'u gwobr at eu gwaith.

---

30 Huw Llewelyn Williams, Safonau beirniadu barddoniaeth yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Llundain, 1935), t.109

31 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrifau Cwrtmawr, 418B, tt.13-14.

32 Williams, Safonau beirniadu barddoniaeth yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, t.110

33 Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Aberdâr 1885 (London, 1887), t.267

34 *ibid.*, t.268

Perygl arddull a roddai gymaint o bwyslais ar gymell fyddai teimlo rheidrwydd i wobrwyo gwaith annheilwng, ond nid oedd hoffter Ellis o gymell, fwy nag Eben Fardd o'i flaen, yn golygu na welent eu ffordd yn glir i geryddu pan oedd gwir angen gwneud hynny, neu hyd yn oed atal y wobr os nad oedd yr un cystadleuydd yn deilwng o'r wobr. Cafwyd enghraifft o'r nodweddion hyn ar waith ym meirniadaethau Ellis yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, 1882. Mewn beirniadaeth hir a manwl, gofalodd fod ganddo air o anogaeth i bob un a gystadlodd, ond o weld nad oedd yr un ohonynt wedi canu'n ddigon da i gipio'r brif wobr, bu'n rhaid iddo ddatgan yn blaen fod pob un ohonynt yn syrthio'n brin o'r nod.[35] Yng ngeiriau Gwynedd:

> ...ni fyddai yn condemnio neb mewn cystadleuaeth bwysig heb yn gyntaf osod i lawr yr hyn a ystyriai yn rhesymau digonol dros ei ymddygiad. A thrwy'r dyfyniadau crybwylledig byddai yn gosod prawfion ger bron y cystadleuwyr a'r cyhoedd fod ei ddyfarniad yn berffaith deg a chywir.[36]

Pan na fyddai Ellis a'i gyd-feirniaid yn taro ar ymgais a deilyngai wobr, ni phetrusai rhag argymell y dylid atal y wobr. Fel y dywedodd wrth feirniadu'r haid o englynion a dderbyniwyd yn 1887:

> Daeth cant a deg-ar-hugain o englynion i law, a chawsom drafferth a phoen i'w darllen oll. Gwaith blinderus fu, tebyg i deithio dros hir wastadedd llwm, sychlyd, heb ddim i dorri ar yr undonedd. ... Disgwylid cael gem o englyn am y fath wobr [£5], ac ar y fath destun. Ond nid oes yma un o gwbl.[37]

Wrth iddo ddatblygu'n feirniad profiadol, gwyddai nad oedd gofyn gwastraffu fawr mwy nag ychydig eiriau wrth ymdrin â gwaith a oedd ymhell islaw'r safon ddisgwyliedig neu a oedd wedi anwybyddu'r testun a osodwyd. Wrth drafod cywydd gwannaf y gystadleuaeth yn 1887, cyfeiriodd yn goeglyd at ffugenw'r ymgeisydd, 'Idris Fychan'. 'Na, nid Idris

---

35 Carnelian, Awdl ar Ddyn : testun y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1882, (Pontypridd, 1882), t.3

36 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.169

37 *ibid.*, t.214

Fychan a ganodd, neu yn hytrach a anafodd, y cywydd o'n blaen.'[38] Serch hynny, fel ei fentor Eben Fardd, byddai'n ddigon craff i sylwi ar gerddi beirdd ifanc neu ddibrofiad a oedd wedi ymdrechu o ddifri, a gwyddai sut oedd cyfuno cerydd ac anogaeth er mwyn meithrin eu doniau. Wrth drafod awdl aflwyddiannus 'Dafydd' ym Mangor yn 1874, dywed ei bod yn:

> ...cynnwys yn fynych gynganeddion grymus a gafaelgar, y mae yr iaith yn bur ac eglur, a'r delweddiad yn brydferth. Ond y mae iddi wendidau lawer. Teimlwn fod yr arweiniad i mewn yn rhy faith a chwmpasog, rhannau helaeth o'r awdl yn ddiberthynas â'r testun, ac amryw linellau tra phlentynnaidd ynddi.[39]

O ran y nodweddion a'i swynai fwyaf, mae'r hyn yr oedd ganddo i'w ddweud am awdl fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Caerludd [hynny yw, Llundain] yn 1887 gan Robert Arthur Williams (Berw) ar 'Y Frenhines Victoria' yn crynhoi'r prif nodweddion yr edrychai amdanynt mewn cerddi:

> Nid oes yn y cyfansoddiad ddim chwydd, dim ymgais at arucheledd, dim llinell wedi eu hystumio i'w lle; ond ymddengys yr oll megis wedi eu siarad yn syml naturiol i'w harddwch teg. Gwedda pob peth i'r gynghanedd, â'r meddwl oll i'r testun fel ag i ffurfio awdl gwir deilwng...[40]

Hoffai ganu rhwydd a naturiol, a byddai'n canmol pob ymgais i ganu heb orchest. Roedd Eben Fardd yntau'n manteisio ar bob cyfle i ganmol canu swynol a naturiol, ac fel y nododd mewn beirniadaeth ar un o gerddi Dewi Wyn o Eifion:

> Grym meddyliau a phrydferthwch ymadroddion sy'n gosod gwerth mewn cyfansoddiadau barddonol, ac nid eu bod wedi eu britho a geiriau annealladwy i'r darllenydd cyffredin.[41]

---

38 Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol, 1887 (Caerludd) (London, 1890), t.125

39 W. B. Joseph, Awdl y Meddwl, t.10

40 Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol, 1887, t.27

41 David Owen, Blodau Arfon (Caernarfon, 1842), t.xxxi

Fel y nododd Gwenallt, roedd dwy ysgol o feirniaid llenyddol i'w cael yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg - 'ysgol Islwyn, a roddai'r prif bwyslais ar Arucheledd, ac ysgol Ceiriog a roddai'r prif bwyslais ar Deimlad.'[42] Gellid dweud yn eithaf pendant mai i'r ail ysgol y perthynai Ellis, yn enwedig wrth ystyried y darnau o'i feirniadaethau a ddyfynnwyd uchod. Ystyriai'r ffaith nad oedd Berw wedi ymgeisio at arucheledd yn ei awdl i'r Frenhines Victoria yn rhagoriaeth, gan roi clod iddo yn hytrach am ganu'n naturiol a rhwydd.

Ym marn yr athronydd Almaenig Schiller, y mae dau fath o farddoniaeth – y naill lle mae'r bardd yn dechrau â syniad yn ei enaid ei hun am natur, 'a cheisio plethu hwnnw, wedyn, â byd y ffenomenau allanol,'[43] a'r llall sy'n disgrifio natur y byd fel y mae'n ei weld. Gwelai Schiller fod prysurdeb bywyd yn dallu beirdd y garfan gyntaf rhag gweld natur yn iawn. Fel y nodwyd uchod, gresynai Eben Fardd fod pwysau bywyd modern yn golygu nad oedd llawer o feirdd yn cael rhyddid i ganu'n gwbl rydd. Byddai Eben a'i ddisgybl Ellis, yn gresynu hefyd nad oedd beirdd eu cyfnod hwy mor gyfarwydd â natur ag yr oedd rhai fel y bardd clasurol Homer, a oedd, yng ngeiriau Gwenallt, 'yn byw mor agos at Natur fel yr oeddent hwy yn ei disgrifio hi yn anymwybodol iddynt hwy eu hunain.'[44]

Yn ei feirniadaethau, ceisiai Ellis wobrwyo'r rhai a ganai'n naturiol, ond yn aml, byddai'r testunau hanesyddol yn arwain sawl bardd i bentyrru ffeithiau ac ymgeisio at arucheledd yn hytrach na chanu o'r galon. Pan fyddai beirniaid eraill yn ffafrio cerddi aruchel, ac Ellis yn gweld ei hun mewn lleiafrif o un yn erbyn dau, roedd yn rhaid iddo ildio i drefn yr Eisteddfod, a derbyn barn ei gyd-feirniaid. Fel y nodwyd, gwobrwywyd awdl Hwfa Môn yn Eisteddfod Genedlaethol 1878 yn groes i'w ewyllys, a bron y gellid dadlau bod meithder yr awdl honno wedi perswadio ei gyd-feirniaid i'w rhoi hi ar y blaen i awdl arall, fyrrach a mwy mentrus, er ei bod yn cynnwys sawl enghraifft o 'gyffredinedd isel' ym marn Ellis.

---

42 D. Gwenallt Jones, Bywyd a Gwaith Islwyn (Lerpwl, 1948), t.37

43 *ibid.*, t.42

44 *ibid.*, t.42

Yn hynny o beth, nid oedd yr hyn a ddigwyddodd yn 1878 yn eithriad – mae Bobi Jones yn sôn am Nicander yn cael ei wobrwyo yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 1860, a hynny er nad oedd yn esgyn i safon uchel cystadleuydd arall, Golyddan. Mae geiriau Bobi Jones am benderfyniad beirniaid Eisteddfod 1860 yr un mor briodol i nifer o'r eisteddfodau lle bu Ellis yn cyflawni dyletswyddau beirniad, pan fethodd ef ac eraill o'r un anian ag ef sefyll yn ddigon cadarn o blaid y farddoniaeth fwyaf naturiol:

> Gwobrwyo cyffredinedd a wnaethpwyd, felly, yn Ninbych. Nid arferiad anghyffredin. Poendod i bawb fyddai'r anarferol. Methodd y beirniaid felly â chodi i'r sialens.[45]

*Ymarfer yr hyn a bregethai?*

Y feirniadaeth bennaf y gellid ei hanelu at Ellis y bardd oedd nad oedd bob tro'n dilyn y cyfarwyddiadau a roddai i eraill wrth farddoni. Yn ystod y cyfnod rhwng 1874 a 1895, pan ganolbwyntiodd yn bennaf ar feirniadu, ei lwyddiant mwyaf nodedig oedd cipio'r goron ym mhafiliwn Caernarfon yn 1880 am ei bryddest ar 'Buddugoliaeth y Groes'. Roedd honno'n cynnwys tair mil o linellau ar yr un mesur, ac wedi darllen y cwpledi cyntaf mae'n amlwg y byddai angen cryn fesur o ymroddiad i fynd ati i ddarllen ei holl syniadau ar y pwnc:

> Fy nghân yw Buddugoliaeth Angau'r Groes;
> Teilynga'r testun hwn fyfyrdod oes.
> Myfyrdod oes? Myfyrdod oesau byd,
> A thragwyddoldeb, lynca hwn i gyd.[46]

Nid yw'r ffaith ei fod wedi ei rhannu hi'n bum 'pennod' yn gwneud yr arlwy damaid yn fwy atyniadol. Mae rhai o benawdau'r adrannau hynny, er enghraifft 'Datganiad y rhyfel - llwyddiant Satan o Eden hyd Grist' ac 'Yr Arwr - Ymgnawdoliad Crist, ei febyd, ei demtiad, ei weinidogaeth gyhoeddus hyd atgyfodiad Lazarus' yn awgrymu iddo gymryd golwg rhy eang ar y testun, a cheisio cywasgu'r Beibl cyfan i'w bryddest. O ran ei arddull, mae beirniadaeth Vulcan yn ddadlennol:

---

45 R. M. Jones, Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Llandybïe, 1988), t.12

46 Y Farddoniaeth Wobrwyedig yn Eisteddfod Genhedlaethol Caernarfon, 1880 (Caernarfon, 1880), t.41

> Y mae ei faint a'i ansawdd yn gyfryw ag sydd yn hawlio iddo le amlwg yn y gystadleuaeth bwysig hon. Nis gwyddom yn iawn pa un i'w edmygu fwyaf yn y gân ardderchog hon, ai arucheledd ei meddylddrychau ynte naturioldeb ei chyfansoddiad.[47]

Er cael ei ganmol am ganu'n naturiol, yr oedd Ellis wedi syrthio i'r fagl o ganu'n aruchel a hirfaith, ac wedi cipio'r wobr yn sgil y ffaith honno yn bennaf, mae'n debyg. Er canmol eraill am beidio â chanu'n aruchel, bradychodd rai o'i egwyddorion sylfaenol er mwyn llwyddo.

O ran meithder y bryddest, a'r ffaith iddo gymryd golwg lawer yn rhy eang ar ei destun, gellid dadlau na wnaeth ddim gwaeth na dilyn confensiwn ei oes, pan roddwyd bri ar gerddi a groniclai ffeithiau hanesyddol, a hynny yn aml ar draul ymdrechu i ganu'n awenyddol. Testunau hanesyddol neu rai Beiblaidd a bennid ar gyfer llawer o brif gystadlaethau Eisteddfodau Cenedlaethol chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ystyrier, er enghraifft, 'Helen Luyddawg' (Pryddest Wrecsam 1876), 'Joshua' (Arwrgerdd Birkenhead 1878), Madog ab Owen Gwynedd (Arwrgerdd Lerpwl 1884), 'Hywel Dda' (Arwrgerdd Aberdâr 1885) ac ymlaen. Byddai rhai'n dewis cynnwys pob manylyn a oedd yn hysbys am eu testunau yn eu hawdlau, gan feddwl bod croniclo'r holl hanes yn bwysicach na dim arall wrth geisio cyfansoddi awdlau a phryddestau arobryn.

Er gwaethaf arfer yr oes, sylwer fod Ellis, ym mlynyddoedd olaf ei fywyd, wedi awgrymu y dylai cynildeb fod yn un o'r nodweddion amlycaf y dylai beirniaid ei brisio. Adleisia hyn yr ymdeimlad a oedd wedi dechrau cyniwair yn ei feddwl yn ystod y drafodaeth â Hiraethog ac Islwyn ar awdlau eisteddfod 1878. Nid oedd meithder awdl Hwfa Môn bryd hynny, cofier, yn ei gwneud hi'n well awdl nag un arall, fwy cryno, yn ei farn ef. Wrth adolygu awdl gan Berw yn *Yr Haul* yn 1894, manteisiodd ar y cyfle i fynegi mai da o beth fyddai i feirdd ganu awdlau byrrach, er mwyn sicrhau bod y cynganeddion cain ynddynt yn llawer mwy amlwg i feirniaid:

---

47 *ibid.*, t.40.

> Y mae yn deg i ni ddweud fod ein syniadau am y gynghanedd gaeth, ac felly awdlau cadeiriol, wedi newid gryn lawer yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf ... Yr wyf wedi graddol ddyfod i deimlo fod cywreinrwydd manwl, gwir swyn a thlysni y gynghanedd gaeth, yn dreth ormodol ar lafur y bardd i gyfansoddi awdl ar destunau yn galw am feithder. ... Yn Eisteddfod Caernarfon eleni cyfyngwyd hyd awdl y gadair; a thrwy hynny rhoddwyd awgrym a chyfleustra i'r ymgeiswyr i berffeithio eu cyfansoddiadau.[48]

Ysywaeth, ni chafodd fyw'n ddigon hir i weld yr egwyddor honno'n dod yn rhan ganolog o feddylfryd beirniaid yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yn ei ddwy bryddest olaf ei hunan, bu'n euog o grwydro'n ormodol oddi wrth y testun a chanu llawer yn rhy faith ar y testunau a osodwyd.

*Ei gerddi eisteddfodol olaf*

Er ei fod, tua diwedd ei oes, wedi troi at feirniadu mewn eisteddfodau yn hytrach na cheisio ennill y prif wobrau, fe lwyddodd i ennill dwy wobr o bwys i ychwanegu at y gwobrau yr oedd wedi eu hennill rhwng 1854 a 1870. Fel y nodwyd uchod, yn Eisteddfod Caernarfon 1880 gofynnwyd am bryddest ar 'Fuddugoliaeth y Groes', ac Ellis a gipiodd y wobr gyntaf.

Gyda'r bryddest yn cynnwys dros dair mil o linellau, hon oedd cerdd 'fawr' ei yrfa, ond ni fyddai'n deg ystyried mai hon oedd ei gerdd orau. Roedd y testun yn naturiol yn apelio at offeiriad, ac yn cynnig cyfle arall i ymdrin â thestun Beiblaidd o gofio am y cerddi a wobrwywyd yn Llanelli yn 1856 ac yng Nghaernarfon yn 1870. Ym mhryddest 1880, cymerodd 'olwg eang iawn ar ei destyn'[49] yng ngeiriau un o feirniaid y gystadleuaeth, Tafolog, ac mae geiriau'r nawfed pennill yn dangos pa mor bell yn ôl yr aeth i ddechrau adrodd yr hanes:

> Ond Awen, rhaid yw olrhain tarddle'r drwg –
> Y gwreiddyn chwerwedd, - flin gynhyrchodd wg
> Rhwng Duw a dyn, gan wisgo Tad pob gras

---

48 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y Wasg', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 10 (1894), t.284

49 Y farddoniaeth wobrwyedig yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1880 (Caernarfon, 1880), t.40

A chariad pur, yn hug drwgdybiaeth fâs;
a hau anghydfod traws rhwng dyn a dyn,
Nes aml gasâ ei gnawd a'i waed ei hun.[50]

Wedi hynny, cenir am hanes Adda ac Efa ar hyd y bennod gyntaf, dan y pennawd 'Y Tramgwydd'. Yn yr ail bennod, eir ati i fanylu ar lwyddiant Satan o Eden hyd at gyfnod Crist, gan ddechrau â hanes Cain ac Abel, a chyfeirio wrth fynd yn ei flaen at Noa a hyd yn oed y bardd Homer a'r athronydd Aristotle. Mae'r ail bennod hon yn cynnwys llinellau grymus fel y pennill canlynol:

Ehedai Satan trwy y wlawog wybr
Fel mellten fflamllyd ar ei wibiog lwybr,
Yn ôl a blaen, uwch ben y dinystr mawr,
Gan ychwanegu dychryn lluoedd llawr.
Uwch ben eu hing ellyllaidd lawenhâi,
O'u cwpan cyni yfed cysur wnâi –
Fe dybiai dd'od dydd olaf dynolryw
A throi yn ofer holl amcanion Duw.[51]

Nid yw'r drydedd bennod yn fawr mwy na chrynodeb o'r Efengylau ar fydr ac odl, a hwnnw'n grynodeb cynhwysfawr. Teitl y bennod yw 'Ymgnawdoliad Crist, ei febyd, ei demtiad, ei weinidogaeth gyhoeddus hyd adgyfodiad Lazarus', ac ar ei dechrau cawn hanes Mair a Joseff, 'ar fyrddydd gauaf oer, a hi'n hwyrhau'[52] yn nesu at Fethlehem, yna hanes y bugeiliaid a'r doethion yn ymweld â'r baban Iesu, a llencyndod Crist, pan 'yn mysg y syml preswyliai "Mab y Dyn" / Yn symlaidd natur, yntau'n syml ei hun'.[53]

Rhaid darllen dau gant a hanner o linellau cyn canfod y cyfeiriad cyntaf at y Groes yn y bennod hon, sy'n dod wrth iddo bontio'r bwlch rhwng ymweliad Iesu â'r deml yn ddeuddeg oed a'i fedydd yn yr Iorddonen:

---

50 *ibid.*, t.42

51 *ibid.*, t.62

52 *ibid.*, t.73

53 *ibid.*, t.78

Ond ciliai'n ôl tu draw i'r ddystaw len
Nes treiglai deunaw mlynedd dros ei ben,
Tra pur gynyddai at aeddfedrwydd llawn
"Gorpholaeth," grym, doethineb, dysg, a dawn.
Pob rhinwedd cain gyd-blethai ynddo'i hun,
Fel ar ei fywyd gwenai Duw a dyn.
Gorchfygwr mawr y Groes! ai dyna'r pryd
Yr ymarfogai i waredu byd?[54]

Ar ôl y pennill hwnnw, mae'n ailadrodd storïau am fywyd cynnar Iesu heb unwaith gyfeirio at gysylltiadau'r rheiny â'r Groes, ac mae hynny'n rhyfedd. Syndod yw gweld rhan hir ar y temtiad, ond eto heb un cyfeiriad at y ffaith mai'r Groes oedd pen draw'r siwrnai y cychwynnodd Iesu arni ar ôl y deugain niwrnod yn yr anialwch. Yn hytrach, yr hyn a geir o hynny hyd atgyfodiad Lasarus yw ailadrodd rhannau o'r Efengylau fel a ganlyn:

"Beth yw dy enw?" ebe'r Iesu cu,
Atebai yntau, "Lleng: oherwydd llu
Ohonom sydd a'n preswyl yma'n awr.
Ac O, na anfon ni i'r dyfnder mawr![55]

Roedd holl weinidogaeth Iesu wedi ei chynnal â'i olwg ar Galfaria, ond gresyn na thynnodd Ellis sylw at y nodweddion hynny yn y gwyrthiau a'r damhegion wrth eu hailadrodd. Er enghraifft, gallai fod wedi dwyn cymhariaeth rhwng gorchfygu Satan ar y Groes a bwrw allan y cythreuliaid yn y wyrth y cyfeiriwyd ati uchod. Dim ond yn y pennill olaf ond dau y mae'n manteisio ar gyfle i ddangos tebygrwydd rhwng gweinidogaeth Crist a'r neges a gyflëwyd yn ei farwolaeth ar y Groes. Wrth fyfyrio ar godi Lasarus o farw'n fyw, dywed:

Tu draw i angeu diangorid ffydd,
Diffoddai gobaith yn ei niwlion cudd.
Ond yma'r Ceidwad cu â chadarn law
O ddrws marwolaeth wthiodd Satan draw:
A chwalu wnaeth ei ddychrynfeydd i gyd
Gan ddangos angeu'n borth i newydd fyd.[56]

---

54 *ibid.* t.80

55 *ibid.* t.88

56 *ibid.*, t.92

Gresyn iddo anghofio cyferbynnu ychwaneg o hanesion â'r testun yn y bennod hon, ond o leiaf roedd agoriad y bedwaredd bennod yn cyferbynnu'n drawiadol â chyffredinedd y drydedd bennod. Yma aeth ati i fanylu ar yr ornest rhwng Satan a Christ, a'r modd yr oedd y diafol wedi credu nad dim mwy na phroffwydoliaethau annelwig oedd y cyfeiriadau ato'n cael ei drechu gan Dduw:

> Pan welai'r sarph i'r Iesu ddymchwel sedd
> Marwolaeth Erch, a dwyn allweddau'r bedd,
> Gan ddangos gallu, a phennodi Dydd
> I ollwng carcharorion hwn yn rhydd,
> Rhagwelai yma ddatod olaf bwyth
> Ei waith yn Eden trwy y marwol ffrwyth.
> Mewn adnewyddol ddychryn cofiai'r ddraig,
> Am ddydd "ysigo'i ben" gan "Hâd y Wraig."[57]

Dywedai fod 'pob aflan nwyd haloga euog fyd' wedi ysbrydoli'r 'Sanhedrin bwdr' i drefnu brad i ladd Iesu, a rhoi un dyn i'w farwolaeth yn hytrach na pheryglu cenedl gyfan. Nid yr Iddewon yn unig sy'n cael eu beirniadu am eu rhan yn y brad hwn, gan fod Peilat yn cael ei ddisgrifio fel 'gŵr gwaedlyd, llwfr, sigledig fryd / a droai gyda holl awelon byd.' Ond yn wyneb yr holl ddrygioni:

> Yn mlaen y rhodiai Crist a thaflai'r GROES
> Ar draws ei lwybr gysgodau'r nesawl loes.[58]

Daw edmygedd Ellis o wrthrych y gerdd i'r amlwg yn ei ddisgrifiad o Grist yng ngardd Gethsemane:

> Ei Hunan safai ar dymhestlog fin
> Hen afon angeu yn ei hymchwydd blin,
> Pan ydoedd holl lifeiriant pechod byd
> Yn chwyddo ei ryferthwy mawr yn nghyd:
> I barod ruthro ar ei enaid gwan –

---

57 *ibid.*, t.93

58 *ibid.*, t.95

Pa fodd y torrai trwy'r Satanaidd gad,
I agor ffordd i'r Etholedig Had?[59]

Â yn ei flaen i ddisgrifio ei weddïau yn yr ardd, a'i wrhydri'n wynebu 'lluoedd anwn oll' yn hyf. Yna, ymhelaetha ar hanes Iesu gerbron y Sanhedrin, ac er gwaethaf holl waith y diafol yn dylanwadu ar 'dystion gau', noda:

Caiaphas ganfu na fachellai rhwyd
Anwiredd Iesu...'.[60]

Wedi iddo orffen cyfeirio at lys y Sanhedrin, y mae'n syrthio eto i'r fagl o ganu'n hirwyntog, ac er dechrau'r bennod mor addawol trwy addo ymdriniaeth â'r ornest rhwng Satan a Christ, ychydig iawn o hynny a geir er iddo ganu cannoedd o gwpledi yn y bennod hon. Y cyfan a geir yw croniclo hanes yr Wythnos Fawr hyd at noswyl y Groglith a'r bore canlynol. Er y gellid dadlau fod hanes cyflwyno Iesu a Barabbas, fel bod un yn cael ei ryddhau, yn rhan bwysig o hanes bore'r Groglith, nid yw'r llinellau canlynol yn ychwanegu dim at y darlun a addawyd o ornest rhwng da a drwg.

Ar uchel ŵyl y Pasg arferiad oedd
Rhyddhau carcharor geisiai'r bobl ar goedd.[61]

Fel yn y drydedd bennod, pentyrrodd ffeithiau yn hytrach nag adeiladu at uchafbwynt y gerdd. Prin iawn, ysywaeth, yw penillion fel a ganlyn, sy'n cadw at yr 'ornest' rhwng Duw a Satan:

Trwy yr offeryn, *dyn*, deallai'r Fall
Na chai yn Nghrist mewn gair na meddwl wall
Dan bob rhyw driniaeth, erchyll wae, a chur,
Fe wastad ddaliai'n gadarn ac yn bur.[62]

---

59 *ibid.*, t.95

60 *ibid.*, t.103

61 *ibid.*, t.109

62 *ibid.*, t.116

'Yr Oruchafiaeth' yw pennawd y bumed bennod, gan nodi mewn is-bennawd y cyfeirir at yr atgyfodiad a'r esgyniad a lledaeniad yr Efengyl yn y rhan olaf hon. Gwireddir addewid yr is-bennawd gyda chronicl o hanes bore'r Pasg a'r dyddiau dilynol, ond unwaith eto, ychydig iawn o ymdrech at gyrraedd uchafbwynt sydd yn y bennod olaf hon, dim ond cwpledi yn seiliedig ar y Beibl - fel:

> Dros ddeugain nydd fe rodiai yn eu mysg
> Gan roddi iddynt bob ysprydol ddysg,
> Nes deuai amser ei esgyniad ef
> I dŷ ei Dad, yn nysglaer deyrnas nef.[63]

Mae'n rhyfedd nad yw'n oedi rhyw lawer i fyfyrio ar arwyddocâd bore'r Pasg, gan fwrw ymlaen yn hytrach i ailadrodd sut y rhoddodd Iesu gyfarwyddiadau i'w ddisgyblion ar sut i weinidogaethu. Dim ond wrth gloi ei bryddest y mae'n dychwelyd at y testun, ac yn myfyrio ar briodoledd y fuddugoliaeth i gredinwyr:

> Arweinia Crist yr ogoneddus gad
> I hedd drigfanau dedwydd dŷ ei Dad,
> Yn ysgyb "blaenffrwyth creaduriaid Dyw,"
> Yr harddaf, uchaf, doethaf, bennaf ryw.
>
> Gorseddir hwy i'w gynorthwyo Ef
> Yn llysweinyddion uchaf teyrnas nef;
> Ar fryniau anfarwoldeb byth heb loes
> Y canant FUDDUGOLIAETH ANGEU'R GROES.[64]

O'i darllen ar ei hyd, nodwedd amlycaf y bryddest, fel y soniwyd eisoes, yw'r pentyrru ffeithiau sy'n peri fod cymaint o'r canu yn annhestunol. Canmolwyd y bryddest gan feirniaid swyddogol 1880 am fod yn un 'seml, goeth, dyner, effeithiol, gyflawn, a gwir farddonol',[65] ond mewn gwirionedd, ailadrodd Efengyl Crist a rhannau o Genesis ar fydr yw swm a sylwedd y bryddest hon. Yr oedd yn gerdd hirfaith, ac yn un a alluogodd Ellis i gymryd golwg eang ar ei destun, ond trwy wneud hynny cuddiodd yr ychydig berlau sydd

63 *ibid.*, t.123

64 *ibid.*, t.131

65 *ibid.*, t.40

yn gerdd ymysg y cannoedd o linellau diangen. I un heb Feibl na syniad chwaith am Grist na diben ei daith at y Groes, mae'n cynnwys yr holl gefndir sydd ei angen i ddeall 'Buddugoliaeth y Groes'. Serch hynny, prin oedd y rhai yn ei gynulleidfa darged nad oedd yn gwybod yr hanes yn llawn yn barod, ac mewn gwirionedd gallai Ellis fod wedi hepgor bron y cyfan o'r tair pennod gyntaf, yn enwedig o gofio mor arwynebol yw'r drydedd bennod. Yn fyr, gallai fod wedi gwneud gwell cyfiawnder o lawer â'i destun petai wedi canu'n fwy cynnil, a pheidio â cheisio cywasgu cymaint o hanesion dibwys i'r bryddest - hanesion yn aml iawn nad oedd yn cyfrannu dim o gwbl at adeiladwaith y gerdd.

*Ei lwyddiant olaf - awdl 'Eglwys Llangurig' yn Eisteddfod Powys 1882*

Daeth llwyddiant eisteddfodol olaf Ellis yn Eisteddfod Daleithiol Powys 1882, a gynhaliwyd yn Llangurig. Gofynnwyd am bryddest ar 'Eglwys Llangurig' a chyfansoddodd 198 o linellau ar y testun. Roedd hi'n gerdd fer iawn o'i chymharu â 'Buddugoliaeth y Groes', ond er mor gryno ydoedd, mae llawer gormod o linellau llanw ynddi, ac at hynny ychydig o werth parhaol sydd ynddi. Mae'n dechrau'n addawol:

> Llangurig deg, mam Eglwys hen y plwy',
> Urddasol wyt ar lan y droellog Wy;[66]

ond digon cyffredin yw gweddill y pennill cyntaf, ac ystrydebol iawn yw'r llinellau sy'n ei gloi:

> ... Ti welaist lawer tro
> Ar fyd, a chyfnewidiad yn dy fro:
> Cyfreithiau'n newid, newid teyrnedd gwlad,
> Ond digyfnewid yw'th Efengyl rad.[67]

Mae'r cyfeiriadau mwy penodol at yr eglwys yn well, er efallai eu bod yn dilyn arfer yr oes o ganolbwyntio ar groniclo hanes. Ystyrier y llinellau isod ar hanes Curig:

---

66 Elis Wyn o Wyrfai, 'Eglwys Llangurig : Pryddest Gadeiriol' *Yr Haul* Cyfres Caerfyrddin 26 (1882), t.38

67 *ibid.*, t.38

Dewisodd fan ar fin graianog Gwy
I godi Eglwys – gwreiddyn Llan y plwy',
Fe adeiladodd hon â'i law ei hun
O gangau gwydd plethedig seml ei llun...

Dan riniog hon dylifai ffrydiau gras,
A'r dyffryn tlws a droes yn iraidd fras.
Eneidiau'r lliaws ddenwyd at y groes,
Prydferthwyd ffurf cymdeithas, purwyd moes[68]

Cyfeirir hefyd at ffenestri'r eglwys, a'r lluniau o Gurig ar y ffenestr fawr a Maelgwn Gwynedd gyferbyn â honno yng nghefn yr adeilad. Serch hynny, ychydig iawn o farddoniaeth sydd mewn llinellau fel y rhain:

Fel dolen newydd yn y gadwyn hir,
Gwêl ddarlun "Curil Lwyd" yn d'od i dir
Ger Aberystwyth, mewn môr-gilfach glyd,
Syml oedd ei wisg a dieithr oedd ei bryd.[69]

Gair cyntaf y bryddest yw'r unig gyfeiriad at Langurig wrth ei enw, ac er bod sawl cyfeiriad at Gurig, Pumlumon Fawr, yr afon Gwy a nodweddion eraill y byddai rhywun yn disgwyl eu gweld mewn cerdd i eglwys Llangurig, mae rhannau helaeth o'r bryddest yn cynnwys llinellau a fyddai'n addas i ddisgrifio unrhyw eglwys arall. Ym mhenillion 3, 4 a 5, rhesi o linellau cyffredin iawn sydd ganddo, megis y rhain yn y trydydd pennill:

O fewn y cysegr gogoneddus yw
Fel merch y Brenhin yn ei gemwaith gwiw;
addolgar barch a duwiolfrydedd dwys
A leinw'r teimlad yn ei chyntedd glwys.[70]

Mae clo'r bryddest fymryn yn well na'i rhannau cyntaf, ond unwaith eto, digon cyffredinol yw'r ddau bennill olaf, sy'n sôn am 'bob ffenestr glws llawn o hanesiaeth yw / Llefara'r meirw yma fel yn fyw', ac ati. Yn wir, rhoddir digon o le i rywun amau fod ganddo

68 *ibid.*, t.40

69 *ibid.*, t.39

70 *ibid.*, t.39

bryddest gyffredinol ar eglwys Gymreig nodweddiadol ar y gweill tua'r cyfnod hwn, a'i fod wedi digwydd taro ar restr testunau Eisteddfod Powys, ac wedi ystumio llinellau i ateb y testun a osodwyd. Y mae'r canlynol yn codi safon gyffredinol y bryddest, ond gallasent yn hawdd fod wedi'u codi o gerdd i unrhyw eglwys arall yng Nghymru:

> Hen Lan y plwy' – canolbwynt dwyfol ddysg
> A theg wareiddiad fuost yn ein mysg:
> Llewyrcha'n fwy, a mwy defnyddiol bydd,
> A thi a sefi hyd yr olaf ddydd.[71]

Canodd bryddest a ystyriwyd yn deilwng o'r wobr, ond nid y llwyddiant eisteddfodol olaf hwn oedd ei waith gorau o bell ffordd. Yn hynny o beth, yr oedd mewn cwmni da. Dywedir na lwyddodd Eben Fardd ei hun i gyfansoddi dim a ragorai ar ei Awdl ar Ddinistr Jerwsalem a gyfansoddodd yn 1824, pan nad oedd ond dwy ar hugain oed.[72] O ystyried ei holl awdlau a phryddestau, awdl Ellis i'r Caethwas, yr un a ganodd yn 1854, oedd ei gerdd eisteddfodol orau o blith y cyfan a ysgrifennodd.

Mae'n debyg y byddai pwyllgorau eisteddfodau heddiw yn fwy tebyg o ofyn am englyn, neu gywydd fan bellaf, ar destun fel eglwys y plwyf. Serch hynny, ni ellir esgusodi rhai llinellau digon diawen a dianghenraid yn y bryddest a ganodd Ellis - yn sicr, gallai fod wedi canu gwell pryddest na hon.

Fel offeiriad roedd y testun yn apelio ato, ac nid oes dim mwy na hynny i awgrymu pam y cystadlodd yn yr eisteddfod arbennig hon, ac eithrio efallai ei bod yn un o'r adegau prin hynny pan nad oedd yn beirniadu, neu, fel y sonnid uchod, ei fod wedi llwyddo i addasu cerdd yr oedd eisoes yn gweithio arni i ateb y testun a osodwyd. Nid oes digon o dystiolaeth i liwio tipyn ar gefndir y bryddest, ond nodai'r fuddugoliaeth eisteddfodol hon ddiwedd ar dros ddeng mlynedd ar hugain o gystadlu mewn eisteddfodau.[73]

---

71 *ibid.*, t.40

72 E. G. Millward, Eben Fardd (Caernarfon, 1988), t.14

73 gw. Atodiad 5 y traethawd hwn

*Cylch arbennig yr Orsedd a'r Eisteddfod*

Wedi iddo ymroi i feirniadu, daeth ei waith fel beirniad ag ef i ganol bwrlwm bywyd llenyddol Cymru. Bu'n aelod balch o Orsedd y Beirdd er 1850, pan dderbyniwyd ef i'r Orsedd fel Elis Wyn o Wyrfai adeg cyhoeddi eisteddfod Tremadog, ddeng niwrnod cyn ei lwyddiant mawr cyntaf yn eisteddfod Rhuddlan.[74] Erbyn 1880 roedd yn rhan o'r pwyllgor a arholai ymgeiswyr am urddau'r orsedd, a chyflawnodd y dyletswyddau hynny ym Merthyr yn Eisteddfod Genedlaethol 1881.[75] Yng nghyfansoddiadau Eisteddfod Wrecsam 1888 nodir ei enw fel un o dderwyddon yr Orsedd, yn drydydd i'r Archdderwydd a Bardd yr Orsedd o ran statws. At hynny, roedd hefyd yn aelod o Gyngor yr Eisteddfod er 1885, ac mae'n debyg fod y fraint honno'n rhannol gyfrifol am yr holl waith a wnâi fel beirniad am ddeng mlynedd wedi hynny.

Yn raddol, daeth i adnabod y rhan fwyaf o feirdd, cantorion ac enwogion ei wlad, a gwelir fod y cerddor Joseph Parry, y dramodydd Beriah Gwynfe Evans, a'r cyhoeddwr Thomas Gee ymysg ei gydnabod fel aelodau eraill y Cyngor yn 1885. Roedd gan aelodau'r Orsedd ystod eang o syniadau crefyddol a gwleidyddol rhyngddynt, a barai iddynt fod yng ngyddfau ei gilydd am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ond am un wythnos roeddynt yn pledio eu bod yn gytûn yn seremonïau gwobrwyo'r llenorion arobryn. Wrth ddatgan 'Heddwch' gyda'i gilydd byddai cadoediad am ychydig ddyddiau, ond gallent yn hawdd fod yn cecru drachefn yng ngholofnau'r cyfnodolion gwrthwynebus ar ôl cloi gweithgareddau'r eisteddfod. Gŵyl ddiwylliannol uwchlaw popeth oedd yr eisteddfod, ac fel un a garai ei genedl a'i thraddodiadau, hyn oedd yn cael y flaenoriaeth ganddo Ellis a'i gymheiriaid yn ystod ei chyfarfodydd. Roedd yn hoff iawn o'r eisteddfod yn ddiamau, ac yn falch o'i statws fel un o feirniaid mwyaf amlwg y mudiad eisteddfodol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

---

74 Geraint a Zonia Bowen, Hanes Gorsedd y Beirdd (Felindre, Abertawe, 1991), t.147

75 *ibid.*, t.229, 234

### iii - Golygydd cyfnodolion yr Eglwys

Mae'r flwyddyn 1885, pryd y daeth yn aelod o Gyngor yr Eisteddfod, hefyd yn arwyddocaol gan mai dyna pryd y dechreuodd olygu *Yr Haul*, misolyn yr Eglwys yng Nghymru. Daeth i'r swydd honno ar gefn enw da fel cyfrannwr cyson ac uchel ei barch i gyfnodolion eglwysig a Chymraeg, ac fel golygydd cyntaf *Y Llan*, newyddiadur wythnosol swyddogol yr Eglwys yng Nghymru.

*Pwysigrwydd y wasg gyfnodol i'r enwadau*

O rifyn cyntaf *Seren Gomer* yn 1818, daeth y wasg gyfnodol i chwarae rhan gynyddol bwysig yng ngweithgarwch enwadau Cymru. Fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, daeth pob enwad yn eu tro i ofalu am o leiaf un misolyn yr un, ac wythnosolion hefyd maes o law, wrth iddynt geisio cynnig arweiniad ar bynciau'r dydd i'w haelodau. Law yn llaw â'r nod o gynnig arweiniad, agwedd bwysig arall ar fwrlwm y wasg gyfnodol oedd awydd cyffredinol i wella safon addysg y darllenwyr, a bachodd yr enwadau Ymneilltuol ar y cyfrwng i gyflawni'r dibenion hyn.

Sylweddolai sawl un yn ystod y ganrif nad oedd fawr o gyfle i weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd, y Bedyddwyr a'r Annibynwyr fynd i brifysgol am eu haddysg, ac nad oedd gan lawer ohonynt fawr mwy o addysg nag a gynigid mewn ysgolion tebyg i un Eben Fardd yng Nghlynnog. Mewn egwyddor, rhoddai hynny hwy dan anfantais addysgol o'u cymharu ag offeiriaid, a fyddai gan amlaf wedi derbyn hyfforddiant yng Ngholeg Dewi Sant neu yn un o brifysgolion Lloegr. Yn wyneb y diffyg hwn, cynigiai'r wasg gyfnodol gyfle rhad a hwylus i ddarparu ar gyfer gweinidogion, heb sôn am leygwyr, ar hyd a lled Cymru, gyda phob rhifyn newydd yn cynnig cyfle pellach i ymhelaethu ar yr hyn a gynigid yn y rhifyn blaenorol.

Yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd tri math o gyfnodolyn yn gweithio yn eu ffyrdd eu hunain i ddiwyllio'r Cymry. Ar y brig roedd *Y Traethodydd*, *Yr Adolygydd* a'r *Beirniad*, ac i raddau llai, *Y Geninen* yn ddiweddarach. Crisialwyd eu hamcanion gan y Dr Lewis Edwards, a ddywedodd mai nod *Y Traethodydd* oedd 'dyrchafu a phuro archwaeth y

Cymry at ddarllen ac ysgrifennu, a'u harwain yn mlaen ymhob gwybodaeth fuddiol.'[1] Aeth yn ei flaen i ddweud, 'trwy ddyfod allan yn chwarterol, ac nid yn fisol, bydd yn rhoddi amser a mantais i'r ysgrifenwyr i gwblhau cyfansoddiadau teilwng.' Cyhoeddid erthyglau heriol ar athroniaeth a diwinyddiaeth yn *Y Traethodydd*, gan ennill clod E. Morgan Humphreys yn ddiweddarach am 'ddyrchafu safon y wasg Gymraeg yn gyffredinol trwy goledd syniadau uchel am allu a chyraeddiadau ei ddarllenwyr.'[2] Geiriau yr un gŵr am *Y Geninen* a'i olygydd, Eifionydd, oedd bod y cyfnodolyn hwnnw wedi gwneud gwaith mawr wrth gasglu 'manylion bywgraffyddol am Gymry adnabyddus y cyfnod ... [gwybodaeth a fyddai] wedi mynd ar ddifancoll oni buasai am daerni Eifionydd yn cael ysgrifau coffa ar y pryd gan y rhai yr oedd y wybodaeth ganddynt.[3]

Ar lefel mymryn yn is nag *Y Traethodydd* a'i debyg roedd y cylchgronau misol, llawer ohonynt yn gyhoeddiadau enwadol. Roeddent lawn mor ddefnyddiol â'r *Traethodydd* ond nid mor uchelgeisiol. Gellir rhestru *Yr Eurgrawn, Y Dysgedydd, Y Drysorfa, Y Diwygiwr* ac *Yr Haul* fel enghreifftiau mwyaf nodedig y categori hwn o fisolion enwadol – pob un yn eu ffyrdd eu hunain yn ceisio ehangu gwybodaeth eu darllenwyr, tra'n hyrwyddo safbwyntiau eu henwadau penodol ar yr un pryd. Y trydydd categori oedd yr wythnosolion, a fyddai, oherwydd amlder eu rhifynnau, yn llai sylweddol o ran cynnwys, ond yn fwy effeithiol na'r misolion a'r chwarterolion o ran rhoi gwybod i bobl am y newyddion diweddaraf yng Nghymru a thu hwnt, ac amlygu ymateb arweinwyr y genedl ar bynciau'r dydd. Cyfeirir ymhellach at rym yr wythnosolyn enwocaf oll, *Baner ac Amserau Cymru*, yn y bennod ar Ryfel y Degwm, ond at y cyhoeddiad hwnnw, gellir ychwanegu *Seren Cymru* y Bedyddwyr, *Y Tyst*, wythnosolyn swyddogol yr Annibynwyr, ac *Y Goleuad*, papur newydd y Methodistiaid, fel cyhoeddiadau a oedd yn llawn o newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, a'r cyfan yn cael eu golygu yn unol ag egwyddorion a chredoau'r enwadau neilltuol hynny.

---

1 Thomas Charles Edwards, Bywyd a Llythyrau y Diweddar Barch. Lewis Edwards (Liverpool, 1901), t.229

2 E. Morgan Humpherys, Y Wasg Gymraeg Cyfres Pobun III (Liverpool, 1945), t.38

3 *ibid.*, t.40

Fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, ni welodd yr Eglwys yn dda i fanteisio ar y cyfrwng gymaint ag y gwnaeth yr enwadau eraill, a dim ond ar ddiwedd y 1870au yr ymatebodd o ddifrif i'r her o gyhoeddi wythnosolyn Cymraeg swyddogol i'w chynrychioli, o bosib ar ôl gweld cymaint o lwyddiant yr oedd yr wythnosolion enwadol yn ei gael wrth geisio dylanwadu ar bobl Cymru. Pan fentrwyd cyhoeddi wythnosolyn swyddogol dan nawdd yr Eglwys am y tro cyntaf, rhoddwyd y teitl *Y Llan* iddo, ac Ellis a benodwyd yn olygydd cyntaf ar y fenter newydd.

*Golygydd cyntaf* Y Llan

Mae'r manylion am hanes cynnar *Y Llan* yn brin iawn, gan mai dim ond copïau o'r pum rhifyn cyntaf a oroesodd, gyda'r nesaf y gwyddys iddo oroesi yn dwyn y dyddiad 7 Mawrth 1884. Collwyd pob copi o rifynnau'r saith mis ar hugain a gyhoeddwyd yn y cyfamser, ac aeth y rhan orau o hanes cynnar y cyhoeddiad i'w canlyn. Ar dudalennau'r ychydig rifynnau a oroesodd hyd yn oed, nid oes modd casglu fawr ddim am gefndir y papur. Dywedir mai Ellis oedd golygydd cyntaf *Y Llan*; dywedir hefyd fod y papur wedi cael ei lansio yn sgil gweithgarwch H.T. Edwards, deon Bangor, ac mai hwn oedd y newyddiadur eglwysig Cymraeg swyddogol cyntaf.[4] Ac eithrio hynny, dim ond ambell gyfeiriad wrth basio mewn dogfennau gwasgaredig sy'n rhoi mymryn mwy o gig ar yr esgyrn.

Dechreuodd *Y Llan* ar ei waith heb fawr o ragarweiniad na chyflwyniad. Yng ngholofnau'r pum rhifyn cyntaf ceir dadansoddiad o bynciau'r dydd, adroddiadau gan wahanol eglwysi o Fôn i Fynwy, newyddion cyffredinol yr Eglwys yng Nghymru a Lloegr, prisiau'r marchnadoedd, hysbysebion, a'r eitemau arferol eraill y byddai rhywun yn disgwyl eu gweld mewn wythnosolyn. Yr hyn sydd ar goll er hynny yw'r manion cefndirol a geir fel arfer mewn cyhoeddiad newydd, sef enw'r golygydd, amcan yr wythnosolyn, pwy oedd y

4 Aled Jones, Print, language and identity: newspapers in Wales since 1804 (Aberystwyth, 2002), t.6. gw. www.ifla.org/IV/ifla68/papers/048-127e.pdf
Nodir mai 'Golygydd cyntaf *Y Llan* a *Y Llan a'r Dywysogaeth* oedd y Parch. Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai)' hefyd yn Humpherys, Y Wasg Gymraeg, t.14

gohebwyr lleol, ac ati. Er mwyn deall y diffyg hwn, rhaid troi at newyddiadur cynharach, *Y Dywysogaeth*, a sylwi mai o hwnnw y deilliodd *Y Llan*.

*Hanes* Y Dywysogaeth

Ers ei rifyn cyntaf yn 1870, roedd *Y Dywysogaeth* wedi ceisio cyfuno dwy swyddogaeth neilltuol. Hyrwyddai safbwyntiau Ceidwadol mewn materion gwleidyddol, ac roedd hefyd yn gefnogol i Eglwys Loegr a'i harweinwyr pan fyddai materion crefyddol dan sylw. Erbyn Hydref 1881 barnwyd nad oedd modd gwneud cyfiawnder â'r ddwy swyddogaeth yn yr un cyhoeddiad, a chredai sawl eglwyswr amlwg bod gofyn sefydlu un newyddiadur cryf i fod yn llais Cymraeg i Eglwys Loegr. Mewn hysbysiad ar glawr rhifyn 21 Hydref 1881 *Y Dywysogaeth*, nodwyd fod y papur ar fin newid dwylo, gyda'r bwriad o ganolbwyntio'n fwy trylwyr ar faterion eglwysig:

> It will temperately expound the principles, and defend the polity, of the Church... It will set forth the Church's principles, and record the current events in the Church life of the day. The name which the paper will bear is one dear to all Welsh Churchmen, recalling their most sacred memories, viz.: "Y LLAN" [5]

*Cefndir gosod sylfeini* Y Llan

Nid penderfyniad dros nos oedd ail-lansio *Y Dywysogaeth* ar ffurf *Y Llan*. Bu'r newid yn ffrwyth blwyddyn neu ddwy o ddyheu a chynllunio gan bwyllgor oedd â'i fryd ar sefydlu papur newydd Cymraeg i hyrwyddo a thrafod materion eglwysig. Gellir olrhain egin y mudiad hwnnw i gynhadledd flynyddol Eglwys Loegr yn 1879, pan ddaeth pwnc y wasg eglwysig Gymraeg dan ystyriaeth. Cyfeiriwyd yno at yr hyn a oedd yn prysur ddod yn amlwg i nifer o eglwyswyr, sef fod nifer y cyfnodolion a gefnogai'r eglwys yn fychan iawn o'u cymharu â'r rhai a goleddai egwyddorion yr enwadau Ymneilltuol. Barnwyd fod yr eglwys yn analluog i ymateb i'r holl ymosodiadau arni yn y cyfnodolion hynny, ac awgrymwyd fod angen gweithredu ar fyrder er mwyn sicrhau llais newyddiadurol teilwng i ateb yn ôl. Ffurfiwyd pwyllgor i drafod y mater ymhellach, a'i siarsio i gyflwyno argymhellion i'r esgobion Cymreig.

---

5 *Y Dywysogaeth* (Hydref 21, 1881), t.1

Cyhoeddwyd argymhellion y pwyllgor mewn adroddiad yn dwyn y teitl The Welsh Church Press – report of the committee representing the four Welsh dioceses, ac ynddo gwelir sut y daethpwyd i lansio *Y Llan* dan nawdd a gofal swyddogol yr eglwys. Wedi nodi'r diffyg truenus yn nifer y cyfnodolion a gynrychiolai ac a amddiffynnai'r eglwys, nodwyd fod cynifer ag un ar bymtheg o gyfnodolion anghydffurfiol yn bod. Yn wyneb y fath anghydbwysedd, awgrymwyd y dylid sefydlu dau gyhoeddiad grymus i gynrychioli'r eglwys – un yn y de, a'r llall yn y gogledd. Awgrym pellach y pwyllgor oedd:

> ...the best way of accomplishing the work will be to form a "Welsh Church Press Company, Limited," with ample capital; and to entrust the practical management to a body of competent business-like men, elected by those who are interested in the undertaking.[6]

Cyflwynwyd y syniadau uchod gan un ar ddeg o offeiriaid a lleygwyr o bedair esgobaeth Cymru. Cadeirydd y pwyllgor oedd deon Bangor, H. T. Edwards, gydag Ellis Roberts, ficer Llangwm, yn cynrychioli esgobaeth Llanelwy.

Roedd dewis H.T. Edwards fel cadeirydd y pwyllgor yn tystio i'w enw da yn yr eglwys sefydledig a thu hwnt fel un a wyddai'n dda am anghenion darllenwyr Cymraeg yr Eglwys. Fel mab i offeiriad Llanymawddwy (a Llangollen yn ddiweddarach), ac un o bedwar o frodyr a ordeiniwyd yn offeiriaid, gwyddai'n iawn am yr hyn a oedd yn amharu ar berthynas yr Eglwys â gwerin Cymru, a beth oedd angen ei wneud i gywiro'r diffyg hwnnw. Daeth i amlygrwydd yn 1870 pan ysgrifennodd lythyr dan y teitl 'The Church of the Cymry' at Brif Weinidog y cyfnod, William Gladstone, yn ceisio'i berswadio i apwyntio siaradwyr yr oedd y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt i esgobaethau Cymru.[7] Bu'n offeiriad diwyd mewn plwyfi mor amrywiol â Llangollen, Aberdâr a Chaernarfon, ac yna'n ddeon

---

6 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrif 6402 D, taflen The Welsh Church Press – report of the committee representing the four Welsh dioceses.

7 Henry T. Edwards, Wales and the Welsh Church (London, 1889), tt.94-180. gw. hefyd Roger Lee Brown, In Pursuit of a Welsh Episcopate (Caerdydd, 2005), t.119. Er nad oes modd bod yn sicr mai llythyr H.T. Edwards uwchlaw unrhyw beth arall a arweiniodd at benodi Joshua Hughes yn esgob Llanelwy bryd hynny, dros y blynyddoedd priodolwyd llawer o'r clod am y penodiad hwnnw i'r llythyr a anfonodd at Gladstone.

Bangor o 1876 ymlaen. Trwy hynny daeth yn gyfarwydd â bywyd ym mhlwyfi gwledig y gorllewin, ardaloedd diwydiannol y de ac ardaloedd a welodd newid mawr yn sgil twristiaeth yn ystod oes Victoria. Galluogai hyn ef i weld anghenion penodol gwahanol fannau yng Nghymru, a ffurfio barn ar yr hyn a fyddai'n debygol o sicrhau llwyddiant newyddiadur eglwysig. At hynny, fel un a addysgwyd yn ysgol Westminster, ni byddai Saeson dysgedig Eglwys Loegr a'i hapwyntiodd yn gadeirydd y pwyllgor yn ei weld fel dim ond Cymro di-nod.

Mae'n debyg mai'r pwyllgor hwn o ddeg offeiriad dan arweiniad H.T Edwards a aeth ati yn ystod y misoedd canlynol i baratoi ar gyfer cyhoeddi *Y Llan* cyn diwedd 1881. Anghofiwyd yn y cyfamser am y syniad o gael dau gyhoeddiad, a chanolbwyntiwyd yn hytrach ar geisio cryfhau'r papur a oedd â'r cysylltiad amlycaf â'r Eglwys, sef *Y Dywysogaeth*. Erbyn hynny, ymddengys fod barn gyffredin o blaid adfywio tipyn ar yr hen gyhoeddiad, fel y tystia'r dyfyniad hwn o *Yr Haul* yn 1880:

> Yr ydym ym mhell iawn o fod yn tueddu at draethu gair absennus am *Y Dywysogaeth*, canys y mae wedi ymddangos ynddi lawer o erthyglau da a grymus, yn neilltuol y blynyddau cyntaf o'i hymddangosiad, ond y mae yn fychan iawn ei maint, a dylai gael ei golygu yn amgenach.[8]

Collfarnir y golygydd ymhellach am gynnwys ffugchwedlau a chyfieithiadau ar draul cynnyrch gwreiddiol a chyfoes a fyddai'n cynnig gwell amddiffyniad i'r Eglwys. Roedd yr her wedi ei gosod i'r pwyllgor newydd felly. Roedd galw ymhlith Eglwyswyr Cymraeg am wythnosolyn mwy safonol – ac un a ganolbwyntiai'n llwyr ar faterion eglwysig - er mwyn iddynt gael eu cynrychioli'n deilwng yn y wasg wythnosol.

Ni wyddys pryd, ymhle, na faint o weithiau y cyfarfu'r pwyllgor a gyflwynodd yr adroddiad i esgobion Tyddewi, Bangor, Llanelwy a Llandâf, ond gwyddys i sicrwydd mai Ellis oedd golygydd rhifynnau cynharaf *Y Llan*, a bod y Deon Edwards yntau'n goruchwylio'r fenter yn ystod cyhoeddi'r rhifynnau hynny. Dywed Aled Jones:

8 Sion Trefaeth, 'Y Wasg Eglwysig' yn *Yr Haul* Cyfres Caerfyrddin 24 (1880), t.248

> Attempts by the Dean of Bangor to secure funds from Canterbury and elsewhere to launch a new press offensive against Nonconformity led in 1881 to the establishment of *Y Llan* under the management of the Rev. Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai), a title which shortly superseded two other Anglican newspapers established in the previous decade, *Y Dywysogaeth* and *Amddiffynydd yr Eglwys*.[9]

Cadarnheir rôl H.T. Edwards yn y fenter gan lythyrau sydd wedi goroesi at is-olygydd *Y Llan*, W. Lewis Jones, yn ystod wythnosau cyntaf ymddangosiad y papur newydd. Mae'n debyg fod y gŵr hwnnw'n gweithio yn argraffdy John Morris yn y Rhyl, lle roedd *Y Dywysogaeth* wedi cael ei argraffu'n flaenorol, a lle parheid i argraffu'r wythnosolyn newydd mewn diwyg tebyg i'w ragflaenydd. Er mai Ellis oedd y golygydd, diau y byddai gan yr is-olygydd hawl i wneud newidiadau munud olaf, gan fod y Rhyl yn siwrnai diwrnod o Langwm, cyn bod teleffon na dulliau cyfathrebu amgenach na'r post brenhinol yn gyffredin, wrth reswm.

Mae cynnwys y llythyrau a anfonodd y Deon Edwards at yr is-olygydd hefyd yn dangos y canllawiau golygyddol y byddai gofyn i Ellis gadw atynt wrth benderfynu beth a gynhwysid o wythnos i wythnos. Yn y llythyr cyntaf, a anfonwyd ar 7 Tachwedd, mae'n pwysleisio na ddylai *Y Llan* ostwng ei safonau er mwyn cynnwys eitemau a ddisgrifir ganddo fel rhai 'trashy'.[10] Ddeuddeng niwrnod yn ddiweddarach, mae'n tynnu sylw at y ffaith fod yr un stori wedi ei chynnwys ddwywaith, a bod angen ymatal hefyd rhag rhoi lle i raglenni cyngherddau. Yna, ar 21 Tachwedd, dywedodd nad oedd yn addas dyfynnu erthygl o *Y Celt*, wythnosolyn a gyhoeddid gan bwyllgor o Annibynwyr. Yn ogystal, fwy nag unwaith yn yr ohebiaeth, fe annog yr is-olygydd i ofalu na fyddai'r ymadroddion 'Ymneilltuwyr' neu 'Anghydffurfwyr' yn ymddangos yn rhy aml ar dudalennau *Y Llan*. Yn amlwg felly, creu papur newydd a ganolbwyntiai ar newyddion eglwysig, wedi ei olygu'n dda, gan hepgor eitemau diddim, oedd nod y pwyllgor golygyddol. Roedd dangos rhagoriaethau'r Eglwys yn hytrach na phardduo'r Ymneilltuwyr yn flaenoriaeth o'r cychwyn, er mwyn sicrhau na fyddai gofyn rhoi gormod o le i gynnwys erthyglau

9 Aled Jones, Print, language and identity: newspapers in Wales since 1804 t.6

amddiffynnol maes o law. Mewn gair, y nod oedd bod un cam ar y blaen i'r papurau gwrth-eglwysig, a thrwy hynny geisio gwneud yn iawn am fethu â defnyddio'r wasg yn effeithiol trwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at y cyfnod hwnnw.

Gan fod cynifer o rifynnau rhwng Adfent 1881 a Garawys 1884 wedi eu colli, mae'n anodd dyfalu pryd y rhoddodd Ellis y gorau i'w olygyddiaeth, ond mae'n rhaid ei fod wedi parhau â'r gwaith am gyfnod da i'w enw gael ei gofio hyd heddiw fel golygydd cyntaf *Y Llan*. Cynhwysodd bedwar englyn o'i waith ei hun yn rhifyn 5 Rhagfyr 1881, ac mae'n debyg y byddai wedi parhau i gyfrannu barddoniaeth ac erthyglau hyd yn oed wedi i un arall ddod i gadair y golygydd. Yr hyn sy'n debygol yw ei fod wedi rhoi'r gorau i'r olygyddiaeth erbyn mis Mawrth 1884. Fe gyhoeddwyd rhifyn 7 Mawrth 1884 ym Merthyr, a byddai'r dasg o'i olygu o Langwm yn sir Ddinbych felly bron yn amhosibl - o leiaf roedd gwasg John Morris yn y Rhyl yn yr un sir â'i blwyf. Yr hyn sy'n amlwg er hynny yw bod *Y Llan* erbyn 1884 wedi ennill ei blwyf fel wythnosolyn swyddogol yr eglwys.

*Hanes misolyn yr Eglwys*

Yn ychwanegol at *Y Dywysogaeth* ac *Y Llan*, roedd misolyn hefyd yn ymdrechu i amddiffyn egwyddorion yr Eglwys a Cheidwadaeth wleidyddol. Roedd *Yr Haul* wedi ei gyhoeddi'n ddifwlch er 1835, a rhywdro cyn diwedd 1884, cafodd Ellis y cynnig i'w olygu. Yn debyg iawn i hanes *Y Dywysogaeth*, barnwyd ar ddechrau'r 1880au fod angen diwygio *Yr Haul* yn sgil cyfnod cymharol ddi-fflach, ac unwaith eto i Ellis yr ymddiriedwyd y dasg o ofalu am y fenter.

O'r rhifyn cyntaf yn 1835, datblygodd *Yr Haul* yn un o gyfnodolion mwyaf enwog a dadleuol ei gyfnod. Yr unigolyn a fu'n bennaf gyfrifol am hynny oedd David Owen, 'Brutus'. Fe'i hapwyntiwyd yn olygydd cyntaf y misolyn gan y cyhoeddwr William Rees, Llanymddyfri, a oedd yn chwilio am rywun medrus i ofalu am gyfnodolyn a fyddai'n hyrwyddo Ceidwadaeth ac yn amddiffyn egwyddorion yr eglwys sefydledig. Daeth yn ymwybodol o allu newyddiadurol Brutus tra'r oedd ef yn golygu cylchgrawn arall a

10 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrif 6402 D – llythyr H.T. Edwards at Is-Olygydd *Y Llan*

gyhoeddwyd gan ei wasg, sef *Yr Efangylydd*. Daeth ei dymor fel golygydd y cyfnodolyn hwnnw i ben yn ddisymwth yng ngwanwyn 1835 yn sgil ffrae rhyngddo a phwyllgor o Annibynwyr a oedd yn noddi'r cyhoeddiad.

Roedd y ddadl a ddaeth â'r *Efangylydd* i ben yn hoelen olaf yn y berthynas rhwng Brutus ac Ymneilltuaeth. Roedd wedi treulio cyfnodau byr ac aflwyddiannus fel gweinidog gyda'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr cyn dechrau ar waith newyddiadurol. Roedd wedi ei ddiarddel, mae'n debyg, gan y Bedyddwyr am geisio nawdd gan y Methodistiaid a hyd yn oed yr Undodiaid tra bu'n weinidog yn Llŷn,[11] ac ni fyddai'r ddadl a fu rhyngddo â phwyllgor cyhoeddi *Yr Efangylydd* wedi agor llawer o ddrysau iddo yn 'Annibynia' Cymru wedi 1835. Ond roedd William Rees yn amlwg wedi gweld fod ynddo ddawn golygydd craff a phryfoclyd, ac felly penderfynodd gynnig her newydd iddo a chyfle i wneud ei farc ar ran yr Eglwys.

Mae'n amlwg fod y cyfnodau chwerw o fethiant gyda'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr wedi arwain at benderfyniad cadarn ar ei ran i ochri â'r sefydliad a'r Eglwys, gan fod Brutus, fel y tystia Melvin Davies, wedi 'cadw'i olygiadau Ceidwadol a chrefyddol [newydd] hyd ddiwedd ei oes'.[12] O hynny ymlaen, trwy gyfrwng tudalennau *Yr Haul* ceir digon o dystiolaeth sy'n cadarnhau'r dröedigaeth ddiwyro hon, ac enghreifftiau niferus ohono'n bwrw sen ar ffigyrau amlwg y Methodistiaid, y Bedyddwyr a'r Annibynwyr a'u harferion.

Ef yn anad neb oedd y cyntaf i ymateb yn rymus i'r haeriadau yn erbyn yr Eglwys a oedd wedi ymddangos mewn print yn ystod y chwarter canrif flaenorol. Mewn dim o dro, datblygodd y wasg yn fodd i bobl rannu eu syniadau a'u safbwyntiau ynghylch pynciau'r dydd, ac roedd aneffeithiolrwydd yr eglwys sefydledig gyda'r pennaf o'r rheiny. Digon dof oedd y cyfnodolion hynny a gynrychiolai safbwyntiau'r Eglwys, gyda *Y Gwyliedydd*, tra cyhoeddid ef, yn gyfnodolyn a oedd yn fwy enwog am weithgarwch y 'Personiaid Llengar'

11 D. Melvin Davies, 'Hanes Brutus y Dychanwr', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales* 13 (1963), t.75

12 *ibid.*, t.82

nag am roi barn gadarn ar bynciau'r dydd. Ond roedd *Yr Haul* yn barod i frwydro ar yr un lefel â'r cyfnodolion poblogaidd a oedd yn hallt eu beirniadaeth o'r Eglwys, ac roedd Cymru ar fin gweld un o'i dychanwyr gorau yn dod i oed.

Lluniodd Brutus nifer o erthyglau golygyddol (heb sôn am fwyafrif y cynnwys bob mis) a oedd yn taro'n syth yn erbyn safbwyntiau Ymneilltuwyr a'r rhai a ymddiddorai mewn gwleidyddiaeth radicalaidd. Arbenigrwydd Brutus oedd ei arddull fywiog, bryfoclyd ac ymfflamychol. Hawdd y gellid dweud mai ef oedd 'journalist' cyntaf Cymru, gan y gwyddai'n union sut i liwio sylwadau er mwyn creu stori, a byddai'n manteisio ar bob cyfle i daro yn erbyn y rhai nad oedd wrth ei fodd. Yr oedd gweinidogion Ymneilltuol hunanbwysig yn darged cyson ganddo, a hwy, ynghyd â gwleidyddion radicalaidd, a brofodd fin ei dafod amlaf. Pan fyddai Brutus wedi cael gafael mewn rhyw ddiffyg neu'i gilydd yn ei wrthwynebwyr, ni fyddai'n ymatal. Meddai D. Tecwyn Lloyd:

> Dychan penrhydd, 'publish-and-be-damned' sydd gan Brutus. Un weledigaeth ganolog, gyfannol, sydd ganddo sef twyll a 'lwcraeth' y Jacs ; gweld fod teithiau pregethu a phregethu ei hunan wedi mynd yn rhemp ac yn fath o adloniant.[13]

Gwrthbwynt *Yr Haul* oedd *Y Diwygiwr*, gyda'i olygydd David Rees, gweinidog eglwys Annibynnol Capel Als yn Llanelli, yn wrthwynebydd cyfallu i Brutus ac yn dal safbwyntiau gwrthgyferbyniol ym mhob dim. Bu *Y Diwygiwr* ac *Yr Haul* yn ffynnu am ddeng mlynedd ar hugain drwy goleddu safbwyntiau cwbl groes i'w gilydd. Yn wir, cystal oedd y dadlau rhyngddynt bob mis fel i R. T. Jenkins farnu mai eu darllen oedd 'prif gyfrwng addysg wleidyddol y Cymro uniaith o 1835 hyd 1865.'[14]

Pan fu farw Brutus yn 1866, William Spurrell o Gaerfyrddin oedd yn cyhoeddi'r misolyn, ac ef a gyflawnodd y gwaith golygyddol o hynny ymlaen. Er ei fod wedi ceisio darparu cylchgrawn o safon i eglwyswyr Cymraeg, erbyn dechrau'r 1880au ystyrid *Yr Haul* yn

---

13 D. Tecwyn Lloyd, 'Newyddiaduraeth', yn Geraint Bowen (Gol.), Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif (Llandysul, 1976), t.97

14 R. T. Jenkins, Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Caerdydd, 1933), t.99

gylchgrawn gwannaidd yn wyneb ymosodiadau gwrth-Eglwysig ei wrthwynebwyr. Ar ben hynny, teimlai llawer ei fod yn rhy ddrud ac felly allan o gyrraedd llawer o'r rhai a fyddai'n dymuno'i ddarllen.

*Newid dwylo*

Yn ystod Mai 1884, ffurfiwyd pwyllgor i drafod dyfodol y wasg eglwysig yng Nghymru yn debyg i'r un a drafododd *Y Dywysogaeth* rhyw bum mlynedd ynghynt. Roedd gwir angen adfywio *Yr Haul* i fod yn fisolyn graenus, fel y gallai gystadlu â'r *Traethodydd* a'r cylchgronau chwarterol a misol eraill a gyhoeddid gan yr enwadau Ymneilltuol. Mae'n rhyfedd sylwi mai'r sbardun ar gyfer sefydlu'r cyfryw bwyllgor oedd bwriad Archddiacon Middlesex, o bawb, i geisio am grant o £1000 gan yr SPCK i gynorthwyo gwaith y wasg eglwysig yng Nghymru.[15] Yn ôl rhifyn Mehefin 1884 *Yr Haul*:

> Er mwyn hyrwyddo yr archddiacon yn y gorchwyl, ac er mwyn bod yn alluog i hysbysu ym mha fodd y golygir defnyddio yr arian ar ôl eu cael, mae yr esgobion wedi penodi tri offeiriad o bob esgobaeth i ymgynghori â'u gilydd yng nghylch y mater, y rhai a gyfarfuasant â'u gilydd yn Llundain tua chanol y mis.[16]

Nid oedd Ellis ymysg y tri a benodwyd gan esgob Llanelwy, ond mae lle i gredu mai'r pwyllgor hwn a benderfynodd yn nes at ddiwedd 1884 fod angen golygydd newydd i godi *Yr Haul* o'i rigol, ac mai Ellis oedd yr ymgeisydd delfrydol. Yn ei gyflwyniad olaf i gyfrol 1884, dywed Spurrell:

> Ar ôl llafurio dros gynifer o flynyddau, yr ydym ... wedi trosglwyddo rhan o'r cyfrifoldeb ag oedd yn pwyso yn rhy drwm arnom i ddwylaw pwyllgor o weinidogion yr Eglwys, yn gweithio gyda a dan awdurdod yr Esgobion Cymreig; ac y maent hwy wedi penodi golygydd newydd, a gwneud darpariadau tuag at sicrhau rhagoriaeth yng nghynhwysiad y cyhoeddiad...[17]

15 Roedd yr Hybarch James Hessey yn un o gadeiryddion sefydlog yr SPCK, ac yn enwog am ei frwdfrydedd dros ymdrechion diffuant Eglwyswyr o bob traddodiad. gw. www.ccel.org/s/schaff/encyc/encyc05/htm/0271=255.htm

16 William Spurrell, 'Nodiadau y Mis : Y Wasg Eglwysig Gymreig', *Yr Haul* Cyfres Caerfyrddin 28 (1884), tt.286-7

17 *ibid.*, rhagymadrodd

Ar sail ei enw da fel golygydd cyntaf *Y Llan*, roedd Ellis yn amlwg yn ddewis delfrydol i ysgwyddo'r baich yr oedd William Spurrell yn ei drosglwyddo i'r pwyllgor o offeiriaid.

Yn Ionawr 1885 y dechreuodd ar ei gyfnod fel golygydd, gyda phwyllgor o offeiriaid yn gefn iddo. Rhaid bod cais Archddiacon Middlesex am gymorth ariannol wedi llwyddo erbyn hynny hefyd, gan fod y pris ar y clawr wedi ei haneru erbyn rhifyn cyntaf Ellis, a bod yr SPCK yn cael ei grybwyll yn y rhagymadrodd cyntaf. Pa faint bynnag o gymorth ariannol a gafwyd, roedd yn sicr yn hwb i ail-lansiad y fenter, ac yn fodd o sicrhau dyfodol y misolyn wrth iddo ddechrau ar gyfnod newydd. Roedd y galw am ddatgysylltiad yr Eglwys yn cynyddu, ac roedd gofyn am gyfnodolyn safonol, cyson ei ymddangosiad, a chwbl ddiwyro ei gefnogaeth i'r Eglwys. Roedd gallu ei roi yn nwylo Eglwyswyr Cymraeg am bris rhesymol yn sicr yn ddatblygiad pwysig, ond roedd y dasg fwyaf, sef gofalu am y cynnwys, yn disgyn ar ysgwyddau'r golygydd.

*Dechrau ar y gwaith*

Gan ei fod wedi bwrw ei brentisiaeth newyddiadurol yn golygu rhifynnau cyntaf *Y Llan*, gwyddai'r sawl a'i penodai y gallai Ellis ateb gofynion pwysicaf y gwaith, fel ysgrifennu'n gryno, cywir a difyr, cadw at amserlen dynn, a sicrhau digon o amrywiaeth. Yr oedd hefyd wedi cyfrannu erthyglau at *Y Geninen,*[18] ac wedi ennill parch golygydd y cyhoeddiad hwnnw fel awdur galluog gan iddo gael ei wahodd i gyfrannu iddo droeon o 1884 ymlaen. At hynny, roedd ei waith eisoes wedi ymddangos ar dudalennau *Yr Haul* cyn iddo ymgymryd â'r olygyddiaeth. Cyhoeddwyd pregeth a draddododd o flaen Cymdeithas Cleifion Llangwm ar 4 Mai 1881[19] yn fuan wedi'r cyfarfod hwnnw, a phregeth arall yn ddiweddarach y flwyddyn honno ar y gwirionedd mai 'Un ffordd sydd at y Tad'.[20] Yna, yn 1882, lluniodd bum pregeth ar Ddameg y Mab Afradlon dan y teitl 'Croesawol Gariad

18 gweler, er enghraifft, ei gofiannau i Ab Ithel *Y Geninen* 1 (1883, t.180), Nicander, *ibid.* (1884, t. 91) a H. T. Edwards *ibid.* (1884, t.161).

19 Elis Wyn o Wyrfai, 'Pregeth', *Yr Haul,* Cyfres Caerfyrddin 25 (1881) t.1

20 Elis Wyn o Wyrfai, 'Un Ffordd sydd at y Tad', *Yr Haul* Cyfres Caerfyrddin 25 (1881), t.1

Duw'.[21] Dyna'r cyfraniadau cydnabyddedig ar gyfer y pedair blynedd cyn iddo ddechrau ar y gwaith golygyddol, ond mae'n ddigon posibl iddo gyfrannu erthyglau eraill cyn hynny hefyd, gan nad oes nac enw na ffugenw wrth y mwyafrif o'r erthyglau a gyhoeddwyd cyn 1885.[22]

*Amlinellu ei fwriadau*

Pan ddaeth i gadair y golygydd, roedd gofyn iddo lunio deunydd mwy amrywiol na dim ond pregethau a chofiannau. Yn wir, rhoddodd gryn bwysau ar ei ysgwyddau ei hunan trwy amlinellu ei fwriadau ar gyfer *Yr Haul* yn ei ragymadrodd i'r rhifyn cyntaf dan ei ofal. Yn un peth, nid oedd am wasanaethu un garfan o fewn yr eglwys sefydledig - ceisiodd o'r dechrau wneud *Yr Haul* yn gylchgrawn eangfrydig a chynhwysfawr y gallai pob Cymro eglwysig ymfalchïo ynddo. Roedd hefyd am i'r cynnwys gadw'n gyson at athrawiaeth y Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Ymhellach:

> Y mae i gynnwys ysgrifau ar ddiwinyddiaeth, hanesiaeth (yn enwedig hanesiaeth Brydeinig), daearyddiaeth, bywgraffiadau, athroniaeth naturiol a moesol, ieithyddiaeth, hynafiaeth Eglwysig; adroddiadau o weithredoedd cymanfaoedd Eglwysig, y genhadaeth, dirwest, a'r Ysgol Sul; adolygiadau, chwedloniaeth, a barddoniaeth.[23]

Credai mewn gosod her iddo'i hunan, ac ni fethodd â chynnal yr egwyddorion cychwynnol gydol deng mlynedd ei olygyddiaeth. Yn ei rifyn cyntaf, lluniodd erthyglau ar 'Arwyr y Groes', 'Y Berthynas rhwng Ymneilltuaeth a'r Eglwys yng Nghymru', 'Dydd Gŵyl yr Ystwyll', 'Maes y Genhadaeth' a rhai 'Detholion Difyrrus' eraill. Gydag erthyglau ar 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin' a deunydd 'At Wasanaeth yr Ysgol Sul' gan awduron eraill, roedd felly wedi gofalu bod ychydig o hanes, dadansoddiad o sefyllfa crefydd yng Nghymru,

21 Elis Wyn o Wyrfai, 'Croesawol Gariad Duw', *Yr Haul* Cyfres Caerfyrddin 26 (1882), tt.177, 204, 319, 389, 436

22 gweler Elis Wyn o Wyrfai, 'At ein darllenwyr', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 1 (1885) Rhagymadrodd : 'Cymhellir ni hefyd i fabwysiadu arferiad cyffredin misolion Lloegr, a dodi enw yr ysgrifenwyr wrth eu hysgrifau.'

calendr yr Eglwys a gwaith cenhadol dramor yn cael sylw, ac roedd hefyd wedi sicrhau fod pytiau ysgafnach yn gwneud y cyfan yn ddarllenadwy ac o ddiddordeb i'r darllenwyr.

Mewn rhifynnau dilynol, parhaodd yr arolwg o sefyllfa crefydd yng Nghymru gydag erthyglau ar berthynas yr eglwys sefydledig â Chynulleidfawyr, Pabyddion, a hyd yn oed y blaid Ryddfrydol. Ysgrifennodd Deiniol Wyn o Landdeiniolen y gyntaf o'i erthyglau ar enwogion yr eglwys yng Nghymru, a lluniodd Glanmor erthyglau ar hanes cadeirlannau Cymru a Lloegr. Mewn rhifynnau diweddarach cyflwynodd awduron eraill hanesion rhai o eglwysi plwyf nodedig Cymru. Cynyddai niferoedd yr awduron ac amrywiaeth cynnwys y rhifynnau fesul mis, ac wedi blwyddyn wrth y llyw gallai'r golygydd ddatgan yn hyderus:

> y mae y cydymdeimlad a'r cynhorthwy parod a gawsom, a'r gallu a arddangoswyd gan nifer o ysgrifenwyr, wedi eglur brofi fod yn yr Eglwys ddigon o adnoddau llenyddol i gynnal i fyny gylchgrawn misol o'r nodwedd orau.[24]

Er bod y dasg o olygu *Yr Haul* yn fawr, mae'n rhaid ei fod yn credu cyn cychwyn ar y gwaith fod digon o ddoniau gan ei gyd-glerigwyr a lleygwyr Cymru. Nid oedd ond eisiau'u cymell a'u meithrin fel eu bod yn dod i'r arfer o ysgrifennu'n gyson. Fel y dywedodd ei hunan, yr angen mawr oedd:

> cymell y dalent enciliedig i ddyfod i'r golwg yn fwy, a'r canhwyllau bychain gwasgaredig ddangos mwy o oleuni.[25]

Dyna'r unig ffordd y gellid cyflwyno cylchgrawn o ansawdd uchel i blwyfolion Cymru bob mis, ac yn araf bach dechreuodd yr athroniaeth honno egino.

*Meithrin cenhedlaeth newydd o ysgrifenwyr*

---

23 Elis Wyn o Wyrfai, 'At ein darllenwyr', *Yr Haul*, Ail Gyfres Caerfyrddin 1 (1885) t.1

24 *ibid.*, Rhagymadrodd

25 *ibid.*, Rhagymadrodd

Yn yr arolwg hwnnw o flwyddyn gyntaf ei olygyddiaeth, anogodd Ellis ysgrifenwyr ifanc i gyfrannu, rhag i *Yr Haul* orfod dibynnu ar 'ysgrifenwyr Medi a Hydref einioes'. Adleisia hyn sylwadau tebyg a wnaeth yn ei ragair i'w rifyn cyntaf, pan ddywedodd:

> Y mae o bwys cael yr esgobion o'n tu, ond o lawer mwy pwys cael y curadiaid ac aelodau yr Ysgol Sul. ...daw yr ieuenctid yn golofnau o nerth a sêr o harddwch i'r Eglwys ar y ddaear.[26]

Nid oedd yn ceisio dilorni cymorth rhai o'r genhedlaeth hŷn trwy ddweud hynny, dim ond dangos ei ymwybyddiaeth o'r ffaith ddiymwad fod gofyn cael gwaed newydd i gynnal traddodiad. Yn hynny o beth, mae y rhan fwyaf o'r arolwg hwnnw ar ddiwedd cyfrol Rhagfyr 1885 fel petai wedi ei anelu at rai a fyddai o gymorth mawr iddo yn ystod y ddegawd nesaf.

Yn ychwanegol at enwau fel Deiniol Wyn a Glanmor, un arall a gafodd gyfle i ddangos ei ddoniau llenyddol cynnar roedd Robert Arthur Williams, sef y bardd Berw.[27] Ysgrifennodd erthyglau ar feirdd eglwysig yn 1890, a maes o law datblygodd yn fardd cadeiriol a beirniad eisteddfodol o bwys ei hunan. Bardd-offeiriad arall y gwelid ei enw'n ymddangos yn aml oedd Penfro, a luniodd gyfres o nodiadau ar gyfer yr Ysgol Sul yn seiliedig ar ddarlleniadau priodol i'r Suliau.

Un o'r cyfranwyr amlycaf o blith lleygwyr yr Eglwys yn ystod golygyddiaeth Ellis oedd Charles Ashton. Peth anarferol oedd cael erthyglau ar wyddoniaeth mewn cyfnodolion enwadol bryd hynny, ond roedd y rhai cyntaf o'i eiddo yn ymdrin â 'Llysiau Cnawd-fwytaol' a 'Chacwn y Meirch'.[28] Er hynny, llunio cyfresi o erthyglau ar hanes, fel y rhai ar 'Llenyddiaeth Eglwysig' a gyhoeddwyd yn ystod 1892 a 1893, oedd *forté* Charles Ashton yn ddiamau. Cyfeiriwyd ato fel un a oedd yn 'enghraifft nodedig o'r genhedlaeth y rhoes

---

26 *ibid.*, t.1

27 J. E. Lloyd ac R. T. Jenkins (Gol.), Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, (Llundain, 1953), t.1004

28 Charles Ashton, 'Gwyddoniaeth : Llysiau Cnawd-fwytaol', *Yr Haul* Ail gyfres Caerfyrddin 1 (1885), t.235 a 'Cacynen y Meirch', *ibid.* t. 279

yr eisteddfodau lleol a chenedlaethol gyfle iddynt.'[29] Wrth reswm, roedd Ellis yn ymwelydd cyson â nifer o eisteddfodau cenedlaethol a lleol, a byddai'n siŵr o fod wedi gwahodd rhai fel Ashton i gyfrannu erthyglau at *Yr Haul*. Roedd eisteddfodau'r cyfnod yn aml yn gofyn am lyfryddiaethau neu draethodau'n olrhain hanes yr hyn a'r llall, a chyhoeddiadau fel *Yr Haul* yn cyhoeddi ffrwyth y cystadlaethau hynny. Yn wir, at y frawddeg a ddyfynnwyd uchod, gellid ychwanegu bod Charles Ashton yn enghraifft o'r modd y rhoddwyd bri ar gasglu ffeithiau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r modd y llenwid ac y cynhelid cyhoeddiadau fel *Yr Haul* ag erthyglau a gasglai wybodaeth er difyrrwch i'r darllenwyr.

Dengys y cyfan hyn awydd Ellis i gael pobl gyffredin, ochr yn ochr ag offeiriaid, i gyfrannu erthyglau yn ôl eu gallu ac ar bynciau o ddiddordeb iddynt hwy eu hunain. Er bod ganddo'r gallu i lenwi tudalennau pob mis â deunydd amrywiol o'i waith ei hun, arwydd pellach o'i awydd i feithrin cenhedlaeth newydd o ysgrifenwyr yw'r sylw canlynol yn ei ragymadrodd i rifynnau 1887:

> Yn y gwaith o ddethol yr ydys yn gorfod oedi ymddangosiad llawer ysgrif a throi o'r neilltu gynhyrchion wedi costio llawer o lafur, a diau fod hyn yn siomedigaeth i lawer awdur galluog; ond yr ydys yn sicrhau fod llawer mwy o waith y Golygydd yn cael ei alw yn ôl o law y cysodydd a'i fwrw i'r fasged nag a esgeulusir o waith neb arall.[30]

Roedd y fath agwedd wylaidd a'r awydd i gynnwys cynifer o gyfranwyr gwahanol â phosib yn cyfateb i'r hyn a wnaeth O.M. Edwards fymryn yn ddiweddarach yn ei fisolyn yntau, *Cymru*. Daeth y cyfnodolyn hwnnw'n annwyl gan Gymry cyffredin o Fôn i Fynwy, a denodd y golygydd bobl o bob math o gefndiroedd i ysgrifennu ar bynciau amrywiol eu hapêl, o'r cenedlaethol a'r rhyngwladol i'r lleol. Un enghraifft yn unig o hynny oedd y

---

29 J. E. Lloyd ac R. T. Jenkins (Gol.), Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, t.15

30 Elis Wyn o Wyrfai, 'Rhagymadrodd', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1887)

cofiant i'r arwr gwerinol y cyfeiriwyd ato ynghynt, sef Ellis Jones, Rhostryfan, ewythr Elis Wyn o Wyrfai.[31]

Os oedd offeiriaid a lleygwyr ifanc o bob cwr o Gymru wedi ateb apêl Ellis am gymorth, roedd cyfraniad ei deulu ei hunan yn ddigon teilwng hefyd. Os oedd angen llenwi cornel, neu ysgrifennu ar bynciau penodol, mae'n amlwg fod ei feibion a'i frawd yn ysgrifenwyr y gallai ddibynnu arnynt. Sylwer bod llythyr gan ei frawd, John Roberts, Rhostryfan ar berthynas yr Eglwys yng Nghymru a'i chwaer-eglwys yn Lloegr, yn llenwi yn agos at ddwy dudalen yn rhifyn Ebrill 1890.[32] Un a gadwodd at arfer y teulu o felina, fe dybir, oedd John. Awdur toreithiog arall oedd 'W.M.R.', sef mab hynaf Ellis, William Morris Roberts.[33] Gwelwyd y llythrennau hynny'n gyson wrth odre erthyglau ar genhadaeth dramor yr eglwys.

Y mab arall a gyfansoddai'n gyson oedd John R. Roberts, ac mae 'cyfansoddi' yn fwysair bwriadol. Pan oedd angen adolygu llyfrau cerdd, byddai Ellis yn gyson yn troi at ei fab ieuengaf,[34] a pha ryfedd o gofio ei fod yn bencantor Llanelwy cyn diwedd ei oes. Ef oedd cerddor disglair y teulu, ac yn ogystal â rhoi ei farn mewn adolygiadau, lluniodd erthyglau yn ymwneud â cherddoriaeth eglwysig hefyd, fel ei 'Ychydig o sylwadau ar ddysgu corau Eglwysig' yn 1893.[35] Gwelir llythrennau cyntaf ei enw hefyd wrth gyfeiliant i garol o waith Ellis dan y teitl 'Achubwn flaen y wawrddydd' a gyhoeddwyd yn rhifyn Rhagfyr 1894.

---

31 John Williams, 'Hen Flaenor', yn O.M. Edwards, *Cymru* cyfrol 25 (1904), t.115

32 John Roberts, 'Perthynas yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys yn Lloegr', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 6 (1890), t.112-4

33 gw. *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.31, am enghraifft nodweddiadol o'i waith

34 J.R. Roberts, 'Adolygiadau: Y Cerddor', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.93-4

35 J.R. Roberts, 'Ychydig o sylwadau ar ddysgu corau Eglwysig', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 9 (1893), t.239; gweler hefyd *ibid.* (1894), t.248

O blith yr holl rai a berswadiodd i gyfrannu at *Yr Haul*, efallai mai'r un a ymatebodd orau i'w apêl am gymorth oedd curad ifanc o'r enw Robert Williams, oedd i'w adnabod fel Robert Camber-Williams maes o law. Dechreuodd ar ei yrfa fel curad yn eglwys y Santes Fair ym Mangor. Roedd yn ŵr gradd o Goleg Keble, Rhydychen, ac roedd ganddo ddiddordeb mawr yn hanes yr eglwys. Gwahoddwyd ef i gyflwyno erthygl ar 'Achosion Dychweliad at Babyddiaeth yn Nheyrnasiad Mari', a chyhoeddwyd hi ym Medi 1885. Honno oedd y gyntaf o nifer o erthyglau hanesyddol sylweddol o'i eiddo a gyhoeddwyd yn *Yr Haul*, ac wrth i'w gyfraniadau amlhau mae'n debyg iddo ddod i ymwneud â'r pwyllgor a ofalai am lywio ac ariannu'r misolyn. Ar ddiwedd 1891, pan oedd iechyd Ellis yn dechrau gwanhau, penderfynwyd ei apwyntio'n gyd-olygydd, ac mae'n amlwg fod y penodiad wrth fodd Ellis. Fel y dywedodd yn ei ragymadrodd i rifynnau 1892:

> Yr ydym yn falch o ddweud fod Pwyllgor y Wasg Eglwysig Gymreig wedi rhoddi cam ym mlaen drwy benodi yr hanesydd Eglwysig a diwinydd galluog, y Parch. Robert Williams, M.A., ficer Dolyddelen, Betws y Coed, yn gyd-olygydd yr Haul.[36]

Ellis, wrth reswm, oedd y prif olygydd o hyd, ond bu cyfraniadau a chymorth ymarferol ei gynorthwyydd newydd yn fodd i ysgafnhau ychydig ar y baich a ddisgynnai ar ei ysgwyddau bob mis. Wedi 1892, amlhaodd erthyglau Robert Williams eto, a llanwyd nifer o golofnau â'i sylwadau ar bynciau fel 'Merched mewn hanesyddiaeth Eglwysig',[37] 'Y Puritaniaid'[38] a pherthynas 'Y Beibl a'r Bedydd' dros ddau rifyn yn 1895.[39]

Pan fu farw Ellis, ef oedd yr olynydd naturiol iddo, a bu'n golygu'r cylchgrawn am dair blynedd ar ei ben ei hun. Roedd yn amlwg yn ddyledus i'r un a'i dysgodd, fel y nododd yn ei ragymadrodd cyntaf ar ddiwedd 1895:

> Nid oes neb a ŵyr yn well na'r hwn a alwyd i'w olynu y golled anadferadwy i'r *Haul* ... fu colli ei olygydd ffyddlon, diwyd, a da, yr hwn am y deng mlynedd

36 Elis Wyn o Wyrfai, 'Rhagymadrodd', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 7 (1891)

37 Robert Williams, 'Y Beibl a'r Bedydd', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 10 (1894), t.86-9

38 Robert Williams, 'Y Puritaniaid', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 10 (1894), t.231-2

39 Robert Williams, 'Y Beibl a'r Bedydd', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), tt.33,81

> diweddaf a fu yn gofalu am ei golofnau, ac a'i cyfododd i wybren lenyddol Cymru. ... Dilyn, o bell, eto gan agosed ag y gallwn, ôl ei droed fydd ein hymgais ninnau.[40]

Nid geiriau teyrnged ffwrdd-â-hi oedd y rheiny chwaith, a chymaint oedd y cariad at y wasg eglwysig Gymraeg a feithrinwyd ynddo dan adain Ellis fel iddo chwarae rhan gwbl allweddol yng ngweithgarwch *Yr Haul, Y Llan* a llenyddiaeth Gymraeg yr eglwys yn gyffredinol nes i'w iechyd yntau dorri yn 1914. Ef yn anad neb oedd y tu cefn i sefydlu a chynnal Cwmni'r Wasg Eglwysig Gymreig yn Llanbedr Pont Steffan yn 1898. Dyma'r wasg a gyhoeddodd gynifer o bamffledi a llyfrau ynghyd â'r cyfnodolion eglwysig pennaf wrth i'r frwydr dros gysylltiad yr eglwys â'r wladwriaeth gyrraedd ei hanterth.[41]

Yn fyr felly, cymerodd Ellis yr awenau pan nad oedd y cylchgrawn ar ei gryfaf. Yn ystod deng mlynedd ei olygyddiaeth, cododd safon a phoblogrwydd y cylchgrawn trwy feithrin criw o gyfranwyr newydd, gyda'r amlycaf ohonynt, Robert Camber-Williams, yn un a ofalodd fod y gwaith da'n parhau ymhell i'r ugeinfed ganrif.

*Nodweddion y cynnwys*

Cyfeiriwyd eisoes at yr hyn yr oedd Ellis yn dymuno eu gweld yn *Yr Haul* bob mis, a gwnaeth ei orau i sicrhau bod hynny'n digwydd o fis i fis, wrth iddo geisio gofalu bod y cylchgrawn yn un safonol a darllenadwy. Serch hynny, un peth a barai dristwch iddo fel golygydd oedd bod tudalennau *Yr Haul* wedi gorfod cael eu neilltuo mor aml i amddiffyn yr Eglwys yn sgil yr ymosodiadau cyson arni. Roedd hynny'n sicr yn ei flino o'r dechrau, fel y nododd yn y rhagymadrodd i rifynnau 1885:

> Gobeithiwn gael heddwch i adeiladu a difyrru mwy ar ein darllenwyr, trwy daflu goleuni ar feysydd eangach gwybodaeth rhag llaw.[42]

---

40 *ibid.*, 'Rhagymadrodd'

41 Huw Tegid Roberts, Bywyd a Gwaith Robert Camber-Williams, traethawd MTh Prifysgol Cymru Bangor 2002

42 Elis Wyn o Wyrfai, 'Rhagymadrodd' *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 1 (1885)

Ni wireddwyd ei ddymuniad yn llwyr - parhaodd yr ymosodiadau ar yr Eglwys yn ddi-baid ymhell wedi diwedd ei gyfnod wrth y llyw. Yr hyn sy'n nodedig am ei olygyddiaeth, serch hynny, yw ei fod wedi cynnal *Yr Haul* yn amddiffynfa deilwng i'r eglwys sefydledig, a'i fod ar yr un pryd wedi ei godi'n gylchgrawn a gynhwysai lenyddiaeth safonol ar bynciau amrywiol. Ynghlwm wrth hynny, roedd gallu dangos fod gan 'hen estrones' Cristnogaeth yng Nghymru doreth o ysgrifenwyr Cymraeg galluog yn arf pellach iddi yn y frwydr yn erbyn ei datgysylltiad.

Gosod esiampl ac achub y blaen ar y rhai a welai fai ar yr eglwys oedd nodweddion amlycaf ei arddull olygyddol. Credai mai dyna'r ffordd orau o ymateb i ymosodiadau arni, fel na ellid parhau i bwyntio bys at ei ffaeleddau. Mae'n dangos hyn yn arbennig o glir mewn ôl-ysgrif olygyddol a roddodd yn gynffon i gyfres o benillion yn 1888:

> Gwnaethom beth cyfnewidiad yn y penillion uchod i dyneru eu hanianolrwydd. Cwynir nad ydym yn ateb yr ymosodwyr ar yr Eglwys yn ddigon miniog ... [ond] nid ysgrifennu miniog ydyw cablu, camliwio, enllibio, gwatwar, a defnyddio geiriau cas. Os ymosodir ar yr Eglwys megis â llaid y cwterydd, nid â llaid y mae ei hamddiffyn. Daw cawod heibio, a gylch y llaid. Dan haul cariad y cryfha hi.[43]

Mae'r doreth o erthyglau esboniadol a hanesyddol a luniodd yn arwydd pellach o'i gadernid a'i ymlyniad triw wrth ei egwyddorion.

Pan ymgymerodd Robert Camber-Williams ag ychydig o'r baich golygyddol yn 1892, gwyddai Ellis fod ganddo gyd-olygydd a allai gyflwyno *apologia* teg ar ran yr Eglwys wedi ei seilio ar ffeithiau hanesyddol cadarn. Yn y flwyddyn honno hefyd y cytunodd y Rhyddfrydwyr yn eu prif gynhadledd mai eu hamcan pennaf ond un, pe ffurfient lywodraeth, oedd datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru.[44] Pa ryfedd felly fod y cyd-olygyddion wedi cynnwys erthyglau ar 'Amddiffyniad yr Eglwys' mewn saith rhifyn yn

---

43 Elis Wyn o Wyrfai, nodiadau ar waelod cerdd gan Ioan ab Sol, 'Yr Eglwys yng Nghymru a'i Herlidwyr', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 4 (1888), t.178

44 Kenneth O. Morgan, Wales in British Politics 1868 – 1922 (Cardiff, 1963), t.93

olynol yn 1893, fel y byddai gan y darllenwyr arfau cyfleus ar gyfer amddiffyn eu hunain wrth i'r galwadau am ddatgysylltiad gynyddu.[45]

Er bod datgysylltiad, a'r helyntion cyfochrog ynghylch y degwm, wedi mynnu cyfran dda o sylw *Yr Haul* yn ystod golygyddiaeth Ellis, pryderai fod y materion hynny yn tynnu sylw'r holl enwadau oddi ar rai o broblemau eraill y dydd. Credai'n gryf fod moesoldeb Cymru'n dirywio dan drwynau gweinidogion ac offeiriaid wrth i'r cecru rhyngenwadol ddwysáu. Yn ei ragymadrodd i rifynnau 1893, dyfynna o adroddiad a oedd yn amlygu diffygion moesol Cymru'r dydd, ac â yn ei flaen i fynegi ei farn yn groyw ar ddatguddiadau'r arolwg:

> "Mewn rhai parthau eang [ebai yr adroddiad] y mae cyfartaledd y plant anghyfreithlon yn lluosocach nag oeddynt hanner can mlynedd yn ôl." Dyma ffaith a ddylai dderbyn sylw manylaf pob cainc-enwad a changen o Eglwys Grist... cawn fod y dosbarth isaf o weithwyr yn y deyrnas yn suddo o ddrwg i waeth rhwng ein dwylaw oll. Canfyddodd awdurdod "cyfraith y pastwn" Dinbych y gwnâi y dosbarth yma "Wrth-ddegymwyr" campus, a gwnaethant ddefnydd annuwiol ohonynt, ond nid oes un o'r awdurdodau hynny a ofalant am eu haddysg a'u moesoldeb.[46]

Yn yr un rhagymadrodd, â yn ei flaen i gyfeirio at effeithiau dylifiad o'r cymunedau gwledig. Gwelai enghreifftiau amlwg o hynny yn ei ardal ei hunan, a gwelai fod y fath sefyllfa'n her neilltuol i offeiriaid:

> ...Cawn hanes nifer o Ystafelloedd Darllen a Rhydd Gymdeithas (Church Houses) yn cael eu sefydlu mewn lliaws o blwyfydd. Dylid amcanu at rywbeth o'r nodwedd yma ym mhob plwyf, lle y gellid treulio aml ddechreunos gaeaf i ddarllen llyfrau buddiol, ac egwyddori cymaint a ellir ar yr ieuenctid tra y byddont o fewn ein cyrraedd. Ffaith na thelir sylw digonol iddi ydyw fod y plwyfydd gwledig megis yn cael eu hufennu yn barhaus o'u poblogaeth orau. ... [O'r rhai sy'n aros ym mro eu mebyd,] Dyma y rhai a arhosant i ymbriodi, a dwyn i fyny deuluoedd gartref, a dyma y rhai a ddylai fod yn nod neilltuol gofal yr offeiriad gwledig. Dyma y Cymry uniaith mwyaf diamddiffyn; ond fel rheol gallant ddarllen iaith eu mam, a

---

45 Elis Wyn o Wyrfai a Robert Williams, 'Amddiffyniad yr Eglwys', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 9 (1893), tt.7, 42, 83, 110, 133, 163, 212

46 *ibid.*, rhagymadrodd

> dylid gosod cynhyrchion y Wasg Eglwysig Gymreig o fewn eu cyrraedd, a'u cymell a chynorthwyo i'w defnyddio.[47]

Credai hefyd nad oedd anwybodaeth o'r Saesneg yn golygu mai llenyddiaeth seml, ddifflach fyddai'n gwneud y tro i Gymry uniaith. Gallai siarad o brofiad personol wrth gyfeirio at rai a oedd yn ymddiwyllio trwy ddarllen *Yr Haul* a chyfnodolion Cymraeg eraill. Fel y nododd yn ei ragymadrodd i rifynnau 1890:

> Gobeithiwn hefyd y bydd i'r "Sylwadau at wasanaeth yr Ysgol Sul ar yr Efengyl yn ôl St. Mathew" brofi yn wasanaethgar a diddorol, ac y cânt ddarlleniad helaeth. Ofnwn yn fawr fod gwybodaeth ddiwinyddol ein cenedl yn hynod o arwynebol...[48]

Dyna gadarnhau'r pwyslais a roddodd ar gael y bobl gyffredin i gyfrannu at y wasg Gymraeg a chyfranogi ohoni, ac ar osod moesoldeb yn uwch na dyhead i sgorio pwyntiau yn erbyn yr enwadau. Nid rhyfedd bod nifer wedi ei arddel hyd heddiw fel golygydd praff, craff a chwaethus. Un o'r cyntaf i dalu teyrnged iddo am hynny oedd O.M. Edwards, un a oedd ei hunan yn prysur ddatblygu'n un o olygyddion mwyaf blaenllaw'r cyfnod. Yn ei gylchgrawn *Cymru*, sylwodd:

> ...Y mae'r *Haul* (Eglwysig, dan olygiaeth Elis Wyn o Wyrfai) yn ymloewi o hyd... Y mae'n amrywiol, - ysgrifau ysgolheigaidd, darnau o farddoniaeth, rhamantau, hanesion, esboniadau ar y Beibl, ac ychydig o halen gwleidyddiaeth ; y mae ei ddarluniau'n ychwanegu at ei ddiddordeb ; a cheir Cymraeg cryf iach trwyddo i gyd.[49]

Os oedd y Methodist Calfinaidd O.M. Edwards yn ymddiddori yn yr hyn a wnâi Ellis, roedd prif swyddogion yr Eglwys ym mhedair esgobaeth Cymru yn ddigon difater ynghylch ei holl lafur. Er gwaetha'r ffaith bod y pwyllgorau oedd yn gyfrifol am *Y Llan* ac *Yr Haul* yn debygol o fod yn atebol i bedwar esgob Cymru, mae'n annhebygol y byddai rhifynnau'r cyhoeddiadau hyn yn cael eu darllen gan y mwyafrif o esgobion, archddiaconiaid, deoniaid, a chanoniaid Cymru. Mynnai'r cylchgronau anghydffurfiol

---

47 *ibid.*, rhagymadrodd

48 Elis Wyn o Wyrfai, 'Rhagymadrodd', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 6 (1890)

49 O.M. Edwards, 'Llyfrau newyddion', *Cymru* 2 (1892), t.40

edliw'r ffaith nad oedd penaethiaid yr Eglwys yn dangos cefnogaeth ymarferol i ran y cyfnodolion yn eu cenhadaeth. Gan hynny, ni chawsai'r eglwyswyr cyffredin uniaith Gymraeg wybod beth oedd barn eu prif swyddogion, oni bai am gyfieithiadau'r golygyddion a chyfeiriadau gan ohebyddion at erthyglau ganddynt mewn cyfnodolion Saesneg. Yn hynny o beth, roedd honno'n ergyd deg a gresynai Ellis nad oedd ei benaethiaid yn ymddiddori yn y wasg. Daeth ei rwystredigaeth i'r amlwg yn ei ragymadrodd i rifynnau 1888, wedi pedair blynedd wrth y llyw:

> Ni anrhydeddwyd tudalennau yr HAUL â llinell o dan law un o'r pedwar esgob, dim ond un deon, dau archddiacon, a dim un canon trigiannol, ac nid ydym yn cael fod llenyddiaeth Gymreig hyd eto yn ffurfio un ffon yn ysgol dyrchafiadau Eglwysig.[50]

Gan mai ychydig o werth a roddid ar hybu llenyddiaeth Gymraeg, prin oedd yr urddasolion a ysgrifennai i'r cyfnodolion Cymraeg, er eu bod yn ddigon parod i gyfrannu i wythnosolion a misolion Saesneg. Fel hyn y cwynodd Ellis drachefn yn rhifyn cyntaf y flwyddyn ganlynol:

> Ofnwn fod gormod o'n clerigwyr yn cynnal i fyny freichiau y wasg Seisnig, gan dybio eu hunain uwch law y wasg wythnosol Gymreig. Cofied y cyfryw mai encilio i baradwys yr ynfydion ydyw yr arferiad estrysaidd hwn. Caeir y llygaid hyd nes teimlir blaen troed yr erlynydd, yn lle bod yn barod â'r cleddyf i gyfarfod yr ymosodwr.[51]

Nofio yn erbyn y llif a wnâi golygydd *Yr Haul*, fel y gwnaeth cynifer o'r rhai a ddaeth ar ei ôl hefyd.

Er gwaethaf difaterwch yr uwch-swyddogion, sicrhaodd fod *Yr Haul* yn dod allan yn gyson, ei fod yn raenus, ac o ddiddordeb i'r darllenwyr. Mae'n amlwg fod yr hyn a ddarparai yn taro deuddeg gan rywrai serch hynny, gan fod sôn i'r cylchrediad dreblu rhwng 1885 a

---

50 Elis Wyn o Wyrfai, 'Rhagymadrodd', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 4 (1888)

51 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y Wasg Eglwysig', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 5 (1889), t.21

dechrau 1888.[52] Er gwaetha'r rhwystredigaeth ynghylch difaterwch ei benaethiaid, roedd ei gynulleidfa darged yn amlwg yn mwynhau ei waith.

Mae'r fath gynnydd yn y cylchrediad yn fwy syfrdanol byth wrth gofio nad ar hyrwyddo a chynnal *Yr Haul* y canolbwyntiai ei holl egnïon llenyddol hyd yn oed, wrth iddo ysgrifennu nifer o erthyglau i'r cylchgrawn anenwadol *Y Geninen*. Cyfrannodd yn gyson i'r cylchgrawn llenyddol cenedlaethol hwnnw, ac fel y nodwyd eisoes fe'i gwahoddwyd gan y golygydd i lunio ysgrifau cofiannol i'r Deon H. T. Edwards, Ab Ithel a Nicander cyn 1885. Yn ddiweddarach, lluniodd ysgrifau cofiannol hefyd i Gutyn Padarn a Taliesin Hiraethog, a chyfansoddodd gywyddau, englynion a cherddi ar fesurau eraill er cof am rai fel Gwilym Hiraethog, Alltud Eifion a'r Canon Evans o Gorris. Lluniodd erthyglau hefyd ar Dewi Sant, ar y farn ynghylch 'Eglwys Sefydledig drwy gyfraith', ac aeth ati i adolygu erthygl gan y Parch J. R. Kilsby Jones ar 'Paham yr wyf yn Ymneilltuwr'. Yr hyn a wnâi'r adolygiad hwnnw'n nodedig oedd ei fod wedi cywiro camgymeriadau ffeithiol mewn modd nad oedd yn dilorni egwyddorion sylfaenol yr awdur.[53] Yn ddiamau, roedd yn un o'r cyfranwyr mwyaf cyson i *Y Geninen* yn ystod deuddeng mlynedd gyntaf ei bodolaeth, ac yn bendant gyda'r mwyaf cynhyrchiol o'r awduron a goleddai syniadau eglwysig. Ni fodlonodd ar wasanaethu ei bobl ei hunan yn unig, gan ei fod yn amlwg yn credu fod gwaith mawr i'w wneud ar ran yr Eglwys mewn cyfnodolion anenwadol hefyd.

Er hynny, ac er rhoi dechreuad i *Y Llan*, fel golygydd *Yr Haul* y cofir yn bennaf amdano wrth feddwl am fyd y cyfnodolion Cymraeg. Tystia Charles Ashton mai 'un o'r pethau olaf a wnaed gan ysgrifell Elis Wyn - y diwrnod y cymerwyd ef yn glaf - oedd ysgrifennu rhyw nodiadau i'r *Haul*.'[54] Roedd ei gyfnod wrth y llyw yn un llawn mor gynhyrfus â chyfnod Brutus, sef y golygydd arall a gysylltir fynychaf ag *Yr Haul*, ac yn sicr roedd teimladau croes rhwng eglwys a chapel yn her ac yn abwyd i'r ddau ohonynt. Er hynny, ni

52 Elis Wyn o Wyrfai, mewn ymateb i 'Gohebiaehau', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 4 (1888), t.26

53 Trafodir yr erthygl ymhellach ym mhennod 6.

54 Charles Ashton, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.164

ddewisodd ddilyn arddull ddychanol ei ragflaenydd. Torrodd ei gŵys ei hunan, gan ennyn parch y mwyaf llwyddiannus o olygyddion a chyhoeddwyr cyfnodolion Cymraeg ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef O.M. Edwards. Fe'i hedmygwyd am arddel egwyddorion brawdgarol, Cristnogol a chenedlgarol, a gwnaeth hynny tra daliai'r mwyafrif o'r clerigwyr mewn swyddi brasach yn ddifater ynghylch grym a dylanwad y wasg Gymraeg. Nododd yn y rhagymadrodd olaf a ysgrifennodd yn 1894:

> ...y neges bwysig a gawsom wrth ymgymryd â golygu yr *Haul* oedd ei wneuthur yn offerynnol i adeiladu Eglwys Crist, ac adeiladaeth y genedl. Ein hymdrech gonest yw, adeiladu yr Eglwys "yn dŷ ysbrydol, yn offeiriadaeth sanctaidd, i offrymu aberthau sanctaidd, cymeradwy gan Dduw, trwy Iesu Grist.[55]

Dyna ei weledigaeth ganolog gydol ei olygyddiaeth, a bu'n gyfrifol am feithrin to o offeiriaid a barhaodd â'r gwaith hwnnw ar ôl iddo farw. Yn wyneb llwyddiant cyhoeddiadau fel *Baner ac Amserau Cymru* i daro ergyd ar ôl ergyd yn erbyn yr eglwys yn ystod golygyddiaeth Ellis, gellid bod yn feirniadol a dweud mai angen rhywun fel 'Brutus', a allai frwydro'n ôl yr un mor sbeitlyd, oedd gwir angen yr Eglwys ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er gwaethaf canmoliaeth O.M. Edwards, a hoffter y darllenwyr o gynnwys *Yr Haul*, nid oes amheuaeth mai cyhoeddiadau Ymneilltuol a radical fel *Baner ac Amserau Cymru* oedd cyfnodolion mwyaf nodedig ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er tegwch i Ellis er hynny, bu'n driw i'w gred y dylid codi uwchlaw mân gecru gydol ei olygyddiaeth. At hynny, derbyniodd y cyfrifoldeb o fod yn olygydd yr unig fisolyn a gynrychiolai'r Eglwys yn swyddogol pan oedd dengwaith mwy o gyfnodolion Ymneilltuol yn cael eu cyhoeddi yng Nghymru. Gan ystyried safon *Yr Haul* cyn iddo ymgymryd â'r awenau, a'r nod uchelgeisiol a osododd iddo'i hunan ar ddechrau'r gwaith, rhaid barnu ei fod wedi llwyddo i godi safon *Yr Haul*, ac ar yr un pryd wedi darparu cylchgrawn wrth fodd y werin Gymraeg ei hiaith, a welai angen yr arweiniad y gallai misolyn ei gynnig ar bynciau'r dydd.

55 Elis Wyn o Wyrfai, *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 10 (1894), Rhagymadrodd

## iv - Ei waith fel emynydd

Fel awdur a chyfieithydd emynau, erys Ellis hyd heddiw ymysg rheng flaenaf y rhai a ddarparodd emynau i eglwyswyr Cymraeg. Aeth dros ugain argraffiad o Hymnau yr Eglwys trwy'r wasg, a pharhaodd yn llyfr emynau Cymraeg mwyaf poblogaidd yr eglwys am dros hanner canrif. Rhan allweddol o'r llwyddiant hwnnw oedd ei ymdrech arbennig ef fel golygydd i drosi emynau o ystod mor eang â phosibl o draddodiadau eglwysig i'r Gymraeg. Yn ei bortffolio ceir yr uchel-eglwysig a'r efengylaidd, cyfieithiadau o emynau hynafol Groeg a Lladin, a chyfieithiadau o emynau Saesneg ei gyfnod ei hunan, yn emynau cyffredinol a rhai ar gyfer gwyliau penodol. Cynhwyswyd nifer fawr o'i gyfieithiadau a'i emynau ef ei hunan mewn sawl cyfrol yn ystod yr ugeinfed ganrif, ffaith sy'n tystio y dylid cofio amdano fel un a wnaeth gyfraniad arwyddocaol i emynyddiaeth Cymru.

*Traddodiad canrifoedd*

Yng ngeiriau Ellis ei hunan, 'caniadau Eglwys Dduw ar ei thaith trwy y byd i Sïon fry' yw emynau'r Eglwys, emynau sy'n 'cynnwys ei holl brofiad, ei holl obaith, ei holl ymgais, a'i holl hyfrydwch.'[1] Yn ôl y Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru,[2] bu'r emyn, sef 'cân o fawl i Dduw i'w chanu gan gynulleidfa', yn rhan amlwg a phwysig o fywyd yr eglwys Gristnogol ers ei dyddiau cynharaf. Mae adnodau yn ail bennod yr Epistol at y Philipiaid yn enghraifft gynnar o gyfleu ffydd mewn ffordd rythmig, hawdd ei chofio. Datblygodd emynau'r Cristnogion ymhellach pan gododd yr angen am ffyrdd amgen na'r Salmau Hebraeg i ganu am y ffydd newydd, yn enwedig wrth i Gristnogaeth gael ei harddel gan genedl-ddynion. Ffordd hwylus o gadarnhau elfennau craidd y ffydd oedd eu rhoi ar gân. Dywed David R. Breed yn The History and use of Hymns[3] bod nifer o emynau'r eglwys fore wedi cael eu cyfansoddi er mwyn i'r rhai a'u canai allu gwrthsefyll heresïau a thueddiadau i gamddehongli'r ffydd wrth i'r Efengyl ledaenu i bob cyfeiriad o Jerwsalem. Ymhellach, pan ddaeth Cristnogaeth yn dderbyniol yng

---

1 Elis Wyn o Wyrfai, 'Emynyddiaeth Eglwysig', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1887), t.301

2 Meic Stephens (Gol.), Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru (Caerdydd, 1997), t.233

3 David R. Breed, The History and use of Hymns and Hymn-tunes (New York, 1903), t.21

ngolwg Ymerodraeth Rhufain, a chyfleoedd i addoli ddod yn fwy hygyrch yn sgil hynny, daeth emynau'n rhan annatod o foliant Cristnogol.

Yn ystod canrifoedd olaf mileniwm cyntaf Oed Crist, parhaodd offeiriaid, mynachod ac esgobion i gyfansoddi emynau Groeg a Lladin ar gyfer addoliadau cynulleidfaol a defosiwn personol. Tua chanol y seithfed ganrif roedd emynau yn yr iaith Roeg ar drothwy oes aur, a daeth cyfnod mwyaf llewyrchus emynau Lladin ychydig wedi hynny. Ar droad y mileniwm cyntaf bu symudiad o ganu cynulleidfaol at ganu corawl, a pharhaodd yr arfer hwnnw am rai canrifoedd, gyda'r siantiau Gregoraidd yr enghraifft fwyaf nodedig o'r arfer hwn, o bosib. Dim ond wrth i'r Diwygiad Protestannaidd afael y trodd y llanw, ac y daeth cynulleidfaoedd i ganu emynau unwaith eto. Gyda gwawr y diwygiad hwnnw, gwelwyd cynnydd hefyd yn yr arfer o gyfansoddi mewn ieithoedd brodorol.

Er bod rhai cerddi crefyddol wedi eu cyfansoddi yn y Gymraeg cyn y canol oesoedd,[4] cyfieithiadau o'r salmau oedd mwyafrif yr emynau Cymraeg hynny. Y mwyaf adnabyddus o'r cyfieithwyr hyn oedd Yr Hybarch Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionnydd a oedd yn cydoesi â William Morgan, cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg. Lluniodd ei Salmau Cân mewn pryd iddynt gael eu hargraffu mewn atodiad i'r Llyfr Gweddi Gyffredin yn 1621. Rhwng cyfnod Edmwnd Prys a Diwygiad Methodistaidd y ddeunawfed ganrif, , prin yw'r emynau a oroesodd – emynau Elis Wyn o Lasynys, awdur Gweledigaethau y Bardd Cwsg, yw'r unig rai o bwys o'r ail ganrif ar bymtheg, ac yn wir yr unig rai o'r cyfnod hwnnw mewn sawl llyfr emynau modern.[5]

Yn sgil y Diwygiad Methodistaidd, taniwyd yr arfer o gyfansoddi emynau Cymraeg gwreiddiol o ddifrif. Yn wir, yr hyn sy'n aros o bron bob diwygiad gwerth ei halen yw emynau. Ystyrier, er enghraifft, emynau Charles Wesley; mewn gwirionedd, y rheiny a roddodd Loegr ar dân yn ystod diwygiad y ddeunawfed ganrif, gan beri i rai roddi mwy

4 gw. Marged Haycock, Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar (Felindre, Abertawe, 1994)

5 Emyn Elis Wyn o'r Lasynys (y Bardd Cwsg), 'Myfi yw'r atgyfodiad mawr', yw'r unig emyn Cymraeg gwreiddiol o'r ail ganrif ar bymtheg sydd i'w gweld yn Emynau'r Llan.

o glod iddo ef nag i bregethau ei frawd John am ledaeniad y diwygiad.[6] Mae'r un peth yn wir yng Nghymru - priodolir llawer o'r clod am ddiwygiad Methodistaidd Cymru i bregethau egnïol Howel Harris, Daniel Rowlands Llangeitho a'u cymheiriaid, ond mewn gwirionedd, yr un a gafodd yr enwogrwydd mwyaf yn sgil y diwygiad oedd William Williams Pantycelyn. Erys Pantycelyn hyd heddiw yn 'bêr ganiedydd' Cymru. Ei emynau ef sy'n ymddangos amlaf yn y cyfan, bron, o'r llyfrau emynau enwadol 'swyddogol' a gyhoeddwyd o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, a bu ei waith yn ysbrydoliaeth i lawer yn ystod ac ar ôl ei gyfnod ef. Gellid rhestru Ann Griffiths, Dafydd Jones o Gaeo, Morgan Rhys a David Charles, Caerfyrddin fel emynwyr yn olyniaeth Pantycelyn, gyda'u hemynau grymus yn plethu cyfeiriadau Beiblaidd a phrofiadau ysbrydol personol yn gelfydd. Yn wir, wrth i seiadau a chyrddau gweddi roi'r cyfle i unigolion fynegi eu profiadau yn gyhoeddus, daeth emynau fel eu rhai hwy, a gyplysai brofiadau angerddol â diwinyddiaeth, yn rhan greiddiol o ddulliau addoli'r Methodistiaid a'r enwadau ymneilltuol.

Ni chafwyd unrhyw ddatblygiad arwyddocaol yn yr eglwys sefydledig nes i ddylanwad diwygiad uchel-eglwysig Mudiad Rhydychen dreiddio i Gymru. Rhoddai'r Mudiad hwn bwyslais o'r newydd ar batrwm y flwyddyn eglwysig ac ar werth cadw dyddiau'r Saint, ac yn sgil hynny roedd gofyn cael emynau i'w canu ar y gwyliau penodol hynny. Cyhoeddodd John Keble, un o arweinwyr y Mudiad yn Lloegr, gyfrol o emynau i gyd-fynd â phatrwm y calendr eglwysig dan y teitl The Christian Year yn 1827. Lluniodd emyn ar gyfer pob Sul a gwyliau'r saint amlycaf, ac er i'r gyfrol gael ei chyhoeddi rai blynyddoedd cyn dechrau cydnabyddedig y Mudiad, roedd serch hynny'n arwydd o awch newydd yn yr eglwys am ffordd i newid addoliadau di-fflach eu dydd. Bymtheng mlynedd wedi cyhoeddi The Christian Year, daeth efelychiad Cymraeg o'r wasg, ac am y tro cyntaf ers dwy ganrif a mwy gallai'r eglwys hawlio iddi wneud cyfraniad adeiladol i ddatblygiad emynyddiaeth yng Nghymru.

*Y Flwyddyn Eglwysig gan Nicander*

Yn ei ragair i Y Flwyddyn Eglwysig, a gyhoeddwyd yn 1843, dywed Morris Williams (Nicander) mai'r hyn a'i hanogodd i lunio'i gyfrol oedd y 'deffroad yn y wlad ynghylch

6 gw. Frederick C. Gill, Charles Wesley, the first Methodist (London, 1964)

pethau Eglwysig, pan y mae cariad at yr eglwys yn cynhesu, a gelyniaeth ati yn ymgynddeiriogi'.[7] Nid yw'n celu'r ffaith mai The Christian Year a'i hysbrydolodd, ac wrth ddilyn patrwm tebyg i gyfrol Keble, cynhwysodd naw deg o'i emynau ei hunan a dau emyn gan emynwyr eraill, fel bod un ar gyfer pob Sul a gwyliau'r saint amlycaf. Dywed yn y rhagair ei fod yn credu'n gryf y dylid cydlynu'r hyn a ganai'r gynulleidfa â darlleniadau o'r Llyfr Gweddi Gyffredin, a'i obaith oedd y byddai'r casgliad yn ffordd fuddiol i

> Gyffroi'r "meddwl puraidd" i rodio yn ôl traed y praidd, ac i'n hannog i fod yn ddilynwyr i'r Apostolion, fel ag y buont hwythau i Grist.'[8]

Mae'n amlwg fod ei emynau wedi cael croeso gwresog, gan fod mwy na hanner Y Flwyddyn Eglwysig wedi ei gynnwys yn ddiweddarach rhwng cloriau llyfrau emynau'r eglwys, fel y sylwodd Bedwyr Lewis Jones.[9]

*Deisyfiad am lyfrau emynau 'swyddogol'*

Wrth i rai a oedd wedi eu cyfareddu gan syniadau Mudiad Rhydychen lunio emynau i gyplysu'r calendr eglwysig â'r emynau a genid, roedd yr arfer o ganu emynau'r olyniaeth Fethodistaidd, fel petai, sef emynau Pantycelyn, Ann Griffiths a'u tebyg, yn parhau i ffynnu yn y capeli. Yn ychwanegol at ganu emynau mewn gwasanaethau, daeth y gymanfa ganu yn weithgaredd atodol poblogaidd gan bob enwad. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y nodwyd gan R. Tudur Jones, cododd angen am lyfrau emynau 'swyddogol' fesul enwad, casgliadau a fyddai'n cynnig darpariaeth unffurf ar gyfer y Sul a'r cymanfaoedd.[10] Yn 1864 gwnaed datganiad pendant gan Gymanfa Gyffredinol y Methodistiaid i'r cyfeiriad hwn, er mai Llyfr Hymnau a Thonau y Methodistiaid Calfinaidd, a gyhoeddwyd mor ddiweddar â 1897, a

---

7 MorrisWilliams, Y Flwyddyn Eglwysig : myfyrdodau priodol i'r Suliau a'r gwyliau drwy'r flwyddyn (Bala, 1843), t.vi

8 *ibid*, t.iii

9 Bedwyr Lewis Jones, 'Nicander yr Emynydd', *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru* cyf.1 rhif 7, (1974) t.197

10 R. Tudur Jones, Ffydd ac Argyfwng Cenedl cyfrol 1 (Abertawe, 1981), t.145

lwyddodd orau i gyflawni'r amcan. Yn 1895 cyhoeddwyd Y Caniedydd Cynulleidfaol gan bwyllgor o Annibynwyr, ac roedd i hawlio ei le fel casgliad mwyaf poblogaidd eu cynulleidfaoedd hwythau. Yn yr un modd, wedi cyhoeddi adargraffiad o'r Llawlyfr Moliant dan nawdd Undeb Bedyddwyr Cymru yn 1890, buan y daeth hwnnw'n llyfr emynau swyddogol eu henwad hwythau.[11]

Roedd Eglwys Loegr hithau wedi troi ei golygon i'r un cyfeiriad, ac wedi dechrau meddwl am gyhoeddi llyfr emynau cynhwysfawr a fyddai'n ceisio plesio pob carfan ar hyd a lled ei hesgobaethau. Yn 1861 cyhoeddwyd argraffiad cyntaf Hymns Ancient and Modern, ac yn sgil ail argraffiad yn 1875 fe'i defnyddiwyd yn gyffredinol ar draws gwlad. Law yn llaw â hyn, ni fu'r siaradwyr Cymraeg yn hepian chwaith, ac erbyn 1886 roedd tri chasgliad safonol, a gynhwysai ystod eang o emynau Cymraeg gwreiddiol a chyfieithiadau o'r Saesneg, wedi eu cyhoeddi.

*Llyfrau Emynau Cymraeg Eglwysig y bedwaredd ganrif ar bymtheg*

Yn 1865, lluniodd Daniel Evans, periglor cyntaf Corris a Chanon yng Nghadeirlan Bangor yn ddiweddarach, gyfrol gynhwysfawr a gyplysai emynau Cymraeg â thonau priodol. Cynhwysai argraffiad cyntaf ei Hymnau a Thonau er Gwasanaeth yr Eglwys yn Nghymru 532 o emynau, gyda 64 emyn arall yn cael eu hatodi mewn argraffiadau diweddarach wedi 1875. Dywedir bod deuddeg argraffiad wedi gweld golau dydd erbyn 1892.[12]

Nodwedd arwyddocaol ar y llyfr emynau arloesol hwn oedd ei fod yn cynnwys tonau yn y ddau nodiant. Roedd yr Ysgol Sul,[13] dosbarthiadau 'tonic Sol-ffa',[14] a phoblogrwydd cymanfaoedd canu a gwyliau corawl, yn cyfrannu at feithrin ymwybyddiaeth o gerddoriaeth yng Nghymru bryd hynny. Fellly, gallai R. D. Griffith ddatgan bod Hymnau Canon Evans yn nodi 'dechreuad cyfnod yng nghanu cynulleidfaol yr

11 *ibid*, tt.147-8

12 R. D. Griffith, Hanes Canu Cynulleidfaol Cymru (Caerdydd, 1948), t.97

13 *ibid*, t.70

14 *ibid*, t.85

Eglwys,'[15] wrth i'r eglwys ymateb i flynyddoedd byrlymog canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a ddisgrifiwyd gan Griffith fel 'dadeni cerddorol'[16] yng Nghymru. At hynny, dyma'r llyfr emynau cyntaf i gynnwys rhai o emynau Ellis, gan fod pum cyfieithiad a briodolir iddo mewn casgliadau diweddarach i'w cael yn y detholiad hwn. Cyhoeddwyd ei gyfieithiad o emyn cenhadol enwog Heber, 'O Greenland oer, fynyddig' yn y casgliad gwreiddiol, gyda 'Edrych, Nefol Dad, i lawr' a chadwyn o dri emyn yn seiliedig ar waith Bernard o Cluny i'w cael yn atodiad 1875.

Dair blynedd wedi argraffiad cyntaf Hymnau Canon Evans, cyhoeddwyd detholiad arall i fanteisio ar y deffroad yng nghaniadaeth yr eglwys yng Nghymru. Yn 1869, daeth Hymnau Hen a Newydd o'r wasg, dan olygyddiaeth Owen Jones, ficer Pentrefoelas a Deon Shadrach Pryce, Llanelwy. Cynhwysai'r argraffiad cyntaf 555 o emynau, ac ychwanegwyd atodiad o 32 emyn at y casgliad erbyn y trydydd argraffiad yn 1874. Bu'n rhaid disgwyl tan 1885 am argraffiad a gynhwysai donau i gyd-fynd â'r emynau, ond mae'n rhaid bod y paru hynny'n llwyddiannus, gan fod mwy na dwsin o argraffiadau wedi mynd trwy'r wasg erbyn 1891.[17]

Yn yr 'hyspysiad' yn nhu blaen y llyfr, noda'r golygyddion iddynt gynnwys emynau o gyfrolau Evan Evans (Ieuan Glan Geirionnydd), Ab Ithel, William Williams Pantycelyn, a 'chasgliadau eraill o Hymnau Cymraeg.'[18] Maent yn ogystal yn talu diolch i hanner dwsin o'u cyd-offeiriaid am ganiatâd i gynnwys eu gwaith hwythau yn y gyfrol. Yn eu mysg, yn ôl y disgwyl, roedd enw Nicander; ond yno hefyd roedd enw y Parch. Ellis Roberts, Llanfihangel Glyn y Myfyr. Nid yw'r emynau yn cael eu priodoli i awduron penodol yn y casgliad hwn, ond wrth eu cymharu â'r rhai a briodolir iddo yn Hymnau yr Eglwys, gwelir bod dau emyn o eiddo Ellis yn argraffiad 1874 Hymnau Hen a Newydd. Mae'r cyfeiriad ato fel ficer Llanfihangel yn awgrymu'n gryf hefyd iddo gyfansoddi'r rheiny cyn iddo symud i Langwm.

15 *ibid*, t.97

16 *ibid*, t.78

17 *ibid*, t.97

18 Hymnau Hen a Newydd (Llundain, 1874), t.iv

Trosiad o emyn Faber, 'Hark! hark, my soul! angelic songs are swelling' yw 'Fy enaid clyw, angylaidd dôn yn chwyddo', sef rhif 290 yn Hymnau Hen a Newydd. Fe'i ceir yn adran yr emynau cyffredinol, ac mae'r emyn arall o'i eiddo sydd yn y gyfrol, cyfansoddiad gwreiddiol sy'n dechrau â'r llinell, 'O! Dduw! Preswylio'r ydwyt Ti', i'w ganfod yn yr atodiad. Fe'i neilltuir yno ar gyfer ei ddefnyddio ar achlysur cysegru neu ailagor eglwys, ac fe allai'n hawdd fod wedi ei ganu ei hunan yng Nglyn Myfyr ar ôl clirio llanast llif mawr 1871, neu wedi'r atgyweirio yn Llangwm yn 1874 ac wrth agor eglwys Santes Catherine yn Ninmael yn 1878.

O Dduw, preswylio'r ydwyt Ti
  Y tragwyddoldeb mawr;
Pa beth yw'r tŷ gyfodwn ni
  I'th enw ar y llawr?

Ond eto Ti addewaist fod
  Lle byddo dau neu dri
Yn cydymgynnull er dy glod,
  Ac yn dy Enw Di.

Pâr fod pregethiad Crist â'i groes,
  O fewn i'r Eglwys hon,
Yn eglur seinio i bob oes
  Tra safo daear gron.

Y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
  Y datguddiedig Dri
Yn Un, mewn gweddi byth a chân,
  O'i mewn addolwn ni.[19]

---

19 *ibid*, rhif 586. Ychwanegodd y penillion canlynol cyn y pennill clo pan ymddangosodd yr emyn yn Hymnau yr Eglwys

Yn llenwi'th sacramentau bydd
A'th bresenoldeb cu,
Yn nefol faeth, yn wystlon ffydd,
I bawb o deulu'th dŷ.

Trwy bob ysbrydol ordinhad
O fôr y cariad cu,
Yn nefol faeth, yn wystlon ffydd,
I bawb o deulu'th dŷ

Lle bynnag y cyfansoddwyd yr emyn, a lle bynnag y cenid ef gyntaf, mae'n debyg bod cyhoeddi'r ddau emyn yma ochr yn ochr ag emynau poblogaidd Cymru wedi ei sbarduno i lunio ei ddetholiad ei hunan. Yn 1886, 'ar daer gymhelliad *Ordinary* fy esgobaeth' fel y dywedodd, argraffwyd fersiwn geiriau yn unig o Hymnau yr Eglwys, 'o ddetholiad y Parch. Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai)' yng ngwasg Isaac Foulkes, Lerpwl.[20]

*Hymnau yr Eglwys*

Detholiad o 423 emyn mewn cloriau glas, ar dudalennau 14cm wrth 7cm, oedd yr argraffiad cyntaf hwnnw o Hymnau yr Eglwys. Roedd yn llyfr poced a ymdebygai gan hynny i Hymnau Canon Evans a Hymnau Hen a Newydd, ond un manylyn gwahanol oedd y ffaith iddo nodi llythrennau cyntaf yr awduron wrth bob emyn. Cynhwyswyd rhai o salmau cân Edmwnd Prys, nifer o emynau Pantycelyn, a gwaith cryn drigain o gyfansoddwyr a chyfieithwyr Cymraeg eraill. Atgynhyrchwyd 274 o emynau a oedd wedi ymddangos yn y ddwy gyfrol Eglwysig flaenorol,[21] ac mae'n debyg i'r gweddill gael eu casglu o lyfrau emynau Cymraeg hen a newydd, a chan offeiriaid a oedd wedi cyhoeddi eu hemynau yng nghyfnodolion yr eglwys. Cynhwysodd 30 o'i emynau ei hunan yn y gyfrol hefyd – 11 o gyfieithiadau ac 19 o gyfansoddiadau gwreiddiol.

Derbyniodd y gyfrol groeso gwresog mewn sawl misolyn, gan gynnwys rhai enwadol – a hyn i gyd ar anterth helyntion y degwm a drwgdeimlad cyffredinol rhwng yr eglwys a'r capeli. Yn *Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, barn y golygydd, Robert Jones, oedd iddo gael 'llawer o fwynhad wrth fyned trwy yr emynau sydd yn y llyfr hwn. Ceir ynddo y rhan fwyaf o'r emynau gorau a arferir yn y dyddiau presennol gan ymneilltuwyr ein gwlad.'[22] Roedd golygydd *Y Drysorfa*, Roger Edwards o'r Wyddgrug, yr un mor hael ei ganmoliaeth, gan ddweud, 'prin y mae un emyn nas gellir ei chanu gennym yn ein capelau. Ac y mae yna amryw hymnau newyddion rhagorol y byddai yn werth i ni oll eu harfer.'[23] Dywed Roger Edwards hefyd bod nifer fawr o'r emynau 'wedi eu cymryd

20 Hymnau yr Eglwys (Liverpool, 1886), blaenddalen

21 gw. atodiad 4 y traethawd hwn (cronfa ddata gymharol o lyfrau emynau'r Eglwys)

22 *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* (1886), t.265

23 *Y Drysorfa* (1886), t.265

o lyfrau ymneilltuol, ac wrth hynny wedi eu cyfansoddi gan Ymneilltuwyr'. Roedd dros chwarter y casgliad yn emynau Pantycelyn, a nifer dda o'r 62 awdur arall hefyd yn rhai y byddai Ymneilltuwyr yn hawlio mai i'w traddodiad hwy yr oeddent yn perthyn. Ategodd Robert Jones yr *Eurgrawn* hynny:

> Ceir ynddo y rhan fwyaf o'r emynau gorau a arferir yn y dyddiau presennol gan ymneilltuwyr ein gwlad. Arferir llawer iawn o emynau gennym fel cenedl ag y gellir dywedyd yn ddibetrus na byddai yr un Casgliad o Hymnau gan nac Eglwyswyr nac Ymneilltuwyr yn gyflawn hebddynt. Nid oedd neb a wyddai hyn yn well na Mr. Roberts.[24]

Fel yr awgrymir uchod, gwyddai Ellis yn iawn bod rhai o emynau gorau'r iaith yn perthyn i draddodiadau Anghydffurfiol, ond ni chyfrifodd hynny'n rheswm dros eu hepgor o'i gasgliad. Mewn cyfnod mor gynhennus rhwng yr enwadau, y dewis hawsaf fyddai ceisio llunio casgliad o emynau gan awduron eglwysig yn unig, ond bu'n ddigon eangfrydig i wrthod y demtasiwn honno.

O du'r Eglwys, roedd yr adolygiad a ymddangosodd yn *Yr Haul* yn un canmoladwy hefyd, ond o gofio mai Ellis oedd y golygydd, nid oedd hynny'n syndod mawr. Fel y dywed yr adolygydd, J.R. o Rostryfan,

> Gwaith hynod o anhawdd ei gyflawni yn foddhaus ydyw adolygu llyfr o gasgliad gwr mewn cyfnodolyn dan ei ofal ei hun, a dyma yr hyn a ofynnir gennyf oddi ar law y cyhoeddwr, ac nis gwn pa fodd i'w omedd. Seboni dyn yn ei wyneb fyddai canmol, a pheth anfoesgar ydyw ymryson â neb yn ei dŷ ei hun.[25]

Gallai fod wedi ychwanegu hefyd mai 'tasg anhawdd' yw beirniadu gwaith ei frawd, gan mai John, brawd iau Ellis, oedd J.R. yr adolygydd.

Os oedd y cysylltiad rhwng yr adolygydd a chasglwr yr emynau yn un agos, yna fe lwyddodd i daro golwg digon gwrthrychol ar y gyfrol. Tua'r diwedd, dywed:

---

24 *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* (1886), t.265

25 J.R. Rhostryfan, 'Y Wasg – "Hymnau yr Eglwys" ', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 2 (1886), t.217

> Y mae yma le i fawr wella trwy gael enwau y cyfieithwyr diweddar i mewn, a chywiro eraill ellid nodi. Gellid gwella cyflead rhai o'r penillion hefyd, ac ychwanegu deg neu ddeuddeg o ffafr-emynau rhai rhannau o Gymru na welir hwy yma, megis
>
> "Caed modd i faddau beiau,
> Yn yr Iawn," etc.[26]

Bu'n ddigon grasol i ddyfynnu adolygiadau pobl eraill yn *Yr Wythnos* ac *Y Genedl Gymreig* er canmol y casgliad, gan gyfyngu'r sylw mwyaf canmoladwy i'r hyn a ddywedodd ar sail y ffaith bod gwaith cymaint â 63 o emynwyr gwahanol yn y casgliad:

> ...gallwn weled mai dyma y casgliad mwyaf catholicaidd yn Gymraeg, ac ef allai mwyaf athrawiaethol, o herwydd gwnaed ymdrech neilltuol i gael i mewn iddo amledd o emynau gwrthrychol *(objective hymns)*.[27]

Yr adolygiad a fu fwyaf o gymorth i Ellis mae'n debyg oedd un Cernyw Williams yng nghyfnodolyn y Bedyddwyr, *Y Greal*. Wedi cyfeirio ato fel 'bardd o radd uchel, un yn meddu medr i gyfansoddi ei hunan, a chwaeth ddisgybledig i ddethol'[28], â ymlaen i ganmol y cydbwysedd rhwng yr hen ffefrynnau ac emynau modern. Canmola'r gwaith ymchwil a wnaed i briodoli'r emynau i'w hawduron neu eu cyfieithwyr, gan nodi un enghraifft yn unig lle'r oedd emyn wedi ei briodoli i'r awdur anghywir. Coron ar yr adolygiad canmoliaethus yw cyfeiriad penodol at emynau Ellis, a ddisgrifir ganddo fel 'ychwanegiad gwerthfawr iawn at ein llenyddiaeth yn y cylch cysegredig hwn', a'r frawddeg olaf sy'n dweud na fyddai'r rhai a fyddai'n prynu'r gyfrol yn cael eu siomi.

Er gwaethaf y fath ymateb cadarnhaol, nid oedd Ellis yn berffaith fodlon ar yr argraffiad cyntaf hwn, ac ar unwaith aeth ati i weithredu ar y pwyntiau a godwyd yn yr adolygiadau, a cheisio barn rhai o gerddorion blaenllaw Cymru ar sut y gellid cryfhau'r detholiad cyn trefnu ail argraffiad. Mewn llythyr a anfonodd at Cernyw Williams ym Mai 1886, mae'n diolch iddo am ei adolygiad yng nghylchgrawn *Y Greal*, ac yna'n ychwanegu:

---

26 *ibid.* t.218

27 *ibid.* t.217

28 H. C. W., "Hymnau yr Eglwys", *Y Greal* (1886), t.162

> Yr wyf yn anfon *copy* heddiw trwy y post ac os gallwch gael hamdden, o hyn i ben mis i gywiro mân wallau lu o bob math ar ymyl y ddalen byddaf ddiolchgar.[29]

Wrth gloi'r llythyr mae'n nodi hefyd iddo dderbyn 'nodiadau da gan Penfro ar amryw o'r Hymnau'. Roedd tri o emynau'r bardd-offeiriad hwnnw yn rhan o ddetholiad 1886, ac mae'n amlwg fod ei sylwadau yntau, fel rhai Cernyw Williams, wedi atgyfnerthu ei farn mai da o beth fyddai adolygu'r casgliad cyn cyhoeddi'r ail argraffiad. Wrth ymateb yn ddiolchgar i Cernyw Williams ar ddiwedd Mai 1886 am fwrw golwg feirniadol dros y gyfrol, dywed ei fod am 'dynnu y llyfr trwy adolygiad cyflawn', a cheisio barn Glanmor ac 'amryw gyfeillion eraill'[30] hefyd, ynghyd â chyhoeddi apêl am sylwadau adeiladol yn y wasg.

*Argraffiad diwygiedig 1892*

Wedi pum mlynedd o gywiro, dethol a cheisio darganfod tonau priodol i'w cyplysu â'r geiriau, paratôdd Ellis ddetholiad diwygiedig, a'i anfon y tro hwn i wasg Spurrell yng Nghaerfyrddin. Roedd y cysylltiad rhyngddo a'r wasg honno'n glòs iawn erbyn hynny, gan ei fod wedi anfon *Yr Haul* i gael ei argraffu yno'n fisol yn ystod y saith mlynedd flaenorol. Er iddo ddweud yn ei ail lythyr at Cernyw Williams nad ei fwriad oedd cyfnewid emynau,[31] tynnodd hanner cant o emynau o'r detholiad gwreiddiol, a rhoi 56 o rai gwahanol yn eu lle. Williams Pantycelyn a ddioddefodd waethaf yn sgil y broses olygyddol, gan fod 22 o'i emynau wedi eu hepgor, ac yn eu plith yr hen ffefrynnau 'Anweledig, rwy'n dy garu' ac 'O foroedd o ddoethineb'. Unionwyd peth o'r cam yn syth gan fod 14 emyn arall o eiddo'r Pêr Ganiedydd ymysg y rhai a gynhwyswyd o'r newydd yn yr argraffiadau wedi 1892. Ymhlith y rhain ceir yr enwog 'Dal fi, fy Nuw' ac 'O llefara, addfwyn Iesu'.

Ar ben yr emynau o waith Pantycelyn a nodwyd, hepgorodd Ellis ambell ffefryn arall, fel 'Arglwydd Iesu arwain f'enaid', 'Pa le, pa fodd, dechreuaf', a 'Daeth ffrydiau melys

---

29 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrif 10440, 20

30 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrif 10440, 21

31 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrif 10440, 21

iawn'. Ond, yn fersiwn 1892, ychwanegwyd emynau lawn mor enwog at y casgliad, fel 'O Iôr, preswylydd mawr y berth' gan Thomas Jones, Dinbych ac 'Am fod fy Iesu'n fyw' gan John Thomas, Rhaeadr Gwy. O blith ei emynau ei hunan, ychwanegodd dri chyfansoddiad gwreiddiol ac un cyfieithiad at y rhai a oedd yn argraffiad 1886, ond tynnodd gyfieithiad o emyn Ystwyll, 'O dlysaf o'r sêr sydd yn britho y nen' ac un garol Nadolig wreiddiol a ddechreuai â'r llinell 'Ti yr hwn, yn wael ei drem' i wneud lle i'r rhai newydd. Gan nad atgynhyrchwyd y ddau emyn yma mewn un llyfr arall wedi hynny, dengys ei allu fel golygydd i hepgor ei gyfansoddiadau gwannaf ei hunan, a'i barodrwydd i gynnwys cyfansoddiadau gwell gan emynwyr eraill yn eu lle. Yn wir, gwelodd fod y bardd Mochnant[32] wedi llunio gwell cyfieithiad na'i un ef o emyn Heber, 'Brightest and best of the sons of the morning' dan y teitl ''Loewaf o'r sêr sydd yn britho'r ffurfafen', a chynhwysodd hwnnw yn argraffiad diwygiedig 1892. Daeth cyfieithiad Mochnant yn boblogaidd iawn, ac fe'i cyhoeddwyd mewn sawl llyfr emynau wedi hynny hefyd, fel Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru (rhif 81), Emynau Hen a Newydd (62) Emynau'r Llan (47) a Caneuon Ffydd (458).

Yr anhawster mwyaf i olygydd unrhyw flodeugerdd neu gasgliad o emynau yw penderfynu pa rai sy'n haeddu cael eu cynnwys, a pha rai y dylid eu hepgor. Mewn casgliad a drefnwyd i ddilyn patrwm y flwyddyn eglwysig, roedd yn rhaid iddo gyfyngu ar ddarnau a oedd yn briodol i'w canu ar achlysuron penodol. Er nad oedd modd iddo gynnwys ffefrynnau pawb wrth geisio cadw'r detholiad yn gryno, fe gipiodd yr argraffiad diwygiedig ddychymyg eglwyswyr Cymraeg. Diau bod cyfanswm yr emynau a gynhwyswyd yn un ffactor o blaid y gyfrol – roedd yn gasgliad cryno a diwastraff a oedd ar yr un pryd yn ddigon cynhwysfawr i gynnig rhywbeth ar gyfer pob Sul a Gŵyl. Tarodd hefyd ar gydbwysedd da rhwng emynau cynhenid a chyfieithiadau o emynau poblogaidd Saesneg.

Yn *Yr Haul*, dewiswyd adolygydd mwy diduedd i fwrw golwg dros yr argraffiad diwygiedig, ac wedi traethu'n hir ar yr angen i Gymry ymfalchïo yn eu hemynau, dywed Deiniol Wyn:

32 ei enw'n llawn oedd Y Parchedig William Williams, a bu'n rheithor Llanrhaeadr ym Mochnant am ran helaeth o'i yrfa. Ei ddyddiadau oedd 1796 – 1877

> Nid y lleiaf ym mhlith amryw ragoriaethau "Hymnau yr Eglwys," yn awr ger ein bron, ydyw ei nodwedd Gymreig – anhepgor Llyfr Emynau llwyddiannus a phoblogaidd. ...y mae y detholiad yn un doeth o hen emynau a thonau Cymreig oeddynt mewn perygl o lithro allan o ganiadaeth yr Eglwys. ... rhaid i ni addef mai dyma y casgliad mwyaf boddhaol i'n chwaeth ni o emynau...[33]

Geiriau proffwydol Robert Jones yn *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* wrth adolygu'r argraffiad cyntaf yn 1886 oedd: 'Ar gyfrif ei ragoriaeth, a safle uchel y detholydd fel bardd, dylai ddyfod i arferiad cyffredinol yr holl eglwysi'.[34] Efallai mai'r dystiolaeth sy'n profi orau bod hynny wedi dod yn wir yw'r cofnod yn *Y Llan* yn 1984, bron ganrif yn ddiweddarach, fod un eglwys yn parhau i ddefnyddio Hymnau yr Eglwys.[35] Dywedir bod cymaint â 100,000 copi wedi eu gwerthu erbyn 1927,[36] ac mae'r ffigwr hwnnw'n fwy syfrdanol byth wrth feddwl bod Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru wedi ei gyhoeddi yn 1897. Golygwyd y gyfrol honno gan bwyllgor dan arweiniad Daniel Lewis Lloyd, esgob Bangor, ond ychydig o eglwysi y tu hwnt i esgobaeth Bangor a ddefnyddiai'r llyfr hwnnw – ar y cyfan, llyfr emynau Elis Wyn oedd y ffefryn yn Nhyddewi a Llanelwy. Mae'n bosib bod nifer yr emynau a gynhwyswyd yn Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru, dros saith gant ohonynt, wedi ei gwneud yn llai ymarferol na Hymnau yr Eglwys, ac roedd eraill o'r farn bod gormod o gyfieithiadau ynddo, ac nad oedd yn ddigon Cymreig oherwydd hynny.[37] O gofio am farn Deiniol Wyn wrth adolygu Hymnau yr Eglwys, roedd cyfrol Ellis lawer yn fwy derbyniol gan drwch y boblogaeth.

### *Patrwm o gyfrol*

Llwyddiant mwyaf Hymnau yr Eglwys oedd ei bod yn cynnwys cydbwysedd da o emynau o sawl traddodiad, wedi eu gosod ochr yn ochr mewn casgliad cryno a oedd yn dilyn patrwm hawdd ei ddeall. Cynhwyswyd hoff emynau Cymru, o'r salmau cân, drwy gyfnod Pantycelyn, Ann Griffiths a'u cymheiriaid, hyd at emynau uchel-eglwysig

33 Deiniol Wyn, "Hymnau yr Eglwys", *Yr Haul* 1892, t.350

34 *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* (1886), t.265

35 *Y Llan*, 9 Tachwedd 1984, t.3

36 Tony Bianchi, 'Nodiadau ar economi politicaidd cyhoeddi yng Nghymru', *Barn* 213 (1982), t.91

Nicander. Bu Ellis yn ddigon effro hefyd i gynnwys goreuon ei genhedlaeth ei hunan, a cheisio dod â chyfieithiadau o emynau Saesneg poblogaidd ei ddydd i sylw cynulleidfaoedd Cymraeg. Wedi gwneud hynny i gyd, gwelodd lle'r oedd bylchau yn y ddarpariaeth, a chyfansoddodd a chyfieithodd emynau ei hunan i asio'r cyfan yn daclus.

Mae'n werth edrych yn fanwl ar y modd y trefnodd ei ddetholiad, gan ei fod yn batrwm hygyrch a efelychwyd mewn sawl cyfrol wedi hynny. Rhoddodd chwe emyn ar ddechrau'r llyfr i'w canu mewn gwasanaethau boreol, saith ar gyfer y Suliau, chwech i'w canu gyda'r hwyr, ac yna'r 120 nesaf i'w canu ar Suliau penodol o'r Adfent i ddiwedd Tachwedd. Yna, rhoddodd emynau i'w canu o flaen pregeth, rhai'n ymdrin â'r Ysgrythur Lân, yr Eglwys, ac yna bron gant a hanner o emynau cyffredinol. Wedi hynny roedd pedwar emyn ar bymtheg yn ymwneud ag angau, barn a thragwyddoldeb, a dwsin ar y nefoedd. Tua'r diwedd cynhwysodd tua chant o emynau 'achlysurol', yn ymwneud â'r sacramentau, ieuenctid, cyfnodau o drallod, diolchgarwch, cenhadaeth, claddedigaeth, ac ati. I gloi'r cyfan, dewisodd bum emyn ar hugain ar gyfer gwyliau'r Saint, a deunaw emyn ar gyfer dechrau a diwedd gwasanaeth. Pe na bai hynny'n ddigon, ar ddiwedd pob adran, rhoddodd gyfeiriad at ddyrnaid o emynau eraill yn y casgliad y gellid eu canu ar yr achlysuron hynny hefyd, gan sicrhau bod digon o gwmpas i offeiriaid ac organyddion ymatal rhag dewis yr un emynau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Derbyniodd Ellis Gregory, ail fab Ellis, gydnabyddiaeth yn rhagair argraffiad diwygiedig 1892 am roi'r 'cynhorthwy mwyaf o'r dechrau mewn casglu a chymharu yr emynau mwyaf poblogaidd yng Nghymru.'[38] Bu'n gurad yn Llangwm rhwng 1889 a 1892, ac mae'n amlwg iddo helpu i sicrhau fod yr emynau wedi eu hargraffu'n gywir ac wedi eu priodoli i'r awduron cywir.

*Tonau yr Eglwys*

---

37 John Julian, A Dictionary of Hymnology : setting forth the origin and history of Christian hymns of all ages and nations (London, 1915), t.1725

38 Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892), rhagair

Elfen allweddol arall yn llwyddiant y detholiad diwygiedig oedd y tonau a ddewiswyd i gyd-fynd â'r emynau. Yn 1894, cyhoeddwyd trydydd argraffiad o Hymnau yr Eglwys gyda thonau, ac erbyn hynny roedd John Richard, y mab ieuengaf, wedi dod yn gurad i Langwm yn lle Ellis Gregory. Iddo ef y rhydd ei dad lawer o'r diolch am ddewis tonau i gyd-fynd â'r emynau, er bod eraill, fel David Lewis o Lanrhystud, wedi helpu hefyd. Mewn llythyr at David Lewis yng Ngorffennaf 1893, mae'n diolch i'r cerddor hwnnw am y 'nodiadau helaeth a gwerthfawr' a gynigiai awgrymiadau ar gyfer tonau priodol i'w cynnwys yn yr argraffiad arfaethedig. Â yn ei flaen i ddweud, 'nid wyf fi yn gwybod dim am gerddoriaeth, ond y mae fy mab ieuengaf yn gerddor da'.[39] Diau fod mesur helaeth o wyleidd-dra yn y cyfeiriad ato'i hunan, ond dengys y ffaith iddo ymgynghori â David Lewis ei barodrwydd unwaith eto i geisio barn eraill er mwyn sicrhau bod y detholiad yn llwyddo. Cadarnheir rhan John Richard yn y gwaith yn y geiriau canlynol o ragymadrodd Hymnau yr Eglwys gyda Thonau:

> Yr ydym yn dra rhwymedig i'r Parchedigion Ellis Gregory Roberts, M.A., John Richard Roberts, B.A., a Mr. Owen Jones, Bryngwyn, Llanegryn, am drefnu rhestr faith o donau poblogaidd Gogledd Cymru gyda'r emynau arferol o'u defnyddio wrth eu canu. ... Cawsom hefyd gan lawer o offeiriaid cyfarwydd â cherddoriaeth restrau o ffafr-donau eu cynulleidfaoedd, y rhai a fu o fawr wasanaeth.[40]

Owen Jones, Llanegryn, oedd gŵr Esther Margaret, merch Ellis. Roedd yntau'n gerddor tan gamp, ac mae sôn iddo arwain côr yn Llangwm pan oedd yn ddim ond dwy ar bymtheg oed.[41] Esther Margaret oedd cyfeilydd y côr a arweiniai Owen, sy'n dystiolaeth bellach o'i doniau cerddorol hithau. Wrth basio, gwelir hefyd fod enw mab hynaf Ellis, William Morris, yntau yn Hymnau yr Eglwys, fel cyfieithydd emyn Heber, 'The Son of God goes out to war', sef 'Mab Duw i ryfel allan ddaw'.[42]

39 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Llawysgrif 8270 - 94:25

40 Hymnau a Thonau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1894), rhagair

41 Robin Gwyndaf, Y Ffynnon Arian : Cymdogaeth, Diwylliant a Chapel yn Llangwm, Uwchaled (Pen-y-Groes, Caernarfon, 1996), t.175

42 Emyn rhif 379 yn argraffiad 1886 Hymnau yr Eglwys, ond rhif 382 yn argraffiadau 1892 ymlaen

Yn rhagymadrodd Hymnau yr Eglwys gyda Thonau, datgelir hefyd sut yr aed ati i ddethol y tonau, sy'n mynd beth o'r ffordd i ddangos pam y bu'r gyfrol yn ffefryn gan nifer fawr o Eglwyswyr Cymru.

> ...ni arbedwyd na thraul na thrafferth i gasglu yng nghyd gynifer ag a ellid o hen ffafr-emynau a ffafr-donau eneiniedig Cymru, gyda hufen emynau a thonau poblogaidd diweddar Cymru a Lloegr. Ar daer deisyfiad rhifedi mawr o offeiriaid rhoddasom i mewn nifer o'r hen donau hyn, er fe ddichon yr ystyrir hwynt gan rai fel yn anghymwys i'r oes hon; ond er mwyn cyfarfod â dymuniadau rhai o duedd mwy diweddar, yr ydym yn rhoddi dewis o ddwy dôn - hen a diweddar; ac hyderwn y bydd i'r cynllun hwn wneud y llyfr yn un defnyddiol a gwerthfawr.[43]

Yn fyr, gwrandawodd Ellis yn astud ar y rhai fel Cernyw Williams, Deiniol Wyn, a David Lewis o Lanrhystud a gynigiodd sylwadau, a gweithredu ar yr awgrymiadau hynny er mwyn cryfhau'r casgliad. Ymdrechodd yn galed i gynnwys cymaint â phosib o hoff emynau a thonau'r Cymry, a chyflwyno tonau newydd ochr yn ochr â'r rhai sefydledig. O blith y tonau 'newydd' a ddefnyddiwyd, cynhwysodd 21 o donau a oedd yn Hymns Ancient and Modern, ynghyd â rhai o Church Hymns hefyd. Dyma ddwy gyfrol Saesneg fwyaf poblogaidd yr Eglwys ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac wrth i Gymru ddod yn gynyddol ddwyieithog, roedd nifer o'r tonau Seisnig hyn wedi dod yn ffefrynnau mewn plwyfi a gynhaliai wasanaethau Saesneg a Chymraeg. Rhoddodd saith o donau'r Hymns Ancient and Modern gydag emynau a gyfieithodd ei hunan o'r gyfrol honno, gan gynnwys y dôn St. Oswald ar gyfer ei fersiwn o 'Through the night of doubt and sorrow' Ingemann, sy'n dechrau â'r llinell 'Trwy nos galar ac amheuon'.

Cynhwysodd hefyd 15 o donau gan John Ambrose Lloyd o'r gyfrol Aberth Moliant, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1873. Er mai cyfrol ar gyfer Undeb yr Annibynwyr Cymraeg oedd hon at ei gilydd, roedd ynddi nifer o donau Cymreig a fyddai'n gyfarwydd i eglwyswyr a fynychai gymanfaoedd canu'r capeli. Yn eu mysg mae 'Edeyrnion', 'Pengwern', 'Brynteg' a 'Glasfryn'. Cynhwysodd nifer o donau Cymreig a Seisnig hefyd o Welsh Church Tune and Chant Book y Parch. Thomas Jones, Llanengan. Hwn

---

43 Hymnau a Thonau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1894), rhagair

oedd y llyfr yr oedd Ellis wedi ei argymell fel cydymaith i argraffiad 1886 tan y byddai'n llunio ei ddetholiad ei hunan o donau.[44]

*Yr atodiad arfaethedig*

Un ffaith a ailadroddir yn gyson mewn cyfeiriadau at Ellis a'i lyfr emynau yw bod atodiad ar y gweill ganddo pan fu farw.[45] Cyhoeddodd ei fab ieuengaf, John Richard, yr atgofion canlynol am Hymnau yr Eglwys mewn erthygl yn 1931:

> ...cyn pen dwy flynedd a hanner o'r amser y cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf, yr oedd wedi casglu 250 o emynau a 150 o donau ychwanegol i ffurfio Atodiad. Euthum â'r copïau, yn fy llaw fy hun, i swyddfa Meistri Spurrell, Caerfyrddin, ym mis Mawrth, 1895; bu farw Elis Wyn yn yr Ebrill dilynol; ac y mae'r ysgrif yn y swyddfa yng Nghaerfyrddin hyd heddiw. Yn y sypyn hwn ceir cyfansoddiadau gwreiddiol o waith beirdd fel Tudno, Berw, Penfro, a'r cyfryw, a miwsig gan Pencerdd Gwynedd, E. Broome, y Canon J. O. Evans, y Parch. R. D. Hughes, a llawer eraill.[46]

Gwyddys hefyd am o leiaf dri neu bedwar emyn arall a fyddai wedi cael eu cynnwys ochr yn ochr â'r emynau hynny gan yr offeiriaid llengar a nodwyd. Mewn llythyr at David Lewis, Llanrhystud,[47] gofynna Ellis am awgrymiadau ynghylch dwy dôn i gyd-fynd ag emynau ar fesurau anghyffredin gan Ann Griffiths yr oedd wedi eu hoffi. At hynny, byddai'n debyg o fod wedi cyhoeddi rhai o'i emynau ei hunan, fel 'O Bendithia, Arglwydd Iesu', gan fod hwnnw wedi ei gyfrif yn deilwng i'w gynnwys yn Emynau Hen a Newydd gryn drigain mlynedd wedi ei farwolaeth.

Ymddangosodd 'O Bendithia, Arglwydd Iesu' am y tro cyntaf yn *Yr Haul* ar ddiwedd 1892, fel rhan o gyfres o emynau a phenillion ganddo ar batrwm y calendr eglwysig.[48] Yn y gyfres honno, dilynodd batrwm Keble a Nicander wrth lunio 'blwyddyn eglwysig'

---

44 Welsh Church Tune and Chant Book (London, 1859)

45 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* (1895), t.200

46 Canon Roberts, Llanfihangel; 'A oes angen am Lyfr Emynau Newydd at Wasanaeth yr Eglwys yng Nghymru', *Yr Haul* Cyfres Newydd 31 (1931), t.244

47 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Llawysgrif Lewis Llanrhystud 94 - 27

48 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y Flwyddyn Eglwysig: y Trydydd Sul yn Adfent', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 8 (1892), t.374

ei hunan ar gân, gan eu cyhoeddi fesul mis. Er nad yw pob un o'r cyfansoddiadau hynny'n cyrraedd safon 'O Bendithia, Arglwydd Iesu', mae'n bosib y byddai wedi cryfhau rhai ohonynt a'u cyhoeddi yn yr atodiad. Un emyn arall a allai fod wedi ymddangos yn yr atodiad yw ei fersiwn o 'Hanes y Groes', a gyhoeddwyd ganddo mewn pamffledyn tua'r cyfnod hwn.[49] Er mai emynau gan Ap Ceredigion[50] a T. H. Hughes[51] a atgynhyrchwyd mewn cyfrolau diweddarach, tybed ai fersiwn Ellis ai'r rheiny a fyddai'n cael eu canu gan gynulleidfaoedd bob Gwener y Groglith pe bai atodiad Hymnau yr Eglwys wedi gweld golau dydd. Dyma fersiwn Ellis, a osodwyd i drefniant cerddorol gan Thomas Edwards, o Eglwys St. Martin, Caerlleon.

*Rhan I – Ffordd Gofidiau*

1. Yn goch ei wisg a gwelw ei rudd,
   Yng nghanol galar gwragedd prudd.

2. Arweinir Crist trwy'r ddinas fawr,
   Dan bwys ei groes ar syrthio i lawr.

3. Ond wrth y porth daw cymorth un
   I ddwyn y baich nas gall ei Hun.

4. Ac eto leied rhan o bwn,
   A baich y Groes a gynnal hwn!

*Rhan II – Y Croeshoeliad*

5. Nesawn at Galfaria, yng nghrog ar y pren,
   Dyrchafwyd y Cyfiawn rhwng daear a nen.

6. Mab Duw sydd yn dioddef dros bechod y dyn,
   Ar bren melltigedig y Groes wrtho'i Hun,

7. O Gariad anfeidrol, pwy fesur ei faint?
   Darllenwn, myfyriwn, mawrygwn y fraint.

8. Pa lygaid heb ddagrau a all edrych ar hyn?
   Pa galon mor galed na thodda yn llyn?

*Rhan III - Golygfeydd y Cur*

9. Yn nes edrychwn i'r olygfa drist
   Y Groes, ei phoen, a'r ing, oddefa Crist.

10. Y Goron ddrain, gweliau, ffrydiau gwaed,
    Ei fynwes friw, Ei ddwylaw Ef, a'i draed!

11. Clyw! Mae'n gweddïo dros ei leiddiaid câs.
    Ei Groes a drydd i'r lleidr yn orsedd gras.

12. Cysura'r fam drallodus ger ei fron.
    I ofal disgybl annwyl dyry hon.

*Rhan IV – Y Tywyllwch*

13. Mae'r ymdrech yn galed, mae'r nefoedd yn duo,
    Y ddaear yn crynu, a'r creigiau'n ymddryllio.

14. Mab Duw sydd yn dioddef a natur yn gruddfan,
    Tywelltir ffiolau digofaint oll allan.

15. Nid oes all ddyfalu llym chwerwder ei boenau,
    Neu blymio dyfnderoedd, môr mawr ei ofidiau.

16. Ond clyw! O'r pellterau atseinia 'Gorffennwyd'
    Mae Crist yn orchfygwr, ein dyled a dalwyd.

*Rhan V – y Nawfed Awr*

17. Tywyllwch Calfaria yn wlith-wlaw a droes,
    Dychmygaf weld enfys yr hwyr uwch y Groes.

18. A gwên yn ymdaenu yn dyner mewn hedd,
    A'r wyneb oedd salw a gwelw ei wedd.

19. Yn mhell o'r dyfnderoedd yn agos i ddrws
    Pyrth angau, cyfoda rhyw atsain sydd dlws.

20. Llais enaid o ingoedd yn cael ymryddhâd
    Gyflwyna ei hunan i ofal y Tad.

---

49 Ellis Roberts (Ellis Wyn o Wyrfai), Hanes y Groes (London, 1891)

50 gw. Emynau'r Llan (Dinbych, 1997), rhif 91

51 gw. Emynau Hen a Newydd (Bangor, 1954), rhif 509

*Cyfansoddwr a chyfieithydd emynau*

Ceir 39 o gyfansoddiadau gwreiddiol a chyfieithiadau gyda'r llythrennau E.R. wrth eu hymyl yn Hymnau yr Eglwys. Mae dyddiadau'r emynau a gyfieithodd yn rhychwantu deuddeg canrif o'r traddodiad emynyddol Cristnogol. Emyn yn yr iaith Roeg o'r wythfed ganrif gan Steffan o Saba yw'r cynharaf o'r emynau hyn. Mae'n dechrau ei emyn â'r llinell 'Κοπον τε και καματον', a throsodd J. M. Neale y rhain i'r emyn Saesneg adnabyddus 'Art thou weary, art thou languid?'[52]

Un arall a aeth ati i gyfieithu'r emyn hwn i'r Gymraeg oedd Syr John Morris-Jones, a chyhoeddwyd ei gyfieithiad ef yn Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid. Wrth edrych ar y fersiynau Cymraeg gyferbyn ag aralleiriad Neale, gwelir eu bod yn gyfieithiadau cyson a chywir o'r dehongliad Saesneg, a'r naill a'r llall yn cynnwys nodwedd neu ddwy sy'n eu gwneud yn fwy na dim ond cyfieithiadau llythrennol.

| **Cyfieithiad Saesneg J. M. Neale**[53] | **Cyfieithiad Ellis**[54] | **Cyfieithiad J. Morris-Jones**[55] |
|---|---|---|
| Art thou weary, art thou languid,<br>Art thou sore distressed?<br>"Come to Me," says One, "and coming,<br>Be at rest." | Ai lluddedig wyt ac egwan?<br>Gwrando, geilw Crist –<br>"Tyred ataf, cei orffwysfa,<br>Enaid trist." | Wyt ti'n llwythog a blinderog<br>Wyt ti'n llesg a chlaf?<br>"Ataf tyrd," medd Un, "a'th ofid<br>Esmwythâf." |
| Hath He marks to lead me to Him,<br>If He be my Guide?<br>In His feet and hands are wound prints<br>And His side. | A oes ganddo nodau i'm harwain<br>Dan fy nghur a'm loes?<br>"Yn ei ddwylaw, traed, ac ystlys-<br>Clwyfau'r groes." | A oes nodau i'w adnabod,<br>Os f'Arweinydd yw?<br>"Mae'n ei draed a'i ddwylo a'i ystlys<br>ôl ei friw." |
| Hath He diadem, as monarch,<br>That His brow adorns?<br>Yes, a crown in very surety,<br>But of thorns. | Ar ei ael Ef megis Brenin<br>Welir coron gain?<br>"Gwelir coron – coron diau,<br>Ond o ddrain." | Ar ei ben, os Ef yw 'Mrenin,<br>A oes goron gain?<br>"Ar ei ben yn wir mae coron –<br>Coron ddrain." |
| If I find Him, if I follow,<br>What His guerdon here?<br>Many a sorrow, many a labour,<br>Many a tear. | Os caf afael arno a'i ddilyn,<br>Beth yw'r wobr yn awr?<br>"Gofid mynych, mynych ddagrau,<br>Llafur mawr." | Os ei gael a wnaf, a'i ddilyn,<br>Beth fydd yma i mi?<br>"Mynych alar, mynych lafur,<br>Mynych gri." |

52 www.cyberhymnal.org/htm/a/r/artthouw.htm

53 *ibid*

54 Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892)

55 Llyfr Emynau a Thonau (Caernarfon, 1929), rhif 543

| | | |
|---|---|---|
| If I still hold closely to Him,<br>What hath He at last?<br>Sorrow vanquished, labour ended,<br>Jordan passed. | Os af gydag Ef trwy'r cyfan,<br>Beth geir wedi hyn?<br>"Diwedd gofid, diwedd llafur,<br>Croesi'r glyn." | Os parhaf i lynu wrtho,<br>Beth fydd im rhagllaw?<br>"Diwedd galar, diwedd llafur,<br>Glanio draw!" |
| If I ask Him to receive me,<br>Will He say me nay?<br>Not till earth and not till Heaven<br>Pass away. | Os gofynnaf iddo'm derbyn,<br>Ai fy ngwrthod wna?<br>"Cyn y'th wrthyd, nef a daear<br>Heibio â." | Os gofynnaf iddo 'nerbyn,<br>A warafun Ef?<br>"Na wna byth, nes myned heibio<br>Ddaer a nef." |
| Finding, following, keeping, struggling,<br>Is He sure to bless?<br>Saints, apostles, prophets, martyrs,<br>Answer, Yes! | Wedi'r canlyn, glynu, ymdrech,<br>Rydd Ef wobr ryw ddydd?<br>"I ni cwmwl mawr o dystion<br>Etyb, Rhydd." | A oes dilys fendith ganddo<br>Wedi'r cyni a'r loes?<br>"Sant, apostol, proffwyd, merthyr<br>Etyb 'Oes!' " |

Mae naws mwy anffurfiol i bennill cyntaf John Morris-Jones, ac mae'n glynu'n nes at y gwreiddiol nag Ellis – ychwanegiad ganddo ef yw 'Gwrando, geilw Crist' yn yr ail linell. Unwaith eto, mae ail bennill Ellis yn crwydro oddi wrth y gwreiddiol, ond mae 'clwyfau'r groes' yn ddiweddglo mwy taclus ar ôl y cyfeiriadau at 'ddwylaw, traed, ac ystlys'. Mae eu cynigion ar gyfieithu penillion 3, 4 a 5 yn debyg i'w gilydd – atseinir 'coron' deirgwaith gan y ddau gyfieithydd Cymraeg, a 'mynych' yn y pennill canlynol ddwywaith gan Ellis a theirgwaith gan Morris-Jones i adleisio'r deirgwaith y mae 'cross' a 'many' yn ymddangos yng ngwaith Neale. Ond ar ddiwedd pennill 5, mae llinell glo Ellis, 'croesi'r glyn', yn rhagori ar 'glanio draw'. Er nad yw'r cyfieithiad yn cyfateb air am air â'r Saesneg, mae'n dangos gallu i ddefnyddio cyfeiriadaeth Feiblaidd gynnil at Lyn Cysgod Angau. Unwaith eto, mae'r 'cwmwl mawr o dystion' ar ddiwedd yr emyn yn fwy cynnil na chyfieithiad uniongyrchol Morris-Jones o 'Sant, apostol, proffwyd, merthyr'.

Fersiwn Saesneg Neale yn ddiau oedd sylfaen cyfieithiadau'r ddau Gymro. Dywedir nad oedd cyfieithiad Neale yn driw iawn i'r gwreiddiol,[56] ond pe bai Ellis wedi dymuno cyfeirio at y gwreiddiol, mae'n hysbys fod ganddo afael dda ar yr iaith Roeg, ac mae llythyr yn llawysgrifen Deon Edwards, Bangor yn cadarnhau ei farn yntau fod ganddo fwy na dim ond gafael lac ar yr iaith.[57]

56 www.cyberhymnal.org/htm/a/r/artthouw.htm : 'Neale later said these lyrics contained little of the original Greek version.'

57 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrif Anthropos 28

Nid emyn Steffan o Saba oedd yr unig gysylltiad â gwaith J. M. Neale yn Hymnau yr Eglwys. Ac yntau dan gyfaredd Mudiad Rhydychen, aeth yr offeiriad hwn ati i atgyfodi nifer fawr o ganiadau Lladin hynafol yr eglwys, gan eu cyflwyno ar fydr ac odl Saesneg i gynulleidfaoedd ei ddydd. Dywed Brynley F. Roberts yn ei arolwg o Emynau Ewrop yn y Gymraeg mai 'digon prin yw'r cyfieithiadau o'r Lladin yn llyfr Elis Wyn o Wyrfai, Hymnau yr Eglwys (1892).'[58] Er hynny, ymysg y dyrnaid sydd rhwng y cloriau, ceir y cyfieithiad o'r tair rhan a drosodd Neale o emyn Lladin Bernard o Cluny, ynghyd ag un arall a droswyd o waith Thomas o Aquinas.

Roedd cyndeidiau Bernard yn hanu o Brydain, ond fe'i ganwyd ym Morlais yn Llydaw. Fe gysylltir ei enw fynychaf â thref Cluny ym Mwrgwyn gan iddo fod yn fynach yno am oddeutu deng mlynedd ar hugain. Un emyn o'i eiddo a oroesodd, ond ei fod, dan y teitl 'De Contemptu Mundi' yn dair mil o linellau, ac yn cael ei gyfrif ymysg 'saith emyn mawr Lladin' y canol oesoedd cynnar.[59] Talfyrrwyd ei waith i oddeutu can llinell, a'i gyflwyno dan y teitl 'Laus Patriae Coelestis' gan Archesgob Trench o Ddulyn, ac o'r detholiad hwnnw y lluniodd Neale y fersiynau a droswyd yn dri emyn Cymraeg.[60] Mae 'Byr yma yw ein bywyd', 'Amdanat, fro fendigaid' a 'O Salem, euraid ddinas' yn ymddangos un ar ôl y llall yn Hymnau yr Eglwys, ac fe gawsant eu cynnwys hefyd yn y casgliad uchel-eglwysig Emynau'r Eglwys yn 1941.

Mae'r cyfieithiadau eto'n amlwg yn seiliedig ar fersiynau Saesneg Neale, gyda chyfatebiaeth glòs rhwng llinellau fel 'Byr yma yw ein bywyd, / Byr ofal, ysgafn gur' a 'Brief life is here our portion, / brief sorrow, short lived care' ac 'O Salem, euraid ddinas, / O fêl a llaeth yn lli' a 'Jerusalem the golden, with milk and honey blest'. Mesur pedair llinell 7.6. a gynigir ar gyfer 'Byr yma yw ein bywyd' yn Hymnau yr Eglwys, ond rhennir 'Amdanat, gartref nefol' ac 'O Salem, euraid ddinas' yn bedwar pennill o wyth llinell yr un, i ddilyn mesur 7.6.D. Mae modd canu'r cyfan ar y mesur

58 Brynley F. Roberts, 'Emynau Ewrop yn y Gymraeg: Arolwg', *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru* 3, rhif 4-5, (1995-96), t.162

59 David R. Breed, The History and use of Hymns and Hymn-tunes (New York, 1903), t.27

60 gw. www.bartleby.com/223/0620htm : The Cambridge History of English and American Literature in 18 Volumes (1907–21). Volume XIII. The Victorian Age, Part One. VI. Lesser Poets of the Middle and Later Nineteenth Century. § 20. Neale.

sengl neu'r mesur dwbl, gan fod Hymnau Daniel Evans wedi trefnu 'Amdanat, gartref nefol' fel pedwar pennill wyth llinell yr un, a golygyddion Emynau'r Llan hefyd wedi dewis yr un ffurf ar gyfer 'O Salem, euraid ddinas' (neu'r amrywiad 'Caersalem, euraid ddinas', a bod yn fanwl gywir).

Yr emyn Lladin arall a gyfieithodd Ellis oedd 'Adoro Te Devote' gan Thomas o Aquinas. Cafodd trosiad Saesneg James R. Woodford, 'Thee we adore, O hidden Saviour, Thee', ei gyhoeddi yn Hymns Ancient and Modern yn 1850.[61] Cyhoeddwyd 'Addolwn di Iachawdwr, yma'n gudd' yn Hymnau yr Eglwys ac yn Emynau Hen a Newydd, ac fe'i ceir ymysg yr emynau sy'n addas i'w canu yn ystod y Cymun Bendigaid yn y cyfrolau hynny. Mae'n gyfieithiad sy'n crwydro oddi wrth y gwreiddiol weithiau, gyda rhai enghreifftiau fel 'gwerthfawr angau' yn adlais ar bwrpas o adran y Cymun Bendigaid yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Byddai'n well pe bai wedi cadw at 'ffydd a'n cariad' yn lle 'ffydd a'n gobaith' ym mhennill 3, gan fod 'gobaith' yn cael ei ailadrodd yn y llinell ganlynol yn y man priodol i adleisio 'hope', ond mae'r diweddglo'n effeithiol iawn, wrth gyfeirio at Efengyl Ioan 2:14, pan dawelodd Iesu feddyliau ei ddilynwyr wrth ddweud 'Yn nhŷ fy nhad y mae llawer o drigfannau'.

| **Cyfieithiad Saesneg James R. Woodford**[62] | **Cyfieithiad Ellis**[63] |
|---|---|
| Thee we adore, O hidden Savior, Thee,<br>Who in Thy sacrament dost deign to be;<br>Both flesh and spirit at Thy presence fail,<br>Yet here Thy presence we devoutly hail. | Addolwn Di, Iachawdwr, yma'n gudd;<br>I'th eglur weled, agor lygad ffydd,<br>Fel gallom ni a blygwn wrth dy draed<br>Ymborthi ar dy ddirgel Gorff a'th Waed. |
| O blest memorial of our dying Lord,<br>Who living Bread to men doth here afford!<br>O may our souls forever feed on Thee,<br>And Thou, O Christ, forever precious be. | Diolchus gof o'i werthfawr angau Ef,<br>Y Bara bywiol ddaeth i lawr o'r nef;<br>Ar hwn ymborthed ein heneidiau byth,<br>A Thi, O! Grist, addolwn yn ddi-lyth. |
| Fountain of gladness, Jesu, Lord and God,<br>Cleanse us, unclean, with Thy most cleansing blood;<br>Increase our faith and love, that we may know<br>The hope and peace which from Thy presence flow. | Tragwyddol Fab y Tad, y ffynnon gaed<br>I olchi'r aflan, pura ni â'th Waed;<br>Cryfha ein ffydd a'n gobaith, a mwynhawn<br>Yr hedd a'r gobaith ynot Ti sy'n llawn. |
| O Christ, Whom now beneath a veil we see,<br>May what we thirst for soon our portion be,<br>To gaze on Thee unveiled, and see Thy face,<br>The vision of Thy glory and Thy grace. | O! Grist, dan len y gwelwn eiliw gwan<br>O'th wyddfod yma - buan boed ein rhan<br>I'th weled Di heb len, a chael mwynhad<br>O'th bresenoldeb byth yn Nhŷ ein Tad. |

61 www.cyberhymnal.org/htm/t/w/twaohsat.htm

62 *ibid*

*Ei gyfieithiadau o emynau Saesneg*

Wrth edrych ar ei gyfieithiadau o'r Saesneg, gwelir amrediad o emynau sy'n cynrychioli ystod y traddodiad emynyddol Saesneg. Rhwng cyfieithiad o waith y pregethwr ymneilltuol Isaac Watts ac emyn Frederick Faber, y dylanwadodd Mudiad Rhydychen arno'n fawr, ceir wyth cyfieithiad arall ganddo o draddodiadau a chyfnodau digon amrywiol.

Seilio ei emyn ar Salm 90 a wnaeth Watts yn 'O[ur] God our help in ages past'. Cyfieithodd Ellis y geiriau Saesneg yn bur driw, ac mae'r cwpled sy'n cloi'r emyn yn gystal diweddglo os nad gwell na'r gwreiddiol. Mae'n plethu geiriau Crist i'r cwpled clo, sef y byddai gofyn i bawb a'i dilynai Ef 'gario eu croes'.[64]

| | |
|---|---|
| Be Thou our guard while troubles last,<br>And our eternal home. | Bydd geidwad inni dan bob croes,<br>A'n bythol noddfa glyd. |

Penderfynodd golygyddion <u>Llyfr Emynau a Thonau</u> y Methodistiaid gynnwys trosiad y Parch. W.O. Evans o emyn Watts i'r Gymraeg.

| **Geiriau emyn Isaac Watts**[65] | **Cyfieithiad Ellis**[66] | **Cyfieithiad W.O. Evans**[67] |
|---|---|---|
| Our God, our help in ages past,<br>Our hope for years to come,<br>Our shelter from the stormy blast,<br>And our eternal home. | O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,<br>A'n gobaith tra bo byd;<br>Ein cysgod dan bob tymestl groes,<br>A'n bythol noddfa glyd. | O! Dduw, ein nerth mewn oesoedd gynt,<br>Ein gobaith wyt o hyd,<br>Ein lloches rhag ystormus wynt,<br>A'n bythol gartref clyd. |
| Under the shadow of Thy throne<br>Thy saints have dwelt secure;<br>Sufficient is Thine arm alone,<br>And our defence is sure. | Dan gysgod dy orseddfa bu<br>Preswylfa'r saint mewn hedd;<br>Digonol yw dy fraich o'n tu,<br>A golwg ar dy wedd. | Dan gysgod dy orseddfainc Di<br>Cawn drigo'n dawel byth ;<br>Digonol yw dy fraich i ni;<br>Fe'n ceidw yn ddi-lyth. |

63 <u>Hymnau yr Eglwys</u> (Caerfyrddin, 1892), rhif 334

64 Luc 14:27

65 <u>www.cyberhymnal.org/htm/o/g/ogohiap.htm</u>

66 <u>Hymnau yr Eglwys</u> (Caerfyrddin, 1892), rhif 287

67 <u>Llyfr Emynau a Thonau</u> (Caernarfon, 1929), rhif 52

| | | |
|---|---|---|
| Before the hills in order stood,<br>Or earth received her frame,<br>From everlasting Thou art God,<br>To endless years the same. | Cyn llunio ffurf un hanfod byw,<br>Na gosod seiliau byd,<br>O dragwyddoldeb ti wyt Dduw,<br>Parhei yr un o hyd. | Cyn trefnu'r bryniau uwch y lli,<br>Cyn llunio llwch y byd,<br>O dragwyddoldeb Duw wyt Ti,<br>Parhei yr un o hyd. |
| Thy Word commands our flesh to dust,<br>"Return, ye sons of men:"<br>All nations rose from earth at first,<br>And turn to earth again. | | Yn d'olwg Di daw oesoedd maith<br>Fel hwyrddydd byr i ben;<br>Fel gwyliadwriaeth nos mae'u taith,<br>Cyn codi haul y nen. |
| A thousand ages in Thy sight<br>Are like an evening gone;<br>Short as the watch that ends the night<br>Before the rising sun. | Mil o flynyddoedd yn dy ŵydd<br>Fel doe yn cilio sydd,<br>Neu fore wyliadwriaeth fer<br>Yn darfod gyda'r dydd. | |
| The busy tribes of flesh and blood,<br>With all their lives and cares,<br>Are carried downwards by the flood,<br>And lost in following years. | | Mae prysur lwythau'n daear ni,<br>A'u llafur oll ynghyd,<br>Yn myned heibio gyda'r lli<br>I fôr tragwyddol fyd. |
| Time, like an ever rolling stream,<br>Bears all its sons away;<br>They fly, forgotten, as a dream<br>Dies at the opening day. | Dwg amser fel llifeiriant cryf<br>O'i flaen holl oesau'r llawr;<br>Yn angof ânt, fel breuddwyd brau<br>Diflannant gyda'r wawr. | Dwg amser, fel llifeiriant cry',<br>Ei blant i gyd i lawr;<br>Ehedant ymaith fel y ffy<br>Y breuddwyd gyda'r wawr. |
| Like flowery fields the nations stand<br>Pleased with the morning light;<br>The flowers beneath the mower's hand<br>Lie withering ere 'tis night. | | |
| Our God, our help in ages past,<br>Our hope for years to come,<br>Be Thou our guard while troubles last,<br>And our eternal home. | O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,<br>A'n gobaith tra bo byd,<br>Bydd geidwad inni dan bob croes,<br>A'n bythol noddfa glyd | O! Dduw, ein nerth mewn oesoedd fu,<br>Ein gobaith am a ddaw,<br>Bydd inni yma'n noddfa gu,<br>A chartref bythol draw. |

Cyfieithodd y ddau ohonynt benillion 1, 2, 3, 7 a 9 y fersiwn Saesneg lawn, gydag Ellis yn dewis cynnwys pennill 5 yn ei gyfieithiad ef, a W.O. Evans yn dewis cynnwys penillion 4 a 6. Nid yw cyfieithiad Ellis 'ym mhob oes' yn cyfateb yn union i 'ages past', ac mae cwpled agoriadol W.O. Evans yn fwy triw i'r gwreiddiol, yn enwedig yn y modd y mae'n adleisio'r cydbwysedd rhwng cydnabod y gorffennol yn y llinell gyntaf a dyheu am y dyfodol yn yr ail linell sydd i'w weld yng ngeiriau Watts. Er hynny, gellid

dadlau bod llinell agoriadol Ellis yn ymgais i greu mwy o argraff, gan fod rhywbeth terfynol am 'nerth mewn oesoedd gynt', a gwell synnwyr o lywodraeth ddiderfyn, barhaol Duw yn 'ein cymorth ym mhob oes'. Un man gwan yng nghyfieithiad Ellis yw nad yw 'mil o flynyddoedd' yn gyfatebiaeth union i 'thousand ages' y fersiwn gwreiddiol. Er hynny, mae'r ddau gyfieithiad Cymraeg ar y cyfan yn gyfieithiadau teilwng o un o emynau enwocaf Watts.

Un o'r ychydig i glosio at gyfansoddi cynifer o emynau â Watts oedd Charles Wesley, ac efallai nad yw'n syndod bod Ellis wedi cyfieithu dau o'i emynau yntau. Gellid dadlau mai ei drosiad o drydydd pennill y garol 'Hark! The Herald Angels sing' yw'r enwocaf o'i holl gyfieithiadau erbyn heddiw, a dyma'r unig un sydd wedi ei gynnwys yn y gyfrol ryng-enwadol gyfoes Caneuon Ffydd. Priodolodd golygyddion Emynau'r Llan a'r Llawlyfr Moliant Newydd ddau bennill cyntaf y garol i Ellis hefyd, a hawdd gweld sut y digwyddodd hynny, gan ei fod wedi nodi prif lythrennau ei enw ei hun yn unig wrth y tri phennill yn Hymnau yr Eglwys. Erbyn heddiw, serch hynny, cydnabyddir mai Pedr Fardd a gyfieithodd fersiwn mwyaf cyffredin y pennill cyntaf, tra bo'r ail wedi ei drosi gan awdur anhysbys rywdro yn y cyfamser. Y pennill olaf yn unig a briodolir iddo bellach, a hwnnw a atgynhyrchir bron yn ddieithriad, oni ddefnyddir cyfieithiad Bardd Nantglyn a atgynhyrchwyd yn Emynau'r Llan.

**Trydydd pennill Wesley**[68]

Hail, the heaven-born Prince of Peace!
Hail the Son of Righteousness!
Light and life to all He brings
Risen with healing in His wings
Mild He lays His glory by
Born that man no more may die
Born to raise the sons of earth
Born to give them second birth
Hark! The herald angels sing
"Glory to the newborn King!"

**Cyfieithiad Ellis**[69]

Henffych, T'wysog heddwch yw;
henffych, Haul Cyfiawnder gwiw:
bywyd ddwg, a golau ddydd,
iechyd yn ei esgyll sydd.
Rhoes i lawr ogoniant nef;
fel na threngom ganwyd ef;
ganwyd ef, O ryfedd drefn,
fel y genid ni drachefn!
Clywch lu'r nef yn seinio'n un,
henffych eni Ceidwad dyn!

**Cyfieithiad Bardd Nantglyn**[70]

Henffych well, dywysog hedd,
Haul cyfiawnder, hyfryd wedd:
Mae'n rhoi bywyd pur a rhad,
yn ei esgyll mae iachâd.
Daeth i'r byd mewn agwedd gwas,
Tynnodd golyn angau cas,
Meibion daear gododd ef
Ac a'u gwnaeth yn feibion nef.
Clywch lu'r nef yn seinio'n un,
henffych eni Ceidwad dyn!

68 Hymns Ancient and Modern New Standard (London, 1983), rhif 35

69 Caneuon Ffydd (Caerdydd, 2001) rhif 452

70 Emynau'r Llan (Dinbych, 1997) rhif 29

Gwelir bod y ddau gyfieithiad yn agos iawn at eiriau Wesley. Mae ambell newid bychan fel y personoli yn 'fel na threngom / that man no more may die', a 'fel y genid ni drachefn / to give them second birth', i'w canmol, gan ei fod yn emyn y mae cynulleidfaoedd wrth eu bodd yn ei ganu. Yn ogystal, mae 'bywyd ddwg, a golau ddydd, / iechyd yn ei esgyll sydd' yn fwy barddol na chynnig anffurfiol Bardd Nantglyn, 'Mae'n rhoi bywyd pur a rhad / yn ei esgyll mae iachâd'. Gellid dadlau ar y llaw arall bod nodweddion yng nghyfieithiad Bardd Nantglyn yn rhagori ar gynnig Ellis, fel y cwpled idiomatig, 'Daeth i'r byd mewn agwedd gwas, / Tynnodd golyn angau cas,' a 'Meibion daear gododd ef / Ac a'u gwnaeth yn feibion nef', sy'n cadw'n fwy clòs at y gwreiddiol, ond yn swnio'n naturiol iawn ar yr un pryd.

Yn ei drosiad o emyn gorymdeithiol Charles Wesley, 'Solidiers of Christ, Arise', sef 'Cyfodwch filwyr Crist', mae Ellis yn cynnig fersiwn cryno o'r emyn chwe phennill ar hugain a ganodd Wesley yn seiliedig ar yr Epistol at yr Effesiaid 6:10-18. Llwyddodd Ellis i weu sawl cyfeiriad Beiblaidd fel 'holl arfogaeth Duw' i'r mesur gwreiddiol, ynghyd ag ymadroddion fel 'yn fwy na choncwerwyr' o ddarn o'r un anian o'r Epistol at y Rhufeiniaid.[71] Mae ei gyfieithiad yn cyfateb i'r talfyriad pum pennill a ymddangosodd yn Hymns Ancient and Modern, ac mae'r cyfieithiad eto'n un sy'n driw i'r gwreiddiol.

| **Geiriau Charles Wesley**[72] | **Cyfieithiad Ellis**[73] |
|---|---|
| Soldiers of Christ, arise,<br>and put your armour on,<br>strong in the strength which God supplies,<br>through His eternal Son; | Cyfodwch, filwyr Crist,<br>A gwisgwch arfau'r nef,<br>Yn gryfion trwy ei ddwyfol nerth,<br>A'r Iawn a dalodd ef. |
| Strong in the Lord of Hosts,<br>and in His mighty power:<br>who in the strength of Jesus trusts<br>is more than conqueror. | Hy trwy alluog nerth<br>Ein Hiôr a'n cadarn Ri,<br>Mwy na choncwerwyr fyddwn oll,<br>Trwy Grist a'n carodd ni. |

71 yr Epistol at y Rhufeiniaid, 8:38 yn Y Bibl Cyssegr-Lan (Llundain, 1620, a fersiynau hyd at 1988) "Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr..." – geiriad Y Beibl Cymraeg Newydd yw "Ond yn y pethau hyn i gyd yr ydym yn ennill buddugoliaeth lwyr..."

72 Hymns Ancient and Modern New Standard (London, 1983), rhif 219

73 Emynau yr Eglwys (Caerdydd, 1941), rhif 365

| | |
|---|---|
| Stand then in His great might,<br>with all His strength endued;<br>and take, to arm you for the fight,<br>the panoply of God. | Ymnerthwch ynddo ef -<br>Ei ras, digonol yw;<br>Ymwisgwch cyn wynebu'r maes<br>Yn holl arfogaeth Duw. |
| From strength to strength go on,<br>wrestle and fight and pray;<br>Tread all the powers of darkness down<br>and win the well-fought day; | Ymlaen o nerth i nerth,<br>Trwy ymdrech, gweddi a ffydd,<br>Gan fathru gallu'r fall dan draed,<br>Nes cyflawn gario'r dydd. |
| that, having all things done,<br>and all your conflicts passed,<br>Ye may o'ercome, through Christ alone,<br>and stand entire at last. | Fel pan fo'r dydd ar ben,<br>Heb orfod brwydro'n hwy,<br>Y caffom oll yn haeddiant Crist,<br>Dragwyddol goron mwy. |
| | Iesu, dragwyddol Fab,<br>Dyrchafwn fawl i ti,<br>Sydd, gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân,<br>Yn Dduw, yr Un yn Dri. |

Byddai rhai'n ei gweld yn rhyfedd ei fod yn gallu cyfieithu emyn a soniai am 'D'wysog heddwch' ar un llaw a milwriaeth ar y llaw arall, ond dyma brawf o'i ymwybyddiaeth o ba emynau y byddai cynulleidfaoedd yn dymuno eu canu, a'r angen i gael amrediad o bynciau mewn llyfr emynau llwyddiannus. Os oedd gan Charles Wesley emynau poblogaidd ar gyfer achlysuron heddychol a milwrol, yna ni welai ddim o'i le mewn cyfieithu'r ddau emyn ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg.

Sylwer hefyd fel yr ychwanegodd bennill ei hunan i gloi ei drosiad. Dyma'r unig dro iddo wneud hyn, ond y mae penillion clo sy'n cyfeirio at y Drindod Sanctaidd yn gyffredin iawn – gweler 'Yn fore Arglwydd clyw fy llef' (Dafydd Jones, Caeo); 'Clywch yr eglur lais yn galw' (Anhysbys), ac aralleiriad Nicander o Salm 23, 'Yr Arglwydd yw fy mugail clau'.

Roedd cyfnod Wesley yn gyfnod prysur o genhadu ym Mhrydain a thramor. Cafodd Charles a'i frawd John Wesley gymorth Edward Perronet yn eu cyfarfodydd pregethu, a chafodd yr emyn enwocaf o'i eiddo yntau ei drosi i'r Gymraeg gan Ellis. 'All hail the power of Jesus' name', yw llinell gyntaf y gwreiddiol, ac mae'n dechrau gyda'r llinell 'Henffych i Enw Iesu gwiw' yn Hymnau yr Eglwys, a 'Boed clod i Enw Iesu gwiw' yn Emynau'r Eglwys. Cyfieithwyd yr emyn i nifer o ieithoedd, a chymaint yw ei

boblogrwydd fel y'i gelwir gan rai yn 'anthem answyddogol tiroedd Cristnogol'.[74] Troswyd yr emyn gan o leiaf ddau arall i'r Gymraeg hefyd – mae gwaith Ieuan Glan Geirionnydd yn Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid[75], a throsiad William Griffiths, Glan Dŵr yn ymddangos ychydig yn ddiweddarach yn yr un gyfrol, gyda phennill atodol ar ei diwedd gan Titus Lewis.[76] Teg fyddai dweud mai trosiadau yw'r tair ymgais Gymraeg – chwe phennill sydd gan Ieuan Glan Geirionnydd, pum pennill gan Ellis, a phedwar sydd yn y fersiwn arall – mae emyn gwreiddiol Perronet yn cynnwys wyth pennill, ac ychwanegwyd pennill arall atynt gan John Rippon yn 1787.[77] 'Coronwch Ef yn Ben' yw'r geiriau cofiadwy a ddefnyddiodd Ieuan i gyfleu 'crown Him Lord of all' y gwreiddiol, tra bo Ellis, William Griffiths, a Titus Lewis wedi defnyddio 'Yn Arglwydd pawb coronwch ef'.

Mae tebygrwydd rhwng y penillion a gyfieithodd William Griffiths ac Ellis, yn enwedig y cyntaf a'r olaf:

74 www.webedelic.com/church/hailf.htm

75 Llyfr Emynau a Thonau (Caernarfon, 1929), rhif 9

76 *ibid*, rhif 19

77 www.cyberhymnal.org/htm/a/h/ahtpojn.htm

| **Penillion o emyn Perronet**[78] | **Cyfieithiad Ellis**[79] | **Cyfieithiad William Griffiths**[80] |
|---|---|---|
| All hail the power of Jesus' Name!<br>Let angels prostrate fall;<br>Bring forth the royal diadem,<br>And crown Him Lord of all. | Henffych i Enw Iesu gwiw,<br>Syrthiwch o'i flaen, angylion Duw:<br>Rhowch iddo barch, holl deulu'r nef<br>Yn Arglwydd pawb coronwch ef. | Henffych i Enw Iesu gwiw,<br>Syrthied o'i flaen angylion Duw:<br>Rhowch iddo'r parch, holl dyrfa'r nef -<br>Yn Arglwydd pawb coronwch ef. |
| Ye seed of Israel's chosen race,<br>Ye ransomed from the fall,<br>Hail Him Who saves you by His grace,<br>And crown Him Lord of all. | Chwi saint trwy'r ddaear faith i gyd,<br>A brynwyd ganddo ef mor ddrud,<br>Cydunwch oll â theulu'r nef -<br>Yn Arglwydd pawb coronwch ef. | Chwychwi a brynwyd trwy ei waed,<br>Plygwch yn isel wrth ei draed,<br>Fe'ch tynnodd â thrugaredd gref:<br>Yn Arglwydd pawb coronwch ef. |
| Let every tribe and every tongue<br>Before Him prostrate fall<br>And shout in universal song<br>The crowned Lord of all. | Doed y cenhedloedd o bob iaith<br>Trwy holl derfynau'r ddaear faith,<br>I ganu'n llafar iawn eu llef -<br>Yn Arglwydd pawb coronwch ef. | Boed i bob llwyth a phob rhyw iaith<br>Trwy holl derfynau'r ddaear faith,<br>Gydganu'n llafar iawn eu llef -<br>Yn Arglwydd pawb coronwch ef. |

'Saint' a ddefnyddiodd Ellis i gyfleu'r syniad Iddewig am 'Israel's chosen race' a geir yn y gwreiddiol. Yn y pennill nesaf gan Perronet, cyfeirir at 'ye heirs of David's line', ond dim ond cyfeiriadau at y traddodiad Cristnogol a geir o un pen i'r llall yn nhrosiad Ellis.

Emyn gorymdeithiol neu genhadol arall a gyfieithodd Ellis oedd emyn enwog Reginald Heber, 'From Greenland's icy mountains.' Cynhwyswyd y cyfieithiad yn yr atodiad i lyfr Hymnau Canon Evans, Corris, ac yn fwyaf diweddar yn Emynau Hen a Newydd dri chwarter canrif yn ddiweddarach. Dywedir i Heber gyfansoddi'r emyn ar amrantiad yn ficerdy Wrecsam, pan oedd yn ymweld â phlwyf ei dad yng nghyfraith. Gofynnodd hwnnw iddo am emyn i'w ganu mewn gwasanaeth lle gwneid casgliad i'w anfon i'r SPCK, ac ymhen deng munud roedd y tri phennill cyntaf wedi eu llunio, a'r pedwerydd yn dod yn fuan wedyn. Os gwir yr hanes fod yr emyn deuddeg llinell ar hugain hwn wedi'i ysgrifennu mor chwim, yna rhaid ei restru gydag emynau byrfyfyr mwyaf

---

78 *ibid*

79 Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892), rhif 207

80 Llyfr Emynau a Thonau (Caernarfon, 1929), rhif 19

nodedig emynyddiaeth Saesneg. Yn sicr fe'i cyfrifir yn un o emynau cenhadol gorau'r iaith, ac mae'r cyfieithiad Cymraeg yn un sy'n gwneud cyfiawnder â'r gwreiddiol. Efallai nad yw clo'r pennill cyntaf yn wleidyddol dderbyniol heddiw, ond yn ei gyfnod bu mynd mawr ar y fersiynau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

| **Pennill cyntaf Heber**[81] | **Cyfieithiad Ellis**[82] |
|---|---|
| From Greenland's icy mountains,<br>from India's coral strand;<br>Where Afric's sunny fountains<br>roll down their golden sand:<br>From many an ancient river,<br>from many a palmy plain,<br>They call us to deliver<br>their land from error's chain. | O Greenland oer, fynyddig,<br>o draethau India fawr,<br>lle treigla dyfroedd Affrig<br>eu tywod aur i lawr,<br>o lawer gwlad ddyfradwy,<br>o lannau'r palmwydd gwyrdd,<br>erfyniant ein cynhorthwy<br>rhag coelgrefyddau fyrdd. |

Diweddariad John Morris-Jones o'r emyn a geir yn Emynau a Thonau y Methodistiaid,[83] sy'n dechrau â'r llinell 'O fryniau rhew'r Gogledd-dir'. Mae ei gwpled clo i'r pennill cyntaf yn rhagori ar gynnig Ellis, gyda'r cyfeiriad at waredigaeth yn cael ei adleisio'n union yn y llinellau 'Ein galw maent i'w gwared / O'u caeth gyfeiliorn hir.' Hepgorodd John Morris-Jones yr ail bennill yn ei ddiweddariad, ond mae ei drosiad o'r trydydd a'r pedwerydd pennill, fel cynnig Ellis, yn driw iawn i'r gwreiddiol. Gellid dadlau bod mwy o emosiwn yn 'Achubiaeth, O! Achubiaeth' Ellis na chynnig Morris-Jones, 'Cyhoedder, "Iechydwriaeth" ' fel cyfieithiad o 'Salvation, O! Salvation' ar ganol y pennill olaf ond un. At hynny, er bod cwpled clo Morris-Jones, 'Nes dysgu o'i chyrrau eithaf / Enw'r Meseia mawr' yn debycach i'r gwreiddiol, 'Till earth's remotest nation / has learned Messiah's name', mae'r angen am genhadaeth ac addysg barhaus yn cael ei gyfleu yn well yng nghynnig Ellis, 'Nes dysgo pob cenhedlaeth / Adnabod Iesu mawr.'

Mae dechrau'r pennill olaf, 'Ewch, wyntoedd, ewch â'i hanes' gan John Morris-Jones yn rhagori fymryn ar 'Ewch, wyntoedd, ewch â'r newydd' gan fod adrodd yr 'hanes' yn swnio'n fwy naturiol, er mai peth 'newydd' fyddai Iesu i sawl un y deuai'r cenhadon ar

81 www.cyberhymnal.org/htm/f/r/fromgrim.htm

82 Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892), rhif 277

83 Llyfr Emynau a Thonau (Caernarfon, 1929), rhif 410

eu traws, ond gwan iawn yw'r llinell ganlynol ganddo, sy'n defnyddio'r gair 'hwn' ('chwi ddyfroedd, cludwch hwn') fel gair llanw i odli â 'drwy'r byd yn grwn'. Cymaint yn well yw '...A chwithau, foroedd mawr, / Nes bo'i ogonawl gynnydd / Yn llenwi daear lawr' cyfieithiad Ellis.

Un arall o emynwyr enwog y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd Sabine Baring-Gould, a gyfansoddodd yr emyn gorymdeithiol enwog, 'Onward Christian Soliders'. Roedd hefyd yn nofelydd, yn hanesydd, yn gasglwr caneuon gwerin ac yn ieithydd rhagorol, ac iddo ef y mae'r diolch am yr unig gyfieithiad o'r Ddaneg, mae'n debyg, sy'n ymddangos yn nhraddodiad emynyddol Cymru.[84] Trosodd Baring-Gould emyn - Bernhardt Severin Ingemann, 'Igjennem Nat og Traengsel' i 'Through the night of doubt and sorrow', ac yn ei dro cyfieithodd Ellis y geiriau hynny i'r Gymraeg. Cenir yr emyn 'Trwy nos galar ac amheuon' hyd heddiw gan gynulleidfaoedd sy'n parhau i ddefnyddio Emynau'r Llan neu Atodiad y Methodistiaid. Mae'n debyg mai pris yr hawlfraint, yn arbennig pris hawlfraint y dôn, a olygodd nad yw'r emyn i'w gael yn Caneuon Ffydd.

Mewn dau le yn yr emyn hwn, llwyddodd Ellis i blethu delweddau Cymreig i mewn i'w gyfieithiad yn gynnil a llwyddiannus. Yn y pennill cyntaf, mae'n cyfleu bod y pererinion yn canu wrth fynd tua gwlad yr addewid, ond y mae hefyd yn adlais o'r ymadrodd Cymraeg 'mynd dan ganu', sy'n rhoi syniad o'u llawenydd wrth iddynt fynd ar eu taith:

Trwy nos galar ac amheuon
  Teithia pererinion lu,
Ânt dan ganu cerddi Seion
  Tua gwlad addewid fry.[85]

Mae adlais yma o'r salmau graddol, a genid gan bererinion pan oeddent yn dynesu at y deml, sef pen eu taith. Yr un wefr sydd yma ag a geir yn Salm 122, 'Yr oeddwn yn

84 Brynley F. Roberts, 'Emynau Ewrop yn y Gymraeg: Arolwg', *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru* 3, rhif 4-5, (1995-96), t.162

85 Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892), rhif 282

llawen pan ddywedasant wrthyf, "Gadewch inni fynd i dŷ'r Arglwydd." '[86], (neu o'i roi yn y geiriau llawer mwy rhythmig a geir yn y Llyfr Gweddi, 'Llawenychais pan ddywedent wrthyf : Awn i Dŷ'r Arglwydd.")

At hynny, yn nes at ddiwedd yr emyn, mae'n cyfieithu 'One the conflict, one the peril / One the march in God begun' fel 'Un yw'r ymdrech a'r peryglon, / Un yr ymdaith tua'r dref.' Yn ne-orllewin Cymru, mae'r ymadrodd 'mynd 'sha thre' yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddweud bod rhywun yn gwneud eu ffordd am adref, ac mae adlais o hyn i'w weld yma yn y ffordd yr oedd yn ystyried yr ymdaith fel taith am adref. Nid hwn yw'r unig dro iddo ddefnyddio delwedd o 'teg edrych tuag adref' ychwaith.

Emyn a genir ar y dôn 'Pilgrims' yw 'Hark, Hark, my soul!' gan Frederick Faber, a gwelir doniau Ellis ar eu gorau yn ei gyfieithiad ohono. Yn y cytgan, mae'n defnyddio delwedd Gymraeg sy'n rhoi'r fath naturioldeb i'r emyn fel y gellid anghofio'n hawdd mai cyfieithiad ydyw. Fel y dywedodd Enid Pierce Roberts wrth gymharu cyfieithiad Ellis ag un Ap Ceredigion, a oedd wedi ei gynnwys yn Emynau'r Eglwys:

> ...cymaint y rhagora
>
> "Engyl yr Iesu Engyl y wawr,
> Adre' sy'n galw llesg bererinion llawr."
>
> o'i eiddo ef [Ellis] ar eiddo'r llyfr newydd [h.y. Emynau'r Eglwys]–
>
> "Engyl yr Iesu Engyl y wawr,
> Canant eu croeso i blant y cystudd mawr."[87]

Er bod dehongliad Ap Ceredigion efallai'n nes at 'Singing to welcome the pilgrims of the night', clywir tinc yr ymadrodd 'teg edrych tuag adref' ac elfen o hiraeth unigryw'r Cymry yng nghyfieithiad Ellis. Yn yr un modd, mae cyfieithiad Ellis hefyd yn rhagori ar drosiad Keri Evans yn Emynau a Thonau y Methodistiaid, 'Canant eu croeso i deulu'r nos yn awr'.[88] Nid yw'r cyfieithiadau eraill yn canu mor naturiol â chynnig

---

86 Y Beibl Cymraeg Newydd, Salm 122, adnod 1

87 Enid Pierce Roberts, 'Y Llyfr Emynau', *Yr Haul* Trydydd Cyfres Caerfyrddin 5 (1942), t.316-20

88 Llyfr Emynau a Thonau (Caernarfon, 1929), rhif 237

Ellis, chwaith – mae'r tair 'c' galed yng nghyfieithiad Ap Ceredigion yn tarfu ar y llif, a gellid dweud yr un peth am y ddwy 'c' a'r 'd' yng nghyfieithiad Keri Evans. Hyd yn oed os oedd Ellis yn dweud yn wylaidd na wyddai ddim am gerddoriaeth,[89] roedd ganddo glust digon main i wybod beth oedd yn canu'n rhwydd a naturiol.

Yr hyn sy'n nodedig am yrfa Faber yw bod dylanwad Mudiad Rhydychen wedi ei arwain at Eglwys Rufain. Mae'n hynod felly bod emynau awduron anghydffurfiol ac 'isel-eglwysig' fel Watts, Wesley a Perronet wedi cael eu cyfieithu yr un mor barod â gwaith rhai fel Faber, a gyfareddwyd cymaint gan uchel-eglwysyddiaeth. Er gwaetha'r amrediad diwinyddol, cyfieithu emynau y gwyddai y byddent yn boblogaidd a wnaeth Ellis, a dewis cynnig y fath amrywiaeth fel bod rhywbeth i bawb yn ei lyfr emynau. Fel y nodwyd eisoes, dangosai'r trosiadau o waith Baring-Gould a Faber allu i weu delweddau Cymreig i gyfieithiadau a oedd hefyd yn driw i'r gwreiddiol - dawn y byddai pob cyfieithydd yn ei chydnabod yn un hollbwysig. Ni all llawer anghytuno â barn W. Eifion Powell ei fod 'yn gyfieithydd emynau dan gamp'.[90]

*Ei emynau ef ei hunan*

Ochr yn ochr â'i gyfieithiadau llwyddiannus, saif ei gyfansoddiadau ef ei hunan – nifer ohonynt fel y cyfieithiadau yn rhai cofiadwy a chanadwy. Ymhlith yr un ar hugain o emynau gwreiddiol Ellis a gyhoeddwyd mewn llyfrau emynau, mae naw ohonynt i'w cael yn Hymnau yr Eglwys yn unig.[91] Atgynhyrchwyd y deuddeg arall mewn mwy nag un gyfrol wedi iddo farw – deg ohonynt mewn cyfrolau eglwysig yn unig, tra bod y

---

89 gweler troednodyn 39 uchod - Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Llawysgrif 8270 - 94:25

90 W. Eifion Powell, 'Emynwyr Bro Maelor (1500 - 1900)', *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru* 2, rhif 1 (1977) t.8

91 *eu llinellau cyntaf yw:*
Duw, Tad y trugareddau, 'nawr
Mae'r gwaed dywalltodd Iesu
O Deuwch, wylwch gyda mi
O dlysaf o'r sêr sydd yn britho y nen (argraffiad 1886 yn unig)
Ti'r hwn fendithiaist fychain blant
Ti yr hwn, yn wael ei drem (argraffiad 1886 yn unig)
Tydi yr hwn breswyli
Y mae cenhadon nef yng nghyd
Yr hwn a roes enwaediad

ddau arall i'w cael yng nghyfrolau enwadau eraill hefyd.[92] Cafodd y mwyafrif o'i gyfansoddiadau gwreiddiol eu cyfansoddi ar gyfer achlysuron penodol, a daeth cyfansoddiadau emynwyr eraill i ddisodli rhai ohonynt mewn casgliadau diweddarach. Dyna un esboniad pam mai yn Hymnau yr Eglwys yn unig y cyhoeddwyd emynau fel 'Y mae cenhadon nef ynghyd', sy'n emyn ar gyfer Gŵyl Andreas, ac 'Yr hwn a roes enwaediad', sy'n cofio am enwaediad Crist. 'Crist a'n geilw!' gan Penfro, ac emyn Isfryn, 'Enw'r Iesu, dyna destun' (dan y teitl mwy sidét 'Gŵyl Enwi Iesu') sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer y gwyliau hynny yn Emynau'r Llan, ond ni fyddai'n deg barnu mai cyfansoddiadau israddol oedd rhai Ellis am nad atgynhyrchwyd hwy mewn cyfrolau eraill. Mae trydydd pennill yr emyn ar gyfer Gŵyl Sant Andreas, er enghraifft, yn gwneud galwad y disgybl cyntaf yn berthnasol i Gristnogion cyfoes:

O! am gael treulio un prynhawn
  Yng ngwyddfod Crist a'i glyw,
Nes, fel Andreas, ddod i'w lawn
  Adnabod ef yn Dduw.[93]

Nid yw'r ddau emyn a gyfansoddodd am y groes yn cyrraedd yr un safon â 'Mae'r gwaed a redodd ar y groes' Robert ap Gwilym Ddu ac 'Ai am fy meiau i' John Elias, ond mae rhinweddau i'w canmol yn 'Mae'r gwaed dywalltodd Iesu' ac 'O deuwch, wylwch gyda mi' hefyd. Er y byddai angen rhagymadrodd trylwyr i gyfiawnhau'r cyfeiriadau at 'gannu yr euog du yn wyn' heddiw (cymharer geiriau John Elias am olchi'r 'Ethiop du yn lân fel eira gwyn') mae'r penillion canlynol yn rhai cwbl ddiffuant, ac yn briodol iawn ar gyfer myfyrdodau Gwener y Groglith:

---

92 *eu llinellau cyntaf yw:*
Aeth heibio dydd o fawl
Angylion disglair rif y sêr
Anfon, Arglwydd, i'th gynhaeaf
Bu ryfedd gweled Brenin nef
Dros arw fôr, mewn chwerw hin
Hwn yw yr hyfryd fore ddydd *
O annwyl Geidwad, nos ni ddaw
O Dduw, preswylio'r ydwyt ti
Pryd y'n poenir gan elynion
Trwy amheuon, pryder, ofnau
Yng Ngweinidogaeth Eglwys Crist
Yn nodded gras y nef *
** = cyhoeddwyd mewn llyfrau emynau enwadau eraill*

93 Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892), rhif 403

Mae'r gwaed dywalltodd Iesu
  Ar ben Calfaria fryn,
Hyd byth yn dal i gannu
  Yr euog du yn wyn;
Fe ylch y llestri aflan
  Ddifwynodd gnawd a byd,
Fel llestri aur ac arian
  Yn eiddo Duw i gyd.[94]

O Deuwch, wylwch gyda mi,
At ystlys Iesu dan ei loes,
O, awn dan wylo â chwerw gri,
Mae Crist ein Harglwydd ar y groes.[95]

Pwy all beidio â ffoli hefyd ar y profiadau personol a gyflëwyd yn yr emyn canlynol a neilltuir yn Hymnau yr Eglwys ar gyfer gwasanaeth i ddathlu agor ysgol? Mae'n ddigon hawdd gweld mai athro sy'n canu yma, a gallai fod wedi cyfansoddi'r emyn mor gynnar â 1868, pan agorwyd Ysgol Genedlaethol newydd yn Llanfihangel Glyn Myfyr:

Ti'r hwn fendithiaist fychain blant,
  Gan eu cofleidio'n fwyn,
Ddywedaist wrth dy ddisgybl gynt
  Am borthi'r ieuainc ŵyn.

Tra crwydra'r praidd anialwch byd,
  Yn aml eu cur a'u cwyn,
Trwy'u taith beryglus ar ei hyd,
  Rhaid yw bugeilio'r ŵyn.

Ti Athro Da, 'r hwn ar y llawr
  A ddysgaist gynt mor fwyn,
Doethineb moes i ninnau'n awr
  I ddysgu ieuainc ŵyn.

Ti Fugail Da, 'r hwn ar y groes
  Oddefaist er eu mwyn,
Bydd gyda ninnau trwy ein hoes
  Yn hoff fugeilio'th ŵyn.

---

94 *ibid.*, rhif 337

95 *ibid.*, rhif 104

O'r ddau emyn sydd i'w cael yng nghasgliadau enwadau eraill yn ogystal â Hymnau yr Eglwys, yr un ar gyfer y Pasg a atgynhyrchwyd amlaf. Cyhoeddwyd 'Hwn yw yr hyfryd fore ddydd' yn Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid, Mawl yr Ifanc y Bedyddwyr, yn ogystal ag Emynau'r Eglwys ac Emynau'r Llan. Mae grym rhyfeddol o hyd yn rhai o'r penillion, gan gynnwys yr olaf sy'n debygol o fod yn cyfrif am ei boblogrwydd rhyng-enwadol.

Gwrandewch y nefoedd - ddaear clyw,
  Dy feirwon eto a fydd byw;
Preswylwyr llwch marwolaeth drist,
  Deffrowch a chenwch - cododd Crist.[96]

Cyhoeddwyd 'Yn nodded gras y nef' yn Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid[97] ac yn Hymnau yr Eglwys, a hynny yn yr adran ar yr Arglwydd Iesu Grist yn y naill, ac ymysg yr emynau cyffredinol yn y llall. Emyn i godi calon yw hwn ar yr olwg gyntaf:

  Yn nodded gras y nef
  Wynebwn ar y byd;
Nid ofnwn ei drallodion ef,
  Na'i demtasiynau i gyd.

Ond wedi dechrau mor gadarnhaol, mae'r ddau bennill olaf yn nodweddiadol o arfer yr oes o gyfeirio'n gyson at farwolaeth mewn emynau - cymharer y diweddglo ag emynau fel 'Ai marw raid i mi', 'Mae'm cyfeillion adre'n myned / O fy mlaen o un i un', ac â'i gyfieithiad ef ei hunan, 'Byr yma yw ein bywyd', sydd oll i'w gweld yn Hymnau yr Eglwys. Gwelodd Ellis freuder bywyd yn aml iawn yn Rhosymedre ac mae'n ddigon posib mai yno y dechreuodd feddwl am linellau fel y rhai canlynol:

  Yng nghwmni Iesu Grist
  Wynebwn angau prudd;
Try Ef y nos-gysgodau trist
  Yn hyfryd fore ddydd.

  Wynebwn ar y bedd
  Ond cael yr Iesu'n rhan,
Mewn gobaith deffro ar ei wedd,

96 *ibid.*, rhif 114

97 Llyfr Emynau a Thonau (Caernarfon, 1929), rhif 96

A chodi'n iach i'r lan.[98]

Wrth i'r arfer o ganu emynau mwy 'bywiog' ddod yn gyffredin, ni welodd golygyddion llyfrau emynau'n dda i atgynhyrchu 'Yn nodded gras y nef' ar ôl 1929.

Mae sawl perl ymysg ei emynau a gyhoeddwyd mewn casgliadau eglwysig yn unig. Ar un wedd, mae'r ffaith nad atgynhyrchwyd hwy yn llyfrau emynau'r Ymneilltuwyr yn brawf o'u priodoldeb i wyliau ac achlysuron a ddethlir yn amlach yn Eglwys Loegr. Yn Emynau Hen a Newydd ac Emynau'r Llan, atgynhyrchwyd yr emyn pum pennill ar gyfer Gŵyl Mihangel Sant a'r holl angylion, 'Angylion disglair rif y sêr', a hynny mae'n debyg ar sail cryfder y ddau bennill olaf sy'n mynegi'n syml obaith diffuant y Cristion am fywyd tragwyddol:

Dyrchafwn, gydag engyl nef,
  Ein mawl parhaus i Dduw;
Fel hwythau, gwasanaethwn ef
  Tra byddom yma'n byw.

Y llen sydd rhyngom, tynnir hon,
  A buan cawn ynghyd
Foliannu Duw â lleisiau llon
  Mewn rhyw ddedwyddach byd.[99]

Mae'n deg dweud serch hynny bod nifer o achlysuron fel Gŵyl Mihangel Sant a'r holl angylion wedi cael eu hesgeuluso gan yr Eglwys yn yr ugeinfed ganrif. Ni welodd casglyddion llyfrau emynau diweddar yn dda gynnwys fawr mwy nag un emyn yr un ar gyfer achlysuron fel cyflwyniad Crist yn y Deml, ond gan eu bod yn cael eu coffáu'n amlach ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfansoddodd Ellis emyn priodol iawn ar gyfer yr achlysur hwnnw. Er y gallai fod wedi cyfeirio at Simeon ac Anna, dewisodd ganolbwyntio ar gymharu'r seremoni gyflwyno â'r angen i Gristnogion gysegru eu bywydau i Dduw trwy Iesu:

Bu ryfedd gweled Brenin nef
  Ym mreichiau Morwyn dlawd;

98 Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892), rhif 232

99 *ibid.*, rhif 419

Yn nheml ei Dad cyflwynai Ef
Yn Faban yn y cnawd.

Daeth gydag Ef awelon byw
O dir Paradwys fry,
Fel blaen-dywalltiad Ysbryd Duw
Ar bawb o fewn y tŷ.

Ym Mherson Crist, dynoliaeth fawr
Gyflwynwyd oll i Dduw
Fel plant, i'w meithrin ar y llawr,
Ac iddo sanctaidd fyw.

O! Arglwydd grasol, caniatâ
Ein llwyr gyflwyno ni,
â phur galonnau, ufudd, da,
Trwy'r Iesu hwn i Ti.[100]

Mae ei emyn ar gyfer gwasanaethau'r hwyr, 'Aeth heibio ddydd o fawl' yn ffres o onest hefyd, wrth iddo gyfleu dyhead am brofiad tebyg i'r un a gafodd Eseia pan alwyd ef i broffwydo, neu'r disgyblion ar y Pentecost:

Llesg yma yw ein cân,
A blino'n moli wnawn;
Ond moliant pur y corau glân,
Mor wresog yw a llawn!

Ond os cyffyrddi, Iôr,
Â'n gwefus oer â thân,
Fe unwn ninnau'r nefol gôr
Mewn rhan o'r felys gân.[101]

*Yr emynau mwyaf adnabyddus*

Mae'r ffaith bod dros hanner ei emynau ef ei hunan, heb sôn am ei gyfieithiadau, wedi cael eu cynnwys gan olygyddion llyfrau emynau eraill, yn brawf bod ei emynau yn ganadwy, yn gofiadwy ac yn boblogaidd. Yr hyn sy'n eironig er hynny yw na welodd yn dda gyhoeddi'r tri emyn o'i eiddo sydd wedi dod yn fwyaf enwog yn ei lyfr emynau ef ei hunan. Gellir barnu mai gwyleidd-dra oedd y tu ôl i hynny, neu'r ffaith y byddent

100 *ibid.*, rhif 407

101 *ibid.*, rhif 17

wedi cael eu cyhoeddi yn yr atodiad a oedd ganddo ar y gweill. Beth bynnag fo'r gwir, gellid dadlau mai carol Nadolig a gyfansoddodd mor gynnar â 1870 yw'r enghraifft mwyaf adnabyddus o'i waith erbyn heddiw, gan mai honno yw ei unig gyfansoddiad gwreiddiol yn Caneuon Ffydd.

Dywed E. Wyn James yn Carolau a'u Cefndir mai yn Llanfihangel Glyn Myfyr, oddeutu 1870, yr ysgrifennodd Ellis 'Yn nhawel wlad Jwdea dlos'.[102] Disgrifia'r garol ymweliad yr angel â'r bugeiliaid fel y ceir yr hanes yn Efengyl Luc, ac mae geiriau'r neges dangnefeddus am enedigaeth Crist wedi'u plethu'n gelfydd i'r ail a'r trydydd pennill. Mae'r pedwerydd pennill yn ymhelaethu ar berthnasedd neges yr angylion i bawb, ac yn dangos sut y dylid ymateb i'r 'Efengyl' newydd a gaed ym Methlehem.

> Rhoed newydd dant yn nhelyn nef
> pan anwyd Iesu Grist,
> a thelyn aur o lawen dôn
> yn llaw pechadur trist:
> telynau'r nef sy'n canu nawr,
> "Ewyllys da i ddyn,"
> a chaned holl delynau'r llawr
> ogoniant Duw'n gytûn.[103]

Pan gynhelir priodasau yn yr eglwys, bydd parau o hyd yn troi at ei emyn 'O flaen yr allor sanctaidd, mor hardd yw'r mab a'r ferch', a chenir hi'n aml ar y dôn 'Endsleigh'. Ni wyddys dyddiad cyfansoddi'r emyn hwn, ond dyma un o ddau o'i gyfansoddiadau gwreiddiol a atgynhyrchir ym mhob un o gasgliadau mwyaf poblogaidd yr eglwys yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif – Emynau'r Eglwys, Emynau Hen a Newydd ac Emynau'r Llan. Yr un arall sy'n perthyn i'r categori dethol hwnnw yw 'O ryfedd hir amynedd Duw'.

Mae'n hawdd gweld pam nad atgynhyrchir 'O flaen yr allor sanctaidd' mewn llyfrau emynau Anghydffurfiol – ni fyddai'r cyfeiriadau at 'allor' nac 'offeiriaid' mor briodol mewn capel. Serch hynny, mae'r ail bennill yn llwyddo i gyfleu hapusrwydd diwrnod priodas gystal ag unrhyw emyn arall:

---

102 E. Wyn James, Carolau a'u Cefndir (Pen-y-bont ar Ogwr, 1989), t.24

103 Caneuon Ffydd, (Caerdydd, 2001), rhif 455

Llawenydd ddydd priodas,
  Mor felys yw ei gân,
Dechreuad pur gymdeithas
  O ddirgel undeb glân:
Pob peth yn seinio cariad,
  Fel ar y bore byw
Y dathlwyd gwaith y cread
  Gan lawen feibion Duw.[104]

Mae diweddglo'r emyn, sy'n cymharu priodas ag 'undeb ysbrydol, diwahân ... rhwng Crist a'i Eglwys Lân' yn drawiadol iawn – fel y datgana Ellis, mae uno deuddyn yn 'gysgod o gyfamod newydd rhad ... Tragwyddol Fab y Tad'.

Neilltuwyd 'O ryfedd hir amynedd Duw' ar gyfer Gŵyl Tröedigaeth Paul yn Emynau'r Llan, ac y mae'n dangos barn Ellis nad oedd neb wedi eu heithrio rhag gras Duw – hyd yn oed 'y prif erlidiwr cas', a drowyd 'yn bennaf un o lestri gras.' Mae ei natur gymodlon i'w gweld ar ei gorau yn y penillion canlynol:

O Arglwydd Iesu, rhwyga'r llen,
Ac o'r goleuni pur uwchben
Amlyger di, nes dychwel myrdd
O ddynion o'u drygionus ffyrdd.

Tafl eto olau dwyfol bryd
I ddyfnaf gelloedd nos y byd -
Nos rhagfarn - nos gelyniaeth ddu -
Llewyrched yno gariad cu.[105]

Un feirniadaeth ar ei emynau fel cyfangorff yw eu bod yn brin o brofiad personol. Ychydig iawn o sôn am yr hunan sydd yn ei emynau, ond gellid dadlau bod hynny'n adlewyrchu arfer ei oes. Tra canai Ann Griffiths bob amser am ei phrofiadau personol, llunio emynau'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd a wnaeth Ellis a sawl un arall o'i genhedlaeth. Ystyrier, er enghraifft, ddim ond y pedwar emyn o eiddo Ann Griffiths sy'n dechrau â'r llythyren 'a' – 'A raid **i'm** sêl, oedd farwor tanllyd'; 'Addurna'**m** henaid ar dy ddelw'; 'Am **fy mod i** mor llygredig'; 'Arogli'n beraidd mae **fy** nardus'.[106]

---

104 Emynau'r Llan (Dinbych, 1997), rhif 181

105 *ibid.*, rhif 209

106 E. Wyn James, Gwefan ddigidol Ann Griffiths - www.anngriffiths.cardiff.ac.uk/mynegai.html

Canu am ei theimladau ei hunan a wnâi Ann, ac nid ei bwriad oedd i gynulleidfaoedd ganu'r geiriau hynny. Mewn cymhariaeth, mae emynau Ellis yn cynnwys llinellau mwy cynhwysol fel 'Llesg yma yw **ein** cân' ac 'O! Arglwydd grasol, caniatâ / **Ein** llwyr gyflwyno **ni**'.[107] O blith ei gymheiriaid, dilynodd sawl un yr un patrwm, ac ystyrier emyn Gwilym Hiraethog, '**Cydganwn** foliant rhwydd', a phennill olaf emyn mawr John Roberts (Minimus), 'Bywha dy waith, O Arglwydd mawr / Yn **ein** calonnau **ninnau'n** awr'[108] i weld y newid hwn o'r '**fi**' i '**ni**' ar waith. Gwelir yr un duedd yng nghyfieithiadau Ellis hefyd – ystyrier 'Byr yma yw **ein** bywyd' ac 'O Dduw **ein** cymorth ym mhob oes' – y rhai cynhwysol a apeliai fwyaf ato. Ar ei ben ei hun y saif '**Fy** enaid clyw angylaidd dôn yn chwyddo'[109] ymysg ei gyfieithiadau. Dim ond ar adegau prin iawn y lluniodd emynau heb fod ganddo olwg ar lenwi bwlch yn narpariaeth yr Eglwys, a chynnig emynau i lawer eu canu a wnâi yn hytrach na chyfansoddi er bodloni dibenion personol.

Efallai'n wir mai'r llinellau olaf a gyfansoddodd, tua phythefnos cyn ei farwolaeth, sy'n dod agosaf at emyn wedi ei sylfaenu ar brofiad personol, wrth iddo fyfyrio ar flynyddoedd o godi'n fore i wasanaethu ei Arglwydd. Dyma'r ail bennill, a gyhoeddwyd mewn erthygl deyrnged iddo yn *Yr Haul*.

Codwch, peidiwch cysgu
  Fore'r cyntaf ddydd,
Bore-gododd Iesu
  Grist o'r bedd yn rhydd:
Bore-godwn ninnau
  Ar y wawrddydd lân,
Brysiwn i'w gynteddau
  Bawb â mawl a chân:
Trown ein cyntaf gamrau
  Tua'i gysegr Ef:
Rhown ein cyntaf oriau

---

107 'Aeth heibio ddydd o fawl' (rhif 17) a 'Bu ryfedd gweled Brenin nef' (rhif 407) yn Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892)

108 'Cydganwn foliant rhwydd' (rhif 357) a 'Bywha dy waith, O Arglwydd mawr' (rhif 131) yn Emynau'r Llan (Dinbych, 1997)

109 'Byr yma yw ein bywyd' (rhif 322), 'O Dduw ein cymorth ym mhob oes' (rhif 287) a 'Fy enaid clyw angylaidd dôn yn chwyddo' (rhif 280) yn Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892)

I wasanaeth Nef.[110]

Pe byddai wedi rhoi'r fath ryddid iddo'i hunan ynghynt, tybed a fyddai wedi cyfansoddi mwy o emynau mewn arddull o'r fath, ac wedi cael hyd yn oed mwy o enwogrwydd fel emynydd? Serch hynny, gyda phwysau arno i gyhoeddi Hymnau yr Eglwys yn brydlon pan oedd yn cyfieithu sawl un o'r emynau hyn, mae'n drawiadol ei fod wedi llwyddo i lunio trosiadau naturiol iawn a oedd lawn cystal â gwaith ei gymheiriaid, a rhai ohonynt lawer yn well na'r trosiadau eraill hynny.

Nid oedd ei emynau cyhoeddedig yn gwbl amddifad o brofiadau personol, fel y gwelid yn ei emyn i ddathlu agor ysgol, a cheir enghraifft amlwg arall yn ei emyn ar gyfer gwasanaethau ordeinio. Yn 'Anfon, Arglwydd, i'th gynhaeaf' mae'n cydnabod, ar sail profiad yn ddiau, yr her aruthrol sy'n wynebu pawb sy'n ymgymryd â gwaith Duw fel galwedigaeth oes. Mae hefyd yn cydnabod yr elfen bwysicaf un yng nghynhaliaeth offeiriad, sef gras Duw. Diau fod oes o brofiad mewn amgylchiadau digon anodd, a gyrhaeddodd benllanw yn helyntion y Degwm yn Llangwm, wedi golygu y gallai ganu'r geiriau canlynol o'r galon:

Dyro iddynt deimlo'u breintiau -
  Casglu perlau yn y byd;
Dangos iddynt werth eneidiau
  Yng ngoleuni'r Angau drud;
Rho amynedd, rho ddoethineb,
  Dyro ostyngeiddrwydd llawn,
Rho ddiwydrwydd a ffyddlondeb
  I gyflawni'r gwaith yn iawn.[111]

*Casgliad*

Yn Hymnau yr Eglwys, lluniodd Ellis ddetholiad eang ei apêl - un a adeiladodd ar lwyddiannau cynnar cyfrolau Daniel Evans ac Owen Jones a Shadrach Pryce. O fewn yr un gyfrol, rhoddodd yr uchel-eglwysig, emynau'r diwygiad Methodistaidd, goreuon salmau cân Edmwnd Prys, a'r gweithiau Cymraeg diweddaraf gyda'i gilydd i ffurfio casgliad cryno ond cynhwysfawr. Lle gwelai fwlch yn y calendr eglwysig, aeth ati i'w

110 Charles Ashton, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.164

111 Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892), rhif 357

lenwi ei hunan â chyfansoddiadau gwreiddiol a chyfieithiadau o emynau Saesneg poblogaidd ei ddydd. Er iddo lwyddo i sicrhau fod o leiaf un emyn ar gyfer pob gŵyl bwysig, cadwodd nifer yr emynau yn y gyfrol dan 450, a phrofodd ei gasgliad yn un hygyrch a llwyddiannus o ganlyniad. Tan y daeth Emynau'r Eglwys ac Emynau Hen a Newydd o'r wasg oddeutu canol yr ugeinfed ganrif, 'Llyfr Emynau Elis Wyn' oedd y mwyaf poblogaidd o lyfrau emynau Cymraeg yr eglwys o bell ffordd.

*Ôl-nodyn – diwedd cyfnod Hymnau yr Eglwys*

Y mae nifer yn fyw heddiw sy'n cofio diwedd cyfnod Hymnau yr Eglwys. Fel y nodwyd uchod, yn negawdau cynnar yr ugeinfed ganrif, y ddau lyfr emynau a oedd yn cael eu defnyddio yn eglwysi Cymru oedd Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru (yn esgobaeth Bangor yn bennaf), a Hymnau yr Eglwys wrth gwrs, a oedd yn gyffredin iawn yn esgobaethau Tyddewi a Llanelwy. Wedi i'r datgysylltiad ddod i rym yn 1920, ac wedi llunio Cyfansoddiad a gosod yr Eglwys newydd, cododd awydd am lyfr emynau newydd at wasanaeth y dalaith. Gyda hwn yn yr arfaeth, nid argraffodd esgobaeth Bangor ychwaneg o Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru, ac er mwyn sicrhau bod y llyfr taleithiol newydd (sef Emynau'r Eglwys) yn llwyddo, prynwyd hawlfraint Hymnau yr Eglwys. Felly y darfu am lyfr a fu'n gymaint o ffefryn cyn hynny – canlyniad awydd am lyfr newydd yn un peth, ond rhywbeth a ddigwyddodd o ganlyniad i'r datgysylltiad, sef rhywbeth y brwydrodd Ellis ei hunan yn ei erbyn.

**v – Llanaber, Llan Cwm Awen ac esboniadau ar yr Efengylau**

*Nes na'r hanesydd at y gwir di-goll*
*Ydyw'r dramodydd, sydd yn gelwydd oll.*[1]

Er mai ei emynau a'i waith fel golygydd *Yr Haul* ddaeth ag Ellis i amlygrwydd, ni ddylid anghofio am agweddau eraill ar ei waith llenyddol, fel ei ddwy nofel a'i gyfieithiadau o esboniadau Walsham How ar y pedair Efengyl. Wrth geisio cynnwys deunydd amrywiol yn *Yr Haul*, cydbwysodd Ellis erthyglau sylweddol ar hanes a bywyd cyfoes yr Eglwys gyda dwy nofel o'i eiddo ei hunan, gan gyhoeddi pennod neu ddwy ar y tro bob mis. Rhwng Hydref 1886 a Medi 1887, cyflwynodd nofel i'r darllenwyr dan y teitl Llanaber, a rhwng Ionawr 1891 a Rhagfyr 1892, cyhoeddodd Llan Cwm Awen. Yn y rhain ceir cymysgedd o hanes a dychymyg, atgofion a dyheadau personol, cip ar ei eglwysyddiaeth, ac awgrym yma ac acw o beth a fyddai wedi hoffi ei gyflawni.

O'r gair Eidaleg 'novella', sef newyddbeth bychan, y daw'r gair Saesneg 'novel', a hwnnw a Gymreigiwyd i roi'r gair nofel, a ddisodlodd eiriau eraill fel 'ffug-hanes' a 'ffugchwedl' erbyn troad yr ugeinfed ganrif.[2] Wrth gyfeirio at y cyfrwng, dywed John Rowlands mai:

> Ffurf sy'n perthyn yn agos i hanes yw hi, ar un ystyr, gyda'r elfen ddogfennol yn gryf ynddi. Ysfa'r nofelydd yw edrych ar ddyn yn ei gymdeithas, a'i ddisgrifio'n fanwl ddiriaethol fel bod o gig a gwaed, gan gyfleu'n synhwyrus fyw ei anadlu, ei deimladau a'i feddyliau, yn ogystal â'i symudiadau corfforol trwy dai a thafarnau a strydoedd.[3]

Hyd yn oed o osod ffiniau cystal â hynny i *genre* y nofel, nid oes cytundeb ar bwy a ysgrifennodd y nofel Gymraeg gyntaf un. Gwêl rhai nodweddion tebyg i nofel yn Gweledigaethau'r Bardd Cwsg Ellis Wynne o Lasynys, gwêl eraill ei gwreiddyn yn rhyddiaith William Williams Pantycelyn, tra bwria eraill y rhwyd yn nes at y presennol,

---

1 R. Williams Parry, 'Gwae Awdur Dyddiaduron' Cerddi'r Gaeaf (Dinbych, 1952), t.66

2 John Rowlands, Ysgrifau ar y Nofel (Caerdydd, 1992), t.1

3 *ibid.*, t.3

gan ddweud mai Daniel Owen oedd gwir nofelydd cyntaf Cymru, a bod ei waith, yng ngeiriau E.G. Millward, yn 'uchafbwynt i weithgarwch dygn ugeiniau o fodau llenyddol llai yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.'[4] Un o'r 'bodau llai' hynny oedd Ellis, ac nid oes dim yn y naill nofel na'r llall i awgrymu iddo gyfrannu'n arwyddocaol at ddatblygiad y nofel Gymraeg fel ffurf lenyddol. Nid oedd hyd yn oed y dull y cyflwynodd ei nofelau yn arloesol - roedd cyhoeddi penodau fesul mis mewn cyfnodolion yn arfer cyffredin iawn erbyn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, petai rhywun ond yn canolbwyntio ar y nofelau a ymddangosodd yn *Baner ac Amserau Cymru*, a Daniel Owen ymysg y rheiny.[5]

Serch hynny, nid ceisio ennill clod iddo'i hun fel nofelydd oedd bwriad pennaf Ellis wrth eu cyfansoddi - yn wir, ni fyddai wedi malio rhyw lawer am syniadau beirniaid diweddarach ar feini prawf galw darn o ryddiaith yn nofel. Roedd ganddo agendâu clir mewn golwg wrth ysgrifennu'r naill ffugchwedl a'r llall. Mae Llanaber yn nofel fer iawn, ond rhoddai'r penodau misol gyfle iddo daro yn erbyn 'cwac bregethwyr' a 'chwac areithwyr' a oedd yn gymaint o bla ar gymdeithas erbyn hynny yn ei olwg ef. Cofier fod helyntion y degwm yn cael lle blaenllaw iawn yn y wasg pan ymddangosai Llanaber yn fisol yn *Yr Haul*, a Thomas Gee a'i debyg yn gwneud yn fawr o'u cyfle i ladd ar yr Eglwys yn y wasg wythnosol. Cynigiai cyfrwng 'ffug' y nofel gyfle iddo daro'r post i'r pared glywed, ac osgoi unrhyw berygl o enllib. Yn Llan Cwm Awen ar y llaw arall, roedd wedi cyrraedd pump a thrigain oed, ac yn dymuno bwrw golwg dros gyfnod ei fagwraeth yn esgobaeth Bangor. Gwnaeth hynny drwy blethu i'r stori atgofion am ugain mlynedd digon cyffrous ei offeiriadaeth yn Llangwm, a defnyddio'r rheiny i osod ei hunan yn brif gymeriad y stori dan yr enw Llewelyn Llwyd.

Yr oedd cofnodi hanesion a hyrwyddo moesoldeb yn bethau cyffredin yn y ffugchwedlau Cymraeg cynnar, a chyffelyba Mary Ellis Llanaber a Llan Cwm Awen i nofel Roger

4 E.G. Millward, 'Ffugchwedlau'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', *Llên Cymru* 12 (1973), t.244

5 *ibid.*, t.244

Edwards yr Wyddgrug, Y Tri Brawd a'u Teuluoedd, a gyhoeddwyd hefyd fesul pennod dros ddwy flynedd ym misolyn y Methodistiaid Calfinaidd, *Y Drysorfa*.

> Wedi dweud fod y 'cyfansoddiadau chwedl-adroddiadol' a oedd ar gael (yn Saesneg gan mwyaf, er nad yw'n eithrio rhai Cymraeg) yn bethau gwag ac ofer a'u bod yn tueddu i lygru a niweidio pobl ifainc ... â ymlaen i egluro fod ganddo ef ddigonedd o ddeunydd i lunio 'chwedl-hanesyddol'. Gwyddai am bethau a ddigwyddodd yn ystod ei fachgendod na chawsant erioed eu cofnodi. Clywodd hen bobl yn adrodd hanesion a wnâi ddeunydd storïau penigamp, heblaw bod yn foddion i bobl ifainc. Cyfeddyf nad oes llawer o gynllun i'r chwedl, ond nid oedd hynny'n bwysig yn ei olwg, gan mai creu darlun o gymdeithas yn yr hen amser oedd ei fwriad.[6]

Anfantais ceisio ennill dadl foesol trwy lunio nofel oedd bod llyffethair ar y nofelydd cyn iddo ddechrau cyfansoddi, yn union fel y cyfaddefai Roger Edwards ei hunan. Nid y cynllun oedd ei flaenoriaeth, ond moesoli a chroniclo hanes. Dywed John Gwilym Jones nad oedd hyd yn oed nofelydd enwog cyntaf Cymru, Daniel Owen, yn ddi-fai i'r cyfeiriad hwn. Yn ei farn ef, roedd:

> y Calfin ynddo [yn g]orymyrryd â'r llenor ynddo a'i rwystro i fod yn nofelydd gwir fawr. Â llathen ei uniongrededd Fethodistaidd, Galfinaidd, y mae'n mesur crefydd a moes a gwleidyddiaeth a chymdeithas ei oes.[7]

Felly'n union, eglwyswr o argyhoeddiad a ysgrifennai Llan Cwm Awen a Llanaber, a disgynnodd Ellis yntau i'r fagl o fesur cymeriadau ei nofel â llathen yr eglwys sefydledig, gan feirniadu gormod ar rai cymeriadau nad oeddent yn eglwyswyr selog, yn hytrach na'u disgrifio a gadael i'r darllenydd benderfynu sut rai oedd y cymeriadau hynny ar sail cryfder y disgrifiadau. Gan hynny, nid yw'n synod efallai mai digon prin yw'r rhai sydd wedi gweld unrhyw werth llenyddol i'w nofelau, ond fel modd o geisio mynd i'r afael â chymeriad Ellis ei hunan, y maent yn gloddfeydd gwerthfawr dros ben, wrth iddo fwrw ei farn yn onest o'r tu ôl i fwgwd. Trwy wneud hynny, rhoddodd lawer mwy o ryddid iddo'i hunan nag yr arferai ei wneud pan ysgrifennai ei erthyglau ffeithiol, a dyna, yn gryno, yw eu gwerth mwyaf.

6 Mary Ellis, '*Llan Cwm Awen*, nofel-gyfres gan Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai) a ymddangosodd yn *Yr Haul*, Ionawr 1891-Rhagfyr 1892', *Llên Cymru* 16 (1991), t.292

7 John Gwilym Jones, Daniel Owen (Dinbych, 1970), t.10

*Llanaber*

Bwrw'r stori yn y dyfodol a wnaeth yn Llanaber, wrth iddo ddechrau adrodd yr hanes â'r geiriau 'Yr oedd haf 1892 yn wresog hyfryd.'[8] Er hynny, pwysodd yn drwm ar ei orffennol am ysbrydoliaeth. Wrth iddo ddechrau dadlennu hanes dau lanc yn 'disgyn oddi ar eu *bicycles* o flaen gwesty hynafol' gerllaw 'hen eglwys fynachaidd, urddasol Llanaber, [a ymddyrchafai] fel Eglwys Gadeiriol fawr, dri chant o lathenni i'r de-orllewin iddynt',[9] gall y rhai sy'n gyfarwydd â Chlynnog Fawr yn Arfon weld mai eglwys Beuno Sant a gwesty'r Coach gyferbyn â hi a ddisgrifir ganddo. Yn wir, ym mhennod olaf y nofel, mae'n methu ymatal rhag datgelu bod yr hanes wedi ei leoli mewn man y gwyddai'n dda amdano, ac felly am Lanaber, darllener Clynnog.

> Llawer tymor haf dymunol a dreuliais yn Llanaber, ac... yma hefyd y treuliais ran o fore'm bywyd ac amser chwareus a dyddan ysgol.[10]

Ffrindiau coleg yw prif gymeriadau'r nofel – Thomas Llewelyn yn fab i offeiriad o bentref dychmygol yn Sir Gaerfyrddin, a Charles Vaughan yn nai i fonheddwr o'r enw Syr R. D. Vaughan. Yn fuan mae'r ddau yn cyfarfod â dwy ferch ifanc; maent hwythau wedi dod i aros am gyfnod yn y gwesty, a datgelir rhagor o hanes y pedwar ohonynt fesul pennod.

Mewn erthygl sy'n 'ailgloriannu' bywyd a nofelau Ellis, canmola Mary Ellis Llanaber am ei bod yn nofel graff a gyfeiriai at chwyldro a oedd wedi digwydd yn ystod ei oes o ran statws merched yn y gymdeithas.[11] Tra oedd ffugchwedlau a storïau ysgafn y cyfnod yn aml yn adrodd hanes arwr gwrywaidd yn achub merch dlos a diniwed o'i thrafferth, cafodd arwresau Llanaber fesur da o gyfartalwch ar sail rhyw. Ceir ar ddeall fod gan un ohonynt, Miss Davies Hughes, 'D.C.L., Q.C. Inner Temple' ar ôl ei henw, a bod ei chyfeilles, Miss

8 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llanaber', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 2 (1886), t.299

9 *ibid.*, t.299

10 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llanaber', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1887), t.262

11 Mary Ellis, 'Ailgloriannu Elis Wyn o Wyrfai' *Y Faner*, 30 Mehefin 1984, t.12

Moss, yn dwrnai. Gwëir ymateb cymdeithas i lwyddiant y merched i sgwrs y ddau lanc, wrth i Tom ddweud wrth Charles fod ei fryd ar un ohonynt, er ei bod o gefndir llawer mwy breintiedig nag ef. Wrth i Charles dynnu ei goes y byddai'n rhaid iddo ef aros gartref i 'fagu a gofalu am y tŷ, tra yr elo hi ar y *circuit* i ennill y bara', etyb ei gyfaill:

> Beth sydd i greadur fel fi, heb ddim ond *hic, haec, hoc* yn ei ben na dim yn ei bwrs, i wneud ond chwilio am wraig i'w gadw pan y mae merched yn myned â phob swydd a chrefft hefyd oddi arnom?[12]

Wedi hyn, ceir deialog rhwng y ddau gyfaill ar yr arfer a oedd yn dod yn gyffredin yn ffatrïoedd gwlân, cotwm a thybaco'r dinasoedd, sef y gŵr a'r wraig yn gweithio yn yr un lle, ac yn cyflogi hen wraig i warchod y plentyn. Ym marn Thomas, pen draw hynny fyddai cyflogi gormod o ferched a rhoi'r dynion allan o waith, gan eu gorfodi i aros gartref:

> ...am wn i rhaid i bob gwaith ddilyn yr un llwybr [â'r ffatrïoedd] os parha y merched i weithio *cystal* â dynion, ac am *lai o gyflog* na dynion.[13]

Er hynny, priodolai Charles ddatblygiad o'r fath i ddirwasgiad ar economi Prydain wrth i nwyddau rhad gyrraedd o dramor, a barai na allai hyd yn oed lafur rhad y merched wneud yn iawn am ddiffygion economaidd yn yr hir dymor.

Roedd y fath newid yn rôl draddodiadol y ferch yn ddigon nodedig i ennyn trafodaeth rhwng y llanciau, ond nid yw Ellis yn anghymeradwyo cynnydd merched – os rhywbeth, y cyfeiriad at ferched yn gweithio cystal â dynion ond am lai o gyflog yw'r sylw mwyaf trawiadol. Yn y nofel ei hun, mae'r merched yn cael lle lawn mor amlwg â'r ddau brif gymeriad gwryw.

Un o gymeriadau mwyaf hynod Clynnog Fawr yn y cyfnod y bu Ellis yn byw yno oedd Eben Fardd wrth gwrs, ac yn <u>Llanaber</u> ceir gŵr o'r enw 'Einion Fardd', a ddisgrifir fel

---

12 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llanaber', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 2 (1886), t.356

13 *ibid.*, t.357

brodor o'r sir, a gŵr o ddysg a deall uwch na'r cyffredin.[14] Mae'r tebygrwydd rhwng y cymeriad yn y stori ac Eben i'w weld hefyd yn y mesur helaeth o gydymdeimlad â'r Eglwys sydd gan Einion, er nad yw'n aelod ohoni. Wrth gael ei dynnu i drafodaeth ar y chwedlau am Feuno Sant, dywedodd:

> Ni byddaf un amser yn hoffi dadl grefyddol, ond byddaf yn aml yn caru cael ymddyddan ar unrhyw bwnc er mwyn ychwanegu gwybodaeth.[15]

Roedd gan Eben Fardd berthynas gymhleth â'r eglwys sefydledig – bu bron â cheisio am urddau yn 1840, bedyddiwyd ei blant yn eglwys Clynnog, ac yr oedd yn mynychu gwasanaethau'r eglwys yn rheolaidd ar y Sul.[16] Serch hynny, Methodist ydoedd yn y bôn, a gwrthododd gynnig gan yr offeiriad plwyf, Robert Williams, i ofalu am Ysgol Genedlaethol Clynnog Fawr, gan y byddai gofyn iddo ddod yn aelod cyflawn o'r eglwys i gyflawni'r gwaith hwnnw. Gwell oedd ganddo gadw ysgol ar ei liwt ei hun, gan dderbyn nawdd gan y Methodistiaid i hyfforddi ei gweinidogion tua diwedd ei oes. Wrth eistedd yn anfoddog ar dir neb rhwng yr Eglwys a Methodistiaeth, nid oedd am i'r Eglwys gael cam, ac yn wir parchai ei thraddodiadau a'i rhan yn y gymdeithas. Yn yr un modd, yn Llanaber, noda 'Einion Fardd' mai tlodi llenyddiaeth Cymru fyddai anghofio am hanesion Beuno a'r Saint eraill, er bod y pregethwr Methodistaidd a oedd yn rhan o'r un drafodaeth yn dweud y dylid collfarnu hanesion o'r fath er puro Cristnogaeth.

Ni ellir bod yn sicr a seiliwyd cymeriad y pregethwr ar rywun yr oedd Ellis yn ei adnabod yn bersonol, ynteu ar gymysgedd o bobl yr oedd wedi eu cyfarfod ac wedi darllen eu hanes. Cyff gwawd y nofel yw J. Doniol Jones, ac wrth ei ddirmygu y ceir rhai o sylwadau craffaf yr awdur ar y garfan o bregethwyr Ymneilltuol uchel eu cloch, a oedd yn hawlio cefnogaeth trwch y boblogaeth er gwaethaf eu diffyg addysg. Fel y nododd Charles yn ddi-flewyn-ar-dafod:

---

14 *ibid.*, t.326

15 *ibid.*, t.326

16 E.G. Millward, Detholion o Ddyddiadur Eben Fardd (Caerdydd, 1968), t.xvii

> Beth yw dysg i ddigywilydd-dra, a gwybodaeth i haerllugrwydd? A beth yw coethder meddwl i wynebu yr ewyllys gref a'i phenderfyniad mochynnaidd? ...Anwybodaeth yw y gallu presennol – "y llefwyr ar y llwyfan", yn y pulpud, ac yn y senedd.[17]

Geiriau yr un mor feirniadol oedd gan un o fasnachwyr Llanaber am J. Doniol Jones a'i debyg - teimlai fod 'y giwaid hon wedi dyfod yn bla ar y genedl'. Gwelai eu bod yn anfon eu cyhoeddiadau heb i neb eu gofyn, 'a byddant yno ar sawdl eu hunan-gyhoeddiadau, yn digywilydd ddisgwyl am lety, gwely, a galwad i bregethu, a thâl am y cyfan.'[18]

Law yn llaw â phregethu i ba bynnag enwad a fyddai'n derbyn ei 'hunan-gyhoeddiadau', roedd Doniol Jones yn areithiwr cyflog ar unrhyw bwnc a gynigiai gyfle iddo fod yn llygad y cyhoedd, ac a roddai geiniog neu ddwy yn ei boced. Gan hynny, ef oedd ysgrifennydd sefydliad mor rhyfedd ei enw â 'Chymdeithas Atal Caniad Clychau yr Eglwys ar y Sul', a dywedir ei fod wedi cynnig darlith i 'Gymdeithas Cyfreithloni Priodas Gŵr gyda Nain ei Wraig Drancedig.'

Wrth i'r cymeriad gyfrannu at naratif y nofel, bachai Ellis dro ar ôl tro ar y cyfle i daro ergydion yn erbyn ei deip, a'r dylanwad a gaent ar y werin. Efallai'n wir nad un o Glynnog oedd J. Doniol Jones, ond yn hytrach rhywun o'r un anian â Thomas Gee, yn enwedig o gofio i <u>Llanaber</u> gael ei chyhoeddi pan oedd Rhyfel y Degwm ar ei anterth. Hawdd meddwl mai Gee neu rywun tebyg oedd ganddo mewn golwg pan roddodd y geiriau canlynol yng ngenau Charles:

> Yng Nghymru y mae y pulpud a'r wasg Gymraeg bron yn ddieithriad yn un. Ychydig iawn o lais uniongyrchol y lleygwr a geir drwyddi... Y mae y pregethwr yn llefaru trwy y wasg ar hyd yr wythnos, ac o'r pulpud ar y Sul.[19]

---

17 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llanaber', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1887), t.6

18 *ibid.*, t.6

19 *ibid.*, t.37

Er galw Llanaber yn ffugchwedl a'i gosod yn y dyfodol, rhoddodd y cyfrwng hwn gyfle rhagorol i Ellis fynegi ei farn ar un o'i gasbethau, sef areithwyr gwrth-Eglwysig a wnâi'n fawr o eithriadau er mwyn dylanwadu ar y werin a'u cael i wrthwynebu'r Eglwys fwyfwy. Digwyddiad hwylus yn y nofel i draethu ei farn ymhellach oedd cyfarfod cyhoeddus ar Bwnc y Tir a gynhaliwyd yn Llanaber. Yn ôl y disgwyl, areithiai J. Doniol Jones yn y cyfarfod, a bu Thomas Llywelyn ac Einion Fardd yn trafod hynt y cyfarfod y diwrnod canlynol. Tra taerai Thomas nad oedd dim gwirionedd yn yr hyn a oedd gan Doniol Jones i'w ddweud, barn y bardd oedd bod peth sail i'w ddadleuon. Serch hynny, yr oedd ergyd lem yn ei ymateb yntau i'r araith:

> Gwna ychydig iawn o wirionedd y tro ond ei gymysgu â'r defnyddiau priodol... i liwio swm neu faintioli dirfawr o gamddarluniau. 'Rhoddwch i mi hanner pwys o wirionedd', ebai un hen alcemydd, 'a mi a'i gweithiaf yn ddigon tenau i wisgo mynydd o gelwydd'.[20]

Gwneir rhai o'r sylwadau mwyaf didostur yn erbyn cynnwys darlith Doniol Jones gan y boneddigesau dysgedig, wrth i Miss Davies Hughes, y Q.C., dynnu dadleuon J. Doniol Jones a'r rhai eraill a fu'n areithio yn rhacs. Rhoddodd J. Doniol Jones mewn twll pan welodd fai arno am beidio datgelu'r holl wir yn ei araith, a chloddiai hwnnw dwll dyfnach iddo'i hun pan ddywedodd nad oedd angen rhoi'r holl wir i'r bobl er mwyn denu eu cefnogaeth. Dedfryd y Q.C. oedd mai:

> Un o brif ddiffygion ein cenedl yw peidio edrych i *fanylion*... yr ydys yn llawer rhy barod i ddilyn pob gwagedd, a rhedeg ar ôl llawer cath ddiniwed a diwerth, gan dybio mai ysgyfarnog fydd.[21]

Yr oedd ei chyfeilles, Miss Moss, yr un mor barod ei beirniadaeth. Wrth gyferbynnu un arall o areithwyr y cyfarfod cyhoeddus, Dr Pengrwn Jones, â'r curadiaid a oedd yn gymaint o destun gwawd ganddo yn ei araith, dywedai:

---

20 *ibid.*, t.70

21 *ibid.*, t.72

> Y mae y curad mwyaf diddawn ag sydd yn gwneud ei ran yn yr ysgol ddyddiol, yn ymweled â'r cleifion, yn casglu at, ac yn cymeryd gofal o glybiau dillad, yn gwneud mwy ddengwaith o ddaioni i Gymru na holl areithiau Dr Pengrwn James, serch iddo eu gwawdio neithiwr.[22]

Hanner ffordd trwy'r nofel, yng nghanol cynnwrf y cyfarfod cyhoeddus, cyflwynir dau gymeriad newydd i'r stori - offeiriad Llanaber, y Parchedig Edwards, a'i frawd-yng-nghyfraith Meredydd, sef rheithor plwyf gwledig cyfagos o'r enw Llandinad-man. Trwy gyfrwng y ddau gymeriad hyn, a'u hymateb i areithiau J. Doniol Jones, ceir golwg ar sawl agwedd ar gymeriad Ellis ei hunan. Pan ofynnwyd i'r Parch. Edwards pam nad oedd yn y cyfarfod ar bwnc y tir, ei ymateb oedd:

> Cadwodd y gwaredwr yn fanwl o fewn cylch y neges a roddes y Tad iddo, a'n dyledswydd ninnau yw cadw o fewn cylch y comisiwn a roddwyd i ni. ... ni osodwyd ni yn farnwyr a rhanwyr mewn pethau tymhorol ... Credaf mai goreu po mwyaf gofalus y byddo gweinidogion Efengyl Crist i gadw at eu galwedigaeth sanctaidd yn unig, a bod yn wasanaethgar i'r holl genedl, o'r lleiaf i'r mwyaf, heb fod yn wasaidd i neb.[23]

Mae'r fath ddatganiad yn cyd-fynd yn union â safbwynt Ellis ar gymysgu gwleidyddiaeth a chrefydd, o leiaf cyn i danbeidrwydd Rhyfel y Degwm ei orfodi, braidd yn anfoddog, i geisio galw am dipyn o bwyll yn Llangwm. Ymhellach, mewn sgwrs â'i gilydd, try sylw'r ddau offeiriad at ddylanwad y wasg ar y werin:

> Ef allai mai pla mwyaf y deng mlynedd diweddaf ydyw y cwmwl papyrau wythnosol a wasgerir trwy y plwyf... daw athrod y wasg i mewn i'r plwyf yn un dylif ar ddu a gwyn. Dygir i blwyf Llandinad-man tua dwsin o gopïau ar gyfartaledd o'r papyrau canlynol: 'Penaur a Mesurydd Cymru' mewn dau argraffiad (Mercher a Sadwrn), 'Cynadl y Cymry,' 'Yr Herlidiwr Cymraeg,' 'Y Tostydd,' ac ambell gopi o ddau neu dri o bapyrau llai adnabyddus; a'r oll yn ffyrnig wrthwynebu gwaith yr offeiriaid. Rhaid iddo fod ar waith parhaus mewn llafur cariad dan gawodydd o enllib.[24]

---

22 *ibid.*, t.103

23 *ibid.*, t.104-5

24 *ibid.*, t.167-8

Nid oes angen llawer o ddychymyg i ddyfalu at ba wythnosolion y cyfeiriai'r offeiriaid. Eironi'r fath ddatganiad yw ei fod wedi ei gyhoeddi mewn cyfnodolyn, ond erbyn mis Mai 1887 roedd 'Penaur a Mesurydd Cymru', (neu *Baner ac Amserau Cymru* mewn geiriau eraill) yn amlwg wedi mynd yn rhy bell ym marn Ellis, ac wedi dwyn cymaint o berswâd ar y werin i gasáu'r Eglwys fel ei bod hi'n anodd iawn i'r offeiriaid daro'n ôl yn erbyn honiadau'r papurau.

Ac eithrio sylwadau tebyg ar ddylanwad y wasg, yng nghymeriad y Parchedig Edwards ceir golwg ar y math o offeiriadaeth y byddai Ellis wedi bod wrth ei fodd ynddi, ac ym mhrofiad Meredydd, golwg ar y math o weinidogaeth blwyf yr oedd yn gyfarwydd iawn â hi. Yn Llanaber, roedd sawl un arall yn helpu i gynnal y gwasanaethau, gan gynnwys organydd cyflogedig, a chanai'r côr y salmau, y cantiglau a'r credo, gan roi saib i'r offeiriad. Yn Llandinad-man ar y llaw arall, disgrifiai Meredydd ei waith fel 'dyn yn ceisio aredig tir trwm gydag aradr un ceffyl'. Ymhelaetha trwy ddweud fod yn rhaid i'r offeiriad gwledig nodweddiadol:

> ddarllen, a darllen yr oll ar ben ei hun, yn un llais, yn undonol, i'w wrandawyr yn unig i edrych arno. Y mae yn bobpeth ei hun yn ei eglwys: athraw Ysgol Sul, athraw y canu, a dysgawdwr y gerddoriaeth. ... A phan eler i bregethu, 'gwrandawyr caledion' ydyw meinciau gweigion."[25]

Mae'n debyg y byddai wedi cael sgyrsiau tebyg i'r uchod gyda chlerigwyr mewn plwyfi trefol, ac wedi meddwl ar adegau mor braf fyddai cael symud i blwyf arall. Yn hynny o beth, mae'r sylw canlynol gan Meredydd yn ddadlennol:

> ...os mynnwch chi gael offeiriad a all roddi mwynhad gwirioneddol i'w blwyfolion gwledig, anfonwch ddyn call, gweithgar, difalch, wedi cyfodi o'u mysg, heb gael ei sychgoethi yn ormodol yn yr athrofeydd, a bydd yn fwy tebyg o wneuthur lles i'r plwyfolion, a derbyn mwynhad a lles oddi wrthynt. Ymdrecher hefyd beidio cadw neb dan *drigain oed* yn rhy hir mewn unrhyw blwyf gwledig; ac ni ddylai neb dan ddeugain oed fod yno fwy nag o bump i chwe blynedd. Wrth dreiglo y mae y dwfr yn dal yn bur, a'r dur yn gloewi.[26]

---

25 *ibid.*, t.167

26 *ibid.*, t.167

Y mae rhan gyntaf y sylw'n ddisgrifiad teg o gymeriad Ellis ei hunan, ond yr ail ran yn fath o addefiad, efallai, ei fod yn teimlo'n barod am her newydd i ffwrdd o Langwm pan ysgrifennodd y geiriau hyn. Wedi'r cwbl, bu yno am bymtheng mlynedd erbyn 1887, ac yr oedd hefyd wedi cyrraedd ei drigain oed. Fel y bu pethau, aros yn Llangwm a fu hanes Ellis, ond difyr yw nodi bod Meredydd yn symud o Landinad-man i Lanaber yn y nofel, wrth i'r Parchedig Edwards symud i Lanllwyddiant. Ai dyhead mawr Ellis oedd cael dychwelyd i Glynnog neu blwyf tebyg cyn diwedd ei yrfa? Ychydig o dystiolaeth allanol sydd i gadarnhau hynny, ond mae gwir oesol yn honiad R Williams Parry mai 'Nes na'r hanesydd at y gwir di-goll / Ydyw'r dramodydd, sydd yn gelwydd oll.'[27]

O ran gweddill y nofel, dychwelir at bedwar prif gymeriad Llanaber ar ôl yr ymgom rhwng yr offeiriaid, a chymerir cam o dair blynedd ymhellach i'r dyfodol i ddod â'r ddau lanc a'r ddwy fonesig yn ôl i Lanaber unwaith eto. Erbyn hynny, roedd Charles wedi cael ei urddo ar ôl cwblhau ei arholiadau terfynol yn y coleg, ac er gwaethaf y ffaith bod bywoliaeth Llanllwyddiant dan nawdd ei ewythr, Syr R. D. Vaughan, fe wrthododd y cynnig cyntaf ar y fywoliaeth honno, gan ddod yn gurad Llanaber yn lle hynny. Bennod yn ddiweddarach, wrth ddod â diwedd taclus i'r nofel, datgelir fod Thomas Llewelyn a Miss Moss erbyn diwedd y ganrif (wyth mlynedd ar ôl dechrau'r nofel) wedi priodi ac wedi cael geneth fach. Roedd Miss Davies Hughes hithau wedi priodi, a Charles Vaughan hefyd yn briod, ac erbyn hynny'n rheithor Llansiriol, un o blwyfi arall yr esgobaeth honno a oedd yn od o debyg i esgobaeth Bangor.

O ran J. Doniol Jones, daeth tro anffodus i ddiwedd ei hanes ef yn y nofel. Cafodd ei gyfaill Dr Pengrwn James ac yntau eu twyllo gan Mr Hartman, lleidr o Lundain a honnai ei fod yn un o aelodau blaenllaw un o'r cymdeithasau yr oedd y ddau Gymro'n casglu arian i'w coffrau. Cipiodd Hartman eiddo personol Doniol Jones ar ôl cyfarfod cyhoeddus un noson, ond rhag dwyn anfri ar y gymdeithas honno, darbwyllodd Pengrwn James ef i beidio

---

27 Parry, 'Gwae Awdur Dyddiaduron', t.66

â dwyn achos yn erbyn y drwgweithredwr, a chadw'r lladrad yn dawel. Yn lle hynny, trefnodd ei fod yn derbyn gofalaeth yn America, gan osgoi tynnu enw'r naill ohonynt, a'r gymdeithas yn enwedig, trwy'r baw. Roedd cadw wyneb yn bwysicach na dim i Pengrwn James, yn bwysicach hyd yn oed na chyfraith gwlad. Ar ddiwedd y stori, datgelir ei fod hefyd wedi priodi gweddw gefnog erbyn hynny, a'i fod yn berchen ar stad ag ardreth o gant a hanner o bunnoedd, er ei fod yn 'aelod o'r gymdeithas hynod, Cymdeithas y Tir i'r Bobl.'[28] Ergyd olaf Ellis yn erbyn "llefarwyr y llwyfan" felly yw portreadu Pengrwn James fel rhagrithiwr, a'i gyfaill fel un ar ffo yn sgil syniadau rhyfedd y ddau am foesau. Yn briodol iawn, un o'r boneddigesau sy'n cael y gair olaf amdanynt:

> Y mae Mr Doniol Jones a'r Dr Pengrwn James wedi ymwisgo yng ngwisg gweinidogion crefydd Crist, a chymeryd yr enw sanctaidd hwnnw arnynt, ac ystyrir hwy gan ran helaeth o'r cyhoedd fel cenadau dros Grist. Y maent yn ymddangos ger bron y werin fel gwleidyddion Duw a phrophwydi yr Arglwydd Iesu. Credir eu ffôl-ymadroddion gwleidyddol a chymdeithasol ar sail eu safle ysbrydol. Dyma un o felltithion mwyaf gwlad. ... O bob cwacyddiaeth, y cwac-bregethwr wedi troi yn gwac-wleidyddwr yw y mwyaf adgas a pheryglus.[29]

Nofel ddigon ysgafn yw Llanaber, na ellir ei chyfrif yn glasur, ac y mae ynddi sawl gwendid sy'n ei rhwystro rhag cael ei chyfrif yn nofel ragorol. Cyflwynwyd ficer Llanaber a'i frawd yng nghyfraith braidd yn ddirybudd i'r hanes, a hynny ar draws hanes cyffrous cyfarfod cyhoeddus Cymdeithas y Tir i'r Bobl. Cymeriadau ymylol, i bob pwrpas, yw'r ddau lanc a'r ddwy foneddiges ar ôl ymgom yr offeiriaid. At hynny, datblygiad anarferol iawn yw'r modd y mae'r awdur yn camu i'r stori tua'r diwedd, ac ar ôl cael ei gyfarch gan Thomas â'r frawddeg 'Hen dad chwedleugar, dyddan, gweinidog y cwilsyn gŵydd, croesaw calon i chwi i Lanaber,'[30] y mae'n holi Thomas a Miss Moss am hanes y cymeriadau eraill. Serch hynny, yr oedd hi eto'n ddyddiau cynnar ar y nofel Gymraeg, ac nid ennill enwogrwydd iddo'i hun fel nofelydd oedd ei fwriad wrth ysgrifennu Llanaber. Yn hytrach, rhoddai'r ffugchwedl gyfle iddo daro ergydion yn erbyn ei elynion o'r tu ôl i

28 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llanaber', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1887), t.263

29 *ibid.*, t.227-8

30 *ibid.*, t.263

fwgwd cymeriadau rhithwir. Cafodd gyfle hefyd i leisio ychydig o'i rwystredigaethau ei hunan fel offeiriad plwyf gwledig, ac yn absenoldeb corff sylweddol o lythyrau personol y mae Llanaber yn rhoi sawl cip o'r newydd ar gymeriad a safbwyntiau Ellis.

*Llan Cwm Awen*

Mewn erthygl werthfawr ar Llan Cwm Awen yn *Llên Cymru* yn 1991, gwnaeth Mary Ellis gymwynas fawr trwy atgoffa cenhedlaeth newydd o'r gwaith anghofiedig hwn union ganrif ar ôl iddo ddechrau ymddangos yn fisol ar dudalennau *Yr Haul*.[31] Yn ei hastudiaeth, manylaodd ar ymdriniaeth y nofel ag adfywiad yr eglwys sefydledig dan ddylanwad Mudiad Rhydychen. Esgobaeth Bangor, a Chlynnog eto, mae'n debyg, yw cefndir y nofel, gan mai plwyf arfordirol yng nghefn gwlad Cymru yw Cwm Awen. Serch hynny, nid damwain yw'r tebygrwydd rhwng 'Llan Cwm' a'r Llangwm yn Edeirnion yr oedd yr awdur mor gyfarwydd ag ef, ychwaith. Plethodd Ellis atgofion am ei ieuenctid yng Ngwynedd ynghyd ag atgofion diweddarach am anawsterau a llwyddiannau a brofodd ef ei hunan yn ystod ei offeiriadaeth, a llunio gŵr tebyg iawn iddo'i hunan yn Llewelyn Llwyd, y prif gymeriad.

Mae'r hanes yn dechrau gyda Llewelyn yn darllen llythyr gan yr esgob, dyddiedig y 9fed o Hydref 1835, yn cynnig bywoliaeth Llan Cwm Awen iddo. Roedd rhai o gyfeillion Llewelyn wedi rhoi gwybod i'r esgob nad oedd ef mewn iechyd rhy dda yn ei guradiaeth drefol, ac mae'r amgylchiadau a ddisgrifir yn od o debyg i brofiadau Ellis yn Rhosymedre, a'r cyfle a gafodd yntau gan ei esgob i symud o ardal fyglyd, ddiwydiannol i Lanfihangel Glyn Myfyr:

> Pan yn gadael Rhydychen ryw saith neu wyth mlynedd cyn hynny, yr oedd y gŵr ieuanc hwn yn hynod am luneidd-dra ei gorff, harddwch ei osgedd, hoewder ei ysgogiadau... ond buasai i lafur curadiaeth mewn dinas boblog ... wanychu cyfansoddiad a ddaliasai faich efrydiaeth yr ysgolion a'r brif athrofa. Felly, yn ddeg ar hugain oed teimlai Llewelyn Llwyd ei hun yn colli ei nerth ac yn darfod yn ei wisgoedd.[32]

31 Mary Ellis, 'Llan Cwm Awen', *Llên Cymru* 16 (1991), tt.292-362

32 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llan Cwm Awen', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 7 (1891), t.11

Efallai mai ymdrech i guddio'r ffaith mai tynnu ar ei hanes ei hunan yr oedd yw'r cyfeiriad at Rydychen, neu fod hynny'n arwydd o ddyhead cudd ynddo am addysg na chafodd erioed y fraint o'i mwynhau.

Petrusodd Llewelyn ychydig cyn derbyn y swydd gan ei fod wedi dyweddïo â merch fonheddig Saesneg ei hiaith, sef Angharad, merch Major Crossford. A hwythau ar fin priodi, nid oedd yn credu y byddai symud i Gwm Awen yn rhoi cyfle iddi hi gymdeithasu â rhai o'r un dosbarth cymdeithasol â'r un y perthynai iddo. Clywsai nad oedd yr un teulu o dras bonheddig yn agos at y pentref, ac mai dim ond un hen gychwr oedd yn gallu siarad Saesneg trwy'r holl blwyf.[33] Serch hynny, gan weld y byddai'r newid yn llesol i iechyd ei dyweddi, dywedodd Angharad y byddai yn cefnogi pa bynnag benderfyniad y byddai ei darpar ŵr yn ei wneud. Yn ei hateb i Llewelyn, dywedai:

> Gwell gennyf, o ran fy nheimlad personol, fyned gyda chwi i'r plwyf anghysbell a'r gwaddoliad bychan, nag i'r plwyf cyfoethog a'r gymdeithas foneddigaidd. Gall y dosbarth boneddigaidd a da eu byd gael digon i'w gwasanaethu; bydd yn dda gennyf finnau roddi'm gwasanaeth i'r iselradd.[34]

Yr oedd y fath ffyddlondeb i'w chymar a'i gwyleidd-dra gwrol yn arwydd cynnar o gryfder cymeriad Angharad, ac y mae ei hymateb i'w chyfeilles fonheddig, Miss Vaughan, wedi i honno glywed am eu symudiad i Lan Cwm Awen yn enghraifft arall o'r cadernid hwnnw. Camgymrodd Miss Vaughan mai symud i Gwm Awen dros dro oedd bwriad Llewelyn, gan obeithio camu'n fuan wedi hynny i swydd frasach ar gyfrif cysylltiadau ei dad-yng-nghyfraith, ond ymateb llym Angharad oedd:

> Y mae yn amser i'r byd a'r Eglwys hefyd fyned yn mlaen heb nawddogaeth ffafriol yr uchelradd. Dywed fy nhad mai ar faes y frwydr y mae ennill dyrchafiad. Felly ym maes llafur y mae grisiau dyrchafiad Eglwysig i fod, meddai efe.[35]

---

33 *ibid.*, t.11

34 *ibid.*, t.12

35 *ibid.*, t.13

Yn debyg i foneddigesau Llanaber, cafodd prif gymeriad Llan Cwm Awen hithau ran amlwg a chydradd yn ail nofel Ellis – yr oedd gan Angharad ei meddwl ei hun, ac ni phetrusai fynegi ei barn ychwaith. Mae'n anodd gwybod yn union a wynebodd Esther, gwraig Ellis, yr un fath o ymateb gan ei ffrindiau ag a wynebai Angharad pan symudodd hithau i blwyf gwledig, ond yr argraff a geir o'r cyfeiriadau ati mewn cofiannau i Ellis yw ei bod hi o leiaf wedi dangos yr un math o gadernid o phlaid ei gŵr gydol ei yrfa, er gwaethaf iddi orfod cefnu ar y byd trefol yr oedd hi'n gyfarwydd ag ef.

Ar ôl priodas y ddau yn eglwys fawr St. Giles (tybir felly mai cyffiniau Wrecsam oedd lleoliad curadiaeth Llewelyn), teithiodd y ddau i Gwm Awen, siwrne 80 milltir a olygai 16 awr ar goets fawr y post o'r dref lle'r oedd Llewelyn yn gurad. Cawsant daith arw wrth deithio drannoeth y Calan, ac roedd yr oerfel yn effeithio ymhellach ar iechyd bregus Llewelyn. Ymhen hir a hwyr, cyraeddasant Gwm Awen, a holodd Angharad y gyrrwr lle oedd y pentref:

> "Dyma fo," atebai yntau, gan edrych o amgylch. "Yr ydym wedi pasio tri neu bedwar o dai, ac y mae rhes o dai bychain, tri neu bedwar, eto draw ar y ffordd yma, a dau neu dri i lawr at y Persondy."[36]

Llwyddodd Angharad i guddio ei syndod o weld lle mor wledig oedd Cwm Awen, ond ni allai wadu mai'r argraff gyntaf a gafodd o'i chartref newydd oedd ei fod yn ymddangos yn lle eithriadol o ddiarffordd. Efallai'n wir mai argraff debyg a gafodd Esther o Lanfihangel Glyn Myfyr pan gyrhaeddodd Ellis a hithau yno gyntaf yn 1866.

Os oedd maint y pentref yn syndod i Angharad, yr oedd siom arall yn disgwyl y ddau pan aethpwyd â hwy i'r persondy. Roedd mewn cyflwr 'tra adfeiliedig',[37] ac at hynny nid oedd modd iddynt symud i mewn yno'n syth gan nad oedd gan weddw'r ficer blaenorol unman i fynd. Arwydd cynnar o garedigrwydd y cwpl ifanc, a'u parodrwydd i wynebu pob

---

36 *ibid.*, t.79

37 *ibid.*, t.80

sefyllfa'n anhunanol a grasol oedd caniatáu i'r weddw fyw yno tan y gwanwyn, a chymryd hen lety'r curad a oedd ar fin gadael y plwyf yn y Plas, sef ffermdy mwyaf y pentref. Yr oedd hynny'n un cam a enynnodd barch y pentrefwyr yn syth, wrth i 'segurwyr a doethion y dreflan gysglyd dyrru at ei gilydd i fesur, pwyso, gwahodd, beirniadu, ac ymdrechu teimlad da y dyfodiaid newyddion.'[38]

Os oedd y persondy yn adfeiliedig, yr oedd yr eglwys hithau angen sylw dybryd, a dywedir amdani y 'gwelid ôl amser oll-ddifaol, esgeulustod oll-ddiwynol, ac aflerwch anfaddeuol ar bob rhan o'r adeilad.'[39] Dyna'r union ddarlun a groniclir yn yr englynion a gyfansoddodd Ellis pan gyrhaeddodd yntau Langwm, a bron bod rhywun yn disgwyl gweld yr englynion hynny yn rhan o'r stori gan mor debyg i'w gilydd yw hanesion Llewelyn ac Ellis. At hynny, yr oedd y modd y sefydlwyd Llewelyn yn ficer y plwyf yn ei eglwys adfeiliedig yn dangos cyflwr gwael yr eglwys sefydledig ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r disgrifiad o agwedd y deon gwlad, Meurig Oxley, yn binacl y darlun tywyll a dynnwyd o gyflwr yr Eglwys yn gyffredinol.

> ...gan dynnu pecyn o bapyrau o logell mynwes ei got, troes at Llewelyn Llwyd a dywedodd, "Gadewch i ni fyned at y gwaith. Yr wyf ar frys. Nid oedd dim angen i chwi ofyn i'r esgob am fy mhresenoldeb i yma o gwbl. Buasai Mr. Hughes, y curad, yn gwneyd y tro gystal a neb.[40]

Yna, wedi iddo ruthro drwy'r gwasanaeth, trodd at Llewelyn am y tro olaf, a dywedodd:

> "Yr wyf yn dymuno yn dda i chwi fel rheithor Cwm Awen. Y mae yn lle pur unigol;" a chan daflu edrychiad brysiog dros yr Eglwys, a moesymgrymu yn ffurfiol i'r wardeiniaid, ac heb wneyd un sylw pellach o Angharad, aeth Mr Oxley yn ôl trwy fyntai y pentrefwyr ar y fynwent, a cheisiodd ei gerbyd.[41]

---

38 *ibid.*, t.79

39 *ibid.*, t.114

40 *ibid.*, t.114

41 *ibid.*, t.114

Wedi'r gwasanaeth sefydlu oeraidd, sylweddolai Llewelyn fod gwaith mawr o'i flaen yn y plwyf. Yn y gwasanaethau a gynhaliai o Sul i Sul, dim ond y clochydd a atebai'r rhannau priodol yn y gwasanaethau. Nid peth anghyffredin oedd hynny yn y cyfnod hwn, gan fod Robert Williams, sef ficer Clynnog pan dderbyniodd Ellis ei Fedydd Esgob yno, wedi profi peth digon tebyg pan symudodd yntau i Lanfaelog.[42] At hynny, rhywbeth a synnai Llewelyn oedd y modd yr oedd rhai o gynulleidfa'r Methodistiaid yn galw yn yr eglwys tua diwedd y gwasanaeth ar eu ffordd adref o'r capel, ond yn peidio â gwneud dim mwy na gwrando arno'n mynd drwy drefn y gwasanaeth ar ei ben ei hun. Teimlad o ddyletswydd at 'yr hen fam', yn hytrach na deisyfiad i gyfrannu yn y gwasanaeth, a barai iddynt wneud hyn. Fel y nodir gan Mary Ellis yn ei hastudiaeth, roedd hyn yn digwydd mewn mannau eraill yng Nghymru, a dyfynnodd gyfeiriad at arfer tebyg yn Llanerfyl tua'r un cyfnod â dyddiad y nofel.[43] Esboniad Mr Owen, perchennog fferm y Plas yng Nghwm Awen, o'r arfer hwn oedd mai:

> Methodistiaid Calfinaidd ydyw naw o bob deg o deuluoedd yr ardal... Nid oes ynddynt, gan belled ag yr wyf fi yn deall, ddim gelyniaeth tuag at yr Eglwys; ond ar y llaw arall, nid oes ganddynt ddim parch *ysbrydol* ati ... Yn syniad yr ardal, cynrychiola yr Eglwys *foneddigeiddrwydd*, a'r capel *dduwioldeb*.[44]

Ymhellach, gwelai nad oedd y Llyfr Gweddi yn apelio at bobl Cwm Awen, a bod 'gwasanaeth presennol yr Eglwys yn rhy gynhwysfawr, yn rhy ysgolheigaidd, a llawer rhy faith i fod yn flasus i'r lluaws.'[45] Teimlai fod yr offeiriad dan anfantais yn arwain tri gwasanaeth hir ar fore Sul heb ddim cymorth gan y gynulleidfa, tra gallai pregethwr Ymneilltuol roi ei holl nerth i'w bregeth. Nid oedd yn syndod felly bod mwy o fwrlwm yn y capel na'r eglwys. Yr oedd ei sylwadau yn taro'r hoelen ar ei phen yn union, a byddai gwneud unrhyw fath o gynnydd yng Nghwm Awen yn gofyn am ymdrech arbennig iawn.

---

42 D.O.D., 'er Cof', *Yr Haul* Cyfres Gyntaf Llanbedr 4 (1902), t.285

43 Evan Roberts, 'Llandderfel', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd* 2 (1956) t.301 Dyfynnir yn Mary Ellis, 'Llan Cwm Awen', *Llên Cymru* 16 (1991), t.310

44 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llan Cwm Awen', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 7 (1891), t.178

45 *ibid.*, t.178

Roedd gofyn i Llewelyn ddechrau o'r dechrau yng Nghwm Awen. Oeraidd, os nad hollol ddifater, oedd ei ddeon gwlad ynghylch yr her a'i wynebai, yr oedd cyflwr adeiladau'r eglwys a'r persondy yn druenus, ac felly dibynnai ei lwyddiant yn fawr ar ei bersonoliaeth ef. Wynebai lyffethair lawer mwy heriol nag atgasedd at yr eglwys yn y plwyf ei hun, sef difaterwch wedi ei blethu ynghyd â theyrngarwch mecanyddol i Eglwys Loegr. Ar ben y cyfan, roedd y boblogaeth yn brin, ac arian yn brinnach fyth. Efallai nad oedd hi gynddrwg ym mhob plwyf yng Nghymru ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond roedd yn rhaid i Ellis gyfleu llun mor anobeithiol yn ei nofel er mwyn dangos cymaint o ddylanwad a gafodd Llewelyn yn y plwyf, ac yn fanylach, y math o effaith a gawsai offeiriaid dan swyn Mudiad Rhydychen ar blwyfi Cymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn raddol, dechreuodd Llewelyn ar ei waith, a hynny heb 'gyfnewidiad byrbwyll yn y gwasanaeth, ond yn hytrach ymdrechu lloffa a dysgu mwy pa beth oedd gwir gyflwr yr ardalwyr.'[46] Dechreuodd Angharad ac yntau ymweld â'r plwyfolion, ac er iddynt gael eu derbyn 'fel boneddigion caredig' ym mhob man, sylweddolasant nad oedd modd 'tynnu nemawr un i rydd-ymddyddan crefyddol ymdreiddiol.'[47] Serch hynny, canlyniad yr ymweliadau hyn oedd 'dechrau sôn am *dduwioldeb* y person newydd',[48] er nad oedd fawr o welliant o ran presenoldeb y plwyfolion yn y gwasanaethau.

Yr oedd y cymysgedd hwn o fodlonrwydd a difaterwch yn drwch drwy'r plwyf, ond un eithriad nodedig oedd y gwehydd, Thomas Evans. Disgrifid ef fel cymeriad hynod - un mor bigog fel ei fod wedi digio wrth y curad am ei fod yn rhoi'r pwyslais ar yr 'a' wrth ddweud 'gatholig', yn hytrach na'r ffurf Gymreig, sydd wrth gwrs yn rhoi'r pwyslais ar yr 'o' yn y goben. Ymhellach, dywedir ei fod yn fardd, ac iddo 'ennill cadair Eisteddfod fawr Trelleyn yn y flwyddyn 1824 o dan y ffugenw "Didymus o'r Cwm," a mabwysiadai yr enw

46 *ibid.*, t.178

47 *ibid.*, t.208

48 *ibid.*, t.209

ffodus ac annwyl hwnnw fel ei enw barddol byth ar ôl hynny.'[49] Os oedd gan Llanaber 'Einion Fardd' i gynrychioli cymeriad Eben Fardd, yna Didymus o'r Cwm oedd ymgnawdoliad yr un dyn yn Llan Cwm Awen, dim ond fod y cymeriad hwn yn barotach o lawer i fynegi ei farn ar yr Eglwys. Yr oedd ef o'i farn y dylai Llewelyn newid amseroedd gwasanaethau'r eglwys fel y byddai'n rhaid i'r gymdogaeth ddewis mynd i'r capel neu i'r eglwys, a dod â diwedd i'r arfer o fynychu rhan o wasanaeth yr eglwys fel defod awtomatig. Credai nad oedd modd i'r eglwys weithredu'n effeithiol wrth fodloni ar ymddangosiad cynulleidfa a alwai ar eu ffordd adref o'r capel – yr oedd gofyn iddi hawlio ei chynulleidfa ei hun, a gweithio â'r cnewyllyn hwnnw. Er na dderbyniodd Llewelyn yr awgrym yn syth oherwydd ei awydd i newid pethau'n raddol, dros amser datblygodd Didymus yn un o'i gefnogwyr pennaf yn y cwm, a gwnaeth yntau gyfraniad nodedig i ddeffroad yr eglwys yn y plwyf.

Un o'r newidiadau cyntaf o bwys a wnaeth Llewelyn i'r plwyf oedd codi ysgol ychydig dros flwyddyn wedi iddo gyrraedd yno, a chafodd gymorth Didymus gyda'r fenter hon. Mae hanes codi'r ysgol yn adlais arall o gyfnod Ellis yn Llanfihangel, yn benodol y frawddeg sy'n sôn am 'hunanaberth lawer ac ysgrifennu i erfyn am gymorth ym mhell ac agos',[50] ac yn arbennig felly y modd y cyfeiriwyd at Angharad ac yntau'n cyfrannu at y gwaith o ddysgu yn yr ysgoldy. Serch y tebygrwydd i hanes agor Ysgol Genedlaethol Lanfihangel yn 1868, dyma hefyd y gyfatebiaeth bendant gyntaf â thwf Mudiad Rhydychen yn esgobaeth Bangor. Daeth y Deon Cotwm i agor ysgol newydd Cwm Awen,[51] ac nid oes angen dychymyg o fath yn y byd i weld mai'r Deon Henry Cotton, noddwr caredig sefydliadau addysgol yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, oedd hwnnw.[52] Bu'r Deon Cotton go iawn yn ddeon ym Mangor rhwng 1838 a 1862, ac yn un o ladmeryddion

49 *ibid.*, t.208

50 *ibid.*, t.211

51 *ibid.*, t.341 (hynny yw, t.241 – cam rifwyd y 240au yn 340au yn *Yr Haul* yn 1891)

52 gw. William Hughes, The life and speeches of the Very Reverend J. H. Cotton, B.C.L., Dean of Bangor, and Rector of Llanllechyd (Bangor, 1874)

amlycaf deffroad uchel-eglwysig Mudiad Rhydychen yn esgobaeth Bangor. Yn gwbl groes i'r deon gwlad Seisnig a digywilydd a gynhaliodd wasanaeth sefydlu Llewelyn mor ddidaro, darlun ffafriol iawn a geir o'r Deon Cotwm – y mae'n atgoffa Llewelyn nad yw'r un weinidogaeth heb ei rhwystrau a'i thrafferthion, ond y mae'n ei annog i barhau â'r gwaith o ddeffro'r plwyf. Meddai:

> Bûm ar ymweliad â bron yr oll o Eglwysydd yr esgobaeth hon yn 1812. Cefais olwg salw iawn ar bob rhai o honynt. Bu gwelliant mawr yn y trefydd er yr amser hwnnw, ac y mae y deffroad yn bresennol yn dangos ei hun mewn llawer ardal wledig.[53]

Gyda'r hanesyn hwn hefyd y dechreua'r nofel afael. Cyn hynny, gosod y cefndir a wnâi Ellis, a tra bod y ficer newydd a'i wraig wedi derbyn eu hamgylchiadau digon anffafriol yn rasol, a'r gymdogaeth hithau wedi eu croesawu i'w plith, ni fu newid mawr yn agwedd y plwyfolion at yr Eglwys. Yr oedd popeth yn ddigyffro a di-nod cyn agor yr ysgol, ond pan ddechreuodd yr ysgol wneud cynnydd, deffrowyd y plwyf o'i drwmgwsg, ac o'r diwedd adweithiwyd yn erbyn ymdrechion y ficer newydd. Yn y fan hon y cyflwynir 'gelyn' y stori, Hugh Cadwaladr. Disgrifir ef fel groser, postfeistr, dilledydd, blaenor yn y capel a chlerc y festri – un o bileri'r gymdeithas, ond un dauwynebog at hynny a hoffai ddefnyddio ei statws i hyrwyddo gwaith y capel a dilorni gwaith yr eglwys. Dechreuodd bwyso ar bobl y pentref i wrthwynebu'r modd y dysgid y catecism yn yr ysgol newydd, a chefnogi ysgol amgen yr oedd ef wedi ei dechrau yn y capel. Ymhellach, yng ngeiriau'r nofelydd:

> Teimlai Mr H. Cadwaldr fod y "person newydd" yn ennill safle ysbrydol yn araf yn y plwyf. ... Anogodd ei gyd-gapelwyr i ymweld â'r cleifion "rhag gadael i'r "person" eu disodli o'r claf ystafelloedd." Sefydlodd ysgol nos yn y capel hefyd gan fod yr ysgol yn dal i ddenu llawer.[54]

Nid oedd y Methodistiaid wedi wynebu unrhyw fath o her yn y plwyf ers i'r corff ymffurfio'n gyfundeb ar wahân i'r Eglwys yn 1811, ond yr oedd offeiriadaeth ffres Llewelyn yn fygythiad i'w cynnydd, ac roedd Hugh Cadwaladr felly'n ysu am weld y ficer

---

53 *ibid.*, t.341 *(gweler uchod)*

54 *ibid.*, t.343 *(gweler uchod)*

yn methu. Nid peth anghyffredin oedd gweld rhai fel Cadwaladr yn anesmwytho pan ddeffrowyd yr Eglwys yn sgil dylanwad Mudiad Rhydychen, ac yn ei gymeriad ef creodd Ellis un i gynrychioli'r rhai a ofnai dwf y mudiad newydd a rhyfedd hwn. Fel y dywed Mary Ellis yn ei hastudiaeth, 'yma y mae'r awdur yn amlygu teimladau pobl yn gyffredinol tuag at newidiadau sylfaenol, a chyfeddyf i'r deffroad fod yn faen tramgwydd i lawer.'[55] Wrth ddisgrifio teip Cadwaladr, meddai Ellis:

> gwnaent bwnc o gydwybod o beidio â chwilio dim i egwyddorion yr Eglwys ... ond ei phardduo am y gallai fod ar ffordd eu llwyddiant. Yr oedd niweidio yr Eglwys yn gymaint o fater cydwybod ganddynt ag ydoedd llesáu Methodistiaeth.[56]

Diau fod y rhai a ysgrifennai yn erbyn yr Eglwys yn y wasg yn cael eu cyfrif ochr yn ochr â Hugh Cadwaladr gan Ellis - yr oedd Hugh Cadwaladr yr un mor atgas yng ngolwg Ellis â'r rhagrithwyr Doniol Jones a Pengrwn James yn Llanaber.

Daeth cyfle i Hugh Cadwaladr godi twrw pan alwyd cyfarfod i drafod atgyweirio eglwys adfeiliedig y plwyf. Yn nodweddiadol o gyfnod Mudiad Rhydychen, penderfynodd Llewelyn adnewyddu'r eglwys o'r brig i'r llawr. Bwriadwyd atgyweirio'r waliau a'r to, atgyweirio'r ffenestri, dychwelyd y platiau eirch a oedd yn crogi y tu mewn i'r adeilad i'w teuluoedd, symud y ddarllenfa a'r pulpud, a'r newid mwyaf dadleuol o'r cyfan, gosod seddau newydd yng nghorff yr eglwys. (Wrth basio, y mae o werth nodi bod y pum newid yn debyg iawn i'r newidiadau a wnaeth Ellis i Eglwys Ierôm yn Llangwm wrth atgyweirio honno yn 1873.) Golygai'r newid olaf y byddai'r offeiriad yn cael gwared ar yr hen seddau teuluol a oedd yn nodwedd mor amlwg o'r hen adeilad, a dyna pryd y gwelodd Hugh Cadwaladr ei gyfle i ddifetha cynlluniau Llewelyn. Yn ffodus iddo, pregethai'r Parch Phylip Jones yng nghapel y Methodistiaid y Sul cyn y cyfarfod, ac yn hwnnw cafodd gymorth i feddwl sut oedd mynd ati i danseilio'r cynlluniau arfaethedig. Yn ôl Mary Ellis, cymeriad wedi ei seilio ar sefydlydd y Coleg Normal a goruchwyliwr Ysgolion Brytanaidd

---

55 Mary Ellis, 'Llan Cwm Awen', *Llên Cymru* 16 (1991), t.317

56 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llan Cwm Awen', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 7 (1891), t.344 (*gweler uchod)*

a Thramor gogledd Cymru, John Phillips, oedd Y Parch. Phylip Jones.[57] Roedd Phillips yn ddyn o ddylanwad sylweddol a ddaeth yn enwog yn ei ddydd hefyd am ymosod ar yr Eglwys ym mhapurau newydd y dydd.[58] At hynny, mae'r modd y mae'n rhoi bwledi i Hugh Cadwaladr eu tanio yn erbyn y cynlluniau i ailwampio eglwys Cwm Awen yn nodweddiadol o agwedd annymunol y cymeriad go iawn at yr Eglwys.[59] Ym marn y pregethwr, roedd symud y seddau yn gymaint o sen ar deuluoedd ffermydd y plwyf ag y byddai dwyn eu holl ffermydd, ac aeth ymlaen i ddweud yn wenwynllyd:

> ...y mae yn dra rhyfedd gennyf fi eich bod yn y Cwm yma yn myned i adael i estron fel y person dynnu yr hen eglwys i lawr, a'i hadeiladu fel y myn ei hun ar gynllun Eglwys Babaidd, gan belled ag y gallaf fi ddeall.[60]

Dyna'r union fath o sylwadau a oedd yn fêl ar fysedd un mor gyfrwys â Hugh Cadwaladr, ac aeth ati ar ôl ei seiat gyda Phylip Jones i bwyso ar benteuluoedd y plwyf i wrthwynebu'r newidiadau arfaethedig.

Pan gynhaliwyd y festri dridiau wedi ymweliad Phylip Jones â'r plwyf, pleidleisiwyd o blaid y newidiadau llai dadleuol yn eithaf didrafferth, er bod trigolion Cwm Awen (fel rhai Llangwm yn 1873) yn gyndyn i dynnu'r platiau eirch o'r eglwys. Ond pan godwyd pwnc y seddau, ffrwydrodd y drafodaeth. Pan ddechreuodd rhai yn y cyfarfod gwestiynu tynnu'r seddau teuluol, cododd Didymus o'r Cwm ar ei draed a chyhuddodd Hugh Cadwaladr a Phylip Jones o wenwyno meddyliau'r plwyfolion. Nid oedd sôn am wrthwynebiad i atgyweiriad yr eglwys cyn y Sul, ac mewn anerchiad cwbl ysgubol beiai glerc y festri am y newid ym marn pobl y pentref:

---

57 Mary Ellis, 'Llan Cwm Awen', *Llên Cymru* 16, (1991), t.317

58 Harri Williams, John Phillips: Arloeswr Addysg (Llandysul, 1987)

59 *ibid.*, tt. 76, 80, 84. 85, 89, 92-3. gw. a hefyd Harri Williams, 'John Phillips', *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd* 6 (1982), t.25. Yn y fan honno, dyfynnir o gyfeiriad at Ysgol Frytanaidd ac Ysgol Genedlaethol Clynnog yn nyddiadur John Phillips – "The School better attended than ever, 80 Public Meeting, the National School brought low'.

60 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llan Cwm Awen', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 7 (1891), t.344 *(sef 244)*

> Yr wyf yn herio y cofiadur y mynyd hwn i'm gwrthddywedyd. Y mae yn gwenu yn eich gwyneb fel oen, ac yn barod i frathu eich sawdl fel sarff. Sathrwch y wiber. Os oes casbeth ar wyneb daiar, rhagrithiwr sebonllyd, sych-dduwiol, llechwrus, yn gwenu yn y gwyneb a cholynnu o'r tu cefn ydyw hwnnw. A dyma yw y cofiadur sydd yn swyno'r plwyf a'i hudoliaeth.[61]

Wedi'r fath gyhuddiad roedd Cadwaladr yn gegrwth, a dangoswyd pa mor agos at y gwir oedd sylwadau fflamychol Didymus pan basiwyd yr holl gynigion wedi hynny, gan gynnwys y bwriad i dynnu'r seddau teuluol, heb fawr o wrthwynebiad gan neb arall, wrth i Hugh Cadwaladr fethu â gwadu'r cyhuddiadau a daflwyd i'w gyfeiriad.

Wrth drafod hynt y cyfarfod gartref gyda'i wraig, synnai Llewelyn fod Cadwaladr wedi gweithredu mor llechwraidd, a bod Didymus wedi ymateb mor danllyd i'r cyfan. Yr hyn a geir yn ymatebion Didymus a Chadwaladr yw enghraifft o'r ymateb cyferbyniol i'r newidiadau a gyflwynwyd gan rai a ddaeth dan ddylanwad Mudiad Rhydychen. Yr oedd rhai'n ei weld fel rhywbeth newydd a oedd yn ysgwyd gormod ar yr eglwys sefydledig gysglyd, ond yr oedd eraill fel Didymus yn ei weld fel newid yr oedd ei angen ers tro byd.

Yng ngolwg rhai o'r un farn â Didymus, yr oedd angen i'r eglwys newid sawl peth, a'i hagwedd at y Gymraeg gyda'r amlycaf ohonynt. Pan agorwyd eglwys Cwm Awen ar ôl y gwaith atgyweirio, gweodd Ellis sylwadau ar ddyfodol y Gymraeg i'r stori, yn bennaf er mwyn dangos y newid a fu yn agwedd offeiriaid at yr iaith yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth sgwrsio â'r deon gwlad, Meurig Oxley, lleisiodd yr esgob ei farn na fyddai neb yn siarad Cymraeg ymhen deugain mlynedd, ac mai gwastraff amser oedd trafferthu â'r iaith:

> Atebai Mr Oxley, gan rwbio ei ddwylaw gwynlaethog a thoes-feddalion yng nghyd, "Y mae yr Iaith Gymraeg yn marw, fy arglwydd, yn marw." ...Aeth y ddau fonheddwr adref i freuddwydio am lwyddiant ym 'mharadwys ynfydion', wedi troi eu cefnau ar oleuni a llesâd yr Eglwys. Y mae anwybodaeth ysgolheigion a rhagfarn gwŷr o ddysg yn waeth na'r eiddo y werin.[62]

---

61 *ibid.*, t.272

62 *ibid.*, t.371

Gwahanol iawn oedd safbwynt Angharad ar yr iaith, ac unwaith eto codir Angharad fel un a arddelai rinweddau gorau'r deffroad tra oedd rhai fel Meurig Oxley yn cynrychioli'r beiau a oedd wedi llethu'r eglwys gyhyd cyn hynny. Pan ofynnodd yr esgob iddi hi a oedd hi'n hiraethu am ei chylch cymdeithasol arferol, Saesneg ei iaith, atebodd Angharad:

> Wedi dyfod i Gwm Awen, dysgais y wers syml fod llawn cymaint, os nad mwy, o waith i'r Cymro ddysgu Seisoneg ag sydd i'r Sais ddysgu Cymraeg. Y mae yma gannoedd yn awyddus i ddysgu Seisoneg, ond nis gallant gael y cyfleusderau, fforddio yr amser, na chael athrawon.[63]

Gwelai fod y werin dan anfantais, a thra cwynai swyddogion yr Eglwys am anallu'r werin i siarad yr iaith, gwelai Angharad ymhellach na hynny, gan farnu y dylai'r eglwys gyfarfod y Cymry uniaith hanner ffordd, a'u helpu i gael addysg. Dim ond trwy ddysgu'r iaith a siaradent hwy yr oedd modd cyrraedd eu calonnau yn ei barn hi.

Yn ystod y dathliadau i nodi agor yr eglwys, ceir cip ar agweddau eraill ar ddeffroad yr eglwys yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny yn arddulliau'r rhai a ddaeth yno i bregethu. Dau gymeriad o orffennol Ellis oedd yn sail i gymeriadau'r ddau bregethwr gwadd, ac mae eu henwau, fel y Deon Cotwm, yn dangos yn ddigon pendant pwy oeddynt. Yr oedd un o'r pregethwyr, sef ficer Dinas, T. Henry Thomas, yn bregethwr grymus, a synnai'r gynulleidfa ei fod mor debyg i'r pregethwyr a glywsent mor aml yn y capel. Thomas Thomas Caernarfon yn ddiau oedd hwn. Arddull wahanol iawn i Thomas oedd gan y pregethwr arall, sef Lewis Evans, curad Llechryd. O gyfnewid ei gyfenw â'i enw bedydd, gwelir mai cymeriad wedi ei seilio ar Evan Lewis oedd hwn, un o'r rhai a swynid fwyaf gan ddylanwad y Mudiad yn esgobaeth Bangor. Olynodd Nicander yn Llanllechid cyn dod yn Ddeon Bangor ar ddiwedd ei yrfa, a daeth Llanllechid yn enwog am fod yn un o gadarnleoedd egwyddorion y Mudiad yng Nghymru tra bu yno.[64] Cyflwynodd Evan Lewis lafarganu a sawl peth arall a nodweddai offeiriadaeth y rhai a oedd wedi'u swyno gan Fudiad Rhydychen i'r gwasanaethau yn Llanllechid, ac o droi at y nofel gwelir fod Lewis

63 *ibid.*, t.369

64 A. Tudno Williams, Mudiad Rhydychen a Chymru (Dinbych, 1983), t.56

Evans yntau yn arddangos rhai o nodweddion amlycaf y Mudiad yn ei ddull o bregethu. Yng ngeiriau un o blwyfolion Cwm Awen:

> Pregethodd yn ei wen-wisg. Y mae yn gwisgo gwasgod a choler hanner mynachaidd, ac yr oedd llawer mwy o Eglwys nac o Air Duw yn ei bregeth. Os fel yna y mae ein dynion ieuainc diwygiadol am fyned ym mlaen, yn iach i'r hen athrawiaethau Eglwysig, fe fyddant hwy eu hunain yn Rhufain yn fuan, a'r Eglwys yn ddarnau.[65]

Gwelai nifer debygrwydd rhy glòs rhwng y ffordd newydd hon a Phabyddiaeth, ac o gymharu Lewis Evans â rhai fel T. Henry Thomas efengylaidd ei ffordd, roedd sawl un yn ddrwgdybus o'r ffyrdd newydd hyn, ac yn llawer gwell ganddynt yr arddull efengylaidd. Gallent ddygymod â'r Eglwys tra oedd ei hoffeiriaid naill ai'n efengylaidd eu ffyrdd neu'n aneffeithiol, ond roedd yr arddull newydd egnïol hon yn ddieithr, a chan hynny, yn rhywbeth a ofnid gan lawer.

Yr oedd y cyferbyniad rhwng arddulliau T. Henry Thomas a Lewis Evans yn gyfle rhagorol i Ellis gyfeirio at ei eglwysyddiaeth ei hunan trwy gyfrwng cymeriad Llewelyn. Yn ystod ei ieuenctid, roedd yn ddyledus iawn i offeiriaid efengylaidd fel Thomas Thomas Caernarfon, ond wrth symud i'r offeiriadaeth yn esgobaeth Llanelwy, cyfarfu â sawl un a swynwyd gan Fudiad Rhydychen ac a oedd yn perthyn i'r garfan uchel-eglwysig. Y mae geiriau Llewelyn ar ôl y cyfarfod i ailagor eglwys Cwm Awen yn ddadlennol, ac yn dangos i ni fel y gwelai Ellis rinweddau'r ddwy garfan. Yn gyntaf, dyma ei sylw ar arddull T. Henry Thomas:

> Yr oeddwn wedi clywed yn flaenorol am ficer Dinas a churad Llechryd eu bod yn ddynion gweithgar a galluog, ond ni wyddwn fod dim gwahaniaeth o bwys rhyngddynt; felly ymdrechais eu cael yma. Deallaf erbyn hyn fod ficer Dinas yn esiampl dda o'r Eglwyswyr efengylaidd, fel y'i gelwir, prif amcan y rhai yw gwneuthur pregethiad Gair Duw yn effeithiol i achub pechaduriaid. ... Apeliant yn bersonol at bob pechadur i'w ennill yn bersonol at Grist *trwy y Gair*.[66]

---

65 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llan Cwm Awen', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 7 (1891), t.373

66 *ibid.*, t.373

I'r gwrthwyneb barnai fod Lewis Evans:

> ...yn un o'r blaid a elwir uchel-Eglwyswyr. Ond buasai yn well gennyf fi eu galw yn ddiwygwyr gwedduster y gwasanaeth cyhoeddus, ac addysgwyr athrawiaethau esgeulusedig. ...Pwnc mawr y diwygwyr diweddaraf ydyw dwyn i mewn adfywiad trwy ysbrydoli y gwasanaeth – diwyllio, diwygio, coethi, dyrchafu, ac ymdrechu cynhyrchu ysbryd addoli yn y gwasanaeth ... Ymdrechant ennill eneidiau at Dduw trwy yr Eglwys, a'u magu a'u meithrin yn bobl i Dduw yn yr Eglwys.[67]

O glywed am natur yr ail bregethwr, barnai Angharad mai dyna yn y bôn a wnâi ei gŵr yng Nghwm Awen, a thra cytunai yntau â'r sylw hwnnw mewn egwyddor, dywedodd:

> ...nid wyf fi yn perthyn i blaid neb; ac nid oes gennyf sicrwydd fy mod yn gallu gwneyd cyfiawnder â golygiadau y naill ffordd na'r llall yn gyflawn. ... Y mae llawer mwy o ddadleu yn y byd yng nghylch *geiriau* nag sydd yng nghylch sylweddau; ac wrth guro ar olygiadau y naill y llall, dall-ddyrnu ar ledrithion o gread eu hanwybodaeth a'u rhagfarn eu hunain y mae y rhan fwyaf o ddynion.[68]

Dyn y llwybr canol, a fedai o'r naill ffordd a'r llall oedd Llewelyn, a dyna safbwynt yr un a greodd y cymeriad hefyd. Cadarnheir safbwynt canol y ffordd Llewelyn (ac Ellis yntau) yn ddiweddarach yn y nofel, pan ddywed mewn sgwrs â T. Henry Thomas, 'byddaf yn teimlo yn lled gysurus bob amser tra yn cael uchel-Eglwyswr wrth un penelin, ac Eglwyswr efengylaidd wrth y llall'.[69] Pwy a ŵyr nad oedd adlais o sgwrs rhwng y Thomas Thomas go iawn a'r Ellis go iawn yn y sgwrs honno.

Daw'r sgwrs yn y nofel ar ôl disgrifiad o un o nodweddion eraill gweithgarwch y rhai a swynid gan Fudiad Rhydychen. Y nodwedd honno oedd y gweithgarwch lleyg nodedig a ddatblygodd yng nghanol y ganrif yn esgobaeth Bangor, a daeth hynny'n rhan o'r deffroad eglwysig yng Nghwm Awen pan roddodd Llewelyn 'wahoddiad i Gymdeithas Leygol

---

67 *ibid.*, t.373

68 *ibid.*, t.373

69 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llan Cwm Awen', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 8 (1892), t.170

Eglwysig Sir Arianrhod ymweld â'r plwyf.'[70] Dywedir fod cyfarfod cyffredinol wedi ei gynnal yn y prynhawn i ymdrin â phynciau eglwysig, gyda'r lleygwyr yn arwain. Canmolid y 'dyrnaid lleygwyr' ganddo am 'aberthu amser a llafur i ddeffroi eu brodyr yn y plwyfydd o'u hamgylch i wneuthur oddi mewn i'r Eglwys yr hyn a wna Ymneilltuwyr oddi allan iddi.'[71] Er bod pwyslais Mudiad Rhydychen ar bethau tra gwahanol i'r diwygiad efengylaidd, a arweiniodd at y Methodistiaid yn ffurfio cyfundeb ar wahân i'r Eglwys yn 1811, tynnodd Ellis gymhariaeth rhwng y ddau ddiwygiad er mwyn rhoi sêl ei fendith ar ddiwygiad a weithiai o fewn i'r Eglwys yn hytrach nag un a'i rhwygodd yn ddarnau.

Yng ngeiriau Mary Ellis, 'yr oedd y Gymdeithas Leygol yn un a ddaeth yn rym ym mywyd eglwysig esgobaeth Bangor ym mhumdegau cynnar y ganrif.' Olrheinir twf y gymdeithas go iawn i blwyf Llanllechid, pan aeth warden yr eglwys, John Williams, a Thomas Jones a William Evans o'r un plwyf, i eglwys Clynnog ar wahoddiad Robert Williams y ficer.[72] Yng ngeiriau Allud Eifion, yr oedd 'pentref tawel Clynnog wedi codi wrth weld y newyddbeth hwn'.[73]

Yn ei astudiaeth ar y Gymdeithas Leygol, dywed D. Eifion Evans i weithgarwch y lleygwyr ddechrau gan y 'teimlai rhai o leygwyr cydwybodol Esgobaeth Bangor, yn enwedig Sir Gaernarfon, y dylid gwneuthur rhywbeth ar unwaith i adnewyddu bywyd a gweithgarwch aelodau'r Eglwys yn yr Esgobaeth a'r Dywysogaeth'.[74] Diolch i ddylanwad y Gymdeithas Leygol yn y nofel, deffrowyd rhan bellennig o Gwm Awen hefyd, wrth i Llewelyn ganiatáu i dîm o leygwyr genhadu ymysg y clwstwr o dai ar lan y môr ym Mhorth y Cwm. Nid oes angen dyfalu pwy oedd William Jones, John Thomas ac Evan Williams a gyfrannodd at y

70 *ibid.*, t.168

71 *ibid.*, t.168

72 Mary Ellis, 'Llan Cwm Awen', *Llên Cymru* 16, (1991), t.342

73 Alltud Eifion, 'Byr Hanes y Gymdeithas Leygol', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.368

74 D. Eifion Evans, 'Dylanwad Mudiad Rhydychen yng Nghymru III – Y Gymdeithas Leygol', *Journal of the Historical Society of the Church in Wales* 10 (rhif 15, 1960), t.66

gwaith hwnnw. Bu addoldy Wesleaidd yn gwasanaethu trigolion y Borth ar un cyfnod, ond o weld bod yr addoldy hwnnw wedi cau, teimlai Llewelyn mai da o beth fyddai codi eglwys yno. O dderbyn mai Clynnog oedd sail Cwm Awen, gellid tybio mai rhywle fel Trefor oedd y pentrefig hwnnw ar lan y môr, neu Borth y foryd fel yr awgryma Mary Ellis,[75] ond gallai'r hanes fod yn seiliedig ar atgof diweddar iawn Ellis am godi eglwys y Santes Catherine ym Maerdy Dinmael. Hen storws, yn hytrach nag adeilad newydd oedd eglwys gyntaf y Borth fodd bynnag, ond bid a fo am hynny, cynhelid gwasanaethau ar nosweithiau Mercher yno, Ysgol Sul dan ofal Didymus o'r Cwm ac athro newydd Ysgol Genedlaethol Cwm Awen, a darlithoedd ar rannau o'r ysgrythur ar nosweithiau Sul, unwaith eto dan arweiniad yr athro newydd.[76]

Yr oedd rhan yr athro newydd yn is-blot yn y nofel i gynnal diddordeb y darllenydd, a seiliwyd cymeriad John Edwyn Jones ar un o gyfeillion Ellis yng Nghlynnog, sef Glasynys. Gydag ef y lletyodd Ellis tra bu'n astudio yn ysgol Eben Fardd, a gwaith Glasynys yng Nghlynnog oedd cadw Ysgol Genedlaethol y pentref. Mewn disgrifiad sy'n cyfateb i lawer o hanes a nodweddion personol Glasynys, disgrifia Ellis Edwyn Jones, yr athro newydd, fel a ganlyn:

> Gallai ddarllen y Beibl yn llithrig a deallus yn saith oed. Cyn bod yn ddeuddeg oed, gallai adrodd yn hyglyw, rwydd, salmau a phennodau cyfain oddi ar ben y fainc yn Ysgol Sul a Seiat capel Rhosydd. Efe oedd y blaenaf o blant blaenllaw yr ardal.[77]

Defnyddiodd Ellis yr enw dychmygol Rhosydd i gyfeirio o bosib at Ros Isaf, Rhostryfan a Rhosgadfan, sef yr ardal lle magwyd Glasynys ac yntau.

Gellid tybio bod peth cystadleuaeth wedi ei blethu i gyfeillgarwch Ellis a Glasynys o ddarllen brawddeg olaf y dyfyniad, a'r argraff a rydd y frawddeg honno yw bod Ellis ychydig yn genfigennus o'i gyfaill, a oedd un cam ymlaen arno yng Nghlynnog - roedd

75 Mary Ellis, 'Llan Cwm Awen', *Llên Cymru* 16, (1991), t.344

76 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llan Cwm Awen', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 8 (1892), t.197

77 *ibid.*, t.135

wedi dechrau ar yrfa fel athro lawer ynghynt nag Ellis wrth reswm. Nid yw'n syndod felly fod Edwyn Jones yn cael ei bortreadu fel cymeriad uchelgeisiol yn y nofel, ac at hynny, barn Angharad arno oedd ei fod yn hunandybus a mursennaidd. Arweiniodd yr hyfdra hwnnw at gam gwag gan y llanc o athro, wrth iddo ysgrifennu llythyr caru at Gwenafwy, merch y Plas, er mai dim ond pymtheg oed oedd hi ar y pryd. Pan anfonodd ail lythyr, bu bron â cholli ei swydd wedi i dad Gwenafwy ddod i wybod am ei weithredoedd, ond llwyddodd Llewelyn i gadw'r hanes rhag mynd ymhellach ar ôl i Edwyn Jones addo peidio gwneud dim o'r fath eto.

Nid yw'n hysbys a ddigwyddodd rhywbeth felly i Glasynys ei hunan, ac mae'n llawer tebycach mai dim ond rhywbeth i gadw diddordeb y darllenwyr oedd yr hanesyn hwn. Wedi crwydro'n aml i ddisgrifio nodweddion y deffroad a ddaeth yn sgil Mudiad Rhydychen, gwnaeth yn ddoeth i gynnwys hanesion byr fel hyn i gynnal y momentwm. At hynny, wrth i'r nofel dynnu tua'i therfyn mae'n canolbwyntio drachefn ar hynt cymeriadau'r nofel, fel pe bai'n gweld ei fod wedi pregethu ac athronyddu'n ormodol. Eir â'r stori rai blynyddoedd ymlaen, ac adroddir bod Gwenafwy Owen y Plas wedi priodi cyn-gurad Cwm Awen, Thomas Evans, a Gwenfoes Phylip, merch cyn-ficer y plwyf, wedi priodi â William Hughes, rheithor Llanddunawd. Ac, wrth i'r hanes ddirwyn i ben, cydnebydd yr esgob newydd, C. Honorius, waith caled Llywelyn yng Nghwm Awen trwy ei ddyrchafu i blwyf Llanfuddiol yn nes at ddinas y gadeirlan na Chwm Awen.

Yr oedd y newid a wnaeth Llewelyn Llwyd i Gwm Awen yn ddigon o destun syndod i'r plwyfolion, ond llawn cymaint o syndod iddynt oedd gweld ficer yn symud oddi yno. Yng ngeiriau craff Ellis:

> Nid oedd neb yn cofio yn y plwyf gwledig hwnnw i offeiriad erioed gael ei symud ond i'r bedd wrth ben dwyreiniol yr Eglwys ... yr arfer yng Nghymru oedd plannu yr offeiriad fel pren, boed ffrwythlawn neu anffrwythlawn, yn y plwyf gwledig, a'i adael yno i dyfu neu i grino, nes deuai angeu i'w dorri i lawr.[78]

---

78 *ibid.*, t.135

Yr oedd yn chwith gan y plwyfolion weld Llewelyn yn gadael, a theimlai yntau'n chwith wrth gofio am yr holl bethau a ddigwyddasai yno ers iddo yntau ag Angharad gyrraedd yno. Y llwyddiant pennaf oedd cael y bobl i feddwl am yr Eglwys fel corff byw a pherthnasol. Daw un o'r enghreifftiau gorau o hynny yn y modd chwithig y cyfeiriodd golchwraig y persondy, Siân, at ei meistr. Mewn sgwrs ag Angharad, dangosodd pa mor anodd i'r plwyfolion oedd dygymod â'r fath ysbryd newydd, anturus yn yr eglwys. Meddai:

> "meddwl yr oedd y bobl fod Mr. Llwyd yn fwy tebyg i bregethwr nag i berson; meddwl ei fod yn dduwiol fel pregethwr, ac yn medru pregethu fel pregethwr..."
> Yr oedd yr athrawiaeth hon yn dra newydd i Angharad, a deffroesid ei holl chwilfrydedd i gael allan fwy, felly ymdrechai gelu ei syndod.
> "Nid yw pobl y Cwm felly yn disgwyl gweled personiaid duwiol, nac yn meddwl am y bobl a ânt i'r Eglwys yn dduwiol?" ychwanegai Angharad.
> "Ni wn i ddim," atebai yr olchwraig yn ochelgar; "ond ni fydd dim sôn amdanynt yn grefyddol..."[79]

Roedd yr eglwys yn rhan o'r gymdeithas, ond rhywbeth ymylol iawn oedd hi wedi bod ers degawdau, a sefydliad aneffeithiol at hynny yng ngolwg Siân a'i chyfoedion. Roedd offeiriadaeth Llewelyn yn gymaint o newid fel yr oedd rhai wedi dechrau sylweddoli eto beth oedd ei phriod swydd hi yn y plwyf, a gweld ei bod yn gyfrwng rhyngddynt a Duw.

Wrth i'r nofel ddod i ben, mae Llewelyn yn teimlo lawer yn fwy gobeithiol am ddyfodol yr eglwys nag a wnâi pan sefydlwyd ef yn ficer y plwyf:

> Wrth ymadael i'w plwyf newydd ger llaw y ddinas esgobol, gadawodd Llewelyn Llwyd o'i ôl yn Llan Cwm Awen Eglwys fechan yn ymganghennu dros yr holl blwyf, ac wedi ei hadeiladu ar ei hathrawiaethau dwfn a llydain ei hun. Nid oedd mwy yn "gannwyll dan lestr." Hi a oleuai i bawb yn y plwyf, er na ewyllysiai pawb rodio yn ei goleuni.[80]

---

79 *ibid.*, t.260

80 *ibid.*, t.361

Byddai'r geiriau hyn yn ddigon priodol i ddisgrifio'r gweddnewidiad a fu yn Llangwm hefyd dan law Ellis ei hunan. Breuddwyd ganddo, efallai, oedd cael gadael Llangwm pan ysgrifennai'r nofel, a chael edrych o bellteroedd plwyf arall ar y gwaith a gyflawnodd yno, a theimlo iddo wneud ei orau mewn amgylchiadau digon anodd. Ni chafodd wneud hynny ei hunan, ac fel offeiriad wedi ei 'blannu' mewn plwyf gwledig hyd angau y byddai'n rhaid disgrifio ei hynt ef yn y plwyf. Serch hynny, cafodd fyw'r freuddwyd yn y nofel, ac yn ffodus iawn, rhoddodd gip i'r darllenwyr hefyd ar ei eglwysyddiaeth a llawer o'i atgofion am Langwm ac am Glynnog. Efallai bod mwy na dim ond dylanwad Mudiad Rhydychen wedi cyfrannu at ei lwyddiant yn Llangwm; ond yn sicr gallai briodoli mesur helaeth ohono i'r rhai yr oedd yn eu hadnabod yn ei ieuenctid ac y ceisiodd eu hefelychu - rhai o draddodiad Rhydychen ac eraill, fel Thomas Thomas Caernarfon, o'r traddodiad efengylaidd.

Gallai beirniaid llenyddol farnu bod y nofel hon, fel Llanaber, wedi gorffen yn rhy daclus, a'i bod yn aml wedi colli golwg ar ei phlot wrth oedi'n ormodol i fyfyrio ar nodweddion deffroad eglwysig y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Serch hynny, fel y nodwyd eisoes, nid ennill enw da iddo'i hunan fel llenor oedd bwriad Ellis. Croniclo atgofion am bethau y bu'n dyst iddynt yn ystod ei ieuenctid oedd ei brif fwriad, a defnyddio profiadau ei offeiriadaeth ei hunan i lywio tipyn ar yr hanes. Yng ngeiriau Mary Ellis:

> Wrth roi'r hanes ar ffurf nofel, gallai Elis Wyn gyfleu naws y cyfnod yn well na phe bai'n ceisio adrodd yr hanes yn foel. Yr oedd mwy o obaith denu darllenwyr hefyd, a chan fod cryn lawer o hiwmor a synnwyr digrifwch yn ei gyfansoddiad, mae'n bur debyg fod y dull hwn o sgrifennu'n rhoi boddhad iddo.[81]

Dangoswyd ar ddechrau'r bennod nad oedd yn eithriad yn yr hyn a wnaeth - cyfrwng cyfleus i gyfleu syniadau crefyddol, gwleidyddol neu ddiwylliannol yn anuniongyrchol oedd y nofel neu'r ffugchwedl. Gallai'r awduron daro ergydion caletach na'r rhai a allent eu taro mewn erthyglau ffeithiol, gan guddio y tu ôl i'r esgus mai ffuglen oedd y cyfan, er bod cymaint i awgrymu bod dogn go dda o wir yn yr hanesion a ysgrifenasant. Ni

81 Mary Ellis, 'Llan Cwm Awen', *Llên Cymru* 16 (1991), t.317

chynhwysodd E.G. Millward Llanaber a Llan Cwm Awen yn ei restr o ffugchwedlau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg,[82] ac yn gyffredinol anghofiwyd amdanynt gan feirniaid llenyddol Cymru. Serch hynny, wrth geisio dod i adnabod Ellis y maent yn gofnodion defnyddiol a dadlennol, ac maent yn rhoi syniad i ni sut y gwelai un a brofodd effeithiau fudiad Rhydychen ddylanwad y deffroad hwnnw ar yr eglwys sefydledig.

*Cyfieithu esboniadau Walsham How*

Ac eithrio ei gyfraniadau ffeithiol a ffuglennol i gyfnodolion fel *Y Llan*, *Yr Haul* ac *Y Geninen*, un o'i gyfraniadau mwyaf nodedig i lenyddiaeth eglwysig Gymraeg oedd cyfieithu cyfres o esboniadau ar y pedair Efengyl rhwng 1883 a 1891.

Fel y dywed R. Tudur Jones, 'Yn niwedd Oes Victoria y daeth bri mawr ar ysgrifennu esboniadau Cymraeg ar lyfrau'r Beibl'.[83] Gellir olrhain y traddodiad o gyhoeddi cyfrolau a oedd yn cynnwys esboniadau ar yr Ysgrythur i Cyssondeb y Pedair Efengyl[84] John Evans o Plymouth, a gwaith llawer mwy enwog a gyhoeddwyd ychydig yn ddiweddarach, sef Y Bibl Sanctaidd: sef, Yr Hen Destament a'r Newydd, gyd a Nodau a Sylwiadau ar bob Pennod[85] gan Peter Williams – 'Beibl Peter Williams' i roi yr enw answyddogol arno sy'n adnabyddus drwy Gymru hyd heddiw. Argraffiad o'r Beibl gyda nodiadau byr ar ddechrau a diwedd pob pennod yw'r 'esboniadau' sy'n cael eu cynnig gan Peter Williams serch hynny, a dim ond ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y cyhoeddwyd yr 'esboniad gwreiddiol cyntaf, yng ngwir ystyr y gair, yn Gymraeg', chwedl Tudur Jones.[86] Lluniodd Dr. George Lewis, Llanuwchllyn, saith cyfrol ar lyfrau'r Testament Newydd o 1802

---

82 Millward, 'Ffugchwedlau'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', *Llên Cymru* 12 (1973), tt.244-64

83 R. Tudur Jones, 'Esbonio'r Testament Newydd Yng Nghymru 1860 – 1890', Owen E. Evans (Gol.), Efrydiau Beiblaidd Bangor 3 (Abertawe, 1978), t.161

84 John Evans, Cyssondeb y Pedair Efengyl (Bristol, 1765)

85 Peter Williams, Y Bibl Sanctaidd: sef, Yr Hen Destament a'r Newydd, gyd a Nodau a Sylwiadau ar bob Pennod (Caerfyrddin, 1770)

86 Jones, 'Esbonio'r Testament Newydd Yng Nghymru 1860 – 1890', t.164

ymlaen, gyda golwg nid ar 'hyfforddi dysgeidion Cymru',[87] ond yn hytrach ar gynnig arweiniad i werin Cymru a oedd eisiau dysgu am yr Ysgrythur. Gosododd batrwm a ddilynwyd gan nifer wedi hynny, gyda John Jones (Idrisyn), ficer Llandysilio, Ceredigion, yn un o'r rhai amlycaf o blith offeiriaid yr eglwys sefydledig a ddarparodd esboniadau ar gyfer yr Ysgol Sul. Cyhoeddodd ei Alleirydd Ysgrythyrol, neu fynegair i'r ysgolion Sabbothol yn 1840, Y Deonglydd Berniadol : neu eglurhad manwl ar bob adnod yn yr Hen Destament a'r Newydd er gwasanaeth yr Ysgolion Sabbothol yn 1858, ac Yr Esboniedydd Hanesiol : neu adroddiadau gwirioneddol, fel eglurhad ar adnodau detholedig yn mhob pennod o'r Testament Newydd ar y cyd ag Isaac Jenkins yn 1841. Teg dweud er hynny mai yn 1853 yr ordeiniwyd ef yn ddiacon, ac mai fel un o'r Wesleaid y cyfrifid ef cyn hynny.

Llyfrau ymarferol er dibenion defosiwn a eglurai'r Ysgrythur yn ddigon ceidwadol oedd gwaith rhai fel Idrisyn, George Lewis a Peter Williams, a chadwent yn glòs at y nod o egluro'r cymalau mwyaf anodd a thynnu sylw at y nodweddion mwyaf arwyddocaol. Nid oeddent gan hynny yn bwriadu cynnig dim chwyldroadol yn eu hesboniadau, dim ond arweiniad hygyrch i'r rhai a oedd eisiau dod i wybod rhagor am y Beibl. Yn y byd Saesneg, cyfrol Matthew Henry o Fangor Is-y-coed, Exposition of the Old and New Testaments[88] oedd y gwaith a enillodd boblogrwydd hafal i'r parch a enillodd Beibl Peter Williams ymysg y Cymry, a daeth yn boblogaidd iawn fel arweiniad ymarferol, ond annadleuol, fel y dywed Philip Schraff:

> This work was long celebrated as the best English commentaries for devotional purposes. The author betrays a remarkable fertility of practical suggestion; and although the work is diffuse, it contains rich stores of truths, which hold the attention by their quaint freshness and aptness, and feed the spiritual life by their scriptural unction.'[89]

87 George Lewis, Esponiad ar y Testament Newydd (Caerlleon, 1802), Rhagymadrodd

88 Matthew Henry, An Exposition of the Old and New Testaments (London, 1708-10)

89 Philip Schraff, New Schaff-Herzog Encyclopedia of Religious Knowledge (Michigan, 1954), t.229. gw. www.ccel.org/s/schaff/encyc/home.html

Yr un math o fwriad oedd gan William Walsham How pan gyhoeddodd ei Commentary on the Four Gospels rhwng 1863 ac 1868 gyda chymorth y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristnogol (SPCK). Er bod nifer o syniadau am awduriaeth llyfrau'r Testament Newydd yn codi yn y cyfnod hwn, fel y syniad bod Efengyl Marc a dogfen goll a elwid yn 'Q' neu 'Logia' yn ffurfio sylfaen i Efengylau Matthew a Luc,[90] cadw at safbwyntiau digon traddodiadol a wnaeth How, a cheisio cynnig rhywbeth addas i bobl gyffredin yn fwy nag academyddion. Yn ei esboniadau, nodai'n ddibetrus mai Matthew oedd y cyntaf o'r pedwar Efengylydd i gofnodi hanes Iesu, ac ni welodd reswm i amau'r penderfyniad i osod ei Efengyl yn gyntaf yng nghanon y Testament Newydd. Er bod gwaith ysgolheigion fel J.B. Lightfoot, B.F. Westcott ac F.J.A. Hort wedi mynd i'r afael â chywirdeb Beibl Awdurdodedig 1611 y Brenin Iago tua'r un cyfnod,[91] gwelai How mai ei waith pennaf oedd esbonio rhagor ar y Beibl yr oedd ei gynulleidfa yn gyfarwydd ag ef.

Gwyddai Ellis am Walsham How ers cyfarfodydd clerigol deoniaeth Llangollen yn ystod ei guradiaeth yn Rhosymedre, sef yr union adeg y cyhoeddwyd argraffiadau cyntaf yr esboniadau. Am wyth mlynedd ar hugain, ef oedd ficer Whittington, pentref y tu draw i Groesoswallt a oedd yn rhan o esgobaeth Llanelwy hyd at 1920. Bu hefyd yn ganon yng ngholadiad Llanelwy ac yn ddeon gwlad Croesoswallt, cyn cael ei benodi'n esgob cynorthwyol Bedford yn 1879, gan gymryd gofal am ranbarth dwyrain Llundain, ac fe'i hapwyntiwyd yn esgob cyntaf Wakefield yn 1888. Bu farw yn 1897, ond yn ystod ei fywyd ysgrifennodd nifer o lyfrau a chyfansoddodd sawl emyn cofiadwy.[92]

Mae'n rhesymol tybio i'r Commentary on the Four Gospels greu cryn argraff ar gurad ifanc Rhosymedre, ac o gofio am yr astudiaethau Beiblaidd a gynhelid yng nghyfarfodydd deoniaethol Llangollen a Wrecsam, mae'n debyg iawn mai dyna pryd y daeth Ellis yn

90 gw. Stephen Neill, The Interpretation of the New Testament 1861 – 1961 (London, 1964)

91 *ibid.*, t.33-60 yn enwedig, a Brooke Foss Westcott, A General View of the History of the English Bible (London, 1868)

92 gw. F.D. How, Bishop Walsham How: A Memoir (London, 1898)

gyfarwydd â hwy gyntaf. Roedd y cyfrolau yn hynod boblogaidd yn eu dydd, gan i 65,000 copi gael eu hargraffu erbyn 1877, a hyd at chwarter miliwn erbyn diwedd y ganrif yn ôl ffynhonnell arall.[93] Pan benderfynodd yr SPCK mai da o beth fyddai cyfieithu'r esboniadau i'r Gymraeg, Ellis gafodd y gwaith ganddynt, a derbyniodd ei lafur yntau groeso brwd.

Roedd wedi profi ei hunan yn gyfieithydd medrus cyn dechrau ar ei offeiriadaeth, fel y tystia ei drosiad o eiriau Ceiriog i'r 'Prince of Wales Cantata' ar gyfer Eisteddfod Caernarfon yn 1862.[94] At hynny, roedd eisoes wedi dechrau cyfieithu emynau yn ystod y cyfnod y bu'n gofalu am Lanfihangel Glyn Myfyr. Pan roddwyd y cyfle iddo drosi esboniadau How, paratôdd yr esboniadau ar yr Efengyl yn ôl Matthew, Marc a Luc erbyn 1883, a'r gyfrol ar Efengyl Ioan yn 1891. Cafodd gymorth ei fab Ellis Gregory gyda'r olaf, a oedd wrth law bryd hynny gan ei fod yn gurad yn Llangwm.

Fel cyfieithiadau, yr oedd ei fersiynau Cymraeg yn drosiadau triw o syniadau How ac yn deilwng o ba bynnag dreuliau a dderbyniodd am y gwaith, ond y mae'n arwyddocaol ei fod wedi rhoi cymaint o'i amser i gyfieithu pedair cyfrol o esboniadau pan allai'n hawdd fod wedi ysgrifennu ei esboniadau ei hunan heb orfod poeni am gadw at lythyren y gwreiddiol. Rhaid ei fod wedi gweld yn esboniadau How lawer o gyfatebiaeth â'i syniadau ei hunan, a'i fod wedi derbyn y comisiwn i gyfieithu'r esboniadau gan wybod na fyddai'r cynnyrch terfynol yn gwrth-ddweud yr hyn a bregethai bob Sul yn Llangwm.

O fanylu ar gynnwys yr esboniadau, gwelir eu bod yn adlewyrchu nifer o syniadau'r oes ar ddyddiadau, awduriaeth a hanes y pedair Efengyl.[95] O ran eu hawduriaeth, yn y

---

93 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y Wasg', *Yr Haul* Ail gyfres Caerfyrddin 7 (1891), t.376

94 John Owen (Owain Alaw, Pencerdd) ; Welsh words by J. Ceiriog Hughes ; translation by E. Roberts, Festiniog, The Prince of Wales cantata (Wrexham, 1862)

95 gw. Neill, The Interpretation of the New Testament 1861 – 1961 a Jones, 'Esbonio'r Testament Newydd Yng Nghymru 1860 – 1890'

rhagymadrodd i'r gyfrol ar yr Efengyl yn ôl Sant Ioan, nodir bod Ioan wedi ysgrifennu 'tri Epistol heb law Llyfr y Datguddiad a'r Efengyl hon', [96] ac mai'r awdur oedd 'Mab ...Zebedëus a Salome, a brawd i Iago Fwyaf.'[97] Yn yr un modd, yn ei ragymadrodd i'r Efengyl yn ôl Matthew, dywed How mai awdur yr Efengyl honno yw'r cyn-gasglwr trethi a ddewisodd Iesu yn Apostol. Erbyn heddiw amheuir hynny'n fawr, yn enwedig wrth i ddyddiad cyfansoddi'r Efengyl gael ei roi gan lawer yn ddiweddarach na dinistr Jerwsalem yn 70 O.C. Yng ngeiriau un esboniwr:

> There are clear indications that it is a product of the second or third Christian generation. The traditional name of Matthew is retained in modern discussion only for convenience[98]

Y mae sylwadau Walsham How ar Luc a Marc yn fwy cydnaws â'r syniadau cyfredol - dywedir fod Luc y Ffisigwr yn gyfaill i Paul ac yn ysgrifennu'n bennaf ar gyfer y cenhedloedd, a Marc yn un o ddisgyblion Pedr, ac yn un a gyfansoddodd ei Efengyl ar gyfer Cristnogion yn Rhufain yn fwyaf tebyg, gyda'r esboniadau mynych o arferion Iddewig a phrinder cyfeiriadaeth at yr Hen Destament yn sail i'r dybiaeth honno. Er nad yw pob ysgolhaig yn derbyn cysylltiadau'r awduron â Pedr a Paul bellach, nid yw'r cyfeiriadau hyn yn ymddangos mor hen-ffasiwn â'r sylwadau ar Matthew ac Ioan yn yr unfed ganrif ar hugain.

Gwelai How debygrwydd rhwng y tair Efengyl gynharaf, ac wrth gyfeirio at yr Efengyl yn ôl Ioan dywedai mai honno oedd 'Efengyl yr athrawiaethau' a bod y 'tair arall yn Efengylau hanesiol.'[99] Nid oedd yn arddel y ffordd Awstinaidd yn llawn, sef credu bod

96 Ellis Roberts (cyfieithydd gwaith gwreiddiol) W. Walsham How, Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan (Llundain, 1891), t.4

97 *ibid.*, t.3. Am y consensws cyfoes ar awduriaeth a dyddiad yr Efengyl, gw. David Protheroe Davies, Arweiniad i'r Testament Newydd 1 : Yr Efengylau a'r Actau (Caerdydd, 1978), tt.110 ymlaen

98 Francis Wright Beare, The Gospel according to Matthew (Oxford, 1981), t.7. Gw. hefyd Davies, Yr Efengylau a'r Actau, tt.74-85

99 Ellis Roberts (cyfieithydd gwaith gwreiddiol) W. Walsham How, Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan (Llundain, 1891), t.4

Luc wedi seilio ei Efengyl ar waith Marc, a Marc cyn hynny ar yr Efengyl yn ôl Matthew, ond yn hytrach credai fod yr awduron wedi ysgrifennu eu hefengylau ar wahân, gyda Marc o bosib yn defnyddio gwaith Matthew fel sylfaen i'w fersiwn yntau o'r Efengyl. Brawddeg ddadlennol yw honno yn ei ragarweiniad i'r Efengyl yn ôl Luc, sy'n dweud:

> Credir yn gyffredinol i St. Luc ysgrifennu ei Efengyl ar ôl St. Matthew a St. Marc; a chan nad oes yn yr Efengyl hon ddim yn dangos y buasai i'w hysgrifennydd weled y lleill, y mae'n debyg i'w hysgrifennydd weled y lleill.[100]

Nid oes sôn am y gred fodern mai'r Efengyl yn ôl Marc a gyfansoddwyd gyntaf, a bod Matthew a Luc (yn annibynnol ar ei gilydd) wedi defnyddio'r Efengyl fer honno fel sylfaen i'w gweithiau mwy cynhwysfawr. Nid oes sôn ychwaith am y syniad fod ffynhonnell arall, a elwir yn 'Q' gan sawl esboniwr modern, ac a elwid yn 'Logia' gan rai esbonwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sy'n ffordd o egluro'r tebygrwydd rhwng Matthew a Luc nad ydyw i'w weld ym Marc. Fel y nodir uchod, ni welai How reswm i gredu bod Luc wedi gweld gwaith y ddau Efengylwr 'hanesiol' arall, sydd erbyn heddiw yn anghydnaws â barn trwch yr ysgolheigion Beiblaidd.

Traddodiadol iawn felly yw syniadau How am awduriaeth y pedair Efengyl, a daw cadarnhad pellach o hynny yn ei sylwadau rhagarweiniol ar yr Efengyl yn ôl Matthew, lle mae'n adleisio'r gred ei bod hi wedi ei hysgrifennu ychydig wedi esgyniad Iesu, a hynny yn yr iaith Hebraeg, gyda chyfieithiad Groeg yn dilyn yn fuan wedi hynny.[101] Mae'n wir bod y fath syniadau wedi eu hatgynhyrchu mor ddiweddar â 1911,[102] ond roedd y mwyafrif o esbonwyr Beiblaidd erbyn hynny yn ffafrio dyddiad hwyrach na 60 O.C., a rhai'n tybio ei bod wedi ei chyfansoddi mor hwyr â 80au'r ganrif gyntaf.

---

100 Ellis Roberts (cyfieithydd gwaith gwreiddiol) W. Walsham How, Yr Efengyl yn ôl Sant Luc (Llundain, 1883), t.4

101 Ellis Roberts (cyfieithydd gwaith gwreiddiol) W. Walsham How, Yr Efengyl yn ôl Sant Matthew (Llundain, 1885), t.4

102 'Gospel of St. Matthew' The Catholic Encyclopedia, Volume X (New York, 1911) – dyfynnir ar www.en.wikipedia.org/wiki/Gospel_of_Matthew

Yr oedd syniadau How yn debyg ar un ystyr i rai'r ysgolhaig Almaenaidd Johann Jakob Griesbach, a gredai mai efengyl Matthew oedd y gyntaf i gael ei hysgrifennu, a bod Marc wedi defnyddio'r Efengyl honno a chrynhoi'r cynnwys i ffurfio ei Efengyl yntau. Credai Griesbach serch hynny fod Luc yntau wedi defnyddio fersiwn Matthew i lunio ei Efengyl, a rhaid gosod How felly mewn cylch mwy ceidwadol fyth na Griesbach, nad oedd ond ychydig yn fwy modern ei syniadau na'r ysgol Awstinaidd o edrych ar y modd y cyfansoddwyd yr Efengylau synoptig.

O ran prif nodweddion gweledol yr esboniadau, mae'r llyfr wedi ei ddylunio fel bod adnod neu ddwy ar ben pob tudalen, a nodiadau i egluro'r adnodau hynny oddi tanynt. Y mae o werth tynnu sylw at ei ymdriniaeth â rhai o brif gerrig milltir hanes Iesu i gael syniad o'r modd yr esboniwyd y Gair, a lle y byddai'n rhoi pwyslais ar rai pynciau arbennig. Gwelir sut y mae rhagdybiaethau athrawiaethol How yn amodi ei ddarllen o'r testun, a hyd yn oed yn cael 'eu darllen i mewn' i'r hanes ar adegau. Wrth egluro hanes bedydd Iesu yn ôl Matthew, cyfeiria at y 'llef o'r nefoedd' fel a ganlyn:

> Sylwer yma ar amlygiad gwirioneddol i'r synhwyrau dynol o hanfodiad gwahanedig Tri Pherson y Drindod Sanctaidd. *Clywid llais* y Tad o'r nef. Bedyddid y Mab yn afon yr Iorddonen. *Gwelid* yr Yspryd Glân ar ffurf colomen, yn disgyn ar yr Iesu. *Crybwyllir* am y Tri Pherson yn nghyd mewn mannau eraill ... eithr yma nid yn unig enwir Hwy yng nghyd, ond *amlygir* Hwy ynghyd hefyd.[103]

Cawsai'r bedydd le amlwg iawn fel trobwynt arwyddocaol yn yr hanes gan How. Ymhellach, yng ngeiriau Cymraeg Ellis:

> Dalier sylw fel y cymmer yr arddeliad hwn o'r Iesu fel Mab le yn Ei Fedydd. Yr oedd yn Fab o'r blaen, ie, er tragwyddoldeb. Ond yn awr cyhoeddwyd ef. A allwn ni ddim gweled yma wystl o'n mabwysiad fel plant i Dduw yn y Bedydd sanctaidd?[104]

---

103 Ellis Roberts (cyfieithydd gwaith gwreiddiol) W. Walsham How, Yr Efengyl yn ôl Sant Matthew (Llundain, 1885), pennod 3 adnod 16 *(nid yw'r tudalennau wedi eu rhifo)*

104 *ibid.*, pennod 3 adnod 16

Y geiriau mwyaf trawiadol ynghylch bedydd Crist yw'r rhai canlynol, sy'n enghraifft nodedig o natur Eglwysig yr esboniadau:

> Y mae ein Heglwys yn ein dysgu i Dduw "trwy fedydd ei garedig Fab "yn afon Iorddonen sancteiddio dwfr er dirgel olchedigaeth pechodau." A dilys y gallwn dybio i'n Harglwydd Iesu Grist, wrth ymostwng i'w fedyddio, nid yn unig gyflawni holl gyfiawnderau deddfol hynny... ond hefyd iddo sancteiddio, ac anrhydeddu yr ordinhad neillduol o Fedydd, yr hwn a ddyrchafodd Efe ar ôl hynny i fod yn un o ddau sacrament Ei Eglwys.[105]

Cymaint oedd sancteiddrwydd y sacrament fel y siarsiai How y darllenwyr i ystyried eu bedydd hwythau fel trobwynt pwysicaf eu bywydau, ac i beidio â 'darostwng yn ôl i wasanaeth diafol'.

Mae How yn cymharu bedydd Iesu â'r comisiwn ar ddiwedd yr Efengyl yn ôl Matthew, a gwêl y gorchymyn i 'ddysgu'r holl genhedloedd, a'u bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân' fel un allweddol:

> Fel hyn y trefnodd ein Hiachawdwr y Sacrament sanctaidd o Fedydd fel nod neilltuol ac ordinhad hanfodol i'w Eglwys. ...mabwysiad Dwyfol a chadarnhad o'r ddefod fel drws derbyniad i mewn i'r Eglwys yw, a thrwy hynny ei sefydliad cyntaf fel sacrament Cristnogol ydyw. ...Y mae Eglwys Crist yn y wlad hon yn cyfyngu yr enw Sacramentau i'r ddwy ordinhad a sefydlodd ein Harglwydd Ei hun. Y mae y gorchymyn pendant yn yr adnodau hyn yn rhoddi y nodwedd arbennig yma i'r Bedydd. "Ordeiniwyd ef gan Grist ei Hun."[106]

Y sacrament arall, wrth gwrs, yw'r Cymun Bendigaid, ac yn yr esboniad ar y swper olaf, gwelir sawl cyfeiriad arall at ddulliau'r Eglwys o goffáu'r digwyddiad arwyddocaol hwnnw. Neilltua dudalen gyfan i fyfyrio ar yr ymadrodd, 'Gwnewch hyn er coffa am danaf', a groniclir yn Luc pennod 22, adnod 19. Hola Walsham How gwestiwn rhethregol:

> Beth yw ystyr y "Gwnewch hyn?" Myn rhai mai gorchymyn yw i weinidogion Crist weinyddu y Cymmun Bendigaid yn hytrach nac i'r bobl gyfranogi o hono, am mai yr Apostolion a annerchid yma, ac fod [sic] y cyfeiriad yn uniongyrchol at

---

105 *ibid.*, pennod 3 adnod 17

106 *ibid.*, pennod 28, adnod 19

> weithred sacramentol Crist Ei Hun. ... Dyry St. Paul, pa fodd bynnag, eglurhad ar y geiriau "Gwnewch hyn" ag sydd yn dangos o leiaf eu bod yn cofleidio y "*bwyta* ac *yfed,*" o herwydd ychwanega ar ôl geiriau ein Harglwydd yr ymadrodd pwysig, "Canys cynifer gwaith bynnag y bwytaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwpan hwn, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo" (1 Cor. xi. 26). ... Felly rhaid edrych ar y gorchymyn fel yn cofleidio yr holl ordinhad sanctaidd, - y bendithio a'r cyfrannu ar ran yr offeiriaid, a'r cyfranogi mewn bwyta ac yfed ar ran pawb.[107]

Ymhellach, dywed y gellir dehongli 'er cof am danaf' naill ai fel coffâd gerbron dyn, sef cofio marwolaeth yr Iachawdwr, neu goffâd gerbron Duw, sef cyflwyno Iesu o flaen ei orsedd – a dyfynna o'r Epistol at yr Hebreaid, am 'fyned yn hyderus at orseddfainc y gras' i gefnogi'r ail ddehongliad. Geiriau Ellis wrth grynhoi yw bod:

> y ddau goffâd yn rhannau gwirioneddol ac angenrheidiol o'r Cymun Bendigaid. Y mae yn portreadu Crist wedi Ei groeshoelio ger bron dyn; ac y mae yn dadleu Crist wedi Ei groeshoelio ger bron Duw.[108]

Cyfrolau i gefnogi gwaith yr eglwys sefydledig oedd y rhain mae'n amlwg, wedi eu cyfansoddi gan offeiriad a'u cyfieithu'n ffyddlon i'r Gymraeg gan offeiriad a oedd yr un mor selog dros achos yr Eglwys. Tra oedd syniadau'r awdur ar awduriaeth a threfn gronolegol yr Efengylau yn geidwadol, gellid dweud yn sicr hefyd ei fod yn credu'n gryf mewn cyfiawnhau pwysigrwydd dau sacrament Eglwys Loegr trwy'r hyn a ganfyddai yn yr Efengylau. Ceisiodd yr awdur a'r cyfieithydd gynnig arweiniad hygyrch a diamwys i'w cynulleidfaoedd, fel y gallai'r darllenwyr gyfiawnhau athrawiaethau'r eglwys sefydledig ar ôl astudio'r Efengylau gyda'r llyfrau hyn yn gymorth iddynt.

Nid yw pris y cyfrolau wedi ei nodi ar yr un ohonynt, ond mae'n debyg fod y cyhoeddwyr wedi rhoi pris a oedd o fewn cyrraedd eu cynulleidfa, yn un peth trwy eu cyhoeddi fesul Efengyl. Yn rhinwedd ei gyfrifoldeb fel cyfieithydd, aeth Ellis ati i geisio sicrhau fod y cynnwys mor naturiol â phosib i'r glust, tra ar yr un pryd yn aros yn driw i'r gwreiddiol. Mae'r hyn yr oedd ganddo i'w ddweud yn *Yr Haul* yn 1886 wrth bwyso a mesur cyfieithiad

---

107 Ellis Roberts (cyfieithydd gwaith gwreiddiol) W. Walsham How, Yr Efengyl yn ôl Sant Luc (Llundain, 1883), pennod 22 adnod 19

108 *ibid.*, pennod 22 adnod 19

y Parch. John Morgan, Pentrebach, o siars Richard Lewis, esgob Llandâf, yn ddadlennol. Dywedodd yn bendant fod angen parchu'r gwahaniaeth a oedd rhwng dulliau ymadrodd y ddwy iaith. Un o'r camgymeriadau rhwyddaf yn ei farn ef oedd pan 'roddir cyfieithiad llythrennol o'r ymadroddion. Dodir geiriau Cymraeg mewn arddull Seisonig; neu eiriau Seisonig mewn arddull Gymraeg...' Â yn ei flaen i nodi rhai enghreifftiau a oedd yn bradychu'r fath arfer. "Yr ymdrechion hynny, y rhai yn y gorphenol a fendithiwyd," &c.- "Yr ymdrechion a fendithiwyd yn y gorphenol," &c.' Yn ei farn ef:

> ... Dylid ymdrechu cael perwyddaid (predicate) yn gyntaf mor aml ag y byddo modd yn Gymraeg. "Adroddiad cymdeithas ... a ddiwedda gyda'r papragraph canlynol" – "Diwedda adroddiad cymdeithas ... gyda'r paragraph canlynol."[109]

Gan iddo gadw egwyddorion tebyg i'r rheiny mewn cof, derbyniodd y pedair cyfrol groeso twymgalon. Dywedodd esgob Llanelwy, A. G. Edwards, mai tasg ddigon anodd fyddai sylweddoli mai cyfieithiad oeddynt, gan gystal oedd y gwaith o'u trosi.[110] Ymysg priod gynulleidfa y cyfrolau, sef y rhai a brynai gopïau i'w hastudio, yr oedd yr ymateb yr un mor wresog. Yn 1891, adeg cyhoeddi'r esboniad ar Efengyl Ioan, adroddwyd yn *Yr Haul*:

> Deallwn oddi wrth lythyr o'r eiddo y Parch. Edmund M'Clure, M.A., ysgrifennydd y gymdeithas [SPCK], fod gwerthiant da ar yr esboniadau hyn. Gwerthwyd o'r esboniad ar St. Mathew, 4300 o gopïau; St. Marc, 1450 o gopïau; St. Luc, 1300 o gopïau. (aeth y cyntaf drwy ail argraffiad, ac fe'i cyhoeddwyd ynghynt na'r lleill.)[111]

Mae'r ffaith bod argraffiadau newydd wedi eu cyhoeddi rhwng 1909 a 1912, chwarter canrif wedi i'r cyfrolau cyntaf ymddangos, yn brawf eu bod wedi llwyddo i werthu hyd yn oed fwy na'r ffigyrau a nodir uchod.

---

109 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y Wasg', *Yr Haul* Ail gyfres Caerfyrddin 2 (1886), t.124

110 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.167

111 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y Wasg', *Yr Haul* Ail gyfres Caerfyrddin 7 (1891), t.376

Nid oedd y gwaith o argraffu'r cyfrolau heb ei anawsterau. Yn 1890, wrth ymateb yn *Yr Haul* i gŵyn am gylchlythyr Cymraeg llawn gwallau a anfonwyd o swyddfa'r SPCK, mae'n dwyn i gof y llythyru a fu rhyngddo a swyddfa gyhoeddi'r SPCK yn Llundain cyn argraffu'r esboniadau. 'Bu raid i ni gywiro prawfleni esboniad yr Esgob Howe ar St. Mathew *dair gwaith*,'[112] meddai. Mae'r frawddeg honno ynddi ei hunan yn gipolwg ar ei safonau golygyddol uchel – rhywbeth y tynnodd O. M. Edwards sylw ato pan ddywedodd 'ni cheir gwall gwasg yn yr Haul.'[113]

Credai Ellis yn amlwg mewn cyfieithu'n synhwyrol, gan ddarparu gwaith glân a chywir ar gyfer darllenwyr Cymraeg, er na fyddai awduron Saesneg wedi gorfod bustachu i'r fath raddau wrth gywiro gwallau'r cysodwyr. O gofio am ddifaterwch prif swyddogion yr eglwys ynglŷn â llenyddiaeth Gymraeg yr eglwys, mae'n rhyfedd fod un o'r teyrngedau mwyaf hael am y gwaith o gyfieithu esboniadau Walsham How wedi ei rhoi gan yr esgob A.G. Edwards, a ganmolodd y cyfrolau am eu naws Cymreig, naturiol.[114]

*Crynodeb*

Barddoniaeth yn ddiau oedd prif ddiddordeb Ellis, ac yr oedd yn bleser ganddo fod yn rhan o fwrlwm yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Serch hynny, o roi erthyglau ffeithiol a ffuglen *Yr Haul* gyda'r cyfieithiadau o esboniadau Walsham How, gwelir iddo ysgrifennu sawl math ar ryddiaith sydd â gwerth llawer mwy parhaol iddi na'i waith eisteddfodol. Yn ei nofelau gwelir darlun ohono ef ei hun na ddatgelir yn ei erthyglau ffeithiol, a galluogwyd ef i fynegi ei farn yn llawer mwy rhydd ar bynciau llosg ei ddydd fel 'cwac bregethwyr' a 'chwac areithwyr', yn ogystal â'i syniadau am y deffroad Eglwysig a ddigwyddodd yn ystod ei fagwraeth. Deellir trwy ei ryddiaith fod ganddo'r parch mwyaf at draddodiadau uchel-eglwysig ac efengylaidd yr Eglwys, ac o safbwynt ei ddiwinyddiaeth roedd ganddo olwg ddigon traddodiadol ar y Testament Newydd. Diolch i'w ryddiaith, gwneir yn iawn am ddiffyg archif bersonol a fyddai wedi datgelu'r un math o syniadau, ac y mae'r nofelau

112 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y S.P.C.K. a Llyfrau Cymraeg', *Yr Haul* Ail gyfres Caerfyrddin 6 (1890), t.186

113 O.M. Edwards, 'Golygyddion Cymru: II Golygydd "Yr Haul"', *Cymru* 3 (1892), t.210

a'r cyfieithiadau o'r esboniadau yn gyfraniadau pwysig at greu darlun mwy cyflawn o gymeriad Ellis.

114 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.167

# Pennod 6

## Rhyfel y Degwm

Tra oedd Ellis yng nghanol bwrlwm y gwaith o olygu argraffiad cyntaf Hymnau yr Eglwys, roedd 'rhyfel' ar ddechrau yn ei blwyf. Ni laddwyd neb yn y rhyfel hwn, ond yn Llangwm y gwelwyd brwydr ffyrnicaf yr hyn a elwid yn 'Rhyfel y Degwm'. Yr arferiad hynafol o dalu degwm o gynnyrch y tir a roddodd fod i'r trafferthion hyn. Daliwyd Ellis yng nghanol yr anghydfod gan mai i'r eglwys sefydledig y telid y degymau, ond nid oedd ganddo ef ddim i'w wneud â chodi gwrychyn y plwyfolion mewn gwirionedd. Trwy'r cyfan, ceisiodd ymateb yn rhesymol i'r cyfan, ond roedd pendantrwydd y wasg radicalaidd ar un ochr, ac ystyfnigrwydd dirprwywyr yr eglwys ar y llall, yn golygu y byddai pentref Llangwm a 'Rhyfel y Degwm' yn mynd law yn llaw yn y llyfrau hanes.

Roedd yn arferiad ers canrifoedd i'r eglwys sefydledig dderbyn degfed ran o gynnyrch amaethwyr eu plwyf, ac fe'i telid yn gymharol ddirwgnach bob blwyddyn. Wedi'r cwbl, roedd tystiolaeth o ddegymu i'w ganfod yn nifer o lyfrau'r Beibl, gan ddechrau â chyfnod Abram cyn sefydlu'r cyfamod rhyngddo a Duw. Mae llyfr Deuteronomium yn frith o gyfeiriadau at sut y dylid ymdrin â da byw a chynnyrch y tir, a gorchmynnir i amaethwyr ddegymu'r holl had a dyfai yn adnod 22 o bedwaredd pennod ar ddeg y llyfr hwnnw. Ymhellach, yn llyfr Numeri, dywedir fod pob degwm yn Israel i'w roi yn etifeddiaeth i'r Lefiaid. Hyn, mewn gwirionedd, oedd sail ysgrythurol yr arfer, ac fe ddaeth yn fodd hwylus o ariannu gweinidogaeth y plwyf yng Nghymru ac mewn sawl gwladwriaeth arall.

Er pasio Deddf Cyfnewid y Degwm yn 1836, fe'i mynnid gan ddirprwywyr yr eglwys ym Mhrydain fel tâl ariannol, ac fe'i cyfrifid ar sail prisiau cyfartalog ŷd dros y saith mlynedd flaenorol. Wrth i wenith rhad o America gyrraedd Prydain ar raddfa gynyddol, gostyngodd y prisiau a gâi ffermwyr Prydain am eu cynnyrch, ond ni ddeuai cyfle i addasu lefelau'r degwm tan ddiwedd y cylch saith mlynedd. Er gwaethaf peth anniddigrwydd, ni chyflyrwyd amaethwyr Cymru yn syth i brotestio yn erbyn y degwm, a gwir y dywedodd David Rees am

Gymry 1835 '[na]d oeddynt yn amau nad oedd talu degwm yn hollol ysgrythurol, ac mai pechod fuasai gwrthwynebu yr hyn a ystyrient yn ordinhad Duw.'[1] Er hynny, hanner canrif yn ddiweddarach, 'yr oedd gwerin Cymru'n aeddfedu'n wleidyddol, ac yn paratoi ar gyfer y brwydro mawr yn erbyn gormes a rhagorfraint'[2] chwedl Frank Price Jones. Yng ngogledd-ddwyrain Cymru, fel mewn sawl man arall, nid oedd y mwyafrif a weithiai ar y tir yn aelodau cydwybodol o'r Eglwys, ac ymddangosai'r degwm yn nawdd annheg i gorff amherthnasol. At hynny, gwyddai'r bobl nad âi'r degwm bob tro i gynnal eu heglwys leol. Wedi gwahanu Eglwys Loegr oddi wrth yr eglwys Gatholig adeg Harri'r VIII, gwerthwyd aceri o diroedd yr eglwys a'r abatai (ynghyd â'r hawliau degymu) i unigolion, neu eu rhoi i sefydliadau fel colegau Rhydychen a Chaergrawnt. Gyda'r elfennau hynny i gyd yn cyfuno â dirwasgiad llym yn y 1880au, cydiodd y syniad o beidio â thalu'r degwm ym meddyliau llawer. Roedd golygyddion y newyddiaduron poblogaidd a gwrth-Eglwysig yn cefnogi'r dueddfryd honno, neb yn fwy na Thomas Gee a'i wythnosolyn *Baner ac Amserau Cymru*, a oedd wedi dechrau tynnu sylw neilltuol at bwnc y degwm yn 1880.[3] Bu gostyngiad sylweddol ym mhris anifeiliaid yn 1885 yn fegin i'r tân yr oedd *Baner ac Amserau Cymru* wedi ei ddechrau, a chrewyd consensws eang y dylid dileu'r arfer o orfodi pawb i dalu'r degwm. Ymhen dim, roedd 'Rhyfel y Degwm' wedi dechrau, a'r anghydfod yn haeddu'r teitl hwnnw ar sail arweiniad rhai fel Thomas Gee:

> Yr oedd y cyfan wedi ei gynllunio'n fedrus: dyna pam y gellir ei alw'n Rhyfel – *Rhyfel* y Degwm, o'i wrthgyferbynnu â *Therfysg* Rebecca.[4]

Wrth weld trafferthion ariannol yr amaethwyr, ac yn sgil y cwynion a gyrhaeddai eu clustiau (naill ai'n uniongyrchol neu trwy'r wasg), penderfynodd nifer o offeiriaid ddychwelyd cyfran

---

1 Dyfynnir yn Frank Price Jones, Radicaliaeth a'r Werin Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Caerdydd, 1977), t.75

2 *ibid.*, t.75

3 T. Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee (Dinbych, 1913), t.449

4 Jones, Radicaliaeth a'r Werin Gymreig, t.94

o'r degwm i amaethwyr eu plwyfi. Un eithriad oedd ficer Llanarmon yn Iâl, Evan Evans, ac yn ei blwyf ef y cododd brwydr gyntaf y rhyfel. Gan na thalodd rhai o amaethwyr ei blwyf eu degymau, roedd gan y ficer yr hawl i gymryd meddiant cyfwerth â'r ddyled, a gwerthu'r eiddo hwnnw i ddigolledu ei hun. Ar 26 Awst 1886 daeth arwerthwr i werthu eiddo ar ffermydd Rhos Ddigre a'r Bryniau yn Llanarmon, a dywedir fod trigain o heddweision wedi gorfod ei warchod rhag y dorf a ymgynullodd i geisio tarfu ar ei waith.[5] Roedd y cyfan yn fêl ar fysedd golygydd *Baner ac Amserau Cymru*, ac yr oedd yn ddigon parod i gyhoeddi brawddegau ysgubol o bropaganda fel a ganlyn:

> Y mae brwydr gyntaf rhyfelawd y degwm wedi ei hymladd yn ucheldir Iâl, ar lannerch y cyfeirir ati yn y Gododdin, yn hanes brwydrau Catraeth.[6]

Roedd y werin Anghydffurfiol yn deffro, ac yn sylweddoli y gallent herio trefn a oedd yn ariannu eglwys nad oeddent yn ei mynychu. Yn gatalydd i hynny, sylweddolai Thomas Gee y gellid manteisio ar amgylchiadau economaidd i hyrwyddo ei agenda gwleidyddol ei hunan, gyda datgysylltiad yr Eglwys yn nod bendant ganddo ar ben draw'r helyntion.[7] Bu arwerthiannau tebyg a llawn mor gythryblus yn Llanfair Dyffryn Clwyd, Chwitffordd, Pensarn, Meifod, Bodfari a Mochdre yn ystod y flwyddyn ganlynol, wrth i ddirprwywyr eglwysig fynnu taliadau cyflawn, er gwaetha'r ceisiadau niferus i roi cyfran yn ôl.[8]

*Yr helynt yn Llangwm*

Er i'r arwerthiannau amhoblogaidd ddigwydd yn Amlwch rhwng hafau 1886 a 1887, yr helyntion yn Llangwm ym Mai 1887 a gyfrifir fel ysgarmes enwocaf 'Rhyfel y Degwm'. Mae fersiwn Hugh Evans o'r hyn a achosodd yr helynt yn Llangwm yn Cwm Eithin yn cyfeiliorni trwy ddweud:

---

5 Jones, Cofiant Thomas Gee, t.454

6 *ibid.*, t.456

7 Jones, Radicaliaeth a'r Werin Gymreig, t.94

8 *ibid.*, t.79

> ...gwrthododd person Llangwm, y Parch. Ellis Roberts, "Elis Wyn o Wyrfai," a rhai personiaid eraill, ostwng dim i'r amaethwyr.[9]

Fel y cadarnhaodd adroddiad *Baner ac Amserau Cymru* yn union wedi'r helyntion, roedd ficer Llangwm yn 'meddu ar ddigon o ras a doethineb i gydymdeimlo yn sylweddol â'i ddegwm-dalwyr, gan droi yn ôl iddynt yr hyn a ofynnid ganddynt.'[10] Hyn, cofier, yng ngholofnau'r papur a fu'n bennaf gyfrifol am danbeidrwydd 'rhyfel' y Degwm. Cydnabu'r amaethwyr eu hunain iddo ymdrin â'r sefyllfa gyda phwyll a chydymdeimlad, a cheisio gwneud y gorau posibl o sefyllfa ddigon cas. Ond gan fod y dirprwywyr eglwysig yn mynnu cael y degwm yn gyflawn, trefnodd yr amaethwyr gyfarfod yn Nhachwedd 1886 i ystyried beth fyddai'r ffordd orau o wrthwynebu'r gorchymyn. Yn y penderfyniadau a gofnodwyd yn nhafarn Tŷ-nant, gwelir yn glir y sefyllfa a oedd yn eu hwynebu, ond amlygir nad oedd a wnelai eu hoffeiriad ddim â'r anghydfod:

> 1. That inasmuch as this protracted depression of trade has so affected the prices of every kind of agricultural produce and cattle as to make it quite impossible for us to be able to make both ends of the tread to meet, or to keep the wolf's jaws from our doors, we are compelled to apply to the Ecclestiastical Commissioners for a reduction of fifteen per cent in the tithe-rents due this month.
>
> 2. That inasmuch as our landlord has made a reduction in our rents, and that the Rev. E. Roberts, the respected Rector of this Parish, has promised to make a reduction in his tithe-rents due this months, we consider that we are also entitled to the aforesaid reduction in the tithe-rents due now, for we humbly believe we are entitled to your best sympathy and consideration in the present hard, trying time, especially until the tithes levied in this portion of the Parish are spent outside of it.[11]

Sylwer fod yr apêl felly'n cael ei wneud yn bennaf i ddeiliaid y degwm a breswyliai y tu allan i'r plwyf. Tra byddai'r ficer yn gweld sefyllfa ddigalon ei gymdogion yn ddyddiol, mater o

9 Hugh Evans, Cwm Eithin (Lerpwl, 1931), t.218

10 *Baner ac Amserau Cymru*, 1 Mehefin 1887, t.13

11 Archifdy Sir Ddinbych, Rhuthun - dogfen DD/DM/673/6

barhau i dderbyn arian yn rheolaidd oedd uchaf ym mlaenoriaeth derbynwyr eraill y degymau, ac nid oedd lle i sentiment lleol yn eu cynlluniau. Nid yw'n syndod felly bod datganiadau'r cyfarfod hwnnw yn Nhŷ-nant wedi cael eu hanwybyddu. Gan na chawsant wrandawiad, penderfynodd yr amaethwyr beidio â thalu eu degymau, gan orfodi'r dirprwywyr i geisio atafaelu eiddo i wneud yn iawn am y dyledion.

Wedi atafaelu eiddo o ffermydd y Groesfaen, Arddwyfaen, Tai Mawr a Fron Isa', galwyd ar yr arwerthwr 'Ap Mwrog' i ddod i werthu'r hyn a gafwyd. Cadwodd nifer wyliadwriaeth ddydd a nos wrth i ddiwrnod tebygol yr arwerthiant ddynesu. Mae lle i gredu fod y darlun rhamantaidd hwnnw o'r gymuned gyfan yn paratoi coelcerthi ac yn chwythu cyrn i hysbysu ei gilydd pan agosâi'r arwerthwr yn berffaith wir, gan mai arfer yr arwerthwyr oedd cyrraedd yn annisgwyl a chael eu harian, doed a ddelo. Am dri o'r gloch y bore ar ddydd Mercher, 25 Mai 1887, gwelwyd yr Arolygydd Vaughan a phump ar hugain o'i heddweision yn dod i gyfeiriad Llangwm, gyda'r bwriad o fod yno'n gynnar i gadw trefn ar arwerthiannau'r dydd. Er hynny, adroddai *Baner ac Amserau Cymru* nad oedd yr arwerthwr wedi codi lawn mor fore, a bod y cynllun wedi ei ddrysu.[12] Pan gyrhaeddodd Ap Mwrog fferm Tŷ Isa' beth amser ar ôl yr heddgeidwaid, roedd tyrfa gref eisoes wedi ymgynnull, ac yng nghanol y sŵn ni chynigiodd neb lleol am ddwy fuwch a atafaelwyd. Pan gynigiodd cigydd o'r Rhyl amdanynt, cynyddodd y tensiwn. Rhwystrwyd ymgais yr heddweision i arwain y ddwy fuwch o'r fferm, a bu'n rhaid i'r arwerthwr a'i gydymaith o'r Rhyl adael yn waglaw.[13]

Dychwelodd Ap Mwrog a'r heddweision i Langwm yn gynnar fore Gwener, ac adroddwyd yn *Baner ac Amserau Cymru* i'r system rybuddio sicrhau fod cawod o wyau gorllyd a thyweirch yn eu croesawu. Yr ail ymweliad hwn a greodd y cyswllt rhwng Llangwm a Rhyfel y Degwm ym meddwl y cyhoedd. Cynullwyd tyrfa fawr eto yn sgil bonllefau o "Sêl,

---

12 Jones, Cofiant Thomas Gee, t.472

13 Llên y Llannau: Eisteddfodau 1986 (Y Bala, 1987), t.63

Sêl" drwy'r gymdogaeth, ac wrth iddynt wasgu ar yr arwerthwr dechreuodd rhai ohonynt fygwth ei daflu dros Bont y Glyn. Er i rai eraill eu darbwyllo i beidio â gwneud hynny, ni fu'r ymgais i gynnal arwerthiant yn llwyddiannus y tro hwn chwaith. Yn wir, fe orfodwyd yr arwerthwr i 'esgyn llechwedd uwchlaw'r ffordd ger Tynyglyn, ac yma, gerbron cannoedd o edrychwyr, aeth ... ar ei liniau gan addo na ddeuai fyth eto ar y fath berwyl.'[14] Er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn llawn sylweddoli nerth eu penderfyniad, cerddodd nifer o'r dorf ar ei ôl yr holl ffordd i Gorwen, gan ei orfodi yntau a'r prisiwr i wisgo eu cotiau o chwith i ddangos fod yn edifar ganddynt geisio gwerthu'r eiddo a atafaelwyd.

Roedd yr amaethwyr wedi ennill y frwydr hon yn y rhyfel, ond wedi iddynt gywilyddio a cham-drin yr arwerthwyr i'r fath raddau, nid oedd yn syndod i'r awdurdodau fynd ag wyth ar hugain o flaen eu gwell ar 6 Gorffennaf 1887. Wedi dwyn yr achos gerbron ustusiaid Rhuthun, cyhuddwyd wyth o 'arweinwyr' y cythrwfl o ymddwyn yn ymosodol a chodi terfysg. Hwynt hwy oedd 'merthyron' enwog y rhyfel. *Baner ac Amserau Cymru* a wnaeth arwyr ohonynt, wrth i'r perchennog, Thomas Gee, ymlawenhau am fod cymaint o arwyddion gwrthryfel yn erbyn gormes yr Eglwys yn dod i'r wyneb. Yn sgil helyntion Llangwm, ceisiodd gadw fflam y 'rhyfel' ynghynn trwy gyhoeddi nifer o ddatganiadau fel a ganlyn yn ei newyddiadur:

> Blwyddyn fendigedig ydyw hon wedi bod – ac un feichiog o obeithion am ddyddiau gwell! Byth er pan y penderfynodd ffermwyr Llandyrnog hawlio deg punt y cant o ostyngiad fel amod taliad y Degwm ... y mae ein amaethwyr yn well dynion – wedi dyfod i deimlo eu nerth. ... A'r wythnos diwethaf, llawenychwyd calon yr holl wlad gan leisiau amaethwyr Meifod yn sir Drefaldwyn, a Llangwm yn sir Ddinbych... Campus, amaethwyr, trwy holl siroedd Cymru! Chwi wnaethoch yn dda! Ond cadwch eich arfau yn loywon – y mae brwydrau mwy eto i'w hymladd – a'u hennill hefyd![15]

---

14 *ibid.*, t.65 Cyfeirir at yr arwerthwr yn addo na fyddai'n dychwelyd i Langwm yn Jones, Cofiant Thomas Gee, t.473

15 *Baner ac Amserau Cymru* 1 Mehefin 1887, t.1

Ymhellach, wrth i ferthyron Llangwm baratoi i ymddangos ym Mrawdlys Rhuthun yn Chwefror 1888, gwerthwyd lluniau ohonynt hwy a'u cyd-wrthryfelwyr gan Gee am hanner coron yr un i godi arian tuag at eu hachos.

Pan ddaeth yr wyth o flaen eu gwell, y ddedfryd oedd y dylent gadw rhag dulliau treisgar yn y dyfodol, neu wynebu dirwy o £20. Yn fuan wedi hynny, tawelodd helynt y degwm, ac ni fu cynnwrf pellach o bwys yn y plwyf. Mae'n wir fod gwrthdystiadau, ac atafaeliadau, wedi digwydd yn ysbeidiol mewn mannau eraill hyd ddiwedd y ddegawd, ond nid i'r fath raddau ag a welwyd yn Llangwm ym Mai a Mehefin 1887. Yn sgil yr holl derfysg, pasiwyd deddf seneddol yn 1891 i addasu'r modd y cesglid y degymau, gan roi'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau'r tirfeddianwyr yn hytrach na'r tenantiaid. Golygodd hyn fod rhenti wedi eu codi mewn rhai mannau i ariannu'r newid hwn, ond yn gyffredinol fe groesawyd y ddeddf fel buddugoliaeth yn erbyn gormes anghyfiawn yr eglwys.

I Thomas Gee, cam nesaf y frwydr oedd mynnu datgysylltu Eglwys Loegr yng Nghymru'n gyfan gwbl, a dyna, mewn gwirionedd, a aeth â'i fryd yn ystod degawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

*Rhyfel y Degwm yn Llangwm – post mortem*

Cynnyrch y wasg ym marn llawer oedd Rhyfel y Degwm, a mynegiant o wrthwynebiad radicaliaeth Gymreig i'r hyn a gyfrifid yn ormes yr Eglwys ar gymunedau amaethyddol lle teyrnasai Anghydffurfiaeth. Pan aeth taliadau'r degwm yn ormod i amaethwyr ei dalu, gafaelodd y wasg yn y pwnc fel rhan o'u brwydr barhaus yn erbyn yr eglwys sefydledig. Roedd y degwm yn dreth annheg, ac yn bwnc cynhennus rhwng y werin Anghydffurfiol a'r Eglwys estron, fel y galwodd Thomas Gee hi.[16] Y wasg a fu'n gyfrifol am danio'r ddadl ac am gadw'r fflamau ynghynn wrth ganmol yr amaethwyr a wrthwynebai dalu'r degwm ar hyd a lled Cymru. Un enghraifft sy'n dangos safbwyntiau'r wasg wrth-Eglwysig yn ystod y

16 Jones, Cofiant Thomas Gee, t.482

cyfnod hwn yw sylwadau John Griffith 'Y Gohebydd', un o golofnwyr enwocaf *Baner ac Amserau Cymru*, wrth adrodd am hynt y rhyfel yn Llangwm:

> ...yr wyf yn honni yn hollol ddibetrus fod yr hyn a wnaed yn teilyngu edmygedd a diolchgarwch y genedl yn gyffredinol, am ei fod yn wrthdystiad cryf, diamwys, a phenderfynol yn erbyn gormes annioddefol sefydliad gwladol o grefydd...[17]

Ni welent ddim o'i le mewn canmol dulliau anghyfansoddiadol yr amaethwyr o wrthwynebu'r degwm, yn hytrach fe'u gwnaent yn destun edmygedd a disgrifio'r dewraf o'r gwrthdystwyr fel merthyron. Gwahoddodd y golygydd gerddi a glodforai'r ymgyrch yn erbyn y degymau.[18] Argraffwyd y cerddi gorau mewn pamffled, sy'n cynnwys penillion gwrth-Eglwysig fel:

> Ymdrechwn yn unol a dyfal o hyd,
> I yrru hen orthrwm y degwm o'r byd;
> Ymladdwn, gorchfygwn, a mynnwn ein rhan,
> Dim degwm i'r lleygwyr a'r llan.[19]

Wrth ofyn pwy oedd yn gyfrifol am y 'Rhyfel', gollyngodd Frank Price Jones ben trymaf y bai wrth ddrws argraffdy Gee yn Ninbych, gan mai oddi yno y gweinyddai'r perchennog y gynghrair wrth-ddegymol, ac mai am mai ef oedd yn gyfrifol am gyhoeddi *Baner ac Amserau Cymru*. Gellid mynd â'r ddadl mai Gee oedd prif gynhyrfwr y rhyfel ymhellach, ac awgrymu bod darllenwyr *Baner ac Amserau Cymru* yn Llangwm a mannau eraill tebyg yn droedfilwyr defnyddiol iddo yn ei ymgyrch gyffredinol yn erbyn gormes yr eglwys sefydledig a'i pherthynas freintiedig â'r wladwriaeth. Gwelodd ei gyfle i amlygu anghyfiawnder y cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth ym mhwnc y degwm, gan fod cynifer o'r rhai a dalai'r degwm yn gorfod cynnal eu haddoldai eu hunain ar ben y dreth hon i gynnal eglwys

17 *Baner ac Amserau Cymru* 1 Mehefin 1887, t.13

18 Jones, Radicaliaeth a'r Werin Gymreig, t.93

19 Caneuon y degwm : cyfansoddiadau buddugol ... o "Baner ac Amserau Cymru" (Dinbych, 1887), t.10

nad oeddent yn ei mynychu. Yn sgil hyn, cymhellodd amaethwyr, yn enwedig yn ei sir enedigol, Sir Ddinbych, i beidio â thalu'r degwm, a llwyddodd i roi cychwyn ar nifer o wrthdystiadau yng nghefn gwlad Cymru.

Tra oedd y 'Rhyfel' ar ei anterth, a'r ymdeimlad yn erbyn yr Eglwys felly ar ei gryfaf, defnyddiodd *Baner ac Amserau Cymru* i annog y rhai a ddaeth dan ei ddylanwad i feddwl am y frwydr ehangach yn erbyn perthynas crefydd a'r sefydliad. O weld momentwm 'Rhyfel y degwm', ymhyfrydai yn y ffaith fod y fath ddeffroad wedi digwydd yng nghefn gwlad Cymru:

> Yn y trefi, byddai'r bobl yn wastad yn lled gyffrous ar gwestiynau politicaidd, ond y syniad cyffredin am amaethwyr y wlad oedd eu bod i fesur helaeth fel arall. Ond erbyn hyn, y mae arwyddion fod y rhod yn troi; arwyddion fod asgwrn yn dyfod at asgwrn, a gïau yn cael eu ffurfio, a bywyd hefyd yn ymddangos.[20]

Disgrifid Gee gan ei gofiannydd fel 'blaenor y werin newydd'.[21] Lai na thri chwarter canrif cyn Rhyfel y Degwm, roedd ei enwad, y Methodistiaid Calfinaidd, yn rhan o'r eglwys sefydledig. Serch hynny, ac yntau'n perthyn i'r ail neu'r drydedd genhedlaeth o Fethodistiaid, roedd ei safiad diwyro yn erbyn y degwm, ac yn erbyn perthynas yr Eglwys â'r wladwriaeth yn sgil hynny, yn arwydd pendant bod y Methodistiaid wedi torri'n gwbl rydd o'r corff y deilliodd ohono. Roedd safbwyntiau Thomas Gee yn gydnaws â'r hyn y byddid wedi ei ddisgwyl gan y Bedyddwyr a'r Annibynwyr, ac roedd ymgyrch ddiarbed *Baner ac Amserau Cymru* yn golygu bod yr holl enwadau Anghydffurfiol yn ffurfio un ffrynt unedig yn erbyn yr Eglwys a'i pherthynas freintiedig â'r wladwriaeth erbyn y 1880au. Yng ngeiriau T. Gwynn Jones:

---

20 Jones, Cofiant Thomas Gee, t.458-9

21 *ibid.* t.624

> Pan ddechreuodd Mr Gee ar ei yrfa gyhoeddus, nid oedd y Methodistiaid Calfinaidd eto wedi cwbl bechu'r pechod anfaddeuol yn erbyn yr hen drefn trwy sefyll ar yr un tir â'r "Ymneilltuwyr Gwleidyddol;" ond nid hir y bu ef cyn gweled ei lwybr yn glir.[22]

Gee oedd un o'r unigolyn a fu'n bennaf gyfrifol am radicaleiddio cefn gwlad Cymru, a chael y werin i gredu bod modd iddynt hwy gwyno yn erbyn annhegwch eu byd. Byddai rhai'n barnu mai manteisio ar amaethwyr cyffredin i hyrwyddo ei wrthwynebiad personol i berthynas yr Eglwys â'r wladwriaeth a wnaeth yn ystod 'Rhyfel y degwm'. Wedi'r cwbl, ym Medi 1888, penderfynodd newid enw'r gymdeithas a sefydlodd, sef Cymdeithas Gorthrymedigion y Degwm, yn 'Gynghrair Cenedlaethol Cymru', a nodai ymgyrchu ar ddatgysylltiad, pwnc y tir a'r degwm ymhlith ei amcanion.[23] Serch hynny, byddai eraill yn dweud na wnaeth ddim mwy na rhoi cyfle i'r werin Anghydffurfiol uno i wrthsefyll y sefydliad, a chadw'n driw at egwyddorion yr oedd wedi glynu wrthynt erioed. Fel y dywedodd T. Gwynn Jones:

> Argyhoeddwyd Mr. Gee yn fore na ddylai'r wladwriaeth ymyrryd â chrefydd mewn unrhyw fodd, a chefnogodd *Y Faner* ryddid a chydraddoldeb crefyddol o'r dechrau.[24]

Gwedd ar y frwydr barhaus honno oedd y 'Rhyfel', ac adroddodd amdano yn yr un modd ag y rhoddodd sylw i agweddau eraill ar y frwydr yn erbyn yr eglwys sefydledig.

Gelynion pennaf Thomas Gee a'i wasg oedd y Comisiynwyr Eglwysig a fynnai fod y degwm yn cael ei dalu. Gwnaethant hynny hyd yn oed pan oedd offeiriaid wedi cytuno ar gyfaddawd a oedd yn lleihau ychydig ar y swm y byddai'r amaethwyr yn gorfod ei dalu. Gallai Gee a'i gyfeillion felly resymu nad oedd ganddynt ddewis ond amlygu anghyfiawnder y sefyllfa. Wrth gyfeirio at yr adegau yr aed ati i geisio meddiannu eiddo i wneud yn iawn am ôl-ddyledion y degwm, nododd Howel Gee, mab Thomas:

---

22 *ibid.*, t.621

23 *ibid.*, t.487

24 *ibid.*, t.270

> Ymhob un aethant dros derfynau eu hamser cyn gwerthu, ac agos ymhob man rhoed dwylaw ar o bump i ddeng waith neu chwaneg tros ben gwir werth y degwm. Y mae hynny yn anghyfiawn â'r tenant, trwy brisio ei eiddo yn rhy isel. Ymhlith y ffermwyr eu hunain y cododd y mudiad, ond diau fod a wnelai *Y Faner* lawer â'i ledaeniad. Y mae'r *Faner* yn arwain ac yn gwneuthur ei goreu i oleuo'r meddwl cyhoeddus ers dros ddeugain mlynedd.[25]

Wrth gyflwyno ei resymau yntau i'r comisiwn a geisiodd ddatrys yr anghydfod, barn Thomas Gee oedd mai ffrwyth gwrthwynebiad i sefydliad estron oedd man cychwyn yr helyntion:

> ...a feeling which is greatly intensified by the fact that it is an 'alien' church (The Church of England in Wales) – and includes but a small minority of its inhabitants.[26]

At hynny hefyd, dadl un o wyresau merthyron Llangwm, Eirlys Lewis Evans, oedd bod y terfysg wedi dangos sut y gorfodwyd amaethwyr cyffredin i:

> ymostwng i eithafion, a [bod y ffaith] nad oedd dim dewis arall ganddynt yn brawf pendant o'u cyflwr truenus. ...Ymladd am eu bywoliaeth yr oeddynt ac nid cynllwynio yn fwriadol i greu cynnwrf a thrafferth i'r awdurdodau.[27]

Gall haneswyr bwyso a mesur yr holl bethau a gyfrannodd at yr helyntion, a gweld efallai bod bai a thegwch i'w cael mewn mesurau go gyfartal ar y naill ochr a'r llall. Mae'n amlwg er hynny nad oedd llawer yn amhleidiol yng nghanol y cyfan, ac archollwyd y berthynas fregus rhwng y llan a'r werin yn enbyd yn sgil y terfysgoedd. Roedd hynny wrth reswm yn dân ar groen yr ychydig a geisiodd godi uwchlaw'r dadlau, gan resynu bod cymaint o anniddigrwydd rhwng Cristnogion yng Nghymru. Un o'r garfan ddethol hon oedd Ellis. Efallai nad oedd a wnelai ef ddim yn uniongyrchol â'r helyntion enwog yn ei blwyf, ond yr oedd er hynny'n dyst poenus o agos i'r cyfan. Tra cyhoeddai Thomas Gee sylwadau

---

25 *ibid.*, t.480

26 *ibid.*, t.482

27 Llên y Llannau: Eisteddfodau 1986 (Y Bala, 1987), t.73

ymfflamychol yn ei newyddiadur er mwyn parhau â'r ddadl yn erbyn gormes yr eglwys, rhoddai tudalennau *Yr Haul* gyfle i Ellis gynnig ei sylwadau yntau ar yr holl ymrafael.

*Ymateb Ellis i'r helyntion*

Gan fod cwynion yn erbyn talu'r degwm wedi eu lleisio'n gynyddol hyd at ddechrau'r terfysgoedd, roedd gofyn i Ellis neilltuo rhai colofnau i ymdrin â'r pwnc yn *Yr Haul* bron yn syth wedi iddo ddechrau ei olygu. Yn rhifyn Chwefror 1885, mae'n synhwyro fod gwrthdaro ar y gorwel, ac yn mynegi pryder fod yr hen arferiad o dalu degwm i gynnal crefydd dan fygythiad:

> Y mae y syniad am y degwm fel gorthrwm wedi llenwi y dosbarth amaethyddol â rhagfarn dirfawr tuag at yr Eglwys. Edrychant ar yr offeiriad fel un yn byw ar ffrwyth eu llafur hwy, heb ganddo un hawl uwch law yr eiddo grym gorfodol cyfraith i'r cyfryw.[28]

Â yn ei flaen i roi ei fys ar le y credai y gorweddai'r bai am gynnydd y fath ddicter, gan resynu fod y math o offeryn a allai gael ei ddefnyddio i ledaenu 'gwybodaeth fuddiol i'r oes', fel y cyfeiriodd at newyddiaduron yn *Yr Haul* yn 1885,[29] yn cael ei ddefnyddio i gynyddu'r tensiwn. *Baner ac Amserau Cymru* yn ddiau oedd dani pan ddywedodd fod:

> ...rhai newyddiaduron yn wir yn ymdrechu creu ychwaneg o ragfarn a drwgdybiaeth ym meddyliau yr amaethwyr at yr offeiriaid. ...Goleuni gwybodaeth, adnabyddiaeth bersonol, a bywyd o gariad a sancteiddrwydd yn unig all eu llwyr ddileu.[30]

Credai'n gryf fod gan y wasg gyfrifoldeb i ddylanwadu'n llesol ar foesoldeb ei darllenwyr, a gwelai fai ar y papurau newydd hynny a ysgrifennai erthyglau ymfflamychol i gynhyrfu'r werin. Gan hynny, ceisiai roi amlinelliad cywir o hanes, perthnasedd a chyfreithlondeb

---

28 Elis Wyn o Wyrfai, 'Yr Amaethwr a'r Eglwys', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 1 (1885), t.56

29 Elis Wyn o Wyrfai, 'At ein Darllenwyr', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 1 (1885), t.1

30 Elis Wyn o Wyrfai, 'Yr Amaethwr a'r Eglwys', t.56

degymau ar dudalennau *Yr Haul*, fel y byddai gan eglwyswyr arfau priodol i wrthbrofi haeriadau annheg yn erbyn yr Eglwys.

Erbyn 1886, roedd yr hinsawdd gwleidyddol yn poethi, ac enghreifftiau o wrthod talu'r degwm yn prysur ddod yn gyffredin. Wrth gloi cyfres 1886, meddai yn *Yr Haul*, 'yr ydys yn terfynu y flwyddyn hon mewn amser cymylog a dryghinog i'r Eglwys, ond mewn tymor o gynauaf heulog i'r wasg wrth-Eglwysig.'[31] Yn yr un flwyddyn, gyda rhai o'r terfysgoedd cynharaf wedi codi i'r wyneb erbyn hynny, gwelai fai ar y wasg am glodfori trais ac anhrefn fel dulliau o wrthwynebu'r degwm:

> Cefnogir, cyfnerthir, a gwobrwyir; ie, dyrchefir i fysg arwyr a merthyron, yr amaethwyr byrbwyll neu gecrus neu benboeth enwadol i wrthod talu eu degwm heb orfodaeth gyfreithiol boenus. Tynnu yr Eglwys i warth yw yr amcan... Bydded ein brodyr mor oddefgar ag y gallant, a chaffed amynedd ei pherffaith waith. Y mae offeiriaid llawer plwyf mewn ffwrn o dân poeth; ond gallant, hwyrach, trwy eu hamynedd, eu cariad, eu parodrwydd i oddef, yn hytrach na drygu, ddangos fod Un "tebyg i Fab Duw" yn rhodio yn eu plith.[32]

Ceisiodd annog ei gyd-Eglwyswyr i fod yn amyneddgar a grasol yng nghanol y terfysg, fel na fyddai'r Eglwys yn colli ei hurddas trwy fynnu dant am ddant wrth iddi gael ei pharddduo. Gallai siarad â chryn fesur o empathi fis yn ddiweddarach mae'n debyg, pan ddywedodd fod 'degau o'r offeiriaid hyn yn *rhannu eu tamaid olaf* gyda'r amaethwyr yn eu cyfyngder.'[33] Ei eiddo ef yw'r italeiddio, ac yr oedd yn wir wedi gwneud ei orau glas ar ran ei blwyfolion. Roedd wedi ceisio a cheisio cyfiawnhau talu'r degymau, a gwneud ei orau yn ymarferol ar ran pobl Llangwm, ond ofnai eu bod ar fin dilyn esiampl pentrefi cyfagos, lle'r oedd gwrthod talu'r degwm eisoes yn gyffredin. Wrth alw am ychydig o bwyll, prin iawn oedd y rhai a

---

31 Elis Wyn o Wyrfai, 'Rhagymadrodd', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 2 (1886)

32 Elis Wyn o Wyrfai, 'Terfysgoedd y Degwm', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1886), t.319

33 *ibid.*, t.351

dderbyniodd ei gyngor. Gan hynny, pan gododd terfysg mwyaf nodedig 'Rhyfel y Degwm' yn ei blwyf, nid syndod iddo ymateb yn chwyrn i'r helyntion trwy gyfrwng *Yr Haul*.

Yn gyntaf oll, nododd ei siom wrth weld cyfraith gwlad yn cael ei hamharchu mor hawdd yn ei blwyf. Yr hyn a barai loes calon iddo oedd gweld cynifer o drigolion gwaraidd Llangwm a phentrefi cyfagos yn terfysgu ochr yn ochr â rhai nad oedd disgwyl fawr gwell ganddynt:

> Nid segurwyr direidus a chymeriadau aflonydd ac anfoddog cymdeithas sydd yn terfysgu, ond poblogaeth gyfan yr ardaloedd – y siopwr blodeuog, yr amaethwr cefnog, y tyddynwr, perchennog ei feysydd, y gwas cyflog, a'r segurddyn. ... Nid ymddengys fod neb o'r bobl hyn yn ystyried gwrthwynebu cyfraith gwlad yn bechod. ... Byddai yn dda i'r oll sydd yn caru eu cenedl ddysgu iddynt barchu cyfraith gwlad, megis y gwna St. Pedr, St. Paul a'n Hiachawdwr Iesu Grist (1 Pedr ii. 13; Titus iii. 1; Rhuf. Xiii. 1-7; a Mathew xxii.21).[34]

Yn ei farn ef, nid oeddent wedi rhoi cyfle i drafodaeth resymol ddatrys materion nad oedd wrth eu bodd, ac fe'i digalonnwyd ymhellach wrth weld cynifer yn ystyried trais yn fodd amgenach na democratiaeth i gael y maen i'r wal. Nodai mai:

> newydd dderbyn pleidlais ydyw y werin. Dwywaith y cawsant eu defnyddio, ac eto dyma eu blaenoriaid yn eu galw i daflu ymaith y bleidlais gyfreithiol a chyfansoddiadol ac apelio at gyfraith y pastwn.[35]

Gwelai fai ar arweinwyr yr enwadau am beidio â chynnig arweiniad cadarnach o blaid ffyrdd tangnefeddus o ddatrys anghydfod, gan ddwyn cymhariaeth â Seimon Pedr yn taro'r milwr â'i gleddyf yng ngardd Gethsemane. Er cydnabod fod y cyfnod terfysglyd yn peri i rai pobl weithredu'n fyrbwyll, roedd wedi ei siomi nad oedd arweinwyr Ymneilltuaeth yn cymell dulliau amgenach o drafod priodoldeb talu'r degwm na'r dulliau anghynnes a welwyd yn Llangwm. Yn wir, dywedodd yn blaen yn yr un erthygl, 'os apelia Ymneilltuaeth Gymreig at

---

34 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y Terfysgoedd Gwrthddegymol yn Llangwm a'r Cyffiniau', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1887), t.213

35 *ibid.*, t.214

... y pastwn, y mae ei hysbrydolrwydd ar ben.'[36] Wedi taro'r ergyd drom honno, mae'n cloi ei sylwadau trwy geisio awgrymu'r ffordd orau i'w ddarllenwyr ddelio â'r helyntion, gan obeithio, ar yr un gwynt, y byddai'r rhai a fu'n protestio yn ei gymdogaeth ei hunan yn clywed ei genadwri:

> Beth am y feddyginiaeth? Nid o ymryson, ymgynhenu, nac ymgyfreithio y daw, ond o ddioddef yn amyneddgar a pharhau i ddyfal weithio, i arddangos cariad yn lle cas, a gweddïo dros yr erlidwyr a'r rhai a'n cablant ac a'n casânt.[37]

Mae'n debyg na thrawyd y pyst yn ddigon caled, oherwydd fis yn ddiweddarach roedd gofyn iddo daro yn ôl yn hallt yn erbyn erthygl na ddangosai lawer o ysbryd cariadus tua'r eglwys. Ysgrifennodd eiriau digyfaddawd yn ei golofn olygyddol ynghylch erthygl gamarweiniol a ymddangosodd yn *Baner ac Amserau Cymru,* yn sôn fod ceffyl a anafwyd yn angheuol yn ystod y cythrwfl yn Llangwm wedi ei gladdu yn rhan 'anghysegredig' y fynwent yno. Wedi dangos nad oes y fath beth â mynwent heb ei chysegru'n bod, dywed:

> Gwêl y darllenydd meddylgraff ddyfnder malais a dichell yr ysgrifennydd yn y *Faner*. ... Dywed i hwn gael ei gladdu yn y fynwent i ddryllio teimladau Eglwyswyr a pherthnasu y meirwon a orffwysant yn y llannerch brydferth honno. Ni allai Sataneidd-dra fyned ymhellach mewn awgrymiadau cableddus.[38]

Os oedd angen enghraifft o ddulliau mwyaf anghynnes *Baner ac Amserau Cymru* o hyrwyddo 'Rhyfel y degwm', nid oedd eisiau gwell enghraifft na'r uchod. Roedd tanbeidrwydd anarferol Ellis yn brawf o hyn – nid ar chwarae bach y cyfeiriai at weithredoedd unrhyw un fel 'Sataneidd-dra'.

Yn rhifyn y mis canlynol mae'n cyfeirio at lythyr a anfonodd C. Tawelfryn Thomas at olygydd colofn llythyrau *Baner ac Amserau Cymru,* yn gweld bai ar yr erthygl honno yn *Yr*

---

36 Elis Wyn o Wyrfai, 'Terfysgoedd y Degwm', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1887), t.256

37 *ibid.*, t.214

38 Elis Wyn o Wyrfai, 'Terfysgoedd y Degwm', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1887), t.256

*Haul* am iddi roi cymaint o bwyslais ar gadw cyfraith gwlad. Dechreua Ellis ei ymateb trwy ofyn a yw'r awdur yn ystyried ei hun yn deilwng i farnu pa ddeddfau yng nghyfraith gwlad nad oes angen i bobl eu cadw? Anhrefn llwyr fyddai pen draw'r fath ymresymu yn ei farn ef. Daw i'r casgliad mai 'dyma ogwyddiad ei holl syniadau yn ei ysgrif, a mawr obeithiwn, er mwyn diogelwch a dedwyddwch Cymru, mai ychydig yw nifer y rhai sy'n gyfrannog o'r golygiadau gwrth-efengylaidd hynny.'[39] Mae'n debyg hefyd fod y gwynt wedi eu tynnu o hwyliau Tawelfryn Thomas wrth i Ellis gloi ei ymateb â'r sylw perthnasol ac effeithiol canlynol:

> Yr ydym yn adwaen yr awdur yn dda; rhoddasom iddo groesawiad i'n hysgol pan yn ieuanc, yr oedd yn fachgen caredig, gobeithiol, ac yr ydym yn tosturio wrtho. Gweddïed am gael ymwared oddi wrth y tân ansanctaidd sydd yn llenwi ei lythyr ... ac os yw yn wir awyddus i wneuthur lles i breswylwyr ei hen fro enedigol, ni chaiff neb mwy parod i'w gynorthwyo na nyni, ac i aberthu llawer hefyd, o herwydd cariad at ein gwlad a'n cenedl sydd yn peri i ni edrych ar "gyfraith gwlad yn gysegredig," ac ymdrechu caethiwo pob meddwl i ufudd-dod Crist.[40]

Ac eithrio sylwadau Tawelfryn Thomas, ni fu gofyn i Ellis ateb yr un ymosodiad arno ef ei hunan o du *Baner ac Amserau Cymru*. Yn hytrach, pan drodd sylw'r wasg wrth-Eglwysig at ddatgysylltu'r Eglwys y gwelodd nesaf yr angen i neilltuo colofnau *Yr Haul* i ateb sylwadau a gynhwysid yn yr wythnosolyn hwnnw. Wrth i gwestiynau ynghylch hawl yr Eglwys ar ei gwaddoliadau hynafol gael eu seilio ar ffeithiau a ystyriai Ellis yn gamarweiniol a sbeitlyd, profodd eto ei fod yn ddadleuwr teg, pwyllog a chraff, ac yn un nad oedd yn iselhau ei hunan i daflu llaid yn ôl pan deflid llaid at bethau a oedd yn annwyl ganddo. Pan gynhaliwyd ymchwiliad i'r terfysgoedd ynghylch y degwm yn siroedd Dinbych a Threfaldwyn, cododd Thomas Gee yr hen grachen mai 'eglwys estronol yw Eglwys Loegr yng Nghymru'. Atebodd Ellis yr haeriad hwnnw mor gwrtais a chywir ag arfer. 'Y mae gennym ormod o barch personol i Mr. Gee i ddweud mai anwiredd yw ei eiriau, ond

39 Elis Wyn o Wyrfai, 'Llangwm a'r Helynt Gwrth-ddegymol', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 3 (1887), t.280

40 *ibid.*, t.280

dywedwn yn ddi-ofn mai nid Eglwys "estronol" yw "Eglwys Loegr" yng Nghymru.' Â yn ei flaen i ddweud mai gwir oedd y sylw bod enw Eglwys Loegr ar y Llyfr Gweddi Gyffredin a ddefnyddid yn eglwysi Cymru:

> ...ond cofier nad yw yr enw bob amser yn arwydd cywir o natur a nodwedd y gwrthrych. ... Enw Saesneg yw Gee, ... ond yr ydym ni yn gwybod yn wahanol, mai Cymro twym galon caredig yw. Felly yr Eglwys, nid yw yr enw Lloegr yn profi dim mwy na'r enw Gee am estroneiddiwch y naill na'r llall.[41]

Wrth i 'Ryfel y Degwm' dawelu yn fuan wedi'r achos llys hwnnw, parhaodd i ysgrifennu yn yr un cyweirnod yn *Yr Haul* pan oedd gofyn gwneud hynny, gan gywiro ystod eang o osodiadau annheg yn erbyn yr Eglwys. Am weddill ei oes parhaodd yn un o amddiffynwyr mwyaf pybyr yr Eglwys, gan amlaf ar dudalennau *Yr Haul*.

*Amddiffynnydd Eglwysig*

Dywed Gwynedd:

> Yr oedd y ffaith ei fod mor hyddysg mewn hanesyddiaeth Eglwysig yn ei osod ar dir manteisiol iawn fel amddiffynnydd: ac yr oedd ei allu ymresymiadol cryf a'i gynneddf ddadansoddol gywrain yn gaffaeliad ychwanegol gwerthfawr iddo.[42]

Ni fyddai'n cael ei wylltio i ysgrifennu dim yn fyrbwyll, ond yn hytrach byddai'n pwyso a mesur gosodiadau a ystyriai ef yn rhai annheg neu ddi-sail, ac yna lluniai wrthddadl yn seiliedig ar ffeithiau cadarn.

Un o'r enghreifftiau gorau o'i waith fel amddiffynnydd Eglwysig yw'r erthygl yn ymateb i ysgrif gan R. Kilsby Jones yn *Y Geninen* ar 'Paham yr wyf yn Ymneillduwr'. Mae'n dechrau yn ei arddull fonheddig nodweddiadol trwy ddatgan fod gan bawb hawl i arddel egwyddorion sy'n apelio atynt. Er hynny, roedd yn cydnabod bod y wasg yn barod iawn i

41 Elis Wyn o Wyrfai, 'Y Wasg', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 4 (1888), t.282

42 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.96

wthio Ymneilltuwyr ac Eglwyswyr ymhellach oddi wrth ei gilydd, ac o ganlyniad, dylid edrych yn wrthrychol ar berthynas y ddwy garfan hyn o Gristnogion â'i gilydd.

> Gwawd-ddarluniau a gawn o'r naill blaid fel y llall drwy y wasg, ac ar y llwyfan, ac yn y Senedd. Gwawd-ddarluniau (caricatures) yr un modd y mae yr Eglwyswyr yn ei weled o Ymneilltuaeth, a'r Ymneilltuwyr o'r Eglwys.[43]

Wrth gydnabod fod pawb yn dangos rhyw ogwydd neu'i gilydd wrth drafod materion crefyddol, ni theimlai fod y darlun a roddai Kilsby Jones o'r Eglwys yn un teg – yn wir, meddai: 'pe cawswn olwg arni fel ag yr ymddengys y cafodd efe, buaswn yn ffoi o'i chynteddau ar unwaith.'[44] Wrth gydnabod efallai y byddai yntau'n creu llun llawn mor wallus o gyfundeb Ymneilltuol pe bai'n ceisio gwneud hynny heb ymgyfarwyddo â'i bwnc yn drylwyr, manteisiodd ar y cyfle i gywiro camosodiadau ynghylch y garfan Gristnogol y gwyddai fwyaf amdani. Dangosodd yn glir nad oedd sail i farn Kilsby Jones mai 'eglwys wedi ei sylfaenu trwy ddeddf seneddol' ydoedd, ac aeth ati i ddangos fod gwrthwynebiad i uchafiaeth y Pab yng Nghymru ers y chweched ganrif,[45] ac mai'n anghywir felly y tybiai mai dim ond yn nyddiau Harri VIII y daeth yr eglwys i'w ffurf 'Brotestannaidd'.

Dangosodd fod ganddo'r ddawn hefyd i gywiro camgymeriadau ysgubol a oedd yn gwneud cam mawr â'r Eglwys, ac a arweiniai at ddryswch ynghylch arferion enwadol yr un pryd. Mynnai Kilsby Jones 'nad oes un hawl gan na Senedd na synod i gyfansoddi credo grefyddol ar gyfer sicrhau unffurfiaeth yng ngolygiadau deiliaid y deyrnas ar faterion diwinyddol ac Eglwysig.'[46] Gan ei fod eisoes wedi dangos nad oedd â wnelo'r senedd ddim â ffurfiad erthyglau a chredoau'r eglwys sefydledig, aeth ati i holi'n rhethregol sut y pennwyd credoau'r Trefnyddion Calfinaidd felly, os oedd mor ddibris o synodau:

---

43 Elis Wyn o Wyrfai, 'Adolygiad ar resymau y Parch. J. Kilsby Jones yn ei ysgrif "Paham yr wyf yn Ymneillduwr yn y "Geninen" am Ionawr 1884', *Y Geninen* 4 (1886), t.163

44 *ibid.*, t.163

45 *ibid.*, t.165

46 *ibid.*, t.166

> Nid dannod hyn yr ydys i'n hawdur, ond dangos fod ei gondemniad ef o "gredo grefyddol" yn collfarnu gormod – gan ei fod yn collfarnu pob cymdeithas grefyddol.[47]

Cadarnhaodd mai'r Beibl oedd yr awdurdod goruchaf a gydnabyddid gan yr Eglwys, yn union fel yr enwadau Anghydffurfiol, ac nad oedd lle i gredu fod y Beibl yn eilradd mewn unrhyw fodd yn yr Eglwys.

Mae'n tristáu mai'r rheswm olaf dros ymneilltuo o'r Eglwys a roes Kilsby Jones oedd bod gorfodaeth ar bobl i'w chefnogi'n ariannol, ac na werthfawrogir y gefnogaeth honno'n llawn ganddi. Wrth ymateb, dangosodd Ellis fel y rhoddwyd ei gwaddol iddi yn wirfoddol, ac felly nid oedd sail i'r feirniadaeth fod y gefnogaeth ariannol wedi dod iddi trwy ddulliau 'gorfodol'. Gan mai'n wirfoddol y dechreuwyd rhoi'r degymau iddi, gallai'r Eglwys eu hawlio'r un mor gyfreithlon ag y casglai cyrff a sefydliadau eraill drethi. Yn wir, er bod yr eglwys yn derbyn miliwn o bunnoedd yn flynyddol trwy ddegymau, dangosodd fel y gwariai £400,000 ar y tlodion, £750,000 ar addysg i'r tlodion, a £500,000 i'r genhadaeth dramor - llawer yn fwy nag a 'ddygwyd' oddi wrth y werin trwy'r degymau.[48]

Cadarnhaodd ei safbwynt ynghylch hawl yr Eglwys ar ddegymau mewn erthygl ar 'gysylltiad yr Eglwys â'r Wladwriaeth' yn *Y Geninen* saith mlynedd yn ddiweddarach, pan ddywedodd:

> Nid wyf yn teimlo yr yswildod lleiaf wrth amddiffyn y gwaddoliadau Eglwysig, fel cynhysgaeth a threftadaeth Eglwys Grist yn y deyrnas hon, wedi ei gysegru er mwyn ac at adeiladaeth a diwylliant moesol ac ysbrydol y genedl. ... Nid yw holl waddol yr Eglwys yng Nghymru, yn ôl prisiad y flwyddyn 1892, ond 120,890p. mewn gwerth glân. Ond y mae dwy ran o dair ohono at wasanaeth y plwyfydd gwledig, y rhai a

---

47 *ibid.*, t.166

48 *ibid.*, t.166

> adewir bron yn anghyfannedd, gan fod pob talent bron yn dianc ohonynt am leoedd mwy enillfawr neu lawnach o fwynhad cymdeithasol.[49]

Gwelai fod gan yr Eglwys ran bwysig i'w chwarae yng nghymunedau gwledig Cymru, a chan ei fod wedi ei fagu yng nghymunedau chwarelyddol Gwynedd ac wedi gwasanaethu yn un o ddyffrynnoedd amaethyddol Sir Ddinbych, gallai fynnu â chryn awdurdod y byddai'n chwith i'r cymunedau hynny heb eu heglwysi. Roedd ganddo ddigon o ras i dderbyn na fyddai pawb yn coleddu'r fath syniadau, ond gwnaeth ei orau i osod ei ffeithiau'n glir a cheisio dadlau o'u plaid yn rhesymol. Mae'r modd y mae'n cloi ei ddadleuon yn erbyn erthygl Kilsby Jones yn dangos ei natur bwyllog a theg ar ei gorau, a'r modd yr oedd yn parchu athrawiaethau Cristnogol gwahanol:

> Nid ydys yn disgwyl ein bod yn alluog i'w ddarbwyllo ef i ddyfod i mewn i'r Eglwys ei hun, ond hyderwn y tynerir ac y lleddfir ei wrthwynebiad iddi, ac y gallwn gydweithredu mewn cariad er ar wahân. Pe byddai i ni oll ymdrechu troi dalen newydd, a chwilio am resymau dros undeb cydweithredol a chariad brawdol, gallem gael lluosogrwydd ohonynt. Ni ddymunem aberthu gwirionedd nac ymdrech er mwyn undeb, ac ni ddymunwn golli amrywiaeth o'i fewn.[50]

Dywed Gwynedd mai 'anghenraid o argyhoeddiad cydwybod a osodid arno i ymladd'[51] oedd y tu ôl i'w arfer di-ildio o amddiffyn yr eglwys. Er nad oedd yn hoffi gwrthdaro, fe'i cymhellwyd yn gyson i ateb ymosodiadau ar yr Eglwys. Rhan o'r gwaith hwnnw oedd siarad o'r llwyfan mewn cyfarfodydd cyhoeddus i achub cam y sefydliad y credai ei fod yn rhan mor bwysig o hanes a dyfodol Cymru.

---

49 Elis Wyn o Wyrfai, 'Cysylltiad yr Eglwys a'r Wladwriaeth: "Eglwys Sefydledig drwy Gyfraith"', *Y Geninen* 11 (1893), t.265

50 Elis Wyn o Wyrfai, 'Adolygiad ar resymau y Parch. J. Kilsby Jones yn ei ysgrif "Paham yr wyf yn Ymneillduwr yn y "Geninen" am Ionawr 1884', *Y Geninen* 4 (1886), t.168

51 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.97

*Areithiwr o blaid yr Eglwys*

Un o'r prif ddulliau cyhoeddus o drafod pynciau'r dydd, yn enwedig pynciau crefyddol, oedd cyfarfodydd a drefnwyd i drafod materion fel hawl yr eglwys ar ddegymau ac ar ei gwaddoliadau. Ceir ei hanes yn mynychu cyfarfod o'r fath yng Ngherrigydrudion, dan drefniant Cymdeithas y Datgysylltwyr. Mynd yno i achub cam yr Eglwys oedd ei fwriad, ond mae'n debyg na chafodd fawr o wrandawiad, er ceisio rhesymu'n bwyllog ac ateb honiadau camarweiniol. Gan gofio mai cyfarfodydd lle'r oedd y mwyafrif o blaid datgysylltiad oedd y rhain, efallai nad yw'n syndod fod gohebydd *Baner ac Amserau Cymru* wedi adrodd fel hyn am y cyfryw gyfarfod:

> Amddiffynnid yr Eglwys, mewn modd penderfynol, gan y Parch. E. Roberts (*Ellis Wyn o Wyrfai*), Llangwm. Siaradodd Mr Roberts yn rhagorol. Ond gresyn ei fod wedi sylfaenu ei araith ar y tywod; o blegid pan dorrodd yr ystorm allan, nid oedd yn gallu sefyll ar ei dir; a chaed gweled cyn y diwedd nad oedd swm ei araith ond rhyw ystorm fechan mewn tebot.[52]

Mynd fel ŵyn i'r lladdfa fyddai'r offeiriaid a'r Eglwyswyr lleyg hynny a fynnai fynd yn groes i'r graen mewn cyfarfodydd o'r fath, ond er gwybod na chaent yn aml ddim tebyg i wrandawiad teg, mynnent barhau i gynnig apologia dros yr Eglwys, yn enwedig pan ofnent y byddai ffeithiau di-sail a chamarweiniol yn pardduo ei henw da mewn cyfarfodydd o'r fath. Mae o werth amlygu fod y gohebydd yn canmol Ellis fel siaradwr rhagorol a anerchodd mor benderfynol dros achos yr eglwys. Daeth y 'storm' y cyfeiriodd ati mae'n debyg yn sgil areithiau'r gweinidogion Spinther James, Peter Williams a J.M. Rees, oll o blaid datgysylltiad, a oedd lawer yn fwy cydnaws â'r hyn yr oedd y gynulleidfa yng Ngherrigydrudion wedi arfer ei glywed. Nid oedd disgwyl i Ellis ddarbwyllo pawb a oedd yno, ac annheg fyddai tybio ei fod yn areithiwr cyhoeddus aneffeithiol. Mae Gwynedd yn cyfeirio at ei arddull areithio fel a ganlyn:

---

52 *Baner ac Amserau Cymru* 18 Chwefror 1886, t.4

> Gofalai beidio arfer na gwawdiaith nac edliwiaith, serch pa ddifrïaeth a ddefnyddiasai ei wrthwynebydd: ac, oherwydd hyn, caffai wrandawiad parod bob amser hyd yn oed gan ei wrthwynebwyr pennaf.[53]

Mae'n wir mai wedi iddo farw y gwelwyd rhai o'r ysgarmesoedd ffyrnicaf yn y frwydr dros ddatgysylltu'r eglwys, wrth i esgob Llanelwy, A. G. Edwards, a'i ddeon (ac esgob Tyddewi yn ddiweddarach) John Owen arwain y gad yn erbyn y gri am ei dadsefydlu a'i dadwaddoli. Er hynny, mae o werth nodi bod John Owen wedi talu'r deyrnged hon iddo, gryn ddeng mlynedd ar hugain ar ôl marwolaeth Ellis.

> Ni adwaenais Eglwyswr mwy ffyddlon nag offeiriad doeth a diymhongar Llangwm, a chymerwn bob cyfle i geisio ei gyngor yn adeg profedigaeth yr Eglwys.[54]

Er ei fod wedi treulio ei offeiriadaeth mewn plwyfi digon anghysbell, roedd y ffaith ei fod yn hawlio sylw un a ddaeth yn un o brif arweinwyr yr Eglwys yng Nghymru yn brawf o'r parch a roddwyd iddo gan ei gydweithwyr fel amddiffynnwr cywir egwyddorion yr Eglwys.

*Cymodwr yn dechrau wrth ei draed*

Wedi'r holl helyntion ynghylch y degwm yn Llangwm, gellid yn hawdd tybio na fyddai'r offeiriad yn dymuno gwneud dim mwy nag oedd rhaid gyda'r plwyfolion hynny a wrthryfelodd yn erbyn y sefydliad a gynrychiolai. Er hynny, yn yr un flwyddyn ag y digwyddodd y terfysgoedd, gwnaeth gymwynas â'r pentrefwyr a oedd yn nodweddiadol o'i natur gymodlon.

Gerllaw'r eglwys yn Llangwm mae pont yn croesi afon Cemig. Arni hi fe welir naddiad mewn carreg sy'n dynodi iddi gael ei chodi ym mlwyddyn Jiwbilî'r Frenhines Victoria yn 1887. Mae 'Pont y Jiwbilî' hyd heddiw yn hwyluso mynd a dod rhwng rhannau'r pentref a wahenir gan yr afon, yn enwedig o gofio fod yr ysgol gynradd a'r neuadd bentref wedi eu

53 Gwynedd, 'Ellis Wyn o Wyrfai', t.167

54 *Y Llan* 30 Mai 1924, t.1

codi ar yr un ochr â'r eglwys. Am unwaith, mae Gwynedd yn methu wrth ddweud mai cynorthwyo i godi pont dros yr afon ym mhentref Llanwddyn a wnaeth,[55] ac mae cofiant Charles Ashton yn fwy cywir, wrth sôn amdano'n cynorthwyo i godi 'pont gyfleus a chadarn yn y pentref hwnnw [sef Llangwm] i groesi yr Afon Cemig'.[56] Roedd nifer dda o dai pentref Llangwm ar ochr arall yr afon i'r eglwys, a'u trigolion yn Anghydffurfwyr hefyd, ond ni fynnai Ellis i'r gwahaniaethau olygu na allent ymwneud â'i gilydd a chydfyw yn y gymuned a oedd yn gartref i bawb ohonynt.

Os oes modd edrych ar Bont y Jiwbilî fel arwydd o'i natur gymwynasgar a chymodlon, yna mae'n cyfleu'n gryno lawer o hynt Llangwm yn y 1880au. Roedd archoll rhwng yr Eglwys a'i phlwyfolion yn agored ers tro, ac yn llawn drwgdeimlad. Fe wasgodd amgylchiadau byw mor dynn ar y gymuned amaethyddol, fel iddi ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Gwir hefyd i'r wasg wrth-eglwysig wneud yn fawr o'r dirwasgiad i annog gwrthod talu'r degwm ar sail egwyddor. Llifodd terfysg drwy'r plwyf, ac er ei bod yn anodd barnu pam mai yn Llangwm yn fwy nag unman arall y bu'r ysgarmesoedd ffyrnicaf, felly y bu. Ond trwy'r cyfan, fe geisiodd yr offeiriad wneud ei orau ar ran ei blwyfolion, a cheisio hyrwyddo dulliau democrataidd a phwyllog o drafod materion cynhennus. Ceisiodd bontio'r bwlch, ond efallai mai'r tristwch mwyaf oedd mai cymodwr digon unig ydoedd. Er gwaethaf y parch a oedd gan blwyfolion Llangwm iddo, ychydig iawn a roddodd ystyriaeth drylwyr i'w gynghorion pan oedd eraill fel Thomas Gee yn dadlau'n groch yn erbyn talu'r degwm. Ond er gwaethaf y cyfan, trodd y foch arall, a pharhau i weinidogaethu ymysg y bobl yn ddiarbed.

---

55 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.200

56 Charles Ashton, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* (1895), t.163

# Pennod 7

## i - Diwedd ei oes

Ar ôl y cyfnod cythryblus pan oedd y degwm uwchlaw popeth yn hoelio sylw'r holl gymdogaeth, dychwelodd patrwm arferol bywyd beunyddiol Llangwm yn araf bach. Cafodd Ellis gyfle gyda hynny i ailafael o ddifri yn yr hyn a hoffai orau, chwedl Gwynedd, sef 'ymweled â'r cleifion a'r helbulus i'w cysuro a'u diddanu.'[1] Ymddengys nad oedd dim yn well ganddo na'r ymwneud tawel, arferol â'i blwyfolion, ac mae'n siŵr i hynny gael ei hwyluso'n fawr ar ôl i sylw'r wasg symud o Langwm yn fuan wedi i 'ferthyron Rhyfel y Degwm' ddod o flaen eu gwell.

Nid yw'n syndod ei fod wedi treulio ei oes gyfan fel offeiriad mewn dau blwyf mor wledig â Llangwm a Llanfihangel Glyn Myfyr o gofio am ei hoffter o ymweld â'i braidd. Rhoddai plwyf gwledig fel Llangwm lawer mwy o gyfle iddo wneud hynny na phlwyf prysur fel Rhosymedre, pan fyddai angladdau a bedyddiadau mynych yn cyfyngu cymaint ar ei hamdden. Dim ond mewn cant a hanner o angladdau y gwasanaethodd yn Llangwm, er enghraifft - roedd eisoes yn nesu at yr un nifer mewn ychydig llai na phedair blynedd yn Rhosymedre. Yn Llangwm gallai weithio'n ddygn ar gryfhau'r ddealltwriaeth, y parch a'r cydymdeimlad agos yr oedd wedi ei feithrin â'r bobl a wasanaethai. Gwneud y gwaith hwnnw hyd eithaf ei allu oedd nodwedd amlycaf ei fywyd ers iddo gyrraedd y plwyf, wrth iddo adfer yr eglwys yn haniaethol a diriaethol, ac ychwanegu at ei chenhadaeth ym mhen pellaf ei diriogaeth trwy adeiladu eglwys newydd, hardd.

O Sul i Sul, mae lle i gredu fod cynulleidfaoedd eglwysi Ierôm a Catherine wedi cynyddu, yn debyg i'r hanesion yn ei nofel Llan Cwm Awen,[2] a bod y ddarpariaeth wrth fodd y rhai a ddeuai ynghyd. Mae Gwynedd yn dwyn i gof fod yr ysgrythur yn chwarae rhan amlwg yn y gwasanaethau a arweiniai. Egluro testunau priodol y Sul oedd ei arfer, gan wneud hynny mewn dull syml a heb ddefnyddio delweddau rhy gymhleth:

1 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 13 (1895), t.200

2 gw. Pennod 5.4 y traethawd hwn.

> Eglurhad syml o'r Gair, er adeiladaeth, a hoffai efe : a byddai bob amser yn dra gofalus gyda pharatoad ei bregethau ei hun. Arferai eu hysgrifennu i lawr bob gair yn llawn : ac yn y pulpud nodweddid ef â gwyleidd-dra anarferol. Siaradai yn bwyllog, tawel, ac eglur.[3]

Mewn ardal lle siaredid y Gymraeg ar ei ffurf gysefin, ddilwgr, gofalai beidio â llethu ei ddull o gyfleu'r Efengyl ag ymadroddion a geiriau Saesneg. Gwerthfawrogai'n llawn mai dwy fodolaeth gyda'u hanghenion arbennig oedd ei gynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg, a chan hynny, lluniai ei bregethau fel bod y garfan briodol yn derbyn yr ymborth yr oeddent wedi dod i'r eglwys i'w geisio. Yng ngeiriau Gwynedd eto:

> Defnyddiai iaith goeth a llednais bob amser: a chondemniai'n llym y neb a ddygai ymadroddion ystrydebol, brawddegau isel, a geiriau estronol, i'w pregethau...[4]

Os oedd gwendid yn neffroad Mudiad Rhydychen, yna'r duedd i golli golwg ar lefelau deallusol y werin oedd hynny, ac anelu'n rhy uchel yn rhy fuan. Gellid dadlau fod Ellis, fel un a werthfawrogai elfennau llesol y Mudiad, wedi medi o'i ysbryd, ond heb ddisgyn yn llwyr dan ei swyn. Tra oedd atgyweirio eglwys y plwyf a llunio emynau ar gyfer gwyliau'r saint yn awgrymu i Fudiad Rhydychen ddylanwadu rhywfaint ar ei waith, roedd rhinweddau amlycaf y garfan Efengylaidd i'w gweld yn ei bregethau. Gwerthfawrogai bwysigrwydd agweddau gweledol gweinidogaeth yr eglwys a'r atgof am yr olyniaeth apostolaidd, ond gwelai fod angen egluro'r ysgrythur, a dangos sut yr oedd yn berthnasol i anghenion a sefyllfaoedd cyfoes bron uwchlaw pob peth. Dywedir am ei ddull o bregethu mai:

> ymarferol, ac nid athronyddol, fyddai: ond, er hynny, yr oedd ei arddull bob amser yn ymresymiadol. Ymresymu â bodau rhesymol y byddai, ac nid dyrchafu rhyw ebychiadau direswm i gynhyrfu neu oglais y rhan anifeilaidd o ddyn.[5]

Sylweddolai'n llawn mai yng nghefn gwlad Cymru y gweinidogaethai. Amaeth oedd asgwrn cefn y gymuned, ac yn hynny o beth roedd llawer o ddelweddau'r Beibl yn

---

3 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 15 (1897), t.166

4 *ibid.*, t.166

5 *ibid.*, t.166

gyfarwydd iddynt. Wrth ddehongli darlleniadau'r Sul, byddai wedi ceisio dangos mai pobl ddigon tebyg i drigolion cefn gwlad Cymru oedd y bobl a gyfarfu â'r Iesu yn ystod ei weinidogaeth. Mae'n debyg iddo sylweddoli hynny yn ystod ei laslencyndod, ac iddo fod yn ei elfen yn ei offeiriadaeth ym mhlwyfi gwledig Glyn Myfyr a Llangwm, nad oedd yn rhy annhebyg i lannau'r Gwyrfai.

*Cydnabyddiaeth esgobol o'i waith*

Oni bai am achosion eithriadol fel Rhyfel y Degwm, prin y byddai achos i esgob Llanelwy boeni am blwyfi deoniaeth Edeirnion. Nid oedd gofyn i Joshua Hughes na'i olynydd A. G. Edwards ymyrryd â gwaith offeiriad Llangwm, dim ond diolch bod y gwaith o ofalu am y plwyf yn nwylo un o'u hoffeiriaid mwyaf diwyd. Os oedd manteision i'r dull diymhongar hwn o weinidogaethu a ffafriai, golygai ar y llaw arall na chofid amdano ef na'i debyg pan fyddai'r cabidwl yn newid. Yn amlach na pheidio, rhoddid canoniaethau i gynffonwyr yr esgob ac offeiriaid y plwyfi poblog ar lan y môr. Nid syndod efallai mai dim ond ar ddiwedd 1891 y cynigiwyd canoniaeth iddo, ac yntau erbyn hynny bron yn 65 oed. Y ganoniaeth a enwyd ar ôl Randolph Birkenhead, y chweched yng ngholadiad Llanelwy, oedd yr un a dderbyniodd. Mewn termau swyddogol, nid oedd hon yn rhan o'r cabidwl llawn – canoniaeth fygedol oedd hi. Dyfernir canoniaethau mygedol fel arfer yn gydnabyddiaeth o wasanaeth hir a neilltuol i'r esgobaeth, ond ni ddeuai tâl ychwanegol ynghyd â'r anrhydedd, er bod hawl gan y canoniaid mygedol roi'r teitl 'Canon' o flaen eu henwau.

Gan ei fod wedi gweld bai ar yr eglwys am beidio â chydnabod llafur y rhai a gyfrannai at waith y wasg eglwysig Gymraeg, derbyniodd yr anrhydedd yn ddiolchgar pan gynigiwyd y ganoniaeth iddo. Cadarnhaodd y newydd yn *Yr Haul* yn rhifyn Chwefror 1892, wrth iddo ddatgelu iddo gael cynnig y ganoniaeth fygedol '...fel cydnabyddiaeth fechan o'n llafur llenyddol a'n gwasanaeth yn yr Eglwys yng Nghymru.' Aeth yn ei flaen i ddweud:

> Derbyniasom yr arwydd hwn o ewyllys da, gan ei gydnabod fel arwydd o barch ac anrhydedd i lenyddiaeth Gymreig, ac y mae yr ugeiniau llythyrau llongyfarchiol a dderbyniasom oddi wrth lenorion ac offeiriaid ein gwlad, yn

> ieuanc a chyfoed, yn rhoddi sêl eu cymeradwyaeth ar ewyllys da yr esgob, yn rhoddi dwbl werth i'r anrhydedd.[6]

Mae modd darllen llawer rhwng llinellau'r datganiad hwnnw, gan gynnwys y mesur arferol o wyleidd-dra yn y modd y rhoddai lawn cymaint o werth ar gyfarchion gan ei gyfeillion ag a roddai ar y dyrchafiad ei hunan. Efallai'n wir fod y cyfarchion hynny wedi golygu llawer mwy iddo na'r anrhydedd ei hunan. At hynny, roedd yn ystyried ei hunan yn hen ŵr wrth iddo gyfeirio at genhedlaeth iau yn ogystal ag at ei gymheiriaid. Gallai rhywfaint o dristwch fod yn rhan o'i ymateb i'r newydd da felly, wrth iddo sylweddoli bod rhan orau ei weinidogaeth y tu cefn iddo. Ond trwy'r cyfan, mae'n debyg y byddai wedi croesawu cydnabyddiaeth, waeth pa mor hwyr, o'i ymdrechion diarbed i gyfoethogi llenyddiaeth Gymraeg yr Eglwys.

Nid oedd wedi malio rhyw lawer am ganoniaethau a dyrchafiadau eglwysig cyn hynny, yn enwedig anrhydeddau ymylol fel canoniaethau mygedol, a dangosodd hynny'n glir yn *Yr Haul* yn Ebrill 1891. Wrth ateb ymholiad 'Anwybodus' ynghylch beth oedd swyddogaethau canoniaid mygedol yr Eglwys, a faint oedd eu cyflogau, dywedodd:

> Anwybodus ydym ninnau am eu swyddi, ond gwyddom nad oes iddynt un ddimai o gyflog. Boddloned ein gohebydd ar yr englynion canlynol a wnaethom wrth droi dalennau 'Hanes Esgobaeth Llanelwy' i ymdrechu ateb ei gwestiwn: -
>
> Hen swyddau hanesyddol – yw'n henwog
> Ganonau Mygedol;
> Heb adaw o'u da bydol,
> Na'r hen waith un rhan o'u hol.
>
> Fe warantir ryw freintiau – yn eu llaw
> Yn y llys-gynghorau;
> A bydd eu hurdd yn boddhau,
> Anrhydeddant hwyr ddyddiau.[7]

Wrth ystyried llinell olaf yr ail englyn, tybed a oedd wedi clywed bryd hynny y deuai'n un o ganoniaid mygedol Llanelwy yn y man, ynteu ai cyfeiriad sylwgar ydoedd mai

6 Elis Wyn o Wyrfai, 'Newyddion', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 8 (1892), t.60

7 Elis Wyn o Wyrfai, troednodyn i erthygl 'Anwybodus' yn *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 7 (1891), t.152

anrhydedd ar ddiwedd gyrfa oedd teitlau o'r fath, na wnelai fawr o dda nac o ddrwg i genhadaeth yr Eglwys?

Erbyn 1893, roedd A. G. Edwards wedi penodi Ellis yn un o'i gaplaniaid arholi hefyd, gan roi iddo'r cyfle i ddylanwadu ar ddarpar guradiaid yr esgobaeth. Ym marn Gwynedd:

> Diau bod yr esgob llafurus a chraffus yn canfod nad oedd neb cymhwysach yn yr esgobaeth i arholi ymgeiswyr am urddau, mewn pynciau Cymreig, na'r hwn a ddewisodd.[8]

Un o'r enghreifftiau prin o'i waith i'r cyfeiriad hwn sy'n hysbys bellach yw'r bregeth a draddododd mewn gwasanaeth ordeinio yng nghadeirlan Llanelwy ar ddygwyl Thomas yn 1893. Fe'i hatgynhyrchwyd ar ffurf pamffled, dan y teitl Saesneg Ordination Sermon yn ôl Charles Ashton,[9] ond nid ymddengys iddi oroesi.

*Diwedd cyfnod*

Mae'n debyg fod ei iechyd wedi torri'n fuan wedi iddo gael ei benodi'n gaplan arholi, ac iddo ddioddef sawl pwl drwg wrth barhau â'i waith trwy wynt ac eirlaw gaeafau miniog Edeirnion. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da o'i enedigaeth ymlaen, fel y tystia'r ffaith iddo gael ei fedyddio yn ei gartref yn hytrach nag yn yr eglwys. Fel y datgelodd Gwynedd, ar ôl ei gyfnod yn Rhosymedre roedd caethdra *(asthma)* yn ei rwystro'n fwyfwy rhag cyflawni'r holl ddyletswyddau y byddai wedi dymuno eu gwneud. Roedd y newydd ar ddiwedd 1892 fod Robert Williams, Dolwyddelan, wedi ei benodi i'w gynorthwyo i olygu *Yr Haul* yn arwydd efallai o ymgais rhai o'i gwmpas i ysgafnhau ychydig ar y baich a oedd ar ei ysgwyddau. Yn ystod 1892 hefyd, pan ddaeth cyfnod Ellis Gregory fel curad Llangwm i ben, mae'n arwyddocaol mai ei frawd iau, John Richard, a gymerodd ei le i sicrhau nad oedd y gwaith plwyf yn ormod o faich i'w dad.

---

8 Gwynedd. 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 13 (1895), t.200

9 Charles Ashton. 'Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.164

Bu'r penderfyniad i ddod â John Richard 'nol adref yn gynhaliaeth bwysig i Ellis dros fisoedd gaeaf 1892 am reswm arall hefyd, wrth i'r teulu alaru yn sgil marwolaeth Esther Mary, y wraig a'r fam a oedd yn ddistaw, ddiwyd, wedi cynnal y teulu trwy eu holl brysurdeb. Roedd colli ei wraig ar ddechrau Hydref 1892 yn ergyd hynod drom i Ellis, ac un na wellhaodd yn gyflawn ar ei hôl. Torrodd ei galon wrth i ddeunaw mlynedd ar hugain o gydfyw'n hapus ddod i ben. Mae teyrngedau a dalwyd iddi'n awgrymu fod yn eu priodas ddau beiriant oedd yn gweithio at yr un nod, a bod ei chefnogaeth ddiwyro wedi ei alluogi yntau i 'gysegru ei amser i wasanaeth ei wlad a'i Eglwys'.[10] Sonnir am eu diddordeb byw mewn addysg, a'r lle canolog roddwyd i blwyfolion o bob cefndir cymdeithasol a Christnogol yn eu bywydau. Ei helusengarwch at gyd-ddyn, waeth pwy bynnag oeddynt, oedd rhai o atgofion melysaf y rhai a dalodd deyrnged iddi.

Yn ei alar, trodd Ellis at farddoniaeth i geisio cyfleu ei deimladau, a lluniodd ddwsin o benillion yn fuan wedi iddi farw, a'u cyhoeddi yn *Yr Haul*. Lluniodd gyfieithiad deg pennill yn Saesneg hefyd, ac argraffwyd y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar daflenni unigol er mwyn eu hanfon at rai oedd yn ei hadnabod. Mae'r bardd-offeriad Dyfrig yn dwyn i gof hanes amdano ef ac Ellis 'yn cyd-drafaelio yn y trên rhwng Afonwen a Llanwnda' yn fuan wedi ei marwolaeth, ac i Ellis dynnu o'i boced 'y "penillion coffadwriaethol" a gyfansoddasai ar ôl ei serchus briod', gan ofyn iddo yntau eu darllen:

> "Maent yn dda odiaeth," meddem. "Maent yn fynegiad gonest o'm teimladau drylliedig i," meddai yntau, a'r dagrau ar yr un pryd yn llifo dros ei ruddiau. Gwelem ei fod yn teimlo i'r byw.[11]

Mae'r penillion fel cyfanwaith yn cynnwys mynegiad diamwys o hiraeth, a hefyd yn dangos y rhan gwbl allweddol a chwaraeai eu ffydd yn Nuw yn eu bywydau. Trwy'r dagrau, gwelai mai troi at Grist oedd yr unig feddyginiaeth a allai leddfu'r galar. Mae'r cyntaf, y pedwerydd, y degfed a'r unfed pennill ar ddeg yn y gadwyn yn grynhoad teg o deimlad y gerdd:

> Ei chofio'r wyf yn eneth lân

---

10 Robert Williams (awdur tebygol), 'Adgof uwch Anghof', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 8 (1892), t.348

11 Dyfrig, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.184

Chwareus, ysgafndroed lon;
A'i chrychwallt troellog fel y frân –
Mae'i delw dan fy mron. ...

Mewn bywyd uniawn megis saeth,
A phur fel eira gwyn,
Ar ffordd dyletswydd rhodio wnaeth –
Dros rinwedd daliai'n dynn. ...

Ar fin yr afon rhodiaf fi
Yn brudd ond heb un braw,
A chyda'r Meddyg gwelaf hi
Yn iach yr ochor draw.

Nid wyf yn gofyn, O fy Nuw,
"Pa ham y gwnaethost hyn?"
Ond moes dy gymorth im' yn fyw,
A'th wyneb yn y glyn. [12]

Fe'i claddwyd ar 8 Hydref 1892 'ar fin yr afon' yn Ninmael, yn y fynwent rhwng eglwys newydd Santes Catherine a'r afon Ceirw. Roedd hi'n hynod hoff o'r eglwys honno, a dywedir fod ei chysylltiadau teuluol wedi cyfrannu at ei chodi. [13] Yn ychwaneg at y ddawn, y pathos, a'r awydd i gynorthwyo'r plwyfolion yn ymarferol, roedd ei chysylltiadau teuluol breintiedig hefyd yn fodd iddi sicrhau fod un o brosiectau mwyaf uchelgeisiol ei gŵr wedi cael digon o gymorth ariannol i lwyddo.

Dim ond penillion pump, chwech a saith y gadwyn goffadwriaethol sy'n rhoi cip ar gefndir tywyll ei marwolaeth, a rhaid troi at adroddiadau mewn mannau eraill, ac eithrio *Yr Haul*, i wneud synnwyr llawn ohonynt.

Llaw drom cystuddiau arni ddaeth
Yn heulog nawn ei dydd;
Pan oedd siriolaf, suddo wnaeth
Dan gwmwl tristwch prudd.

Fe guddiai'r cwmwl haul ei hoes,
A sêr gobeithion byd;
Ond daliai'i llygaid ar y Groes,
Ac ar ei Duw o hyd.

In life's bright eye strange sickness came
And all unstrung thy loving frame;
A cloud of sadness hid from sight,
Thy light of day and stars of night.

I sought physicians, in my grief,
All sympathised, none brought relief,

12 Elis Wyn o Wyrfai, 'Fy Ngwraig', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 8 (1892), t.349

13 Robert Williams (awdur tebygol), 'Adgof uwch Anghof', t.348

To God I lifted up my cries,
The great Physician good and wise.[14]

Cymerais hi at feddygon byd
O uchaf ddysg a dawn;
Eu cymorth ofer oedd i gyd,
Er cydymdeimlo'n llawn.[15]

Yr hyn na ddatgelir yn *Yr Haul* yw mai cyflawni hunanladdiad a wnaeth Esther, a hynny ar ôl dioddef iselder ysbryd am beth amser. Edrydd *Y Cymro,*[16] *Y Genedl Gymreig*[17] a *Baner ac Amserau Cymru*[18] i hynny ddigwydd yn oriau mân 4 Hydref, sef diwrnod priodas ei mab ieuengaf, John Richard. Ymddengys nad oedd hi mewn iechyd digon da i deithio gydag Ellis i Lanfairfechan ar gyfer y briodas, a siarsiwyd y forwyn i ofalu amdani. Er i'r forwyn gysgu yn yr un ystafell â hi, ymddengys iddi ddianc o'r tŷ drwy ffenestr, a phan aed i chwilio amdani, daethpwyd o hyd i'w siôl ar lan afon Alwen, gerllaw Gwesty'r Cymro, gryn bedair milltir o Reithordy Llangwm. Yn ddiweddarach y prynhawn hwnnw, darganfuwyd ei chorff yn y Ddyfrdwy ger Llansantffraid, rhwng Corwen a Charrog, cryn wyth milltir o le y daethpwyd o hyd i'w siôl. Daethpwyd â'i chorff i'r lan gan Mr Cheek o Gorwen, a frwydrodd yn erbyn llif cryf mewn gobaith y byddai modd ei harbed, ond yn ofer.[19] Yn y trengholiad a gynhaliwyd yng Nghorwen y diwrnod canlynol, dyfarnwyd ei bod wedi cyflawni hunanladdiad 'mewn ystâd o wallgofrwydd amserol,'[20] yng ngeiriau *Y Genedl Gymreig*.

Edrydd *Y Cymro* am 'ofal a phryder mawr ei phriod a'r teulu ohoni'[21] yn ystod pyliau o brudd-der ac iselder a'i blinai ers peth amser. Y mae o werth nodi wrth basio fod ei chwaer Eleanor wedi bod yn byw gyda'r teulu am chwe blynedd ar hugain cyn iddi hi

---

14 Elis Wyn o Wyrfai. In memoriam : my wife (1892)

15 Elis Wyn o Wyrfai. 'Fy Ngwraig'. *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 8 (1892), t.349

16 'Newyddion'. *Y Cymro*. 6 Hydref 1892, t.8

17 'Gwraig Elis Wyn wedi boddi'. *Y Genedl Gymreig*. 12 Hydref 1892, t.5

18 'Llangwm'. *Baner ac Amserau Cymru*, 12 Hydref 1892, t.10

19 'Newyddion'. *Y Cymro*. 6 Hydref 1892, t.8. Gw. hefyd Hafina Clwyd, Pobol Sy'n Cyfri (Llanrwst, 2001), sy'n nodi mai Martin E. Cheek o Westy'r Eryrod a dynnodd y corff o'r Ddyfrdwy.

20 'Gwraig Elis Wyn wedi boddi'. *Y Genedl Gymreig*. t.5

21 'Newyddion'. *Y Cymro*. t.8

farw yn 1883.[22] Er na ellir ond dyfalu, tybed a oedd iselder wedi dechrau poeni Esther ers cyfnod llawer hirach na dim ond blwyddyn neu ddwy, a bod naill ai marwolaeth ei chwaer wedi cyfrannu at yr iselder, neu yn wir fod ei chwaer wedi byw gyda hwy gyhyd oherwydd yr iselder hwn? Y mae'r ail bosibilrwydd yn llai tebygol na'r cyntaf, o gofio iddi ddod i fyw atynt yn 1857, brin dair blynedd ar ôl priodas Ellis ac Esther, a chyn geni'r un o'u plant. Yr oeddent yn byw yn Ffestiniog bryd hynny, ac Esther yn dal ati fel athrawes. Cofier iddi ddysgu am gyfnod yn ysgol newydd Llanfihangel Glyn Myfyr hefyd. Mae'n bosibl hefyd edrych ar y sefyllfa o ochr arall, a thybio nad oedd Eleanor, chwaith, yn rhy iach ei meddwl, ac mai dyna pam yr ymddiriedwyd gofal drosti i'w chwaer a'i gŵr caredig o offeiriad.

Y mae un dehongliad arall sy'n werth ei ystyried, sef effeithiau Rhyfel y Degwm ar y teulu ac ar Esther fel eu matriarch. Er bod pob tystiolaeth ysgrifenedig yn awgrymu bod Ellis wedi cynorthwyo'r amaethwyr gymaint ag y gallai yn ystod yr anghydfod, ac nad oedd gan yr amaethwyr gŵyn yn erbyn ei waith yn y plwyf, ni sonnir yn llawn am agwedd pobl ar lawr gwlad yn ystod ac ar ôl yr helyntion. Er gwaethaf ei natur hawddgar a'i hawydd i gynorthwyo'r plwyfolion, yr oedd sawl nodwedd gymdeithasol economaidd yn debygol o weithio yn erbyn Esther yn Llangwm. Yn un peth, yr oedd hi'n Saesnes o enedigaeth a magwraeth, ac er y credir iddi ddysgu'r Gymraeg, mae'n debyg mai'r iaith fain oedd ar ei gwefusau amlaf. At hynny, sylwyd yn y bennod flaenorol mor galed oedd amgylchiadau'r amaethwyr yn y cyfnod a arweiniodd at Ryfel y Degwm, a nodwyd uchod bod morwyn yn byw yn y rheithordy. Ac eithrio stadau Maesmawr a Garthmeilio, yr oedd hi gyda'r agosaf at foneddiges yn y plwyf, ac yn sicr fe'i hystyrid hi ar lefel gymdeithasol uwch na'i chymdogion – yr oedd danfon y post i bersondy Llanfihangel yn brawf cynnil o'r gwahaniaeth hwnnw. Byddai breintiau materol felly wedi ennyn cenfigen fud ymysg y cymdogion ar y gorau, os nad sbeit yn ei hwyneb ymysg yr huotlaf. Dywedir ar lafar gwlad nad oedd pethau'n hawdd i'r teulu yn y pentref ar ôl helyntion y degwm, o leiaf nes i'r meibion ddod adref i ofalu amdanynt – Ellis Gregory yn gyntaf, a John Richard yn ei le yntau dair blynedd yn ddiweddarach.

---

22 Elis Wyn o Wyrfai, 'Er cof', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 4 (1888), t.158

Hyd yn oed os derbynnir bod pobl Llangwm wedi ymddwyn yn gwbl foneddigaidd ati hi a'i phriod, ni ellir gwadu bod Rhyfel y Degwm wedi bod yn gryn straen arnynt. Efallai i Ellis feithrin cefn digon llydan ar hyd ei fywyd, ac na fyddai unrhyw sylwadau milain a glywai yn Llangwm nac y tu hwnt i'r plwyf yn ei boeni, ond fe allai magwraeth freintiedig Esther fod wedi ei hamddifadu o'r cyfle i dyfu mor wydn â'i gŵr. Ysywaeth, ni ellir ond dyfalu beth a achosodd yr iselder, na beth a'i gyrrodd i ladd ei hun y bore hwnnw pan oedd ei mab ieuengaf yn priodi.

Lluniodd Gwalchmai bedwar englyn ar ddiwedd Hydref 1892 i gydymdeimlo ag Ellis, un fu'n cyd-feirniadu gydag ef mewn sawl eisteddfod. Ymddengys mai dim ond llythyr Ellis yn diolch amdanynt a oroesodd, llythyr sy'n cyfeirio at yr englynion 'teimladwy a Christionogol, llawn o'r ennaint byw ag sydd yn cysuro enaid mewn tristwch.'[23] Mae pob llythyr a anfonwyd at ei gyfeillion wedi hynny, ac sydd wedi'u cadw mewn archifdai a llyfrgelloedd dros Gymru, wedi eu hysgrifennu ar bapurau ag ymylon du. Dengys hyn, yn ychwanegol at y penillion hynny a gyfansoddodd er cof amdani, gymaint o fwlch a fu ym mywyd Ellis ar ôl colli ei wraig. Wedi ei chladdu, lluniodd ddeg pennill arall ar 24 Hydref, dan y pennawd 'O'r golwg ond ar gael', a'u cyhoeddi yn rhifyn olaf *Yr Haul* y flwyddyn honno. Yr oedd wedi colli cymar oes, ac yn torri ei galon ar ei hôl. Ei unig gysur oedd bod y poenau a'i blinai hi ar y ddaear bellach ar ben.

---

23 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4870 - 11

Gadewais dy gorff yn y fynwent
A'th ddarlun ar bared fy nhŷ,
Ond gyda mi'r ydwyt yn wastad,
Ac imi dy gwmni sydd gu.

I'm weithiau yn drist, weithiau'n llawen,
Ymrithi yn ieuanc neu hen,
Ond pob rhith yn dlws fel yr heulwen,
Yn enfys neu loyw des-wên.

Wyt gyda mi'r hwyr ar fy ngliniau
Fel ennaint yn gwlitho fy ngrudd;
Wyt gyda mi'n deffro y boreu
Fel angel gwarcheidiol y dydd.

Wyt gyda mi'n myned a dychwel
I'm gorchwyl yn brudd ac yn llon;
Mi glywaf dy lais yn yr awel,
Yn murmur yr afon a'r don.

Pan losgo y tân ar yr aelwyd
Mae'th ddelw i'w gwel'd yn y tân;
Fel aur ac fel arian a burwyd
O sorod y ddaear yn lân.

Yr ydwyt yn sanctaidd ddifrychau,
Pob meddwl boddhaus yw a phur;
Pa fodd y dilëwyd dy feiau!
Pa le y diflannodd dy gur!

Dy gystudd ddeffroes dosturiaethau,
Dy amynedd a'th gariad di-drai,
A ddug dy holl rinwedd i'r golau,
Guddiasant bob gwendid a bai.

Disgleiriach im' yw'th oes ddefnyddiol
Na'r afon risialaidd ar ddôl,
Pan wedi gwlawogydd llifeiriol
Y gloywa eu dyfroedd yn ôl.

Yr un modd y gwisgodd dy Geidwad
Dydi â'i gyfiawnder ei Hun
Yn rhin ei dosturi a'i gariad,
Gan faddeu y beiau bob un.

Fe gofia dy holl gymwynasau,
Gweddïau a dagrau pob dydd;
Dwg burdeb pob gweithred i'r golau,
Ond gesyd y gwallau dan gudd.[24]

*Y diwedd yn nesu ato yntau*

Yn y llythyr diolchgar hwnnw at Gwalchmai fis wedi marwolaeth ei wraig, mae'n cynnwys y frawddeg, 'Os na chaf weled eich gwyneb caredig eto yn y cnawd, mi a obeithiaf ei weled pan gyfannir llawer cylch dedwydd mewn byd sydd well.'[25] Ac yntau'n galaru, mae'n naturiol meddwl mai ei ddymuniad pennaf oedd cael ymuno â'i wraig gynted â phosibl, ond mae lle i gredu fod natur simsan ei iechyd wedi golygu nad geiriau byrbwyll oedd y rhain, a'i fod efallai'n synhwyro bod diwedd ei oes yntau'n agosáu. Fel y cadarnhaodd adroddiad y *Shrewsbury Chronicle* pan fu farw, 'Canon Roberts, who had for some years been in delicate health, was suddenly taken ill on Thursday last, and gradually lost strength until he died.'[26]

---

24 Elis Wyn o Wyrfai, 'O'r golwg ond ar gael', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 8 (1892), t.369

25 Prifysgol Cymru Bangor, Llawysgrif Bangor 4870 - 11

26 *Shrewsbury Chronicle*, Mai 1895

Er gwaethaf yr anhwylder y cyfeirir ato, llwyddodd i gyflawni llawer o dasgau ar batrwm arferol ei offeiriadaeth yn ystod dwy flynedd olaf ei fywyd - yn wir, yn rhyfeddol o dda hyd at y pwl dwys diwethaf hwnnw o salwch. Testun llawenydd oedd cael bedyddio Robert Gregory, mab i John Richard ei fab ieuengaf, ar 31 Mawrth 1895. Cyn hynny, roedd wedi bedyddio Erasmus Ellis, un arall o blant John Richard, yn 1893 ac Ethel May a William Ellis, plant ei ferch Esther Margaret yn ystod y ddegawd flaenorol. Ei fedydd olaf un oedd bedydd Robert Gregory, a oedd hefyd yn un o'i ddyletswyddau olaf yn y plwyf. Roedd eisoes wedi gweinyddu yn ei angladd olaf ar 12 Medi 1894, ac wedi gweinyddu yn ei briodas olaf yn Llangwm ar 2 Tachwedd 1893, ac yn ei briodas olaf Ninmael ar 28 Ebrill 1894.

O ran ei weithgareddau y tu allan i'r plwyf, fel y nodwyd eisoes, bu'n diwygio Hymnau yr Eglwys a chasglu atodiad ar ei gyfer, ynghyd â pharhau i olygu *Yr Haul* bob mis gyda chymorth Robert Williams. Roedd hefyd yn parhau i lythyru'n gyson, a'r enghraifft olaf sydd ar gael yw llythyr at Isaac Lloyd, Tan allt, Cerrigydrudion, a anfonodd dair wythnos cyn iddo farw. Yn y llythyr bychan hwnnw, mae'n diolch iddo am ei ran mewn ymgyrch i gasglu enwau ar ddeiseb. 'Buoch yn dra llwyddiannus. Cafwyd 162 o enwau, sef mwy o hanner cant na'r tro o'r blaen'[27] yw brawddeg olaf y nodyn. Mae'n debyg mai deiseb yn erbyn datgysylltiad oedd yr un dan sylw, a bod Ellis wedi gwirfoddoli i gasglu taflenni'r ddeiseb gan rai pleidiol i'r achos fel Isaac Lloyd.

Yn ogystal â'r llythyr hwnnw, mae o werth cyfeirio at yr emyn olaf a luniodd, a chyn hynny at y sylwadau olaf a luniodd ar gyfer *Yr Haul*, i ddangos bod ei feddwl ar ei waith offeiriadol uwchlaw popeth hyd y diwedd un. Yn rhifyn Mai 1895, lluniodd erthygl yn ymateb i drafodaeth yn y senedd ar ddyfodol yr eglwys sefydledig. Roedd datgysylltiad a dadwaddoliad yr eglwys yng Nghymru erbyn hynny'n amcan clir gan y Rhyddfrydwyr, a rhoddodd gyfarwyddiadau pendant i'w gyd-eglwyswyr wrthsefyll symudiadau o'r fath, gan beidio â rhoi'r gorau i'w safiad yn wyneb y pwysau cynyddol.

27 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archif Hugh Evans, 178

> Dywedai Napoleon Fawr wrth annerch ei filwyr i ymladd yn ddewr ym mrwydr y Pyramids yn yr Aifft: "Y mae deuddeg canrif yn edrych i lawr arnoch o ben y Pyramidiau acw." Gyda llawer mwy o wirionedd y gallwn ni ddywedyd yn bresennol yn yr ymdrech hon dros waddoliadau hynafol yr Eglwys yng Nghymru wrth bawb o'i phlant: "Y mae saint deuddeg canrif yn edrych i lawr arnoch o'u gorffwysfa fry, ac yn eich tyngedu i fod yn ffyddlon i'ch ymddiriedaeth."[28]

Aeth yn ei flaen i ddatgan y dylai clerigwyr a lleygwyr cydwybodol deimlo cyfrifoldeb mawr fel ymddiriedolwyr y fath dreftadaeth, a dywedodd yn gwbl ddiamwys na ddylid fyth ystyried cilio o faes y frwydr er mwyn cael bywyd esmwyth. Llefai'n groch, 'os rhaid dioddef, ni a gymerwn ein llwyr ysbeilio cyn bradychu ymddiried'.[29] Credai y byddai datgysylltiad yn ddim amgen nag ysbeilio eiddo cysegredig, ac anogodd ddarllenwyr *Yr Haul* i amddiffyn i'r eithaf y dreftadaeth eglwysig oedd mor bwysig yn ei olwg.

Roedd amddiffyn a gwasanaethu'r Eglwys yn egwyddorion anhepgor yn ei fywyd, ac nid oes gwell ymgorfforiad o'r modd y credai y dylai ymroi i wasanaethu ei eglwys a'i gymuned leol na geiriau'r emyn a ysgrifennodd bythefnos cyn iddo farw. Dyfynnwyd yr ail bennill eisoes yn y bennod ar ei emynau, ond mae'r trydydd yn gyfarwyddyd trawiadol ynghylch ymarweddiad priodol eglwyswr. Dywedir iddo gyfansoddi'r emyn ar gyfer plant yr eglwys, a pha ryfedd hynny wrth gofio am ei ddiddordeb byw mewn addysg. Serch hynny, mae ei neges yn addas ar gyfer y cenedlaethau hŷn hefyd:

> Hyfryd yw cyfarfod  
>   Fore Sul yn un,  
> Teimlo oll mewn cymod  
>   Gyda Duw'n gytûn:  
> Uno mewn gweddïau,  
>   Mawl a chân a hedd,  
> Uno ar ein gliniau  
>   Bawb wrth fwrdd y wledd;  
> Uno 'nghân angylion,  
>   Cân holl deulu'r Nef,  
> Tywallt bawb un galon

---

28 Elis Wyn o Wyrfai, Yr Eglwys Gymreig Ger Bon y Senedd', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.139

29 *ibid.*, t.139

Fawl i'w enw Ef.[30]

*Marwolaeth - porth bywyd*

Yn ystod ail wythnos Ebrill 1895, daeth pwl arall o anhwylder i'w wanhau'n waeth na'r arfer, a galwyd ar ei deulu i ddod at erchwyn y gwely wrth i'r gobaith am adferiad bylu. Dywedir bod Esther Margaret, neu Essie fel y galwai hi, wrth ochr ei thad yn ystod y munudau olaf, ac iddo yngan y geiriau 'Mab, nid gwas mwyach, Essie Bach.'[31]

Bu farw ar nos Fawrth, 23 Ebrill 1895. Ar gofgerdyn a luniwyd i ddiolch i rai a gydymdeimlodd â'r teulu yn eu profedigaeth, rhoddwyd yr adnod briodol 'Ymdrechais ymdrech deg'.[32] Ni ellir meddwl am eiriau tecach i grynhoi'r modd diarbed yr aeth ati i gyflawni ei alwedigaeth. Fe'i claddwyd y dydd Gwener canlynol, ar un o'r diwrnodau mwyaf glawog a welodd y fro ers amser. Er i'r glaw dywallt yn ddi-baid, ymgynullodd nifer fawr o'r plwyfolion, a thyrrodd cyfeillion ac offeiriaid o bob cwr o Gymru i ffarwelio â'r emynydd, y golygydd, y bardd, y beirniad, ac yn bennaf oll, yr offeiriad ymroddgar. Yn ôl adroddiad y *Church Times*, cynhaliwyd Cymun Bendigaid am 11 yn eglwys Sant Ierôm, cyn i osgordd o ddeunaw cerbyd a sawl un ar droed ddilyn yr arch i eglwys Dinmael, lle rhoddwyd ef i orffwys gyda'i wraig.[33] Canon Richardson, canghellor Llanelwy a rheithor Corwen, a arweiniodd y gwasanaeth, gyda canon Fletcher o Wrecsam a John Jones, ficer Cerrigydrudion hefyd ymysg y rhai a chwaraeodd ran flaenllaw yn yr angladd. Dywedir mewn adroddiad arall fod rhai o emynau Ellis wedi eu canu yn y gwasanaeth uniaith Gymraeg hwnnw.

Roedd John Owen, cyn-ddeon Llanelwy, wedi anfon ei ymddiheuriadau o Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, i ddweud na fyddai'n gallu bod yno – roedd gofyn iddo fod mewn cyfarfod yng Nghaerdydd. Roedd esgob Llanelwy, A. G. Edwards, wedi cychwyn o Lanelwy yn y gobaith o gael cyrraedd Llangwm mewn pryd, ond mae'n

30 Dyfynnir yn erthygl Charles Ashton, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.164

31 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', t.201

32 O.M. Edwards, 'At Ohebwyr', *Cymru* 9 (1895), t.52

33 *Church Times* 1 Mai 1895, t.11

amlwg nad oedd wedi meddwl y byddai cymaint yn mynychu'r angladd. Cyrhaeddodd Corwen a chanfod nad oedd ceffylau i fynd ag ef ymlaen oddi yno, a throdd yn ôl am adref yng nghherbyd clyd y trên. Mae gohebydd *Y Cymro* wythnos wedi'r angladd yn llawdrwm ei feirniadaeth ohono am fethu dod i ffarwelio ag un o'i offeiriaid mwyaf gweithgar.

> ...fe aeth esgob Llanelwy cyn belled â Chorwen hefo'r trên gyda'r bwriad o uno yn y cynhebrwng, ond roedd hi'n glawio'n ddychrynllyd – ddim ffit i glochydd heb sôn am esgob fod allan ynddo; felly aeth ei arglwyddiaeth yn ôl i'w esgobdy cysurus gan adael i boblach dlotach, ffyddlonach (ffolach yn ei dyb ef, efallai), ddilyn gweddillion y clerigwr tawelfwyn o Langwm trwy y glaw i dy ei hir gartref.[34]

Barn y gohebydd hwnnw oedd bod y pwysigion wedi methu bod yno, ond bod llu o'i bobl ei hunan, y werin, wedi mynnu bod yno er gwaetha'r cawodydd trymion. Gellid dadlau bod hynny'n briodol, gan na chollodd olwg erioed ar y rhai a wasanaethai - pobl o'r un anian a chefndir ag ef ei hunan. Yn groes i hynny, araf iawn oedd pwysigion yr Eglwys i gydnabod ei waith. Er y gallai blesio pwysigion cymdeithas â'i ddysg a'i natur fonheddig, dyn y bobl oedd yn bendifaddau. Geiriau Charles Ashton wrth gloi ei deyrnged iddo yn *Yr Haul* oedd:

> Beth oedd yn tynnu dagrau o lygaid ei blwyfolion ar ddydd ei angladd? Nid oes yr un wraig weddw dlawd ym mhlwyf Llangwm heb fedru ateb y gofynion hyn. Yn ystod y 23 mlynedd y bu yn gwasanaethu yn y plwyf, ni fu unwaith yn glust-fyddar i gwynion y weddw a'r amddifaid; ni fedrodd erioed edrych ar drueni heb geisio ei leddfu; ni phetrusai feiddio i wyddfod Angau i sychu dyferynau oerion ar ruddiau y rhai oedd ar groesi yr afon. ...[ac] Nid eglwyswyr yn unig a wasanaethai yn y ffordd hon, ond pawb, yn Eglwyswyr ac yn Ymneilltuwyr. Credwn nad oedd yr un Ymneilltuwr ym mhlwyf Llangwm heb iddo lwyr ennill ei barch a'i ymddiriedaeth, trwy ei weithgarwch cydwybodol, ei hunan-aberth, ei garedigrwydd, ei foneddigeiddrwydd, a'i ymarweddiad cyson a Christnogol.[35]

Efallai y byddai gweddill Cymru'n ei gofio fel emynydd, fel golygydd *Yr Haul*, fel beirniad eisteddfodol, neu fel bardd a llenor craff – a hynny yn y drefn honno, efallai – ond yn ddiamau, gallai trigolion Llanfihangel Glyn Myfyr, plwyfolion Llangwm yn

---

34 *Y Cymro* 2 Mai 1895, t.3

35 Charles Ashton, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 11 (1895), t.165

arbennig, a phobl Rhosymedre a fu'n ddigon ffodus i'w adnabod, roi ei ragoriaethau fel offeiriad plwyf cydwybodol a charedig uwchlaw popeth arall.

Ar y groes wen o farmor sy'n dynodi bedd ei wraig ac yntau, ceir yr ymadrodd Lladin 'Mors Janua Vitae', sef o'i drosi i'r Gymraeg, 'Marwolaeth – porth bywyd'. Er iddo gyflawni cymaint yn ystod ei fywyd, roedd ei olwg o hyd ar y bywyd y tu hwnt i angau, ac roedd ei offeiriadaeth, ar ben ei waith llenyddol, wedi ei chyfeirio at y wobr derfynol honno sydd y tu hwnt i amgyffred dyn.

## ii - Ôl-ysgrif - Y llinach deuluol (II)

*William Morris Roberts, 1856 - 1924*

William Morris oedd y cyntaf o'r tri brawd i gael ei ordeinio'n offeiriad, ac fel y ddau arall, enillodd radd gyntaf a gradd uwch yn Rhydychen. Derbyniodd ei addysg gynnar yn Ysgol Ramadeg Rhuthun, ac ar ôl ennill ei M.A. bu'n gurad yn Llanddulas rhwng 1879 a 1881, yng Nghastellnewydd ym Morgannwg am flwyddyn ar ôl hynny, ac yn y Trallwng am dair blynedd tan 1885. Bu wedyn yn offeiriad ym mhlwyfi Betws y Crwyn, Llangedwyn, ac yn Llangynyw am gyfnod byr cyn ei farwolaeth.[1]

Fel un o weision mwyaf diwyd a ffyddlon Cymdeithas Genhadol yr Eglwys (CMS) y cofiwyd amdano mewn teyrngedau ar ei farwolaeth. Dywedir ei fod wedi crwydro i bob rhan o Gymru yn rhinwedd ei gyfrifoldebau gyda'r CMS, gan draddodi cannoedd o bregethau a darlithoedd, a chynnal sawl ymgyrch codi arian. Roedd ei erthyglau niferus yn *Yr Haul* ar y genhadaeth dramor, gyda'r llythrennau W.M.R. ar eu godre, hefyd yn arwydd o'i sêl dros genhadaeth fyd-eang yr eglwys. Fe'i canmolid am ei allu areithio ac am fod yn offeiriad plwyf rhagorol, ond at hynny hefyd roedd yn ŵr diymhongar fel ei dad. Adroddir ymhellach fod cystal parch iddo nes iddo gael cynnig bod yn esgob yn un o daleithiau gogleddol Canada, ac mai dim ond afiechyd ei wraig a rwystrodd y penodiad hwnnw rhag digwydd bryd hynny. Bu farw o fewn ychydig wythnosau i Morris Roberts arall (nad oedd yn perthyn iddo), a wnaeth ei enw fel gweithiwr dros Gymdeithas Taenu'r Efengyl (SPG) ac fel golygydd y misolyn *Y Cyfaill Eglwysig*. Yn wir, hawdd fyddai drysu rhwng y ddau, yn enwedig gan i M.R. olynu W.M.R. fel ysgrifennydd y CMS yn esgobaeth Bangor.[2]

*Ellis Gregory Roberts, 1859 - 1947*

---

1 Un Hoff Ohono, 'Y Diweddar Barch. William Morris Roberts, M.A., Rheithor Llangynyw, Maldwyn', *Yr Haul* Cyfres Newydd 26 (1924), t.213

2 *ibid.*, t.213

Yn yr un modd â'i frodyr, i'r offeiriadaeth y galwyd Ellis Gregory. Torrodd ei gŵys ei hunan ac ymsefydlu ymhellach o Langwm na'r lleill wedi marwolaeth eu tad. Ymylol ar y gorau oedd ei gysylltiad â Chymru wedi troad y ganrif, ac ni chyhoeddwyd gair er cof amdano mewn cyfnodolyn eglwysig Cymraeg pan fu farw.

Treuliodd ei guradiaeth gyntaf yn Llangwm, ac wedi tair blynedd yn cynorthwyo ei dad, symudodd i blwyf lle treuliodd bedair mlynedd o'i blentyndod, sef Rhosymedre. Wedi tair blynedd yno bu'n Is-ganon yn Llandâf, cyn penderfynu gwasanaethu Cymdeithas Genhadol yr Eglwys fel ei frawd hynaf William. Daeth yn ddarlithydd yn y Clasuron a Saesneg yng Ngholeg Noble, Masulipatam, India yn sgil hynny, ond bu'n rhaid iddo dychwelyd i Brydain ar ôl dioddef twymyn haul drwg a effeithiodd ar ei olwg. Bu'n rheithor Newbold-on-Stour ger Stratford-upon-Avon, ac yna'n ficer Alberbury am ddwy flynedd ar bymtheg.[3] Yn ddaearyddol, mae'r plwyf hwn ar y ffin rhwng Cymru a Sir Amwythig, ac fe'i trosglwyddwyd o Lanelwy i isadran Amwythig yn esgobaeth Caerlwytgoed tra bu'n offeiriad yno. Pan ddatgysylltwyd yr Eglwys yn Nghymru yn 1920, gallai plwyfi a oedd naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl y tu allan i Gymru yn ddaearyddol, ond a oedd yn rhan o esgobaethau Cymru, ddewis aros yn eu hesgobaethau neu gael eu trosglwyddo i'r esgobaeth Seisnig agosaf. Dewis y mwyafrif, a phlwyfolion Alberbury yn eu plith, oedd symud a chadw at hen drefn Eglwys Loegr yr oeddent yn gyfarwydd â hi.[4] Bu farw yn 88 oed yn Ipplepen yn Nyfnaint, gerllaw Torquay. Roedd wedi ymgartrefu yno ar ôl cyfnod dramor yn Newfoundland wedi iddo ymddeol.

Yn sgil ei gyfnodau dramor, ychydig o gysylltiad a fu rhyngddo ef a gweddill y teulu tua diwedd ei oes. Bu cysylltiad clòs wrth reswm yn ystod ei guradiaeth yn Llangwm, pan roddodd gymorth i'w dad gyfieithu esboniad Walsham How ar Efengyl Ioan. Fel un a chanddo radd M.A. o Rydychen, roedd yn gyfarwydd â sawl iaith, gan gynnwys Groeg, a

3 Crockford's Clerical Directory (Llundain, 1947), t.1496

4 D.T.W. Price, Hanes yr Eglwys yng Nghymru yn yr Ugeinfed Ganrif (Penarth, 1990), t.6-7

gwyddys fod ei ddiddordebau hamdden hefyd yn eang iawn. Tra oedd yn India datblygodd ddiddordeb mewn seryddiaeth,[5] ac yn y gyfrol Seryddiaeth a Seryddwyr, rhestrir ef ymysg Cymry oedd yn wybyddus i'r awdur J. Silas Evans fel rhai a astudiai'r sêr. Dywedir amdano ei fod yn '"Arsyllwr" diwyd tra gallodd'[6] – gyda chadarnhad efallai o'r diffyg ar ei olwg yng ngeiriau olaf y frawddeg. Os oedd ei dad yn ddyn *Yr Haul*, mae'n ymddangos mai dyn y sêr oedd y mab canol felly. Ymddiddorai hefyd mewn codi pwysau, a dywedir ei fod yn un o sefydlwyr Cymdeithas Codi Pwysau Prydain, gan gyfrannu'n gyson i'r cylchgrawn *Health and Strength*,[7] cylchgrawn sydd wedi cael ei gyhoeddi'n ddi-dor ers 1898.[8]

*John Richard Roberts, 1865 - 1942*

Enillodd y trydydd mab yntau radd M.A. o Rydychen, ac roedd yn ddeiliad y Powis Exhibition cyn graddio. Derbyniodd John Richard gyfran o'i addysg gynnar yn Rhuthun,[9] ac fel y nodwyd wrth drafod emynau ei dad, fel cerddor y gwnaeth ei farc. Gwlad y plygain ym Maldwyn a welodd y gorau o'i ddoniau cerddorol, wrth iddo dreulio 43 o flynyddoedd yn gofalu am blwyfi Llanfihangel-yng-Ngwynfa a Phont Dolanog, a phedair blynedd yng Ngarthbeibio cyn hynny. Bu'n gurad yn Llanfairfechan, yn eglwys Santes Fair a'r Gadeirlan ym Mangor, ac yna'n gurad i'w dad yn Llangwm am dair blynedd, cyn symud i Faldwyn yn 1895.

Trwy ei ddoniau cerddorol cyfrannodd at adfywiad yn nhraddodiad y plygain yn nwyrain Maldwyn, a bu ei ddylanwad ar y dalgylch yn fawr, yn enwedig gan iddo fod yn ddeon gwlad Llanfyllin am ddwy flynedd ar hugain olaf ei fywyd. Cydnabuwyd y doniau cerddorol

---

5 Arthur Mee (gol.), Who's Who in Wales (Cardiff, 1921), t.

6 J. Silas Evans, Seryddiaeth a Seryddwyr (Caerdydd, 1923), t.

7 Mee (gol.), Who's Who in Wales (Cardiff, 1921), t.

8 www.healthandstrength.org.uk

9 Mee (gol.), Who's Who in Wales (Cardiff, 1921), t.

hynny pan benodwyd ef yn Bencantor Llanelwy yn 1935. Chwaraeodd ran amlwg yn y gwaith o ddwyn adargraffiadau o Hymnau yr Eglwys drwy'r wasg wedi marwolaeth ei dad, ac roedd yn rhan o'r pwyllgorau a gyhoeddodd y cyfrolau emynau Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru ac Emynau'r Eglwys, gyda'r ail yn ymddangos ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth yn 1942.

*Esther Margaret Jones, 1861 - 1898*

Rhwng Ellis Gregory a John Richard ganed dwy chwaer, ond bu farw Mary Ellen ar ei genedigaeth, gan adael Esther Margaret fel unig ferch y teulu. Bu'n byw ym mhob un o dair bywoliaeth ei thad, ac yn yr olaf ohonynt, sef Llangwm, y cyfarfu â'i gŵr Owen Jones. Saer oedd ei alwedigaeth, ac roedd yn un o deulu enwog 'Seiri Cochion Llangwm'. Priodwyd y ddau yn Lerpwl yn 1880 lle bu Owen yn gweithio am gyfnod, a bu wedi hynny'n oruchwyliwr stad Peniarth ym Meirionnydd. Roedd Esther yn gyfeilydd i gôr a arweinid ganddo ers pan oedd yntau ond yn ddwy ar bymtheg oed.[10] Etifeddodd eu plant eu doniau cerddorol, gan i'r meibion William Ellis a John Owen chwarae rhan allweddol yn sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Roedd John Owen yn ganwr proffesiynol o fri hefyd, a adnabuwyd fel Owen Bryngwyn ar ôl y cartref lle'i magwyd ym Mheniarth. Cynigir ysgoloriaeth yn dwyn ei enw gan Goleg Cerdd Brenhinol Llundain, lle bu'n astudio ar ôl ennill gradd gyntaf ym Mangor.

Fel pob teulu, crwydrodd rhai disgynyddion ymhell, tra arhosodd rhai eraill yn nes at wreiddiau'r teulu. Hyd heddiw, mae rhai o ddisgynyddion William Morris yn byw yn Tasmania, a bu un o feibion John Richard yn byw yn Seland-Newydd, ac un arall yn gapten yn y fyddin.[11] Serch hynny, ymgartrefodd un o wyrion John Richard yn Sarn Mellteyrn, nepell o feddau ei hen, hen daid a nain. Mae'r wên lydan, y gwallt cyrliog tynn, tywyll, a'r

---

10 Robin Gwyndaf, Y Ffynnon Arian : Cymdogaeth, Diwylliant a Chapel yn Llangwm, Uwchaled (Pen-y-Groes, Caernarfon, 1996), t.175

11 'Newyddion Eglwysig', *Yr Haul* Trydedd Cyfres Caerfyrddin 5 (1942), t.247

natur hawddgar a oedd yn nodweddiadol o Ellis i'w gweld yn Richard. Ef sydd yn gofalu am fedd tad a mam Ellis, am ddresel a fu yn y ficerdy yn Llangwm, ac am y cloc a roddwyd gan blwyfolion diolchgar Rhosymedre pan adawodd Ellis am Lanfihangel Glyn Myfyr yn 1866. Nid yw'r Gymraeg wedi goroesi ar wefusau'r un disgynnydd sy'n fyw heddiw, ond mae enw da a hynodrwydd eu patriarch, Elis Wyn o Wyrfai, yn agos at eu calonnau o hyd.

# Crynodeb

Wrth geisio mesur ei gyfraniad i'r meysydd y bu'n llafurio ynddynt, mae'r ffaith iddo wneud cymaint mewn cynifer o gyfeiriadau yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried cyn dod i unrhyw gasgliad synhwyrol. Roedd yn rhagori mewn rhai meysydd yn fwy nag eraill, ond yn enghraifft nodweddiadol o ganrif lle nad oedd terfyn ar frwdfrydedd pobl dros ystod eang o weithgareddau. Yr hyn sy'n amlwg wrth fwrw golwg dros uchafbwyntiau ei fywyd yw nad oedd ganddo gynllun yr aberthodd bopeth er ei fwyn, ac eithrio efallai ei weinidogaeth yn y plwyf. Gallai fod wedi canolbwyntio ar un peth a gwneud enw iddo'i hunan fel y gorau yn y maes hwnnw, ond yn lle hynny gwnaeth ei orau lle bynnag y gallai a lle bynnag y byddai'r gofyn, gan ddefnyddio bron y cyfan o'i oriau hamdden i wasanaethu ei gyd-Gymry a'r Eglwys.

*Ei gyfraniad fel emynydd*

Y mwyaf parhaol o'i holl gyfraniadau oedd ei emynau, yn enwedig ei lyfr emynau Hymnau yr Eglwys. Y deyrnged orau o bell ffordd i'w waith fel golygydd emynau'r gyfrol honno yw fod un o eglwysi Cymru wedi ei defnyddio hyd at o leiaf 1984, sy'n brawf fod rhai wedi gweld gwerth ynddi am ymron ddeg a phedwar ugain o flynyddoedd. Yn ychwanegol at yr enghraifft nodedig honno, gellid dweud bod mwyafrif plwyfi Cymraeg yr eglwys wedi canu o Hymnau yr Eglwys rhwng troad yr ugeinfed ganrif a chyfnod yr Ail Ryfel Byd. Hyd at gyhoeddi Emynau'r Eglwys ac Emynau Hen a Newydd, safai ben ac ysgwydd uwchlaw eraill yn y maes. Gyrrodd Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru i'r cysgodion yn esgobaethau Tyddewi, Llanelwy a Llandâf, er bod honno'n gyfrol a oedd wedi ei llunio gan bwyllgor niferus dan gadeiryddiaeth esgob Bangor.

Canmolwyd ef am gynnwys mewn cyfrol gryno a threfnus y nodweddion y carai eglwyswyr o bob traddodiad eu gweld mewn llyfr emynau cyffredinol. I'r rhai a oedd yn parhau dan swyn Mudiad Rhydychen, roedd emyn priodol ar gyfer y prif wyliau i gyd, ac i'r rhai a oedd yn hoff o hen emynau Cymru, roedd goreuon Edmwnd Prys, Williams Pantycelyn, Morgan Rhys, Ann Griffiths ac eraill yno i gyd. Byddai'r rhai a gredai fod angen emynau cyfoes i gyfleu teimladau'r eglwys oedd ohoni yn falch o weld

emynau cynifer o emynwyr eu dydd rhwng y cloriau hefyd. Yn ogystal, bu'n effro i'r her a ddaeth gyda dwyieithrwydd mwy cyffredinol, a darparodd gyfieithiadau o emynau Saesneg poblogaidd ochr yn ochr â'r hen ffefrynnau Cymraeg. Roedd cael y cyfan hyn mewn cyfrol gryno, gyda llai na 440 emyn rhwng y cloriau, yn ei gwneud yn gyfrol hygyrch ac atyniadol.

Roedd 32 o'i emynau ef ei hunan yn Hymnau yr Eglwys, ac o blith y rheiny gwelodd golygyddion cyfrolau diweddarach yn dda i atgynhyrchu mwy na'u deuparth. O blith ei gyfansoddiadau gwreiddiol, ei emyn ar gyfer bore'r Pasg, 'Hwn yw yr hyfryd fore ddydd' a atgynhyrchwyd amlaf yn netholiadau'r Ymneilltuwyr. Cafodd sawl emyn a luniodd ar gyfer gwyliau'r Saint hefyd eu cynnwys mewn cyfrolau eglwysig ar hyd yr ugeinfed ganrif.

O blith ei gyfieithiadau o emynau Saesneg, 'Through the night of doubt and sorrow' gan Sabine Baring-Gould a'r cyfieithiad o drydydd pennill carol enwog Charles Wesley, 'Hark! The herald angels sing' a atgynhyrchwyd amlaf. Gan fod Wesley tua dechrau'r traddodiad emynyddol Saesneg a Baring-Gould yn nes at gyfnod Ellis ei hunan, gwelir fod ei gyfieithiadau'n cynnwys amrediad da o wahanol gyfnodau'r traddodiad hwnnw. Wrth gyfrif ei gyfieithiadau o'r emynau Lladin cynnar a gyfieithodd John Mason Neale i'r Saesneg, gellid ymestyn y *repetoire* hwnnw ymhellach byth hefyd.

Yr hyn sy'n eironig yw fod pump emyn na chynhwysodd yn Hymnau yr Eglwys wedi llwyddo'n well na phob un o'i eiddo ei hun a gynhwysodd yn y gyfrol. Ei wyleidd-dra wrth ddewis emynau tebyg gan emynwyr eraill a olygodd na welwyd y rhain yn ei ddetholiad, o bosib. Serch hynny, pa Gymro sydd ddim yn gyfarwydd â'r garol 'Yn nhawel wlad Jiwdea dlos', neu a fynychodd briodasau Cymraeg mewn eglwys heb erioed glywed 'O flaen yr allor sanctaidd' yn cael ei ganu? Enillodd yr emynau hyn o'r tu allan i 'ganon' Hymnau yr Eglwys le yng nghalonnau sawl cenhedlaeth o Eglwyswyr ac Ymneilltuwyr fel ei gilydd.

Y feirniadaeth a anelir ato fel cyfansoddwr a chyfieithydd emynau yw na chynhwysodd lawer o'i brofiadau personol ynddynt. Y gwir yw mai cyfansoddi a chyfieithu i lenwi

bylchau yn narpariaeth yr eglwys a wnâi fynychaf. Roedd ar eglwyswyr Cymraeg angen emynau ar gyfer dyddiadau arbennig yng nghalendr yr eglwys, a gwnaeth ei orau i gynnig rhai priodol ar eu cyfer. Er mai dim ond un emyn o'i eiddo sy'n ymddangos yn Caneuon Ffydd, anghyfiawnder fyddai barnu mai emynydd di-nod ydoedd ar sail hynny'n unig. Pe cymerid dwy gyfrol ddiweddaraf yr Eglwys yng Nghymru fel ffon fesur amgenach, sylweddolid mai dim ond emynau Pantycelyn a Nicander sy'n fwy niferus na'i waith ef yn Emynau Hen a Newydd, a dim ond y 'Pêr Ganiedydd', R. Glyndwr Williams (un o'r golygyddion), ac Elfed sydd â mwy o emynau nag ef yn Emynau'r Llan. Fel emynydd eglwysig Cymraeg, saif hyd heddiw yn y rheng flaenaf.

*Golygydd* Yr Haul

Ellis oedd trydydd golygydd *Yr Haul*. Roedd y golygydd cyntaf, Brutus, wedi gwneud enw iddo'i hunan fel un o olygyddion enwocaf y cyfnodolion Cymraeg wrth i'r cyfrwng hwnnw ddatblygu. Diolch i'w ddychan a'i arddull ddi-flewyn-ar-dafod, roedd gan yr eglwys lais amddiffynnol cryf o'i phlaid wrth i gyfnodolion yr enwadau Ymneilltuol ymgryfhau a tharo yn erbyn yr eglwys sefydledig. Wedi marwolaeth Brutus ceisiodd William Spurrell ofalu am *Yr Haul* o'i argraffdy yng Nghaerfyrddin, ond dirywiodd yn gylchgrawn digon syber a di-nod. Ac yntau'n wynebu'r dasg o godi *Yr Haul* yn ôl ar ei draed, aeth Ellis ati i roi ei stamp ei hunan arno, gan gynhyrchu un o fisolion mwyaf safonol ei ddydd.

Gosododd her sylweddol iddo'i hunan wrth eistedd yn y gadair olygyddol am y tro cyntaf, gan anelu at gynnwys erthyglau ar ystod eang o bynciau bob mis er mwyn ei wneud yn 'gyfrwng gwybodaeth fuddiol i'r oes'.[1] Yn hynny o beth, llwyddodd i gyrraedd y nod bron ar ei ben ei hunan, gan wneud yn iawn am ddifaterwch pwysigion yr eglwys trwy ysgrifennu sawl erthygl ei hunan bob mis. Ei eiddo ef oedd pob un heb enw ar ei godre ar hyd y ddegawd y bu wrth y llyw, ac mae'r rheiny'n llenwi yn agos at hanner tudalennau'r cylchgrawn ambell fis. Seiliai ddadleuon o blaid yr eglwys ar ffeithiau cadarn, gan annog y darllenwyr i drafod pynciau'r dydd yn synhwyrol a bonheddig yn hytrach na gostwng eu safonau trwy daflu baw at ei gilydd. Ei nod oedd cynnig cylchgrawn Eglwysig safonol i werin Cymru heb iselhau safonau moesol na

1 Elis Wyn o Wyrfai, *Yr Haul* Ail Gyfres Caerfyrddin 1 (1885), Rhagymadrodd

ieithyddol gan y credai mai codi safon trafodaeth yr oes oedd eisiau, er mwyn arfogi ei gyd-eglwyswyr â dadleuon cadarn pan ymosodid arnynt gan eu cymdogion Ymneilltuol.

Eithriad prin oedd gweld rhywun yn cynnig gwelliant, cywiriad neu leisio gwrthwynebiad i'r rhybedi o golofnau a ysgrifennai, ac arwydd o hoffter y genedl o'r hyn a ddarparai oedd fod y cylchrediad wedi treblu tra bu'n gofalu am *Yr Haul*. Yn ychwanegol i'r erthyglau sylweddol, lluniodd ddwy nofel boblogaidd ac arloesol ar gyfer y darllenwyr a roddai sylw i'r newidiadau a welodd yn ei oes ei hunan. Sicrhâi'r rhain gydbwysedd delfrydol rhwng diwylliant a difyrrwch bob mis, ynghyd â chynnig cip ar ei atgofion a'i safbwyntiau yntau nad oedd yn gallu eu lleisio trwy gyfryngau eraill. Yn goron ar ei weithgarwch, sicrhaodd barhad *Yr Haul* trwy feithrin cenhedlaeth newydd o ysgrifenwyr a fu'n gymorth i gynnal y misolyn ymhell i'r ugeinfed ganrif.

Y syndod pennaf wrth ddarllen rhifynnau *Yr Haul* a olygwyd ganddo yw ei fod wedi llwyddo i gadw'r misolyn yn gylchgrawn boneddigaidd, cynhwysfawr a darllenadwy ar hyd degawd hynod o gythryblus yn hanes yr eglwys. Hwn oedd y cyfnod a welodd derfysgoedd yn erbyn y degwm a dderbyniai'r eglwys, a galw mwy croch nag erioed am ei datgysylltu. Trwy'r cyfan, fe'i hamddiffynnodd yn gadarn heb gyfaddawdu ei safonau golygyddol uchel. Byddai'n ddi-ffael yn cyfleu pob *apologia* a gwrthddadl ar ran yr eglwys yn raenus a bonheddig, a'r cyfan ar seiliau ffeithiol cadarn.

Pan ddaeth rhyfel enwog y degwm i'w blwyf, bu'r un mor fonheddig drwy'r cyfan, ac er i Thomas Gee a hyrwyddwyr eraill y frwydr geisio pardduo'r eglwys fel corff annheilwng o'r degymau, methodd yr un dyn ganfod bai ar ymarweddiad offeiriad dygn Llangwm. Gwasanaethodd y bobl hyd eithaf ei allu, gan alw am bwyll ac ymateb rhesymol i'r caledi a wynebai amaethwyr y cyfnod. Gresynai fod cynifer yn troi at drais pan oedd y werin newydd gael hawliau pleidleisio, ond ychydig iawn a wrandawodd ar ei gynghorion, ac oherwydd hynny cofir am Langwm fel un o leoliadau mwyaf allweddol Rhyfel y Degwm. Teg dweud iddo chwerwi ychydig wedi'r terfysgoedd, ac mae lle i gredu fod yr helyntion wedi effeithio ar iechyd ei wraig, ond yn gwbl nodweddiadol o natur gymodlon y dyn, maddeuodd i'w gymdogion a pharhau i'w gwasanaethu yr un mor ffyddlon ag erioed.

*Yr Eisteddfodwr*

Fel 'Elis Wyn o Wyrfai' yr adwaenid ef amlaf ar hyd ei oes, a thystia'r enw barddol hwnnw i'w ymwneud ag eisteddfodau ers ei laslencyndod. Tua diwedd ei oes, roedd Ellis gyda'r pwysicaf yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol swyddogol cyntaf, ac eithriad oedd peidio gweld ei enw ymysg beirniaid y prif gystadlaethau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r ffaith honno'n arwydd fod ei feirniadaethau wrth fodd nifer dda o lenorion Cymru'r cyfnod.

Yn groes i'w ragoriaethau llenyddol fel golygydd cyfnodolion a chyfrol o emynau, ni chododd uwchlaw safon ei oes wrth farddoni, gan adael fawr amgenach na barddoniaeth farw ar ei ôl yn ei bryddestau a'i awdlau. Cyfrifid ef yn fardd canmoladwy yng ngolwg ei gymheiriaid, ond heddiw gwelir mai cyfansoddiadau diawen a maith oedd sawl un o'i eiddo. Nid oes angen edrych fawr pellach na'i bryddest ar 'Fuddugoliaeth y Groes', a gipiodd goron eisteddfod 1880, i weld 3000 llinell heb yr un amrywiaeth patrwm ynddynt, cerdd a oedd, ysywaeth, yn croesddweud llawer o'i ganmoliaeth fel beirniad i ganu naturiol, cryno a swynol.

*Yr Eglwyswr*

Un o'r tasgau difyrraf wrth ystyried ei offeiriadaeth yw gweld i ba garfan y perthynai, a phwy oedd y dylanwad mwyaf ar ei eglwysyddiaeth. Roedd yn credu'n gryf mai'r eglwys sefydledig oedd gwir eglwys y Cymry, a bod yr eglwys honno'n etifedd traddodiad hir o efengylu yng Nghymru. Mae'n debyg fod ei ddiddordeb yn hynafiaeth yr eglwys wedi ei feithrin yn gyntaf oll gan John Jones, ficer caredig Llanllyfni, a fenthycodd lyfrau iddo tra bu'r teulu'n byw yn y felin gerllaw eglwys Sant Rhedyw. Yn ei ymwneud â Robert Williams yng Nghlynnog daeth i weld rhai o effeithiau Mudiad Rhydychen ar waith, ac adleisiwyd nifer o'r rheiny yn ei nofel, Llan Cwm Awen. Byddai edrych ar ei emynau ar gyfer gwyliau'r saint, a'r modd yr aeth ati i atgyweirio eglwys Llangwm a chodi un newydd yn Ninmael yn awgrymu iddo yntau ddod dan ddylanwad y Mudiad hwnnw. Yn sicr, roedd H. T. Edwards a sawl offeiriad arall yn neoniaeth Llangollen pan oedd Ellis yn gurad yn Rhosymedre yn uchel-Eglwyswyr.

Er hynny, dylanwad tra phwysig arall, ac un croes i'r duedd uchel-eglwysig, oedd Thomas Thomas, ficer Caernarfon. Ef a weinyddodd yng ngwasanaeth priodas Ellis ac Esther, ac a gadwodd olwg arno tra bu'n gurad yn Rhosymedre. Roedd hefyd wrth gwrs yn ffigwr amlwg yng Nghaernarfon tra bu Ellis yn y coleg hyfforddi, ac roedd Waunfawr a'r Bontnewydd, lle bwriodd Ellis ei brentisiaeth fel athro ifanc, o fewn cyrraedd iddo hefyd. Roedd yn ddyn a ddangosai arddulliau 'isel-eglwysig' neu efengylaidd ar eu gorau yn ei weinidogaeth, gyda'r pwyslais pennaf ar gyfleu'r Efengyl trwy bregethau effeithiol ac ymwneud agos â'r plwyfolion. Roedd y nodweddion hyn yr un mor amlwg yn offeiriadaeth Ellis â'r tueddiadau uchel-eglwysig y cyfeiriwyd atynt uchod.

Credai'n gryf yn syniadau Thomas Thomas a'r esgob a'i hurddodd, Vowler Short, sef fod ymweld â phlwyfolion yn rhan hollbwysig o waith offeiriad plwyf, ac roedd ei bregethau yn syml, yn egluro testunau priodol y Sul ac o fewn cyrraedd ei gynulleidfa. Ar y llaw arall, roedd y modd y cododd safon gwasanaethau yn yr eglwysi y bu'n gofalu amdanynt, a'r emynau a gyfansoddodd i ddathlu gwyliau'r saint, yn dangos peth o ddylanwad Mudiad Rhydychen arno. Yn y bôn, cyfunodd ragoriaethau'r ddau draddodiad yn ei eglwysyddiaeth, gan fodloni ar y tir canol rhwng y ddau begwn. Efallai mai'r ffaith sy'n cadarnhau'r dybiaeth honno orau yw cyfeiriad ganddo ei hun at ddylanwad pregethau F.W. Robertson ar H.T. Edwards ac yntau. Credai'r diwinydd Rhyddfrydol hwnnw mewn canfod yr hyn a oedd yn gyffredin rhwng carfanau Cristnogol, a chadw hynny mewn cof uwchlaw'n nodweddion a oedd yn eu cadw ar wahân. Er gwaethaf ffyrnigrwydd 'Rhyfel y Degwm' a'r holl ymosodiadau ar yr eglwys sefydledig yn gyffredinol, ceisiai Ellis gymod bob tro, gan briodoli'r bai mwyaf am y cecru rhwng enwadau i ddylanwadau secwlar - yn enwedig y wasg - yn hytrach na gweinidogion Ymneilltuol. Gresynai fod cyfrwng a allai fod mor fuddiol yn cael ei droi i feithrin casineb.

Wrth iddo gyfuno'r gwahanol ddylanwadau hyn, a'u rhoi ar waith yn y plwyfi lle bu'n gwasanaethu, enillodd le annwyl iawn iddo'i hunan yng nghalonnau pawb y bu'n ymwneud â hwy. Fe'i anrhegwyd â chloc hardd ar ddiwedd ei guradiaeth yn

Rhosymedre, a pharhaodd coffa da amdano yn Llanfihangel Glyn Myfyr fel offeiriad cydwybodol a gymerodd ddiddordeb mawr yn addysg ei blwyfolion. Bu'n foddion i godi ysgol yno, a rhoi cychwyn ar draddodiad eisteddfodol hir ac anrhydeddus yn y pentref. Ond er gwaethaf ei lwyddiannau yn y plwyfi hyn, yn Llangwm y gwnaeth yr argraff fwyaf, ac yn ystod ei offeiriadaeth yno y gwelwyd ef ar ei orau fel un o ficeriaid mwyaf gweithgar ei oes.

Wrth gyrraedd yno, deuai i blwyf a oedd wedi mynd â'i ben iddo. Roedd yr eglwys sefydledig yn fodolaeth amherthnasol ac aneffeithiol yn y pentref, a'r adeilad fawr gwell nag adfail. Er hynny, atgyweiriodd yr eglwys gan gymryd rhan ymarferol yn y trwsio ei hunan, ac aeth ati i ddeffro'r weinidogaeth a ddeilliai ohoni. Daeth gwell trefn ar y gwasanaethau'n fuan wedi hynny hefyd, a chymaint oedd ei ffydd fod yr eglwys yn adennill tir yn y plwyf fel iddo godi eglwys hardd ym Maerdy Dinmael, a gwneud hynny heb adael dyled ar ei ôl.

Hap anffodus ac amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth a barodd fod helyntion gwaethaf 'Rhyfel y Degwm' wedi codi yn ei blwyf, ond trwy'r cyfan ceisiodd ddal ati'n ddygn fel offeiriad, gan ennill a chynnal parch ymysg ei blwyfolion hyd ddiwedd ei oes. Mae enghreifftiau o'i garedigrwydd yn lluosog, a'r coffa da amdano yn y plwyf, o'r teuluoedd y gofalodd amdanynt wedi i'r gwddfglwyf ymafael ynddynt i'r wraig yr atgyweiriodd ei pheiriant gwnïo, yn ddiamwys. Roedd yn was ffyddlon i'w bobl, yn amddiffynnwr cadarn i'r eglwys a garai, ac yn gyfrannwr arwyddocaol i lenyddiaeth a diwylliant Cymru ei oes. Dywedodd ei gofiannydd, Gwynedd:

> Byddwn yn fynych yn synnu sut yr oedd efe yn gallu cyflawni cymaint o waith mewn cynifer o gyfeiriadau, ac yntau yn ŵr mor egwan o gorffolaeth. Yr oedd yna feddwl cryf mewn corff gwan.[2]

Ni chyfrifodd freuder ei iechyd ei hunan yn rhwystr i'w gadw rhag cyflawni'r gwaith y galwodd Duw a'i genedl arno i'w wneud, ac erys coffa da amdano yn Llangwm ac mewn sawl Llan hyd heddiw fel un ffyddlon a gwasanaethgar, un a gododd o amgylchiadau digon distadl i gyflawni gwaith mawr ar ran yr eglwys sefydledig. Ysgrifennwyd digon o gofiannau i weinidogion a wnaeth gyfraniadau llawer llai nag ef i

fywyd Cymru, ac o ran y cofiannau prin i offeiriaid yr eglwys sefydledig, canolbwyntiodd llawer o'r rheiny ar fywydau'r esgobion a'r uwch-swyddogion. Serch hynny, rhai fel Elis Wyn o Wyrfai oedd gwir drysorau'r Eglwys ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn gweithio'n ddygn yn erbyn ton enfawr o ymosodiadau yn erbyn y sefydliad gan Ymneilltuwyr, ac yn gwneud hynny'n urddasol. Y mae o werth cofio am ei fywyd ef yn benodol iddo brofi, mewn llawer modd a thrwy nifer o wahanol gyfryngau, nad oedd yr eglwys yn sefydliad estron, nac Eingl, nac amherthnasol, i drigolion Cymru.

2 Gwynedd, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 13 (1895), t.200

## Atodiad 1 - Cyfrolau a thaflenni o'i waith a gyhoeddwyd

*Cyfrolau o lenyddiaeth*

**Hanes Y Cymry: Wedi Ei Gasglu ... gan Elis Wyn o Wyrfai.** Caernarfon, H. Humphreys, 1853.

**Yr Efengyl Yn ôl Sant Mathew : Gyd Ag Esboniad Ymarferol Byr, gan W. Walsham How; cyfieithwyd gan Ellis Roberts.** Llundain, SPCK, 1883 (adargraffiad 1912)

**Yr Efengyl Yn ôl Sant Marc : Gyd Ag Esboniad Ymarferol Byr, gan W. Walsham How; cyfieithwyd gan Ellis Roberts.** Llundain, SPCK, 1883 (adargraffiad 1912)

**Yr Efengyl Yn ôl Sant Luc, Gyd Ag Esboniad Ymarferol Byr, gan W. Walsham How; cyfieithwyd gan Ellis Roberts.** Llundain, SPCK, 1883 (adargraffiad 1897)

**Yr Efengyl Yn ôl Sant Ioan : Gyd Ag Esboniad Ymarferol Byr, gan W. Walsham How; cyfieithwyd gan Ellis Roberts, a'i Fab, Ellis Gregory Roberts.** Llundain, SPCK, 1891 (adargraffiad 1912)

*Cyfrolau a thaflenni o farddoniaeth ac emynau*

**Awdl Y Caethwas : gan Rhyddfrydwr** *(h.y. ei enw barddol yn Eisteddfod Ffestiniog 1854).* Bethesda, R. Jones, 1854

**Awdl Brwydr Maes Bosworth : gan Elis Wyn o Wyrfai.** Tremadog, R. I. Jones (Alltud Eifion), 1859

**Awdl Farwnad Y Parch. John Williams (Ab Ithel) : gan Elis Wyn o Wyrfai.** Caerfyrddin, W. Spurrell, 1877

**Eglwys Llangurig : pryddest gadeiriol.** Caerfyrddin, W. Spurrell, 1882

**Hymnau Yr Eglwys, o Ddetholiad Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai).** Lerpwl, Isaac Foulkes, 1886

**Hymnau Yr Eglwys, o Ddetholiad Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai)** - *argraffiad diwygiedig*. Caerfyrddin, W. Spurrell, 1892 (ugain adargraffiad erbyn 1928)

**Er Coffadwriaeth Am Fy Ngwraig.** Cyhoeddwyr anhysbys, 1892

**In Memoriam : My Wife**. Cyhoeddwyr anhysbys, 1892

**Hanes Y Groes / Y Geiriau Gan Canon Ellis Roberts (Ellis Wyn O Wyrfai); Y Gerddoriaeth Gan Thos. Edwards.** Llundain, Weekes & Co., 18??

**Yn Nghanol Gwlad Judea Dlos : Carol Nadolig. Y Gerddoriaeth gan Eos Bradwen; Y Geiriau gan Elis Wyn o Wyrfai.** Caernarfon, Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig (Cyf.), 18??

*Cyfnodolion a olygodd*

*Y Llan a'r Dywysogaeth.* Y Rhyl, J. Morris, 1881 hyd at rywdro cyn 1884.

*Yr Haul.* Caerfyrddin, W. Spurrell, Ionawr 1885 hyd at Ebrill 1895.

**Atodiad 2 - Emynau Elis Wyn o Wyrfai**

*Hym.Eg.334; Em.H+N.168.*
*Tôn Holley. St Thomas Aquinas – Lladin.(Cymun)*

Addolwn Di, Iachawdwr, yma'n gudd;
I'th eglur weled, agor lygad ffydd,
Fel gallom ni a blygwn wrth dy draed
Ymborthi ar dy ddirgel Gorff a'th Waed.

Diolchus gof o'i werthfawr angau Ef,
Y Bara bywiol ddaeth i lawr o'r nef;
Ar hwn ymborthed ein heneidiau byth,
A Thi, O! Grist, addolwn yn ddi-lyth.

Tragwyddol Fab y Tad, y ffynnon gaed
I olchi'r aflan, pura ni â'th Waed;
Cryfha ein ffydd a'n gobaith, a mwynhawn
Yr hedd a'r gobaith ynot Ti sy'n llawn.

O! Grist, dan len y gwelwn eiliw gwan
O'th wyddfod yma - buan boed ein rhan
I'th weled Di heb len, a chael mwynhad
O'th bresenoldeb byth yn Nhŷ ein Tad.

*Hym.Eg.17; Em.H+N.8.*
*Tôn Franconia. Gwreiddiol.*

Aeth heibio ddydd o fawl,
Nesâ cysgodau'r hwyr;
Ond na ddos ymaith gyda'r haul,
Ti wir Oleuni, 'n llwyr.

O gylch yr orsedd fry,
Lle nad oes nos i ddod[1],
Mewn gynau gwynion, nefol lu,
Emynant fyth dy glod.

Llesg yma yw ein cân,
A blino'n moli wnawn;
Ond moliant pur y corau glân,
Mor wresog yw a llawn!

Ond os cyffyrddi, Iôr,
Â'n gwefus oer â thân,
Fe unwn ninnau'r nefol gôr[2]
Mewn rhan o'r felys gân.

Tydi daweli'r fron,
Ti lywodraethi'r byd,
A'n bywyd wnei yn anthem lon
O fawl i'th enw drud.

Daw'r bywyd byr i ben,
A gwawria'r newydd fyd;
A phlethir mawl angylion nen
Â seintiau'r llawr ynghyd.

*Hym.Eg.257.*
*Cyfieithiad o Gyfieithiad J.M. Neale o eiriau Stephen o Seba*

Ai lluddedig wyt ac egwan?
Gwrando, geilw Crist –
"Tyred ataf, cei orffwysfa,
Enaid trist."

A oes ganddo nodau i'm harwain
Dan fy nghur a'm loes?
"Yn ei ddwylaw, traed, ac ystlys –
Clwyfau'r groes."

Ar ei ael Ef megis Brenin
Welir coron gain?
"Gwelir coron – coron diau,
Ond o ddrain."

Os caf afael arno a'i ddilyn,
Beth yw'r wobr yn awr?
"Gofid mynych, mynych ddagrau,
Llafur mawr."

Os af gydag Ef trwy'r cyfan,
Beth geir wedi hyn?
"Diwedd gofid, diwedd llafur,
Croesi'r glyn."

Os gofynnaf iddo'm derbyn,
Ai fy ngwrthod wna?
"Cyn y'th wrthyd, nef a daear
Heibio â."

Wedi'r canlyn, glynu, ymdrech,
Rydd Ef wobr ryw ddydd?
"I ni cwmwl mawr o dystion
Etyb, Rhydd."

*Hym.Eg.419; Em.Ll.229; Em.H+N.149.*
*Tôn Wiltshire, Nun Danket All, Abridge. Gwreiddiol.*

Angylion disglair rif y sêr,
Amgylchant orsedd nef,
Gan ddydd a nos foliannu Nêr,
A'i wasanaethu ef.

Castellant hefyd, nos a dydd,
O gylch rhai bychain Duw,
Gan warchod etifeddion ffydd,

---

[1] Lle nid oes nos yn bod *(Em.H+N)*
[2] Fe unwn ni â'r nefol gôr *(Em.H+N)*

A'u nerthu iddo i fyw.

I'r cyfiawn niwed byth ni ddaw
Ar ffordd yr anial maith;
Fe symud gwersyll Duw gerllaw
I'w gadw ar ei daith.

Dyrchafwn, gydag engyl nef,
Ein mawl parhaus i Dduw;
Fel hwythau, gwasanaethwn ef
Tra byddom yma'n byw.
Y llen sydd rhyngom, tynnir hon,
A buan cawn ynghyd
Foliannu Duw â lleisiau llon
Mewn rhyw ddedwyddach byd.

*Hymnau 541; Hym.Eg.323; Em.Eg.338.*[3]
*Tôn Magdalena II. Cyfieithiad o Bernard*
Amdanat, gartref nefol
Y gwylia'm llygaid i;
Wrth weld dy enw swynol
Tywalltant ddagrau'n lli'.[4]
Sôn am dy gain drigfannau
Sydd falm i'm calon friw;
Ac olew-win i'm clwyfau,
A hedd a bywyd yw.

O unig wir breswylfod,
Paradwys gwynfyd pur,
Lle ni cheir poen na thrallod,
Ond gwenau byth heb gur!
Yr Oen yw dy ogoniant,
Dy fawl yw Crist a'i Groes;
A'r gwaredigion ganant
Ei glod o oes i oes.

Dy gaerau sydd o jaspis,
Dy heol o aur pur;
Topasion gwych a sardis
Ddisgleiriant ar dy fur;[5]
Diadfail yw'th rhagfuriau
O berlau, haen ar haen;
Dy feini yw dy Seintiau,
A Christ dy gongl-faen.

Di-lan yw môr dy wynfyd,
Di-fachlud haul dy ddydd,
Ffynhonnell nerth a bywyd
I'r llesg bererin prudd.
Ar Graig yr Oesoedd codir
Dy sanctaidd dyrau ban;
A llawryf y gorchfygwr
A'i goron yw dy ran.[6]

*Hym.Eg.357; Em.Eg.140; Em.Ll.171.*
*Tôn Tanymarian. Gwreiddiol.*
Anfon, Arglwydd, i'th gynhaeaf
Weithwyr o'th ddewisiad llawn,
Rhai o fuchedd lân, sancteiddiaf,
Rhai o ddoniau'r nef yn llawn;
Rhai yn weinidogion cymwys,[7]
A bugeiliaid ffyddlon gaed,
I ofalu am yr Eglwys
Brynodd Crist â'i briod waed.

Dyro iddynt deimlo breintiau –[8]
Casglu perlau yn y byd;
Dangos iddynt werth eneidiau
Yng ngoleuni'r angau drud;
Rho amynedd, rho ddoethineb,
Dyro ostyngeiddrwydd llawn,
Rho ddiwydrwydd a ffyddlondeb
I gyflawni'r gwaith yn iawn.[9]

Uno maent, yn llu o dystion -
Tystion pwysig angau'r Groes;[10]
Rho'r dystiolaeth yn eu calon,
Ar eu gwefus, yn eu moes;
Rhodio byddont mewn goleuni[11]
Yng nghymdeithas Iesu Grist,
Gyda'r praidd nes rhoddi cyfri' -
Cyfrif llawen, nid yn drist.[12]

---

[3] *Ar ffurf 8 pennill 4 llinell yn Hymnau; Em.Eg.*

[4] Amdanat, fro fendigaid,
Yr wylaf ddagrau'n lli;
Mae hiraeth yn fy enaid
Am weld dy gaerau di. *(Em.Eg.)*

[5] Dy gaerau sydd o berlau,
Dy heol o aur pur;
A gwychion ydyw'r gemau
Ddisgleiria ar dy fur; *(Em.Eg.)*

[6] Ar Graig yr Oesoedd seilir
Dy sanctaidd dyrau fry;
Y palmwydd gwyrdd a welir,
A'r aur goronau lu. *(Em.Eg.)*

[7] Rhai a fo'n offeiriaid cymwys *(Em.Eg.)*

[8] Pâr iddynt brisio'u breintiau – *(Em.Eg.)*

[9] Rho dy nefol Ddwyfol ddawn *(Em.Eg.)*

[10] Tystion rhinwedd Angau'r Groes; *(Em.Eg.)*

[11] Boed eu rhodiad mewn goleuni *(Em.Eg.)*

[12] Ger ei fron, heb neb yn drist *(Em.Eg.)*

*Hym.Eg.407; Em.H+N.138.*
*Tôn French. Gwreiddiol.*

Bu ryfedd gweled Brenin nef
  Ym mreichiau Morwyn dlawd;
Yn nheml ei Dad cyflwynai Ef
  Yn Faban yn y cnawd.

Daeth gydag Ef awelon byw
  O dir Paradwys fry,
Fel blaen-dywalltiad Ysbryd Duw
  Ar bawb o fewn y tŷ.

Ym Mherson Crist, dynoliaeth fawr
  Gyflwynwyd oll i Dduw
Fel plant, i'w meithrin ar y llawr,
  Ac iddo sanctaidd fyw.

O! Arglwydd grasol, caniatâ
  Ein llwyr gyflwyno ni,
Â phur galonnau, ufudd, da,
  Trwy'r Iesu hwn i Ti.

*Hymnau 541; Hym.Eg.322; Em.Eg.353.*
*Tôn St. Alphege. Cyfieithiad o Bernard Cluny.*

Byr yma yw ein bywyd
  Byr ofal, ysgafn gur;
Ond yno bythol wynfyd,
  Diddagrau fywyd pur.

Ad-daliad gwynfydedig!
  Byr lafur, uchel fraint!
I'r euog a'r lluddedig,
  Gorffwysfa gyda'r saint.

Rhaid yma gario'r cleddyf,
  Ond gwisgo'r goron draw,
A'r palmwydd gwyrdd a'r llawryf
  Buddugol ym mhob llaw.

Ond fe gawn weled yno
  Hoff Wrthrych mawr ein ffydd,
A'r sawl a gredant ynddo
  Fwynhânt ei wên ddi-ludd.[13]

Fe wawria bore tirion
  A chwâl pob cysgod du;
Disgleiria'i ffyddlon weision
  Fel sêr y nef yn llu.

Ein Duw, ein Rhan, a'n Llywydd,
  Yn llawnder pur ei ras,
Gawn foli mewn llawenydd
  Parhaus â newydd flas.[14]

---

[13] A'i gwêl ef yn ddi-gudd *(Em.Eg.)*

*Hym.Eg.40; Em.Ll.29; Ll.M.N.817.*
*Tôn Mendelssohn, cyfieith. o eiriau Chares Wesley*

Clywch lu'r nef yn seinio'n un
Henffych eni ceidwad dyn!
Heddwch sydd rhwng nef a llawr
Duw a dyn sy'n un yn awr;
Dewch bob cenedl is y rhod
Unwch â'r angylaidd glod,
Bloeddiwch oll â llawen drem,
Ganwyd Crist ym Methlehem.
    Clywch lu'r nef yn seinio'n un
    Henffych eni ceidwad dyn!

Crist Tad tragwyddoldeb yw
A disgleirdeb wyneb Duw,
Cadarn Iôr a ddaeth ei hun
Gwnaeth ei babell gyda dyn.
Wele Dduwdod yn y cnawd,
Dwyfol Fab i ddyn yn frawd;
Duw yn ddyn, fy enaid gwêl
Iesu ein Emaniwel.
    Clywch lu'r nef yn seinio'n un
    Henffych eni ceidwad dyn![15]

*Hym.Eg.40, Em.H+N.51; C.Ff.452; Can.875.*
*Cyfieithiad*

Henffych, T'wysog heddwch yw;
henffych, Haul Cyfiawnder gwiw:
bywyd ddwg, a golau ddydd,
iechyd yn ei esgyll sydd.
Rhoes i lawr ogoniant nef;[16]
fel na threngom ganwyd ef;
ganwyd ef, O ryfedd drefn,
fel y genid ni drachefn!
    Clywch lu'r nef yn seinio'n un,
    henffych eni Ceidwad dyn!

*Em.Eg.365; Em.Ll.263.*
*Tôn St. Ethelwald, Carlisle. Cyfieith. o C. Wesley.*

  Cyfodwch, filwyr Crist,
  A gwisgwch arfau'r nef,
Yn gryfion trwy ei ddwyfol nerth,
  A'r Iawn a dalodd ef.

---

[14] Di-drai â newydd flas *(Em.Eg.)*

[15] *Dywed Caneuon Ffydd mai Pedr Fardd yw awdur y pennill cyntaf, a bod yr ail yn anadnabyddus, sy'n gwrth-ddweud Hym.Eg.; Em.Ll. a Ll.M.N. Serch hynny, priodola Caneuon Ffydd y trydydd pennill i Elis Wyn o Wyrfai.*

[16] Gado a wnaeth ogoniant nef *(Em.H+N.)*

Hy trwy alluog nerth
Ein Hiôr a'n cadarn Ri,
Mwy na choncwerwyr fyddwn oll,
Trwy Grist a'n carodd ni.

Ymnerthwch ynddo ef -
Ei ras, digonol yw;
Ymwisgwch cyn wynebu'r maes
Yn holl arfogaeth Duw.

Ymlaen o nerth i nerth,
Trwy ymdrech, gweddi a ffydd,
Gan fathru gallu'r fall dan draed,
Nes cyflawn gario'r dydd.

Fel pan fo'r dydd ar ben,
Heb orfod brwydro'n hwy,
Y caffom oll yn haeddiant Crist,
Dragwyddol goron mwy.

Iesu, dragwyddol Fab,
Dyrchafwn fawl i ti,
Sydd, gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân,
Yn Dduw, yr Un yn Dri.

*Hym.Eg.432; Em.H+N.268.*
*Tôn St. Aëlred. Gwreiddiol.*
Dros arw fôr, mewn chwerw hin,
Mordwyo wnâi'r disgyblion trist;
Ond dan y lidiog dymestl flin
Hunai Crist.

Trallodus oedd eu hofnus fron,
Dyrchafent arno uchel gri,
A'u cwch ar sudd o dan y don,[17]
"Cadw ni."

Cyfodai Crist, ceryddai'r môr
A'r gwynt: distawent wrth ei lef
Galwasant arno fel eu Iôr:
Clybu Ef.

Pan rua môr, pan ddua nef,
Ac egwan arch dy Eglwys Di
Ar suddo, Arglwydd, gwrando llef,
"Cadw ni."

Ym mhob cyfyngder, nos a dydd,
Dan bob rhyw loes a chroes a chri,
Yn angau, yn y farn a fydd,
"Cadw ni."

*Hym.Eg.130.*
*Gwreiddiol.*
Duw, Tad y trugareddau, 'nawr
O tywallt o'r uchelder mawr,
I loni'th Eglwys ar y llawr,
Yr Ysbryd Glân.

Duw Fab, Iachawdwr mawr y byd
Yr hwn a'n prynaist ni mor ddrud,
O tywallt arnom oll i gyd
Yr Ysbryd Glân.

Duw Ysbryd Glân, O disgyn Di,
Bywha Dy Eglwys, pura hi;
A llenwa ein calonnau ni
A nefol dân.

Iachâ y ddrylliog galon friw,
A golcha'r euog, du ei liw,
Yng ngwaed y pur Gyfryngwr gwiw,
Dduw Ysbryd Glân.

Braenara'r galed galon fas,
Diwreiddia chwyn ei nwydau cas,
A phlanna ynddi hadau gras,
Dduw Ysbryd Glân.

Pan ddelo temtasiynau byd,
Y cnawd, a'r Diafol, oll ynghyd,
I'n blino, nertha ni bob pryd,
Dduw Ysbryd Glân.

*Hymnau 593; Em.H+N.276; Em.Eg.607;*
*EmyniadurEg.485. Tôn Helfer, Aberafon.*
Edrych, nefol Dad, i lawr,
Yn dy ras a'th gariad mawr,
Ar dy fychain blant yn awr,[18]
Gwrando, Dad, a gwared ni.

Iesu, bur, ddihalog Un,
Buost blentyn ar ein llun,
A derbyniaist blant dy Hun,
Arglwydd Iesu, gwared ni.

Ysbryd Glân, o'r nefoedd fry,
Tyrd i lawr, gwna dy Dŷ,[19]
Llanw'n bron â chariad cu:
Ysbryd Glân, O! gwared ni.

Dad, a Mab, ac Ysbryd Glân,
Drindod Sanctaidd ddiwahân,

[17] A'u cwch ar sudd o dan y don *(Em.H+N.)*

[18] Ar dy blant sydd yma'n awr, *(Em.Eg.)*

[19] Tyrd i lawr, gwna yma'th dŷ *(EmyniadurEg.)*
*a* Tyred, trig o fewn dy dŷ *(Em.Eg.)*

Pura ni â nefol dân;[20]
  Dri yn Un, O! gwared ni.

Trwy dy dyner gariad pur,
Cariad ddaliodd dan bob cur,
Gwarth, ac ing, a hoelion dur;
  Arglwydd Iesu, gwared ni.

Pan fo diafol, cnawd, a byd
Yn ymdrechu denu'n bryd,
Boed ein gweddi ni bob pryd,
  Arglwydd Iesu, gwared ni.

Pan fônt hwy'n ein temtio'n groes -[21]
I sancteiddrwydd, purdeb, moes,
Dysg in lefain trwy ein hoes,
  Arglwydd Iesu, gwared ni.

Pan rydd Angau, brenin braw,
Arnom ni ei oerllyd law,[22]
Ac yn Nydd y Farn a ddaw,
  Arglwydd Iesu, gwared ni.

Pryd y gelwi ni o'r bedd[23]
Pâr in godi ar dy wedd,
I fwynhau tragwyddol hedd;
  Arglwydd Iesu, gwared ni.

*Hym.Eg.431.*
*(Cyfieithiad)*
Ein Tad tragwyddol, gadarn Iôr,
Dy fraich sy'n rhwymo tonnau'r môr;
A chau â dorau'r eigion maith
O fewn ei lydan wely llaith:
O clyw ein gweddi, Arglwydd Iôr,
Dros bawb mewn perygl ar y môr.

O Grist, pan ferwai'r môr fel pair,
Ei derfysg beidiai wrth dy air;
Ti gerddaist orwyllt frig y don,
A hunaist Ti yn ymchwydd hon:
O clyw ein gweddi, Arglwydd Iôr,
Dros bawb mewn perygl ar y môr.

O Ysbryd Glân, dy edyn fu
'N cysgodi dros y dyfnder du,
Gan ddofi bâr ei lidiog wedd,
A chreu o'i derfysg hyfryd hedd:
O clyw ein cri, cysgoda, ein Hiôr,
Dros bawb mewn perygl ar y môr.

O Drindod gras, a chariad pur,
Ein brodyr cadw dan bob cur;
Amddiffyn hwy tra'n hwylio'r aig
Rhag gelyn, tân, ystorm, a chraig:
A'th foliant glân, O gadarn Iôr,
Ddyrchefir byth ar dir a môr.

*H.H+N.290; Hym.Eg.280; Em.Ll.355.*
*Tôn Pilgrims. Cyfieithiad o eiriau F.W. Faber.*
Fy enaid, clyw angylaidd dôn yn chwyddo
  Dros ddaear werdd, a wyneb maith y don;
O'r melys wir mae yn ei beraidd gludo
  Am fywyd gwell ar ôl y fuchedd hon:
    Engyl yr Iesu, engyl y wawr,
    Adref sy'n galw llesg bererinion llawr.

Awn, awn ymlaen, parhau y maent i ganu,
  Tyrd enaid llwfr, yr Iesu'n galw sydd;
Trwy ei Efengyl adref cais ein denu
  O wlad y nos i wlad yr hanner dydd:
    Engyl yr Iesu, engyl y wawr,
    Adref sy'n galw llesg bererinion llawr.

Draw, draw ymhell, fel clychau'r hwyr yn seinio,
  Llais Iesu atsain o gylch môr a thir:
Eneidiau llwythog wrth y miloedd eto,
  Hoff Fugail, ddychwel atat cyn bo hir:
    Engyl yr Iesu, engyl y wawr,
    Adref sy'n galw llesg bererinion llawr.

Ceir gorffwys, ceir, fe dderfydd blinder bywyd,
  Teg wawria'r dydd, â heibio'r hirnos ddu;
Pob dyrys daith derfyna 'nghroeso hyfryd
  Y nef i'r diwedd - cartre'r galon gu:
    Engyl yr Iesu, engyl y wawr,
    Adref sy'n galw llesg bererinion llawr.

*H.H+N.534; Hym.Eg.207; Em.Eg.347.*
*Tôn Lledrod. Efelychiad o E. Perronet.*
Henffych i Enw Iesu gwiw,
Syrthiwch o'i flaen, angylion Duw:
Rhowch iddo barch, holl deulu'r nef –
Yn Arglwydd pawb coronwch ef. [24]

---

[20] Llanwa'n bron â nefol dân *(Hymnau)*

[21] Pan y'n temtiant ni yn groes *(Hymnau; EmyniadurEg.)*
  *ac* A phan demtiant ni yn groes *(Em.Eg.)*

[22] Arnom ni ei fferllyd law *(Hymnau)*
  *ac* Arnom ni ei rymus law *(EmyniadurEg.)*

[23] Pan y'n gelwi oll o'r bedd *(Hymnau)*
  Pryd y'n gelwi oll o'r bedd *(EmyniadurEg.)*
  *a* A phan alwer ni o'r bedd *(Em.Eg.)*

[24] Boed clod i Enw Iesu gwiw,
  O'i flaen ymgrymwch, Engyl Duw.

Chwi Seintiau a Merthyron glân,
Mewn gwynfyd fry yn bêr eich cân,
Rhowch iddo glod ag uchel lef –
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

Chwi saint trwy'r ddaear faith i gyd,
A brynwyd ganddo ef mor ddrud,
Cydunwch oll â theulu'r nef –[25]
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

Doed y cenhedloedd o bob iaith
Trwy holl derfynau'r ddaear faith,
I ganu'n llafar iawn eu llef –
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

O na chaem gyda'r nefol lu
Ymgrymu wrth draed ein Harglwydd fry,[26]
Ac uno'n llon â hwy ein llef –
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

*Hym.Eg.114, Em.Eg.108; Em.Ll.102; Em+Th.138; Myl.259.*
*Tôn Warrington, Cân 34. Gwreiddiol.*
Hwn yw yr hyfryd fore ddydd
Y daeth ein Meichiau mawr yn rhydd[27]
Cydlawenhaed pob enaid trist
Y bore dedwydd cododd Crist.[28]

Bodlonwyd holl ofynion llawn
Y gyfraith yn ei berffaith Iawn;
Caed cymod dros bechadur trist,
Cyflawnwyd popeth - cododd Crist.[29]

Goleuni ddaeth ar byrth y bedd -
Dynoliaeth bur, â newydd wedd,
a ddaw i'r lan o'r carchar trist
I fywyd dedwydd - cododd Crist.

Gwrandewch y nefoedd - ddaear clyw,
Dy feirwon eto a fydd byw;
Preswylwyr llwch marwolaeth drist,
Deffrowch a chenwch - cododd Crist.

O Dduw, marweiddia'm chwantau cas,
A maddau'm pechod trwy dy ras;
A gwenu wnaf ar angau trist,
Os huno gaf mewn ffydd yng Nghrist.[30]

*Hym.Eg.337.*
*Gwreiddiol.*
Mae'r gwaed dywalltodd Iesu
  Ar ben Calfaria fryn,
Hyd byth yn dal i gannu
  Yr euog du yn wyn;
Fe ylch y llestri aflan
  Ddifwynodd gnawd a byd,
Fel llestri aur ac arian
  Yn eiddo Duw i gyd.

Glanhâ ni, Arglwydd grasol,
  Oddi wrth y byd a'i flas;
Ac i'th wasanaeth dwyfol
  Gwna ni yn llestri gras;
Defnyddiol yn ein bywyd,
  Awyddus i dy waith,
A pharod oll i'r gwynfyd
  'Nol cyrraedd pen y daith.

*Hym.Eg.19; Em.H+N.10.*
*Tôn Abends. Gwreiddiol.*
O! Annwyl geidwad, nos ni ddaw
I'm henaid tra b'ot Ti gerllaw;
Na ddeued llen cymylau byd
O ŵydd dy was i guddio'th bryd.

Pan ddelo esmwyth gwsg i gau,
Mewn tawel hun, fy llygaid mau,
Hiraethu bydd fy enaid trist
Am orffwys byth ar fynwes Crist.

O fore i hwyr bydd Di, fy Nuw,
Gerllaw, ni allaf hebot fyw;
A phan ddêl nos, trig gyda mi,
Ni feiddiaf farw hebot Ti.

Os heddiw bu i'th egwan was
Droi byddar glust i lais dy ras,
O! tyn ef at dy orsedd, Dad,

---

Rhowch iddo barch, holl deulu'r nef –
Yn Arglwydd pawb coronwch ef. *(Em.Eg.)*

[25] Cydunwch bawb â theulu'r nef – *(Em.Eg.)*

[26] Wrth droed ein Harglwydd blygu fry, *(Em.Eg.)*

[27] Y daeth ein ceidwad mawr yn rhydd *(Em.Eg.; Em.Ll.; Em+Th.; Myl.)*
[28] Y dedwydd ddydd y cododd Crist *(Em+Th.)*

[29] *Nid yw'r pennill yn ymddangos yn Myl.*

[30] *Nid yw'r pennill yn ymddangos yn Em+Th. na Myl. Yn Em.Eg. ac Em.Ll. fe'i cenir fel a ganlyn.*
O Dduw, marweiddia'n chwantau cas,
A maddau'n pechod trwy dy ras;
A gwenu wnawn ar angau trist,
Os huno gawn mewn ffydd yng Nghrist.

Cyn huno, i gael maddeuant rhad.

O! gwylia'r claf, a moes i'r gwael
O'th gyfoeth llawn fendithion hael;
Dod heno i bob galarus un,
Fel i'th anwylyd, felys hun.

Tyrd i'n bendithio gyda'r wawr,
Cyn troi o'n traed i daith y llawr;
Hyd nes ym môr dy gariad cu
Ymgollwn yn y nefoedd fry.

*Em.H+N.30.*
*Tôn Austria. Gwreiddiol.*

O! Bendithia, Arglwydd Iesu,
  Waith y weinidogaeth rad
A ordeiniaist i bregethu
  Dy anfoniad gan y Tad:
Tystio am dy ymgnawdoliad
  A'th farwolaeth ar y Groes:
Tystio am dy atgyfodiad
  A'th esgyniad, i bob oes.

Drwyddi ysbrydola d'eglwys,
  Drwyddi gweithia ar y byd;
Dwg flinderog fyrdd i orffwys
  Ar dy Iawn a'th angau drud;
Dal ein llygaid ar dy fywyd,
  Ar dy lwybrau dal ein traed,
Cadw ein hwyneb ar y gwynfyd
  Brynaist i'n â'th werthfawr Waed.

Disgwyl mae yr Eglwys uchod
  Am eu brodyr ar y llawr;
Disgwyl llawen gydgyfarfod
  Ddydd yr Atgyfodiad mawr;
Disgwyl am eu diwedd perffaith,
  Gorff ac enaid mewn mwynhad;
Disgwyl dychwel yn orymdaith
  Gyda Christ i'r nefol wlad.

*Hymnau yr Eglwys (1886). 53.*
*Gwreiddiol*

O! dlysaf o'r sêr sydd yn britho y nen,
  Disgleiria'n fwy eglur, llewyrcha uwch ben;
Y lle y mae'n aros Iachawdwr y byd,
  Fel gallom ei weled a'i foli yn nghyd.

Os isel ei lety yn dyfod i'r byd,
  A drysau y ddaear yn cau arno i gyd,
Agorwyd hol byrth a ffenestri y nef,
  A chanai'r nefolion yn un iddo Ef.

Wrth weled y seren a chlywed y gân,
  Cychwynnwyd i'w geisio ar wlithog wawr lân;
Addolai bugeiliaid a doethion yn nghyd
  Yr Iesu fel Brenin a Cheidwad y byd.

I mewn y daeth blaenffrwyth cynhaeaf y ddau,
  Yr Iddew a'r Groegwr, gan gyd-lawenhau;
Ym Mherson y Duw-ddyn daw holl ddynol ryw
  I undeb addoliad a chymod â Duw.

I ganlyn yr Iesu o'r preseb i'r groes,
  A gwneuthur daioni cysegrwn ein hoes;
Heb Iddew na Groegwr, cyfoethog na thlawd,
  Ond un Duw yn Geidwad, a phob dyn yn frawd.

O! rhodiwn â'n golwg ar Iesu trwy ffydd,
  Os tywyll yw weithian, yn fuan daw dydd;
Cawn weled yn eglur, a pherffaith fwynhad
  O wedd Crist ein Brenin, a'r Un Duw ein Tad.

*Hym.Eg.287; Em.Eg.460, Em.H+N.444; Em..Ll.314.*
*Tôn St. Ann. Cyfieithiad o eiriau Isaac Watts.*

O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,
  A'n gobaith tra bo byd;
Ein cysgod dan bob tymestl groes,
  A'n bythol noddfa glyd[31]

Dan gysgod dy orseddfa bu
  Preswylfa'r saint mewn hedd;
Digonol yw dy fraich o'n tu,
  A golwg ar dy wedd.

Cyn llunio ffurf un hanfod byw,
  Na gosod seiliau byd,
O dragwyddoldeb ti wyt Dduw,
  Parhei yr un o hyd.[32]

Mil o flynyddoedd yn dy ŵydd
  Fel doe yn cilio sydd,
Neu fore wyliadwriaeth fer
  Yn darfod gyda'r dydd.

Dwg amser fel llifeiriant cryf
  O'i flaen holl oesau'r llawr;
Yn angof ânt, fel breuddwyd brau
  Diflannant gyda'r wawr.

O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,
  A'n gobaith tra bo byd,
Bydd geidwad inni dan bob croes,
  A'n bythol noddfa glyd.[33]

---

[31] A'n bythol gartref clyd *(Em.Eg.; Em.H+N.; Em.Ll.)*

[32] O dragwyddoldeb ti sydd Dduw,
  A'r un wyt ti o hyd. *(Em.Eg.; Em.Ll.)*

*H.H+N.586; Hym.Eg.383.*
*Gwreiddiol.*

O Dduw, preswylio'r ydwyt Ti
  Y tragwyddoldeb mawr;
Pa beth yw'r tŷ gyfodwn ni
  I'th enw ar y llawr?

Ond eto Ti addewaist fod
  Lle byddo dau neu dri
Yn cydymgynnull er dy glod,
  Ac yn dy Enw Di.

Pâr fod pregethiad Crist â'i groes,
  O fewn i'r Eglwys hon,
Yn eglur seinio i bob oes
  Tra safo daear gron.

Yn llenwi'th sacramentau bydd
  A'th bresenoldeb cu,
Yn nefol faeth, yn wystlon ffydd,
  I bawb o deulu'th dŷ.

Trwy bob ysbrydol ordinhad
  O fôr y cariad cu,
Yn nefol faeth, yn wystlon ffydd,
  I bawb o deulu'th dŷ.[34]

Y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân,
  Y datguddiedig Dri
Yn Un, mewn gweddi byth a chân,
  O'i mewn addolwn ni.

*Hym.Eg.104.*
*Gwreiddiol.*

O Deuwch, wylwch gyda mi,
At ystlys Iesu dan ei loes,
O, awn dan wylo â chwerw gri,
Mae Crist ein Harglwydd ar y groes.

Pa le mae'r dagrau drosto'n awr,
Dan wawd Iddewon drwg eu moes?
Mor fud, yng nghrog rhwng nef a llawr,
Yw Crist ein Harglwydd ar y groes.

Hoeliedig ddwylo yw a thraed,
Ei syched llosg ddyfnha ei loes –
Ei lygaid ballant yn ei waed;
Mae Crist ein Harglwydd ar y Groes.

Saith waith llefarodd – seith-air cu –
A distaw deirawr ing a loes
Ei dewi, 'n eiriol drosom fu;
Mae Crist ein Harglwydd ar y groes.

O dan ei groes, mewn ffydd nesawn,
Nes bo i'r gwaed, o'i ystlys roes,
Arnom ddiferu'n dyner iawn –
Gwaed Crist ein Harglwydd ar y groes.

Drylliedig galon, dagrau'n lli'
Gawn, ond eu ceisio; felly moes
I mi gan wylo'th garu Di
Oddefaist drosom ar y groes.

*Em.Eg.312; Em.Ll.181; Em.H+N.193*
*Gwreiddiol. Tôn Magdalena I; Endsleigh (Skerton); Missionary.*

O flaen yr allor sanctaidd
  Mor hardd yw'r mab a'r ferch
Sy'n addunedu'n wylaidd
  I'w gilydd gred a serch,
A gweddi, gras a bendith
  Offeiriad nefoedd wen
Yn disgyn megis manwlith
  Yn ennaint ar eu pen!

Llawenydd ddydd priodas,
  Mor felys yw ei gân,
Dechreuad pur gymdeithas
  O ddirgel undeb glân:
Pob peth yn seinio cariad,
  Fel ar y bore byw[35]
Y dathlwyd gwaith y cread
  Gan lawen feibion Duw.

Priodas wnaed yn gysgod
  Cyfamod newydd rhad,
Trwy ddirgel ymgnawdoliad
  Tragwyddol Fab y Tad;
A chysgod yw o'r undeb
  Ysbrydol, diwahân,
A ddeil hyd dragwyddoldeb
  Rhwng Crist a'i Eglwys Lân.

*Hymnau 447; Hym.Eg.277; Em.H+N.224.*
*Tôn Cluny; St. Theodulph. Cyfieithiad o Heber*

O Greenland oer, fynyddig,
  O draethau India fawr,
Lle treigla dyfroedd Affrig
  Eu tywod aur i lawr,
O lawer gwlad ddyfradwy,
  O lannau'r palmwydd gwyrdd,
Erfyniant ein cynhorthwy
  Rhag coelgrefyddau fyrdd.

---

[33] A'n bythol gartref clyd *(Em.Eg.; Em.H+N.)*

[34] Nid yw penillion 4 a 5 yn H.H+N.

[35] Fel ar y bore gwiw *(Em.H+N.)*

Er bod mewn pell ynysoedd
  Awelon pêr yn hael,
A hyfryd eu hardaloedd,
  A dim ond dyn yn wael,
Yn ofer gwelir yno
  Fendithion Duw ar daen -
Y bobloedd, mewn dallineb,[36]
  Addola bren a maen.

A fydd i ni, oleuwyd
  Trwy rad y nefoedd fry,
Nacáu goleuni'r bywyd
  I'r sawl mewn twyllwch sy?
Achubiaeth, O! Achubiaeth,
  Datganer dros y llawr,[37]
Nes dysgo pob cenhedlaeth
  Adnabod Iesu mawr.

Ewch, wyntoedd, ewch â'r newydd,
  A chwithau, foroedd mawr,
Nes bo'i ogonawl gynnydd
  Yn llenwi daear lawr;
A boed i'r Oen fu'n gwaedu[38]
  Dros feiau'r byd yn rhad,
Mewn mawredd i deyrnasu
  Ar bob llwyth, iaith a gwlad.

*Em.Eg.173; Em.H+N.137; Em.Ll.209.*
*Gwreiddiol. Tôn Aeterna Christi Munera;*
*Abends; Melcombe; Hursley.*
O ryfedd hir amynedd Duw
Yn oedi barn, yn cadw'n fyw;
A throi y prif erlidiwr cas
Yn bennaf un o lestri gras.

Estynnwyd llaw trugaredd fawr
O'r nef i iselderau'r llawr
At frwnt droseddwr, codwyd ef
I uchaf lys y drydedd nef.[39]

Cysegrodd Paul ei ysbryd hyf,
Ei ddisglair ddawn, a'i ddeall cryf,
Er mwyn cyflawni'r sanctaidd waith[40]
Ymysg cenhedloedd o bob iaith.

O'i enau ef yn bêr eu blas
Eglurwyd athrawiaethau gras;
Crist oedd y cyfan - Crist a'i Groes –[41]
A'r Iawn dros bechod byd a roes.

O Arglwydd Iesu, rhwyga'r llen,
Ac o'r goleuni pur uwchben
Amlyger di, nes dychwel myrdd
O ddynion o'u drygionus ffyrdd.

Tafl eto olau dwyfol bryd
I ddyfnaf gelloedd nos y byd -
Nos rhagfarn - nos gelyniaeth ddu -
Llewyrched yno gariad cu.[42]

O brysia, cymer feddiant llawn
O'r uchaf ddysg a'r gwychaf ddawn,
A dwg bob talent fedd y llawr
I adeiladu d'Eglwys fawr.

*Hymnau 541; Hym.Eg.324; Em. Eg. 355; Em.Ll.233*
*Tôn Ewing. Cyfieithiad o eiriau Bernard, Cluny.*[43]
O Salem, euraid ddinas,[44]
  O fêl a llaeth yn lli,
Myfyrio ar dy urddas
  Lesmeiria 'nghalon i:

Pwy all ddyfalu'r mwyniant
  I'n haros yno sydd,
Disgleirdeb dy ogoniant
  A'i wynfyd pur di-ludd?[45]

Llawn yw trigfannau Seion
  O orfoleddus gân,
A disglair gan angylion
  A llu merthyri glân:

O'i mewn mae Brenin Seion -
  Ceir gweld ei wedd o hyd;

---

[36] Y bobloedd yn eu dellni *(Hymnau)*

[37] O seinier iachawdwriaeth
  Ar led dros ddaear fawr *(Hymnau)*

[38] Chwyth, wynt, O chwyth y newydd,
  A threigled ef y don,
  Nes fel rhyw fôr o glodydd,
  Y llanwo'r ddaear hon:
  Nes delo'r Oen fu'n gwaedu *(Hymnau)*

[39] *Nid yw'r pennill yn ymddangos yn Em.Eg.*

[40] I ddwyn ymlaen ei sanctaidd waith *(Em.Ll.; Em.H+N.)*

[41] Crist oedd ei bopeth - Crist a'i Groes –*(Em.Ll.; Em.H+N.)*

[42] *Nid yw'r pennill yn ymddangos yn Em.Eg.*

[43] *Ar ffurf 4 pennill 8 llinell yn Em.Ll.*

[44] Caersalem, euraid ddinas *(Em.Ll.; Em.Eg.)*
[45] A'r gwynfyd perffaith fry? *(Em.Eg.)*

A gwledda'r gwaredigion
  Oll ar ei fwrdd ynghyd.

Yn hon mae gorsedd Dafydd,
  Ac yno byth mewn hedd
Mae utgorn-floedd llawenydd
  A melys gân y wledd:

A'r rhai fu yn gorchfygu
  O dan eu capten mawr,[46]
Â'u gwisgoedd, wedi'u cannu,
  Ddisgleiriant fel y wawr.

O gartref-wlad anwylgu
  Preswylfod teulu Duw,
Pob calon sy'n hiraethu
  Am ynot fyth gael byw:

O dwg ni, Iesu grasol,
  I'r hen orffwysfa lân,
I foli yn dragwyddol
  Y Drindod ddiwahân.

*Hym.Eg.43; Em.H+N.52.*
*Tôn Bavaria. Gwreiddiol.*
Pryd y'n poenir gan elynion,
  Wrth in dystio dros y gwir,
Arglwydd, cyfod ein golygon
  I oleuni nefol dir;
Anfon beth o bur ddisgleirdeb
  A gogoniant gwlad yr hedd,
I lewyrchu ar ein hwyneb,
  A goleuo byd a bedd.

Dyro d'Ysbryd i'n sancteiddio,
  A'n meddiannu oll yn lân,
Dysg in garu a bendithio
  Ein gelynion, fawr a mân;
Er i'th Eglwys mewn cystuddiau
  Gael ei mathru gan y byd,
Ffrydied cariad Crist o'i chlwyfau
  Yn afonydd glân o hyd.

Dyro inni ffydd i graffu,
  Megis Steffan, tua'r nef,
Nes cael golwg lawn ar Iesu
  Golwg fel a gafodd ef;
Ffyddiog edrych arno'n eiriol
  Drosom ar y ddeau law,
Er ein dwyn yn waredigol
  Ato'i Hun i'r ochr draw.

[46] O dan eu Llywydd mawr, *(Em.Eg.)*

*Hymnau yr Eglwys (1886) 38.*
*Gwreiddiol.*
Ti yr hwn, yn wael ei drem,
Gaed yn mhreseb Bethlehem;
Mab y Forwyn isel fri,
Ti yn Dduw addolwn ni!

Ti foliannai'r Angel lu,
Ti fawrhâi'r Bugeiliaid cu;
Ti a geisiai'r Doethion glân,
Ti a folwn ni ar gân.

Ti, dan wawd yn dlawd dy bryd,
Ddygaist gyfoeth nef i'r byd;
Ti iacheaist gleifion llawr,
Ti yw'n hunig Feddyg mawr.

Ti a brynaist euog ddyn
A dy werthfawr waed dy hun;
Ti agoraist byrth y bedd,
Ti yw'n Cymod, Ti yw'n Hedd!

Ti ddyrchefaist fry i'r Ne',
Ti sy'n eiriol yn ein lle;
Pob awdurdod sy'n dy law;
Ti a'n berni ddydd a ddaw!

Wyt dragwyddol Fab y Tad,
Wyt ein brawd o ddynol had;
Wyt Iachawdwr dynol ryw,
Duw yn ddyn, a dyn yn Dduw.

Tywallt di o'th Ysbryd Glân,
Llanw'n calon ni â thân;
Pura ein gwefusau ni,
Yna ni a'th folwn Di!

Tri mewn undod diwahân,
Tad, a Mab, ac Ysbryd Glân:
Tri yn un, ac un yn dri,
Heddiw'n Dduw addolwn ni!

*Hym.Eg.387.*
*Gwreiddiol.*
Ti'r hwn fendithiaist fychain blant,
  Gan eu cofleidio'n fwyn,
Ddywedaist wrth dy ddisgybl gynt
  Am borthi'r ieuainc ŵyn.

Tra crwydra'r praidd anialwch byd,
  Yn aml eu cur a'u cwyn,
Trwy'u taith beryglus ar ei hyd,
  Rhaid yw bugeilio'r ŵyn.

Ti Athro Da, 'r hwn ar y llawr
  A ddysgaist gynt mor fwyn,

Doethineb moes i ninnau'n awr
  I ddysgu ieuainc ŵyn.

Ti Fugail Da, 'r hwn ar y groes
  Oddefaist er eu mwyn,
Bydd gyda ninnau trwy ein hoes
  Yn hoff fugeilio'th ŵyn.

*Hym.Eg.404; Em.Eg.172.*
*Tôn Tamworth. Gwreiddiol.*
Trwy amheuon, pryder, ofnau,
  Mae ein llwybrau o bob tu,
Rhwng y bedd, yr atgyfodiad,
  A'r esgyniad dedwydd fry;
    Arglwydd, dyro
  Ffydd i'n cynnal ar y daith.

Dyro ffydd i gyflawn gredu
  Tystion sydd, o oes i oes,
Wedi dal i dystiolaethu
  Heb un bwlch am Grist a'i groes;
    Gweinidogaeth,[47]
  Sacramentau Eglwys Dduw.

Maent yn dangos inni'r clwyfau
  Yn ei ddwylo Ef a'i draed;
Dangos archoll ddofn ei ystlys –
  Dangos inni'r dŵr a'r gwaed;
    A dywedant,
  "Na fydd anghredadun mwy."

Clywir atsain yn y pellter,
  Sŵn caniadau'r Eglwys fawr,
Megis atsain, "dyfroedd lawer,"
  Trwy yr oesau'n d'od i lawr;
    Unwn ninnau
  Yn yr ogoneddus gân.

Buan chwelir pob amheuon,
  Ffydd yn olwg i ni drydd,
Gyda'r saint ar fynydd Seion
  Gobaith yn fwynhad a fydd:
    Cenir yno
  Uwch pob poen ac ofnau mwy.[48]

*Hym.Eg.282; Em.Eg.497; Em.Ll.334 (+Gw.* [51]*)*
*Tôn St. Oswald; Marching.*
*Cyfieithiad o eiriau S. Baring-Gould (B.S. Ingemann).*
Trwy nos galar ac amheuon
  Teithia pererinion lu,
Ânt dan ganu cerddi Seion
  Tua gwlad addewid fry.

Trwy'r tywyllwch, gwyn ddisgleirio
  Mae'r arweiniol olau draw;
Gwasga brawd law brawd gan deithio
  Drwy y nos heb ofn na braw.

Un yw golau presenoldeb
  Duw i'r gwaredigol lu,
Yn disgleirio ar eu hwyneb
  A gwasgaru dychryn du.

Un yw amcan taith yr anial
  Bywiol ffydd, un hefyd yw;
Un y taer ddisgwyliad dyfal,
  Un y gobaith ddyry Duw.

Un yw'r anthem gân y miloedd
  O un galon ac un llef;
Un yw'r ymdrech a'r peryglon,
  Un yr ymdaith tua'r dref.[49]

Un yw'r llawen orfoleddu
  Ar y lan tu draw i'r bedd;
Lle teyrnasa'r un anfeidrol
  Dad, mewn cariad byth a hedd.

Awn ymlaen, hoff bererinion,
  Awn ymlaen â'r groes o'n tu,
Drwy y gwarth a'r cur nes caffom
  Orffwys dan ei chysgod cu.[50]

Buan daw yr awr i ddeffro,
  Buan egyr pyrth y bedd;
Yna gwasgar y cysgodau,
  Derfydd nos, daw bore hedd.[51]

---

[47] Yn ddi-fwlch am Grist a'i groes;
    Gweinidogion *(Em.Eg.)*

[48] *Nid yw'r pennill yn ymddangos yn Em.Eg.*

[49] *Nid yw'r pennill yn ymddangos yn Em.Ll. ac mae amrywiaeth fel a ganlyn yn Em.Eg.*
Un yw'r gân a seinia'r miloedd
  O un galon ac un llef;
Un yw'r ymdrech a'r peryglon,
  Un yr ymdaith tua'r nef.

[50] *Nid yw'r pennill yn ymddangos yn Em.Ll.*

[51] *Ceir fersiwn dalfyredig yn At.816; Myl.231; a Can.y.I.90. Ag eithrio rhai mân newidiadau a nodir gyda *, pennill 1 Hym.Eg. yw p.1, pennill 4 Hym.Eg. yw p.2, pennill 5 Hym.Eg. yw p.3, a pennill 6 Hym.Eg. yw p.4.*

Trwy nos galar ac amheuon
  Teithia pererinion lu,
Ânt dan ganu cerddi Seion

*Hym.Eg.44.*
*Gwreiddiol.*
Tydi yr hwn breswyli
  Y tragwyddoldeb mawr,
O anfon nef oleuni
  I'th Eglwys ar y llawr –
Goleuni dy ddoethineb
  I gyfarwyddo'i gwaith,
Goleuni gwedd dy wyneb
  Yn gysur ar ei thaith.

Moes in' oleuni'th gariad,
  A phur sancteiddrwydd glân,
I nefoleiddio'n teimlad,
  Ac i wresogi'n cân,
Nes byddo i'th Eglwys gyfan,
  Pan ddelo gofid trist,
Gael gorffwys megis Ioan
  Ar fynwes Iesu Grist.

O am gael nes cymdeithas
  Â'r Tad a'r Mab trwy ffydd,
Ac ymarweddiad addas
  I deyrnas nef bob dydd;
Gan rodio mewn goleuni
  Trwy leidiog lwybrau byd,
A gwaed yr Oen yn golchi
  Ein beiau oll i gyd.

Goleuni y gwirionedd
  O gam i gam fel hyn
A'n harwain yn y diwedd
  I sanctaidd Seion fryn,
Lle mae goleuni bywyd
  Tragwyddol byth mewn hoen
Yn taenu môr o wynfyd
  O wyneb Duw a'r Oen.

---

  Tua gwlad addewid fry.

Un yw amcan taith yr anial
  Bywiol ffydd, un hefyd yw;
Un y taer ddisgwyliad dyfal,
  Un y gobaith ddyry Duw.

Un yw'r gân a seinia'r miloedd*
  O un galon ac un llef;
Un yw'r ymdrech a'r peryglon,
  Un yr ymdaith tua'r dref.*[a]
    [a] Un yr ymdrech tua'r nef *(Myl.)*
    [a] Un yr ymdaith tua'r nef *(Can.y.l.)*

Un yw'r llawen orfoleddu
  Ar y lan tu draw i'r bedd;
Lle teyrnasa'r un anfeidrol
  Dad, mewn cariad byth a hedd.

*Hym.Eg.403.*
*Gwreiddiol.*
Y mae cenhadon nef yng nghyd
  Yn dangos i bob oes
Oen Duw yn dwyn pechodau'r byd,
  Trwy iawn ei waedlyd groes.

Moes, Arglwydd, nerth i ufuddhau
  I alwad gras y nef,
A chanlyn Iesu, a mwynhau
  Ei hoff gymdeithas Ef.

O! am gael treulio un prynhawn
  Yng ngwyddfod Crist a'i glyw,
Nes, fel Andreas, ddod i'w lawn
  Adnabod ef yn Dduw.

Diddymai hynny'n serch a'n bryd
  Oddi wrth holl bethau'r llawr,
Fel byth na charem yn y byd
  Ddim ond y Ceidwad mawr.

Gwahoddwn ato chwaer a brawd,
  A châr a chyfaill cu,
Croesawa Ef y gwael a thlawd
  I'w ddedwydd gartref fry.

*Hym.Eg.434.*
*(Cyfieithiad)*
  Ychydig flwyddau'n hwy,
  A daw ein dydd i ben;
A byddwn ninnau 'mhlith y llu
  Sy'n awr tu draw i'r llen.
  O Arglwydd, paratô
  Fi erbyn delo'r awr;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
  A maddau'm beiau mawr.

  Ar fyr machluda haul
  Ein dydd yng ngwlad y poen,
A byddwn lle na fachlud Haul –
  Goleuni Duw a'r Oen.
  O Arglwydd, paratô
  Fi erbyn delo'r awr;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
  A maddau'm beiau mawr.

  Ychydig stormydd mwy
  A'n cyffwrdd ar ein taith,
A byddwn ni mewn gwlad lle nad
  Oes môr na stormydd chwaith.
  O Arglwydd, paratô
  Fi erbyn delo'r awr;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
  A maddau'm beiau mawr.

Ychydig ymdrech mwy,
A griddfan dan y groes;
Ychydig golli dagrau'n hwy,
A byddwn uwch pob loes.
O Arglwydd, paratô
Fi erbyn delo'r awr;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
A maddau'm beiau mawr.

Ychydig ennyd, a
Daw Crist yn ôl o'r nef:
Bu farw drosom – ninnau gawn
Deyrnasu gydag Ef.
O Arglwydd, paratô
Fi erbyn delo'r awr;
O golch fi yn dy werthfawr waed,
A maddau'm beiau mawr.

*Hym.Eg.408; Em.H+N.139.*
*Tôn Morgannwg. Gwreiddiol.*
Yng ngweinidogaeth Eglwys Grist
Agorir athrist fylchau;
Syrth ambell un i nwyd y Fall,
Ac arall syrth yn angau.

I lenwi'r bylchau dewis raid
Fugeiliaid fo o galon
Yn caru Crist, mawrhau ei waith,
A rhodio'n berffaith gyson.

O! Arglwydd, chwiliwr calon dyn,
I'th waith dy Hun tuedda
Y rhai ddewisaist, arnynt hwy
Dy Ysbryd mwy tywallta[52]

O! cadw d'Eglwys byth, a chau
Ei drws rhag gau athrawon,
A llywodraether hi heb baid
Gan wir fugeiliaid ffyddlon.

*Em.Eg.38; Em.H+N.506; C.Ff.455; Can.881;*
*Ll.M.N.816; Em+Th.768. Tôn Noel. Gwreiddiol.*
Yn nhawel wlad Jwdea dlos[53]
Yr oedd bugeiliaid glân
Yn aros yn y maes liw nos
I wylio'u defaid mân:
Proffwydol gerddi Seion gu
Gydganent ar y llawr
I ysgafnhau y gyfnos ddu,
Gan ddisgwyl toriad gwawr.

Ar amnaid o'r uchelder fry[54]
Dynesai angel gwyn,
A safai 'nghanol golau gylch[55]
O flaen eu llygaid syn:
Dywedai, "Dwyn newyddion da
Yr wyf, i ddynol-ryw;
Fe anwyd i chwi Geidwad rhad,
Sef Crist yr Arglwydd Dduw."

Ac ebrwydd unai nefol lu
Mewn hyfryd gytgan bêr
Nes seiniai moliant ar bob tu
O'r ddaear hyd y sêr:
"Gogoniant yn y nefoedd fry
I Dduw'r goruchaf Un,
Tangnefedd ar y ddaear ddu,
Ewyllys da i ddyn."

Rhoed newydd dant yn nhelyn nef
Pan anwyd Iesu Grist,
A thelyn aur o lawen dôn
Yn llaw pechadur trist:
Telynau'r nef sy'n canu nawr,
"Ewyllys da i ddyn,"
A chaned holl delynau'r llawr
Ogoniant Duw'n gytûn.

*Hym.Eg.232; Em+Th.96.*
*Tôn Mynydd Ephraim; St. Michael. Gwreiddiol.*
Yn nodded gras y nef
Wynebwn ar y byd;
Nid ofnwn ei drallodion ef,
Na'i demtasiynau i gyd.

Er maint ei lafur blin,
A'i aml ofidiau maith,
Fe leddfa Duw yr arw hin,
Ac ysgafnha y gwaith.

Yn haeddiant gwaed y Groes
Wynebwn orsedd Duw;
Er amled yw pechodau oes
Cawn yn ei gysgod fyw.

Yng nghwmni Iesu Grist
Wynebwn angau prudd;
Try Ef y nos-gysgodau trist
Yn hyfryd fore ddydd.

---

[52] Y rhai ddewisaist; a hwynt-hwy
Â'th Ysbryd mwy eneinia.*(Em.H+N.)*

[53] Ynghanol gwlad Jiwdea dlos *(Em.H+N.)*

[54] Ar amnaid o uchelder nef *(Em.Eg.; Em.H+N.)*

[55] Ac mewn disgleirdeb safai ef *(Em.Eg.; Em.H+N., Ll.M.N.)*

Wynebwn ar y bedd
  Ond cael yr Iesu'n rhan,
Mewn gobaith deffro ar ei wedd,
  A chodi'n iach i'r lan.

*Hym.Eg.53.*
*Gwreiddiol.*
Yr hwn a roes enwaediad
  I Abraham a'i had,
Yn arwydd o dderbyniad
  Eu ffydd, er cyfiawnhad,
Gymerodd ei enwaedu
  Ei Hun yn Faban gwiw,
O dan yr enw Iesu,
  Yn Geidwad dynol ryw.

Aeth trwy enwaediad gwaedlyd
  I ddeddfle euog ddyn,
Cymerodd yn ei febyd
  Ein hachos arno'i Hun;
Boddlonodd holl ofynion
  Cyfiawnder yn y ne',
Nes marw dan yr hoelion,
  Yn aberth yn ein lle.

Enwaeda, Iesu grasol,
  Ein drwg galonnau ni,
A lladd bob nwyd anianol
  Sydd groes i'th gyfraith Di;
Dal ni yn dy gyfamod,
  A golch ni yn dy waed,
Nes diosg holl gorff pechod,
  A'i fathru dan ein traed.

**Allwedd:**

*Hymnau (1886)* - Hymnau yr Eglwys – argraffiad 1886
*Hym.Eg.* - Hymnau yr Eglwys
*Em.Eg.* - Emynau'r Eglwys
*Em.H+N.* - Emynau Hen a Newydd
*EmyniadurEg.* - Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru
*Em.Ll.* - Emynau'r Llan
*C.Ff.* - Caneuon Ffydd
*Em+Th.* - Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid
*Ll.M.N.* - Y Llawlyfr Moliant Newydd
*At.* - Atodiad Llyfr Emynau a Thonau
*Can.* - Y Caniedydd
*MyI* - Mawl yr Ifanc
*Can.y.I.* - Caniedydd yr Ifanc

## Atodiad 3 - Patrwm atgynhyrchiad ei emynau mewn gwahanol gyfrolau

| Llyfr Emynau - Ar draws<br>Llinell cyntaf yr emyn - I lawr<br>(Cyfieithiadau mewn llythyren italaidd) | Hymnau Daniel Evans | Hymnau Hen a Newydd | Hymnau yr Eglwys 1886 | Hymnau yr Eglwys 1892 -> | Emynau Hen a Newydd | Emynau'r Eglwys | Emynau'r Llan | Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru | Caneuon Ffydd | Y Llawlyfr Moliant | Y Caniedydd | Llyfr Emynau M C&W | Atodiad MC | Mawl yr Ifanc | Caniedydd yr Ifanc | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Addolwn di, lachawdwr, yma'n gudd* | | | *330* | *334* | *168* | | | | | | | | | | | II |
| Aeth heibio ddydd o fawl | | | 17 | 17 | 8 | | | | | | | | | | | II |
| *Ai lluddedig wyt ac egwan?* | | | *255* | *257* | | | | | | | | | | | | I |
| Angylion disglair rif y ser | | | 415 | 419 | 149 | | 229 | | | | | | | | | III |
| *Amdanat, fro fendigaid* | *541* | | *320* | *323* | | *338* | | | | | | | | | | III |
| Anfon, Arglwydd, i'th gynhaeaf | | | 354 | 357 | | 140 | 171 | | | | | | | | | III |
| Bu ryfedd gweled Brenin nef | | | 403 | 407 | 138 | | | | | | | | | | | II |
| *Byr yma yw ein bywyd* | *541* | | *319* | *322* | | *353* | | | | | | | | | | III |
| *Caersalem, euraid ddinas* | *541* | | *321* | *324* | | *355* | *233* | | | | | | | | | IV |
| *Clywch lu'r nef yn seinio'n un* | | | *40* | *40* | *51* | | *29* | | *452* | *817* | *875* | | | | | VI |
| *Cyfodwch, filwyr Crist* | | | | | | *365* | *263* | | | | | | | | | II |
| Dros arw for, mewn chwerw hin | | | **N** | 432 | 268 | | | | | | | | | | | II |
| Duw, Tad y trugareddau, 'nawr | | | 130 | 130 | | | | | | | | | | | | I |
| *Edrych, nefol Dad, i lawr* | *593* | | | | *276* | *607* | | *485* | | | | | | | | IV |
| *Ein Tad tragwyddol, gadarn lor* | | | ***N*** | *431* | | | | | | | | | | | | I |
| *Fy enaid clyw angylaidd don yn chwyddo* | | *290* | *278* | *280* | | | *355* | | | | | | | | | III |
| *Henffych i Enw lesu gwiw* | | *534* | *207* | *207* | | *347* | | | | | | | | | | IV |
| Hwn yw yr hyfryd fore ddydd | | | 115 | 114 | | 108 | 102 | | | | | 138 | | 259 | | V |
| Mae'r gwaed dywalltodd lesu | | | 332 | 337 | | | | | | | | | | | | II |
| O Annwyl Geidwad, nos ni ddaw | | | 19 | 19 | 10 | | | | | | | | | | | II |
| O Bendithia, Arglwydd lesu | | | | | 30 | | | | | | | | | | | I |
| *O Dduw, ein cymorth ym mhob oes* | | | ***N*** | *287* | *444* | *460* | *314* | | | | | | | | | IV |
| O Dduw, preswylio'r ydwyt ti | | 586 | 380 | 383 | | | | | | | | | | | | II |
| O Deuwch, wylwch gyda mi | | | 105 | 104 | | | | | | | | | | | | I |
| O dlysaf o'r sêr sydd yn britho y nen | | | 53 | **N** | | | | | | | | | | | | I |
| O flaen yr allor sanctaidd | | | | | 193 | 312 | 181 | | | | | | | | | III |
| *O Greenland oer, fynyddig* | *447* | | *387* | *277* | *224* | | | | | | | | | | | III |
| O Ryfedd hir amynedd Duw | | | | | 137 | 173 | 209 | | | | | | | | | III |
| Pryd y'n poenir gan elynion | | | 43 | 43 | 52 | | | | | | | | | | | II |
| Ti'r hwn fendithiaist fychain blant | | | 384 | 387 | | | | | | | | | | | | I |
| Ti yr hwn, yn wael ei drem | | | 38 | **N** | | | | | | | | | | | | I |
| Trwy amheuon, pryder, ofnau | | | 400 | 404 | | 172 | | | | | | | | | | II |
| *Trwy nos galar ac amheuon* | | | *280* | *282* | | *497* | *334* | | | | | | *816* | *230* | *90* | VI |
| Tydi yr hwn breswyli | | | 44 | 44 | | | | | | | | | | | | I |
| Y mae cenhadon nef yng nghyd | | | 399 | 403 | | | | | | | | | | | | I |
| *Ychydig flwyddau'n hwy* | | | ***N*** | *434* | | | | | | | | | | | | I |
| Yng Ngweinidogaeth Eglwys Crist | | | 404 | 408 | 139 | | | | | | | | | | | II |
| Yn nhawel wlad Jiwdea dlos | | | | | 506 | 38 | | | 455 | 816 | 881 | 768 | | | | VI |
| Yn nodded gras y nef | | | 230 | 232 | | | | | | | | 96 | | | | I |
| Yr hwn a roes enwaediad | | | 51 | 53 | | | | | | | | | | | | I |
| | | | *(9 unigryw)* | *(11 unigryw)* | *(1 unigryw)* | | | | | | | | | | | |

Cyhoeddwyd mewn mwy nag un llyfr emynau, er na chyhoeddwyd yr emyn yn Hymnau yr Eglwys

Cyhoeddwyd yn Emynau Hen a Newydd yn unig

Cyhoeddwyd yn argraffiad 1886 Hymnau yr Eglwys yn unig

**Atodiad 4 - Bas data cymharol rhwng tri o lyfrau emynau cyffredinol yr Eglwys yn y 19 ganrif**

Yng ngholofn gyntaf y tabl canlynol, rhestrir llinellau cyntaf yr holl emynau a gyhoeddwyd yn argraffiad cyntaf Hymnau yr Eglwys ac ym mhob argraffiad o'r fersiwn diwygiedig wedi 1892 - cyfanswm o 485 emyn gwahanol. Fe'u rhestrir yn ôl trefn eu hymddangosiad yn yr argraffiadau diwygiedig (h.y., wedi 1892), gan mai dyna'r casgliad a ddaeth yn gyfarwydd i genedlaethau o gynulleidfaoedd Cymraeg. Rhifau'r emynau yn yr argraffiadau hynny a geir yng ngholofn 3, gyda'r rhifau yn argraffiad 1886 yng ngholofn 2.

Yng ngholofn 4, rhestrir rhifau emynau cyfatebol i'r rhai sydd yn Hymnau yr Eglwys sydd yn Hymnau er Gwasanaeth yr Eglwys yn Nghymru Canon Daniel Evans, a gyhoeddwyd yn gyntaf oll yn 1865, ac a gyhoeddwyd ag atodiad sawl gwaith o 1875 ymlaen. Gwelir bod 214 emyn oedd yng nghyfrol Daniel Evans wedi'u hatgynhyrchu yn y ddau fersiwn o gyfrol Elis Wyn o Wyrfai. Yn yr un modd, yng ngholofn 5 rhestrir rhifau emynau cyfatebol i'r rhai sydd yn Hymnau yr Eglwys sydd yn Hymnau Hen a Newydd Owen Jones, ficer Pentrefoelas a Deon Shadrach Price, Llanelwy. Cyhoeddwyd y gyfrol honno gyntaf yn 1869, gydag atodiad yn cael ei ychwanegu i'r trydydd argraffiad yn 1874 a'r argraffiadau dilynol a ymddangosodd wedi hynny. Gwelir bod 191 emyn yn gyffredin rhwng Hymnau Hen a Newydd a dau fersiwn Hymnau yr Eglwys.

Ceir peth gorgyffwrdd wrth reswm ymysg yr emynau sydd yn y tair cyfrol. Gwelir bod 274 emyn a ymddangosodd yn Hymnau er Gwasanaeth yr Eglwys yn Nghymru a/neu Hymnau Hen a Newydd i'w cael hefyd yn argraffiad 1886 o Hymnau yr Eglwys, a chyfanswm o 298 yn argraffiad 1886 a/neu 1892 ymlaen. Gan hynny, cynullodd Ellis 187 emyn atodol i'r rhain ar gyfer dau fersiwn ei gyfrol ei hunan, gan gynnwys 34 o'i emynau o'i waith ei hun. Nodir ei emynau ei hunan yn y bas data hwn gyda phrint brasach na'r gweddill.

| Llinell gyntaf yr emyn | Hym.Eg.86 | Hym.Eg.92-> | Hymnau | Hym. H+N |
|---|---|---|---|---|
| Bob dydd a nos, O Dduw | 2 | 1 | | 3 |
| Yn foreu, Arglwydd | | 2 | | |
| O f'enaid, deffro | 1 | 3 | | 1 |
| O deffro, f'enaid, gyda'r | 4 | 4 | | |
| Mewn bywyd mae | | 5 | | |
| O Arglwydd dyrcha | 6 | 6 | | |
| Mor hyfryd yw cyfarfod | 9 | 7 | 486 | 26 |
| Chwythed yr awel | 8 | 8 | 484 | |
| I dy'r Arglwydd pan | 7 | 9 | 485 | |
| Gwaith hyfryd iawn | 10 | 10 | | 27 |
| Mor werthfawr yw | 11 | 11 | | 485 |
| Dy babell di mor hyfryd | 12 | 12 | 318 | 22 |
| I ti, o Dduw, y gweddai mawl | 13 | 13 | | 412 |
| O aros gyda mi, y mae'n hwyrhau | 14 | 14 | 490 | 18 |
| Oriau'r dydd a aethant | | 15 | | |
| O aros gyda ni | 16 | 16 | 492 | 17 |
| **Aeth heibio ddydd o fawl** | **17** | **17** | | |
| I Ti, fy Nuw, rhof | 18 | 18 | 489 | 13 |
| **O Annwyl Geidwad** | **19** | **19** | | |
| O Arglwydd Dduw y llu | 20 | 20 | | |
| Ti farnwr byw a meirw | 21 | 21 | 341 | |
| O Arglwydd gwynfydedig | 24 | 22 | | |
| Wele wrth y drws | 23 | 23 | | 194 |
| Wele'n dyfod ar y cwmwl - mawr | 22 | 24 | 14 | |
| Dduw mawr! Pa beth | 25 | 25 | 5 | 38 |
| Mae Brenin nef ar fyr yn dod | 26 | 26 | 20 | 44 |
| Fe welir Crist yn d'od | 27 | 27 | | 45 |
| Cyn it ddyfod gynt | 28 | 28 | 13 | 41 |
| Clywaf adsain can y boreu | 29 | 29 | | 35 |
| Beth yw'r udgorn | 30 | 30 | 314 | |
| Gosod babell yng ngwlad | 31 | 31 | 3 | |
| Fe ddaw ar y cymylau | 34 | 32 | 9 | |
| Trwy y cysgodau cudd | 33 | 33 | 19 | |
| Udgenwch, weision Duw | 32 | 34 | 301 | |
| Daeth Llywydd nef | 35 | 35 | 8 | 59 |
| Wele ganwyd y Meseia | 36 | 36 | 22 | 58 |
| O ddyfnderoedd iachawdwriaeth | 37 | 37 | 79 | |
| O'r nefoedd daeth | | 38 | | |
| O deuwch, ffyddloniaid | 39 | 39 | 508 | 62 |
| **Clywch lu'r nef yn seinio** | **40** | **40** | | |
| Y boreu hwn, trwy buraf hedd | | 41 | 21 | 54 |
| Ym mhlith holl ryfeddodau'r nef | | 42 | | 248 |
| Pan y'n poenir gan | 43 | 43 | | |
| **Tydi yr hwn breswyli** | **44** | **44** | | |
| Pa dafod dyn all | 45 | 45 | | |
| Blynyddau'n hoes | | 46 | | |
| Clodforwn fyth ein Harglwydd | 47 | 47 | 29 | 504 |
| Aeth heibio eto flwyddyn | 48 | 48 | | |
| Nid oes derfyn ar flynyddau | 49 | 49 | | |
| Dros flwyddyn eto'n | 52 | 50 | 31 | 505 |
| Wele eto un yn | | 51 | | |
| Cysegrodd Crist a'i waed | 50 | 52 | 28 | 68 |
| **Yr hwn a roes enwaediad** | **51** | **53** | | |
| Loewaf o'r ser sydd yn britho'r ffurfafen | 54 | 54 | | |
| Peraidd ganodd ser | 55 | 55 | 50 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y seren fore sydd | 56 | 56 | 44 | 76 |
| Ni chafodd Brenin nef | 57 | 57 | | 74 |
| Wele'r dydd yn gwawrio | 58 | 58 | 32 | 77 |
| Ser y nos yn lluaws | 59 | 59 | | 79 |
| Dyma'r dyddiau wedi | 60 | 60 | | |
| Gwedi edrych, gwedi | 61 | 61 | | 72 |
| Am Iesu Grist a'i farwol glwy | 62 | 62 | 39 | 558 |
| Haleluia yr anwylaf | 65 | 63 | | 579 |
| Fe welir Seion fel y wawr | 64 | 64 | 315 | 351 |
| O Arglwydd Dduw Rhagluniaeth | 63 | 65 | 182 | |
| Bu'r enwog bererinion | 66 | 66 | | 86 |
| O Ysbryd pur nefolaidd | | 67 | | |
| Felly carodd Dduw wrthrychau | 68 | 68 | 78 | |
| Draw mi wela'r nos | 67 | 69 | | |
| Pan ymblygom wrth | 70 | 70 | 67 | 568 |
| Dduw tragwyddol, holl-gyfoethog | 71 | 71 | | |
| Deugain nydd a deugain nos | 72 | 72 | 515 | 88 |
| Anfeidrol, fyth anfeidrol | 73 | 73 | | |
| O gwrando, Arglwydd | 74 | 74 | | 102 |
| Pechadur wyf, O Arglwydd | 75 | 75 | 58 | |
| Ple trof fy wyneb, Arglwydd cu | | 76 | | |
| Mae'r gwaed a redodd ar y groes | 96 | 77 | 437 | 111 |
| Os trwy lawer o | 77 | 78 | | 338 |
| Dagrau'r Cristion yw y perlau | 78 | 79 | | 104 |
| Wrth edrych, Iesu | 79 | 80 | 76 | 122 |
| Pechadur wyf, da gwyr | 80 | 81 | 70 | 94 |
| Pechadur wyf, y dua'n | 81 | 82 | 68 | 413 |
| Rwy'n wael fy ngwedd | 82 | 83 | 60 | |
| Mi dafla'm baich oddi ar fy ngwar | 83 | 84 | | 398 |
| A raid i gystudd garw | 84 | 85 | 346 | |
| Amynedd, nerth a phwyll | 85 | 86 | | |
| Ni phery ddim yn hir | 86 | 87 | | |
| Bydd lawen iawn | 87 | 88 | | 109 |
| Wrth gofio'i riddfannau | 88 | 89 | | |
| O gariad, O gariad mor rhad | 89 | 90 | 99 | 396 |
| O Iesu mawr, pwy ond | 90 | 91 | | |
| Dyma gariad fel y moroedd | 91 | 92 | 96 | |
| O fy enaid, cwyd | 92 | 93 | 92 | |
| O na bai cystuddiau | 93 | 94 | 333 | 107 |
| Clywch leferydd gras | 94 | 95 | 103 | |
| Mi feddyliais cawswn | 95 | 96 | | |
| Yn Eden, cofiaf hynny byth | 98 | 97 | 82 | 308 |
| Nis gall angylion pur | 99 | 98 | | 559 |
| Yr iawn a dalwyd | 100 | 99 | | |
| Caed modd i faddeu | 101 | 100 | | 118 |
| O Enw ardderchocaf | 102 | 101 | | |
| Arnat, Iesu, boed fy meddwl | 103 | 102 | 352 | |
| O Arglwydd cofia'th | 104 | 103 | | |
| **O deuwch, wylwch** | **105** | **104** | **72** | |
| Yng nghroes yr Iesu | 106 | 105 | | |
| Y groes yw etifeddiaeth | 107 | 106 | | 374 |
| O tyn y gorchudd | 108 | 107 | | 117 |
| Dwy fflam ar ben | | 108 | | |
| Hedd a maddeuant | 110 | 109 | | |
| Gorphenwyd, medd | 111 | 110 | | |
| Agorodd Iesu'n wir | 97 | 111 | | 372 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Agorwyd pyrth y nef | 112 | 112 | | |
| Tra byddo wawr | 113 | 113 | | |
| **Hwn yw yr hyfryd foreu** | **115** | **114** | | |
| Heddyw cododd Crist | 114 | 115 | 107 | 135 |
| Nol marw Brenin hedd | 116 | 116 | 109 | |
| Cyfododd Iesu'n wir | 117 | 117 | 126 | 141 |
| Cyfododd Brenin hedd | 118 | 118 | 110 | |
| Gogoniant byth i'r anwyl | 119 | 119 | | |
| Myfi yw'r adgyfodiad | 120 | 120 | | 475 |
| Bendigaid foreu teg | 121 | 121 | 112 | |
| Wele flaenffrwyth | 122 | 122 | | 140 |
| Er gwaetha'r maen a'r gwylwyr | 123 | 123 | | |
| Yr Iesu a adgyfododd | 124 | 124 | 120 | |
| Wele angau llym | 125 | 125 | 122 | 149 |
| Cyfodi wnaeth Tywysog | 126 | 126 | 519 | |
| Yr hwn gan ing | 127 | 127 | | |
| Dyrchafer Enw Iesu | 128 | 128 | 123 | 267 |
| Dyrchafodd Crist o | | 129 | | |
| **Duw Tad y trugareddau** | **130** | **130** | | |
| Bywha dy waith, O Arglwydd Mawr, Dros | 131 | 131 | 452 | 517 |
| Bywyd y meirw, tyr'd | 132 | 132 | 135 | |
| Tyrd Ysbryd Glan i'n c'lonnau ni | 133 | 133 | 145 | 459 |
| Tyrd Ysbryd Glan tragwyddol | 134 | 134 | 146 | 460 |
| O Dduw, rho im' dy Ysbryd | 135 | 135 | 142 | |
| O anfon Di yr Ysbryd | 136 | 136 | | 156 |
| Iesu roes addewid | 137 | 137 | | |
| Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd | 138 | 138 | 150 | 235 |
| Mae'n llon'd y nefoedd | 139 | 139 | | |
| Fy Nuw, uwchlaw dy | 140 | 140 | | 344 |
| Er torri'r hen gyfamod | 141 | 141 | 271 | |
| Gogoniant byth i'r dilyth Dad | 142 | 142 | | 164 |
| Golwg, Arglwydd, ar dy | 143 | 143 | | |
| O Frenin nef a daiar | 144 | 144 | | 295 |
| Dyma Feibl annwyl Iesu | 145 | 145 | 156 | |
| Goleu a nerthol | 146 | 146 | 343 | |
| O agor fy llygaid | 147 | 147 | 160 | 486 |
| O Arglwydd dysg im | 148 | 148 | 161 | |
| O Arglwydd Dduw, 'r hwn | | 149 | | |
| Hoffi'r wyf dy lan breswylfa | 150 | 150 | 325 | 174 |
| Arglwydd tyn y lleni | 151 | 151 | | 488 |
| Plana'm corff a'i holl | | 152 | | 28 |
| O am nerth i dreulio'm | 152 | 153 | 345 | 178 |
| Loewaf o'r ser | | 154 | | |
| Newyddion braf a ddaeth | 154 | 155 | | |
| Wele'r hwn sydd holl | | 156 | | |
| Arglwydd paid a | | 157 | | |
| Marchog, Iesu, yn llwyddiannus | 157 | 158 | 42 | 407 |
| Gras: O'r fath | 158 | 159 | 270 | |
| O wele'r Ceidwad | 159 | 160 | 226 | 171 |
| Teg wawriodd arnom | 160 | 161 | 543 | 385 |
| O dewch, o fawr i fan | 161 | 162 | | |
| Cyn llunio'r byd | 162 | 163 | 268 | |
| Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw | 163 | 164 | 267 | |
| Bod gogoneddus wyt | 164 | 165 | | |
| Wrth orsedd y Jehofa | 165 | 166 | | 168 |
| O ddydd i ddydd, o awr | | 167 | 462 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| O Ior, preswylydd mawr y berth | | 168 | | |
| O cyfod bellach | 168 | 169 | | |
| Sancteiddrwydd im | 169 | 170 | | |
| Fy Nuw, fy addfwyn | 170 | 171 | 244 | 317 |
| Agorodd ddrws i'r caeth | 171 | 172 | 246 | |
| Iesu Iesu, rwyt ti'n ddigon | 172 | 173 | 232 | |
| Iesu nid oes derfyn | 173 | 174 | 297 | |
| Nid oes bleser, nid | 174 | 175 | | |
| Iesu Ti yw ffynnon | 175 | 176 | 538 | |
| Iesu cyfaill pechaduriaid | 176 | 177 | 218 | 380 |
| Tyred awdur gras | 177 | 178 | | 192 |
| O Iachawdwr pechaduriaid | 178 | 179 | | 575 |
| Iesu llawnder mawr | 179 | 180 | 365 | |
| Dyma babell y cyfarfod | 180 | 181 | | |
| Draw mi welaf ryfeddodau | 181 | 182 | 265 | |
| Gad im' dreulio f'oriau | 182 | 183 | | |
| Saif brenhiniaeth | 183 | 184 | | |
| R hwn sy'n gyrru'r mellt | 184 | 185 | | |
| Y cysur i gyd | | 186 | | |
| Fy Iesu mwy fydd | | 187 | | |
| Nid oes noddfa mewn | 187 | 188 | 261 | 258 |
| Fel y brefa'r hydd | 188 | 189 | | 289 |
| Yr Arglwydd yw fy mugail | 189 | 190 | 213 | 284 |
| Tragwyddol gariad | 190 | 191 | | 266 |
| Gwyn a gwridog, hawddgar iawn | 356 | 192 | 235 | 217 |
| Angau ac eiriolaeth | | 193 | | |
| Llais hyfryd rhad ras | | 194 | | 264 |
| Dyma Geidwad i'r colledig | 194 | 195 | 260 | 310 |
| Dal fy llygad, dal heb | 250 | 196 | | |
| Yn dy waith y mae | 196 | 197 | | |
| O na chlywn yr udgorn | 197 | 198 | | |
| Dyn dyeithr ydwyf | | 199 | | |
| Mae Seion wan yn | | 200 | 369 | |
| At orsedd gras mi af | | 201 | | 25 |
| O euogrwydd fel | 201 | 202 | | |
| Pan oedd Sinai | 202 | 203 | | |
| Trugaredd a ddug | 203 | 204 | | |
| O arwain fy enaid | | 205 | 553 | |
| Mi glywais lais yr Iesu | 204 | 206 | | |
| Henffych i Enw Iesu gwiw | 205 | 207 | 250 | 534 |
| O'r Iachawdwriaeth | 206 | 208 | 298 | |
| Dal fi, fy Nuw | | 209 | | |
| Ym mlaen, ym mlaen | | 210 | | 296 |
| Gwyn fyd y pur o galon | 209 | 211 | | 254 |
| Chwi holl fforddolion | 210 | 212 | | 377 |
| Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd | | 213 | 234 | |
| Rwy'n dy garu | 212 | 214 | | |
| Gweld dy gariad | 213 | 215 | | |
| Rhwyga'r tew gymylau | 214 | 216 | 292 | |
| O llefara, addfwyn Iesu | | 217 | | 392 |
| Arglwydd gad im dawel | 216 | 218 | | |
| Braint, braint | 217 | 219 | 420 | 364 |
| Daw dydd i'r carcharor | 218 | 220 | | 373 |
| Pa Dduw ym mhlith | | 221 | 279 | |
| Am graig yr iachawdwr | 220 | 222 | | |
| Mae Crist a'i w'radwydd | 221 | 223 | 277 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fe ddwedodd Anghred... | | 224 | | |
| Ein pen conglfaen yw | 223 | 225 | | |
| Ymgrymed pawb i lawr | 224 | 226 | 255 | 409 |
| Gwnes addunedau fil | | 227 | 392 | |
| O tyred, Arglwydd Mawr | 226 | 228 | 136 | 336 |
| Iachawdwr dynol ryw | 227 | 229 | | 120 |
| Boed moliant Iesu | 228 | 230 | | 337 |
| Mae'r iachawdwriaeth rad | 229 | 231 | 275 | |
| **Yn nodded gras y nef** | **230** | **232** | | |
| Mae'r iachawdwriaeth fel | 231 | 233 | 286 | 399 |
| Iesu difyrrwch f'enaid | 232 | 234 | 231 | 368 |
| I'r Arglwydd cenwch lafar glod | 153 | 235 | 185 | 169 |
| Clodforwch Enw Mab Duw | 234 | 236 | 251 | |
| Rhown glod a mawl | 235 | 237 | 273 | 216 |
| Wele dy Frenin, Seion | 236 | 238 | 10 | 31 |
| Na thro dy wyneb | 237 | 239 | 56 | |
| Erglyw, O Dduw, fy | 238 | 240 | 336 | |
| At un a wrendy weddi'r gwan | 239 | 241 | 514 | 479 |
| Ar for tymhestlog teithio rwyf | 240 | 242 | 181 | 185 |
| Awn, bechaduriaid, at y | | 243 | 287 | 297 |
| Cyduned y nefolaidd gor | 242 | 244 | 165 | 186 |
| Trugaredd dod i mi | 243 | 245 | 57 | 98 |
| Ei fywyd pur i lawr | 244 | 246 | | 127 |
| Nes atat, O fy Nuw | 245 | 247 | | |
| Duw mawr y rhyfeddodau | 246 | 248 | 559 | 191 |
| Fy Nuw, fy Nhad | 247 | 249 | | 170 |
| Llawn o ofid, llawn | 248 | 250 | | |
| Rho gydwybod wedi | 249 | 251 | 331 | |
| Dysgwyl wyf ar hyd | | 252 | 15 | |
| Iesu gwyddost fy nghystuddiau | 251 | 253 | | 384 |
| Eto unwaith mi ddyrchafaf | 252 | 254 | | |
| O fy Iesu bendigedig | 253 | 255 | | |
| Oll fel yr wyf | 254 | 256 | | |
| **Ai lluddedig wyt ac egwan** | **255** | **257** | | |
| Pwy welaf o Edom yn | 256 | 258 | 116 | |
| Y mae Un uwchlaw pawb | 257 | 259 | 217 | 276 |
| O gariad, O gariad anfeidrol | 258 | 260 | | |
| Graig yr Oesoedd | 259 | 261 | 228 | 237 |
| Darparwyd iachawdwr | | 262 | | |
| Mae ffordd gyfreithlon | 261 | 263 | | |
| Mae pryrth y nef | 262 | 264 | | |
| Fy Nuw, mi'th garaf | 263 | 265 | | 184 |
| Chwi weision Duw | 264 | 266 | 199 | 252 |
| Yn angeu Crist caed | | 267 | | |
| Gwnaed concwest ar | 266 | 268 | | |
| Nis gall angylion nef | 267 | 269 | 88 | 395 |
| Ai am fy meiau i | 268 | 270 | 86 | 119 |
| Nis gallai gwaed | 269 | 271 | 87 | 433 |
| Mi welaf afon bur | 270 | 272 | 275 | 448 |
| Mi gana' am waed yr Oen | 271 | 273 | | |
| Blant ffyddlon Seion | 272 | 274 | 23 | |
| Mi ganaf tra bo anadl | 273 | 275 | | |
| Pwy ddyry im falm | 274 | 276 | 478 | |
| **O Greenland, oer** | **387** | **277** | **447** | |
| Rwyf yma dan y tonnau | 276 | 278 | 397 | |
| Calfaria gaiff ei gofio | 277 | 279 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Fy enaid, clyw angylaidd** | **278** | **280** | | **290** |
| Tyrd Olau gwyn | 279 | 281 | | |
| **Trwy nos galar ac amheuon** | **280** | **282** | | |
| Rwy'n nofio tua chartre | 281 | 283 | 382 | 557 |
| Plant ydym eto dan | 358 | 284 | 355 | 376 |
| Mae brodyr imi aeth | 283 | 285 | 406 | 529 |
| Pererin wyf mewn anial dir | 284 | 286 | 139 | 209 |
| **O Dduw ein cymorth ym mhob oes** | | **287** | | |
| Mae fy enaid yn ehedeg | 286 | 288 | 372 | |
| Arglwydd arwain trwy'r anialwch | 287 | 289 | 386 | 221 |
| Mae'r manna wedi ei gael | 288 | 290 | | 382 |
| Fy ngweddi, dos i'r nef | 289 | 291 | | 182 |
| Mewn stormydd diri' | | 292 | | 269 |
| Wele cawsom y Meseia | 359 | 293 | 94 | 294 |
| Mawr oedd Iesu'n | 292 | 294 | | 411 |
| I fyny at fy Nuw | 293 | 295 | 62 | |
| Y nefoedd uwch fy mhen | | 296 | | |
| Mae lluoedd maith ym | 294 | 297 | 425 | |
| Mae'm hymdaith dros | 295 | 298 | | |
| Ar lan Iorddonen ddofn | 304 | 299 | 467 | |
| Rwy'n sefyll ar dymestlog lan | 297 | 300 | 404 | |
| O dangos im | 298 | 301 | | 481 |
| Mae byd o sylwedd | 299 | 302 | 464 | 470 |
| Beth dal im roi fy serch a'm bryd | 300 | 303 | | 286 |
| Cofiwn beunydd yn ein | 301 | 304 | | |
| Wele'n dyfod ar y cwmwl, 'r hwn | 302 | 305 | 16 | 42 |
| O Dduw, rho im' dy hedd | 303 | 306 | | 400 |
| Ymadaw wnaf | 296 | 307 | 477 | |
| Y Gwr fu ar Galfaria | 305 | 308 | 6 | |
| Bydd myrdd o ryfeddodau | 306 | 309 | | |
| Am Graig i adeiladu | 307 | 310 | 225 | 270 |
| Ai marw raid i mi | 308 | 311 | | 480 |
| Na wyled teulu Duw | 309 | 312 | | |
| Adenydd colomen | | 313 | | |
| Mi wn fod fy Mhrynwr | 311 | 314 | 117 | |
| Mae'm cyfeillion adre'n | 312 | 315 | 459 | |
| Os yw'n gofidiau | 313 | 316 | 408 | |
| Os caf gysuron | 314 | 317 | | 244 |
| Mae'n hyfryd meddwl | 315 | 318 | 405 | 306 |
| Mae pererinion draw | 316 | 319 | | |
| Y lan Gaersalem | 317 | 320 | | |
| O dyrfa fawr ysbrydol | 318 | 321 | | |
| **Byr yma yw ein bywyd** | **319** | **322** | **541** | |
| **Amdanat, gartref nefol** | **320** | **323** | **541** | |
| **O Salem, euraidd ddinas** | **321** | **324** | **541** | |
| Daw miloedd ar ddarfod | | 325 | 445 | |
| O fryniau Caersalem | 323 | 326 | 429 | 359 |
| Paradwys, O! Baradwys | 324 | 327 | 554 | 539 |
| Gwel uwchlaw cymylau | 325 | 328 | | |
| Nid oes gofid | 326 | 329 | 403 | |
| Dechrau canu, dechrau canmol | 327 | 330 | 402 | |
| Gyda'r saint anturiais nesu | 328 | 331 | 439 | 443 |
| Haleluia, mawl i'r | 337 | 332 | | |
| Agorwyd teml yr Arglwydd | 329 | 333 | 205 | 358 |
| **Addolwn Di, Iachawdwr** | **330** | **334** | | |
| Mae haeddiant mawr | | 335 | | 356 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y gwaed, y gwaed a | 331 | 336 | 83 | |
| **Mae'r gwaed dywalltodd Iesu** | **332** | **337** | | |
| Wel, dyma wledd | 333 | 338 | 436 | |
| O dewch i'r dyfroedd | 334 | 339 | 305 | |
| Myfi'r pechadur penaf | | 340 | | |
| Caed trefn i faddeu | | 341 | 548 | |
| I Galfaria trof fy wyneb | 338 | 342 | | |
| Gwaed y groes sy'n codi | 340 | 343 | | 383 |
| O chwi eneidiau | 339 | 344 | | |
| Yn ol ei rasol ordinhad | 341 | 345 | 443 | |
| Llefwch, genhadon Duw | 342 | 346 | 307 | 428 |
| Deuwch, hil syrthiedig | 343 | 347 | 303 | |
| Derbyniwyd gynt | 345 | 348 | 433 | 584 |
| Bugail Israel sydd ofalus | 346 | 349 | | |
| Agorwyd ffynnon i'n glanhau | 347 | 350 | 285 | 446 |
| O newyddion melys | 348 | 351 | | |
| Cysegrwn flaenffrwth | 349 | 352 | 435 | 550 |
| O Iesu mawr, rho'th | 350 | 353 | | 450 |
| Tyred Ysbryd Glan | 351 | 354 | | |
| Na'd fi adeiladu'n | | 355 | | |
| Y llais fu gynt yn Eden | 353 | 356 | | 456 |
| **Anfon, Arglwydd, i'th gynhaeaf** | **354** | **357** | | |
| O blentyn y nefoedd | 355 | 358 | | 202 |
| Da iawn i wr yw | | 359 | | |
| Na roddwch flodau'ch | | 360 | | |
| O dewch, ieuenctid hoff, yn awr | | 361 | | |
| O filwyr ieuainc, dewch | | 362 | | |
| Trwy ddirgel ffyrdd | 360 | 363 | | |
| Yn nyfnder profedigaeth | 361 | 364 | 340 | |
| Yn mynwes glyd yr anwyl Oen | 362 | 365 | | |
| Clodforaf Enw Brenin nef | 363 | 366 | 284 | 300 |
| Diolchaf fi a chalon | 364 | 367 | 189 | 283 |
| Gwyn fyd y galon bur | 365 | 368 | | 85 |
| Ar dyner drugareddau | 366 | 369 | | 514 |
| O Arglwydd nef, tir | 367 | 370 | | |
| I ti, o Dduw, y gweddai parch | 368 | 371 | | 498 |
| Mawr ddyled arnom sydd | 369 | 372 | 451 | 499 |
| O Arlgwydd Ior, nawdd | 370 | 373 | 573 | 493 |
| Am gael cynauaf | 371 | 374 | | |
| Cydfoliannwn Dduw | 372 | 375 | 448 | |
| Coron hardd roist ar y | 373 | 376 | 575 | |
| O gyfoethog Dduw | 374 | 377 | | |
| Mae grasusau heb eu | 375 | 378 | | |
| I Dad y trugareddau | 376 | 379 | 449 | 495 |
| Filwyr ffyddlon Iesu | 377 | 380 | | 587 |
| Coronau gwych y ddaear | 378 | 381 | | |
| Mab Duw i ryfel | 379 | 382 | | |
| **O Dduw preswylio rwyt** | **380** | **383** | | **586** |
| Wele dy a adeiladwyd | 381 | 384 | | 519 |
| Bywha dy waith, O Arglwydd Mawr, Rho | 382 | 385 | 134 | |
| Mor deg yw'th bebyll di, O Dduw | 383 | 386 | | |
| **Ti'r hwn fendithiaist** | **384** | **387** | | |
| Duw teyrnasa ar y | 385 | 388 | 52 | |
| Drwy y bryniau tywyll | 386 | 389 | | 220 |
| Caned nef a daiar lawr | 357 | 390 | 444 | 349 |
| Aed Efengyl gras ar led | 388 | 391 | | 348 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llewyrched pur oleuni'r nef | | 392 | 38 | |
| Cyduned seintiau daear | 389 | 393 | 322 | 533 |
| Mae Eglwys Dduw trwy'r | 390 | 394 | 323 | 538 |
| Gwna fi fel pren planedig | 391 | 395 | 368 | |
| Dan dy fendith | 392 | 396 | 502 | 555 |
| Cofia, f'enaid, cyn it | 393 | 397 | | |
| Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau | 394 | 398 | | 275 |
| Mor ddedwydd yw y rhai | 395 | 399 | 456 | 585 |
| Derfydd imi deithio'r | 396 | 400 | | 476 |
| Paham y wylwn | 397 | 401 | 461 | 543 |
| Er mynd trwy fflam | 398 | 402 | | 524 |
| **Y mae cenhadon nef** | **399** | **403** | | |
| **Trwy ammheuon, pryder** | **400** | **404** | | |
| Disgyn, Iesu, o'th | 401 | 405 | 534 | |
| O Arglwydd galw eto | 402 | 406 | 496 | |
| **Bu ryfedd gweled Brenin nef** | **403** | **407** | | |
| **Yng ngweinidogaeth** | **404** | **408** | | |
| O tywallt i'n calonau | 405 | 409 | | |
| Gwyn fyd y dyn a gred | 406 | 410 | | |
| Agorwyd ffordd i'r nef | 407 | 411 | | |
| O Arglwydd Dduw, pob | 408 | 412 | | |
| Deuwch, bechaduriaid | 409 | 413 | 308 | |
| O am deimlo'th | 410 | 414 | | |
| O Dduw trugarog | 411 | 415 | | |
| Chwilio amdanat | 412 | 416 | 351 | |
| Pa beth yw cyfoeth | 413 | 417 | | |
| Angylion doent yn gyson | 414 | 418 | 25 | 253 |
| **Angylion disglair rif y ser** | **415** | **419** | | |
| O Iesu mawr, y Meddyg | 416 | 420 | 215 | 205 |
| Os ydwyf wael fy | 417 | 421 | | |
| Un ydyw'r Eglwys oll | 418 | 422 | 545 | 490 |
| Un sylfaen fawr | 419 | 423 | | |
| Arglwydd Ti sydd yn | 420 | 424 | | |
| Wele dorf y gwaredigion | 421 | 425 | | 532 |
| Pwy yw'r rhain, fel ser | 422 | 426 | | 530 |
| Nyni sy'n troi y meusydd | 423 | 427 | 578 | |
| Chwi ddiolchgar bobl | | 428 | 571 | 494 |
| Bedyddier ni, yn fawr a | | 429 | | |
| Dan gario'r groes ym | | 430 | | |
| **Ein Tad tragwyddol, gadarn Ior** | | **431** | | |
| **Dros arw for, mewn chwerw hin** | | **432** | | |
| Y mae gwlad sydd well | | 433 | | |
| **Ychydig flwyddau'n hwy** | | **434** | | |
| Mae pechod o bob | | 435 | 374 | |
| Am fod fy iesu'n fyw | | 436 | | |
| Hosanna, Haleluia | | 437 | | 414 |
| Aeth adre'r Meichiau mawr | 129 | | | |
| Ai Iesu mawr, ffrind dynol ryw | 109 | | 80 | |
| Anweledig, rwy'n dy garu | 198 | | 241 | |
| Arglwydd Dduw'r Gogoniant | 46 | | | |
| Arglwydd Iesu, arwain f'enaid | 186 | | | |
| Boed fy mywyd oll yn ddiolch | 192 | | 177 | |
| Cariad dwyfol, hedd tragwyddol | 215 | | 4 | 48 |
| Cydunodd pawb, trwy'r nef a'r llawr | 5 | | | 6 |
| Cyfarwydda'm henaid Arglwydd | 199 | | 364 | 99 |
| Daeth ffrydiau melys iawn | 225 | | 291 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dewch, hen ac ieuainc dewch | 285 | | 302 | |
| Duw anfeidrol yw dy enw | 167 | | | |
| Dy gnawd yw'r bara | 336 | | | |
| Dyma'r byd y mae taranau | 310 | | | |
| Dyna pam rwyf yn hiraethu | 191 | | | |
| Edrych, Arglwydd, o'th ogoniant | 76 | | | |
| Eneidiau sy'n flinedig | 155 | | 311 | |
| Er dy fod yn uchder nefoedd | 166 | | | |
| Er maint fy llygredd o bob rhyw | 241 | | | |
| Gorphenwyd ar Galfaria fryn | 260 | | | |
| Gristion Duwiol, paid ag ofni | 200 | | | 301 |
| Iesu yw tegwch mawr y byd | 233 | | 229 | |
| Llawn euogrwydd, llawn o ddychryn | 195 | | | |
| Mae banerau'r nef yn chwareu | 156 | | 41 | |
| Nef yw i'm henaid yn mhob man | 208 | | | |
| O deffro'n foreu, f'enaid gwan | 3 | | | |
| **O Dlysaf o'r ser sydd yn britho y nen** | **53** | | | |
| O fewn i'r Sanctaidd Air | 149 | | | |
| O foroedd o ddoethineb | 69 | | | |
| O Salem, fy annwyl gartrefle | 322 | | 430 | |
| O tyrd i ben, ddedwyddaf ddydd | 207 | | | 403 |
| O'r nef fe ddaeth llef ddistaw fain | 265 | | | 159 |
| Pa le dechreuaf ganu | 222 | | | |
| Pa le, pa fodd dechreuaf | 219 | | | |
| Pam y caiff bwystfilod rheibus | 352 | | | |
| Pe buasai fil o fydoedd | 275 | | | |
| Pererin wy'n y byd | 290 | | 385 | |
| Rho i mi yfed, rwy'n sychedig | 291 | | | |
| Rho im' gofio angau Iesu | 335 | | 438 | |
| Rhyfeddodau y cyfamod | 185 | | | 437 |
| R'ym wrth dy fwrdd, O Arglwydd cun | 344 | | 441 | |
| Tad oesoedd tragwyddoldeb | 41 | | | |
| Ti roddaist ini, Arglwydd mawr | 42 | | | |
| **Ti yr hwn, yn wael ei drem** | **38** | | | |
| Tyred, tyred, Iesu'n fuan | 211 | | | |
| Wrth fy nghuro gan y gwyntoedd | 193 | | | |
| Y nos sy'n awr gerllaw | 15 | | 491 | 16 |
| Ymdeithio'r ym wrth arch ein Tad | 282 | | | |

## Atodiad 5 - ei farddoniaeth eisteddfodol

**1849** Eisteddfod Aberffraw : Awdl y Gadair – 'Y Greadigaeth' (anfuddugol)
*Heb ei chyhoeddi*

Eisteddfod Aberffraw : Cywydd – 'Ddiffyniad Gibraltar gan General Eliott' (anfuddugol)
*Heb ei chyhoeddi*

**1850** Eisteddfod Rhuddlan : Cystadleuaeth yr Awdl – 'Boadicea yn arwain ei byddinoedd yn erbyn y Rhufeiniaid' **(buddugol)**
*Heb ei chyhoeddi*

Eisteddfod Beddgelert : Cystadleuaeth Cân Benrhydd – 'Chwedl "Llyn y Morynion"'
*Y Brython* Mai 1860, t.185 **(Cydradd fuddugol gyda Glasynys)**

**1854** Eisteddfod Ffestiniog : Cystadleuaeth Ariandlysog yr Awdl – 'Y Caethwas' **(buddugol)**
Blaenffrwyth Ardudwy : y cyfansoddiadau buddugol yn Eisteddfod Ffestiniog, 1854 (Bethesda, 1855), tt.2 - 22

**1856** Eisteddfod Llanelli : Awdl y Gadair – 'Y Sabath' **(buddugol)**
Detholiad o'r cyfansoddiadau buddugol yn Eisteddfod Llanelli, Gorph. 29, 1856 (Llanelli, 1856), tt.174-192

**1858** Eisteddfod Llangollen : Awdl y Gadair – 'Brwydr Maes Bosworth' (anfuddugol)
Elis Wyn o Wyrfai, Awdl Brwydr Maes Bosworth (Tremadog, 1859)

**1861** Eisteddfod Aberdâr : Awdl 'Cenedl y Cymry' (anfuddugol)
*Heb ei chyhoeddi*

**1862** Eisteddfod Caernarfon : Awdl 'Y flwyddyn' (anfuddugol)
*Heb ei chyhoeddi*

**1870** Pryddest y Goron, Eisteddfod Caernarfon – 'Gwareiddiad' **(buddugol)**
*Heb ei chyhoeddi*

**1877** Eisteddfod Caernarfon : Awdl y Gadair – 'Ieuenctid' (anfuddugol)
Elis Wyn o Wyrfai, 'Awdl i Ieuenctid', *Y Geninen* 1 (1883), tt.7-

**1878** Eisteddfod Birkenhead : Cystadleuaeth yr Arwrgerdd – 'Joshuah' (anfuddugol)
*Heb ei chyhoeddi*

**1880** Eisteddfod Caernarfon : Pryddest y Goron – 'Buddugoliaeth y Groes' **(buddugol)**
Y Farddoniaeth Wobrwyedig yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1880 (Caernarfon, 1880), tt.39-132

**1882** Eisteddfod Powys, Llangurig : Pryddest Gadeiriol - 'Eglwys Llangurig' **(buddugol)**
Elis Wyn o Wyrfai, 'Eglwys Llangurig : Pryddest Gadeiriol' *Yr Haul* Cyfres Caerfyrddin 26 (1882), tt.38-42

## Atodiad 6 - Marwnadau a cherddi teyrnged a moliant

Emynydd a'i enaid yn ddwyfol drydan,
Laned ei awen a'r eira ar Aran,
I Eglwys fy Ngwlad gwaddolodd ganiadaeth
Syml a swynol, o nef-ysbrydolaeth.

Wyla di, Walia Wyllt, am fab dy fronnau,-
Ysbryd pur garai dy hen Eisteddfodau ;
Noswylia, brif-gantor Eglwys fy Nhadau.[1]

Elis Wyn dirion, - dyma'r fro lonydd
Rydd gwsg i'r enwog hardd gysegr-weinydd;
Y doethor huawdl, y gwlad-athrawydd,
Llên firain awdur, dillyn feirniedydd;
Ar ei ôl, wladgar eilydd - deil iaith wen
Ei fydrog awen yn fyw dragywydd.[2]

Am Elis Wyn, y melys awenydd,
Mwy, wyla cryfion yn nhemlau crefydd:
Gweinidog addfwyn, a mwyn emynydd, -
Gwiw olau Iesu roes mewn eglwysydd:
Hardd ei urddau i'w hwyrddydd; - er marw,
Ni ryda enw'r bardd a'r diwinydd.[3]

Ciliai ym min Calan Mai: - i lys hedd
Elis Wyn o Wyrfai
Wahoddodd Duw; a haeddai
Ddilyn rheng y ffyddlawn rai.[4]
Elis Wyn! hudolus aidd - ei enw
Byth-annwyl sy'n beraidd;
Yn foledd trwy flwyddi traidd,
Lenorol enw iraidd.

Gwladgarwch hyglod gwron - a'i taniai'n
Mhlaid heniaith y Brython;
O deg waelod ei galon
Ymroddai am harddu hon.

Periglor pur i Eglwys - Iôn ydoedd,
A'i gweinidog cymwys;
A'i lân ddawn fe'n galwai'n ddwys
O ddu briffordd bro affwys.

Ei farn oedd ddeddf eisteddfod; - hyd ei oes
Oddi wrth dwyll ac anghlod
Tynnai ef; ei onest nod
Hoffid, seraff disorod.

Awenydd o eneiniad - natur oedd;
Trwy ei waith mae'n siarad;
Egwyl hir edmyga'i wlad
Lif ei dreiddiol fydryddiad.

Hardd lenor! ei ddylanwad - yn wyn sydd;
Ar fynwes ei hen-wlad
Ei enw mwyn fydd, tra mad
Afon Gwyrfai, yn gerfiad.[5]

Tra mae Hiraeth yn cyfeirio
At y bedd mae'r bardd yn huno,
Heria Serch un bedd i guddio
Enw annwyl Elis Wyn:
Trwy ei feddwl diwylliedig,
Ei athrylith ddyrchafedig,

---

1 Ap Ceredigion, 'Lacrymae Musarum', *Cymru* 18 (1900), t.59

2 'Darluniedydd', 'Beddargraph Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 14 (1896), t.278

3 Dewi Medi, 'Beddargraph Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 14 (1896), t.278

4 Diphwyson, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 18 (1900), t.180

5 Elfyn, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 16 (1898), t.35

A'i gymeriad ansigledig,
  Byw, er gwaethaf angau, fyn.

Fel murmura'r Wyfrai'i cheinion
Wrth ymdeithio tua'r eigion,
Sibrwd hedd yn nghlustiau meillion
  Wenant ar ei glenydd heirdd;
Canodd yntau faith ganiadau,
Oedd mor goeth eu meddylddrychau,
A'i dyrchafodd i binaclau
  Uchaf clod yn mysg y beirdd.

Addurn ydoedd i'r eisteddfod, -
Ar ei defod yn awdurdod, -
Beirniad medrus, a'i gydwybod
  Gyda dawn yn rhodio'n nghyd;
Cymro oedd yn ymhyfrydu
Yn holl sefydliadau Cymru, -
Oes o weithio i'w dyrchafu
  Fu ei fywyd yn y byd.

Diymhongar fel y Gwanwyn
Wrth addurno gruddiau'r dyffryn, -
Tyner fel y gwlith wrth ddisgyn
  I eneinio blodau'r ardd;
Tra roedd ffawd yn gwenu arno,
Llwyddiant yn rhoi 'i chwpan iddo,
A'i enwogrwydd yn blodeuo, -
  Mor ddiymffrost oedd y bardd.

Gwr fawrygodd eglwysyddiaeth;
Un a barchai Ymneilltuaeth;
Dedwyddoli y ddynoliaeth, -
  Dyna oedd ei neges ef.
Lles ysbrydol ei blwyfolion
Wreiddiai'n ddwfn yn serch ei galon,
A'i ddiddanwch oedd i'r tlodion
  Fel danteithiol fana'r Nef.

Coron Barddas yma gafodd
Pan i Gores yr Iesu canodd,
Gyda'i buddugoliaeth, roddodd
  Fri ar ben Calfaria fryn;
Coron euraidd anfarwoldeb
Wisga'n awr, yn mhresenoldeb
Duw a'r Oen, yn nhragwyddoldeb, -
  Dyna wobr Elis Wyn.[6]

Cawr awenydd coronog - ydoedd ef
        Gyda'i ddawn doreithiog;
  Beunydd, i grefydd y grog, - yn helaeth
  Rhoddai wasanaeth ei hardd oes enwog.[7]
Elis Wyn annwyl! oes hwn a wynai
Ei wlad a'i genedl, a'u clod a ganai;
Yn ei wisg gannaid at Iôn esgynnai,
A'i ufudd awen o'r nef a ddeuai;
Yn nawn oes huno wnâi, ac anrhydedd
Fydd i bridd oerfedd y Bardd o Wyrfai.[8]

Mi welais dduwies ieuanc
Yn wylo ar y waun;
A thebyg oedd ei llygad
I lygad pluen paun:
Roedd breuddwyd am ei thalcen,
Ac awel am ei gwallt;
Ac heibio'r awel, dros ei grudd
Disgynnai defnyn hallt:
Beth yw dy enw, dduwies liwgu?
Atebodd hithau - "Awen Cymru."

Mi wylai yn y briaill,
Mi wylai ger y ffrwd;
A'r haf o bell yn sefyll
Yn gwylio'i dagrau brwd:
A gofyn wnaeth yr Hafddydd
A gofyn wnaeth y Nos: -
Am bwy y wyli drymed
O Awen ieuanc dlos?
Ac ateb wnaeth o'r rhos lle cerddai: -
"Wylo am Elis Wyn o Wyrfai."[9]

---

6 G. Elwyn Jones, *Y Geninen* Eisteddfodol (1898), t.54

7 Glan Tecwyn, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 14 (1896), t.258

8 Glan y Wyrfai, 'Beddargraph Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 14 (1896), t.278

Yn nheml serch, am Elis Wyn – o Wyrfai,
Dagrau torf sy'n disgyn,
A thalaith bruddha'i thelyn
O'i gloi ef yng nghlai y glyn.

Bur wron! Mab Eryri! – ac mor wir
Gymreig â chlogwyni
Ei wlad hoff, i'w galwad hi
Ei ddawn fu'n ufudd weini.

Hygar ddyn, cysegrodd oes – i annog
Ei genedl rhag drygfoes,
Llwyr ei gred yng ngallu'r Groes
I droi enaid, drwy'i einioes.

Gwr byw, gwir geirwb awen, - a'i gerdd ef
Fel gardd ir Ceridwen;
Swydd ei ymgais ddiamgen
Fu puro a llwyddo'n llên.

Yn heddwch y mynyddoedd – maethai ef
Rym a thw'i alluoedd;
Dysgedig dwysog ydoedd,
A barnu'n iawn, brenin oedd.

Tra bore yn troi'r Berwyn, - tra gloewlif
Treigl Alwen trwy'r dyffryn,
Bedd dinoedd ni edwyn
Y tawel sant, Elis Wyn.[10]

Ddwysaidd awenydd! ei oes oedd union, -
Dyn llengar, astud, yn llawn o Gristion;
Arweiniai farddas, cloriannai feirddion, -
Mwynhâi ei genedl a'i meini gwynion;
A rhydd y wlad farddol hon - barch di-drai
I'r Gwyn o Wyrfai, tra cerrig yn Arfon.[11]

Elis Wyn, dlws awenydd, - a gwresog,
Rasol efengylydd:
O'i daith hardd daeth ei hwyrddydd;
A Gwalia'n drom-galon drydd.

Gŵr i Dduw, garodd Awen, - ydoedd ef
Hynod ddwys ei elfen;
A gonest was ddigynen,
Drwy ei oes, i'w frodir wen.

Gwyliodd ef ei "Gŵyl" ddifyr - fel noddwr,
Am flynyddau, 'n bybyr;
A dylanwad mad, fel myrr,
Ddylwythai 'i wedd a'i lythyr.

Dianair feirniad union, - angel-ŵr!
Rhoes, y' ngwlad ei galon,
Â'i selog lais, hwyliawg-lon
Rymus hwyl i'r "misolion".

Ei gerdd i'r "Groes," drwy'r oesoedd - lafur hael,
Fawrheir gan laweroedd:
Yn ei reddf pêr ganu roedd
Mewn heddwch rhwng mynyddoedd.

Union was! huna'n isel; - dymunol
Ydyw mynwent Dinm'el:
Fe orwedd, mwy brifardd mêl,
Yn ei daear yn dawel.[12]

---

9 Gwylfa, 'Cwyn Coll am Feirdd', *Y Geninen* Gŵyl Ddewi (1896), t.11

10 D. Machreth Rees, Geraint ac Enid a chaniadau eraill (Lerpwl, 1908), t.84

11 Murmur y Cwm, 'Beddargraph Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* 14 (1896), t.278

12 Trebor Aled, 'Elis Wyn o Wyrfai', *Y Geninen* Gŵyl Ddewi 1902, t.32

Ellis o ris i ris yr â
Uwch lleng o wyr dreng dringa
I deml awen; - pa nen uwch?
Ni wn gof o nen gyfuwch.
Ei dduwies a fydd awen.
Ymddengys yn ei llys llên;
Arglwyddol raglaw iddi
Fydd ef rhwng y nef a ni;
Daw i ro'i barn ar dri byd,
Oedd, - fu, - neu ddaw i fywyd.
A ddyry iddo wrhyd
I daflu am Gymru i gyd?
Bys a bawd i bwyso beirdd,
A thafol at waith hoywfeirdd;
Ni ddring o fardd rhyngo fo
Ac awen, neb i'w gowio.
Pa enw gaf, pwy'n ogyfuwch?
P'le i neb apelio'n uwch?
Geirionydd ger ei wyneb,
Ei fedd a wna – ni fydd neb!
Caledfryn dyn am dano
Yn wr trwm, ond ni wna'r tro!
Teifl ael at Dafol Ellis,
Fe â i lawr yn fil is;
Ni rydd Tâl, pan ddialo
Ddeudroed ar ei ddedryd o;
Ymbilia a'r mab Ellis,
Rhag ei ro'i mewn rhyw gwr is.
Un gwan fydd Ieuan Gwynedd,
Wrth Ellis, ar ris yr hedd;
Mân us fydd y Monwysion,
Un chwa o'i fant nycha Fôn;
Gwr uwch, hyd nef (gwarchod ni!)
Uwch na hwn ni chawn henwi;
Ellis addfwyn, lwyseiddfardd,
Tybia'n fwyn at Eben Fardd.[13]

---

13 Eben Fardd, 'Tlysau Beuno, sef detholion o weithiau Eben Fardd', (Caernarfon, 1902)

**Atodiad 7 - Lluniau**



# Ellis Roberts - Elis Wyn o Wyrfai











*(yn nhrefn y cloc)*

1 - Bedd Morris ac Elizabeth Roberts, rhieni Ellis

2 - Richard, gor-ŵyr Ellis, a'i wraig Valerie, yn sefyll wrthlaw dreser a fu ym meddiant Ellis yn Llangwm

3 - Y cloc a roddwyd i Ellis pan adawodd blwyf Rhosymedre yn 1866

4 - Eglwys Sant Ioan, Rhosymedre





*(ar y chwith)*

Eglwys Sant Mihangel,
Llanfihangel Glyn Myfyr

*(isod)*

Tafarn y Goron a'r bont uchel yn
Llanfihangel Glyn Myfyr





*(uchod)*

Y Persondy,
Llanfihangel Glyn Myfyr



*(ar y dde)*

Llun o Lanfihangel Glyn
Myfyr wedi ei dynnu o'r awyr



*(ar y chwith)*

Eglwys Sant Ierôm,
Llangwm



*(uchod)*

Plant y tu allan i ysgol Llangwm, c. 1890



*(ar y dde)*

Cynaeafu gwair yn Llangwm
tua chyfnod helyntion y Degwm



*(yn nhrefn y cloc)*

1 - Eglwys Santes Catherine, Dinmael (Maerdy) ger Llangwm

2 - Esther, ei wraig

3 - Coron Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1880 - a gipiodd am ei bryddest ar 'Buddugoliaeth y Groes'

4 - Pysgotwr ar yr afon Alwen - llecyn lle byddai Ellis efallai wedi treulio ambell awr o hamdden







## Llyfryddiaeth


Owain Alaw, Pencerdd; (geiriau Cymraeg gan Ellis Wynne), Dowch Mewn Trefn = Keep In Step; Rhan-gan, Pedwar Llais: Miwsig y Miloedd 35 (Wrexham, 1865)

Francis Wright Beare, The Gospel According to Matthew (Oxford, 1981)

Geraint Bowen (Gol.), Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif (Llandysul, 1976)

Geraint a Zonia Bowen, Hanes Gorsedd y Beirdd (Felindre, Abertawe, 1991)

Bernard Braley, Hymnwriters (London, 1987)

David R. Breed, The History and Use of Hymns and Hymn-tunes (New York, 1903)

Roger L. Brown, The Welsh Evangelicals (Tongwynlais, 1986)

" " David Howell: A Pool of Spiritually: A Life of David Howell (Llawdden) (Denbigh, 1998)

" " In Pursiut of a Welsh Episcopate (Cardiff, 2005)

Carnelian, Awdl ar Ddyn: Testun y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1882 (Pontypridd, 1882)

Hafina Clwyd, Pobol sy'n Cyfri (Llanrwst, 2001)

David Protheroe Davies, Arweiniad i'r Testament Newydd 1: Yr Efengylau a'r Actau (Caerdydd, 1978)

E.T. Davies, Religion and Society in the Nineteenth Century (Llandybïe, 1981)

John Davies, Hanes Cymru (Llundain, 1990)

J.Glyn Davies, Cerddi Edern a Cherddi Eraill (Lerpwl, 1955)

J.H. Davies (Gol), The Life and Opinions of Robert Roberts, a Wandering Scholar (Cardiff, 1923)

Hywel Teifi Edwards, A Guide to Welsh Literature, c.1800 - 1900 (Cardiff, 2000)

" " Codi'r Hen Wlad yn ei Hôl: 1850-1914 (Llandysul, 1989)

" " Yr Eisteddfod: Cyfrol Dathlu Wythganmlwyddiant yr Eisteddfod (Llandysul, 1976)

" " Gŵyl Gwalia: Yr Eisteddfod Genedlaethol yn Oes Aur Victoria 1858-1868 (Llandysul, 1980)

John David Edwards, Original Sacred Music (Carnarvon, 1836)

O.M. Edwards, Eben Fardd Cyfres Ab Owen (Llanuwchllyn, 1900)

Thomas Charles Edwards, Bywyd a Llythyrau y Diweddar Barch, Lewis Edwards (Liverpool, 1901)

William Edwards (Gol.), Cell Callestr (Trefriw, 1815)

Robert Ellis, Lloffion Awen Llyfnwy (Caernarfon, 1852)

D. Gareth Evans, A History of Wales: 1815 – 1906 (Caerdydd, 1989)

David Evans, Adgofion yr Hybarch David Evans, Archddiacon Llanelwy (Lampeter, 1904)

Hugh Evans, Cwm Eithin (Lerpwl, 1931)

John Evans, Cyssondeb y Pedair Efengyl (Bristol, 1765)

John Silas Evans, Seryddiaeth a Seryddwyr (Caerdydd, 1923)

Owen E. Evans (Gol.), Efrydiau Beiblaidd Bangor 3 (Abertawe, 1978)

John Fairchild, History of the Church Training College at Carnarvon & Bangor (Bangor, 1938)

Frederick C. Gill, Charles Wesley, the First Methodist (London, 1964)

S.R. Glynne, The Older Welsh Churches (London, 1903)

R. D. Griffith, Hanes Canu Cynulleidfaol Cymru (Caerdydd, 1948)

Robin Gwyndaf, Teulu, Bro a Thelyn: Portread o Ganwr Gwerin a Chynheilydd Traddodiad: Emrys Jones, Llangwm (Aberystwyth, 1997)

" " Uwchaled - cyfrol II, Cyfres Teithiau Llenyddol Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru (Caerdydd, 1994)

" " Y Ffynnon Arian: Cymdogaeth, Diwylliant a Chapel yn Llangwm, Uwchaled (Penygroes, 1996)

Marged Haycock, Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar
(Felindre, Abertawe, 1994)

Trevor Herbert a Gareth Elwyn Jones (Goln.), People and Protest (Caerdydd, 1988)

F.D. How, Bishop Walsham How: A Memoir (London, 1898)

W. Walsham How, Commentary on the Four Gospels (London, 1877)

Richard Rhys Hughes, Biographical Epitomes of the Bishops and Clergy of the Diocese of Bangor from the Reformation to the Reconstitution (Bangor, 1932)

William Hughes, The Life and Speeches of the Very Reverend J. H. Cotton, B.C.L., Dean of Bangor, and Rector of Llanllechyd (Bangor, 1874)

E. Morgan Humpherys, Y Wasg Gymraeg (Liverpool, 1945)

E. Wyn James, Carolau a'u Cefndir (Pen-y-bont ar Ogwr, 1989)

J. Spinther James, Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru (Caerfyrddin, 1896)

R. T. Jenkins, Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Caerdydd, 1933)

Aled Jones, Print, Language and Identity: Newspapers in Wales since 1804
(Aberystwyth, 2002)

Bedwyr Lewis Jones, Blodeugerdd o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Aberystwyth, 1978)

" " Yr Hen Bersoniaid Llengar (Penarth, 1963)

Cledwyn Jones, Mi Wisga'i Gap Pig Gloyw (Caernarfon, 2003)

D. Gwenallt Jones, Bywyd a Gwaith Islwyn (Lerpwl, 1948)

Dafydd Glyn Jones, Un o Wŷr y Medra: Bywyd a Gwaith William Williams, Llandygái, 1738-1817 (Dinbych, 1999)

David Jones (Gol.), Wales and the Welsh Church: Papers by Henry T. Edwards
(London, 1889)

Dewi Jones, Cynghanedd, Cerdd a Thelyn yn Arfon (Llanrwst, 1998)

E. Gurnos Jones, Awdl y Beibl, Buddugol yn Eisteddfod Freiniol Bangor, 1874
(Caernarfon, 1875)

Elwyn L. Jones, Gwaedu Gwerin (Dinbych, 1983)

Frank Price Jones, Radicaliaeth a'r Werin Gymreig yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Caerdydd, 1977)

Gwilym G. Jones (Gol.), Awelon o Uwchaled (Y Bala, 1980)

Ieuan Gwynedd Jones, Explorations and Explanations (Llandysul, 1981)

Iorwerth Jones, David Rees – Y Cynhyrfwr (Abertawe, 1971)

John Jones (Myrddin Fardd), Enwogion Sir Gaernarfon (Caernarfon, 1922)

John Gwilym Jones, Daniel Owen (Dinbych, 1970)

R.H. Jones, Drysau Eraill (Lerpwl, 1923)

R. M. Jones, Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Llandybïe, 1988)

R. Tudur Jones, Ffydd ac Argyfwng Cenedl Cyfrolau I a II (Abertawe, 1981)

Thomas Jones (Gol.) Astudiaethau Amrywiol a gyflwynir i Syr Thomas Parry-Williams (Caerdydd, 1968)

T. Gwynn Jones, Cofiant Thomas Gee (Dinbych, 1913)

T. M. Jones (Gwenallt), Llenyddiaeth fy Ngwlad (Treffynnon, 1893)

Thomas Tudno Jones, Awdl ar Ragluniaeth (Bangor, 1878)

W. R. Jones, Bilingualism in Welsh Education (Cardiff, 1966)

W. B. Joseph, Awdl y Meddwl: Yn Cynnwys y Pedair Mesur ar Hugain Cerdd Dafod (Conwy, 1880)

John Julian, A Dictionary of Hymnology: Setting Forth the Origin and History of Christian Hymns of all Ages and Nations (London, 1915)

George Lewis, Esponiad ar y Testament Newydd (Caerlleon, 1802)

Samuel Lewis, A Topographical Dictionary of Wales (London, 1833)

Saunders Lewis, Straeon Glasynys (Dinbych, 1943)

J. E. Lloyd ac R.T. Jenkins (Gol.), Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940 (Llundain, 1953)

Arthur Mee (Gol.), Who's Who in Wales (Cardiff, 1921)

Dilwyn Miles, The Royal National Eisteddfod of Wales (Swansea, 1977)

E.G. Millward (Gol.), Detholion o Ddyddiadur Eben Fardd (Caerdydd, 1968)

" " Eben Fardd (Caernarfon, 1988)

D. Densil Morgan, Cedyrn Canrif: Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru'r Ugeinfed Ganrif (Caerdydd, 2001)

" " The Span of the Cross (Caerdydd, 1999)

Dyfnallt Morgan (Gol.), Gwŷr Llên y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Llandybie, 1968)

Kenneth O. Morgan, Wales in British Politics 1868 – 1922 (Cardiff, 1963)

Prys Morgan (Gol.), Brad y Llyfrau Gleision: Ysgrifau ar Hanes Cymru (Llandysul, 1991)

R.W. Morgan, Scheme for the Reconstruction of the Church Episcopate and its Patronage in Wales (London, n.d.)

Stephen Neill, The Interpretation of the New Testament 1861 – 1961 (London, 1964)

David Owen (Dewi Wyn o Eifion), Blodau Arfon (Caernarfon, 1842)

David Owen (Brutus), Bugeiliaid Epynt (Caerdydd, 1950)

" " Wil Brydydd y Coed (Caerdydd, 1949)

Emyr Hywel Owen ac Elfed Thomas (Goln), Atlas Sir Gaernarfon (Caernarfon, 1954)

John Owen (Owain Alaw, Pencerdd); Welsh words by J. Ceiriog Hughes ; Translation by E. Roberts, Festiniog, The Prince of Wales cantata (Wrexham, 1862)

R. Llugwy Owen, Catecism Ar Swper Yr Arglwydd: I Ymgeiswyr Ieuaingc (Dinbych, 1871)

" " Cyfieithiad Cyfochrog o'r Rhufeiniaid: yn cynnwys 1.Un Dr. Morgan, y Fl. 1588; 2.Un Cymdeithas y Beiblau; 3.Un newydd gan Dr. Llugwy Owen (Conwy, 1903)

" " Y Drych a'r Ffynon: Sef nifer o bregethau (Conwy, 1901);

" " Hanes Athroniaeth y Groegiaid (Conwy, 1899)

"        "        Odlau'r Pumafon: Namyn Tri Triugain o Emynau Newyddion (Colwyn Bay, 1905)

Richard Parry (Gwalchmai), Awdl ar yr Adgyfodiad (Dolgellau, 1851)

R. Williams Parry, Cerddi'r Gaeaf (Dinbych, 1952)

Thomas Parry, Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900 (Caerdydd, 1944)

Thomas Parry a Merfyn Morgan (Goln), Llyfryddiaeth Llenyddiaeth Gymraeg (Caerdydd, 1976)

T. O. Phillips, Robert Roberts (Y Sgolor Mawr) (Cardiff 1957)

D. T. W. Price, A History of Saint David's University College Lampeter (Cardiff, 1977)

"        "        Hanes yr Eglwys yng Nghymru yn yr Ugeinfed Ganrif (Penarth, 1990)

John Pryce,        A History of the Early Church: A Manual (London, 1869)

"        "        The Ancient British Church: A Historical Essay (London, 1878)

"        "        The Church in Wales: A Letter (Bangor, 1872)

"        "        Yr Eglwys Foreuol / nodiadau gan John Pryce (Bangor, 1893)

D. Machreth Rees, Geraint ac Enid a Chaniadau Eraill (Lerpwl, 1908)

William Rees, Helyntion Bywyd Hen Deiliwr (Lerpwl, 1877)

Emlyn Richards, Hen Ysgol Eben Fardd - Ysgol yr Ail Gynnig (Caernarfon, 2004)

Gwynfryn Richards, A Fynn Esgyn, Mynn Ysgol (Penygroes, 1980)

Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfai), Awdl Y Caethwas (Bethesda, 1854)

"        "        Awdl Brwydr Maes Bosworth (Tremadog, 1859)

"        "        Awdl Farwnad Y Parch. John Williams (Ab Ithel) (Caerfyrddin, 1877)

"        "        Eglwys Llangurig: Pryddest Gadeiriol (Caerfyrddin, 1882)

"        "        Hymnau Yr Eglwys (Liverpool, 1886)

“ ” Hymnau Yr Eglwys - *argraffiad diwygiedig* (Caerfyrddin, 1892)

“ ” Er Coffadwriaeth Am Fy Ngwraig (Cyhoeddwyr anhysbys, 1892)

“ ” In Memoriam: My Wife (Cyhoeddwyr anhysbys, 1892)

“ ” Hanes y Cymry (Caernarfon, 1853)

“ ” Hanes y Groes (Llundain, 1891)

“ ” Yn Nghanol Gwlad Judea Dlos: Carol Nadolig (Caernarfon, 1872)

“ ” Yr Efengyl Yn ôl Sant Mathew: Gyd Ag Esboniad Ymarferol Byr, gan W. Walsham How; cyfieithwyd gan Ellis Roberts (Llundain 1883)

“ ” Yr Efengyl Yn ôl Sant Marc: Gyd Ag Esboniad Ymarferol Byr, gan W. Walsham How; cyfieithwyd gan Ellis Roberts (Llundain 1883)

“ ” Yr Efengyl Yn ôl Sant Luc, Gyd Ag Esboniad Ymarferol Byr, gan W. Walsham How; cyfieithwyd gan Ellis Roberts (Llundain 1883)

“ ” Yr Efengyl Yn ôl Sant Ioan: Gyd Ag Esboniad Ymarferol Byr, gan W. Walsham How; cyfieithwyd gan Ellis Roberts, a’i Fab, Ellis Gregory Roberts (Llundain 1891)

Enid P. Roberts, Detholiad o Hunangofiant Gweirydd ap Rhys (Llandysul, 1947)

[Morris Roberts], Ffurf yr Athrawiaeth Iachus neur Drych Apostolaidd: sef ymddiddan rhwng Thora a Hetel wedi ei brofi trwy yr ysgrythyrau, yn cadarnhau Bedydd mewn oedran; a amcanwyd yn attebiad i lyfr o waith T. Powel, gweinidog yr Efengyl yn Aberhonddu / gan un o aelodau y Bedyddwyr (Caernarfon, 1822)

T. R. Roberts (Asaph), Eminent Welshmen: A Short Biographical Dictionary of Welshmen (Cardiff & Merthyr Tydfil, 1908)

E.H. Rowland (Helen Elwy), A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen who Flourished from 1700 to 1900 (Wrexham, 1907)

Eryl Wyn Rowlands, Y Llew oedd ar y Llwyfan (Caernarfon, 2001)

John Rowlands, Ysgrifau ar y Nofel (Caerdydd, 1992)

Meic Stephens (Gol.), Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru (Caerdydd, 1997)

John S.P. Tatlock, The Legendary History of Britain: Geoffrey of Monmouth's Historia Britanniae and its Early Vernacular Versions (Berkeley, 1950)

D. R. Thomas, The History of the Diocese of St. Asaph, General, Cathedral and Parochial (Oswestry, 1913)

Dafydd Thomas (Dafydd Ddu Eryri), Corph y Gaingc (Dolgellau, 1810)

Ebenezer Thomas (Eben Fardd), Tlysau Beuno, sef Detholion o Weithiau Eben Fardd (Caernarfon, 1902)

Harriet Thomas (Gol.), Father and Son: Memoirs of Thomas Thomas, Canon of Bangor, Vicar of Carnarvon (Carnarvon, 1898)

John Thomas (Eifionydd), Pigion Englynion fy Ngwlad (Liverpool, 1882)

David Walker (Gol.), A History of The Church in Wales (Penarth, 1976)

Brooke Foss Westcott, A General View of the History of the English Bible (London, 1868)

A. Tudno Williams, Mudiad Rhydychen a Chymru (Dinbych, 1983)

Glanmor Williams, Grym Tafodau Tân (Llandysul, 1984)

G. J. Williams, Hanes Plwyf Ffestiniog o'r Cyfnod Boreuaf (Wrexham, 1882)

Harri Williams, John Phillips: Arloeswr Addysg (Llandysul, 1987)

Huw Llewelyn Williams, Safonau Beirniadu Barddoniaeth yng Nghymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg (Llundain, 1935)

Ioan Williams, Capel a Chomin: Astudiaeth o Ffugchwedlau Pedwar Llenor Fictoraidd (Caerdydd, 1989)

John Williams, On the Inexpediency, Folly and Sin of a 'Barbarian Episcopate' in a Christian Principality (London 1858)

Meirion Llewelyn Williams, Hanes yr Eisteddfod ym Môn yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, o 1800 hyd 1850 (Ynys Môn, 2006)

Morris Williams, Y Flwyddyn Eglwysig: Myfyrdodau Priodol i'r Suliau a'r Gwyliau Drwy'r Flwyddyn (Bala, 1843)

Peter Williams, Y Bibl Sanctaidd: Sef, Yr Hen Destament a'r Newydd, gyd a Nodau a Sylwiadau ar bob Pennod (Caerfyrddin, 1770)

Robert Arthur Williams (Berw), Gweithiau Berw (Penygroes, 1886)

W. Williams (Caledfryn), Awdl ar yr Adgyfodiad: Testun yn Eisteddfod Rhuddlan, 1850 (Llanrwst, 1851)

*(Awduron cyfun / anhysbys)*

Y Bibl Cyssegr Lan (Llundain, 1588 ac argraffiadau dilynol) ac Y Beibl Cymraeg Newydd (Swindon, 1988 ac argraffiad diwygiedig 2004)

Caneuon Ffydd (Caerdydd, 2001)

Caneuon y Degwm: Cyfansoddiadau Buddugol ... o "Baner ac Amserau Cymru" (Dinbych, 1887)

Crockford's Clerical Directory (London, 1947)

Emynau'r Eglwys (Caerdydd, 1941)

Emynau Hen a Newydd (Bangor, 1954)

Emynau'r Llan (Dinbych, 1997)

Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru (Bangor, 1897)

Hymnau a Thonau er Gwasanaeth yr Eglwys yn Nghymru (Llundain, 1866)

Hymnau a Thonau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1894)

Hymnau Hen a Newydd (Llundain, 1874)

Hymnau yr Eglwys (Liverpool, 1886)
Hymnau yr Eglwys (Caerfyrddin, 1892)

Hymns Ancient and Modern New Standard (London, 1983)

Llên y Llannau: Eisteddfodau 1982 (Y Bala, 1983)
Llên y Llannau: Eisteddfodau 1986 (Y Bala, 1987)

Llyfr Emynau a Thonau Y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd (Caernarfon, 1929)

Llyfr Emynau a Thonau Y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd – Atodiad (Caernarfon, 1985)

The Parish of Rhosymedre (Rhosymedre, 1988)

Reports of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales, Appointed by the Committee of Council on Education (London, 1847)

The St. Asaph Clerical Directory and Church Calendar, for the Year of our Lord 1863 (St. Asaph, 1863)

Welsh Church Tune and Chant Book (London, 1859)

Ysgrifau Beirniadol (Caerdydd, 1964 ymlaen)

*(Trafodion Eisteddfodol)*

Transactions of the Aberffraw Royal Eisteddfod, 1849 (London, 1849)

Blaenffrwyth Ardudwy: Y Cyfansoddiadau Buddugol yn Eisteddfod Ffestiniog, 1854 (Bethesda, 1855)

Caniadau Buddugol Eisteddfod Porth Madog, Dydd Llun y Pasg 1856 (Porth Madog, 1857)

Detholiad o'r Cyfansoddiadau Buddugol yn Eisteddfod Llanelli, Gorph. 29, 1856 (Llanelli, 1856)

Barddoniaeth Fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1877 (Caernarfon, 1878)

Y Ceinion Buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol 1878, a Gynhaliwyd yn Birkenhead (Liverpool, 1879)

Y Farddoniaeth Wobrwyedig yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1880 (Caernarfon, 1880)

Transactions of the Royal National Eisteddfod of Wales: Held at Cardiff, August 6th, 7th, 8th, and 9th, 1883 (Cardiff, 1884)

Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Aberdâr, 1885 (London, 1887)

Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol, 1887 (London, 1890)

Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod, Caernarfon, 1894 (Liverpool, 1896)

***Llawysgrifau***

Llyfrgell Genedlaethol Cymru:
Archif Hugh Evans
Llawysgrif 6402 D
Llawysgrif 8270
Llawysgrif 10187E
Llawysgrif 10440
Llawysgrif Anthropos
Llawysgrif Esgobaeth Llanelwy
Llawysgrif Lewis Llanrhystud 94 - 27

Prifysgol Cymru Bangor:
Llawysgrif Bangor 1636
Llawysgrif Bangor 4187 - 4190
Llawysgrif Bangor 4870
Llawysgrif Bangor 5018
Llawysgrif Bangor Broom Hall 57 (ii)

Archifdy Caernarfon, Gwynedd:
Dogfen xd2/22887
Dogfen xd2/23520
Dogfen xpe/25/299

Archifdy Meirionnydd, Dolgellau:
Dogfen Z/M/2532/1

Archifdy Sir Ddinbych, Rhuthun:
Dogfen DD/DM/673/6
Dogfen PD/58/1/11
Dogfen PD/65/1/20
Dogfen PD/65/1/21
Microffilm 483
Microffilm 524
Microffilm 727

***Cyfnodolion***

*Baner ac Amserau Cymru*
*Baner y Groes*
*Barn*
*Y Brython*
*Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru*
*Y Cerddor*
*Church Times*
*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*
*Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*
*Cylchgrawn Hanes Cymru*
*Y Cyfaill Eglwysig*
*Y Cymro*
*Cymru* (O. M. Edwards)
*Y Drysorfa*
*Y Dysgedydd*
*Y Dywysogaeth*
*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*
*Y Faner*
*Y Genedl Gymreig*
*Y Geninen*
*Y Greal*
*Yr Haul*
*Journal of the Historical Society of the Church in Wales*
*Y Llan*
*Llên Cymru*
*Y Llenor*
*The Record*
*Shrewsbury Chronicle*
*Y Traethodydd*
*Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*
*Transactions of the Caernarfonshire Historical Society*

***Traethodau Ymchwil***

Huw Tegid Roberts, Bywyd a Gwaith Robert Camber-Williams (MTh. Prifysgol Cymru Bangor 2002)

Robert Owen Roberts, The Life and Work of Dean Henry Thomas Edwards (1837-1884) (M.A. Prifysgol Cymru Bangor 1977)

***Traethawd heb ei gyhoeddi***

R. Glyndwr Williams, 'Elis Wyn o Wyrfai'

***Gwefannau***

www.anngriffiths.cardiff.ac.uk/mynegai.html

www.bartleby.com/223/0620.html

www.btinternet.com/~billevans/wilm/

www.ccel.org/s/schaff/encyc/home.html

www.cyberhymnal.org/htm/a/r/arttouw.htm

www.cymmrodorion1751.org.uk/pages/publications/beirdd.html

www.genuki.org.uk/big/wal/DEN/Rhosymedre

www.genuki.org.uk/big/wal/DEN/LlanfihangelGM/

www.genuki.org.uk/big/wal/DEN/Llangwm/

www.healthandstrength.org.uk

www.ifla.org/IV/ifla68/papers/048-127e.pdf

www.llechicymru.info/ComCultEisteddfod.cymraeg.htm

www.ruabon.com/cefnmawr.html

www.webedelic.com/church/hailf.htm

www.wikipedia.org

www.wrexham.gov.uk/welsh/planning_portal_w/publications/churches_exhib/churches_stjohnrhym.htm

www.zoominfo.com/directory/Roberts_Ellis_22392353.htm